


UNIVERSITY OF TORONTO



3 1761 01483161 4









PREGETHAU,

*Cynghorion Gweinidogaethol ac  
Anerchiadau.*

GAN

Y DIWEDDAR

BARCHEDIG HENRY REES,

LIVERPOOL.

---

Y DRYDEDD GYFROL.

---

TREFFYNNON: P. M. EVANS & SON

MDCCLXXXI.

[The right of Translation Reserved.]



# CYNNWYSIAD.

## PREGETHAU.

### PREGETH I.

YR ADGYFODIAD A'R BYWYD.

IOAN xi. 25, 26 : "Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Myfi yw yr adgyfodiad, a'r bywyd; yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw; a phwy bynag sydd yn fyw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd. A wyt ti yn credu hyn?" . . . . . I ✓

### PREGETH II.

ATHRAWIAETH Y GWIRIONEDD.

DIAREBION xxii. 17—21 : "Gogwydda dy glust, a gwrando eiriau y doethion, a gosod dy galon ar fy ngwybodaeth; canys peth peraidd yw os cedwi hwynt yn dy galon; cymhwysir hwynt hefyd yn dy wefusau. Fel y byddo dy obaith yn yr Arglwydd, yr hysbysais i ti heddyw, ïe, i ti. Oni ysgrifenisais i ti eiriau ardderchog o gynghor a gwybodaeth, i beri i ti adnabod sicrwydd geiriau gwirionedd, fel y gellit ateb geiriau y gwirionedd i'r neb a anfonant atat?" . . . . . 18

### PREGETH III.

TREFN GRAS YN SICRHAU SANCTEIDDRWYDD.

RHUFENIAID vi. 1—11 : "Beth gan hyny a ddywedwn ni? a drigwn ni yn wastad mewn pechod, fel yr amlhäo gras? Na ato Duw. A ninnau wedi meirw i bechod, pa wedd y byddwn byw eto ynddo ef? Oni wyddoch chi, am gynifer o honom ag a fedyddiwyd i Grist Iesu, ein bedyddio ni i w farwolaeth ef? Claddwyd ni gan hyny gydag ef trwy fedydd i farwolaeth, fel megys ag y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd. Canys os gwnaed ni yn gydblaniogion i gyffelybrwydd ei farwolaeth ef, felly y byddwn i gyffelybiaeth ei adgyfodiad ef; gan wybod hyn, ddarfod croeshoelio ein hen ddyn ni gydag ef, er mwyn dirymu corff pechod, fel rhagllaw na wasanaethom bechod. Canys y mae yr hwn a fu farw, wedi ei ryddhau oddiwrth bechod. Ac os buom feirw gyda Christ, yr ydym ni yn credu y byddwn byw hefyd gydag ef; gan wybod nad yw Crist, yr hwn a gyfodwyd oddiwrth y meirw, yn marw mwyach; nad arglwyddiaetha marwolaeth arno mwyach. Canys fel y bu efe farw, efe a fu farw unwaith i bechod; ac fel y mae yn byw, byw y mae i Dduw. Felly chwithau hefyd, cyfrifwch eich hunain yn feirw i bechod, eithr yn fyw i Dduw yn Nghrist Iesu ein Harglwydd" . . . . . 37

## PREGETH IV.

## CREFYDD DDIFFRWYTH.

IOAN xv. 2 : " Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynu ymaith ; a phob un a ddygo ffrwyth, y mae efe yn ei glanhâu, fel y dygo fwy o ffrwyth " . . . . . 55

## PREGETH V.

## AROS YN NGRHIST.

IOAN xv. 4, 5 : " Aroswech ynof fi, a mi ynoch chwi. Megys na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun onid erys yn y winwydden, felly ni ellwch chwithau onid aroswech ynof fi. Myfi yw y winwydden, chwithau yw y cangenau. Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer ; oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim " . . . . . 74

## PREGETH VI.

## CADWEDIGAETH YN DYFOD TRWY RAS, AC YN ARWAIN I WEITHREDOEDD DA.

EPHESIAID ii. 8, 9, 10 : " Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy fydd, a hyny nid o honoch eich hunain ; rhodd Duw ydyw : nid o weithredoedd, fel nad ymfrostiai neb. Canys ei waith ef ydym, wedi ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a ragddarparodd Duw fel y rhodiem ni ynddynt " . . . . . 86

## PREGETH VII.

## YMRODDIAD AC ARDYSTIAD O BLAID DIRWEST YN ANGHENRHEIDIOL AC YSGRYTHYROL.

PSALM cxix. 106 : " Tyngais, a chyflawnaf, y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder " . . . . . 103

## PREGETH VIII.

## TYSTIOLAETHAU DUW YN ETIFEDDIAETH I'R DUWIOL.

PSALM cxix. 3 : " Cymerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth, o herwydd llawenydd fy nghalon ydynt " . . . . . 138

## PREGETH IX.

## BYGYTHION DUW, A'I ALWADAU.

SEPHANIAH ii. 1, 2, 3 : " Ymgesglwch, ie, deuwech ynghyd, genedl anhawddgar ; cyn i'r ddeddf esgor, cyn i'r dydd fyned heibio fel peiswyn, cyn dyfod arnoch lid digofaint yr Arglwydd, cyn dyfod arnoch ddydd soriant yr Arglwydd. Ceisiwch yr Arglwydd, holl rai llariaidd y ddaear, y rhai a wnaethant ei farn ef ; ceisiwch gyfiawnder, ceisiwch lareidd-dra ; fe allai y cuddir chwi yn nydd digofaint yr Arglwydd " . . . . . 153

PREGETH X.

DONIAU CYFFREDINOL A GRAS CADWEDIGOL.

HEBREAID vi. 9 : “Eithr yr ydym ni yn coelio am danoch chwi, anwylyd, bethau gwell, a phethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth, er ein bod yn dywedyd fel hyn” . . . . . 168

PREGETH XI.

UFUDD-DOD EFENGYLAIDD.

HEBREAID vi. 10 : “Canys nid yw Duw yn anghyfiawn fel yr anghofio eich gwaith, a'r llafurus gariad yr hwn a ddangosasoch tuag at ei enw ef, y rhai a weiniasoch i'r saint, ac ydych yn gweini” . . . . . 181

PREGETH XII.

YR IAWN AGWEDD DAN GYSTUDDIAU.

HEBREAID xii. 5 : “A chwi a ollyngasoch dros gof y cynghor, yr hwn sydd yn dywedyd wrthych megys wrth blant, Fy mab, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd, ac nac ymollwng pan y'th argyhoedder ganddo” . . . . . 200

PREGETH XIII.

YR EFENGYL YN DYSGU SOBRWYDD.

TITUS ii. 11, 12 : “Canys ymddangosodd gras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn, gan ein dysgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon” . . . . . 218

PREGETH XIV.

Y PERYGL O ADFEILIAD ODDIWRTH GRIST A'R EFENGYL.

HEBREAID iv. 12, 13 : “Canys bywiol yw gair Duw, a nerthol, a llymach nag un cleddyf daufiniog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymmalau a'r mēr, ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon. Ac nid oes greadur anamlwg yn ei olwg ef, eithr pob peth yn noeth ac yn agored i w lygaid ef am yr hwn yr ydym yn son” . . . . . 237

PREGETH XV.

YR EFENGYL YN GALW I UFUDD-DOD FFYDD.

RHUFENIAID i. 5 : “Trwy yr hwn y derbyniasom ras ac apostoliaeth, i ufudd-dod ffydd ymhlith yr holl genedloedd, er mwyn ei enw ef” . . . . . 255

*CYNGHORION GWEINIDOGAETHOL AC  
ANERCHIADAU.*

	Tu dal.
Y GWEINIDOG I WYLIO ARNO EI HUN . . . . .	273
PAUL A TIMOTHEUS . . . . .	294
CYMHWYSDERAU A GWAITH Y WEINIDOGAETH . . . . .	324
CREFYDD BERSONOL YN SAIL DEFNYDDIOLDEB GWEINIDOGAETHOL	348
EGLWYS CRIST . . . . .	374
UNDEB CRISTIONOGOL . . . . .	390
DYLED3WYDDAU YR EGLWYS TUAG AT EI GWEINIDOGION . . . . .	415
PWYSIGRWYDD YMARFERIADAU DA . . . . .	443
GWELLIANT CYMDEITHASOL . . . . .	483
ARWYDDION YR AMSERAU . . . . .	498
GWEINIDOGAETH YR EFENGYL A'R YSGOL SABBOETHOL . . . . .	524

*Pregethau.*





## PREGETH I.

### YR ADGYFODIAD A'R BYWYD.

IOAN xi. 25, 26: "Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Myfi yw yr adgyfodiad, a'r bywyd: yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw; a phwy bynag sydd yn fyw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd. A wyt ti yn credu hyn?"

**Y** MAE'R geiriau hyn yn rhan o ymddyddan yr Arglwydd Iesu Grist â Martha, yr hon oedd yn awr mewn profed-igaeth drom o herwydd marwolaeth ei brawd. Yr oedd ei ffydd hi yn Nghrist yn gywir, ond yn wan ac anmherffaith, ac felly yn ei gadael hi yn ddigysur, ac yn gwynfanus, os nid yn ducharllyd, yn ei thrallod. Credai hi y gallasai Crist, pe mynasai efe, gadw ei brawd rhag marw; ac yr oedd hi yn tybied hefyd am dano, pe buasai efe yn wyddfodol yn gweled poenau'r brawd, a'u gofid hwythau'r chwïorydd, y buasai ei dosturi yn cyffroi, ac y lluddiasai i Lazarus farw. Ond yr oedd hi yn ymddangos yn siomedig am na ddaethai yr Iesu atynt pryd yr anfonasent ato. Efe, yr hwn yn wastad oedd yn barod i ddangos trugaredd, hyd yn nôd i estroniaid,—yr oedd yn syndod ganddi pa fodd yr ydoedd ef mor ddifater am danynt hwy oedd yn gyfeillion mynwesol ganddo, a'r rhai oedd hefyd yn deulu urddasol yn y byd, ac oddiar ddwylaw pa rai yr oedd efe wedi derbyn llawer o garedigrwydd. Hi a gredai hefyd y gallasai Crist godi ei brawd o farw. "Mi a wn hefyd yr awr hon, pa bethau bynag a ddymunech di gan Dduw, y dyry Duw i ti." Yr oedd ei ffydd hi fel hyn yn myned yn gryfach, ac eto yr ydoedd yn ddiffygiol. Nid oedd hi yn dirnad

fod ganddo ef fywyd ynddo ei hun fel Mab Duw, ac awdurdod fel Cyfryngwr i fywhâu y neb a fyno; ond yr oedd hi yn synio yn uchel am dano fel Prophwyd ac fel Cyfaill Duw, yr hwn y rhoddai Duw iddo yr hyn a fyno. Edrychai hi arno yn fwy fel Eiriolwr llwyddiannus ger bron yr orseddfainc, nag fel Tywysog yn eistedd arni, gan arglwyddiaethu ar y meirw a'r byw.

Ond y mae Iesu Grist yn gwellâu a chryfhâu ei ffydd. "Adgyfodir dy frawd drachefn," medd efe wrthi. Yr oedd efe yn ei chyfeirio at y wyrth fawr, gysurlawn iddi hi, yr oedd efe yn myned i'w gwneuthur, ond yn llefaru yn anmhenodol, er mwyn profi a thynu ymlaen ffydd Martha. Dywed hi, "Mi wn yr adgyfodir ef yn yr adgyfodiad y dydd diweddfaf." Yr oedd hi yn gwbl grediniol o hyn; ond yr oedd arni eisieu ffafr nês ati y pryd hwn. Daw, fel pe dywedasai hi, fe ddaw fy mrawd yn fyw drachefn yn niwedd y byd; ond beth pe dymunech di, Arglwydd, gan Dduw ar ei adgyfodi ef heddyw? "Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Myfi yw yr adgyfodiad, a'r bywyd;" a'r un peth i mi yw codi dy frawd heddyw â'i godi y dydd a ddaw. Myfi fy hunan yw canolbwynt, gwreiddyn, ac achos yr adgyfodiad. Yr adgyfodiad ydwyf yn bresennol yn fy mherson fy hun; ac wrth fywhâu Lazarus yn awr, mi a roddaf amlygiad a gwystl o'r gwaith mawr a wnaif y dydd diweddfaf. "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw." Caiff ei ysbryd fyw yn ddedwydd er i'w gorff farw, a chaiff ei gorff godi yn fyw eto. "A phwy bynag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi"—pwy bynag a gafodd y bywyd yn wir trwy gredu ynof—"ni bydd marw yn dragywydd;" bywyd, a dim ond bywyd, a fydd ei ran yn ei undeb âg Arglwydd a Thywysog y bywyd. Mae rhai yn cyfuno hyn â'r teitlau mewn modd gwahaniaethol. Myfi yw yr adgyfodiad; ac felly, "yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw." Myfi yw y bywyd; ac am hyn, "pwy bynag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd." Ond y mae'r naill yn rhedeg i'r llall. Y meirw yn Nghrist a gyfodant i fywyd anfarwol; ac, yn wir, nid marw mewn gwirionedd a wnaethant; er marw ar y ddaear, byw ydynt eto yn y nefoedd; ymddangosiad o farw ydoedd, ac nid gwir farw. Am farw yn yr ystyr briodol, ni bydd credadyn farw yn dragywydd.

"A wyt ti yn credu hyn?" 'Trwy yr appeliad hwn at Martha,

mae Crist, dybygid, yn cyffroi ei ffydd i ymorphwys ynddo yn fwy fel Mab Duw, a'r Messiah addawedig, ac felly i gofleidio yn galonog ei honiadau uchel am dano ei hun. "A wyt ti yn credu hyn?" Gyda ffydd gyffredinol am yr adgyfodiad, a wyt ti yn credu mai myfi yn bersonol yw yr adgyfodiad a'r bywyd? a elli di ddirnad fod pob un sydd yn credu ynof fi yn derbyn bywyd nad all marw mo'i ddwyn ymaith? "Dywedodd hithau wrtho, Ydwyf, Arglwydd; yr wyf fi yn credu mai ti yw y Crist, Mab Duw, yr hwn sydd yn dyfod i'r byd." Yr wyf yn credu hyny, ac felly yn credu pob peth a gynnwysir yn hyny. Gan mai ti yw y Crist, Mab y Duw byw, a'r Messiah a hir ddysgwylid, nid anhawdd yw i mi gredu mai ti yw yr adgyfodiad a'r bywyd.

Yr ydym yn galw sylw at y grediniaeth y lleferir yma am dani: "Hyn:" y pethau mawrion a ddywedir yn y testun—"a wyt ti yn credu hyn?" Sylwn yn

I. AR FATER Y GREDINIAETH.

II. ANSAWDD AC EFFAITH Y GREDINIAETH.

I. MATER Y GREDINIAETH: "Hyn," sef y dystiolaeth ogoneddus yn y testun. Beth a gynnwysa?

1. *Bod marwolaeth, yn ngwir ystyr y gair, wedi ei godi ymaith o gyflwr credadyn.* "Ni bydd marw yn dragywydd." Pwysleisir yr ymadrodd hwn gan rai, wrth ei ddarllen, mewn ffordd o geisio dangos y bydd credadyn farw, ond na bydd efe farw yn dragywydd, sef, er iddo farw yn naturiol, na bydd efe ddim yn ngafael y farwolaeth hono dros byth, gan yr adgyfodir ef yn yr adgyfodiad cyffredinol, neu ynte, er ei farwolaeth naturiol, na bydd efe ddim marw y farwolaeth dragywyddol. Mae hyny yn wir; ond mi dybygaf mai nid dyna wir yr adnod hon. Meddwl y gair ydyw, na bydd credadyn farw byth. Dyna'r meddwl, ni a welwn, sydd i'r dull hwn o lefaru gan Grist. Pan y dywed, "Pwy bynag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo, ni sycheda yn dragywydd," y meddwl yw, fel y gwelir yn amlwg, nid, na bydd efe yn sychedig yn wastadol hyd byth, gan y paid efe a sychedu rywbyrd, ond, na bydd arno byth syched. Ac mai felly y mae'r gair hwn i'w ddeall sydd eglur oddiwrth ymadrodd cyffelyb yn Ioan viii., "Os ceidw neb fy ymadrodd i, ni wél efe farwolaeth yn dragywydd;" yr un dull o lefaru ag a arferir am Enoch yn y llythyr at yr Hebreaid: "Trwy ffydd y symudwyd Enoch fel na welai farwolaeth." Ac

fel na chafodd efe gymaint â gweled marwolaeth, felly y bydd i bob un a geidw ymadrodd Crist; ni wêl hwnw farwolaeth byth. Beth bynag a wêl credadyn—ac efe a wêl gorff yn dychwel i'r ddaear fel y bu, a'r ysbryd at Dduw yr hwn a'i rhoes, ni wêl efe byth mo angeu yn ei wir natur.

“Cyflog pechod yw marwolaeth.” Pan yr aeth Duw i grynhoi trueni a phoenau cosbedigaethol troseddwr ei gyfraith i un gair, dyna'r gair cyntaf a arferodd: “Gan farw y byddi farw.” Gyda golwg ar y ddeddf a droseddwyd, gelwir y trueni yn *gosbedigaeth*; i ddangos chwerwder a drwg ei gynnwysiad, gelwir ef yn *felldith*; ond i ddangos dyfnderoedd y trueni, nid oedd gan Ysbryd Duw un gair mwy cynnwysfawr i'w alw na *marwolaeth*. Nid yw cosb a melldith pechod yn ddim llai na marw marwolaeth ofnadwy ei hystyr; marwolaeth sydd yn cyrhaedd holl berson y troseddwr, ac yn dragywyddol fel ei hanfod. Pan bechodd dyn, nid yn unig efe a syrthiodd dan farn marwolaeth, ond efe a fu farw; ac yn farw y mae efe, a marw a fydd efe byth os heb waredigaeth.

Mae'r farwolaeth wedi ymaflyd yn ei gyfansoddiad corfforol. Nid yn unig y mae yn agored i'r arfau angeuol âg y mae Duw wedi eu darpar a'u cadw iddo ei hun hyd amser cyfyngder, dydd ymladd a rhyfel, cleddyf, newyn, heintiau, a damweiniau, ymha rai ar amserau y gellir darllen cyfiawnder, gyda soriant yn ei wedd, yn rhoi miloedd yn dail i'r ddaear—nid yn unig, meddwn, y mae dyn mewn marwolaethau yn fynych yn yr ystyr yma, ond y mae angeu yn gweithio o'i fewn ef. Mae marwolaeth wedi lefinio ei natur o'r bru; dechreuodd farw pan y dechreuodd efe fyw. Cymaint o'i amser ag sydd wedi pasio, angeu a'i bwytaodd; a chymaint sydd eto i ddyfod, amser i farw ydyw. Mae dyn beunydd yn marw; beth bynag arall a wna, mae yn marw bob dydd. “Amser i eni.” A pha beth sydd wedi hyny? “Amser i farw.” Am bobpeth arall a wna dyn wedi ei eni, marw y mae wrth eu gwneuthur oll. Ac y mae yr orchwyliaeth i'r dyn annuwiol yn rhan o'i gosb. Ystyrier natur ei gystuddiau, yr hyn sydd yn cydfyned â hwy, a'r hyn sydd yn eu dilyn, ynddynt marw y mae ac y bydd.

Mae'r farwolaeth hon wedi ymaflyd yn enaid dyn. Ydyw, y mae dyfroedd gwenwynig y farwolaeth yma wedi dyfod hyd at yr enaid. Ac y mae'r farwolaeth ysbrydol hon yn cynnwys yr holl

drueni sydd yn cylchynu ysbryd dyn yn y bywyd hwn. Mae Duw ei einioes wedi cilio oddiwrtho ; mae cariad, y gallu a roed i ddyd i wasanaethu a mwynhâu Duw, wedi diflanu o'r galon ; ac yn hyny, dyna efe, gyda golwg ar Dduw, megys pe na byddai yn bôd, a chyda golwg arno ei hun, yn waeth na bod heb fod.

Wedi i ddyd ddarfod â Duw, mae ei holl awyddfyd yn troi at y creadur ; ac y mae hwnw, drachefn, dan felldith iddo, fel na chaiff efe wir foddlonrwydd mewn dim. A oes ganddo feddiant bydol ? y mae'r cyfryw feddiant wedi ymgysylltu âg ef yn ei serchiadau, yn troi fel Dalila i Samson, i'w boeni i farwolaeth. Os gwêl efe olud gan ei gymydog, mae cenfigen yn pydru ei esgyrn, ac yn ei ladd. Os yw yn amlhâu ganddo ef ei hunan, mae yn ymborth i'w lygredd, ac yn gweithio i'w ddinystrio yn dragywydd ; neu, os bydd yn ei golli, mae tristwch ar ei ol yn gweithio angeu. Os bydd yn cyfarfod â phoenau ac â siomedigaethau, mae yn ymddigio hyd angeu, yn chwanegu pechu yn erbyn yr Arglwydd, ac yn aml yn cablu Duw o dan ei bla.

O'r diwedd, wedi bod yn difuddio ei enaid oddiwrth ddaioni, yn tyru heb allu mwynhâu, ei holl ddyddiau yn bwyta mewn tywyllwch, mewn digter mawr, gofid a llid, dacw efe yn cael ei arwain at frenin y dychryniadau. Wele'r byd yn cilio, a'r enaid mewn tywyllwch a gofid yn wynebu tragywyddoldeb. "Dyddiau tywyllwch," yn ystyr waethaf y gair, yw angeu i'r annuwiol. "Yn y tywyllwch yr ymedy." Nid yn unig y mae ei gorff yn gystuddiol, ond mae ei enaid mewn ing. Nid yn unig y mae mewn cyfyng-gynghor, eithr yn ddiobaith. Nid yn unig y mae euog-rwydd yn ei erlid, ond y mae Duw wedi ei lwyrr adael. Nid yn unig y mae angeu yn bwrw ei dŷ o glai i lawr, ond y mae yn hyny yn cael ei ddyfetha. Ar ei ymadawiad â'r ddaear, mae ei enaid yn disgyn i uffern ; a phan y caiff y corff ei ail-uno âg ef, dyna farwolaeth, cân lleted â'i holl natur, a chyhyd â'i fôd, yn ymborthi arno mwyach. Os dywedir wrthyf nad yw dyn fel pechadur ddim yn teimlo mor druenus â hyn yn ei fywyd, minnau a ddywedaf nad yw'r dideimladrwydd hwnw yn ddim ond prawf o nerth y farwolaeth ysbrydol, ac ernes o'r farwolaeth dragywyddol sydd yn ei chanlyn.

Oddiwrth y farwolaeth hon, y mae'r credadyn wedi ei ryddhâu. Mab Duw a gymerth ein natur, ac a ymgysylltodd â'n hachos, a



thrwy ei ufudd-dod a'i angeu a wnaeth iawn i Dduw dros bechodau llaweroedd. Ac yn awr y mae credinwyr wedi marw y farwolaeth arswydlaun ynddo Ef yr hwn a fu farw drostynt. Am hyny nid oes dim marwolaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu. Mae barn angeu wedi ei symud oddiar eu personau, a'u henaid yn dechre byw yn yr Ysbryd Glân.

Mae yn wir fod yn anhawdd i'r rhai sydd yn barnu'r cwbl wrth y golwg gredu fel hyn am bobl dduwiol. Nid oes dim gwahaniaeth mewn ymddangosiad rhwng y cristion âg eraill; i.e., y mae yn fynych yn fwy profedigaethus yn y bywyd yma na'r annuwiol ei hunan. Beth er hyny? y mae natur ei brofedigaethau a'i gystuddiau wedi ei newid. Os ydynt yn felldithion o ran eu ffurf, bendithion ydynt mewn gwirionedd. Mae'r farwolaeth oedd ynddynt wedi ei symud; gorchwyliaeth Tad yr ysbrydoedd sydd yma, a *byw* ydyw effaith y cwbl. Paham y mae'r cristion yn aml yn frasach ei brofiad yn angeu nag yn ei fywyd? Bwyd sydd wedi dyfod iddo o'r hen fwytäwr, a melusder allan o'r cryf; Mab Duw ac yntau sydd yn cydwledda ar yspail y fuddugoliaeth. Am a wyddom ni, yr oedd dyfroedd Jericho yr un lliw a bläs wedi i Eliseus eu hiachâu âg oeddynt o'r blaen; ond pa fodd bynag, yr oedd eu natur wedi ei newid. Yn lle bod yn achos marwolaeth a diffwrthdra, dyma hwy weithian yn fywyd i'r holl dir. Yn gyffelyb y mae am brofedigaethau y saint. Yr un fläs ydynt i'r teimlad â phrofedigaeth rhywrai eraill; nid oes un cerydd i natur yn hyfryd, ond yn anhyfryd; ac er hyny, "mae yn rhoi heddychol ffirwyth cyfiawnder i'r rhai sydd wedi cynefino âg ef." Mae ceryddon ein Tad nefol, medd credinwyr, "er llesâd i ni, fel y byddem gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef." Maent hwy yn fyw serch eu bod yn cael eu rhoi yn wastad i farwolaeth; mae bywyd Iesu yn ffrydio trwy eu cyrff a'u heneidiau yn nghanol eu marwolaethau yn ac oddiwrth y byd. Os yw'r dyn oddiallan yn llygru, mae'r dyn oddi mewn yn cael ei adnewyddu o ddydd i ddydd. Maent yn gorfoleddu mewn gorthrymderau, yn derbyn cynnaliaeth oddi tanynt, a lles trwyddynt, ac yn mwynhâu gobaith gwaredigaeth oddiwrthynt. "Yr wyf yn llawn o ddyddanwech," ebe Paul gystuddiedig, "yn dra chyflawn o lawenydd yn ein holl orthrymder."

Mae'r rhyddhâd hwn oddiwrth farwolaeth, fe welir, yn perthyn

i'r holl gredinwyr fel eu gilydd. "A phwy bynag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd." Beth bynag fyddo ei sefyllfa yn y byd, pa fath bynag yw ei amaethiad meddyliol, pa un bynag ai ydyw yn gorfoleddu mewn sicrwydd gobaith, neu yn rhodio yn alarus gan orthrymder ofnau ac ammheuon, mae ei fywyd am byth yn ddiogel, mae marw wedi ei godi o'i gyflwr yn dragywydd, a hyny nid trwy ddim a wnaeth efe, ond trwy gredu yn yr Hwn a fu ufudd hyd angeu, i.e., angeu'r groes.

2. Mae yn gynnwysedig yn hyn, gredu *y bydd ysbryd y cred- adyn, ar ol marw, yn byw gyda Duw.* "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw." Y bywyd o ras a dderbyniwyd mewn adenedigaeth, nis gall marwolaeth y corff gyffwrdd â hwnw; ac yr oedd hwnw yn ddechre bywyd tragywyddol; ac wrth farw i'r ddaear, mae yr enaid yn myned i fywyd tragywyddol yn nef y nefoedd.

Rhaid i ni addef fod yr ystâd y byddwn ynddi yn fuan bellach —ystâd yr enaid rhwng marwolaeth y corff a'i adgyfodiad, yn un ddyeithr iawn i ni yn y fuchedd hon. Er nad amlygwyd i ni beth a fyddwn wedi yr adgyfodiad, eto ni a dybiwn y byddwn yn deb- ycach i ni ein hunain ar ol codi o'r bedd nag a fyddwn yn y cyfwng rhwng angeu a'r adgyfodiad. Byddaf yn ddyn, yn ddyn cyflawn, y bore hwnw drachefn; eithr ni byddaf felly tra yr aroso corff ac ysbryd ar wahan. Ond er mor ddirgel yw y sefyllfa ysbrydol yn y cyfwng rhwng hwyr marwolaeth â bore yr adgyf- odiad, gŵyr y cristion fod i'r cyfryw sefyllfa fodolaeth wir- ioneddol, a'i bod hefyd yn well ystâd na'r un bresennol.

Y mae credinwyr yn sicr am wirionedd neu *fôd* yr ystâd nefol, oblegid y maent hwy yn cymeryd Duw ar ei air. Y mae'r gair yn dangos fod gan Grist Dad, bod gan ei Dad dŷ, bod yn y tŷ hwnw lawer o drigfanau, fod Crist wedi myned yno i barotoi lle i'w deulu, a'i fod yn dyfod i'w cymeryd hwynt yno ato ei hun. Den- gys gair Duw iddynt hefyd fod ganddynt frodyr yn y trigfanau nefol, y rhai sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf, ac yn aros dan gysgod yr Hollalluog. Aeth dau, Enoch ac Elias yno, nid yn unig o ran eu heneidiau, ond o ran eu cyrff hefyd. Daeth dau, Moses ac Elias, i lawr o'r nefoedd i'r ddaear, i gyfarfod â Christ ar fynydd y gweddnewidiad; a dychwelasant yn ol i'r nefoedd

drachefn. Nerthodd a chyfaddasodd Duw lygaid Stephan, pan yr oedd yn nghanol ei erlidwyr gwaedlyd, fel y gwelodd efe nef y nefoedd. Ië, yr wyt ti yn credu, Stephan, am y fath le. 'Ydwyf, ond y mae genyf yn awr fwy na chredu; mae ffydd wedi troi yn olwg; mi welaf y nefoedd, a hono i mi yn agored; mi welaf ogoniant Duw, a'r Iesu, Mab y dyn, yn sefyll ar ddeheulaw Duw. O y Cyfiawn a'm Gwaredwr! dyna efe, nid yn y preseb, nid ar y groes, nid yn y bedd, ond ar ddeheulaw'r Mawredd, ac yno heddyw yn sefyll; sefyll yn barod i'm cynnorthwyo, sefyll i'm croesawu ato ei hun.' Fel hyn, y mae cyflwr o berffeithrwydd nefol yn bod yn sicr i'r saint. Da y gwyr credadyn na ddisgyn ei ysbryd i ddiddymdra yn angeu—na adewir mohono, wedi iddo fyned o'r corff, i grwydro yn yr äangderau dirfawr, wedi ei gollu ei hun. Mae yn dysgwyl am ddinas äg iddi sylfeini. Nid ymgilio i ddim, ac nid gwibio i rywle, y ceir ef ar ol awr marwolaeth, ond wedi myned i gartrefu gyda'r Arglwydd.

Y mae'r credinwyr yn deall hefyd am yr ystâd nefol, ei bod yn llawer gwell na'r ystâd ddaearol. Awgrymir hyn i ni yn yr enwau a gawn arni. Beth ydyw? Paradwys. Gardd yr Arglwydd i ddyn mewn diniweidrwydd ydoedd yr hen baradwys, lle yr oedd holl brydferthion y ddaear wedi eu cydgrynhoi, a'r cwbl yn gyfaddas i weini hapusrwydd i ddyn fel perchen corff ac enaid. Paradwys Duw yw nef y nefoedd, lle y bydd gogoniant digreuedig a thragwyddol y Duwdod yn disgyn fel goleuni ar bob prydfferthion eraill sydd o'i mewn; y cwbl yn dda, yn deg, yn ddymunol, a'r ysbryd yn eu mwynhâu yn ddedwyddach a pherffeithiach nag y medrai Adda fwynhâu hyfrydwch gardd Eden. Bendigedig fyddo Duw a'r Oen! medd yr enaid dedwydd; yma o bob pren ni a gawn fwyta, ac o bren y bywyd yn arbenig.

Gelwir hi hefyd yn fynwes Abraham. Beth yw myned i'r nefoedd? Plant yn myned i fynwes tad. Yno y cei di, enaid crediniol, dy ddwyn drachefn i gyfeillach dy hen frodyr a welaist ac a fwynhâist o'r blaen, a hono yn gyfeillach o'r fath agosaf, gynhesaf, a mwyaf mynwesol. Ac ynghyda hyny, ti a gei gyfeillachu â'r hen seintiau y buost yn darllen am danynt yn y Bibl, ac, yn wir, â myrddiynau na wyddost ti ddim am danynt erioed; ti a'u cei hwy yn cydagor eu mynwes i'th groesawu i'r tragwyddol bebyll.



A ydyw hyna oll yn rhy fychan i wneyd i fyny nefoedd lawn? Beth dybygech chwi, ynte, am hyn? "bod gyda Christ!" "Heddyw y byddi gyda mi yn mharadwys." Dyna a'i gwna yn nefoedd yn wir i gristion: cyfeillachu â'i Brynwr yn uniongyrchol, a gweled a chydfwynhâu ei ogoniant ef. Dyma beth yw "teyrnasu mewn bywyd trwy un, Iesu Grist:" cyfranogi o'r un bywyd â Christ, a hyny yn y modd mwyaf urddasol: byw, a theyrnasu mewn bywyd; cael ar unwaith ei fywyd ef a'i ogoniant ef.

I ni, y Cymry, gall y meddwl hwnw eto am yr ystâd nefol fod yn feddwl hoff a hyfryd: "cymanfa." Ië, myned i gymanfa—myned i'r *sasizwn*, yw myned i'r nefoedd, myned "i gymanfa a chynulleidfa y rhai cyntafanedig." Yma ni a welwn mai addoliad cymdeithasol yw'r sefyllfa nefol. Pwy yw gwrthddrych yr addoliad? "Duw, Barnwr pawb." Pwy yw cyfrwng yr addoliad? "Iesu, Cyfryngwr y testament newydd." Pwy yw yr addolwyr? "Myrddiwn o angylion, ac ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithwyd." Pawb a w'yr am addoli mewn dyledswyddau crefyddol a wyddant mai dyma yr hapusrwydd mwyaf sylweddol sydd i'w brofi yn y bywyd hwn, er fod yr addoliad goreu yma yn gymysg âg amherffeithrwydd a gwendid. Ond beth am addoliad perffaith nef y nefoedd? Gallem ddywedyd mai rhyw un oedfa fawr i'r enaid nefol a fydd yr holl dymmor o angeu hyd yr adgyfodiad; pob gorchwyl wedi darfod ond byw i Dduw; pob dydd wedi dybenu mewn un sabbath maith ei hŷd. Bydd yr ysbryd dedwydd yn ymdeimlo fel yr oedd Jeremiah ryw ddiwrnod wedi ei süo o'i drallodion i nefol hwyl; yn yr hwyl hono, O yr oedd efe yn hyfryd! ac wedi deffro o honi, yr oedd ei gof yn synio yn hapus am dani. Felly y bydd yr enaid yn y nef hyd fore yr adgyfodiad: crwydriadau'r myfyrdod wedi darfod, pob chwant a blys anianol wedi pallu, holl deimladau terfysglyd y galon wedi gostegu; Duw yn yr enaid, a'r enaid yn Nuw yn amgyffred gwirionedd, yn mwynhâu daioni, yn rhyfeddu gogoniant, yn addoli Duw yn ddiiflin a diball; felly yr un oedfa fawr felus yn para oes ar ol oes, yn ol cyfrif y ddaear. A phan ddêl yr adgyfodiad, bydd yr enaid dedwydd yn barod i ofyn, Pa beth! a ddaeth awr pryndigaeth y corff i'm cyfarfod eisoes? O mor ebrwydd! Ond oni wyddost, enaid llôn-synedig, fod oesoedd meithion laweroedd wedi pasio ar y ddaear er pan ddaethost ti yma? Wele, ynte, efe a all

ddywedyd, fel Jeremiah, "Ar hyn y deffröais, ac yr edrychais, a melus oedd fy hûn genyf."

3. *Perffithiad iachawdwriaeth yn adgyfodiad y corff* a gynwysir hefyd yn mater y grediniaeth hon. "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw." Yn ac wedi dydd angeu, efe a fydd byw o ran ei enaid, megys y nodwyd; ac yn yr adgyfodiad y dydd diweddaf, efe a ddaw i fyw hefyd o ran y corff; ac yna byw a fydd efe, gorff ac enaid, yn dragywydd. Dyma fywyd tragywyddol yn ei addfedrwydd bellach. Cafwyd yr hawl iddo yn y cyfiawnhâd; dechreuodd anadlu yn yr ailenedigaeth; rhoddwyd cam mawr tuag ato yn angeu; ac weithian wele efe wedi ei berffeithio. Heddyw dyma'r cynauaf ar ol y blaenffrwyth, y prunedigaeth yn gyflawn, y mabwysiad yn cael ei sicrhâu a'i ddadlenu ar gyhoedd, plant Duw wedi cyrhaedd eu llawn oed, dadguddiad meibion Duw wedi dyfod, pryd y mae wedi ei amlygu iddynt pa beth a fyddant hwy byth.

Nid oes un ammheuaeth na phetrusder i'w coleddu ynghylch y perffeithiad hwn. Mae cariad Duw, gallu Duw, a gwirionedd Duw, yn cydwaeddi uwch ben corff marw credadyn, "Rhaid i'r llygredig hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb." Rhaid cyfnewid y corff gwael, fel y gwneler ef yr un ffurf â'i gorff gogoneddus Ef, y Cyntafanedig oddiwrth y meirw. Rhaid dwyn y daearol greadur drwy'r byd, drwy angeu, a thrwy'r bedd, i'r digonolrwydd llawenydd sydd ger bron yr Arglwydd Dduw. Mae cyfammod Duw yn Nghrist, y cyfammod tragywyddol sydd wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr, yn peri nas gellir gadael cyrff y saint i orwedd dros byth yn llwch y ddaear. Buoch yn sylwi fel y gosodid yr arch, neu y coffr, ymha un yr oedd corff marw, i lawr yn y bedd wrth raffau; ac wedi doddi yr arch yn y gwaelod, gollyngid ymaith un pen i'r rhaff, a thynid hi i fyny oddiwrth yr arch cyn llanw y bedd â phridd. Gallwn ni ddywedyd am saint Duw, y rhai a wnaethant gyfammod âg ef trwy aberth, mai yn rhaffau'r cyfammod y bydd eu cyrff hwynt yn myned i lawr i'r gwely pridd, ac na thynir ymaith y rhaffau hyny o'r beddrod. Bydd corff y credadyn yn gorwedd o fewn rhaff y cyfammod na syfl, a bydd dau ben y rhaff yn aros yn nwyllaw Duw Hollalluog; ac yn more'r dydd diweddaf, efe a dÿn ei law, sef ei ddechulaw, o ganol ei fynwes, ac a ddwg y

llwyth gwerthfawr, meddiant prynedigaeth, o'r bedd i'r lân. Mae Duw wedi arfer *demandio* pobl ei gyfammod o bob man. Pharaoh, gollwng ymaith fy mhobl. Babilon, agor dy ddorau i Israel Duw fyned i'w gwlad. Ac efe a ddywed eto, Ogorf maes Machpelah, myfi yw Duw Abraham, Isaac, a Jacob, sydd â'u llwch yma yn gorwedd; dyro hwy i fyny i mi, canys dy feirw a fyddant byw. Ac felly y bydd am weddillion marwol holl deulu'r ffydd, pa le bynag y byddant.

“Cyfammod sy i'w codi i fyny 'n fyw.

“Er mynd i'r bedd, â'u gwedd yn ddigon gwael,  
Dwêd wrth eu llwch, Dowch, codwch, rhaid eich cael!”

4. Mae yn hyn grediniaeth *mai Iesu Grist yw awdwr a pherffeiithydd yr holl fendithion mawrion a ddygir yma ger bron.* “Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd.” Teitlau yw y rhai hyn nas gall neb eu llanw ond y Duw byw. “I'r Arglwydd Dduw y perthyn diangfâau rhag marwolaeth.” Pan ddarllenodd brenin Israel y llythyr oddiwrth frenin Syria ynghylch Naaman oedd wahanglwyfus, efe a lefodd, “Ai Duw ydwyf fi i farwhâu ac i fywhâu?” Pwy yw hwn, gan hyny, yr hwn a ddywed wrth Martha drallodus am farw ei brawd, “Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd?” Ai nid honiad gwag, neu ymfrost disail, yw y cyfryw ymadroddion yn ei enau? O nage! er y gallech feddwl nad yw efe ond Iuddew tlawd, eto sicr yw mai “hwn yw y gwir Dduw, a'r bywyd tragwyddol.” Dyna “y dyn, Crist Iesu,” mae yn wir; ac efe a wŷr ar y fynydd y dywed, “Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd,” y bydd efe farw, a marw o farwolaeth boenus a mell-digedig, a hyny ar fyrder bellach. Ond yn y cnawd yn unig y bydd efe wedi ei farwolaethu, a'r farwolaeth hono nis gall ei ddal ar ol deuddydd; ac yn ei gyfodiad oddiwrth y meirw, efe a wneir yn flaenffrwyth y rhai a hunasant. Dacw yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hyny yw diafol, yn arfer ei holl nerth a'i ystryw, i gael yr Iesu yn garcharor yn naeardŷ tywyll angeu; ond wedi ei ddwyn yno, buan y dangosodd efe mai buddugoliaethwr, ac nid carcharor, yno ydoedd. A'r un yw gorchfygwr marwolaeth âg awdwr anfarwoldeb; o herwydd “yr adgyfodiad a'r bywyd” ydyw; y naill fel y llall. Wele yr Adda diweddaf, yr hwn sydd yn ysbryd yn bywhâu. “Myfi a ddaethum fel y caent fywyd, ac

y caent ef yn helaethach." Y dydd y credodd pechadur yn Nghrist, y dechreuodd efe fyw i Dduw; y dydd y bydd efe yn huno yn Nghrist, y cychwyna ei ysbryd fyw yn nefoedd Duw; a'r dydd y cyrhaedda efe adgyfodiad bywyd trwy leferydd Crist, y bydd ei gorff a'i enaid ynghyd yn meddiannu gogoniant Duw. Wedi i'r enaid, pan oedd efe farw, gael ei fywhâu gyda Christ, byw ydyw; eto nid efe, ond Crist sydd yn byw ynddo ef. Gwyn eu byd pob un a'r a ysgrifenwyd ymhlith y rhai byw yn Jerusalem, y rhai a allant ddywedyd yn glodforus, "Crist ein bywyd ni," ac wrth ba rai y dywed efe yn ddyddanus, "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd!" Efe a gyfododd yr enaid yn gyntaf o fedd pechod a chamwedd, ac efe a gyfyd y corff yn ddiweddaf o fedd daearen. Teilwng ydyw fel hyn o'r enw mwyaf mawr. "Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd."

II. ANSAWDD AC EFFAITH Y GREDINIAETH. "A wyt ti yn credu hyn?" A wyt ti, Martha, yn derbyn fy ymadrodd hwn, nid fel mynegiad am beth a all fod, ond fel tystiolaeth am yr hyn sydd sicr? A elli di obeithio ynof o'r herwydd, a'th ddyddanu dy hun, a'th chwaer Mair, trwy'r gobaith hwnw? Ac a wyt ti yn barod i broffesu proffes dda yn fy ngalluogrwydd a'm ddylanwad ar fywyd ac angeu, ar y bedd ac ar y byd a ddaw?

Mae ein Harglwydd yn rhoddi'r cwestiwn i bob un o honom ninnau heddyw. "A wyt ti yn credu hyn?" A welaist ti ogoniant Crist fel yr adgyfodiad a'r bywyd, nes ei addoli ac ymddiried ynddo? A wyt ti yn argyhoeddedig nad oes wir gysur erbyn awr marwolaeth, na gwir obaith am y nefoedd, ond mewn undeb â'r Prynwr byw? Ai iaith dy galon ydyw, yn wyneb pob tentasiwn i ymado â chrefydd yr efengyl, "O Arglwydd, at bwy yr awn ni? genyt ti y mae geiriau bywyd tragywyddol." A elli di ffarwelio â'th geraint a'th gyfeillion duwiol yn yr hyder y caiff eich eneidiau yn fuan gwrdd â'ch gilydd gyda Christ, a'ch cyrff eu cydgyfodi ganddo ef y dydd diweddaf? Ac a elli di fyned i farw dy hunan mewn ffydd yn ei fywyd ef? "A wyt ti yn credu hyn?"

1. Os wyt ti, fy enaid, yn credu hyn, *yr wyt wedi bod yn chwilio, ac yn awr yn tawel orphwys, ar sicr seiliau y grediniaeth.* Nid oes odid neb, fe dybygid, heb fod ganddynt ryw fath o gred am yr ystâd ddyfodol. Ond y mae lliaws nad oes ganddynt am hyn

ddim ond y tybiau a dderbyniasant oddiwrth hynafiaid, heblaw rhyw syniad arwynebol fod natur yn rhoddi tystiolaeth i wirionedd byd a ddaw. Bod heb wadu yr hyn a ddywed yr efengyl am Grist, ac am fywyd ac anlygredigaeth,—dyna yr holl gredu sydd ganddynt hwy. Nid yw y rhai sydd yn cymeryd hyn yn ganiatäol, heb erioed edrych i mewn iddo, ddim yn wir gredinwyr. Nid ar gydsyniad ysgafn a rhad o'r fath y bydd dynion yn ymorphwys gyda phethau y maent yn barnu fod canlyniadau o bwys yn perthyn iddynt. "Twng wrthyf," ebe Jacob wrth ei fab Joseph, pan yr oedd efe yn addaw claddu ei dad yn meddrod ei dadau. "Gwna erof fi arwydd mai ti sydd yn llefaru wrthyf," medd Gedeon wrth Angel yr Arglwydd, pan ddywedodd efe, "Ti a waredi Israel o law y Midianiaid." "Wele fi yn dy iachâu di," medd yr Arglwydd trwy Esaïah y prophwyd wrth y brenin Hezecïah; "y trydydd dydd yr äi di i fyny i dÿ yr Arglwydd." Ië, ebe Hezecïah, "pa arwydd fydd yr iachâ yr Arglwydd fi, ac yr äf fi i fyny i dÿ yr Arglwydd y trydydd dydd?" Yr oedd ar y naill a'r llall eisieu'r sicrhâd cadarnaf am bethau mor bwysig yn eu golwg.

Felly hefyd y mae crïstion gyda mawrion bethau tragywyddoldeb. Mae natur yn dyweyd wrtho yntau y rhaid fod byd arall; y mae tystiolaeth o'i fewn mai nid fel anifail yn marw y bydd efe wrth ddarfod byw yn y byd hwn. Mae ei gydwybod wedi bod yn llefaru wrtho ei fod, fel pechadur euog a diesgus, wedi fforffedu dedwyddwch mewn byd arall. Bu efe mewn difrifwch a phryder yn gorfod gofyn, "Beth sydd raid i mi ei wneuthur fel y byddwyf gadwedig?" Trôdd o'i dywyllwch a'i drallod at y Bibl; ac yno cafodd fod y Duw mawr, cyfiawn, a sanctaidd wedi darparu ystâd o ddedwyddwch tragywyddol, nid ar gyfer dynion heb erioed droseddu deddf eu Crëawdwr, ond ar gyfer pechaduriaid, sydd ä'u pechodau yn aneirif. Mae efe wedi meddwl am ddinas iddynt äg iddi sylfeini, am wlad well, am etifeddiaeth yn y goleuni. Ac efe a anfonodd ei Fab i'r ddaear i agor ffordd i'w dwyn iddi. Haeddu marw, ac o dan rwymedigaeth i farw, yr oeddynt hwy; ond bu efe, Cyfryngwr y cyfammod newydd, farw yn eu lle, "megys trwy fod marwolaeth yn ymwared oddiwrth y troseddau oedd dan y cyfammod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol." Ac wedi iddo farw



drosom ar y ddaear, efe a aeth i fyw drosom yn y nefoedd. Ië, medd credadyn, mae Duw nid yn unig yn dyweyd yn ei air fod ganddo nefoedd i bob un a grêd yn ei Fab, ond y mae wedi rhoddi gwystl o dderbyniad i'r nefoedd, ac o ogoniant yn y nefoedd, yn ein Rhagflaenor a aeth yno yn ein natur ni, ac sydd yno bob amser gyda ein hachos ni. Paham, gan hyny, os wyf yn ymddiried ynddo ef, yr anobeithiaf am fy nerbyn innau i'r nefoedd ato? Gall fy natur i ddal gogoniant y nef; ac wele bellach nid yw euogrwydd pechod yn sefyll ar y ffordd; canys yr Eiriolwr, Iesu Grist y cyfiawn, yw yr iawn dros ein pechodau ni.

Ac am adgyfodiad y corff, gan fod Duw wedi dywedyd y gwna efe hyny, nid oes dim dadl nas gall efe ei wneuthur. "Pa beth? ai anghredadwy y bernir genych chwi y cyfyd Duw y meirw?" Pwy a alwodd grëadigaeth o ddim i fod yn y dechre? Pwy sydd yn estyn y nefoedd ei hunan, ac yn lledu y ddaear o hono ei hun? Pwy sydd yn barhâus yn adnewyddu wyneb y ddaear? Ië, y mae Duw nid yn unig yn gallu, ond wedi codi'r marw. Dyma efe wedi codi Iesu Grist o feirw. Ac "os ydym yn credu farw Iesu, a'i adgyfodi, felly y rhai a hunasant yn yr Iesu a ddwg Duw hefyd gydag ef." Wel, "a wyt ti yn credu hyn?" Ydwyf, medd cristion cywir, craffus; ydwyf, mi a gloddiais, ac a aethum yn ddwfn, ac a gefais graig yn sail i adeilad fy ffydd.

2. Os wyt ti yn credu hyn, *mae mater mawr dy grediniaeth wedi llyncu dy galon i'ldo ei hun.* Mae'r peth mwyaf yn ngolwg y meddwl yn dwyn y galon ato yn wastad. A pha beth sydd i'w gymharu â byw, dedwydd fyw am byth—cael y corff gwael, gwan, ac anianol, wedi ei wisgo â gogoniant, nerth, ac ysbrydolrwydd—mwynhâu ar ddeheulaw Duw ddigrifwch yn dragywydd? Nis gallwn fod yn credu hyn yn iawn heb fod hyny yn denu a meddiannu'r galon.

Yr ydym yn cael fod cariad y cristionogion cyntefig at Grist yn peri eu bod yn "caru ei ymddangosiad ef." Meddwl ei fod Ef, a ddirmygwyd gan y byd, ond yr anwylaf ganddynt hwy, i ymddangos eto mewn gogoniant, a'i saint mewn cyffelyb ogoniant yn ymddangos gydag ef,—yr oeddynt hwy, dan effaith hyny, yn ei ddsygwyl er iachawdwrïaeth, yn brysio at ddyfodiad dydd Duw, ac, yn wyneb ei fod ef yn dywedyd, "Yn wir, yr wyf yn dyfod ar

frys," yn ei ateb gydag awydd hiraethlawn, "Amen. Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu!" Mor wresog oedd serchiadau Paul tuag at Grist! ac mor hiraethlawn oedd efe am fod gyda Christ! "Ninnau hefyd y rhai f'm yn y babell hon ydym yn ocheneidio yn llwythog, yn yr hyn nid f'm yn chwennych ein dyosg, ond ein harwisgo, fel y llyncer yr hyn sydd farwol gan fywyd." Mae "genyf chwant i'm dattod, ac i fod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw." Ac yr oedd ei ffydd ef yn dwyn dydd Crist, er fod hwnw y dydd diweddaf, mor agos, fel yr oedd yn fynych yn colli golwg ar bob peth tu yma iddo. I ba beth, Paul, y rhoddaist dy hun i Grist? "I gadw erbyn y dydd hwnw." Paham y mynit ddiarddel o'r eglwys un a wnaeth weithred ddrwg? "Fel y byddo yr ysbryd yn gadwedig yn nydd yr Arglwydd Iesu?" Beth yw dy weddi dros gyfaill a'th arddelwodd ac a'th lonodd pan yn y carchar? "Rhodded yr Arglwydd iddo gael trugaredd gan yr Arglwydd yn y dydd hwnw." Pa gysur sydd genyt ar orpheniad dy yrfa, pan y mae amser dy ymddattodiad, a'th aberthiad fel merthyr, wedi nesâu? "O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw, ac nid yn unig i mi, ond i bawb a garant ei ymddangosiad ef." Pe delai eto yn amser o erlid tanlyd ar y wir grefydd, fe dynai hyny y dydd diweddaf fel dydd yr Arglwydd yn agos iawn atom ninnau, ac ni a ddyddanem ein gilydd â'r ymadroddion am dano. Ond gyda ffydd gref yn y dyddiau hyn, ein *business* penaf a fyddai masnachu â'r nefoedd, ac ni a ardystiem yn groëw, "Ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd, o'r lle hefyd yr ydym yn dysgwyl yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist."

3. Mae yn grediniaeth sydd yn cynnyrchu *ufudd-dod i Dduw a gweithgarwoch crefyddol*. Ffydd yn gweithio, ac yn gweithio yn dda, yw ffydd yn hyn. Mae yn deilwng o sylw nad yw Duw erioed wedi gofyn addoliad a gwasanaeth gan ddyn ond mewn cysylltiad âg addewid bywyd tragywyddol. Cafodd Adda, yn ei gyflwr o berffeithrwydd crëuedig, ei ddwyn i gyfammod â Duw, ymha un yr oedd bywyd yn addawedig, gyda gwystlon o hono; yna yr oedd efe yn difyr wasanaethu ei Dduw. Ond dyn a bechodd, a'r bywyd a gollwyd; a phan ddarfu gobaith am fywyd tragywyddol, fe ddarfu addoli yr un pryd. Ond dyma addewid

bywyd tragywyddol wedi ei dwyn yn ol trwy Grist fel Had y wraig; a dyma Grist, wedi ymddangos yn y cnawd, yn diddymu angeu, ac yn dwyn bywyd ac anlygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl. A pheth a ganlynodd hyny? Codi dyn i ail addoli a gwasanaethu yr Arglwydd. Os nad yw yn addoli mwy fel crëadur perffaith, y mae yn addoli yn ostyngedig a gwresog fel pechadur edifeiriol a chrediniol; addoli yn y byd presennol yn barotöad a chymhwysder i addoli yn y nef dragywyddol. Mae crediniaeth o'r byd a ddaw, ac o'r ystâd nefol ynddo, yn sicr o genedlu a chryfhâu ysbryd addolgar, a sanctaidd ymarweddiad. "Yn ol y ffordd y maent hwy yn ei galw yn heresi," medd Paul, "felly yr wyf fi yn addoli Duw fy nhadau; a chenyf obaith ar Dduw y bydd adgyfodiad y meirw. Ac yn hyn yr ydwyf fi fy hun yn ymarfer i gael cydwybod ddirwyrstr tuag at Dduw a dynion yn wastadol." Ac ni a'i cawn ef, wedi profi adgyfodiad Crist, a thrwy hyny sicrhâu adgyfodiad gogoneddus ei holl bobl, ac wedi bloeddio yn orfoleddus goncwest ar angeu a'r bedd, yn rhoddi yn annogaeth fywiog i'w frodyr cristionogol, "Am hyny, fy mrodyr anwyl, byddwch sicr a diymmod a helaethion yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, a chwi yn gwybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd." A ydyw ein ffydd ni yn cynnyrchu yr addoliad, yr ufudd-dod, a'r ymegniad sanctaidd hwn?

4. Mae yn effeithio *marweiddiad i'r byd hwn yn y serchiadau a'r dysgwyliaidau*. Os ydym yn credu yn yr hwn a orchfygodd y byd, ac a agorodd deyrnas nef i bawb a ymddiriedant ynddo, nid ydym yn dysgwyl gwynfyd ar y ddaear, nac yn meddwl cael gorphwysfa dan haul, ond yn arfer y byd hwn megys heb ei gam-arfer, gan gyrchu at yr orphwysfa sydd eto yn ol i bobl Dduw. Felly y dywedir am y Patriarchiaid duwiol: "Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll, heb dderbyn yr addewidion," heb dderbyn y cyflawniad o honynt; yr addewid fawr am y Messiah yn benaf, a'r bendithion a ddeuent i Israel Duw drwyddo; addewidion yn cyrhaedd ymlaen hyd at y Ganaan nefol; o herwydd yr oedd y rhai hyn yn dangos yn eglur eu bod yn ceisio gwlad well, sef yr un nefol. "Eithr o bell eu gweled hwynt." Dyma graffder ffydd: gweled ymhell y mae. "A chredu a chyfarch:" y galon grediniol yn ymasio â phethau mawrion yr addewidion. A pha fodd



yr oeddynt yn ymsynio am y byd a'i bethau? "A chyfaddef mai dyeithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaear." Ar ein taith tua'n cartref yr ydym; ac ni wiw i ni osod ein calon ar ddim sydd o'n hamgylch, ond anfon ein myfyrdodau, ein dymuniadau, a'n hocheneidiau o'n blaen i wlad yr addewid.

5. Mae yn peri *dyddanwch yn Nuw, ac ymlyniad wrtho, mewn cystuddiau a phrofedigaethau.* Ai nid wyt ti a'th frodyr, Paul, yn barod i ymollwng mewn digalondid dan eich holl ddyoddefiadau? Nac ydym ddim, eithr yr ydym yn gorfoleddu mewn gorthrymderau—gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw. "Oblegid yr ydwyf yn cyfrif nad yw dyoddefiadau yr amser presennol hwn yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir i ni." Marw beunydd yr ydym yma; ond trwyddo ef, yr Adgyfodiad a'r Bywyd, ni a gartrefwn mewn gwlad nad oes marw o'i mewn.

Wel, fy enaid, "a wyt ti yn credu hyn?" Ai rhywbeth tebyg i'r hyn a ddesgrifwyd genym yw dy grediniaeth di? "A wyt ti yn credu yn Mab Duw?" Mae ein testun yn dangos mai trwy gredu y mae pechadur yn dyfod i hawl a mwynhâd o'r bendithion anmhrisiadwy a gyfrenir gan Grist fel yr Adgyfodiad a'r Bywyd. Dyma yn unig yr hwn a fydd byw er iddo farw, ac na bydd marw yn dragywydd, medd ein Harglwydd: "Yr hwn sydd yn credu ynof fi." Ai nid ydym yn gweled mor agos atom yw trefn cadwedigaeth? Nis gallwn haeddu'r bendithion, ac y maent yn rhy werthfawr i'w prynu; eithr ceir hwynt yn rhad trwy gredu yn unig. Ond y mae hon yn gred â'r galon, cofier. Mwy nag argyhoedd-iad o wirionedd a rhagoroldeb trefn yr efengyl a'i Gwrthddrych mawr; mae yn y credu hwn roddi derbyniad calon i Grist a'i iachawdwriaeth, ac ymorphwysiad yr holl enaid arno am fywyd tragywyddol. Y mae hyn, fe welir, yn beth sydd o'r pwys mwyaf. O fy enaid, beth os ydwyf heb gredu hyd yn hyn? "Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol; a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd, eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef." Tydi, y digred a'r diofal, er y cyflwr isel yr wyt ynddo, gelwir arnat heddyw: "Deffro di yr hwn wyt yn cysgu, a chyfod oddiwrth y meirw, a Christ a oleua i ti." ✓

## PREGETH II.

ATHRAWIAETH Y GWIRIONEDD.

DIAREBION xxii. 17—21 : “Gogwydda dy glust, a gwrando eiriau y doethion, a gosod dy galon ar fy ngwybodaeth ; canys peth peraidd yw os cedwi hwynt yn dy galon ; cymhwysir hwynt hefyd yn dy wefusau. Fel y byddo dy obaith yn yr Arglwydd, yr hysbysais i ti heddyw, ie, i ti. Oni ysgrifenis i ti eiriau ardderchog o gynghor a gwybodaeth, i beri i ti adnabod sicrwydd geiriau gwirionedd, fel y gellit ateb geiriau y gwirionedd i'r neb a anfonant atat ?”

**F**E fernir fod yr adnodau hyn yn dechre rhaniad newydd yn llyfr y Diarebion, sydd yn cyrhaedd hyd ddiwedd y bedwaredd bennod ar hugain ; a dyma arweiniad i mewn, yn galw sylw at sicrwydd a gwerthfawrogrwydd yr hyn a gyflwynir i'r darllenydd, ac yn gofyn am wrandawriad ystyriol i'r addysg a gyfrenir. Da fyddai i bawb, ac i bobl ieuainc yn enwedig, astudio, cofio, ac ymarfer gwersi llyfr y Diarebion, sydd yn dysgu iawn lywodraethiad tymher, ymadrodd, ac ymddygiad, mewn modd cynnwysfawr a deniadol. Ceir yma adeiladaeth hardd o foesoldeb yn sylfaenedig ar wir dduwioldeb ; a'r neb a ddilyno gyfarwyddiadau y llyfr hwn a fwynhâ enw da oddiallan, tangnefedd oddimewn, a diogelwch ymhob amgylchiad. Ond y mae yr hyn a ddywed y testun am y Diarebion yn neillduol, yn briodol i'w ddywedyd am yr holl Ysgrhythyr yn gyffredinol ; ac felly ni a gymhwyswn yr hyn a draethir yma am y gyfran hon o'r gwirionedd at yr holl Fibl fel gair yr Arglwydd.

Mae fel hyn dri pheth yn ymgynnyg i'n sylw :

I. RHAGORIAETH YR ATHRAWIAETH A GANMOLIR.

II. NATUR Y DDYLEDYDD A GYMHELLIR.

III. GRASLONRWYDD YR AMCAN Y CYRCHIR ATO YN Y CWBL,  
I. RHAGORIAETH YR ATHRAWIAETH A GANMOLIR. Pa beth  
a pha fath ydyw? “Cynghor—gwybodaeth—geiriau y doethion  
—geiriau y gwirionedd—geiriau ardderchog.”

Gallwn edrych ar y testun fel cyfarchiad oddiwrth Dduw atom ;  
efe yn dywedyd wrth y darllenydd neu'r gwrandawydd, “Fy  
ngwybodaeth,” ac, “Oni ysgrifenisais i ti eiriau ardderchog o  
gynghor a gwybodaeth?” Felly y dywedai efe am yr Israel:  
“Mi a ysgrifenisais iddo bethau mawrion fy nghyfraith.” Am  
ysgrifenywyr sanctaidd y Bibl, nid oeddynt ond megys pinau  
ysgrifenu yn llaw yr Arglwydd; ei feddwl a'i awdurdod ef oedd  
ganddynt hwy.

Am yr athrawiaeth ysgrythyrol, ni a welwn yma, yn

1. *Uchelder ei tharddiad.* Gwybodaeth a gwirionedd Duw  
ydyw: “geiriau y gwirionedd.” Mae'r Bibl mewn ffordd o  
enwogrwydd yn cael ei alw, y gwirionedd, gair y gwirionedd,  
ffordd gwirionedd, a gair gwirionedd yr efengyl. Duw y gwir-  
ionedd a'i rhoes. Mae pob peth a briodolir i Dduw ynddo ef yn  
wirioneddol, hanfodol, a sylweddol; ac efe yw y ffynnon fawr o  
ba le y tardd pob gwirionedd. Ei gynghor a meddwl ei galon ef  
yw y gwirionedd dadguddiedig. Mae ei awdurdod ef ynddo, a'i  
argrafi a'i ddelw ef arno. Mae dyfnder ei gynnwysiad, sancteidd-  
rwydd ei duedd, a nerthoedd ei effeithiau, yn profi ei fod o Dduw.  
Adnabyddir dynion wrth eu gwaith; daw awdwyr i'r golwg yn eu  
hysgrifeniadau; felly y mae y fath argraffiadau o fawredd, sanct-  
eiddrwydd, gwirionedd, a daioni Duw yn yr Ysgrythyrau, fel na  
raid i ni ammheu dim am eu Hawdwr. Yr oedd y gau-brophwydi  
yn ceisio tadogi eu gwaith hwy ar Dduw, a llefarent debycaf âg  
y gallent i'w eiriau ef; ond nid oedd yno mo'r argraff Ddwyfol.  
“Beth yw yr us wrth y gwenith? medd yr Arglwydd. Onid yw  
fy ngair i megys tân, medd yr Arglwydd, ac fel gordd yn dryllio  
y graig? Wele fi yn erbyn y prophwydi, medd yr Arglwydd, y  
rhai a lyfnhânt eu tafodau, ac a ddywedant, Efe a ddywedodd, a  
mi heb eu gyru hwynt, ac heb orchymyn iddynt.” A oes eisieu  
tystiolaethau i Ddwyfoldeb y gair? “Fy nhystion i ydych chwi,”  
medd Duw wrth ei bobl. Y bobl sydd wedi teimlo yr ordd, y  
tân, a'r cleddyf—y rhai y goleuwyd eu meddyliau, y dihunwyd eu  
cydwybodau, y bywhäwyd eu heneidiau, ac y sancteiddiwyd eu

bucheddau, trwy'r gair, hwy a ddywedant am dano, Y mae Duw yn wir ynddo !

Am bethau gwir a sylweddol y mae yn llefaru. Nid dychymygon gwag ac ynfyd sydd ynddo, megys y ceir yn Coran Mahomet ; ond dywed am y gwir Dduw, y gwir Oleuni, cyfreithiau gwir, gwir sancteiddrwydd, gwir ras Duw, a'r gwir olud. Dengys i ni angeu, y farn, tragywyddoldeb, nefoedd ac uffern ; ac y mae yr amser yn agos, a sylwedd yr holl weledigaethau hyn. "Y prophwyd sydd â breuddwyd ganddo, myneged freuddwyd ; a'r hwn y mae ganddo fy ngair," medd Duw, "llefared fy ngair mewn gwirionedd ;" canys nid oes yma ond geiriau gwirionedd a sobrwydd.

Gwirionedd yw yr oll y mae yn ei dystiolaethu. Ymha le bynag y cawn dybiau a haeriadau disail, cawn y gwir, a'r holl wir, a dim ond y gwir, yn athrawiaeth y Bibl ; y gwir am gyflwr dyn wrth natur, am drefn achub trwy Grist, am ein dyledswyddau yn y byd hwn, ac am ein tynged yn y byd a ddaw. "Gwir eiriau Duw yw y rhai hyn ;" ac nis gall Duw fod yn gelwyddog. Nis gall fod felly oddiar ddrwg, o herwydd y mae yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd ; nac oddiar gamsyniad, am mai yr unig ddoeth Dduw ydyw ; nac oddiar anallu, canys y Duw hollalluog ydyw. Mae efe yn berffaith ei wybodaeth am bob peth. Pwy a all ddywedyd am Dduw yn well nag efe ei hun, yr hwn sydd yn ei adnabod ei hun yn llawn ? Pwy sydd yn dysgu fel y Prophwyd mawr, yn yr hwn y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth ? Gall efe draethu yn gywir am luniaethiad iachawdwriaeth ; oblegid yn Nghrist Iesu ein Harglwydd ni y gwnaethpwyd yr arfaeth dragywyddol. Gŵyr yn berffaith am grëadigaeth nefoedd a daear. "Pan barotôdd efe y nefoedd," medd ef, "yr oeddwn i yno ; pan osododd efe sylfeini y ddaear, yna yr oeddwn i gydag ef." Duw gwirionedd ac heb anwiredd yw Duw'r Bibl ; cyfiawn ac uniawn yw efe. Ac am yr oll a ragddywedodd, mae yn abl i'w gwirio yn y cyflawniad o honynt. Dyna yr holl brophwydoliaethau am y Messiah yn amgylchiadau ei enedigaeth, ei fywyd, a'i angeu, wedi eu cyflawni. Mae'r ddau Destament, fel y ddau gerub, â'u hwynebau bob un at eu gilydd, a'r naill a'r llall tua'r drugareddfa : un â'i brophwydoliaeth, a'r llall â'i gyflawniad—un gyda'r addewid, a'r llall gyda'r cwblhâd—un yn

rhaghysbysu pa beth a fyddai, a'r llall yn tystiolaethu pa beth a fu. "Wele morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab, ac a eilw ei enw ef Immanuel," medd y naill. "A hi," y forwyn, "a esgorodd ar ei mab cyntafanedig," medd y llall, y Ceidwad a anwyd yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd. "Yna yr agorir llygaid y deillion," ebe y naill. "Y mae'r deillion yn gweled eilwaith," ebe y llall. "Haul cyfiawnder a gyfyd i chwi," medd y naill. "Ymwelodd â ni godiad Haul o'r uchelder," medd y llall. Mae un yn pwyntio ymlaen at y trywanu, y diodi â'r finegr, y bwrw coelbren ar y wisg, y bedd gyda'r cyfoethog, yr adgyfodi, a'r esgyn i'r nef, fel pethau i ddyfod, a'r llall yn cyfeirio yn ol atynt fel pethau wedi cymeryd lle. Dyna sydd yn myned ymlaen yn awr mewn rhagluniaeth: gwirio yn sylweddol hen brophwydoliaethau'r Bibl. Ac felly hefyd yn hanes y duwiol yn bersonol, yn y profiad o'r cymmod, yr adfywiad, y cymhorth, a'r nawdd mewn dwfr a thân,—heddyw, medd efe, y cyflawnwyd i mi yr ysgrythyr a'r ysgrythyr. Ac felly y caiff yn nos angeu wrth farw, ac yn more'r farn wrth adgyfodi; bydd y saint yno yn seinio, Ni phallodd dim o'r holl bethau daionus a lefarodd yr Arglwydd ein Duw am danom ni; hwy a ddaethant oll i ni, ac ni phallodd dim o honynt! Geiriau y gwirionedd yw holl eiriau'r Bibl.

Peth arall sydd yn ganmoliaeth i athrawiaeth y gwirionedd, ydyw yn

2. *Cymhwysder ei chyhoeddwr.* Pa fath rai oedd yn ei dwyn allan i'r byd? Rhai wedi eu cymhwyso gan Dduw at y gorchwyl: "Y doethion." Duw a roes ddoethineb iddynt i wybod ei feddwl, ac i'w fynegu. "Geiriau y doethion" yw yr Ysgrythyr-au. Nid yn unig y mae'r dwfr bywiol wedi tarddu o ffynnon aruchel, ond y mae wedi rhedeg hyd atom trwy bibellau glân. "Dynion sanctaidd Duw a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân." Dynion yn ymroddi i ofn Duw, ac wedi eu neillduo ganddo i wasanaeth arbenig drosto, oedd traethwyr ac ysgrifenywyr y Bibl. Ac os benthyciodd Duw rai o hen gafnau Satan am dymmor, efe a ofalodd am gadw yn lân y dwfr a gludid ynddynt. Dacw efe yn glaer i ni o gafn Balaam, yn gystal ag o'r eiddo Esaïah.

Wrth astudio y gwirionedd cysegrlân, mae dyn yn gwrando ar eiriau y doethion; yr hen ddoethion enwog a ddysgwyd mor



neillduol gan Dduw gwybodaeth, wele hwy yn y dyddiau hyn yn llefaru yn ein clustiau ni. Yma y mae Moses eto yn adrodd hanes crëadigaeth, a gwyrthiau blynyddoedd deheulaw y Goruchaf, ac yn dysgu'r deddfau a'r barnedigaethau. Yma y mae llais Dafydd eto yn adsain, pan y mae mewn gweddi yn dyrchafu ei ddwyllaw tua'r gafell sanctaidd, neu yn cânu ardderchog foliant Duw. Yma y mae Solomon eto, yn ei fawr synwyr, ac oddiar ei lwyr brofiad, yn rhoddi'r cynghorion rhagoraf at iawn ymddwyn yn y bywyd sydd yr awr hon, gan gofio darpar at yr hwn a fydd. Yma y mae'r prophwydi eto yn rhagfynegu, a'r efengylwyr eto yn cofnodi; Paul eto heb ymattal rhag mynegu i ni holl gynghor Duw, ac Ioan yn aros hyd oni ddelo ei Arglwydd i ddangos y pethau sydd raid eto eu dyfod i ben. Mae llyfr Duw yn hen, ond heb heneiddio; mae yn fywiol a nerthol heddyw, yn llymach nag un cleddyf daufiniog, tra y mae ei dystiolaethau gyda hyny yn fwy dymunol nag aur, ië, nag aur coeth lawer; melusach hefyd na'r mel, ac na dyferiad diliau mel. A dyna'r peth nesaf sydd yma am yr athrawiaeth Ddwyfol,—

3. *Gogoniant ei chynnwysiad.* “Oni ysgrifenis i ti eiriau ardderchog o gynghor a gwybodaeth?” Mae yma bethau ardderchog mewn geiriau ardderchog. Trugaredd fawr i ni oedd cael pethau Duw mewn geiriau, a'r rhai hyny yn eiriau eglur a syml, hawdd eu derbyn gan y deall a'r galon. Mae rhai pethau gwael a gwag yn ymddangos yn hŏew mewn gwisgoedd gwyhion, a'r wisg yw'r cwbl; ond mae'r peth sydd hardd ynddo ei hun yn edrych yn well mewn gwisg syml, gyfaddas, nag yn ngorwychder addurniadau. Nid rhaid i'r efengyl wrth odidogrwydd ymadrodd a geiriau denu o ddoethineb dynol; dim ond mynegu tystiolaeth Duw fel y mae, fe geir hono yn ardderchog.

Yn athrawiaeth y gwirionedd, ceir pethau ardderchog hanfod Duw, ei natur, a'i briodoliaethau. Wele yma bethau rhyfedd y Drindod: Un Duw yn Dri Pherson, a Thri Pherson yn Un Duw; y Gair o'r dechreuad gyda Duw, yn dragywyddol genedl-edig Fab Duw. Pa fodd y gallwn gael gwybodaeth y Sanctaidd? “Pwy a esgynodd i'r nefoedd, neu a ddisgynodd? pwy a gasglodd y gwynt yn ei ddyrnau? pwy a rwymodd y dyfroedd mewn dilledyn? pwy a gadarnhâodd holl derfynau y ddaear? beth yw ei enw ef, a pheth yw enw ei Fab; os gwyddost?” Gwyddom ni

heddyw; canys yr “uniganedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a’i hysbysodd ef.” Yn ngair y gwirionedd, y mae genym ni feddwl Duw, a meddwl Crist. “Efe a fawrhâodd ei air uwchlaw ei enw oll.” Mae amlygiad uwch, gogoneddusach, a chyflawnach o Dduw yma nag yn un man. Dyna ysgrifeniadau yr hen Philosophyddion, y rhai a wnaethant y defnydd goreu o lewyrch crêadigaeth, o oleuni natur, i chwilio am Dduw; y rhai a ddilynasant gamrau naturiaeth i fyny cân belled ag y gallasant tuag at gael allan yr Achos Cyntaf. Yr oeddynt yn ddyinion rhyfeddol mewn doethineb, dysg, a myfyr. Ond cymherwch ffrwyth eu hymchwiliadau hwy â dadguddiad Ysgrythyr y gwirionedd, ac y maent fel goleu’r ganwyll fechan yn diffodd yn ngoleuni’r haul mawr. Aethant hwy yn ofer yn eu rhesymau wrth ymholi am Dduwdod; a “phan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid.” Ond y mae’r duwiol trwy’r gair yn adnabod Duw nes ei ogoneddu ef megys Duw; mae yma yn sefyll ac yn ystyried rhyfeddodau Duw, ac yn ymlonyddu mewn boddlonrwydd wrth y darganfyddiadau sancteiddiol.

Ceir yma bethau ardderchog y ddau dragywyddoldeb. O ben y Pîsgah hwn, mae’r cristion, drwy ysbïenddrych ffydd, yn gallu gweled i fynwes y ddau—y llunio iachawdwriaeth yn y tragywyddoldeb diddechre, a’r mwynhâu iachawdwriaeth yn y tragywyddoldeb diddiwedd, nes y mae yn ei gollu ei hun yn ddedwyddol yn y mawrion ryfeddodau. Mae’r llên wedi ei symud oddiar wyneb arfaeth dragywyddol Duw, fel y gallwn weled beth a fu cyn bod y ddaear, cyn gweithredoedd Duw erioed: y meddiannu, yr eneinio, y llawenychu yn nghyfaneddle’r ddaear, a’r hyfrydwch gyda meibion dynion: y trefnu Meichiau cyn bod dyled, y bwriad i wneuthur dyn sanctaidd, i brynu dyn euog, a phuro dyn llygredig, ac i gyfodi mewn gogoniant gorff a hauwyd mewn anmharch;—mae hyn oll wedi ei egluro i ni trwy yr Ysbryd yn ngair y gwirionedd.

Mae pethau ardderchog amser yn cael eu hamlygu yma. Y pethau mwyaf fu yn y byd erioed a ddangosir yn bethau mawrion y Bibl. Duw wedi ymddangos yn y cnawd—marwoldeb ac Anfarwoldeb, meidroldeb ac Anfeidroldeb, amser a thragywyddoldeb, dyndod a Duwdod, yn cyfarfod yn yr un Person,—dyma beth newydd ein daear ni, a’r hwn a bery yn newydd byth. Y

Cyfiawn yn dyoddef dros yr anghyfiawn—gwneyd yr Hwn nid adnabu bechod yn bechod, i'n gwneyd ni bechaduriaid yn gyfiawnder—dynion yn gwrthod, yn dirmygu, ac yn lladd Arglwydd y gogoniant, ac yntau trwy hyny yn eu prynu a'u diogelu hwy yn dragywydd—Duw yn dryllio ei Fab heb arbed, ac yn ei garu am gymeryd ei ddryllio, gan y tröai hyny yn iachâd i ddyinion o glwyfau marwol pechod: ymha le y mynegir y pethau hynod hyn? Yn ngair gwirionedd yr efengyl. Dyma lyfr rhyfel-oedd yr Arglwydd, lle y cawn hanes yr ymdrechfeydd trwy yr oes-oedd rhwng Tywysog llu yr Arglwydd a thywysog y byd hwn, ac yn enwedig y frwydr benderfynol ar Galfaria. Dacw gythreuliaid yn ymosod ar Sanct Duw â'u holl rym, ac yn ei ddwyn i'r groes, fel yr oedd arglwyddi y Philistiaid yn galw am Samson i dŷ Dagon i beri iddynt chwerthin, ac wrth hyny yn cael eu lladd; mae yntau yn yspeilio y tywysogaethau a'r awdurdodau, gan ymorfoleddu arnynt arni hi, sef ar ei groes ef. Dacw angeu yn ei holl arfogaeth yn ymosod arno, ac yntau yn myned trwy ei angeu yn angeu i angeu ei hun. Wedi gorwedd yn ei gastell tywyll, torodd ei gloïon, agorodd ei ddorau, trôdd ef o fod yn garchar i fod yn ystafell wely ei saint, gyda ffenestr yn ei mur i weled bywyd ac anllygredigaeth yr ochr draw. Rhyfelwr yw hwn y diflana yn ei mynl benrhyfelwyr y byd. O drefn ardderchog yw hon a arddangosir! dryllio yr iach i rwymo yr ysig, cosbi'r diniwed i arbed yr euog, uffern i Grist yn dwyn nefoedd i ni!

Dadguddiad y dirgelwch a geir yma; ac eto y mae pethau rhyfedd y gwirionedd yn awr yn ddirgelwch er eu dadguddio. Nid am nad yw yr athrawiaeth am danynt yn eglur y gelwir hwy yn ddirgelwch, ond am fod y pethau a gynnwysir ynddi yn aros yn rhyfeddodau diderfyn. Mae dirgelwch a rhyfeddodau y pethau sydd ar y ddaear yn diflanu wrth hir edrych arnynt; ond po fwyaf yr edrychom ar y pethau sydd o Ysbryd Duw, mwyaf yr ymddengys eu rhyfeddodau. Meddylw'n am y geiriau mwyaf adnabyddus i ni: Duw yn Nghrist, cyfiawnhâu yr annuwiol, y gwaed yn glanhâu, a'r cyffelyb; wrth chwilio iddynt cawn o hyd rhyfeddodau newyddion ynddynt. Y mae athrawiaeth yr efengyl fel trysorgist â phob *drawer* ynddi yn llawn o berlau; ac wedi agor y naill a'r llall, y mae yno ryw *recesses* dirgel, yn llawn trysorau, yn dyfod i'r golwg ar ol eu gilydd. Myned i mewn i'r



rhyfeddodau a fydd y nefoedd byth. Ni ddaeth un duwinydd na phregethwr o hyd i'r cwbl mewn un adnod erioed. Fel gyda gweithredoedd Duw, y dengys y chwyddwydr ryfeddodau o brydferthwch a manylwch mewn blodeuyn, ac mewn gwibedyn, felly gyda geiriau Duw; mae pethau lleiaf y Bibl yn fawr eu gwerth, eu gogoniant, a'u gwasanaeth. Nid oes neb yn abl i chwilio trysorau yr Ysgrhythyr i'r gwaelod. Tebyg yw'r gair i'r Duw a' rhoes, yr hwn y mae ei fawredd yn anchwiliadwy.

II. NATUR Y DDYLEDSWYDD A GYMHELLIR: "Gogwydda dy glust, a gwrando eiriau'r doethion, a gosod dy galon ar fy ngwybodaeth; canys peth peraidd yw os cedwi hwynt yn dy galon."

Dyma ymadroddion megys wedi eu pentyru ar eu gilydd, i osod allan yr hyn sydd rwymedig arnom, a'r hyn a ddsygwyllir oddiwrthym, tuag at y gwirionedd. Cynnwysir yn hyn, yn

1. *Astudrwydd i dderbyn y gwirionedd.* Pan fyddo dyn am ei osod ei hun yn esgud i wrando, efe a ogwydda ei glust i glywed pob sill a ddywedir, gan ei chyflëu, os gall, yn agos at wefusau'r llefarwr. Fel hyn y cawn Dduw yn dywedyd, pan y mae yn yr efengyl yn galw yn rasol ar bechaduriaid, gan gynnig iddynt fendithion ei gyfammod: "Gogwyddwch eich clust, a deuwch ataf; gwrandewch, a bydd byw eich enaid; a mi a wnaf gyfammod tragwyddol â chwi, sef sicr drugareddau Dafydd." Defnyddir y glust, fel y synwyr corfforol sydd yn clywed geiriau yn allanol, yn arwyddlun o feddwl a deall—o synwyr tufewnol yr enaid i ymgymeryd â phethau Ysbryd Duw. "Gogwydda dy glust:" dyro sylw dyfal i wirioneddau yr efengyl sydd yn cael eu hysbysu i ti; ymddeffro yn dy holl enaid i wrando gair yr Arglwydd. I ba beth y rhoed y glust wrth dy ben os nad i wrando'r pethau pwysicaf oll, y pethau sydd am dy fywyd byth? Paham y rhoed i ti alluoedd i ymwneyd â mawrion bethau deddf ac efengyl? nid, yn wir, i'w hesgeuluso. Os na feddi glustiau, nid wyf yn dy alw i wrando: ond â chlustiau genyt, oni chlywi ac oni ddealli? Felly y dywedai Crist, yr Athraw mawr, eilwaith ac eilwaith: "Y neb sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed." Yn sicr, ni roed y rhai hyn i ti, O ddyn, i'w cysegru i leisiau hudolus byd, cnawd, a diafol, ond i wrando arno Ef, yr hwn a'i rhoes. Yr oedd Duw yn dywedyd wrth y prophwyd Ezeziel, "Trigo yr wyt, fab dyn, yn nghanol tŷ gwrth-

ryfelgar, y rhai y mae llygaid iddynt i weled, ac ni welant; clustiau iddynt i glywed, ac ni chlywant." Clywed, yn iaith y Bibl, yw gwrando ac ystyried, gwrando a chredu, gwrando ac ufuddhâu; ac y mae eisieu yr astudrwydd mwyaf tuag at iawn wrando fel hyn. "Gogwydda dy glust:" Duw, dy Grëawdwr, dy Gynnaliwr, dy Iachawdwr, a'th Farnwr, sydd yn llefaru. "Gogwydda dy glust:" wrthyt ti yn benodol y mae efe yn llefaru, ac y mae anfeidrol bwys a gwerth yn y pethau a ddywed efe wrthyt. Nid yw efe yn ceisio iddo ei hun fwy oddiwrthyt nag a roddi yn rhwydd i'r gwaelaf o'th gymydogion. Pwy bynag o'th amgylch a sieryd wrthyt, dyna di yn rhoi clustymwrandawiad ac ystyriaeth i'r hyn a ddywedir. A pha beth? a gaiff Duw tragywyddoldeb di yn hwydrwm i wrando ar ei leferydd ef? a droi di ymaith oddiwrth yr hwn sydd yn llefaru o'r nef? a demti di'r Goruchaf i'th adael i fyddardod barnol, a dywedyd, "Gan glywed y clywch, ac ni ddeallwch?" Nage, fy enaid, eithr dywed gyda Samuel ieuanc, "Llefara, Arglwydd, canys y mae dy was yn clywed."

2. *Ymostyngiad i awdurdod y gwirionedd.* Pan y mae Duw yn tystiolaethu am anufudd-dod Israel, efe a ddywed, "Ni wrandawsant arnaf fi, ac ni ostyngasant eu clust, eithr caledasant eu gwarau." Felly gostwng y glust i wrando, yw ymostyngiad ewyllysgar i awdurdod Duw, ac ufudd-dod parod i'r hyn a orchymynir ganddo. Galwad sydd arnat yn y testun, fy nghyfaill, i drosglwyddo dy holl enaid i fyny i awdurdod Duw yn ei air. O pa faint sydd yn dyfod i farnu yr hyn a leferir, yn lle cymeryd eu barnu gan y gwirionedd! "Gogwydda dy glust:" yr wyt yn rhy uchel i Dduw siarad â thi. Mae efe wedi ymostwng hyd atat ti; bellach, dyro dithau heibio dy uchel drem, ac ymostwng o flaen ei ystoldraed ef, gan benderfynu, "Gwrandawaf beth a ddywed yr Arglwydd Dduw." Fel hyn y portrëadir saint y Goruchaf: "Hwy a ymlynasant wrth dy draed; pob un a dderbyn o'th eiriau." Mae'r balch ar ei orsedd yn ymdeimlo yn rhy ddyrchafedig i wrando ar yr Hwn a ddywedai, "Dysgwch genyf, canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon." Mae Duw, fel y galleid dysgwyl, yn gwrthwynebu y beilchion; "ond ar hwn," medd efe, "yr edrychaf, sef ar y truan a'r cystuddiedig o ysbryd, ac sydd yn crynu wrth fy ngair." Os oedd Martha yn

rhy drafferthus ynghylch llawer o wasanaeth i wrando ar y Prophwyd mawr, wele Mair yn eistedd wrth draed yr Iesu, yn gwrando ar ei ymadrodd ef, ac ar ei hennill yn wir trwy hyny; canys hi “a ddewisodd y rhan dda, yr hon ni ddygir oddiarni.” Ystum lednais a hoffus ar bechadur yw gogwyddo ei glust oddiar adwaen yr hyfrydlais. Dyma enaid sydd yn ymysgwyd o’i farweidd-dra, yn agor ei fynwes i’r gwirionedd, yn derbyn y gair trwy addfwynder, yn rhoi ei hun yn llaw yr Arglwydd, gan ddywedyd, Cymer fi fel yr wyf, O Dduw, Duw fy iachawdwriaeth, a gwna fi yr hyn y mynit fy nghael; difa fy llygredigaethau, sancteiddia fy holl gynneddfau, barna feddyliau a bwriadau fy nghalon; gorchymyn ac mi ufuddhâf. Nis gall lai na bydd i un o’r ysbryd hwn dderbyn bendith gan Dduw; oherwydd “y rhai llariaidd a hyfforddia efe mewn barn, a’i ffordd a ddysg efe i’r rhai gostyngedig.”

3. *Awyddfryd gwresog i bethau’r gwirionedd.* “Gosod dy galon ar fy ngwybodaeth.” Nid digon yw gosod y llygad a’r glust yn allanol mewn agwedd wrandawgar; rhaid iawn osod y galon tuag at gredu a derbyn y gwirionedd.

“Gosod dy galon” i *dđymuno* gwybodaeth yr efengyl. Bydded gogwydd dy serchiadau at y wybodaeth hon, cartref dy fyfyrddau arni, a hyfrydwch dy holl enaid ynddi. Mae gogwydd y gwirionedd yn ei athrawiaeth, ei addewidion, a’i orchymynion atat ti; gogwydded dy fryd di ato yntau. Y mae wedi tarddu o galon Duw; ac oni chaiff dderbyniad i’th galon di? Llythyr cariad Duw ydyw; ac onid hoff genyt glywed oddiwrtho, a chael newyddion da o wlad bell? Ni bu, ac nid oes y fath ymdrech mewn bod â’r ymdrech ynghylch calon dyn. Am y galon y mae’r byd; mae yn paentio ei wyneb, yn ymwisgo yn hardd, yn gwneyd addewidion teg, ac yn dangos ei drysorau, er mwyn denu’r serch. Ei ymgais sydd am le Duw yn y galon, a chael ei garu ganddi. Ac yn y galon y mynai’r diafol gadw ei neuadd. Ac wele Dduw hefyd yn galw, “Moes i mi dy galon.” Mae ei efengyl yn dangos ei goludoedd i’r enaid; ac ni chydbrisir hi âg aur pur. Dyma le i ti farchnata; “canys gwell yw ei marsiandiaeth hi na marsiandiaeth o arian, a’i chynnyrch hi sydd well nag aur coeth; gwerthfawrocach yw hi na gemau, a’r holl bethau dymunol nid ydynt gyffelyb iddi.” Yn ei bendithion hi y mae’r gwir olud, a’r

cyfoeth parhâus. Dacw fyd ac efengyl yn agor bob un eu trys-orau o flaen Dafydd; a dewisodd yntau oludoedd efengyl, ac a weddiodd, “Gostwng fy nghalon at dy dystiolaethau, ac nid at gybydd-dra.” Ac wedi iddo gael buddugoliaeth ar y byd, a gogwyddiad serch at air Duw, dyna efe yn caru'r gair yn fawr: “Mor gu genyf dy gyfraith di! hi yw fy myfyrdod beunydd. Mor felus yw dy eiriau i'm genau! melusach na mêl i'm safn.” Nid wyf yn edifaru i'r mesur lleiaf am fy newisiad. “Gwell i mi gyfraith dy enau na miloedd o aur ac arian.” Ac fel un ymron toddi gan wres mawr yn agor ei enau am awyr adfywiol, efe a ddywed, “Agorais fy enau, a dyhëais; oblegid awyddus oeddwn i'th orchymynion di.”

“Gosod dy galon” i *chwilio* gair y gwirionedd. Nid llawer elwach a fyddwn o'i chwilio os na bydd wedi ennill ein calon. Nid yw'r plentyn a edrycha ar ei wers yn unig rhag ofn y wialen yn debyg o ragori fel ysgolaig; ond yr hwn a gâr ei lyfr yw yr un a ddaw rhagddo mewn dysg. Gall y galon fyned ar ol ei heil-unod, a dyeithr-luniau gael eu tynu ar barwydydd y dychymygion, tra fo llygad y corff ar y Bibl; fel gwrandäwyr Ezeciel, â'u geneuau yn dangos cariad, ond â'u calon ar yr un pryd yn myned ar ol eu cybydd-dod. Pan fyddo'r galon yn fflam o ddymuniad am unrhyw wrthddrych, bydd yno lafur diffino am gyrhaedd yr hyn a ddymunir. Felly y darlunir y neb a ogwyddo ei galon at ddeall—at y wybodaeth sy'n cadw yr enaid, neu at grefydd y Bibl: mae efe yn gwaeddi ac yn codi ei lef am dani—yn gweddio yn ddyfal am ei chael, ac yn ei cheisio fel arian, chwilio am dani fel am drysorau cuddiedig—cloddio heb feddwl rhoi i fyny nes dyfod o hyd i'r fettel werthfawr. A chan hon y mae addewid am lwyddo: “Yna y cei ddeall ofn yr Arglwydd, ac y cei wybodaeth o Dduw.” A oes yna yr un os am y peth? Oes, y mae os o'n tu ni am ymdrechu: *Os* gwaeddi, os cyfodi, os ceisi, os chwili. Ond nid oes yr un os wedi hyny o du Dduw: “Yna y cei—y cei,” ydyw ganddo ef. Mae yn debygol mai gwaith digon anhawdd i w'r dyeithr yn Rhufain fawr oedd dyfod o hyd i Paul y carcharor, pryd nad oedd prinder carcharorion o bob math ar hÿd a llêd y ddinas; ond dyma gariad Onesiphorus yn penderfynu mynu ei weled a'i gysuro. “Pan oedd yn Rhufain,” medd Paul, “efe a'm ceisiodd yn ddiwyd iawn, ac a'm cafodd.” Fel hyn y

mae gyda chrefydd yr efengyl. Mae yr enaid a'i ceisio yn ddiwyd iawn yn sicr o'i chael, a chael ynddi ddigon byth. Ond i ti, enaid, osod dy galon ar yr iawn wybodaeth, "ti a gei wybod." Yr achos o'n tywyllwch ynghylch y Bibl yw, diffyg cariad ato yn peri diffyg llafur ynddo.

"Gosod dy galon" i'w *dal*: "Canys peth peraidd yw os cedwi hwynt yn dy galon." Ni ddigona y gair i ni yn y llyfr; nis cedwir mo honom trwyddo heb i ni ei gadw ef yn ein calon. Nid digon, ychwaith, yw i ni gadw'r gair yn ein deall na'n cof; rhaid ei gadw yn y galon fel eisteddle'r serchiadau. Tra y gadewir i ddeythrddyn ammhëus sefyll wrth y drws, derbynir y cyfaill caruaidd i'r ystafell nesaf i mewn; ac felly y dylem ninnau wneuthur â gair y gwirionedd. "Cymer y gyfraith, attolwg, o'i enau ef; a gosod ei eiriau ef yn dy galon." "Preswylied gair Crist ynoch yn helaeth." Y mae meddwl Duw a chalon dyn yn dyfod at eu gilydd yn yr adenedigaeth, nes y mae ei holl bobl â'i ffyrdd ef yn eu calon. Y galon adnewyddedig yw arch y dystiolaeth bellach, i gadw'r gyfraith yn ofalus; ac wrth i'r enaid ei chadw hi, bethau a'i ceidw yntau. "Deddf ei Dduw sydd yn ei galon ef, a'i gamrau ni lithrant." Ac os cedwir cariad y gwirionedd yn y galon, nis gall na chedwir ufudd-dod y gwirionedd yn y fuchedd. Ac O! "gwyn fyd y rhai sydd yn gwrando gair Duw, ac yn ei gadw." A dyna ein mater nesaf,—

III. GRASLONRWYDD YR AMCAN Y CYRCHIR ATO YN Y CWBL, neu, Y bendithion gwerthfawr sydd ynglŷn â gwneuthur iawn ddefnydd o athrawiaeth y gwirionedd; o herwydd fe welir y ceir yr efengyl yn ateb i holl anghen dyn o ran cyflwr, profiad, ac ymarferiad.

1. Mae'r gwirionedd yn *dadguddio i bechadur sylfaen gobaiith yn Nuw, ac yn cynnyrchu'r gras o obaiith yn ddo*. "Fel y byddo dy obaiith yn yr Arglwydd yr hysbysais i ti heddyw, i'e, i ti."

Y dadguddiad o Dduw yn nhrefn yr efengyl yn unig sydd yn rhoi sail i bechadur obeithio ynddo. Nid oedd dim wedi ymddangos yn un man a allasai beri i'r euog gael ei anadl, a chol-eddu hyder am fyw, nes i wirionedd yr efengyl ddyfod i'r golwg. Yr oedd, yn wir, ddigon o Dduw wedi ymddangos yn ei waith fel Creawdwr i beri iddo ef ei hun orphwys mewn boddlonrwydd, ac i alluogi dyn perffaith i gadw sabbath perffaith gyda Duw, yn



gystal ag i gynhyrfu ser y bore i gydganu, a meibion Duw orfol-eddu. Ond wedi i ddyn syrthio i bechod, nid oedd yna un dadguddiad iddo ef am fywyd. Ac felly pan nesiodd yr Arglwydd Dduw at Adda euog, wele efe yn ffoi oddiwrtho mewn braw ac anobaith. Y fath gyfnewidiad alaethus a barodd ei drosedd! Ychydig oriau yn ol, yr oedd dyn yn sugno ei nefoedd oddiwrth Dduw; ond yn awr nis gall oddef iddo ddyfod yn agos ato. O ddiwrnod tywyll! O ddaear wedi myned ar wedd uffern! Wrth edrych at y ddeddf a roddwyd i'r creadur, gwelir hono yn llawn gwg, a chlywir hi yn cyhoeddi'r ddeddfyd benderfynol, "Gan farw ti a fyddi farw." Ac wrth edrych i ddyn ynddo ei hun, môr o euogrwydd a thrueni sydd yno yn dygyfor. Ei esgyrn a wywodd, ei obaith a gollodd; torwyd ef ymaith o'i ran ef. Cymaint o Dduw sydd eto wedi aros yn ei fynwes,—mae hyny yn gwneyd ei deimlad yn fwy truenus; ei iaith ydyw, "Darfu am fy nerth a'm gobaith oddiwrth yr Arglwydd." Ond yn y fath gyfwng o dywyllwch dudew, wele'r doethineb oedd guddiedig yn Nuw yn cael ei ddadguddio—y cyngor grasol a orweddaï yn mynwes y Jehofah erioed, allan o gyrhaedd dyn ac angel, yn cael ei ddadblygu yn yr addewid am Had y wraig. Dyna yn awr ddrws gobaith wedi ei agor. Wele y wawr nefol wedi tori fel nad aeth byth yn dywyll nos ar ddyn drachefn; ac yr oedd y goleuni yn myned ar gynnydd yn barhâus. Daeth yn oleuach ar Noah, ac yn gliriach wedi hyny i Abraham, ac yn fwyfwy goleu i Moses a'r prophwydi; ac weithiau galledid meddwl ei bod yn gynnar wedi dyfod yn ganol dydd; megys pan waeddaï Esaïah, fel pe buasai gyda bugeiliaid Bethlehem Ephratah y nos Nadolig gyntaf a rhyfeddaf erioed, "Bachgen a aned i ni, Mab a roddwyd i ni—y Duw cadarn, Tad tragywyddoldeb,"—neu pan dystiolaethai fel pe buasai yn sefyll yn ymyl Ioan wrth groes Calfaria, "Efe a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni; yr Arglwydd a roddes arno ef ein hanwireddau ni i gyd." O'r diwedd daeth yr haul mewn gwirionedd i'r cylch canoldydd. "Duw a ymddangosodd yn y cnawd. Yr uniganedig Fab yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hysbysodd ef." Yn Mherson Crist, yn ei swyddau, yn ei athrawiaeth, yn ei wyrthiau, ac yn enwedig yn ei farwolaeth a'i adgyfodiad, cafwyd dangosiad llawn o Dduw a threfn ei ras.

A pha beth a ddygwyd gan y dadguddiad hwn i deulu dyn ymhob oes? Gobaith. Beth a gludir gan afon gwirionedd i ddinas Duw? Gobaith. Beth y mae udgorn efengyl yn ei seinio? Gobaith i'r tlawd—gobaith holl gyrau'r ddaear. Dyna ddyben yr ysgrifenu a'r cyhoeddi: "Fel y gosodent eu gobaith ar Dduw." Dyma y mae yr Ysgrythyr gyflawn yn ei gyflwyno i ni heddyw. "Canys pa bethau bynag a ysgrifenyd o'r blaen, er addysg i ni yr ysgrifenyd hwynt, fel trwy amynedd a dyddanwch yr Ysgrythyrau y gallem gael gobaith." Edrycher i holl gynnwysiad gair y gwirionedd, ac fe welir ei fod, tra yn sicrhâu'r gogoniant i Dduw, siom i Satan, a dinystr ar bechod, yn gweinyddu gobaith i ni. Mae yr oll a hysbyswyd yn dwyn i ni obaith.

Mae yr hysbysiad o enw Duw yn gymhwys i'n denu i obeithio ynddo. Y lliaws teitlau grasol a rydd efe arno ei hun, rhyw bethau fel dolenau ydynt, i obaith dyn gydio ynddynt. Yn hyn yr oedd yr eglwys ymhob oes yn cael cymhorth yn ol y rhaid. Pan yr oedd yr hen batriarchiaid, Abraham, Isaac, a Jacob, yn crwydro yn ddiameddiffyn yn nghanol gelynion, beth oedd yr enw a waharddai iddynt ofni a digaloni? "Myfi yw Duw Hollalluog." Pan ddaeth efe i waredu ei bobl o'r Aipht, a'u dwyn i Ganaan, gan gyflawni ei ddewidion iddynt, yr enw i ymddiried ynddo ydoedd, "Myfi yw Jehofah—yr Ydwyf yr Hwn Ydwyf;" un yn abl i gyflawni ei holl air, nid yn unig am Ganaan, ond am Grist, ac am y cwbl addawedig yn dragywydd. "Dangos i mi, attolwg, dy ogoniant," ebe Moses wrth yr Arglwydd. Ti a gei weled a chlywed digon am dy fywyd, oedd ateb Duw. "Gwnaf i'm holl ddaioni fyned heibio o flaen dy wyneb, a chyhoeddaf enw yr Arglwydd o'th flaen di." A pha beth oedd yr enw hwnw? "Jehofah, Jehofah, y Duw trugarog a graslawn, hwyrfydigi i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd; yr hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod." Yn awr mae ei enw yn llawn wedi ei amlygu yn Nghrist, a'r oll yn ei ddangos yn Dduw'r gobaith. Pa le y mae'r truan sydd yn rhodio mewn tywyllwch, ac heb lewyrch iddo? "gobeithied yn enw yr Arglwydd, ac ymddirieded yn ei Dduw." Pa le y mae'r gwan sydd yn ymdeimlo yn llesg a methedig? digon yw dywedyd wrtho, "Enw Duw Jacob a'th ddiffyno." Pwy sydd yn ei



gael ei hun yn nghanol enbydrwydd? cofied mai “tŵr cadarn yw enw yr Arglwydd; ato y rhed y cyfiawn, ac y mae yn ddiogel.”

Mae yr hysbysiad am raslonrwydd natur Duw yn peri i ni obeithio. “Tosturiol iawn yw yr Arglwydd.” “Aml yw ei drugareddau ef.” Yn ol y meddwl fydd genym am dymher a thueddfryd unrhyw ddyn y nesâwn ato, neu y ciliwn oddiwrtho. Credwn am Dduw yn ol y dadguddiad a ddyry’r gwirionedd o hono, ac nis gallwn ond nesâu yn hyderus ato. Clywch ef yn llefaru ynddo ei hun: “Ai mab hoff genyf yw Ephraim? ai plentyn hyfrydwch yw? canys er pan leferais i yn ei erbyn ef, gan gofio y cofiaf ef eto; am hyny fy mherfedd a riant am dano ef; gan drugarhâu y trugarhâf wrtho ef, medd yr Arglwydd.” Er mor annheilwng a gwrthnysig yr aethai Ephraim, er iddo ef adael Duw, yr oedd y Duw grasol yn methu ei adael ef. “Pa fodd y’th roddaf ymaith, Ephraim? y’th roddaf i fyny, Israel?” Er cymaint oedd y gwaith o grëu’r bydoedd a’r holl grëaduriaid, ni bu Duw yn gofyn, Pa fodd? Mae efe yn cynnal pob peth o’r dechre heb unwaith gwestiyna, Pa fodd? Ac hyd yn nôd pan yr oedd raid i’r cleddyf dysglaer ddeffro, a tharo a dryllio yr Unig-anedig a’r anwyl Fab, ni ddywedodd y Tad, Pa fodd? Ond wrth feddwl am roddi Ephraim wrthgiledig i fyny, mae graslonrwydd natur Duw yn ymgynhyrfu, ac yn gwaeddi, Pa fodd? ac o’r diwedd mae yn penderfynu nad oedd fodd iddo wneuthur hyny: “Ni chyflawnaf angerdd fy llid, ni ddychwelaf i ddinystrio Ephraim; cynys Duw ydwyf fi, ac nid dyn.” Gall gwreichionen o gariad mewn crëadur ennyn i fflaglu yn uchel, megys yn Dafydd pan yn galaru ar ol Absalom: “O fy mab Absalom,” medd efe, “fy mab, fy mab Absalom! O na buaswn farw drosot ti, Absalom fy mab, fy mab!” Ond beth am yr eirias danllyd o gariad yn Nuw? “Duw cariad yw.” A phaham y cyhoeddir hyn yn dy glyw di, bechadur? Yn ddiau, “fel y byddo dy obaith yn yr Arglwydd.” Os dywed dy anghrediniaeth, dy ofnau, a’th feddyliau caledion am Dduw, Nid oes bosibl maddeu i un mor fawr-ddrwg â mi,—cofia nas gall neb fod mor faddeugar â Duw. Arbed yn helaeth y mae, canys nid meddyliau dyn yw ei feddyliau ef, ac nid ffyrdd dyn yw ei ffyrdd ef.

Mae yr hysbysiad am drefn Duw i drugarhâu yn gwahodd ein

gobaith ynddo. Nid ydyw clywed beth ydyw efe yn ei natur fendigedig yn ddigon i bechadur a welodd ysgelerder ei bechodau. Ië, medd yr enaid argyhoeddedig, mi a wn fod y Duw mawr yn ffynnon pob daioni, a bod ynddo ddigon i wneuthur creadur sanctaidd yn ddedwydd byth. Ond mae yr hyn sydd yn nefoedd i'r sanctaidd yn uffern i'r ansanctaidd. Er yr holl raslonrwydd sydd yn ei natur ef, mae cynylau fy mhechodau i yn rhwym o rwystro y llewyrch grasol i belydru arnaf; mae cyfiawnder Duw a'i ddeddf ar ffordd ei ras i mi; rhaid i mi fod fel un yn gweled y bwyd heb ei brofi, neu un yn trengu yn ymyl y ffynnon. Nage, bechadur trist; mae genym fwy na dangos Duw yn ei natur i ti; tyred a gwel ef yn ei drefn; edrych arno fel Duw yn Nghrist. Beth bynag ydyw efe yma, hyny ydyw efe i bechadur. Mae gobaith yn ymwithio ymlaen nes myned o'r tu fewn i'r llen, lle y cenfydd lechau'r gyfraith yn dawel a dystaw mewn arch, sydd â thrugareddfa wedi ei thaenellu â gwaed yn gauad arni; yma y mae Duw yn ei ogoniant yn cyfarfod â phechadur, i estyn maddeuant a chymmod iddo. Yma y mae efe yn eistedd ar orseddfainc y gras, gydag Eiriolwr drosom ni ar ei ddeheulaw. Pan ddelo pechadur euog at Dduw yma, da fydd iddo. "Efe a drugarhâ wrtho:" dyna drugaredd yn ddeddf yn mynwes Duw. "Ac a ddywed, Gollwng ef, rhag disgyn o hono i'r clawdd:" dyna drugaredd bellach yn rhyddhâd yn mynwes yr euog. "Myfi a gefais iawn:" dyna'r drefn sy'n deongli'r cwbl. Cymer afael, O fy enaid, yn y gobaith a osodir fel hyn o'th flaen.

Mae yr hysbysiad am holl oludoedd y cyfammod newydd yn sail gobaith. Yr oedd yr hen gyfammod yn sicrhâu ffafri i ddyn glân; ond nid oedd ynddo ddim gobaith i droseddwr. Ond y mae cyfammod newydd wedi ei gael; ac y mae holl drysorau hwn yn dwyn gobaith i bechadur. Beth yw y ddeilen sydd yn ngylfin ei holl addewidion? Gobaith. Yr addewidion am heddwch, maddeuant, glanhâd, nerth, marw mewn tangnefedd, adgyfodi mewn gogoniant, bywyd tragwyddol,—mae'r cwbl yn peri i ni osod ein gobaith yn Nuw. Ond beth am y bygythion? Mae y rhai hyny wedi eu cydglymu â'r bygythion yn ngweinyddiad y cyfammod: y naill yn ein dychrynu rhag digofaint, a'r lleill yn agor i ni ddrws y ffydd; y bygythion yn amgloddiau i'n cau allan o uffern, a'r addewidion yn risiau tuag at i ni ddringo i'r

nefoedd. Dwyn sydd yma i'r anialwch i ddangos i ni o'r fan hono ddrws gobaith.

Mae yr hysbysiad am ymddygiadau tosturiol Duw tuag at eraill yn gefnogaeth i ninnau obeithio ynddo. Cyfeirir ni at rai mor annheilwng, a halogedig, a cholledig, â ninnau, wedi eu cadw; a phaham yr anobeithiwn ni? Fe welir, mewn cysylltiad â rhai ffynnonau meddygol, hen ffynbaglau yn nghrog ar y muriau. Os gofynir, Beth yw y rhai hyn? atebir, Wrth y ffynbaglau hyna yr oedd gwywedigion cloffion yn ymlwybro yma; ond wedi eu cryfhâu trwy rinwedd y ffynnon, yr oeddynt yn gallu dychwel-yd adref hebddynt; a gadäwyd hwy yma ar ol i galonogi cloffion gwywedig eraill i ddefnyddio'r dwfr. O y lliaws ffynbaglau sydd yn grogedig gerllaw ffynnonau iachawdwriaeth! I lawr o Adda a laddodd fyd ar unwaith, hyd at Saul o Tarsus a fu yn gablwr, yn erlidiwr, ac yn drahäus, dyma dyrfa fawr aneirif wedi eu hiachâu. Ac y mae llawer sydd yn agos atom ni wedi anturio ar drefn gras Duw; ac ni siomwyd mo honynt; naddo! fel y gallwn ddywedyd, "Ein tadau a obeithiasant ynot; gobeithiasant, a gwaredaist hwynt. Arnat ti y llefasant, ac achubwyd hwynt; ynot yr ymddiriedasant, ac nis gwaradwyddwyd hwynt." Ac wele Dduw'r gobaith yr un i ninnau eto.

Ni a welwn fod cenadwri rasol y gwirionedd yn cael ei chymhwyso at bechadur yn bersonol; ydyw, mae ei hwyneb yn deg ar bob pechadur a'i gwrandawo neu a'i darllo. "Fel y byddo dy obaith yn yr Arglwydd, yr hysbysais i ti heddyw, ie, i ti." Y dadguddiad o Dduw yn ei ras a fu gynt yn tynu eraill ato, wele hwnw heddyw i ti. Mae'r cyflawnder o ras a gyfiawnhäodd, a sancteiddiodd, a gynnaliodd, ac a ymgeleddodd batriarchiaid, a phrophwydi, ac apostolion, heddyw i ti. Y drugaredd a faddeuodd i Manasseh, a gyfnewidiodd Zacheus, ac a wnaeth apostol o erlidiwr, mae hono heddyw i ti. Gwrando dithau heddyw, a chrêd, ac ufuddhâ. Gelli fod allan o gyrhaedd sŵn efengyl yfory; ond "wele yn awr yr amser cymeradwy; wele yn awr ddydd yr iachawdwriaeth." Na chymer dy faeddu gan unrhyw ammheuon byth i ddyweyd, "Nid oes obaith." Dyma wyneb a gwên efengyl arnat ti yn benodol, pwy bynag wyt. Fy holl oludoedd, medd hi, wele'r cyfan yn rhad i ti, ie, i ti; nid oes eisieu dim ond i ti estyn dy law i dderbyn. Mor agos

atom yw'r drefn! Ni chollir pwy bynag a gredo. "Pwy bynag a alwo ar enw yr Arglwydd, cadwedig fydd."

2. *Ceir, trwy gredu y gwirionedd, sicrhâd a boddlonrwydd llonyddol i'r meddwl.* "I beri i ti adnabod sicrwydd geiriau gwirionedd." Pa beth a all fod yn fwy gwerthfawr mewn byd llawn o dwyll a chamgymeriadau nag i ni adnabod sicrwydd geiriau gwirionedd, i'n cyfarwyddo mewn dyrswch, i'n cynnorthwyo mewn gwendid, a'n cysuro mewn tralod? Anhawdd yw gan galon dyn gredu gwirionedd yr efengyl. Mae efe gyda phethau'r byd yn rhodio wrth olwg; ond pethau ni welir yw mawrion bethau'r Bibl. Ond y mae ffydd yn eu dwyn adref at y meddwl, ac yn rhoddi i'r enaid brawf bywiol o honynt, nes ei wneyd yn sicr ynddynt. Mae awdurdod Ddwyfol y gair yn cael ei deimlo yn ysbryd y meddwl, nes y mae yn gorchfygu pob gwrthddadl, yn tawelu yr holl anwydau, ac yn diwall foddloni yr holl serchiadau. Nid oes well esboniwr ar y Bibl na gweddiau wedi eu hateb, cystuddiau wedi eu sancteiddio, ac addewidion wedi dyhidlo eu bendithion; ac y mae yr esboniadau rhagorol hyn i'w cael yn llyfrgell profiad credadyn. Am y wraig a ddyoddefasai ddeuddeng mlynedd gan ddyferlif gwaed, ac mewn ffydd a gyffyrddodd âg ymyl gwisg yr Iachawdwr, dywedir, "Hi a wybu yn ei chorff ddarfod ei hiachâu o'r pla." Mae'r gwir gristion, yn gyffelyb, yn gwybod yn ei enaid am rinwedd iachusol gair Crist. Gwaded y byd a wado, mae ganddo ef dystiolaeth ynddo ei hun am effeithioldeb gwaed Crist, a llwyddiant ei eiriolaeth. Gŵyr fod ei eiriau ef yn eiriau bywyd tragywyddol; ac yn hyderus yr anturia arnynt ei iachawdwriaeth byth. Caiff yma y wialen a'r ffon i'w gysuro yn nglŷn cysgod angeu; ac felly efe a obeithia pan fyddo marw.

3. *Wrth gadw pethau'r gwirionedd yn y galon y ceir y cymhwysder goreu i'w defnyddio er mantais i eraill:* "Cymhwysir hwynt hefyd yn dy wefusau." Os bydd gair Crist yn preswyllo ynom yn helaeth ymhob doethineb, ni a fyddwn trwy hyny yn gymhwys iawn i ddysgu a rhybuddio bawb ein gilydd. "O helaethrwydd y galon y llefara y genau." Gyda chalon lawn o Fibl, nis gall y genau fod yn wag o hono. "Y dyn da, o drysor da y galon, a ddwg allan bethau da." Wedi trysori egwyddorion y gwirionedd yn y meddwl, byddant yn barod i'w dwyn allan mewn ym

ddyddan ac ymarferiad. “Pob ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd,” medd ein Harglwydd, “sydd yn debyg i ddydd o berchen tŷ, yr hwn sydd yn dwyn allan o’i drysor bethau newydd a hen.” Bydd gan hwn yn ei ymyl, fel y nodâ hen awdwr da, nid yn unig dyfiant y flwyddyn hon, ond casgliad cynauafau blaenorol; nid rhaid iddo fyw o’r llaw i’r genau, gan fod ganddo ystôr dda yn hylaw wrth raid. Mae pob talent a dderbynir oddiwrth Dduw i’w rhoddi allan er ei ogoniant ef, ac er mantais i eraill; mae llestri trugaredd i gario trugaredd i bawb fyddo mewn anghen am dani. Y rhai a gawsant drugaredd gan yr Arglwydd nes eu dwyn i gredu ei wirionedd, a phrofi ei nerth a’i rinwedd yn eu heneidiau, y mae rhwymedigaeth arnynt, ac y mae tuedd ynddynt, a chymhwysder ganddynt, i fod yn offerynau i estyn yr unrhyw drugaredd i eraill; ac felly bydd y rhai hyn yn cael trugaredd trwy eu trugaredd hwy. Nid oes neb yn gyfaddas i ddysgu fyrdde yr Arglwydd i rai anwir ond y rhai sydd eu hunain wedi eu dysgu yn brofiadol yn ei gyfraith. Nis gwyddom pwy a ddaw atom, na pha bryd y deuant, i geisio cynghor a chyfarwyddwyd ynghylch y pethau a berthynant i’w heddwch; ac mor werthfawr a fydd ein bod yn barod i gyfranau yr hyfforddiant anghenrheidiol, megys y dywed y testun, “Fel y gellit ateb geiriau y gwirionedd i’r neb a anfonant atat.” Arddodir hyn ar gristionogion fel dyledswydd benodol: “Byddwch barod bob amser i ateb i bob un a ofyno i chwi reswm am y gobaith sydd yn och.” Yr hwn a all ddywedyd wrth Dduw, “Yn dy air y gobeithiaf,” mor gymhwys yn ngwefusau hwnnw yw yr annogaeth, “Gobeithiwch ynddo ef bob amser; O bobl, tywelltwch eich calon ger ei fron ef; Duw sydd noddfa i ni!”

Ymholed pob un pa fodd y mae rhyngddo ef â gwirionedd Duw. Fy nghyfeillion, dyma oleuni’r gwirionedd genych oll heddyw. “Tra fyddo genych oleuni, credwch yn y goleuni, fel y byddoch blant y goleuni.”



### PREGETH III.

TREFN GRAS YN SICRHAU SANCTEIDDRWYDD.

RHUFEINIAID vi. 1—11: “Beth gan hyny a ddywedwn ni? a drigwn ni yn wastad mewn pechod, fel yr amlhâo gras? Na ato Duw. A ninnau wedi meirw i bechod, pa wedd y byddwn byw eto ynddo ef? Oni wyddoch chwi, am gynifer o honom ag a fedyddiwyd i Grist Iesu, ein bedyddio ni i'w farwolaeth ef? Claddwyd ni gan hyny gydag ef trwy fedydd i farwolaeth, fel megys ag y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd. Canys os gwnaed ni yn gydblaniogion i gyffelybrwydd ei farwolaeth ef, felly y byddwn i gyffelybiaeth ei adgyfodiad ef; gan wybod hyn, ddarfod croeshoelio ein hen ddyn ni gydag ef, er mwyn dirymu corff pechod, fel rhagllaw na wasanaethom bechod. Canys y mae yr hwn a fu farw, wedi ei ryddhâu oddiwrth bechod. Ac os buom feirw gyda Christ, yr ydym ni yn credu y byddwn byw hefyd gydag ef; gan wybod nad yw Crist, yr hwn a gyfodwyd oddiwrth y meirw, yn marw mwyach; nad arglwyddiaetha marwolaeth arno mwyach. Canys fel y bu efe farw, efe a fu farw unwaith i bechod; ac fel y mae yn byw, byw y mae i Dduw. Felly chwithau hefyd, cyfrifwch eich hunain yn feirw i bechod, eithr yn fyw i Dduw yn Nghrist Iesu ein Harglwydd.”

YN fynych fe ystyrir yr ymadrodd “marw i bechod,” yn golygu un gangen neillduol o sancteiddhâd y credadyn: effaith yr orchwyliaeth barhâus hono a ddygir ymlaen gan Ysbryd yr Arglwydd yn a thrwy y credadyn, sef marweiddiad pechod yn y galon. A gwir yw fod pob dyn duwiol yn marw i bechod yn y golygiad hwn; hyny yw, mae llygredigaeth natur yn cael ei ddirymu a'i farweiddio yn raddol ynddo ef, fel y mae yn cynnyddu mewn sancteiddrwydd. Ond yma dywedir am gredinwyr, eu bod, nid yn marwhâu pechod, neu yn cael eu marwhâu iddo, eithr “*wedi* meirw i bechod.” Ac y mae'r dull cryf hwn o lefaru, ynghydag ystyriaethau eraill, yn peri i ni feddwl fod yr

ymadrodd yn y lle hwn yn sefyll yn hytrach am gyfiawnhâd y credadyn: efe wedi marw i bechod yn gyffelyb ag y dywedir ei fod “wedi marw i'r ddeddf trwy gorff Crist,” sef, rhyddhâd person y pechadur oddiwrth rym condemnol pechod, a'i adferiad i heddwch a ffafr Duw trwy Iesu Grist. Mae marwolaeth, ni a wyddom, yn tori cysylltiadau. Wedi marw ei phriod, “y wraig a ryddhäwyd oddiwrth ddeddf y gŵr;” ac yn y bedd, “y gwas a ryddhäwyd oddiwrth ei feistr.” Felly, yn y farwolaeth hon i bechod, mae'r person yn cael ei ryddhâu oddiwrth gondemniad pechod. Yn y modd hwn, y mae sancteiddhâd yn cael ei osod allan yma fel bywyd o'r farwolaeth hon; y cristion yn marw gyda Christ i bechod, mewn trefn i fyw gydag ef, neu i fyw yr un bywyd âg ef ei hun.

Yma, yn nechre'r bennod hon, mae llygad yr apostol ar y mater a fuasai dan ei sylw yn y bennod o'r blaen. Yno y mae yn trin y pwnc mawr o gyfiawnhâd pechadur, ac yn ei osod allan drwyddo fel gorchwyliaeth gras Duw. Dangosir fod y cyfiawnder, trwy ba un y cyfiawnheir pechadur, wedi ei wneuthur gan un arall, a'r cyfiawnder hwnw yn cael ei roddi, ei rad roddi, i'r pechadur. Gras, a dawn, a dawn trwy ras, y gelwir ef. Derbyn yn unig y mae yr hwn a gyfiawnheir; ac yn y derbyniad o ddawn cyfiawnder, y mae efe yn derbyn lliosogrwydd o ras. Mae gras yn amlhâu, ac yn rhagor-amlhâu yn ei gyfiawnhâd; mae yn chwyddo dros ei holl annheilyngdod, ac yn ei godi i fwy o ddedwyddwch a gogoniant nag a gollodd efe yn ei gwymp. Gras ydyw yn maddeu yr holl bechodau, yn cyfiawnhâu oddiwrth yr holl gamweddau a'r euogrwydd, yn rhoi diwedd ar eu teyrnasiad, ac yn teyrnasu ei hun i fywyd trwyddol. Ydyw, y mae yn codi'r truan o dan deyrnasiad marwolaeth o herwydd pechod, i deyrnasu mewn bywyd trwy a chyda yr Un digyffelyb, Iesu Grist. Os oedd y pechadur a'i amgylchiad yn gofyn am y fath ras, yr oedd gras hefyd yn gofyn am ei fath yntau, mewn trefn i fod yn hynod a gogoneddus ynddo byth.

Wel, medd yr apostol, “beth wrth hyny a ddywedwn ni?” Pa gasgliad a dynwn ni oddiwrth y gwirionedd am helaethrwydd ac effeithiolrwydd gras y cyfiawnhâd? “A drigwn ni yn wastad mewn pechod fel yr amlhäo gras?” A awn ni ymlaen i bechu fel y caffo gras well mantais i ddysgleirio yn ein hiachawdwriaeth?



Mae eraill yn dywedyd hyny; ond, beth a ddywedwn ni? Oes, y mae eraill yn dywedyd ein bod ni yn llefaru ac ymddwyn felly—ein bod yn dywedyd, “Gwnawn ddrwg fel y dêl daioni;” a haerir fod yr athrawiaeth a bregethir genym yn arwain i hyny. Ond beth a ddywedwn ni? Nid yw o nemor bwys fod dynion cnawdol yn camddefnyddio yr athrawiaeth, a chablwyr yn ei chamgyhuddo; y naill yn cymeryd achlysur oddiwrthi i bechu, a'r llall yn ei henllibio fel pe byddai yn fagwraeth i bechod; ond dyma ni wedi cael ein bywyd ynddi, a chyfranogi o'i gras; ac nid oddiwrth y rhai sydd, yn gyhoedd neu yn gudd, yn elynion iddi, ond oddiwrthym ni sydd yn ei hadnabod ac yn gorphwys arni, y dylid barnu ei gwir duedd. A pheth a ddywedwn ni? “A drigwn ni yn wastad mewn pechod fel yr amlhäo gras.” Mae yr apostol fel yn arswydo wrth roddi lle i'r fath gwestiwn. Syniad ei galon, a'r holl wir eglwys gydag ef, ar y mater ydyw, “Na ato Duw!” *God forbid!* Pell oddiwrthym fyddo'r fath feddwl penrhydd; gwahardded Duw i gyfryw syniad afaelyd a throi ynom byth! Fel hyn y mae'r meddwl am fyw mewn pechod o herwydd trefn gras yn annyoddefol i syniad dynion duwiol.

Mae'r testun yn doddi ger ein bron ddau hynodrwydd sydd ynglŷn â threfn gras fel ei gosodir allan yn athrawiaeth yr efengyl. Un ydyw, ei bod yn cynnwys rhyw demtasiwn i'r anianol a'r diadgenedledig i drigo mewn pechod, a'r llall ydyw ei bod hi yn wastad yn sicrhâu a diogelu sancteiddrwydd ei gwir ddeiliaid. Mae'r naill i'w weled yn y gofyniad, “A drigwn ni yn wastad mewn pechod fel yr amlhäo gras?” a'r llall yn yr ateb iddo, “Na ato Duw! A ninnau wedi meirw i bechod, pa wedd y byddwn byw eto ynddo ef?” Gallwn edrych ar y cyntaf fel yn egluro a gwirio mai oddiwrth Dduw yn unig y mae'r drefn i gyfiawnhâu, ac ar yr olaf fel help i adwaen y dynion ag sydd wedi eu cyfiawnhâu yn y drefn hono.

Tra y cyhoeddir athrawiaeth cyfiawnhâd pechadur yn gywir ac efengylaidd, fe fydd y cnawdol a'r anianol yn barod i gasglu fod ynddi swcraeth i drigo mewn pechod. Ac y mae hyn yn un nôd wrth ba un y gellir ei hadnabod: pa gasgliad y mae dynion annuwiol yn ei dynu oddiwrthi? Os ydym ni yn pregethu trefn cyfiawnhâd mewn ffordd nas gall y penrhydd ddim cymeryd achlysur oddiwrthi i fyw mewn pechod—i ddychymygu ei bod yn

gwadu yr anghenrheidrwydd am foesoldeb a rhinwedd a gweithredoedd da, gan ei bod yn gwadu haeddiant ynddynt i gyfiawnhâu,—yna y mae lle i ofni nad ydym ni yn pregethu y drefn Ddwyfol i gyfiawnhâu. Nid ydym felly yn pregethu yr un athrawiaeth ag oedd gan Paul, neu yr ydym wedi dysgu ei thrin yn fwy ysgilgar na Paul ei hunan. Nis medrai efe bregethu cyfiawnhâd heb fod rhywrai yn cymeryd achlysur oddiwrth ei athrawiaeth i fyw mewn pechod, a'r lleill i'w chablu fel yn achos o hyny. “Megys ein ceblir,” ebe efe, “ac megys y dywed rhai ein bod yn dywedyd, Gwnawn ddrwg fel y dêl daioni.” Ac felly y mae'r apostol, ymhob man wrth drin cyfiawnhâd, yn gwyllo ar y perygl oedd i'w ddysgwyl o'r cwr hwn. “A ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddrym trwy ffydd? A drigwn ni yn wastad mewn pechod fel yr amlhâo gras? A bechwn ni o herwydd nad ydym dan y ddeddf, eithr dan ras? Os wrth geisio ein cyfiawnhâu yn Nghrist, y caed ninnau hefyd yn bechaduriaid, a ydyw Crist am hyny yn weinidog pechod?” Ac y mae yn ateb yr holl gwestiynau hyn gydag eiddgedd a soriant sanctaidd. “Na ato Duw!” medd efe ar ol pob un o honynt.

Ond beth oedd yn peri i ddynion dybied y fath beth am Paul, dyn ag oedd mor sanctaidd ei hun, ac mor egnïol yn wastadol yn cymhell eraill i sancteiddrwydd? Oddiwrth ba beth y gallent ddychymygu ei fod ef yn dirymu'r ddeddf, ac yn cefnogi pechod? A oedd rhyw hynodrwydd yn ei athrawiaeth ef oddiwrth yr hyn y cymerent hwy achlysur i dybio a dywedyd hyny am dano? Yr ateb raid fod, Oedd! a'r hynodrwydd hwnw ydoedd, ei fod ef yn eu hysbeilio hwy o'u hunig gymhelliad hunangar i gadw'r ddeddf. Yr oedd efe yn cau allan eu gweithredoedd yn hollol o'r cyfiawnhâd; i.e., a'r rhai hyny eu gweithredoedd da a goreu hwynt; ac yr oedd yn dysgu fod pechadur yn cael ei gyfiawnhâu yn unig o ras Duw, a thrwy gyfiawnder Iesu Grist. O ras y trefnwyd y cyfiawnder sydd yn cyfiawnhâu; o ras y gwnaed ef gan Grist, ac o ras y mae yn cael ei wneuthur drosodd i'r euog. Cyfiawnheir pechadur heb ei weithredoedd cyn credu, nac yn yr ymarfer o gredu, nac ar ol credu. Y mae pob peth yn cael ei gau allan yn y cyfiawnhâd ond y pechadur noeth ei hun; ac ni chaiff yntau wneuthur dim yn y *transaction* rhyfedd hwn ond derbyn lliosogrwydd o ras a dawn cyfiawnder. Wele, medd y cnawd, gan mai

dyna drefn cyfiawnhâd, haf ati i bechu, ynte ! dyma weithredoedd da yn cael eu gwrthod, a chan hyny nid rhaid wrthynt o gwbl. Fel hyn, megys y nodasom, un o hynodion athrawiaeth Ddwyfol yr efengyl ydyw, ei bod hi yn agored i'r cyfryw gyhuddiad. Ac felly y mae yn beth i sylwi arno, nad ydyw Paul, hyd yn nôd pan y mae efe yn gwrthbrofi'r cyhuddiad, yn rhoddi, gymaint âg unwaith, ddim lle i un math o weithredoedd yn y cyfiawnhâd. Eto nid oedd gan neb rith-egus i'w gyhuddo ef o anghefnogi ac iselu gweithredoedd da. Yn unig yn y cyfiawnhâd, y mae efe yn gwaeddi, "Nid o weithredoedd—heb weithredoedd y ddeddf—heb fy nghyfiawnder fy hun, yr hwn sydd o'r gyfraith." Ymhob man arall y mae efe yn y modd egluraf a chadarnaf yn dangos yr anghenrheidrwydd am ufudd-dod a gweithredoedd da ar amryw gyfrifon. Eithr, tra yn dangos hyny, mae efe yn para i'w cau allan o'r cyfiawnhâd, er yn rhagweled y byddai annuwiolion yr oesoedd yn cymeryd achlysur oddiar ei athrawiaeth ef i fyw mewn pechod.

Onid oes yma wers i ni? Os yw yr athrawiaeth sydd yn gwrthod gweithredoedd mwyaf rhagorol dynion fel achosion cyfiawnhâd, neu fater cyfiawnder gyda Duw, ac yn cyfyngu'r cwbl i ras Duw trwy ufudd-dod a gwaed Crist—os yw yr athrawiaeth hon, meddwn, yn wirionedd arbenig o ysbrydoliaeth Duw, oni ddylem ninnau, yn ol esiampl Paul, bregethu yr athrawiaeth hon yn ei symlwrwydd noeth, heb ildio na chuddio na chyfnewid dim o honi? Beth os yw hi yn arogl marwolaeth i'r pechadur anedifeiriol ac anghrediniol, yr unig ffordd ydyw i'r edifeiriol gael ei fywyd. Pwy bynag a fynd droi gras ein Duw ni i drythyllwch, a sugno gwenwyn o iachus eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, er hyny rhaid i ni beidio cadw yn ol yr athrawiaeth am gadwedigaeth trwy ras, a chyfiawnhâd trwy ffydd Crist. Tyned yr annuwiol ei ben yn fwy eto o dorch ufudd-dod, a dangosed ei hun yn fwy penrhydd fyth fel mab Belial, nid oes genym ni ddim help wrth ei gamgasgliad andwyol ef; ni wiw i ni eto roddi dim ond cyfiawnder Crist fel ein dadl o flaen y fainc; rhaid i ni gadw'r ffordd yn glir at Bren y bywyd; o herwydd yn ngras ein Harglwydd ni, a gwaed ei groes ef, y caiff yr euog fywyd, a'i bechod angeu; yno yn unig y mae i ni gyfiawnder; ac oddiyno hefyd, fel yr ydym i ddangos eto, y cynnyrchir gwir sancteiddrwydd ac ufudd-dod i Dduw.

Dyma, gan hyny, yr hynodrwydd arall sydd yn perthyn i drefn gras, a chyfiawnhâd trwy haeddiant y Gwaredwr, sef, nas gall y drefn hon lai na sicrhâu sancteiddrwydd ac ufudd-dod credinwyr. "Beth wrth hyny a ddywedwn ni?" Ni a wyddom beth y mae eraill yn ei ddywedyd am danom; ond beth a ddywedwn ni? Yr ydym yn addef nad ydym bellach dan y ddeddf, eithr dan ras; ond a bechwn ni am hyny? "Na ato Duw! A ninnau wedi meirw i bechod," ac yn hyny wedi ein cyfiawnhâu oddiwrth bechod, "pa wedd y byddwn byw eto ynddo ef?" Beth yw dwyn pechadur drwy ffydd yn Nghrist i heddwch Duw ond ei ddwyn y gyflwr nas gall efe bechu fel o'r blaen?

Pan y mae'r apostol yn cyfarfod yma â'r cyhuddiad fod trefn gras yn arwain i benrhyddid, dros gredinwyr yn unig, sylwer, y mae efe yn ateb; oblegid yn eu cylch hwy yn unig yr oedd y ddadl, ac wrthynt hwy yn unig yr oedd barnu tuedd a ffrwyth yr athrawiaeth. Hwyt-hwy yn unig sydd yn derbyn yr efengyl, ac arnynt hwy yn unig y canfyddir ei heffeithiau priodol hi. Nid oedd dim a fynai efe yn hyn âg eraill, am nad oedd dim a fynent hwy â'r efengyl. Nid effeithiau yr efengyl, ond effeithiau ei gwrthod a'i chamddefnyddio, yw annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion. Mae'r pethau rhagoraf yn agored i gael eu camddefnyddio, ac o'u camddefnyddio yn troi yn niwed. Yr oedd y manna peraidd yn pryfedu wrth ei gamgadw; yr oedd arch y dystiolaeth, trefn bywyd i droseddwr y gyfraith, yn lladd y miloedd rhyfygus ar feusydd Bethsemes; gall y feddyginiaeth, sydd yn effeithiol er iachâd o'i hiawn ddefnyddio, droi yn angeu i'r rhai nas cymerant hi yn ol y rheol. Felly y gall Crist a'i efengyl fod yn gwymmp, yn rhwyd, ac yn fagl i'r anufuddion a rhai yn tramgwyddo wrth y gair. Ond edrychwch arnynt hwy sydd yn dyfod at Grist, y maen bywiol, ac yn chwennychu didwyll laeth y gair, a chwi a'u cewch â'u hymarweddiad yn onest ymysg y cenedloedd, a thrwy wneuthur daioni yn gostegu anwybodaeth dynion ffolion. Yr ydym yn gweled mai ynghylch credinwyr, ac nid ynghylch dynion yn gyffredin, yr oedd yr ammheuaeth a dybir yn y testun. Y bobl y mae gras yr efengyl wedi eu rhyddhâu hwy oddiwrth y ddeddf fel ammod bywyd—wedi dangos ufudd-dod un arall, yr Un heb ei fath, yn cadw'r ddeddf yn eu lle hwy—ac wedi eu cyfiawnhâu trwy yr ufudd-dod hwnw heb eu

gweithredoedd hwy eu hunain,—a ydyw yr efengyl yn rhwymo y rhai hyn weithian i ufuddhâu i'r ddeddf? A oes ynddi hi eto resymau a chymhelliadau i rwymo eu cydwybodau hwy i sancteiddrwydd, ac i nerthol weithio eu calonau i ufudd-dod parod i orchymynion Duw? Oes, oes! medd Paul; a chanddi hi yn unig y mae'r nerthol weithrediad hwn. Ië, ei deiliaid hi yn unig yw y rhai a rodiant yn nghyfraith yr Arglwydd.

Ein hamcan yn bresennol fydd dangos, oddiwrth y testun, fod yn anmhosibl i wir gristionogion fyw mewn pechod. “Pa wedd y byddwn byw eto ynddo ef?”

I. Y mae bod credinwyr yn byw mewn pechod *yn anghyson â ddybenion marwolaeth Crist.*

Peth mawr a rhyfedd, yn wir, oedd marwolaeth Crist. Ychydig a wyddom ni am ryfeddodau Duw yn y grädigaeth; ond ni a dybygem y gallwn benderfynu mai cnawdoliad a marwolaeth Crist yw y dygwyddiadau rhyfeddaf o fewn holl grädigaeth Duw. Ar ol pob amlygiad arall o'r Duwdod, gellid dywedyd, “Ond y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy.” Eithr yn marwolaeth Crist, y mae cariad a gras Duw wedi cyrhaedd i'r eithaf. Ni ddaw cariad mwy i'r golwg byth yn yr Anfeidrol ei hun. Duw yn rhoddi ei Fab, y Mab yn rhoddi ei einioes, a hyny dros ei elynion,—yn hyn y mae cariad heb ei gyffelyb. Cawn yr Hen Destament yn rhagddangos marwolaeth Crist, Efengylwyr y Testament Newydd yn cofnodi ei hanes, a'r Epistolau yn esbonio ei dirgelwch yn yr amcanion oedd ganddo ef ynddi, a'r effeithiau sydd yn dyfod o honi. Yr oedd gan Grist amcanion uchel pan yn marw; cyrchu at ddybenion pwysig yr oedd efe.

“Ni chollwyd gwaed y groes  
Erioed am ddim i'r llawr;  
Ni ddyoddefwyd angu loes  
I heb ryw ddybenion mawr.”

Ac amcan mawr angu'r groes, ni a welwn, ydoedd llwyr ddinystyr pechod.

Dyma a ddywed y testun: “Fel y bu efe farw, efe a fu farw unwaith i bechod,” hyny yw, marw dros bechod mewn trefn i waredu oddiwrth bechod. Gallem gymeryd pechod yma yn yr ystyr helaethaf; a dyma farwolaeth Crist yn ei gyfarfod yn yr



holl helaethder a'r äangder hwnw. Pechod yn wreiddiol a gweithredol—pechod yn ei egwyddorion a'i ffrwythau—pechod yn ei natur a'i holl ganlyniadau: ymhob ystyr arno, bu Mab Duw farw i'w ddileu. A ydyw pechod yn ddyled? Bu Crist farw i dalu'r ddyled hono. A ydyw pechod yn drosedd a chamwedd? Bu efe farw i ddybenu'r camwedd hwnw trwy iawn. A ydyw pechod yn ymrafael rhwng Duw a'r enaid? Bu yr Iesu farw i wneuthur cymmod dros anwiredd—i gymmodi Duw â phechadur, a chymmodi pechadur â Duw. A ydyw pechod yn weithredoedd diafol yn ein meddyliau ni? Bu yr Iachawdwr farw i ddinstrio yr anwir hwnw, ac i ddattod ei weithredoedd ef. Ac a ydyw pechod yn aflendid yn yr enaid—yn beth croes i natur a chyfraith sanctaidd Duw? Bu Crist farw i'n puro ni iddo ei hun; ac y mae ei waed ef yn glanhâu oddiwrth bob pechod. Hyn oedd ei amcan ef yn rhoddi ei hun dros ei eglwys: “Fel y sancteiddiai efe hi, a'i glanhâu â'r olchfa ddwfr trwy y gair; fel y gosodai efe hi yn ogoneddus iddo ei hun, yn eglwys heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw, ond fel y byddai yn sanctaidd a difeius.” Ac fe fydd angeu Crist wedi cyrhaedd ei amcan yn gyflawn pan y bydd tyrfa fawr y gwaredigion wedi ei gosod ger bron ei ogoniant ef yn ddifeius mewn gorfoledd: pob person wedi ei gyfiawnhâu, pob cydwybod wedi ei phuro, pob calon wedi ei llwyr lanhâu a'i chwbl adnewyddu i ddelw Duw, pob chwant ystyfnig wedi ei hollol ddarostwng yn y fynwes, a phob un yn canu, “Iddo Ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun, ac a'n gwnaeth ni yn freninoedd ac yn offeiriaid i Dduw ei Dad ef; iddo Ef y byddo'r gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.” Wele bellach y pechod a fu yn angeu i Grist, wedi cael ei angeu ei hun yn dragywydd.

Os oedd peth mor fawr wedi ei wneuthur i'n cael yn gwbl lân oddiwrth bechod, pa wedd y byddwn byw eto mewn pechod? Mae meddwl crediniol a myfyr defosiynol am angeu'r groes yn rym effeithiol i farweiddio pechod, i ymdrech yn erbyn ei gynhyrfiadau a'i weithrediadau, ac i ddyheu am fod yn berffaith sanctaidd a difeius. Mae marwolaeth Crist yn dïogelu marwolaeth pechod, a'i rinweddau trwy'r gair a'r ordinhadau yn cario crïstïon nes-nes at ei uchel nôd.

II. Y mae byw mewn pechod *yn anghyson â'r undeb â'r cymundeb sydd rhwng credinwyr â Christ yn ei fywyd a'i farwolaeth.*

Mae yn wir nad yw y ffaith o fod Crist wedi marw, ynddi ei hunan, yn sancteiddio neb. Diau fod myrddiynau o ddynion yn myned drwy'r byd ac o'r byd yn eu pechodau, er fod Crist wedi marw dros bechod mewn trefn i waredu oddiwrth bechod. Gan hyny y mae'r apostol yn y testun yn seilio yr athrawiaeth o sicrhâd sancteiddiad credinwyr, nid yn unig ar y ffaith o fod Crist wedi marw, ond ar eu hundeb hwy âg ef yn ei farwolaeth. "A drigwn ni yn wastad mewn pechod? Na ato Duw. A ninnau wedi meirw i bechod, pa wedd y byddwn byw eto ynddo ef?" Ië, y mae Crist wedi marw i bechod; "canys fel y bu efe farw, efe a fu farw unwaith i bechod." Ydyw, y mae efe felly wedi marw, ac wele "ninnau" hefyd yn Nghrist, a chydag ef, wedi "meirw" yr un modd, sef marw i bechod; ac os wedi marw iddo, nis gellir byw ynddo.

Mae holl achos sancteiddrwydd a dinystr pechod yn Nghrist a'i angeu, yn gyffelyb fel y mae'r nodd yn y winwydden; a phan y mae pechadur yn cael ei impio i Grist, mae yn dyfod yn gyfranog o frasder pren y bywyd, er mwyn dwyn y ffrwyth o sancteiddrwydd i'r Arglwydd. Bu Crist, meddir yma, "farw unwaith i bechod," neu, fel y gellir darllen, meddynt, "unwaith am byth," *once for all*; yr oedd ei farwolaeth ef yn ddigon i'w ddileu. A dyma'r crigion trwy ffydd yn "marw gyda Christ," felly yn cyfranogi o fendithion ei farwolaeth, a thrwy hyny dybenion ac effeithiau y farwolaeth hono yn cael eu gweithio yn ei galon ef. A pheth yw y rhai hyny? Marw i bechod, a byw i Dduw. Ac yma mi a ddymunwn allu dangos i chwi berffeithrwydd a dyblygion y cysylltiad bendigedig sydd rhwng yr eglwys fawr â'r Arglwydd Iesu Grist. Nid oes gysylltiadau o werth mewn cymdeithas, na rhwng dynion â'u gilydd, nad ydynt wedi cydgyfarfod mewn modd arbenig yn yr undeb mawr dan sylw, yn yr hwn y daw rhinweddau Duwdod, trwy waed y Cyfryngwr, i ladd llygredigaeth ein natur, i buro'r galon, ac i adnewyddu yr enaid ar ddelw Duw.

Dyma un sail gobaith: mae'r gwaith anghenrheidiol i gyd wedi ei gyflawni, fy enaid, yn dy natur di dy hunan. Mae'r Sancteidd-



ydd bendigaid yn un mewn natur â'r rhai y mae efe yn eu sancteiddio. Os ydynt hwy "yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau." Nis gwnaethum i ddim, meddi di, i haeddu'r fath waredigaeth. Naddo, mae yn wir; ond y mae'r cwbl wedi ei wneuthur yn dy natur di, a chan Frawd i ti. Cnawd ein natur ni, yn yr undeb â'i Berson ef, a archollwyd am ein camweddau; a gwaed ein natur ni a dywallt-wyd drosom er maddeuant a glanhâd.

Ymhellach: mae'r cwbl wedi ei wneuthur yn dy enw di, drosot, ac yn dy le, frawd neu chwaer, gan dy Fechnydd a'th Gynnrychiolwr, ac mewn bwriad, megys yr oeddit ti yn gwneyd y cwbl yn ei Berson ef trwy'r groes, i dy gael dithau i gyfranogi o'r cwbl yn dy berson dy hun drwy ffydd. Nid oedd Rahel yn wraig i Jacob pan yr oedd efe yn cyflawni y gwasanaeth cyfammodol i Laban. Ond yr oedd hi o fewn i'r bwriad o fod felly. Yr oedd cyttundeb rhwng Jacob a'i thad am ei chael, a'r gwasanaeth yn cael ei roddi ganddo fel ammodau'r cyttundeb hwnw. Ac felly pan ei cyflawnwyd, yr oedd Jacob yn hõni ei hawl iddi. "Moes i mi fy ngwraig," medd efe, "canys cyflawnwyd fy nyddiau." Felly yn gyffelyb y gallem ninnau ddywedyd yn y mater hwn. Er nad oedd y nifer mwyaf o'r rhai a fyddant cadwedig ddim yn credu, i.e., ddim yn bod, pan y bu Crist farw, eto yr oedd cyfammod rhyngddo ef a'i Dad yn eu hachos, a'r cyfan yn cael ei wneuthur drostynt ac yn eu lle, mewn bwriad o'u gwneyd yn gyfranog o'r cwbl trwy ffydd. Wrthyt ti yr enaid sydd yn dyheu am sancteiddrwydd, yn galonog yr annogaf dydi i barhâu mewn ymdrechu, dymuno, a gobeithio; o herwydd y mae'r cwbl yn sicr a diogel yn Nghrist. Mae achos y cyfan wedi ei gwblhâu, a'i gwblhâu yn y fath gysylltiad â thi, a gredodd yn Nghrist, fel y mae yn uniawn yn ngolwg Duw, ac yn unol â chyfiawnder ei natur ef, roddi yr holl iachawdwriaeth sydd yn Nghrist i ti, fel pe buasit ti dy hun wedi gwneuthur a theilyngu'r cwbl. Os yw camwedd Adda, yn ei holl effeithiau, yn cael ei gyfrif, a hyny yn sicr ac yn gyfiawn, i'w holl hiliogaeth yn ddiethriad, mwy sicr, ynte, a mwy cyfiawn, i.e., mwy o lawer y bydd i deulu yr ail Adda gael eu codi trwyddo ef a'i gyfiawnder i wir sancteiddrwydd, neu i fod ar ddelw Duw.

Ni a wyddom nad ydyw yn beth anarferol, trwy awdurdod cyfreithiau gwladol, i'r naill ddyn bersonoli ac arfer rhan dyn

arall, fel pa beth bynag a wnelo efe, yn ei gymeriad o gynnrychiolwr neu ddirprwywr, yr ystyrir yn gyfreithiol fod y llall yn gwneuthur hyny ynddo ef. Felly y mae cyfreithiwr yn derbyn arian yn enw y gofynwr. Ac felly y mae cenadwr (*ambassador*) yn cynnrychioli ei frenin. Beth bynag a wneir iddo ef, ystyrir hyny yn cael ei wneyd i'w arglwydd; a pha beth bynag a wna yntau yn ol ei awdurdodiad, y mae hyny yn hollol fel pe buasai'r brenin yn ei wneyd yn ei berson ei hun. Fe welwyd y fath beth âg i'r cenadwr gwladol fyned fel cynnrychiolydd ei dywysog i wlad dramor, ac yno yn enw yr hwn a'i hanfonodd yn priodi gwraig iddo a throsto yn llys ei thad. Ystyrir y tywysog yn myned ynddo, ac yn priodi ynddo, a bod y briodas mor safadwy â phe buasai'r cwbl wedi ei gyflawni gan y pleidiau yn eu personau eu hunain. Y mae gweithred cynnrychiolwr yn weithred gyffredin yr holl rai a gynnrychiolir ganddo; hi a saif am eu gweithred hwynt; cyfrifir hi mewn cyfraith iddynt; ac mae'r holl fudd a ddeillia o honi iddynt hwy mor sicr â phe buasent wedi ei gwneuthur yn eu personau eu hunain. Ac onid oes rhywbeth yn y mater sydd dan ein sylw fel pe byddai Duw wedi casglu yr oll sydd uniawn a manteisiol yn nghyfreithiau a gweithrediadau dynion tuag at eu gilydd, i'w drafodiaethau ei hun tuag atynt hwy? Felly yr appwyntiodd efe yr Adda cyntaf yn berson cyffredinol i weithredu dros ei holl had, fel yn yr hyn a wneid iddo a chanddo ef, y cyfrifid hyny, yn ol deddf cyfiawnder, yn cael ei wneyd i a chanddynt hwy eu hunain. Yr oedd Duw yn bygwth y byd wrth ei fygwth ef, yn edrych ar y byd yn anufuddhâu yn ei anufudd-dod ef, ac yn dedfrydu'r byd yn ei ddedfryd ef. Fel hyn, "trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid—trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemniad." "Gosodwyd i ddynion farw unwaith." Ymha le y gosodwyd hyny? Gan Dduw yn ngardd Paradwys, pan y dywedodd wrth Adda, fel bygythiad rhag iddo fwyta o ffrwyth y pren gwaharddedig, "Yn y dydd y bwyta'i o hono, gan farw ti a fyddi farw," a phan y sicrhäodd iddo ar ol iddo bechu, "Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli." Am fod dynolryw wedi syrthio i gyflwr pechadurus yn Adda, maent yn ddiffael yn marw yn eu personau eu hunain. Ond yr ydym i edrych ar Adda yn "ffurf yr Hwn oedd ar ddyfod." Dyma un arall, ail ddyn, yn

dyfod; ac y mae ei enw yntau yn sefyll am enwau yr oll o'i deulu; ac wele hwnw yn ufuddhâu hyd angeu'r groes, ac yn adgyfodi i fyw i Dduw; a'i ddyben yn y cwbl oedd "dybenu camwedd, selio pechodau, gwneuthur cymmod dros anwiredd, a dwyn cyfiawnder tragywyddol." Yn hyn, efe a'i rhoddes ei hun dros yr eglwys, "fel y sancteiddiai efe hi, a'i glanhâu." Ac y mae'r fath gysylltiad rhyngddo â'i eiddo yn yr oll a wnaeth, a'r oll a'i cyfarfu, fel y dywedir eu bod hwy yn cael eu croeshoelio, yn meirw, ac yn adgyfodi gydag ef. Buont hwy feirw i bechod ynddo ef, yr hwn a fu unwaith farw i bechod; a phan dderbyniodd efe, fel Machnïydd, y gollyngdod o orsedd nef yn ei adgyfodiad, yr oedd ei holl deulu, fel dyledwyr, yn derbyn y gollyngdod ynddo. Aeth efe, fel Abraham gynt, trwy hen Euphrates marwolaeth, a meddiannodd wlad yr addewid yn enw ei had.

A ydyw yn bosibl, ynte, i eiddo Crist drigo yn wastad mewn pechod? Nac ydyw ddim. Fel efe, medd yr apostol yma wrth y cristionogion, "felly chwithau hefyd, cyfrifwch eich hunain yn feirw i bechod, eithr yn fyw i Dduw, yn Nghrist Iesu ein Harglwydd." Wel, mae'r angeu i bechod, meddwch, a'r byw i Dduw, yn anmherffaith iawn ynom ni. Ydyw, mae yn wir; ond edrychwch pa beth ydych "yn Nghrist Iesu ein Harglwydd." Mae diwedd byw mewn pechod, a dechre byw i Dduw gan fil miloedd o bechaduriaid, wedi eu selio yn ddigryfnedid yn angeu ac adgyfodiad Crist. Ië, ond hwyrach y byddant eto yn farw mewn pechod, ac yn fyw ynddo ef. Na! y maent yn eu Pen wedi marw i bechod, ac yn eu Pen yn byw i Dduw. Mae yr hyn ydyw ei Berson ef, yn ei holl ogoniant y mynyd hwn, yn wystl o'r peth a fydd eu personau hwy. Er eich cysur a'ch grym gan hyny i farweiddio pechod, cyfrifwch eich hunain yn Nghrist Iesu i bechod yn feirw, ac i Dduw yn fyw. Nid oes dim yn lladd pechod yn debyg i hyn. 'Nid oes gan y bobl ddim meddwl am Grist,' medd Luther, 'tuag at ddarostwng pechod yn y galon; ac y maent yn troi at Moses a'i gyrrn, y ddeddf a'i brawychdod.' Eithr nid Sinai a'i daranau, ond Calfaria a'i awelon tyner—Calfaria a'i obaith, ei gariad, a'i hedd, sydd yn lladd pechod. Gadewch i hen bechadur brofi ei fod yn rhydd oddiwrth felldith y ddeddf, ac yn lloned ei gofynion trwy iawn ei Waredwr, ac eto

efe a ddyheua am gydfurfiad trwyadl â hi. Pa fodd yr oedd am danynt hwy y cristionogion cyn iddynt farw i'r ddeddf? Wel, "pan oeddym yn y cnawd, gwŷniau pechodau, y rhai oedd trwy'r ddeddf, oedd yn gweithio yn ein haelodau ni, i ddwyn ffrwyth i farwolaeth." Ond pa fodd y mae ar ol eu marw i'r ddeddf trwy gorff Crist? Bellach y maent yn "eiddo un arall, sef eiddo yr hwn a gyfodwyd o feirw, fel y dygent ffrwyth i Dduw." Nid wrth edrych ar y brathiad gan seirph tanlyd, ond wrth edrych ar y saph bres ar drostan, y deuai Israel yn iach. Anmhosibl yw i'r hwn sydd yn edrych ar Iesu yn marw dros bechod fyw mwyach mewn pechod.

III. Mae hyn yn anghyson *â'r cyflwr y maer cristion yn dyfod iddo trwy ffydd Crist.* "Y mae yr hwn a fu farw wedi ei ryddhâu," neu, wedi ei gyfiawnhâu, "oddiwrth bechod."

Dyma y rheswm i brofi y sancteiddir credinwyr. Mae yn rhaid fod cyfiawnhâd yn arwain i sancteiddhâd. Mae pryn-edigaeth oddiwrth felldith y ddeddf yn rhwym o effeithio cydfurfiad â'r ddeddf. Rhyddhâd oddiwrth rym condemniol pechod sydd ddinystyr i lywodraeth pechod. Pa fodd y mae hyn? meddwch. Wel, mynwch chwi wybod paham y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad; dyna hefyd y paham y mae'r pechadur a gredo yn cael ei godi i rodio mewn newydd-deb buchedd. Yn ei ufudd-dod a'i angeu, mawrhäodd Crist y gyfraith fel digonol a pherffaith iawn am bechod; ac am hyny daeth Duw yr heddwoch i'w ddwyn ef drachefn oddiwrth y meirw—i'w gyfiawnhâu ef fel Machniydd pechadur; ac y mae'r gallu gogoneddus a gyfododd Grist oddiwrth y meirw, ar waith bellach i godi ei deulu ef i rodio mewn newydd-deb buchedd, nes o'r diwedd eu codi yn gwbl, gyrff ac eneidiau, ar ei ddelw ef. Pa faint sydd rhyngddynt hwy, gredinwyr yn Nghrist, â byw mewn pechod? Cymaint a "gogoniant y Tad." Y rhagorol fawredd ei nerth ef, y gweithrediad nerth ei gadernid ef, yr hon a weithredodd efe yn Nghrist pan y cyfododd ef o feirw, dyna a weithredwyd tuag atynt hwy sydd yn credu, fel y bywhäwyd hwy pan oeddynt feirw mewn camweddau a phechodau, yn y rhai y rhodiasent hwy gynt. Ië, gynt, ond nid yn awr.

Fel y mae yr enaid yn fywyd y corff, felly Duw yw bywyd yr

enaid ; ac megys y mae'r corff yn marw ac yn llygru pan ymedy yr enaid, felly y mae yr enaid mewn ystyr foesol pan ymadawo Duw âg ef. Y fynydd y pechodd dyn, aeth yn ysgariad bythol rhyngddo â Duw o'i du ef. Mewn gair, y mae pechod yn rhan arbenig o felldith a chosb pechod. Nid oedd gan gyfiawnder Duw ddim i'w wneyd, yn wyneb anufudd-dod dyn, ond ei roddi i fyny i Satan a phechod, yn gosb am ei fai. Wedi tori yr undeb rhwng yr enaid â ffynnon bywyd a sancteiddrwydd, naturiol yw i bechod a marwolaeth mwyach arglwyddiaethu arno. Y fan y machludodd ei haul, wele lwyr dywyllwch yn gordo'i'r galon. Pan giliodd yr Ysbryd Glân, aeth yr ysbryd aflan i mewn i'r enaid, ac efe sydd yn awr yn cadw'r neuadd ; a pha faint o sancteiddrwydd sydd i'w ddysgwyl yn neuadd Satan, bernwch chwi. Y fan y taräwyd y ddaear â melldith, crinodd pob llysieuyn cymeradwy, a chododd drain a mieri ar hyd-ddi oll. Wedi i Dduw ymadael â'i deml, hi a aeth yn ogof lladron, y ffeidd-dra anghyffanneddol a osodwyd lle nis dylid, a holl lestri'r gwasanaeth a lygrwyd ac a ddadymchwelwyd. Wele'r pechadur yn debyg i wlad Edom wedi i Dduw ei hesgymuno : ei phalasaau wedi myned yn drigfa cathod, dylluanod, ac ellyllon, a'r esgymundod yn rhoi meddiant iddynt yno hyd byth. O pa beth yw enaid dyn wedi ei esgymuno gan Dduw cyfiawn ! pechod wedi troi yn daledigaeth am bechod, cyfiawnder Duw yn sefyll rhyngddo â gwardigaeth, ac yn ei gloi i fyny yn meddiant y drygioni sydd yn ei wneuthur yn uffern iddo ei hun ! Bobl, os ä Duw i'ch gadael chwi am anufudd-dod i'w efengyl, efe a'ch rhydd i fyny i ansancteiddrwydd a dinystr. Ac os melldithia efe chwi yn angeu ac yn y farn, eich trosglwyddo i ddiabol a phechod dros byth a fydd hyny. Grym pechod i deyrnasu ydyw ei rym trwy'r ddeddf i gondemniad.

Ond y mae trefn gras yn cyfarfod â phechadur yn ei gyflwr andwyol hwn. "Crist a'n llwyr-brynodd ni oddiwrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith drosom—fel y delai bendith Abraham ar y cenedloedd trwy Grist Iesu, fel y derbyniem addewid yr Ysbryd trwy ffydd." A phan y mae'r pechadur yn cael ei gyfiawnhâu trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu, mae'r condemniad yn cael ei symud, a'r person ei godi i ffaf Duw ; ac yn hyny wele ddyfrddorau sancteiddrwydd wedi eu hagar, y gras oedd yn gronfa yn mwriadau ac addewidion Duw



yn dylifo i'r galon; ac wedi i'r dyfroedd bywiol gael sianel i redeg i fro'r dwyrain, dyna ar eu min o'r ddeutu bob pren ymborth yn tyfu, yr hwn na syrth ei ddalen, ac na dderfydd ei ffrwyth. Wedi symud y felldith, caiff yr hen ddiffeithwch ei drin, a'r hen balas adfeiliedig oedd yn gyntedd i anifeiliaid gwylltion ei adnewyddu, a'i wneyd eto yn breswylfa pendefigion a thywysogion. Beth yw hyn? Ysbryd y gras yn dyfod i'r enaid, goleuni a bywyd Iesu yn ffrydio trwy ei farwol gnawd, gogoniant y Tad yn gweithio i godi'r truan i newydd-deb ysbryd. "Deddf Ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu," medd Paul, "a'm rhyddhâodd i oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth." Yr oedd bod dan bechod yn fy rhwymo i fod dan farwolaeth. Pa fodd y caed ddeddf i'th ryddhâu oddiwrth y ddeddf oedd yn dy gaethiwo? "Duw a ddanfonodd ei Fab ei hun yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, ac am bechod a gondemniodd bechod yn y cnawd." Wele Fab Duw yn dyfod i ymherodraeth pechod a marwolaeth, a dyna hwy yno yn ymddangos yn cael arglwyddiaeth arno ef ei hun; ond yn ei angeu rhyfedd, efe a ddinystriodd eu teyrnasiad hwynt, ac a sefydlodd deyrnasiad gras ar eu hadfeilion; a chan fod ei ddeiliaid ef yn awr dan ras, nid arglwyddiaetha pechod arnynt. Fel yr oedd anufudd-dod Adda yn cynnyrchu llygredigaeth ei had ef, felly y mae ufudd-dod Crist yn cynnyrchu sancteiddrwydd ei bobl yntau. Pwy bynag gan hyny sydd yn byw mewn pechod, nid oes a fyno hwnw â Christ, ac nid arddelwa Crist mo hono yntau.

IV. Mae yn eglurach o lawer eto nas gall credinwyr drigo mewn pechod *am eu bod wedi cael eu cyfiawnhâu mewn trefn i gael eu sancteiddio*; ac yn y golygiad hwn, moddion, neu fodd, i gyrhaedd sancteiddhâd yw y cyfiawnhâd.

Pwnc mawr Cristionogaeth yw cyfiawnhâd trwy ffydd. Dyma a ddygid ymlaen ac a egluria gan yr apostolion; a dyma oedd athrawiaeth fawr ac effeithiol Luther, a'r lleill o'r Diwygwyr Protestanaidd. Ond er mor ogoneddus yw'r cyfiawnhâd, wele ef yma yn cael ei osod allan fel ffordd i gyrhaedd dyben penodol. Beth yw y dyben hwnw? medd rhyw enaid. Lladd dy hen nwydau drwg; ymlid ymaith dy ymddyddanion llygredig, a'th holl arferion isel ac anghywir. Beth! os caf fi y fath fendith werthfawr â fy nghyfiawnhâu, a ydych chiwi yn dywedyd mai i'r

fath ddybenion â hyny y gwneir hyny? Ydwyf, fy enaid; mae'r pethau a nodais yn bethau mor adgas yn ngolwg sancteiddrwydd Duw, fel y mae yn werth ganddo dy gyfiawnhâu trwy waed ei Fab ef i gael ffordd deg i lanhâu dy natur oddiwrthynt. Ac, mewn gwirionedd, heb son am anfoesau anfad, os nad yw brychau duon dy gymeriad yn dyfod yn llai, chwaeth foesol dy ysbryd yn cael ei goethi, nes y mae yr anhurdeb a'r anghywirededd lleiaf yn fwyfwy annyoddefol genyt, yna, yn wir, y mae lle i ofni fod dy berson yn aros dan gondemniad y gyfraith sanctaidd. Mae'r sancteiddhâd yn rhwym o ddilyn y cyfiawnhâd. Mae Iesu Grist yn dyfod i'r enaid trwy ddwfr a gwaed. Mae rhoddi'r ddeddf yn y galon yn canlyn bod yn drugarog wrth yr anghyfiawnderau.

Felly y dangosir yma: "Gan wybod hyn, ddarfod croeshoelio ein hen ddyn ni gydag ef," yr hyn a wnaed yn y cyfiawnhâd, "er mwyn dirymu corff pechod;" a dyna yw y sancteiddhâd. Mae yma farw gyda Christ mewn trefn i fyw hefyd gydag ef, sef, byw yr un bywyd âg efe; ac y mae yma gladdu gydag ef mewn trefn i gyfodi gydag ef, tuag at i ni rodio mewn newydd-deb buchedd. Mae yma ein gwneuthur yn gydblanigion i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef, er mwyn bod felly i gyffelybiaeth ei adgyfodiad ef. Beth yw hyny? Ein planu yn Nghrist mewn trefn i'n gwneyd yn gyffelyb i Grist, yn gyntaf yn ei farwolaeth i bechod, trwy ein gwaredu oddiwrth rym condemniad pechod, ac yna yn ei adgyfodiad, trwy ein gwneyd yn gyfranog o'r un bywyd sanctaidd âg yntau. Mae'r gangen sydd yn tarddu o'r pren yn un â'r pren, ac felly yn gyffelyb iddo. Ceir ei risglyn, ei ddail, ei flodau, a'i ffrwyth, yr un fath ag yw yntau. Felly yr enaid sydd wedi ei impio trwy ffydd yn Nghrist, mae efe yn sicr o debygu i Grist. Wrth edrych ar ei ogoniant, efe a newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant.

Mae yr Apostol yma, yn ymresymiad y testun, yn sicrhâu yn y modd cadarnaf nad oes bosibl i wir gristionogion fyw yn ansactaidd a phenrhydd. Ië, ond chwi a ellwch eto fyw mewn pechod. Na, y mae hyny yn annichon. Mae peth wedi pasio rhyngom â Duw yn angeu Crist, o'r hyn y mae ein bedydd yn arwydd, âg sydd yn peri yn sicr y byddwn byw yn debyg iddo, ac y cawn fyw gydag ef byth. Beth y mae Crist yn ei wneuthur wedi marw unwaith i bechod? "Byw y mae i Dduw." A pha beth y mae'r



saint yn ei wneuthur o'r foment y darfu iddynt farw gyda Christ i bechod? Byw i Dduw; rhodio mewn newydd-deb buchedd neu fywyd. Pan yn feirw *mewn* pechod, yr oeddynt yn rhodio yn ol helynt y byd hwn; ond wedi marw i bechod, maent yn ddilyn-wyr Duw fel plant anwyl. Nid yw tymmor credinwyr wedi eu cyfiawnhâu cyn eu gogoneddu ond megys tymmor Crist wedi adgyfodi cyn esgyn i'r gogoniant. Megys yr oedd efe, felly y maent hwythau yn y byd. Maent yma fel saint yn adnabyddus yn unig i'w cyfeillion; canys nid edwyn y byd hwynt fel y cyfryw. Maent yn rhoddi arwyddion sicr o'u hadgyfodiad i newydd-deb buchedd, gan ddywedyd y pethau a berthynant i deyrnas Dduw; ac wedi bod yn fendith i bawb o'u hamgylch dros yr ychydig ddyddiau sydd iddynt yn y cnawd, fe esgyn yr enaid i ogoniant, i fod yn wastadol gyda'r Arglwydd. Byddai mor chwithig gweled y rhai sydd eiddo Crist yn dilyn eu hen fuchedd ag a fuasai gweled Crist ei hun, wedi ei adgyfodiad i fywyd newydd, yn ail ddechre byw bywyd o ddarostyngiad a dyoddefaint.

Yr ydym yn gweled Crist yn cael yma ei osod allan fel y cynllun, yr hwn y mae yr holl dduwiolion i fod yr un ffurf âg ef. Efe yw dechreuad y greadigaeth newydd. Beth bynag a fwriadodd Duw i'w bobl, efe a'i gweithiodd yn gyntaf ynddo ef, ei anwyl Fab; a pha beth bynag a weithiodd efe ynddo ef, efe a fyn eu cael hwythau yn gydffurf â hyny. A'u hawyddfryd hwy bob un ydyw, "Fel yr adnabyddwyf ef, a grym ei adgyfodiad ef, a chymdeithas ei ddyoddefiadau ef, gan fod wedi fy nghyddfurfio â'i farwolaeth ef; os mewn un modd y gallwn gyrhaeddyd adgyfodiad y meirw." Croeshoeliwyd Crist yn nghorff ei gnawd; croeshoelir hwythau yn nghorff pechod. Bydd ei angeu iawnol ef dros bechod yn angeu i bechod yn eu calonau. Gosododd ef ei wyneb fel callestr i ddybenu camwedd; byddant hwythau wedi eu harfogi â'r un meddwl i beidio â phechod. Mor sicr â'u cyfiawnhâu trwyddo ef, hwy a welir yn eu puro eu hunain megys y mae yntau yn bur. Ac mor sicr â bod y purdeb calon wedi ei ddechre, fe'i perffeithir mewn gogoniant. Beth a wneir i gorff y farwolaeth hon? Gwneir âg ef yn ol y portread a ddangoswyd i ni yn mynydd Calfaria. Yno gwelwyd Mab Duw dan hoelion yn gwaedu, yn gruddfan, yn trengu; ac y mae'r pechod, yntau, erbyn hyn ar y groes, â'i waed yn rhedeg, a'i ysbrydoedd yn

pallu, ac nis gall na threnga cyn bo hir. Beth a ddaw o'r corff gwael a marwol? Edrych ar y portread: ei gorff gogoneddus Ef; a chaiff corff ein gwaeledd ni ei gyfnewid i fod yn yr un ffurf. Gellir appelio at brofiad y cristion, er mwyn cryfhâu ei ffydd yn mherffeithiad y gwaith sancteiddiol. Onid oes ynot waith da wedi ei ddechre, ac yn myned ymlaen? A phaham yr amnheui y diwedd? Yr hwn a'i dechreuodd, efe â'i gorphen hyd dydd Iesu Grist. A pha beth fydd hyny ond bod yn sanctaidd ac yn ddifeïus—ein cael ganddo ef mewn tangnefedd, yn ddifrycheulyd ac yn ddiargyhoedd—ie, ein gosod ger bron ei ogoniant ef yn ddifeïus mewn gorfoledd.

Fel hyn, ni a welwn yn y modd mwyaf eglur nad oes dim yn fwy anghyson â holl drefn yr efengyl na bod neb sydd yn proffesu fydd yn Nghrist yn byw mewn pechod. Mae crefydd Crist yn ddinistr i bechod. Nid yw yr efengyl yn gwybod dim am gristionogion meddwon, celwyddog, anghyfiawn, dialgar, beilchion, na chybyddlyd. Nid oes gristion ond sydd debyg i Grist. Nid oes iachawdwriaeth i'n gwaredu rhag uffern heb iddi yn gyntaf ein gwaredu oddiwrth ein pechodau. A chofier nad all neb wrthwynebu pechod yn effeithiol heb eu hûno â Christ. Yn unig trwy gredu yr efengyl y sicheir bywyd sanctaidd, a marwolaeth ddiogel, a thragywyddoldeb gwynfydedig.

## PREGETH IV.

### CREFYDD DDIFFRWYTH.

IOAN XV. 2: "Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynu ymaith; a phob un a ddygo ffrwyth, y mae efe yn ei glanhâu, fel y dygo fwy o ffrwyth."

**Y** MAE gair yr Arglwydd yn dosbarthu dynion i ddau fath. Gosodir hwy allan fel plant dau dad, fel teithwyr dwy ffordd, ac fel preswylwyr dau le. Dynodir hwy gyda golwg ar y ddau wreiddyn o ba rai y tarddant: Had y wraig, a had y sarph; rhai o Dduw, a rhai o ddiabol; plant Duw, a phlant diabol. Dynodir hwy gyda golwg ar eu gwahanol gyflwr ysbrydol a'u hegwyddorion: cyfiawnion ac anghyfiawnion, duwiolion ac annuwiolion, credinwyr ac anghredinwyr, cyfeillion Duw a gelynyon Duw, da a drwg. Dynodir hwy hefyd yn ol y gwahanol lwybrau a gerddant: y naill yn ol y cnawd, a'r llall yn ol yr Ysbryd; un yn ol helynt y byd hwn, ac arall yn ol Crist. Ac os bydd y naill a'r llall yn gwneuthur proffes o grefydd, i ddangos y gwahaniaeth rhyngddynt yn hyny, cymherir hwy i wenith ac efrau; desgrifir un â dichell yn ei ysbryd, a'r llall yn bur o galon; ceir y naill yn Israeliad yn wir, a'r lleill o Israel ond nid yn Israel eu hunain. Dosberthir y ddwy blaid yn eu plith eu hunain yn llawer math. Gwahaniaethir annuwiolion yn ol y prif chwantau trwy ba rai y mae eu llygredigaethau yn gweithio, megys meddwon, cybyddion, celwyddwyr, puteinwyr, a'r cyffelyb; ac os bydd a fynont â phroffes grefyddol, dyna hwy yn rhagrithwyr, ac, wedi ymwrthod â'r broffes, yn wrthgilwyr. Mae'r saint, hwythau, yn myned dan

yr enwau tadau, gwŷr ieuainc, a phlant—yn cael eu dosbarthu yn rhai cryfion a rhai gweiniaid, yn rhai ysbrydol a rhai cnawdol, yn fabanod neu rai bach yn Nghrist a rhai llawn oed. Ond y mae'r ddau ddosbarth mawr a nodwyd yn cynnwys y cwbl. Duw-iolion ac annuwiolion yw yr oll, er y gwahaniaeth a all fod yn eu plith eu hunain. Oes, y mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y ddwy blaid. Y foment y daeth Ysbryd Crist i drigo mewn enaid, ffurfiwyd Crist ynddo ef, ac yntau i Grist. Ac felly y mae gwahaniaeth ysbryd, nodweddiad, a thynged rhwng y cyfiawn a'r aughyfiawn; gwahaniaeth, o'r foment y cyfansoddir ef, a bery beth. Mae eu dwy egwyddor yn elyniaeth at eu gilydd, ac yn twy effeithiol i'w hysgar nag ydyw dim a berthyna iddynt fel dynion yn eu cadw yn un. Bydd pob gwahaniaeth arall yn darfod yn angeu; ond bydd y gwahaniaeth hwn yn parhâu, ac yn fwy trwyadl ac yn fwy amlwg yn y byd a ddaw nag yn y byd sydd yr awr hon.

Eto y mae personau o'r ddwy blaid ar amserau yn dyfod yn debyg iawn i'w gilydd. Mae gwir gristion trwy adfeiliad a llygredigaeth yn myned yn debyg i ddyn annuwiol, a'r annuwiol trwy oleuni ac argyhoeddiadau yr Ysbryd Glân yn dyfod yn debyg i gristion. Dyna bechod yn ennill y fath oruchafiaeth ar y naill nes y mae wedi myned yn debyg iawn i ddyn dan ei lywodraeth, ac yn cael ei ddarostwng gymaint yn y llall nes y byddo yn debyg i ddyn wedi ei ryddhâu oddiwrth bechod. Mae'r naill yn cael y fath lewygfeydd nes y dywed llawer ei farw ef; ac y mae'r llall yn dangos y fath adnewyddiad nes y taera llawer ei fod yn fyw. Ceir cristion weithiau yn myned mor agos i'r annuwiol, fel nad oes gan yr eglwys un rheol i'w farnu, tra yn yr agwedd hono, yn ddim amgen nag annuwiol; a cheir, o'r ochr arall, yr annuwiol mor agos i deyrnas Dduw, o fewn mor ychydig i fod yn gristion, fel nas gall yr eglwys, trwy un reol neillduol yn y gair, ei brofi yn ddim arall tra y parhâo yr agwedd hono arno.

Ond yn gyffredin, nid yn hir y bydd y naill a'r llall yn aros yn debyg i'w gilydd, ac felly y deuant i ddangos beth ydynt mewn gwirionedd. Mae'r cristion, trwy adferiad, yn colli pob tebyg i'r annuwiol, a'r rhagrithiwr, trwy adfeiliad, yn colli pob tebyg i gristion, ac yn ymddangos yn ei wir garacter. Mae mwynder y naill yn ymado, a'i grefydd fel adeilad drylliog yn dyfod i lawr,

tra y mae'r llall yn deffroi o'i gysgadrwydd, yn codi oddiworth y meirw, a Christ yn goleuo iddo, nes y mae yn ymdrechu am fyned i mewn i orphwysfa Duw o dan effeithiau ofn duwiol, ac yn ymddyrchafu uwchlaw arwyddion bod yn ôl.

Mae y ddau fath yma o ddynion yn cael eu darlunio gan yr Arglwydd Iesu yn ddammegol neu gyffelybiaethol yn y testun, a hyny yn yr hyn yr oeddynt yn gyffelyb, ac yn yr hyn oedd yn profi y gwahaniaeth rhyngddynt. Yr oedd y naill a'r llall yn Nghrist—yn gydgangenau yn yr un winwydden; ond nid oedd y naill yn aros yn y winwydden, tra yr oedd y lleill yn parhâu ynddi—y naill yn ddiffwyth, yn gwywo fwyfwy, ac o'r diwedd yn cael eu tynu ymaith, eu tafu allan, eu casglu, eu bwrw yn tân, a'u llosgi, a'r lleill yn y winwydden yn dwyn ffrwyth, ac yn cael eu glanhâu fel y dygent fwy o ffrwyth.

Edrychwn oddiyma ar y grefydd ddiffwyth, a hyny mewn tri pheth: ei chychwyniad gobeithiol, ei diffyg niweidiol, a'i diwedd gresynol.

I. Y GREFYDD HON YN EI CHYCHWYNIAD GOBEITHIOL  
“Cangen ynof fi,” medd Crist.

Trwy y gymhariaeth o winwydden a changenau, dengys Crist yr undeb sydd rhwng ei bobl âg ef ei hun. Y mae hwn yn ddeublyg; a gellir meddu y naill blyg, sef yr un allanol, heb y llall, sef yr un ysbrydol a chadwedigol.

Y cyntaf a nodwn yw yr un ysbrydol a gwirioneddol. Mae hwn yn cael ei gyfansoddi trwy fod Ysbryd Crist yn dyfod i breswyllo yn yr enaid, ac felly yn ei ddwyn i adnabod Crist ac ymorphwys arno; ac fel hyn y mae'r saint yn Nghrist, ac yntau ynddynt hwythau. Maent hwy ynddo ef fel eu noddfa i'w diogelu; oblegid, yn ol trefn yr efengyl, mae cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif iddynt ar foment eu hundeb âg ef, a'u personau yn cael eu codi i ffafr Duw, Barnwr pawb, fel nad oes yn awr ddim damnedigaeth iddynt. Maent ynddo, fel cangen yn y winwydden, i ffrwythloni. Trwy nerth yr efengyl, y mae gras Crist yn dyfod i eneidiau y rhai sydd mewn gwir undeb âg ef; y gras hwnw yn fywyd a nerth i fyw yn dduwiol, megys y mae yr aelod yn cyfranogi o fywyd y corff, a'r gangen o nôdd y winwydden. “Byw ydwyf,” medd Paul, “eto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi.”



Yr ail yw yr undeb ymddangosiadol. A gall fod yn hwn fwy nag a feddylia rhai. Nid golygu yr ydym ddyn yn ymddangos yn meddu rhywbeth âg yntau heb fod ganddo ddim, ond dyn gyda rhywbeth ganddo, eithr hwnw heb fod y peth yr ymddengys ac y dysgwylir iddo fod. Mae gan y dyn rywbeth, a hwnw yn beth da hyd y mae yn cyrhaedd, yn beth tebyg i undeb â Christ; ond nid y gwir a'r bywiol undeb mo hono.

Y mae rhai, yn wir, nad ydynt yn proffesu eu bod yn perthyn i Grist; nid ydynt yn gwneuthur un ymddangosiad o gysylltiad âg ef. Ac y maent yn ystyried hyny yn rhoddi rhyddid iddynt i gyflawni eu holl chwantau. Ymogoneddant hwy yn eu gwaith yn gwadu Crist, ac felly dodant eu cywilydd yn esgus dros eu pechod. Ond y mae eraill yn proffesu perthynas â Christ, am y rhai y mae yn rhy amlwg nad ydynt yn meddu dim o'r peth mawr, ysbrydol, sydd yn y grefydd a broffesant; nac ydynt, ddim tebyg iddo. Mae eu crefydd, fel y mae, yn effaith damwain. Yr un peth â'u gwnaethai hwy yn Fahometaniaid ag sydd yn eu gwneuthur yn Gristionogion, sef, cael eu geni o deulu neu mewn gwlad felly. Nid ydynt erioed wedi dewis Cristionogaeth oddiar argyhoeddiad; nid ydynt yn deall athrawiaeth y grefydd a broffesant, nac yn cydffurfio â'i rheolau; a pha le bynag yr ymddengys hi yn ei nerth, byddant yn berwi mewn gelyniaeth ati. Nid yw y rhai hyn mewn un modd gymaint âg yn gangenau yn y winwydden; ac nid yw yn un trosedd ar gyfraith cariad farnu felly am danynt. Mae llawer mwy na hynyma yn anghenrheidiol i gyfansoddi hyd yn nôd yr undeb ymddangosiadol, fel y galwn ni ef, â Christ, y wir winwydden. "Onid erys un ynof fi," medd yr Iesu, "efe a daflwyd allan megys cangen, ac a wywodd." Golygir am hwna fod rhyw arosrwydd ac ireidd-dra wedi bod ynglŷn âg ef; un ydyw wedi adfeilio, a cholli rhywbeth a fu ganddo. Yr oedd y dyn yn proffesu Crist, a'r broffes yn codi, nid oddiar amgylchiadau allanol, ond oddiar ryw fath o egwyddorion tumewnol, a'r rhai hyny mor debyg i wir ffydd, nes yr oedd y dyn ei hun, ysgatfydd, gydag eraill hefyd, yn meddwl mai dyna ydoedd. Yr oedd yma *ffurf* duwioldeb; rhywbeth tebyg iawn i'r hyn sydd gan y duwiol. Cawn yn *Hebreaid* vi. 4—6 ddarluniad o'r grefydd hon: "rhai a oleuwyd unwaith, ac a brofasant y rhodd nefol, ac a wnaethpwyd yn gyfranogion o'r Ysbryd Glân, ac



a brofasant ddaionus air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw," ond y cwbl yn dybenu mewn syrthio ymaith yn anfeddyginiaethol. Dichon fod y geiriau yn cyfeirio yn arbenig at ddoniau neillduol oedd yn perthyn i'r oes apostolaidd; ond gellir cael dynion eto a wnaed i fesur yn ddeiliaid cyffelyb ddoniau, eithr heb feddiannu y "pethau gwell, a phethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth."

Gellir nodi am y rhai hyn,

1. *Eu bod dan law yr un Gweithiwr â'r hwn sydd yn gweithio yn y saint.* Yr Ysbryd a roddwyd i Grist, y Person Dwyfol ag sydd yn wreiddyn holl ragoriaeth y saint, eu dyddanwch, eu sancteiddiad, a'u gogoniant, gall fod gweithrediadau o'r eiddo ef ar rai a fyddant yn y diwedd yn golledig. Mae hanes llawer profeswr yn debyg i hanes Saul, brenin Israel: "Ysbryd Duw a ddaeth arno ef—Ysbryd yr Arglwydd a giliodd oddiwrtho ef—drwg ysbryd oddiwrth yr Arglwydd a'i blinodd ef." Dyna'r diwedd yn waeth na'r dechreuad. Peth trwm yw colli dyn o dan law gweinidog duwiol, neu blentyn o dan law rhieni duwiol; peth i'w gofio oedd colli gwraig Lot ar ol bod yn llaw yr angylion; ond y peth trymaf oll yw enaid yn cael ei golli byth wedi iddo fod dan law Ysbryd Duw. Y ffordd y cyrhaeddodd hwn goll-edigaeth oedd gwrthwynebu yr Ysbryd Glân—tristâu, gofidio, diffodd yr Ysbryd. Chwi sydd yn y cyfryw berygl, gwrandewch heddyw ar leferydd Duw: "Cymer addysg, O Jerusalem, rhag i'm henaid i ymado oddiwrthyt." "A gwae hwynt pan ymadäwyf oddiwrthyt."

2. *Eu bod yn profi rhywbeth tebyg i'r un gwaith ag sydd ar y saint.* Mae yr Ysbryd Glân yn gwneuthur yr oll ar y saint ag y mae yn ei wneuthur arnynt hwy; ond nid yw yn gwneuthur arnynt hwy yr oll ag y mae yn ei wneuthur ar y saint.

Mae yr Ysbryd, yn ei waith ar y saint, yn llewyrchu goleuni ysbrydol i'w meddyliau, a thrwy hyny yn trosglwyddo bendithion gras Duw trwy y gair i'w calonau. "Efe a roes i ni feddwl, fel yr adnabyddom yr Hwn sydd gywir." "Duw, yr hwn a orchymynodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch, yw yr hwn a lewyrchodd yn ein calonau." Wel, dyma y rhai a syrthient ymaith, ac yr oedd yn anmhosibl iddynt ymadnewyddu drachefn i edifeirwch, yn rhai oedd wedi eu goleuo unwaith, a hwnw yn oleu Duw yn cael ei drosglwyddo i'w meddyliau. Gellir, yn wir, gael

gwybodaeth am bethau ysbrydol trwy lafur naturiol; ond wele yma fwy: goleuni gwybodaeth, llewyrch efengyl, llewyrch yr Ysbryd ar y pethau a wyddent eisoes, nes yr oeddynt yn eu gweled yn sicrach ac yn fwy effeithiol. Desgrifir hyn yn "dderbyn gwybodaeth y gwirionedd," yn "adnabod ffordd cyfiawnder," yn "adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist." Yr oedd y dynion hyn wedi gweled rhywbeth yn eu cyflwr drwg wrth naturiaeth, nes canfod yr anghenheidrwydd a'r gwerth o drefn achub fel y mae yn ateb i ofynion Duw ac i anghenion dyn. Trwy y goleuni hwn, maent yn profi nerth argyhoeddiadol y gwirionedd. Mae condemnio pechod yn beth naturiol i'r gydwybod yn ol y goleuni fyddo ganddi; ond y mae cellwair â phechod yn pylu awch cydwybod nes nad ydyw mwyach yn archolli'r pechadur; eithr "bywiol yw gair Duw, a nerthol, a llymach nag un cleddyf daufiniog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymmalau a'r mêr, ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon." Gesyd y gair y bai o flaen y gydwybod, ac a wna farn. Dyna'r pethau yr wyt yn euog o honynt, medd efe; a "diwedd y pethau hyny yw marwolaeth; o achos yr hyn bethau y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod;" a thi yw'r gŵr; marw fyddi. Dan y fath orchwyliaeth, mae'r dyn fel Judas yn gwaeddi, "Pechais!" a'i ymfyniad ydyw, Beth a wna? Beth yw hyn? Cychwyniad gobeithiol.

Mae goleuni'r cristion yn cynnyrchu ffydd. Yn yr olwg ar drefn iachawdwriaeth trwy Grist, mae ei holl enaid yn ei chymeradwyo, ac yn ymorphwys arni. Felly y mae'r goleuni a drosglwyddir i feddwl cristion o fewn ychydig yn peri iddo yntau gredu dros amser. Mae tystiolaeth o wirionedd y gair yn ei gydwybod, a chydysniad cryf âg ef fel gwir yn ei feddwl, fel y gallai ar y pryd ddyoddef carchariad, neu alltudiaeth, ië, ac angeu drosto. Dywedir yn yr hanes am Grist, "Llawer a gredasant yn ei enw ef, wrth weled ei arwyddion a wnaethai efe." Yr oedd y bobl hyny, ynte, yn rhai cadwedig, meddwch. Nac oeddynt, canys "nid ymddiriedodd yr Iesu iddynt am dano ei hun, am yr adwaenai hwynt oll." Drachefn: "llawer o'r pen-aethiaid a gredasant ynddo." Wel, yn ganlynol hwy a aethant ar ei ol. Naddo ddim: "oblegid y Pharisëaid ni chyffesasant ef,

rhag eu bwrw allan o'r synagog; canys yr oeddynt yn caru gogoniant dynion yn fwy na gogoniant Daw." Felly am Simon y swynwr yn Samaria: "Simon yntau a gredodd," tra yr oedd efe eto yn aros "mewn bustl chwerwedd ac mewn rhwymedigaeth anwiredd."

Mae gwaith mawr ar serchiadau y cristion; mae efe trwy gredu yn llawenhâu. Yn Nghrist, heb fod yr awr hon yn ei weled, ond yn credu ynddo, y maent yn mawr lawenhâu â llawenydd annhraethadwy a gogoneddus. Felly hefyd am danynt hwy sydd yn awr dan ein sylw. Ceir hwythau, megys yr oedd gwrandaŵyr Ioan Fedyddiwr, yn "ewyllysgar i orfoleddu dros amser yn ei oleuni ef," ac fel "yr hwn a hauwyd ar y creig-leoedd—yn gwrandao y gair, ac yn ebrwydd trwy lawenydd yn ei dderbyn." Mae'r pregethwr megys cerddor yn eu difyru. Felly yr oedd Ezeziel i'r bobl o'i amgylch. "Wele di iddynt fel cân cariad un hyfrydlais, ac yn canu yn dda." Byddant â'u serchiadau fel tannau offer cerdd yn seinio tônau llòn neu leddf yn ol fel y chwareuo, a thra y chwareuo, bysedd y cerddor. Deuant dan weinidogaeth y gair, ac yno gall daeargryn Duw ysgwyd eu cydwybodau, a fflam melldith y ddeddf am euogrywydd felltenu o flaen eu meddyliau; ac yna pan glywant weinidogaeth y cymmod yn cyhoeddi maddeuant a chyfiawnhâd bywyd, derbyniant y gair yn llawen. Ond darfodedig yw y cynhyrriad; eginiad disymwth yn gwywo yn fuan, am nad oes wir wreiddyn iddo yn yr enaid.

Gall hefyd fod cryn ddiwygiad ar y rhai hyn yn allanol. Mae gras yn cyfnewid cristion, nes y mae yr ymarweddiad cyntaf yn cael ei roi heibio ganddo, a phob peth wedi eu gwneyd o newydd. Ac felly pobl yr undeb ymddangosiadol â Christ. Gellwch feddwl, wrth edrych arnynt i ddechre, eu bod yn berffaith a chyfan, heb ddiffygio mewn dim; nid oes ganddynt, fe dybygid, yr un pechod heb ei adael, na gorchymyn heb ei gadw, na dyledswydd heb ei chyflawni. Pan elo yr ysbryd aflan allan o ddyd, dyna'r tŷ wedi ei ysgubo a'i drwsio. Wedi i Herod glywed Ioan, "efe a wnai lawer o bethau, ac a'i gwrandawai ef yn ewyllysgar." Beth a wnaeth adnabyddiaeth o bethau yr efengyl i'r gau-athrawon yr ysgrifennai Pedr yn eu herbyn? Peri iddynt ddianc oddiwrth y rhai oedd yn byw ar gyfeiliorn—dianc oddiwrth halogedigaeth y

byd. Ond am ychydig y bu hyny; canys dyna hwy wedi eu rhwystro drachefn â'r pethau hyn, a'u gorchfygu.

Wele, dyma'r grefydd amserol yn y wedd oreu arni; dyma y rhai hyn yn gangenau yn y winwydden; doniau ysbrydol yn eu galluogi dros amser i actio dyledswydd crefydd. Ond rhaid i ni yn awr edrych ar yr olwg bruddaidd arnynt.

II. Y GREFYDD HON YN EI DIFFYGIION NIWEIDIOL. "Cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth;" ac fel y dywed y bummed adnod, "Onid erys un ynof fi." Dyna'r diffygion andwyol: heb ddwyn ffrwyth i Grist, ac heb aros yn Nghrist.

Mae drwg y grefydd hon yn cael ei disgrifio, nid yn gadarnhäol, ond yn nacäol; nid trwy nodi allan y beiau y mae ei pherchen yn eu cyflawni, ond trwy gyfeirio at y da nas gwelir ynddi. Mae'r profeswr gau yn barod i ymesgusodi, ac i dybied fod ei grefydd yn dda o herwydd y drwg nas canfyddir ynddi; ond y mae gair Duw yn condemnio ei grefydd oblegid y da nas ceir ynddi. "Yn hyn y mae yn amlwg plant Duw, a phlant diafol: pob un a'r sydd heb wneuthur cyfiawnder, nid yw o Dduw, na'r hwn nid yw yn caru ei frawd." Ac yn y farn olaf, y "Nis gwnaethoch" a fydd yn gyru y rhai ar y llaw aswy i gosbedigaeth dragwyddol.

Beth yw gwreiddyn ac achos y diffygion hyn? Heb fod mewn gwirionedd yr hyn a ymddangosent yr oedd y rhai yma; yr argyhoeddiad heb gynnyrchu dychweliad, yr holl orchwyliaeth heb ddybenu mewn tröedigaeth. Yr oedd eu teimladau wedi eu dwyn i broffesu Crist, ond nid i gredu ynddo. Ffrwyth undeb â Christ yw aros ynddo ef; "a'r hwn sydd yn aros ynof fi, a minau ynddo yntau," ebe Crist, "hwnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer;" ond nid oedd yma aros ynddo, na ffrwyth iddo, a hyny o herwydd nad oedd dim gwir undeb rhyngddynt âg ef. Mae y rhai hyn yn debyg i'r Israel gynt. Yr oedd addewid i fyned i Ganaan wedi ei gosod o'u blaen, a hwythau wedi troi o'r Aipht, a dyfod trwy'r Môr Coch, â'u hwynebau tua gwlad yr addewid; ond wedi cyfranogi o'r breintiau mawrion, y bendithion gwyrthiol, dyna hwy yn syrthio yn fyr o Ganaan, gan gwympo yn y diffeithwch. Gall llawer un ddywedyd, fel y gŵr ieuanc yn yr efengyl am y gorchymynion, "Mi a gedwais y rhai hyn oll o'm hieuenctyd; beth sydd yn eisieu i mi eto?" Dyma oleuni Duw

yn fy meddwl, saethau Duw yn fy nghydwybod, llawenydd yn fy serch, diwygiad yn fy muchedd, a minnau wedi symud o'r byd i'r eglwys; beth sydd yn eisieu i mi eto? Enaid, y mae un peth eto yn ôl i ti, a hwnw yr un peth anghenrheidiol. Er nad wyt ti bell oddiwrth deyrnas Dduw, mae yna ddigon o rwystr i dy gadw allan o honi byth. Os wyt o fewn ychydig i fod yn gristion, gelli eto fod heb ran na chyfran yn Nghrist yn dragywydd. Wedi dy dori o'r hen gyff, ti a grini eto o eisieu dy impio yn fywiol yn y bywiol Bren. Ar ol dy godi o Sodom, yr wyt yn debyg o gael dy golli o eisieu dianc i Soar.

Ynglyn âg undeb ffydd â Christ y mae parhâd, ac nid mewn teimladau hwyliog neu serchiadau tanllyd. Gall yr ieuencyd, sydd yn awr yn edrych yn hoenus, ddiffygio a blino, a'r gwŷr ieuainc nerthol syrthio; "eithr y rhai a obeithiant yn yr Arglwydd a adnewyddant eu nerth." Ac ynglŷn â'r undeb hwn y mae ffrwythlondeb. Caed y ffigysbren yn y winllan heb ddwyn ffrwyth; a'r winllan a blunwyd o'r winwydden oreu, yn lle dwyn grawnwin, a ddŷg rawn gwylltion. Ond yr Hwn sydd yn caru yn rhad, ac fel y gwllith i Israel, a ddywed, "O honof fi y ceir dy ffrwyth di." Wedi y rhyddhau oddiwrth bechod, a'r rhwymo i Dduw, dyna i ni ein ffrwyth yn sancteiddrwydd. Wedi dyfod yn eiddo yr Hwn a gyfodwyd o feirw, dyna ni yn dwyn ffrwyth i Dduw.

Beth yw y diffygion hyn yn eu natur? Maent yn amddifad-rydd o'r ffrwyth da y mae Duw yn ei ddysgwyl ac yn ei geisio. Ffrwyth gwir argyhoeddiad yw dychweliad, a ffrwyth dychweliad yw sancteiddiad calon, a ffrwyth sancteiddiad calon yw ufuddod bywyd. Dyfod at Grist, a byw iddo—pwysu ar ei haeddiant, ac ymdebygu i'w Ysbryd,—dyna yw gwir grefydd; a diffygiol ac ofer yw pob crefydd arall. Mae'r saint, yn eu hundeb â Christ, yn cael eu gwneyd yn gyfranogion o'r duwiol anian; a thrwy hon, y maent nid yn unig yn cael eu planu yn Nghrist, ond yn aros ynddo; aros mewn myfyrdod arno, cariad ato, a chymdeithas âg ef. Trwy hyn y maent yn derbyn o'i gyflawnder, ac felly yn cael eu galluogi i ddwyn ffrwyth lawer. Yn nghynnydd grasusau y dduwiol anian, ceir hwy "wedi eu cyfoethogi ymhob peth i bob haelioni—wedi eu cyflawni â ffrwythau cyfiawnder—gan ddwyn ffrwyth ymhob gweithred dda, a chynnyddu yn ngwybodaeth am



Dduw." Wedi gwneyd y pren yn dda, nis gall y ffrwyth fod yn ddrwg. Ond nid felly y bydd y rhagrithiwr a'r cristion o fewn ychydig. Er y gall fod arnynt am dymmor ryw bethau tebyg i'r ffrwyth da, ond nid y gwir ffrwyth mo hono. Fel Israel ddirywiedig, nid oes yma ond "gwinwydden wag," er y ffrwyth sydd arni; canys nid ffrwyth ydyw er gogoniant a moliant i Dduw; nage! "efe a ddwg ffrwyth iddo ei hun."

Beth yw arwyddion y diffygion hyn?

1. Mae'r diffyg o ddwyn ffrwyth, a'r diffyg o aros yn Nghrist, yn ymddangos yn adfeiliad y cychwyniad gobeithiol, pan y dylasai fyned ymlaen at berffeithiad. Mae argyhoeddiad gwir gristion yn dybenu yn ei undeb â Christ; ac oddiar yr undeb hwn y cyfyd ei grefydd dufewnol ac allanol, ac y pery efe i rodio ffordd sancteiddrwydd. Parhâd crefydd sydd yn profi ei gwreiddio mewn undeb â'r Gwarddwr. "Canys fe'n gwnaed ni yn gyfranogion o Grist, os daliwn ddechreuad ein hyder yn sicr hyd y diwedd." Pa deimlad bynag oedd ymhob cynneddf tuag at Dduw a Christ, a thuag at bechod, yn y dechre, y cyfryw deimlad, ac nid un teimlad gwahanol, a fydd yno byth. Y peth a roes Ysbryd Duw yn yr adenedigaeth i dueddu yr enaid i'w holl ufudd-dod efengylaidd, a bery nes cyrhaedd ei nôd uchaf, sef tragywyddol fwyhâd o Dduw. Dyna efe yn gwaeddi, "Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw." A pha beth a ddaw o hono yn y diwedd? Dim ond da fydd iddo. "Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder; canys hwy a ddiwellir." Dyna efe yn ddibaid yn ymdrech yn erbyn pechod; a pha fodd y dybena hyn? Mewn cyflwyniad o hono yn sanctaidd, ac yn ddifeiws, ac yn ddiargyhoedd ger ei fron ef, yr hwn yw delw y Duw anweledig. Dyna efe yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd, gogoniant Crist yr Arglwydd, megys mewn drych, ac wrth ddal i edrych yn cael ei newid fwyfwy i'r unrhyw ddelw. Beth a ddaw o hyn? Gwrandewch: "ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo; oblegid ni a gawn ei weled ef megys ag y mae." Nid oedd dim llai yn ngolwg Crist yn ei ras o'r dechre na chael ei bobl i ddwyn ffrwyth, ac i ffrwytho yn barhâus. "Myfi a'ch dewisais chwi, ac a'ch ordeiniais chwi, fel yr elech ac y dygech ffrwyth, ac yr arosai eich ffrwyth." Dyma goron gwir gredadyn: ei ffrwyth yn aros. Erys ei ffrwyth ef, wedi i'r eiddo



y proffeswr gau wywo. Hyd yn nôd ar flwyddyn sychder, ni phaid efe a ffrwytho. Ië, efe a ä rhagddo, o nerth i nerth, o ras i ras, o ogoniant i ogoniant. “Llwybr y cyfiawn sydd fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwyfwy hyd ganol dydd.”

Ond megys y mae myned rhagddi yn natur crefydd dda, felly y mae adfeilio yn natur crefydd ddrwg Mae fel dwfr y pwll yn sychu, am mai effaith cyflenwad amserol, ac nid dwfr bywiol yn tarddu, ydyw. Argyhoeddiad cydwybod, ac nid crediniaeth calon, yw yr egwyddor ragoraf yn nghrefydd y cristion gau; a chan hyny nid oes barhâd ynddi. Y tŷ ar y tywod ni saif yn wyneb chwythad y gwyntoedd a rhuthr y llifddyfroedd. Y grawn ar greigleoedd, lle ni chawsant fawr ddaear, a wywasant ar godiad haul. Gall dyn barhâu am dymmor gyda ffurf neu rith crefydd; ond gan oes drafodaeth rhwng ei enaid â Duw, mae yn ddiffygiol o bethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth. Pa ddychrynfeydd bynag, neu pa ddyddanwch bynag, a brofwyd, os yw y naill a'r llall wedi myned heibio, a darfod, ni bu yno erioed ddim oedd yn achub ac yn sancteiddio. Gan hyny, “a ydych chiwi yn awr yn credu?” yw'r cwestiwn o bwys.

2. Mae'r diffwrwythder, a'r ymadawiad oddiwrth Grist, *yn tori allan mewn arbediad ac ymarferiad o bechodau dirgel*. Mae telerau y cyfammod gras yn galw am berffeithrwydd; perffeithrwydd mewn rhanau, os nid mewn graddau. Duw, wrth adnewyddu ei gyfammod âg Abraham, a ddywedodd wrtho, “Myfi yw Duw Hollalluog; rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith.” Am y perffeithrwydd hwn y mae yr enaid duwiol yn ymgyrhaedd. “Glanhâ fi oddiwrth fy meïau cuddiedig,” gweddïa efe; “attal hefyd dy was oddiwrth bechodau rhyfygus; yna y'm perffeithir, ac y'm glanheir oddiwrth anwiredd lawer.” Dyma yw dwyn llyisiau cymhwys yn lle drain neu fieri: grasusau nefol yn cael eu meithrin yn lle chwantau cnawdol; y naill yn cynnyddu, a'r lleill yn crino. Ond gall rhywbeth tebyg i fwrw ymaith bechod dros amser fod mewn dyn wedi ei argyhoeddi heb ei aileni. Dacw air Duw yn ei oleuni a'i awdurdod yn dyfod i'w gydwybod. Geilw ei orchymynion yn nerthol, “Rhoddwch heibio bob budreddi a helaethrwydd malais. Rhoddwch heibio bob drygioni, a phob twyll, a rhagrith, a chenfigen, a phob gogan-air. Tyner ymaith oddiwrthych bob chwerwedd, a llid, a dig, a llefain, a

chabledd, gyda phob drygioni Ymgedwch rhag pob rhith drygioni." Tyner ymaith yr ymarferiadau pechadurus o'r fuchedd, y chwantau drwg o'r galon, y cynhyrfiadau ansanctaidd o'r fynwes. Os na chynddeirioga yr enaid am ei chwantau yn wyneb y fath attalfeydd, a thori dros furiau'r gorchymyn ar unwaith, yna efe a ymdrecha i gydsynio â'i argyhoeddiadau am dymmor, ac a ddechreua ymlanhâu oddiwrth ei bechodau gynt. Ond nid wedi ei ddyhysbyddu y mae'r chwant, eithr yn croni yn y galon. O'r diwedd efe a welir yn dechre nawsio trwy glawdd priddlyd yr argyhoeddiadau. Yn y man, mae'r argyhoeddiadau, ar ol cyrhaedd eu heithaf, yn gwanhâu, ac fel llanw'r môr, wedi'r penllif, yn troi i'r trai, gan adael y llaid ar ei ol, neu fel tir â'i lysiau goreu yn gwywo, ac yn dangos ei ddiffwrwythder trwy fod y drain yn ad-godi a chryfhâu. Mae calon ddrwg anghrediniaeth yn gorchfygu, nes peri i'r enaid ymado oddiwrth Dduw byw. A phob modfedd y mae pechod yn ennill, y mae Crist yno yn colli. Mae'r beiau cuddiedig yn dallu'r meddwl nes tynu'r myfyrdod oddiwrth Grist—yn llithio'r serch nes na byddo mwyach fel morwyn bur i Grist—yn ennill yr ewyllys nes tori trwodd yn ddibris o awdurdod Crist—ac yn caledu'r gydwbybod fel nas gallo eto ymroddi mewn ffyddlondeb i Grist. Oddiyna mae'r llygredigaeth yn tori allan yn yr ymddygiad; ac wedi gadael Crist yn ei orchymyn, nid anhawdd fydd ei adael yn ei waith a'i achos. Os yw crefydd yn sefyll rhyngddo â'i chwant, efe a'i gollynga hi ymaith er mwyn dilyn y chwant yn ddirwystr. Mae Pedr yn darlunio'r crefyddwyr amserol hyn, ar ol dechre yn dda mewn dianc oddiwrth halogedigaeth y byd trwy adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist, yn cael eu rhwystro drachefn â'r pethau halogedig, yna yn cael eu gorchfygu, a chan hyny yn troi oddiwrth y gorchymyn sanctaidd a draddodwyd iddynt, a'u diwedd yn myned yn waeth na'u dechreuad.

3. Ymddengys y diffwrwythder a'r gwrthgiliad *newn esgeuluso a gadael heibio ddyledsweyddau dirgel*. Gyda gwir gristion, mae yr oll o'r dyn yn aros yn yr oll o'r gair dros yr oll o'i fywyd. Mynai efe sefyll yn berffaith ac yn gyflawn yn nghwbl o ewyllys Duw. "O am gyfeirio fy ffyrdd i gadw dy ddeddfau!" medd efe; "yna ni'm gwaradwyddid pan edrychwn ar dy holl orchymynion." Y gorchymynion perthynol i'w galon, i'w dymher, i'w ymadrodd, ac

i'w ymddygiad,—mae efe yn edrych arnynt oll, i'w cadw. Er y gall rhai o'r dyledswyddau a orchymynir fod yn fwy croes i'w duedd naturiol, eto mae'r dduwiol anian am ufuddhâu o'r galon i'r cyfan. Ond am y neb na chyrhaeddodd ond ffydd amsero', mae efe yn cyflawni'r gorchymyn oddiar argyhoeddiad wedi gafael yn y syniad, ac nid wedi treiddio i'r serch a'r ewyllys; cael ei yru y mae, ac nid ei dueddu; ei ddal yn orfodol ger bron yr Arglwydd, ac nid yn glynu wrtho trwy lwyfrfyd calon; a chan hyny y mae yn blino yn fuan. Ac am mai y dyledswyddau dirgel sydd yn rhoddi lleiaf o fwyniant i'r cnawd, ac yn anfon yr enaid yn fwyaf uniongyrchol at Dduw, arnynt hwy y blinir gyntaf, ac o radd i radd esgeulusir hwy yn gwbl. Yn y teulu nid yw'r dyn eto yn hollol ddiffwrwyth; yn yr Ysgol Sabbothol gall fod yn werth rhywbeth; ac yn yr eglwys y mae efe eto yn cadw ei le. Ië, efe a all fod yn myned i'r pulpud, ac yno yn gwasanaethu i gadw oedfa am y tro. Ond ewch gydag ef i'r dirgel, ac y mae yno bobpeth wedi darfod rhyngddo â Duw. Pwy bynag sydd yn cael rhyw ffrwyth oddiarno, gall Duw ddywedyd, "Nid ydwyf fi yn cael dim." Wedi dechre fel hyn, nid anhawdd cyn hir a fydd esgeuluso yr ordinhadau cyhoeddus, ac o'r diwedd gyrhaedd yr eithaf ofnadwy hwnw, "Os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach."

4. *Blino ar y llafur sydd yn anghenrheidiol i ddal i fyny y sancteiddrwydd calon a bywyd a ofynir yn yr efengyl.* Mae y gorchymyn yn dra äang; gosfyna am gyflawni pob dyledswydd heb esgeuluso yr un, am farweiddio pob pechod heb arbed un, ac am godi pob croes heb osgoi un; ië, arddoda arnom gadw gogwydd y galon yn erbyn pechod, a gosod awch y galon at ddilyn sancteiddrwydd, a hyn ymhob amgylchiad, yn ddirgel a chyhoeddus, gartref ac oddicartref, mewn hawddfyd ac adfyd, a'r cyfan dros yr holl fywyd. A rhaid gwneuthur hyn oll er gwaethaf gelynyon cryfion. Mae'r drwg yn byw yn y dyn, ac yntau yn byw yn y byd drwg, yr hwn y mae yr oll sydd ynddo yn meddiant yr un drwg. Mae efe yn trigo yn y lle y mae gorseddffainc Satan—lle y mae cyfoeth, masnach a dylanwad cymdeithas y mwyafrif o ddynion, dan reolaeth yr un drwg i weithio ar y peth drwg sydd yn y galon. Yn y fath le y

mae yn rhaid cadw gair Crist, heb wadu ei enw. Yma y mae yn rhaid cadw y dillad yn wynion bob amser. Ac fel hyn y gwna'r cristion, gan fod ei ffydd ef yn gorchfygu'r byd, ac yn cadarn wrthwynebu'r diafol. Ond pan welo yr ofnog a'r digred pa fath ymdrech a llafur sydd yn eisieu tuag at fyw yn dduwiol, efe a waedda, "Nid oes obaith." Fel Israel ar gyffiniau gwlad yr addewid, er archwaethu ffrwyth y wlad, a'i hoffi, eto wrth glywed am y rhwystrau, y cewri cryfion, a'r dinasoedd caerog, yn llwyr ddigaloni, gan ddywedyd, "Nid allwn ni fyned i fyny," felly y mae gyda yr hwn sydd yn gwneuthur proffes o Grist heb ffydd ynddo. Mae'r ddeddf a'r efengyl yn rhy fanwl ganddo, gan fod y naill yn peri iddo fwrw ymaith bob llygredigaeth o'i ymarferiad, a'r llall yn erchi iddo fwrw ymaith bob rhagoriaeth o'i ymorphwysiad: ac felly mae yn blino a diffygio, ac yn tynu yn ol.

5. Mae'r diffrwythder a'r ymadawiad *yn tori allan mewn gelyniaeth ddirgel at wirioneddau arbenig yr efengyl*. Mae gwrthwynebrwydd ysbryd, neu elyniaeth calon, mewn dyn anianol tuag at wir drefn iachawdwriaeth Duw. Beth ond hyn sydd yn peri i'r pechadur ei gwrthod trwy ei oes? Llaweroedd a geir heb fod yn gwneuthur un broffes o Gristionogaeth ond a wneir o anghenrheidrwydd. Mae'r dyn yn gristion, yn unig am mai dyna yw crefydd ei wlad. Nid oes ynddo ddim serch at ei gwirioneddau mawrion; ac felly nid yw yr athrawiaeth am iawn Crist, na gwaith ei Ysbryd, yn cael un amser le yn ei feddyliau. Ond y mae eraill, ar ol derbyn argyhoeddiad o wirionedd a phwys a rhagoroldeb yr efengyl, wedi gwneuthur proffes fwy neillduol o honi; ond goleu heb wres oedd ganddynt. Daethant, rywfodd, i weled rhesymoldeb y gwirionedd, eithr heb dderbyn cariad y gwirionedd. Pan aeth yr efengyl i wasgu ar y gydwybod am gydymffurfiaid a'i sancteiddrwydd hi—i ardystio wrth y meddwl y byddai raid gwneuthur pob peth yn newydd, ymadael â'r hen sylfaen sigledig, dyosg yr hen ddyn, troi o'r hen lwybr, nid oedd ganddynt yna ond ei gwrthod, fel y Paganiaid yn gwrthod goleuni natur, am ei fod yn eu rhwymo i adael eu pechodau. Dyna fel yr oedd y bobl, a elwid yn ddysgyblion i Grist, wedi iddo ef wasgu ei athrawiaeth yn ei hysbrydolrwydd atynt. "Caled yw yr ymadrodd hwn," meddent hwy; "pwy a ddichon wrando arno?"

O hyny allan llawer o'i ddysgyblion ef a aethant yn eu hól, ac ni roddasant mwyach gydag ef." Mae yr Ysbryd yn dyfod ymlaenaf, ac yn traddodi yr athrawiaeth i'r dyn, ac yntau, dan argyhoeddiad o'i gwirionedd, yn cydsynio â hi, ac, oddiar y cydsyniad, yn gwneuthur profies o honi. Daw yr Ysbryd ymhellach, trwy ei waith ar y meddwl, ac a ddengys ei fod yn awr am draddodi'r dyn i'r athrawiaeth, nes y byddo efe, yn dufewnol ac allanol, yn cydffurfio â hi. Ond er hyny, wele elyniaeth ei galon at y gwirionedd yn tori allan, a'i grefydd yno yn sefyll heb fyned un cam ymlaen. Nid oes gan y gwirionedd, a dderbynwyd dan argyhoeddiad y deall, un dylanwad ymarferol ar y galon. "Ffurf y gwybodaeth a'r gwirionedd yn y ddeddf," sydd yno yn unig, ac nid "ffurf yr ymadroddion iachus yn y ffydd a'r cariad sydd yn Nghrist Iesu." Wele cristion y'th elwir di; ond nid oes dim o'r grefydd gristionogol yn dy ysbryd nac yn dy fywyd. Profeswyr sydd yma yn byw yn ymarferol fel yr ymfudwyr hyny a gyflëuwyd yn ninasoedd Samaria: "Yr Arglwydd yr oeddynt hwy yn ei ofni, a gwasanaethu yr oeddynt eu duwiau yn ol defod y cenedloedd." Er iddynt broffesu cyfiawnder Crist, defnyddio y maent eu cyfiawnder eu hunain; canys y maent yn rhy feilchion i ymostwng i gyfiawnder Duw.

6. Ymddengys eu crefydd ddiffwrth yn eu hamddifadrwydd o'r grasusau effcithiol sydd yn cyfnewid yr enaid i ddeu Crist. O'r Arglwydd Iesu y daw ein ffrwyth ni. Felly y dywed ein Harglwydd wrthym yma: "Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer; oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim." Bydd y ffrwyth o hono ef o'r un natur â'r gwreiddyn ardderchog, yn ras am ras. Y nôdd y mae'r gangen yn ei dderbyn o'r winwydden sydd yn ffurfio y swp grawn arni, ac am hyny y mae'r ffrwyth o'r un natur a blâs; felly y grasusau sydd yn dyfod oddiwrth Grist a wnânt yr enaid yn debyg iddo ef. Ni a welsom lawer dan weithrediadau rhyw argyhoeddiadau cyffredinol yn profesu crefydd, ac yn gwneuthur cryn ystwr gyda hi, eithr heb un arwydd fod ynddynt hwy y meddwl hwnw oedd yn Nghrist Iesu: y gostyngaidrwydd, yr addfwynder, y maddeugarwch, yr amynedd dan groesau, y cariad at elynion, nefolfrydedd y serch, a'r pethau eraill oedd yn dysgleirio yn mywyd Crist, nid oedd dim o hyny i'w ganfod



ynddynt; ac ymhen amser, blino a methu a thynu yn ol a wnaethant.

III. Rhaid i ni sylwi bellach ar grefydd ddiffrwyth YN EI DIWEDD GRESYNOL. "Pob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth; y mae efe," y Tad fel llafurwr, "yn ei thynu ymaith." "Onid erys un ynof fi, efe a daflwyd allan megys cangen, ac a wywodd; ac y maent yn eu casglu hwynt, ac yn eu bwrw yn tân, a hwy a losgir."

Beth a gynnwysir yn y fath eiriau, y rhai sydd mor ofnadwy bwysig?

I. Cynnwysir yma *amddifadu y proffeswyr ddiffrwyth bellach o bob moddion trwy ba rai y dysgwylid iddynt ffrwythloni.* Pan y mae'r llafurwr Dwyfol yn trin y tir, mae yn dysgwyl y ffrwyth cyfatebol; a thra y parhau i ddysgwyl ffrwyth, efe a bery i lafurio. Ond pan y rhydd efe i fyny lafurio, dyna ddangos ei fod wedi rhoddi i fyny ddysgwyl ffrwyth. Wedi i'r Meddiannydd mawr gloddio'r winllan, a'i digaregu, ei phlanu o'r winwydden oreu, adeiladu tŵr yn ei chanol, a thrychu gwinwryf ynddi, "efe a ddysgwyliodd iddi ddwyn grawnwin." Am fod gan un ffigysbren wedi ei blanu yn ei winllan, "efe a ddaeth i geisio ffrwyth arno." Ond gan mai methiant a welwyd ac a gafwyd, dywedid am y naill, "Mi a'i gosodaf hi yn ddifrod; nid ysgythrir hi, ac ni chloddir hi," ac am y llall, "Tor ef i lawr; pahan y mae efe yn ddiffrwytho'r tir?"

Tra byddo dyn yn llafurwaith Duw, mae pob gorchwyliaeth yn tueddu er ei ddychwelyd at Dduw yn Nghrist; ond pan roddo Duw ef i fyny, bydd pob peth yn effeithio i'w yru ymhellach oddiwrth y Goruchaf. Bellach y mae fel pe byddai rhyw falldod ar holl feddwl y pechadur. Bu amser pan y byddai yr hyn a wyddai efe am Dduw yn peri ynddo ryw barch ato, yr olwg ar bechod yn codi rhyw alar o'i herwydd, yr addewidion yn ennyn gorfoledd, y bygythion yn cyffroi arswyd, a'r gorchymynion yn effeithio rhywfaint o ufudd-dod. Ond yn awr mae yr oll a wŷr efe o wirioneddau ysgrythyrol yn gorwedd yn ddiffrwyth yn ei gof, heb adael un argraff ar ei serch a'i gydwybod. Nid yw golwg ar Sinai yn peri iddo grynu, nac ar Galfaria yn peri iddo obeithio; mae llef geiriau'r ddeddf, a sain efengyl, yr un mor ddieffraith iddo. Duw sydd o'r diwedd wedi dyweyd am dano wrth y weinidogaeth,



wrth ragluniaeth, wrth gydwybod, "Gâd iddo." Mae yr hen bregethau yn meddwl a chof y dyn yn gorwedd yn bentyrau fel hen frigau crinion, ac yn debyg o fyned ar dân i'w ysu ryw ddydd. Dyma'r farn a ddaeth ar yr Israel anufudd a gwrthnysig gynt. Cwynfan Jeremiah ydoedd, "Cyndyn o'r fath gyndynaf ydynt oll, yn rhodio âg enllib; efydd a haiarn ynt; llygru y maent hwy oll. Llosgodd y fegin; gan dân y darfu y plwm; yn ofer y toddodd y toddydd, canys ni thynwyd y rhai drygionus ymaith. Yn arian gwrthodedig y galwant hwynt, am wrthod o'r Arglwydd hwynt." Duw trwy Ezeziel a darana, "Yn dy aflenid y mae ysgelerder; o herwydd glanhâu o honof di, ac nid wyt lân, o'th aflenidid ni'th lanheir mwy, hyd oni pharwyf i'm llid orphwys arnat." Ac medd efe trwy Zechariah, "Nid arbedaf mwyach drigolion y wlad." Paham, Arglwydd, a pha fodd? "Fy enaid a alarodd arnynt hwy, a'u henaid hwythau a'm ffieiddiodd innau; dywedais hefyd, Ni phorthaf chwi; a fyddo farw, bydded farw." Pwy o honom na waedda ar yr Arglwydd heddyw, "Na ddstawa wrthyf, rhag, o thewi wrthyf, i mi fod yn gyffelyb i rai yn disgyn i'r pwll!"

2. Mae yn gynnwysedig yn hyn fod deiliaid y grefydd ddiffriwyth yn cael eu rhoddi i fyny yn farnol i'r holl ddrygau a'r niweidiau yr oeddynt yn tueddu iddynt. Yr oeddynt o'r blaen yn tueddu i gysgu yn eu heneidiau; ac yn awr wele dryingwsg oddiwrth yr Arglwydd yn teyrnasu arnynt. Yn gyffelyb i Grist yn yr ardd gyda'i ddysgyblion ar y nos y bradychwyd ef: yn eu cael yn cysgu, ac yntau yn eu deffroi yn dirion; drachefn a thrachefn y mae efe yn eu cael yn cysgu, ac eilwaith a thrydedd waith y mae efe yn eu cyfarch i'w dihuno; ond, "Cysgwch bellach a gorphwyswch," oedd ei eiriau o'r diwedd wrthynt. Pa sawl oedfa y daeth Duw i'ch deffro chwi, eneidiau? Efe a ddywedai, Codwch; mae'r beiau heb eu maddeu, dydd gras ar ddarfod, a'r farn yn nesâu. Ond eich cael yn cysgu drachefn yr ydoedd efe; ac onid oes achos i ofni mai'r cyhoeddiad nesaf a fydd, "Cysgwch bellach?" ac os felly, chwi a fyddwch dan y gair fel dynion yn clywed rhywbeth trwy eu cwsg, heb fod ynddynt ddeall i weithredu ar unpeth.

Ni dderbynient y gwir o'r blaen, ond gwrandawent ar yr addysg a barai iddynt gyfeiliorni. "Am na dderbyniasant gariad

y gwirionedd, fel y byddent gadwedig, am hyny y denfyn Duw iddynt amryfusedd cadarn fel y credont gelwydd, fel y barner," sef fel y collfarner, "yr holl rai nad oeddynt yn credu i'r gwirionedd." Yr oedd yno "weithrediad Satan gyda phob nerth;" ond yr oedd y cwbl yn derbyn yn farnol awdurdodiad Dwyfol, megys yr oedd yr ysbryd celwyddog yn ngenau holl brophwydi Ahab.

Wedi bod o'r blaen yn ngafael diffrwythder pechadurus, mae'r diffrwythder weithian yn gosbedigaethol. "Ei lleoedd lleidiog a'i chorsydd ni iachêr; i halen y rhoddir hwynt." Ar ol hir ddyfod i ymofyn am ffrwyth yn o'er, dywed yr Arglwydd o'r diwedd, "Na thyfed ffrwyth arnat byth mwyach." Dyna yn awr wywo o'r gwraidd, yn ddystaw, eto yn ddisymwth a hollol. Yr oedd yno ryw ddail yn edrych yn wyrddlas o'r blaen; golenni, doniau, proffes, ac aml beth dymunol; ond yn awr, "efe a daflwyd allan megys cangen, ac a wywodd." Duw a drugarhâo wrthym ni, fel nas rhodder ni i fyny ganddo byth!

3. *Eu traddodi i lwyr gosbedigaeth.* Dyma'r peth olaf am y cangenau diffrwyth: "Y maent yn eu casglu hwynt, ac yn eu bwrw yn tân, a hwy a losgir." Cawn yr un syniad brawychus mewn lleoedd eraill. "Pob pren yr hwn nid yw yn dwyn ffrwyth da, a dorir i lawr, ac a deflir yn tân." Y ddaear "sydd yn dwyn drain a mieri, sydd anghymeradwy, ac agos i fell-dith; diwedd yr hon yw ei llosgi."

Mae'r gosbedigaeth hon yn *sicr*. Yr unig ffordd i'r gangen ochel y tân yw iddi ddwyn ffrwyth, a'r unig obaith am iddi ffrwytho yw ei gadael yn y winwydden; ond wedi ei thynu ymaith yn ei diffrwythdra, nid oes bellach ond tân i'w ddsygwyl. Wedi troi oddiwrth Grist, yr unig Noddfa, "nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach, eithr rhyw ddsygwyl ofnadwy am farnedigaeth ac angerdd tân."

Mae yn gosbedigaeth *wir ofnadwy*. Tân angerddol yw y peth mwyaf ofnadwy i'r golwg, i'r clyw, ac i'r teimlad, a mwyaf difaol i bob sylwedd. Rhywbeth ofnadwy ddinystriol fydd cosbedigaeth yr annuwiol, a'r rhagrithiwr yn Sïon; ac nid rhyfedd fydd clywed y waedd, "Pwy o honom a drig gyda'r tân ysol? pwy o honom a breswylia gyda'r llosgfeydd tragywyddol?" Yr hyn yw tân i'r cnawd, dyna yw Duw yn ei ddigofaint i deimladau yr enaid euog.

Mae'r gosbedigaeth yn un *barhâus*. Nid oes derfyn i'r ymadrodd yma, "A losgir;" llosgi yn ddifäol, ac heb ddifa byth yr hyn a losgir. Mae yr athrawiaeth hon am barhâd cosb pechod yn annerbyniol a phoenus gan natur lygredig; a haerir gan rywrai nas gall fod yn gyson â natur Duw'r cariad. Ond, "a ddywedwch chwi anwiredd dros Dduw? ac a ddywedwch chwi dwyll er ei fwyn ef?" Mae natur Duw yn gofyn cosbi pechod, a rhaid i hono fod yn gosb cyfatebol i'w haeddiant. Nid dirymu deddf Sinai, ond ei chadarnhâu a'i hanrhydeddu, a wnaeth croes Calfaria, gan sicrhâu trefn i ddianc o afael ei melldith; ac os esgeulusir unig ffordd bywyd tragywyddol, bydd yr enaid yn rhwym o ddyoddef marwolaeth dragywyddol. "Yr hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd, eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef."

Tra y mae'r gangen eto yn y winllan, heb ei thynu ymaith, y mae gobaith am dani. Tra yr wyt i'th weled, fy enaid, ynglŷn â breintiau yr efengyl, gelli di, a gallwn ninnau, ddysgwyl dy gael yn ffrwythlawn. Ond mewn undeb ffydd â Christ, a chymundeb cariad âg ef, yn unig y byddi felly. Eglurer gan hyny dy fod yn aros ynddo ef, trwy ddwyn o honot ffrwyth lawer.

## PREGETH V.

AROS YN NGRIST.

IOAN xv. 4, 5 : "Arosweh ynof fi, a mi ynoch chwi. Megys na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun onid erys yn y winwydden, felly ni ellweh chwithau onid arosweh ynof fi. Myfi yw y winwydden, chwithau yw y cangenau. Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer; oblegid hebof fi ni ellweh chwi wneuthur dim."

**Y** MAE pob dyn yn y cnawd neu yn yr ysbryd; ac y mae gwahaniaeth mawr rhwng y rhai cnawdol a'r rhai ysbrydol mewn cyflwr, egwyddor, a buchedd. "Y rhai sydd yn ol y cnawd, am bethau y cnawd y maent yn synio; eithr y rhai sydd yn ol yr Ysbryd, am bethau yr Ysbryd." Gallwn ddeall gronyn am ysbrydolrwydd ein syniadau wrth edrych pa gyfartalwch sydd rhwng ein meddyliau am bethau ysbrydol á'n meddyliau am bethau eraill, a pha mor aml y bydd pethau ysbrydol yn tori i mewn i'r myfyrdod pan fyddo dyn yn rhwym gyda'i amgylchiadau bydol. Gŵyr y cristion er ei ofid y rhuthra myfyrdodau bydol i mewn pan y byddo wedi ymgymeryd â dyledswyddau ysbrydol; ac fe wŷr y dyn ysbrydol, er ei gysur, beth yw bod pethau yr Ysbryd yn mynu eu ffordd i'r meddwl pan fyddo ei law yn cyflawni gorchwyl daearol, i.e. yn cael eu hennyn gan a thrwy y cyfryw orchwyl. Ni bu neb cyffelyb i Iesu Grist am feddylfryd ysbrydol; ac felly byddai efe yn rhedeg at bethau ysbrydol oddiwrth bob peth a welai ac y meddyliai am danynt. Oddiwrth ddwfr ffynnon Jacob, efe a aeth at y dwfr sy'n tarddu i

fywyd tragywyddol. Oddiwrth y bwyd a dderfydd, cyfeiriodd ef at y gwir fara o'r nef. Yr un modd oddiwrth y tymmorau, haf a gauaf, ac oddiwrth lafurwaith hau a medi, a lliaws o bethau eraill, cawn ef yn rhoddi gwersi priodol a phwysig ynglŷn âg achos tragywyddol dynion. Yn gyffelyb y mae efe yma yn cymeryd achlysur oddiwrth y winwydden i lefaru am dano ei hun, ac am y rhai oedd mewn cysylltiad âg ef. Yr oedd efe'r pryd hwn newydd fod, gyda'i ddysgyblion, yn yfed o ffrwyth y winwydden, pan yn sefydlu swper yr Arglwydd; ac efe a fynegodd fod hwnw yn arwydd o'i waed, yr hwn a dywalltai dros lawer er maddeuant pechod. Oddiyma nid anmhrïodol oedd iddo draethu am yr undeb a'r cymundeb rhyngddo â'i bobl, yr hyn a arddangosid yn neillduol yn sacrament y swper. Neu ynte, fe allai ei fod, ar y ffordd o'r oruwchystafell i Gethsemane, ymha le, meddir, yr oedd amryw winllanoedd, yn sylwi yn arbenig ar winwydden a changenau, ac oddiar hyny yn cymeryd mantais i gadarnhâu ac egluro yr hyn a ddywedasai yn ei ymddyddan yn yr oruwchystafell am yr undeb ysbrydol a goruchel, sef, "Y dydd hwnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhaf, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau." Edrychwch, medd efe wrth ei ddysgyblion: dyma ddrych o honof fi a chwithau. "Myfi yw y winwydden, chwithau yw y cangenau." Chwi a welwch y cangenau diffryth acw; nid ydynt hwy ond yn aros cael eu tynu ymaith; ac megys nad all y gangen brydferthaf a ffrwythlonaf a welir genych barhâu i ffrwytho ond trwy aros yn y winwydden, felly chwithau yn eich cyflwr grasol, nis gellwch fyw dim arnoch eich hunain; eich arosiad ynof fi, i dderbyn nerth o honof, yw yr unig ffordd i chwi ddwyn ffrwyth.

Ni a sylwn ar y ddyledswydd o aros yn Nghrist, ac ar y buddioldeb sydd yn dyfod o hyny: "Hwnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer."

I. Y DDYLEDSWYDD YR ANNOGIR IDDI. "Aroschwch ynof fi." Aroschwch mewn dibyniad arnaf, mewn cymdeithas â mi, ac ymlyniad wrthyf. "A mi ynoch chwi," trwy fy ngras a'm Hysbryd. Ymdrechwch chwi, a chwblhâf innau. Ymleddwch, a minnau a roddaf i chwi y fuddugoliaeth. Yr un peth a olyga Crist eto wrth ddywedyd, "Aroschwch yn fy nghariad i."

Mae yn gymhwys i ni nodi yn

1. Pa beth sydd yn rhagofynol tuag at aros yn Nghris? Nis gellir aros yn Nghrist heb yn gyntaf ddyfod at Grist.

Y mae pawb wrth natur heb Grist. "Crist sydd bob peth," a rhaid fod y neb sydd hebddo heb ddim. Y newynog heb fara'r bywyd, y sychedig heb ddwfr y bywyd, y carcharor heb Brynwr, yr ynyfd heb ddoethineb,—dyna yw pechadur heb Grist. Efe yw'r ffordd; ac hebddo ef y mae dynion yn wibiaid a chrwydriaid. Efe yw'r gwirionedd; ac hebddo y mae dyn, fel y diafol, yn gelwyddog. Efe yw'r bywyd; a'r hwn sydd hebddo sydd yn aros yn marwolaeth. Nid oes ddechre na diwedd da ond mewn undeb âg ef.

Ceisio pechaduriaid at Grist yw gwaith mawr gweinidogion yr efengyl. Mae ychwaneg nag adrodd ac esbonio y gair yn eu gweinidogaeth; maent i wahodd, galw, rhybuddio, cymhell pechaduriaid, a hyny yn daer a gwresog, gan dreulio ac ymdreulio dros eu heneidiau. Nid digon yw dywedyd am ddarpariaeth yr efengyl, ond rhaid arfer pob cymhelliad i gael y bobl i gyfranogi o honi. Rhaid dangos yr anghen am Grist, a'r trueni hebddo, a gosod allan ei ogoniant a'i addasrwydd, i dynu a denu yr enaid ato. "Crist, gobaith y gogoniant, yw yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu," medd Paul, "gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn, ymhob doethineb, fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu."

Cael eneidiau at Grist yw amcan y weinidogaeth. Mae pob cael arall yn rhy fychan: cael cynulleidfaoedd, cael gwrandawriad, cael y gair i effeithio ar y teimlad, cael dynion oddiwrth bechodau at rinweddau, ac o'r byd i'r eglwys; rhy fach yw y cyfan heb eu cael at Grist. Mor wasgedig oedd ysbryd Paul wrth gyrchu at yr amcan hwn! "Fy mhlant bychain," medd efe, "y rhai yr wyf yn eu hesgor drachefn, hyd oni ffurfier Crist ynoch." Rhaid ein cael ni at Grist cyn y ceir ni yn Nghrist; a'r rhai a ddêl ato yn nydd gras yw yr unig rai a geir ynddo yn angeu a'r farn a thros byth. Dyma a ddywed Crist yn yr efengyl wrth bawb sydd ddeythr iddo, "Deuwch ataf fi;" ac wrth ei deulu, efe a ddywed, "Aroswech ynof fi."

2. Pa beth sydd yn gynnwysedig mewn aros yn Nghrist? Mwy na'r weithred noeth o gredu trwy ba un yr impir ni yn



Nghrist, a llawer mwy nag aros mewn proffes o Grist, yw yr aros hwn ynddo ef. Mae yn hyn,

iaf. *Cadw y grasusau ysbrydol mewn gweithrediad parhâus ar Grist.* Ffydd yn Nghrist, a chariad ato: mae'r prif rasmusau hyn i fod mewn ymarferiad gwastadol. Nis gellir aros yn Nghrist heb fynych fyfyrddodau arno; a rhaid i fyfyrddod efengylaidd waelodi yn y ffydd a'r cariad sydd yn Nghrist Iesu. Gelwir myfyrio ar Grist yn edrych arno. "Hwy a edrychant arnaf fi yr hwn a wanasant." "Nyni oll âg wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megys mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw." Edrych yw sefydliad y llygad ar wrthddrych penodol; a ffydd yw llygad yr enaid. Felly edrych ar Iesu yw, bod ffydd yn ymsefydlu mewn myfyrddod arno. Y gwrthddrych mawr o'n blaen yw Crist yn ei Berson, ei swyddau, haeddiant ei aberth, rhinwedd ei ras, a thegwch ei esiampl. Mae yma hŷd a llêd, dyfnder ac uchder; ond ni wêl neb ryfeddodau ynddynt ond perchen ffydd. Dallwyd meddyliau y rhai digred gan dduw y byd hwn, "fel na thywynai iddynt lewyrch efengyl gogoniant Crist, yr hwn yw delw Duw." Ond y mae ffydd yn gweled ei ogoniant ef, ac wrth ddal i syllu arno, yn ei weled yn fwyfwy gogoneddus. Gall rheswm cnawdol ofyn yn wawdus, Pa destun ymfrost a geir mewn Iuddew tlawd yn marw ar groesbren? Ond dywed ffydd, Ynddo ef mi a welaf holl briodoliaethau'r Duwdod yn cyddysgleirio, a'm holl eisieu innau yn cael ei ddiwallu. Gwelaf gyflawnder yn ei ufudd-dod, bywyd yn ei angeu, glanhâd yn ei waed, digon a digon byth yn ei gyflawnder. Yma y mae arosiad enaid crediniol. Nid rhywbeth oedd hyn ar ddechreu ei grefydd, ond dyma ei fywioliaeth gyson. "Yr hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw."

Gyda'r ffydd sydd yn syllu ar Grist, mae yno yn wastad gariad yn ymhyfrydu ynddo. Heb gariad at Grist, baich fydd pob dyledswydd a'n dygo yn agos ato. Naturiol yw i'r meddwl redeg at y gwrthddrych y byddo yn ei hoffi. Pa fodd yr oedd Mab Duw, cyn gwneuthur y ddaear, yn llawenychu yn ei chyfanneddle? Am fod ei hyfrydwch gyda meibion dynion. Ac felly y mae ei saint gydag yntau. Am ei fod mor gu ganddynt, efe yw eu myfyrddod beunydd. Os bydd y wraig a'r fam garuaidd ar daith, ac mewn

lletŷfau dycithr, rhêd ei meddwl oddiyno at ei phriod a'i phlant; oherwydd hwynt-hwy yw gwrthddrychau ei hoffder. Yr un modd enaid yn caru yn fawr yr Arglwydd Iesu Grist a achuba bob cyfle i fyfyrion am dano. Efe a'i cofia ar ei wely, myfyria am dano yn ngwyliadwriaethau'r nos, a phan ddeffrôa, gydag ef y mae yn wastad. Darllenais am ddynion duwiol iawn, yn byw a marw mewn myfyrdod cyson ar Grist; ac mi a wn am frodyr a fydd yn eu galw eu hunain i gyfrif os ä awr neu ddwy ymaith heb i'w Hiachawdwr fod yn eu meddyliau. Ond y mae llaweroedd o ddynion a feddylant am bob peth cyn meddwl am unig Geidwad dyn; heb undeb ffydd a chariad âg ef y mae yr holl rai hyny. Mae'r credadyn yn aros yn Nghrist trwy arfer a meithrin myfyrdod arno ef ac ar ei waith; a melus yw ei fyfyrddod am dano. Tra yn myfyrio, ennynar tân—gwresogrwydd sanctaidd ei serch—yn fflam angerddol.

2il. *Gwneuthur defnydd gwastadol o Grist.* Wrth edrych i dystiolaethau yr efengyl am Grist, a'r cymhariaethau a ddefnyddir i'w osod allan, fe welir ei fod yn berffaith gyfateb i holl anghenion pechaduriaid. I'r ynfyd anwybodus, y mae efe wedi ei wneuthur yn ddoethineb—i'r euog condemniedig yn gyfiawnder—i'r aflan a'r cyffredin yn sancteiddrwydd—ac i'r caeth gorthrymedig gan uffern, angeu, a'r bedd, yn brynedigaeth. Ac y mae efe yn ei holl gyfiawnder i'w ddefnyddio yn barhâus. Mae bara wedi ei wneyd i'w ddefnyddio bob dydd, a llawer gwaith yn y dydd; ac felly Crist fel y bara a ddaeth i waered o'r nef. "Yr hwn sydd yn fy mwyta i, a fydd byw trwof fi." Gwisg hefyd a wneir i'w defnyddio. Rhoddir gwisg i ddyn pan enir ef i'r byd, a bydd ganddo wisg hyd y dydd olaf o'i fywyd, ac nid arferir ei anfon i'r bedd yn noeth. Ac y mae'r cristion wedi ac yn gwisgo Crist; gwisgo ei gyfiawnder, a gwisgo ei ddelw a'i esiampl. Wrth wisgo ein cyrff yn more'r diwrnod, byddwn ddyfal i wisgo Crist am ein heneidiau. Ceir llawer yn myned i'w hystafell drwsio yn fynych yn y dydd; mae ganddynt eu gwisgoedd boreuol, prydawnol, a nosol. Dylem ninnau fyned o'r neilldu yn aml i ail-wisgo am ein hysbrydoedd; ond na newidiwn y wisg. Gwisgwn am danom yr Arglwydd Iesu Grist, y bore, y prydawn, a'r nos.

Defnyddiwn Grist *yn ein holl ymarferiad â Duw*. Yn yr oll a *ofnwn oddiwrth Dduw*, gwnawn ddefnydd o Grist. Digofaint yr Arglwydd yw y dymhestl fawr a fygythir ar yr annuwiol. "Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau, tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus." Pa le y mae yr enaid argyhoeddedig, sydd yn llawn meddyliau arswydus am haeddiant ei bechod oddiwrth Dduw cyfiawn wedi ei ddigio—yn teimlo ei bod yn ddu uwch ben, heb weled na haul na ser dros lawer o ddyddiau, ac yn meddwl fod y ddaear yn crynu dano, ac uffern yn ymagor i'w dderbyn? Cyfeiria dy feddwl, enaid trist, at y "Gŵr sydd megys yn ymguddfa rhag y gwynt, ac yn lloches rhag y dymhestl; megys afonydd dyfroedd mewn sychdir, megys cysgod craig fawr mewn tir sychedig." Efe a safodd ei hunan dan y rhyferthwy ystormus, a than ei gysgod ef y byddi cadwedig. Yn yr oll a *ddymunem gan Dduw*, defnyddiwn Grist. Os mynem y fendith gan y Tad nefol, awn ato yn ngwisg ein Brawd hynaf. Na feddyliwn am edrych yn wyneb Llywodraethwr nefoedd a daear heb y Benjamin hwn gyda ni. A oes achos genym yn y llys uchod? rhoddwn ein mater yn llaw y dadleuwr anffaeledig, yr Eiriolwr sydd i ni gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn; canys efe yw'r iawn dros ein pechodau ni. A oes arnom eisieu cymdeithasu â'r Duw byw? nesâwn ar hyd y ffordd newydd a bywiol. Trwy ein Hoffeiriad mawr y mae i ni ddyfodfa at Dduw, ac y daw Duw yn ngwenau ei ras atom ninnau.

Defnyddiwn Grist *yn ein holl ymdrech â'r gelynyion ysbrydol*. Mae y rhai hyny yn sicr o lwyddo yn ein herbyn os cânt ni yn troi oddiwrth Grist, neu yn cadw ymhell oddiwrtho. Heb i ni aros ynddo ef, bydd Satan, cnawd, a byd, yn ein hyrddio i bechod, neu ynte i ddigalondid. Caed y gwyntoedd gelymol yn chwythu ar lawer cristion nes ei godymu a'i friwo yn dost, tra yn dadymchwelyd yn llwyr holl adeilad crefydd y rhag-rithiwr. Ond dyma loches glyd, ac ystafelloedd dirgel, yn lle i ni lechu hyd onid elo pob llid heibio. Edrych ar Iesu, fy enaid: yma y cei weled pechod wedi ei gondemnio yn y cnawd, y byd wedi ei orchfygu, a Satan, penaeth y tywysogaethau a'r awdurdodau uffernol, yn cael ei arddangos yn garcharor wrth gerbyd Tywysog llu yr Arglwydd; ac oddiyma y cei dithau

nerth i fod yn fwy na chonchwerwr ar dy holl elynion. Yn y prawf o gariad Crist, ni a orfyddwn y diafol yn ei demtasiynau; ac yn y prawf o waed Crist, ni a orfoleddwn ar ddiabol yn ei gyhuddiadau. Yma y gwaeddwn, Buddugoliaeth! Ha elyn, darfu am ddinystyr yn drag, wydd!

Defnyddiwn Grist *gyda golwg arnom ein hunain*. Beth am ein grasusau? Os yw y rhai hyn genym, yr ydym yn eu cael yn rhy aml yn gwywo ac adfeilio, a'r enaid yn myned fel tir sych, y ffydd y cariad, y zel, a'r hyfrydwch yn Nuw, wedi sychu; i.e., yr irder wedi ei droi yn sychder haf. I gyfryw enaid, nid oes dim a ddwg adnewyddiad ond derbyn o'r newydd o gyflawnder Crist; ac o dan gawodau ei ras ef, "y diffeithwch a orfoledda, ac a flodeua fel rhosyn." "Y rhai a arosant dan ei gysgod ef a ddychwelant; adfywiant fel yd, blodeuant hefyd fel y winwydden." Efe, yr hwn â'n gwaredodd ar y cyntaf o'r Aipht, a'n dychwel adref eto o Babilon. A pha beth am ein llygredigaethau? Ni chawn byth farwolaeth iddynt hwy ond trwy ymarfer ffydd yn marwolaeth Crist. Gallwn addunedu, gwyllo, gweddio, ac ymprydio; ond ni bydd gwir farweiddiad ar lygredd heb i ni brofi ynom ein hunain rinweddau gwaed y groes. Oni chefaist ti, frawd neu chwaer gristionogol, fynych brofiad fod llygredigaeth dy galon yn rhy galed i ti? Gwnaethost addunedau daionus, a thoraist hwynt. Penderfynaist orchfygu'r chwant, a syrthiaist yn ysglyfaeth iddo. Dyma ti yn cael dy fynwes, yn lle bod yn gartref tangnefedd, yn drigfa dreigiau; a braidd nad oeddit yn dywedyd, Ofer ymdrechu na gweddio mwy; nid oes obaith; rhaid i'r chwant gael ei ffordd. A thi a fuasit wedi cilio oddiwrth Dduw âg encil tragywyddol, oni buasai i ti glywed Iesu yn dy gyfarch o'r orsedd fawr, "Digon i ti fy ngras i; canys fy nerth i a berffeithir mewn gwendid." Onid ydym wedi dysgu bellach mai trwy aros yn Nghrist y cawn oruchafiaeth ar bechod? Aroswn wrth y groes; nis gall hen ddyn pechod anadlu yn yr awyr gynhes yno.

3ydd. *Bod bob amser mewn agwedd barod i ufuddhâu i Grist*. Y mae efe wedi ei wneuthur yn Arglwydd yn gystal âg yn Grist; rhaid iddo fod i ni, nid yn unig yn Waredwr, ond yn Llywodraethwr. Ac ni wêl cariad ei orchymynion ef yn drymion, ond cyfyd bob croes, ymesyd at bob dyledswydd, gedy bob mwyniant a fyddo yn rhwystr i'w wasanaeth; tyn y llygad de, a thyr y fraich

neu'r troed de, os bydd achos. Ei iaith ydyw, "Arglwydd, beth a fyndi di i mi ei wneuthur?" Ac mewn amser y bydd Sanct Israel yn galw at anturiaeth bwysig, neu i galedwaith, dros ei enw ef, yr enaid sydd yn aros yn nghariad Crist a ddywed yn ebrwydd, "Wele fi, anfon fi."

4ydd. *Hiraeth ac ymdrech am yr adnabyddiaeth a'r mwynhâd helaethaf o Grist.* Mae yn hanfodol i gariad uno'r meddwl â'i wrthddrych, a theimlo yn ddiorphwys nes cael mwynhâd o hono; tŷr trwy y rhwystrau mwyaf ato, ac ymlyna yn gyson wrtho. Felly y mae cariad Duw. "Caru y mae efe y bobl." Er ei fod yn hunanddibynol ac yn hollddigonol, eto gan iddo garu gwrthddrychau allan o hono ei hun, efe a roes ei feddwl arnynt cyn eu bôd; ac yn anfoniad a gwaith ei Fab, efe a symudodd y rhwystrau mwyaf i'w cael ato ei hun. Edrychodd gyda hyfrydwch ar eu ffurfiad a'u dygiad i'r byd; mae eu hailenedigaeth yn llawenydd iddo; efe a chwera bethau'r ddaear iddynt er mwyn iddo ef gael mwy o'u cymdeithas; yn y man efe a sugna eu henaid o'u cyrff i'w fynwes; ac yn y bore a ddaw, efe a eilw am eu llwch o'r bedd, o herwydd ei fod yn chwennyachu gwaith ei ddwyllaw. Yn gyffelyb y mae yr enaid grasol yn dyheu am gymdeithas Duw yn Nghrist. Hiraetha ei enaid am ei bresennoldeb ef fel y brefa yr hydd am yr afonydd dyfroedd, fel yr agena'r tir sychedig am y gwlaw, ac fel y dysgwyl y gwylwyr am y bore. Bydd yn chwilio am dano ymhob dyledswydd, ac yn yr holl ordinhadau; ac er cael ei fwynhâu yn moddion gras, efe a sycheda eto am fwynhâd perffeithiach. Daw o bob ordinhâd dan lefain, Cair fi ynddo ef, fel yr adnabyddwyf ef—dilyn yr wyf, gan ymestyn at y pethau o'r tu blaen. Mae bod yn wastadol gyda'r Arglwydd, ac ymddigoni â'i ddelw, yn nôd sugndeniadol o'r tu blaen; dewisa yr enaid ffyddiog fod wedi ei gollu ynddo ei hun, er mwyn ei gael ynddo ef; gwŷr ei fod yn ddim ynddo ei hun, ac y caiff bob peth ynddo ef. Yn y byd ac yn yr eglwys, yn ei ystafell ac yn y cysegr, yn ngafael pob poen ac yn nghanol pob pleser, ei glust a glyw y llais, "Codwch ac ewch ymaith, canys nid dyna eich gorphwysfa."

5ed. *Cysondeb, yn ngwyneb pob ansfantcïision a rhwystrau, i ddal i fyny y broffes allanol o Grist.* "Gan fod wrth hyny i ni Arch-offeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, glynwn



yn ein proffes." "Daliwn gyffes ein gobaith yn ddisigl." Enaid yn aros yn Nghrist, nid oes ac ni bydd ar hwnw gywilydd o efengyl Crist; ond, does a ddelo, efe a gyffesa ei enw ger bron dynion.

Tuag at aros fel hyn yn Nghrist, mae yn anghenrheidiol am y gofal, yr ymdrech, a'r llafur mwyaf. Er mwyn gweled pwys yr annogaeth a ddyry Crist, "Aroswech ynof fi," edrychwn ar y pethau sydd yn rhwystrau i hynyma, y rhai y mae yn rhaid i'r cristion ymosod arnynt a thori trwyddynt.

1. Mae holl *syniad y cnawd* yn taro yn erbyn ein harosiad yn Nghrist. Nid oes fodd ymgadw mewn myfyrdodau sanctaidd am Grist os bydd rheswm cnawdol ar y fainc. Mae pethau Duw yn Nghrist yn bethau sydd yn sefyll uwchlaw rheswm fel y mae yn feidrol, ac yn sefyll yn erbyn rheswm fel y mae yn llygredig. Bydd syniad y cnawd o hyd yn cwestiyna, "Pa fodd y dichon y pethau hyn fod?" Pa fodd y gall Duw a dyn fod yn un Person? Pa fodd y mae cyfiawnder Crist yn ein cyfiawnhâu ni, a'i waed ef yn ein glanhâu ni? Eu dirnadaeth anianol a yrodd ddysgybion y torthau i ymadawiad tragywyddol â Christ. "Caled yw yr ymadrodd hwn," meddynt hwy; "pwy a ddichon wrando arno?" Rhaid i ni rwymo'r doethineb cnawdol wrth odrau'r mynydd, a'i yru i'r anialwch, a dodî ein hunain i ofal ffydd. Dyma ddyfod yn ffol fel y byddwn ddoeth. A chyda'r eli llygaid a ddyry Crist i ni, ni a welwn fywyd tragywyddol yn y geiriau a elwir gan eraill yn ymadrodd caled.

2. Mae holl ymgais *deddfoldeb a balchder y meddwl* am ysgaru rhwng yr enaid â Christ. Os ceir y cristion yn fanwl mewn ufudd-dod, yn ymdrechgar i gyflawni pob dyledswydd, ac i farw-eiddio pob pechod, ac i berffeithio sancteiddrwydd, wele'r deddfoldeb hunangar yn cymeryd mantais oddiar hyny i sibwrw wrtho, Y mae genyt weithian ddâ lawer; gorphwys, bwyta; na fydd mor fanwl bellach; gâd yna fyned yn bechadur at Grist, ond gwêl fod genyt rinweddau sant. Ond yr ydym i ddywedyd yn wyneb y cyflawniad goreu o ddyledswyddau, Gweision an-fuddiol ydym; nid oes i ni gyfiawnder yn yr oll o'n gweithredoedd ein hunain; rhaid troi at ufudd-dod Un arall am ein cyfiawnhâd, fel Paul yn cyfrif ei holl ragoriaethau a'i weithredoedd da yn golled ac yn dom, fel yr ennillai Grist, ac y ceid ef yn y



cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd. Ac o'r tu arall, os bydd euogrydd cydwybod pechod yn ymosod ar gristion i'w gyhuddo a'i boenydio, bydd y deddfoldeb hunanfalc hyn yn ceisio cymeryd mantais i'w gadw draw oddiwrth Grist, trwy ei annog i geisio ei wella ei hun yn gyntaf. Ond enaid, wedi ei nerthu yn y ffydd, a ddywed, Wynebaf at aberth Crist fel yr ydwyf; gyda'm holl euogrydd, at bwy yr âf ond at yr Arglwydd fy nghyfiawnder?

3. Mae *gweddillion yr hen elyniaeth at Grist* yn aros yn ein natur tra yn byw yn y cnawd. Beth yw yr achos ein bod dan wasgfeuon ac mewn blinder yn barod i droi i bob man cyn dyfod at Grist? Pa fodd yr ydym yn rhy fynych yn gorphwys gyda ein dyledswyddau heb ymdafu ar ei haeddiant ef am dderbyniad? Yr hen elyniaeth sydd yma yn trigo? Nis gellir byw i Grist heb farweiddio a chroeshoelio ein hen ddyn.

4. Mae *holl dlynion ein hencidiau mewn cydgynghrair* i'n rhwystro at Grist. Fel yr Aiphthiaid, y Canaanäaid, a'r Amoriaid, am attal meibion Israel i Ganaan, y mae diafol, cnawd, a byd, trwy demtasiynau, ymosodiadau, neu ddeniadau, am ein rhwystro ninnau i feddiannu a mwynhâu gorphwysfa yr efengyl.

5. Mae *diogi ysbrydol ac ofnau anianol* yn ein hannhueddu i fyw ar Grist. Llauer, trwy eu gwybodaeth a'u hargyhoeddiadau, a gawsant olwg ar wlad yr addewid, fel plant yr Israel yn cael o'i ffrwyth yn yr anialwch; ond wedi deall fod teithio dygn ac ymladd caled yn anghenrheidiol tuag at ei hennill, yr oedd eu zel yn llaesu, a'u gwrthgiliad yn peri iddynt o'r diwedd drengu yn yr anialwch. Mynai'r cnawd orphwys ar gyflawni cylch allanol dyledswyddau crefyddol, yn lle rhoi allan yr egni anghenrheidiol i dori at eu hysbrydolrwydd. Tuag at fyned at Grist, ac aros gydag ef, yn yr ymarferiadau, rhaid cadw'r galon yn dra diesgeulus; ac y mae eisieu'r dyfalwch mwyaf tuag at wneuthur hyny. Ond y mae'r daioni a fwynheir yn talu yn dda am yr holl ymdrech; a dyna'r mater nesaf.

II. YR EFFAITH HYFRYD O AROS YN NGHRIST: "Yr hwn sydd yn aros yno fï, a minnau ynddo yntau, hwnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer."

Hwnw, ac nid neb arall, a ddwg ffrwyth da; a hwnw, pwy bynag ydyw, ac ymha le bynag y byddo. Os yn nhÿ Putiphar,

neu dŷ Jeroboam, neu dŷ Naaman ei ceir, ni bydd yno heb arno y ffrwyth priodol.

Beth yw y ffrwytho hwn? Nid oes eisieu i ni wneyd yn amgen na chyfeirio at eiriau'r Bibl i'w eglurhâu. "Yr awrhon wedi eich rhyddhâu oddiwrth bechod, a'ch gwneuthur yn weision i Dduw, y mae i chwi eich ffrwyth yn sancteiddrwydd." "Wedi eich cyflawni â ffrwythau cyfiawnder, y rhai sydd trwy Iesu Grist, er gogoniant a moliant i Dduw." "Fel y rhodioch yn addas i'r Arglwydd i bob rhyngu bodd, gan ddwyn ffrwyth ymhob gweithred dda." "Ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, cymwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest." Trwy undeb a chymundeb â Christ, nyini a ffrwythwn mewn grasusau ysbrydol, ac mewn rhinweddau ymarferol. Mae yr hwn sydd yn dwyn ffrwyth yn meddu ar bob gras, ac yn doddi allan actau pob gras.

Ac nid prin yw ffrwyth y neb sydd yn aros yn Nghrist; nid rhywbeth ydyw fel "lloffion grawnwin, fel ysgydwad olew-wydden, sef dau neu dri o rawn ymlaen y brig, a phedwar neu bump yn ei changenau ffrwythlawn eithaf;" ond y mae hwn "yn dwyn ffrwyth lawer;" y mae'r pethau goreu ganddo, ac yn aml hwynt; ffrwyth yn amlhâu erbyn ei gyfrif ddydd a ddaw. Ac efe a ffrwytha yn ei henaint. Er i'w gorff heneiddio, bydd ysbryd ei feddwl yn ymadnewyddu.

I gymhwyso y mater dan sylw, edrychwn rhag bod y diffyg o aros yn Nghrist yn glefyd cyffredinol yn ein heglwysi y dyddiau hyn. Pan fyddo haint neu bla yn ymdaenu trwy gymydogeath, y mae pob un yn edrych ato ei hun, rhag bod dim arwyddion o hono arno ef. A oes argoelion fod y tô presennol o grefyddwyr yn Nghymru yn synio ac yn byw yn fwy di-Grist nag y gwelwyd yr hen frodyr a'r chwiorydd a hunasant—llai o ymddyddan am dano a mynegu ei rinweddau, a llai o ymaberthu er ei fwyn? Pa fodd y mae gyda ni bob un yn bersonol? O na chaffer achos i ddywedyd wrthym, "Chwi a aethoch yn ddifudd oddiwrth Grist!" Mae hen hanes yn adrodd am y pla yn Athen, pan y bu miloedd o'r dinasyddion feirw o hono, nad oedd ond ychydig iawn o'r gweddill byw a ddiangasant heb fod wedi colli rhyw un neu rai o'i haelodau; un wedi colli ei lygad, y llall ei fraich ac arall ei law, neu rai o'i fysedd. Felly mewn amser o ddirywiad crefyddol

gall hyd yn nôd y rhai a gvfrifir ymysg y goreuon o broffeswyr crefydd golli rhyw wirionedd o'r athrawiaeth, neu adfeilio mewn ysbrydolrwydd profiad, neu laesu mewn manylwch gyda dyledswyddau. Os ydym ni yn aros yn Nghrist, fe erys ei eiriau ef ynom; ac os nad yw gair Crist yn preswyllo ynom yn helaeth, rhaid nad oes gymundeb agos rhyngom ni âg ef ei hun.

Er mwyn ein cael yn nês at Grist, edrychwn arno yn fynych trwy ffydd. Mae yn ei wedd allu tyniadol, i'n sugno ato ei hun. Yr oedd llygad yr eglwys fel y ddyweddi yn dwyn calon ei Phriod; a llewyrch ei wyneb yntau a'n tyn ninnau i redeg ar ei ol. Aroswn ynddo, oblegid allan o hono nid oes ond pob drwg a thrueni, ac ynddo y mae pob daioni a dedwyddwch.

## PREGETH VI.

CADWEDIGAETH YN DYFOD TRWY RAS, AC YN ARWAIN I  
WEITHREDOEDD DA.

EPHESIAID ii. 8, 9, 10: "Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd, a hyny nid o honoch eich hunain; rhodd Duw ydyw: nid o weithredoedd, fel nad ymffrostiai neb. Canys ei waith ef ydym, wedi ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a ragddarparodd Duw fel y rhodiem ni ynddynt."

**N**I a wyddom mai gweithredoedd drwg dynion ydyw achos eu damnedigaeth; ond y mae'r testun, ni a glywn, yn gwadu mai eu gweithredoedd da hwynt yw sail eu cadwedigaeth, ac yn priodoli iachawdwriaeth pechadur yn unig i ras Duw. Ar yr un pryd y mae yn dangos fod cadwedigaeth trwy ras yn arwain i weithredoedd da. Nid oes neb yn gadwedig trwy, na neb yn gadwedig heb, weithredoedd da. Sicrheir yn y testun mai gweithredoedd da ydyw amcan y greadigaeth newydd yn Nghrist Iesu. I hyny y mae pechadur yn cael ei greu; a'r greadigaeth rasol hon yw gwreiddyn a dechreuad gweithredoedd da. Yma y gwneir y pren yn dda, ac yna bydd y ffrwyth yn dda.

Ceisiwn ddangos gwirionedd athrawiaeth y testun yn y ddau beth hyn: cadwedigaeth neu iachawdwriaeth o ras, a hyny yn sicrhâu ufudd-dod neu weithredoedd da.

I. CADWEDIGAETH TRWY RAS: "Trwy ras yr ydych yn gadwedig."

Cyn sefyll ar raslondeb y gadwedigaeth hon, caiff ein hystyriaethau orphwys am fynydyn mewn difrifwch ar y gwirionedd

pwysig sydd yn cael ei dybied a'i gynnwys ynddi, a hyny ydyw ein colledigaeth o honom ein hunain. Wrth ddywedyd, "Yr ydych yn gadwedig," y mae hyny cystal â dyweyd, Yr oeddych yn golledig.

Dyna'r cyflwr y daethost ti, fy nghyd-bechadur, iddo, trwy dy ymadawiad â Duw, a'th wrthryfel i'w erbyn. Trwy bechod, ti a gollaist bob peth a gefaist yn dy greadigaeth ond dy hanfod. Yr wyt ti yn bôd eto, a thi a fyddi yn bôd byth, ond bôd, fel pechadur, sydd wedi colli gogoniant ei fôd—colli prif amcan a dedwyddwch ei fôd, pethau anhebgorol i berffaith a gwir fôd creadur rhesymol, fel, hwyrach, nad yw yn ormod dywedyd nad yw bôd, hebddynt hwy, ddim yn fendith—ddim i'w dymuno. "Da fuasai i'r dyn hwnw pe nas ganesid ef."

Dengys yr adnodau blaenorol yn mhennod y testun fod dau beth yn y golledigaeth hon: marwolaeth mewn camweddau a phechodau, a digofaint, i'r hwn y mae dynion wrth naturiaeth yn blant; llygredigaeth ein natur, a chondemniad ein personau; y cyntaf yn achos o'r olaf, megys y mae'r cwmp wedi achosi'r ddau. Yn y ddau ymadrodd yma, ni a allwn gael rhyw ddirnadaeth am ddyfnder y trueni sydd yn gynnwysedig yn y golledigaeth hon. Yn un peth, y mae ynddi amddifadrwydd o ryw ddaioni mawr. Wele gymaint peth â bywyd yn eisieu. Pa le bynag y mae marwolaeth, mae yno ryw fywyd wedi ei ddinystrio. Creador ag oedd unwaith yn fyw sydd wedi colli y bywyd oedd yn perthyn i'w natur. Ac yn y farwolaeth ysbrydol hon, dyma ddyn wedi colli ei fywyd; bywyd ei enaid, y bywyd uchaf oedd yn perthyn iddo, ac i'r hwn yr oedd pob bywyd arall yn gwasanaethu; bywyd cynnwysedig mewn gwybodaeth o Dduw a chariad ato, a thrwy golli yr hwn y mae'r enaid wedi colli Duw ei hunan. Teimlir peth chwithdod wrth edrych ar farwolaeth blodeuyn; ond teimlir mwy uwch ben marwolaeth yr anifail, am fod yno fwy o boen wedi bod, a mwy o werth ac o bleser wedi eu dyfetha. Gweled bywyd corff dynol wedi myned ymaith sydd alaethus yn wir. Ond beth am enaid wedi colli ei fywyd, ei fywyd moesol, a thrwy hyny wedi colli Duw? Y fath drueni sydd yn hyn! gogoniant, gwerth, a dedwyddwch mawr wedi eu dyfetha! Ond nid amddifadrwydd yw y cwbl, eithr yn y golledigaeth y mae poenau hefyd. Yn wir, y mae poen yn yr amddifad-

rwydd; ond y mae yma fwy: “digofaint Duw yn aros arno ef.” Pan y gadawodd Duw ei briod-Fab, yr oedd ychwaneg na theimlad o'r ymadawiad yn yr enaid. A phan y mae'r duwiol yn colli profiad o heddwch a chariad Duw, mae rhywbeth pellach yn dilyn hyny yn aml; yr enaid yn teimlo digofaint yn pwysu arno, a saethau yr Hollalluog ynglŷn ynddo. Felly yn wir pan fydd colledigaeth yr annuwiol wedi ei pherffeithio: nid yn unig bydd pob bendith a daioni wedi cilio oddiwrtho, ond gwg Duw, a melldith ei ddeddf am bechod, fel olew yn treiddio trwy ei holl natur. Colledig fel hyn yw pob dyn wrth naturiaeth; a dyma oedd cyflwr y duwiolion gynt. Yr oeddych yn golledig; nid mewn perygl o fod, ond yr oedd y peth yn ffaith; dan gondemniad, heb ynddynt un sail o appêl rhagddo, a hwnw i farwolaeth dragywyddol—gair nad oes bosibl chwanegu ato.

Ond dyma'r tro mwyaf wedi cymeryd lle: “Yr ydych yn gadwedig.” Ac am y rhai sydd eto heb gyrhaedd y cyflwr diogel a dedwydd hwn, y mae ystyr y gellir cymhwyso y geiriau atynt hwy oll; a hyny yw, Y mae trefn i'ch cadw chwi, i.e, chwi, trwy Grist. Mae ffordd i'ch gwaredu o'r farwolaeth, ac i chwi ddianc o dan y ddamnedigaeth; ffordd i adferu pechadur i heddwch Duw, i'w ddelw, ac i fwynhâd o hono. “Yr hwn sydd yn credu ynddo ef, ni ddemnir;” hwn “a gaiff fywyd tragywyddol, ac ni ddaw i farn, eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd.”

Dychwelwn bellach i sylwi ar achos gwreiddiol cadwedigaeth pechadur. “Trwy ras yr ydych yn gadwedig.” Newydd da yw hwn: cadw, a chadw trwy ras, yr hyn sydd yn dwyn y gadwedigaeth hon i gyrhaedd yr annheilyngaf. Gras yw y perffeithrwydd hwnw yn y Duwdod mawr ag sydd yn ei dueddu i wneuthur daioni i greadur, pryd nad oes yn y creadur hwnw ddim yn haeddu, nac unpeth yn gymhelliad i'w dynu ato. Yn yr efengyl, mae'r geiriau trugaredd, cariad, a gras, yn dyfod agos i'r un ystyr. Mae trugaredd yn golygu y gwrthddrych yn druenus, tra y mae rhad gariad a gras yn golygu'r gwrthddrych hwnw, nid yn druenus yn unig, ond hefyd yn anhawddgar ac yn annheilwng. Os adferir ef o'i drueni, nid ynddo ef y mae'r achos, ond yn yr hwn sydd yn gwneuthur hyny; ac yn hwnw nis gall fod yn ddim ond gras; canys efe a wna o hono ei hun, ac er ei fwyn ei hun.



Ni a nodwn amryw ystyriaethau sydd yn dangos hyn.

1. *Nid oedd gogoniant Duw yn gofyn am iddo achub pechadur.*

Nyni a allwn feddwl am ryw bethau nas gall y Bôd Mawr lai na'u cyflawni; oblegid y mae ei enw a'i anrhydedd yn gofyn hyny. Mae rhwymedigaethau arno i'r cyfryw weithrediadau, rhwymedigaethau yn cyfodi, nid oddiwrth neb na dim oddiallan iddo, ond oddiwrth ei natur, ei briodoliaethau, a'i ogoniant ei hun. Meddylwch am greadigaeth dyn er esiampl: ar y dybiaeth fod y Duw mawr yn gweled yn dda wneyd y fath greadur, yr oedd ei ogoniant yn gofyn iddo ei wneyd yn fôd perffaith; ei gynnysgaethu â phob peth anghenrheidiol i gyrhaedd amcan ei greadigaeth mewn addoli a mwynhâu Duw. Yr oedd sancteiddrwydd a delw Duw megys i ddyfod yn naturiol i ran y fath greadur, yn ol deddf ei greadigaeth, a natur ac anrhydedd y Jehofah yn galw am ei wneuthur felly. Ond wedi i'r creadur hwn bechu, a cholli ei sancteiddrwydd a'i ddedwyddwch, nid oedd gogoniant Duw, nac un perffeithrwydd yn ei natur, yn galw am i'r Bôd Mawr ei adferu, ei greu o'r newydd ar ei ddelfw, ac i ddedwyddwch. Bwriwch fod ei achub yn beth unol â thrugaredd a gras, eto nid oedd cael ffordd i'w gogoneddu drwy hyny ddim yn anghenrheidiol i Dduw. Pan y gwelwch fawr ddrwg pechod, chwi a welwch hefyd nad oedd gogoniant Duw yn gofyn ond am gosbedigaeth y pechadur, wedi iddo wrthod bywyd a dedwyddwch ei ystâd greuedig. Wel, pa fodd yr wyf fi yn gadwedig heddyw? gofyna rhyw gristion. O ras yn unig, fy enaid, a gras mwy hynod am ei fod yn rhydd. O drugaredd, a thrugaredd rad, nad oedd un rwymedigaeth naturiol yn cyfryngu rhyngot â'i gweithrediadau, y mae iachawdwriaeth i ti. Hen drugareddau a thosturiaethau, a allsent yn unol â gogoniant y Goruchaf fod wedi ymattal, a'u cau mewn soriant oddiwrthyt dros byth, y rhai hyny a ffrydiasant yn rhydd a helaeth.

Mae yn dda genyf yma ychwanegu: er nad cedd gogoniant Duw yn gofyn ein cadwedigaeth, eto y mae Duw yn ogoneddus yn hyny; i.e., yma y mae efe yn ogoneddus yn wir. Mae yr hen greadigaeth megys wedi myned i anghof, fel peth heb ei gogoneddu, gan y gogoniant tra rhagorol sydd yn perthyn i'r greadigaeth newydd. Ni chofir ac ni feddylir am yr hen, gan fel y mae yr amlygiadau o Dduw yn y newydd yn synu dynion ac

angylion. Mae "yr awrhon yn hysbys i'r tywysogaethau ac i'r awdurdodau yn y nefolion leoedd, trwy yr eglwys, fawr amryw ddoethineb Duw." Ydyw, y mae doethineb yma yn ddyfnder golud doethineb, a chyfiawnder fel mynyddoedd cedyrn, tra y mae daioni, yn y wedd o drugaredd a gras, yn gweithio ei hunan allan mewn nerthoedd a lliosogrwydd. Mae gras yn hynod, ac yn fwy hynod yma, am nad oes reswm am dano, na ffynnonell iddo, ond ewyliys da penarglwyddiaethol Duw. Nid oedd cadwedigaeth yn rhedeg yn naturiol at yr euog, megys y daw goleuni o'r haul; nid oedd dim yn Nuw yn galw am ei ddangos ond ei fod yn ewyllsio. Felly, mae yn rhaid mai "trwy ras yr ydych yn gadwedig."

2. *Nid oedd dim anghen ar Dduw am ddyn i'w gadw.*

Mae yn rhaid i ddynion wrth eu gilydd; ac y mae'r naill ddyn yn gwneyd daioni i'r llall am fod hyny yn fantais iddo ef ei hunan. Ond y mae'r Duw mawr uwchlaw manteisio arnom ni. Yr Hunan-ddigonol a'r Holl-ddigonol ydyw efe. "Myfi yw Duw Hollalluog," medd efe wrth Abraham, neu, Myfi yw Duw holl-ddigonol. Beth yw hyn? Bôd â'i ddigonedd ynddo ac o hono ei hun, heb dderbyn dim gan neb arall, ac yn gwasanaethu iddo ei hun, fel nad oes arno eisieu dim oddiwrth neb arall. Mae efe ynddo ei hun yn ddiigon iddo ei hun, er ei ddedwyddwch anfeidrol a thragywyddol, ac fel hyn yn annibynol ar bawb arall. Ac yn wir, nid oes gan neb ddim i'w roddi i Dduw. Pe rhoddai yr holl greadigaeth ei chwbl iddo, ni byddai efe ddim cyfoethocach, gan na byddai yn cael dim ond a roddasai. "Yr holl afonydd a redant i'r môr, eto nid yw y môr yn llawn; o'r lle y daeth yr afonydd, yno y rhedant eilwaith." Mae yr afonydd sydd yn myned i'r môr wedi dyfod o'r môr i ddechre; nid oes ganddynt ddyferyn i'w roddi iddo ond a dderbyniasant trwy amrywiol ffyrdd o hono. Felly yma: o Dduw, a thrwyddo ef y mae'r cyfan; a chan hyny nis gallai yr oll ei wneuthur ef yn fwy cyflawn. "Pwy a roddes iddo ef yn gyntaf, ac fe a delir iddo drachefn?" Ond nid yw y rhoddwr hwnw i'w gael; "canyis o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef y mae pob peth." Gan eu bod o hono, a thrwyddo, rhaid eu bod oll yn ddyledus; ac am hyny ar ol eu cael, nid yw yn cael ond yr eiddo ei hun.

O fy nghyd-ddyn, bryfyn tlawd fel fy hunan, nis gallaf ond edrych arnat gyda rhyw dosturi cymysgedig â syndod. Pa beth? tydi yn anghenrheidiol i ddedwyddwch Duw! Er doc yr ydwyf, ac os felly, rhaid fod yr uchel Dduw, yr hwn sydd yn bôd erioed, yn amherffaith ei wynfydedigrwydd cyn doe, pan y daethost ti i fôd. Na! pe na buasai Duw yn ddedwydd erioed, nis gallasai efe fod yn ddedwydd byth; a phe na buasai efe yn ddedwydd ynddo ei hun, nis gallasai ei holl greaduriaid ei wneuthur ef yn ddedwydd; o herwydd ni ddichon y rhai rhagorol, a'r rhai rhagoraf o honynt, ychwanegu dim iddo ef. "A wna gŵr lesâd i Dduw, fel y gwna y synwryol lesâd iddo ei hun? Ai digrifwch ydyw i'r Hollalluog dy fod di yn gyfiawn, neu ai elw dy fod yn perffeithio dy ffyrdd? Ai rhag dy ofn y cerydda efe dydi, neu yr â efe gyda thi i farn? Edrych ar y nefoedd, a gwêl; ac edrych ar y cymylau, y rhai sydd uwch na thi;" a thi a wyddost yn dda fod Duw yn uwch na'r rhai hyny. "Os pechi, pa niwed a wnei di iddo ef? os anl fydd dy anwireddau, pa beth yr wyt yn ei wneuthur iddo ef? Os cyfiawn fyddi, pa beth yr wyt yn ei roddi iddo ef, neu pa beth y mae efe yn ei gael ar dy law di? I ŵr fel tydi, dy annuwioldeb, ac i fab dyn, dy gyfiawnder, a all rywbeth." Gall dy ddrwg niweidio dy gydgreadur, a gall dy dda ei lesâu; ond ni ddichon dy dda na dy ddrwg, dy annuwioldeb na'th gyfiawnder, effeithio dim ar Dduw. Cymer ef ar ei air, bechadur; hawdd iddo wneyd hebot ti. Nid yw dy gael yn un elw, na'th golli yn un golled iddo ef; wele efe ynddo ei hun yn ddigon iddo ei hun. Pa fodd ynte y meddyliodd y fath un am gadw pechadur? ac yn enwedig, paham yr aeth efe i'r draul tuag at wneuthur hyny—trefnu rhyfedd gnawdoliad a marwolaeth ei uniganedig Fab? Caiff y testun ateb, Gras, gras! "trwy ras yr ydych yn gadwedig." Mae Duw yn cadw pechadur nid i ennill dim iddo ei hun, ond er mwyn arllwys ei ddaioni o hono ei hun. Un daionus, graslawn, a thosturiol iawn yw Duw; a dyma'r ffordd a gymerodd efe i ddodi ei gymwynasgarwch allan i'r eithaf: trwy gadw eneidiau colledig. Mae efe yn "cyflawni holl foddlonrwydd ei ddaioni." Dyma y rheswm am dy gadw di, fy enaid: Duw sydd am foddloni ei ddaioni. A chan fod daioni Duw mor fawr, nid ychydig a'i boddlonai ef. Nid oedd dy greu ar y dechre, na'th gynnal am ychydig yn y byd hwn, ddim

yn ddigon ganddo; ond yr oedd yn rhaid i'w ddaioni gael maddeu dy bechodau, cyfiawnhâu dy berson, sancteiddio dy natur, a'th ogoneddu byth. Nis gall efe wneuthur mwy; canys dyma *holl* foddlonrwydd ei ddaioni wedi ei gyflawni. Arglwydd mawr! nid yw yn un elw i ti gael y pechadur. Nac ydyw, ond fe fydd yn elw tragywyddol iddo ef fy nghael i; a hapus iawn genyf fi ydyw gwneyd y truan yn hapus; fy mherfedd a ruant am dano ef; gan gofio y cofiaf ef eto; gan drugarhâu y trugarhâf wrtho ef, medd yr Arglwydd.

3. *Nid oes mewn pechadur ddim yn haeddu cael ei gadw.*

Pe buasai cadwedigaeth o ddyled, neu yn ol cyfiawnder, buasai raid fod pawb yn gadwedig neu fod anghyfiawnder gyda Duw, oddigerth y gellid profi fod y rhai cadwedig, cyn cael eu cadw, yn well nag eraill. Ond y mae yn amlwg mai nid felly y mae. Mae y rhai cadwedig eu hunain yn gwadu y caed ynddynt hwy ddim rhagoriaeth. Yn yr adnodau blaenorol i'r testun, mae Paul yn sefyll i fyny yn enw'r cadwedigion trwy yr oesoedd, neu megys eu cynnrychiolydd hwy, ac yn ardstio nad ydoedd gynt ond drwg a thrueni yn perthyn iddynt. Ië, Paul, gelli di hõni fod rhagoriaeth ynglŷn yn wreiddiol â thi. Yr oeddit yn perthyn i deulu sydd yn edrych arnynt eu hunain yn eithriad i'r lleill o ddynolryw, ac yn perthyn i'r sect fanylaf o'r rhai hyny, ac yr oeddit ymysg y rhai mwyaf moesol a chydwybodol o'r sect hono, os nad oeddit y manylaf oll. Na, nid oedd hyny yn ddim llesâd i mi gyda golwg ar fy nghyflwr ysbrydol. Yr oeddym ni, fy mrodyr o'r Hebrëaid, a minnau yn eu mysg, wrth naturiaeth megys eraill, heb ddim gwahaniaeth moesol rhyngom â'r Cenedloedd. Wel, y mae gwahaniaeth mawr yn bresennol, Paul, rhyngoch chwi âg eraill? Oes, cymaint gwahaniaeth ag sydd rhwng y cymeradwy a'r condemniedig, rhwng y byw a'r marw, rhwng y rhai fyddant byth yn wynfydedig a'r rhai a fyddant byth yn druenus. Os felly, ai nid oedd y gwahaniaeth yn bôd bob amser? O nac oedd! Ai nid ynoch chwi yr oedd yr achos i Dduw wneyd y gwahaniaeth? Nage: yr oeddym ni wrth naturiaeth megys eraill. Os oeddynt hwy yn feirw mewn camweddau a phechodau, felly ninnau. Os oeddynt hwy yn blant anufudd-dod, felly ninnau. Os oeddynt hwy dan ddylanwad y diafol yn gwrthod Crist, ac yn ynfydu ar eu chwantau, felly ninnau. "Ymysg y rhai hefyd y bu

ein hymarweddiad ni oll gynt, yn chwantau ein cnawd, gan wneuthur ewyllysiau y cnawd a'r meddyliau; ac yr oeddym ni wrth naturiaeth yn blant digofaint megys eraill." O ba le gan hyny y daeth y fath ddirfawr wahaniaeth? "Eithr Duw." Onid wyt ti, fy enaid, yn ymdoddi mewn diolchgarwch wrth ddyweyd neu glywed hyn? Onid yw arogl dyfroedd gras yn peri i ti ynloni wrth nesáu at eu ffynnon fawr hwynt? "Eithr Duw, yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, o herwydd ei fawr gariad trwy yr hwn y carodd efe ni." Dyma yr achos i gyd: Duw, tra yn gyfiawn tuag at bawb, a drugarhäodd wrthym ni; ac os gosynir, Paham? nid oes ateb i'w roddi ond mai felly y rhyngodd bodd yn ei olwg ef. Wel ië, chwychwi a gredasoch, Paul; ynoch chwi y mae'r hyn oedd yn eich cysylltu â bywyd tragwyddol. Ië, y mae hyny yn wir; ond nid peth o honom ni ein hunain yw y ffydd hon: "rhodd Duw ydyw." Rhoddwyd i ni, er Crist, gredu ynddo ef. Onid chwychwi sydd yn gweithio allan eich iachawdwriaeth eich hunain? Ydym, yr ydym ni wrthi, mae yn wir; ond "Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynom ewyllysio a gweithredu ei ewyllys da ef." Gras yw'r cwbl i ni, a gras digyffelyb o ran mawredd ydyw. Ystyrier trueni blaenorol y gwrthdrys, yn ol fel y dangosir yn y cyd-destun. "Carodd efe ni, ië, pan oeddym feirw mewn camweddau." Dyna eithaf drwg a thrueni yn y dechre: "meirw mewn camweddau;" holl ddaioni a rhinwedd, tegwch a gogoniant, nerth a defnyddioldeb yr enaid wedi darfod. Ac nid yn unig hyny, ond y mae'r farwol-aeth hon yn cynnyrchu a magu llygredigaeth. Mae "ewyllysiau y cnawd a'r meddyliau" fel pryfed adgas yn ysu ac yn tori allan o'r enaid marw, nes gwneyd y creadur yn ffaidd yn ngolwg Duw. Eto pan oeddym fel hyn, medd Paul, efe a'n carodd ni; ac o gariad efe "a'n cydfywhäodd ni gyda Christ." A chyn myned ddim pellach, mae yn dyferu gair ar y canol, yr un ymadrodd äg yn y testun: "Trwy ras yr ydych yn gadwedig." Ac yna efe a ä rhagddo i ddangos gorchestion gras. "Ac a'n cydgyfododd ac a'n gosododd i gydeistedd yn y nefolion leoedd yn Nghrist Iesu," a hyny er mwyn i ni fod yn ddigon amlwg fel arddangosiadau o ras, i dynu eraill ymlaen, trwy yr oesoedd hyd y diwedd, i dderbyn y gras hwn: "Fel y gallai ddangos yn yr oesoedd a ddeuai ragorol olud ei ras ef, trwy ei gymwynasgarwch i ni yn



Nghrist Iesu." Ac yma, yn ein testun, dyma efe yn rhybedio i mewn y gwirionedd gwerthfawr drachefn: "Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig." O ras mawr! Wedi i ras dy ddwyn di i'r nefoedd, fy enaid, nis gelli ond synu yno byth. O ryfedd drefn rasol! codi y fath greaduriaid o'r fath lygredigaeth a thrueni i'r fath ogoniant! ein bywhâu ni gyda Christ—cael byw yr un bywyd âg yntau; a mwy na byw felly: ein gosod i gydeistedd dan yr un gogoniant â Christ Iesu, yn yr un dedwyddwch âg ef yn y nefolion leoedd. Na fydded yn chwith genych glywed yr enaid, tlawd gynt ond cyfoethog bellach, yn methu ymattal rhag bloeddio O diolch! O rhyfedd!

"Rhad ras,  
Yw 'r newydd gân bereiddia 'i blas  
Fu 'r iroed ar wyneb daear las:  
Ii ddeil ei blas pan losgo 'r byd  
A berwi o'r môr â 'i dônau 'n dân,  
Y newydd gân fydd gras i gyd."

4. Mae yn eglur mai o ras y mae cadwedigaeth pechadur am *ei fod yn cael ei gadw cyn ei weithredoedd da.*

Er nad yw y sylw hwn, hwyrach, ond yr un peth ag a ddywedwyd eisoes, gall fod yn fantais i ni eto ddywedyd hyny mewn dull arall. "Nid o weithredoedd," medd y testun, "fel nad ymfrostiai neb; canys ei waith ef ydym wedi ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da." A ydych chiwi yn sylwi ar y cyferbyniad? "nid o weithredoedd," ac eto "*i* weithredoedd." Mae yr Apostol, mewn lle arall, yn gosod gras a gweithredoedd ar gyfer eu gilydd, ac yn dangos fod y naill, fel achos cadwedigaeth, yn cau allan y llall. "Os o ras, nid o weithredoedd mwyach; os amgen, nid yw gras yn ras mwyach. Ac os o weithredoedd, nid yw o ras mwyach; os amgen, nid yw gweithred yn weithred mwyach." Ac medd efe hefyd, "I'r neb sydd yn gweithio, ni chyfrifir y gwobr o ras, ond o ddyled; eithr i'r neb nid yw yn gweithio, ond yn credu yn yr hwn sydd yn cyfiawnhâu yr annuw-  
iol, ei ffydd ef a gyfrifir yn gyfiawnder." Gras i gyd ydyw cyfiawnhâu yr annuw-  
iol, oblegid nid oes gan hwnw ddim haeddiant na gwaith i'w gyflwyno. Yn gyffelyb y cawn yma: nid o ond *i* weithredoedd. Fe fu ufudd-dod dyn unwaith yn



ammod ei ddedwyddwch; ond anufuddhâu a wnaeth efe, a syrthio i drueni mewn canlyniad. Ac yn awr, y mae yn dda genyf fy mod yn gallu dyweyd wrthyt ti, bechadur, mai nid iaith y ddeddf yw iaith yr efengyl. “Gwna hyn, a byw fyddi,” medd y ddeddf, ond, Bydd fyw, a gwna hyn, medd yr efengyl; bydd fyw o ras trwy Grist, ac fel un a ddygwyd o farw yn fyw, gwna hyn. Nid y gweithredoedd yw achos yr achubiaeth, ond yr achubiaeth yw achos y gweithredoedd. Mae Crist, wrth achub pechadur, yn dywedyd yn gyffelyb ag y dywedasai wedi iachâu y gwŷr a fuasai glaf namyn dwy flynedd deugain: “Wele, ti a wnaethpwyd yn iach; na phecha mwyach;” nid, Os peidi a phechu eto, mi a’th wnaf yn iach; eithr, Dyma di yn iach eisoes; bellach wedi dy iachâu, bydd fyw yn dduwiol.

Mae yr holl enwau sydd ar y gadwedigaeth neu yr achubiaeth, yn yr adnodau hyn, yn dangos fod y pechadur wedi ei gadw cyn ei weithredoedd erioed. “Chwithau a fywhäodd efe pan oeddych feirw.” Ac os gweithrediadau y bywyd hwn yw gwir ufuddod, yna mae yn rhaid cael y bywyd mewn trefn i ufuddhâu. Ai creu o newydd yw cadw? Iê, ebe Paul yma: “ei waith ef ydym, wedi ein creu.” Wel, y mae hyn yn gwneyd y mater yn ddigon amlwg. Nid oes neb yn cael ei greu am unpeth a wnaeth efe; o herwydd nid oedd dyn yn bôd cyn ei greu; yn ei greadigaeth y cafodd efe fôd, a dyna ddechreuad ac achos ei weithrediadau. Felly am weithrediadau ysbrydol a sanctaidd yn yr enaid: ffrwyth y greadigaeth newydd ydynt, ac nid ei hachos. Yma y cafodd yr enaid y bôd hwnw yn Nghrist Iesu sydd anheggorol i’w cyflawni; o herwydd cyn hyny nid oedd ei weithredoedd goreu ond gweithredoedd dyn anianol a digariad at Dduw. A ydyw pechadur, pan y mae yn cael ei gyfiawnhâu, yn cael ei gadw? Wele, y mae cyfiawnhâd heb weithredoedd; y cwbl ganddo ef yno yw credu, ac nid gweithio. Eto, medd rhywun, dichon fod Duw yn cadw y rhai a gedwir am ei fod yn rhagweled y gwnânt hwy lawer o ddaioni. Ond y mae y daioni hwnw felly yn rhy ddiweddar i fod yn sail eu cadwedigaeth; canys dyma hwy wedi eu cadw trwy ras cyn eu gwneuthur, pan nad oedd yr un o honynt. Nid gwaith Israel yn cadw’r ddeddf a roddid trwy Moses oedd sail eu gwardigaeth o’r Aipht, a’u hawl i Ganaan; ond yr oeddynt hwy wedi cael eu gwaredu, a’r

etifeddiaeth wedi ei rhad-rodidi iddynt cyn rhoddiad y ddeddf; a'r daioni a gawsent o ras oedd y cynhelliad nerthol i'w hufuddod. "Chwi a welsoch y modd y codais chwi ar adenydd eryrod, ac y'ch dygais ataf fi fy hun." Beth gan hyny? "Gan wrando, gwrandewch ar fy llais, a chedwch fy nghyfammod." Ac felly y mae eto yn nhrefn yr efengyl. "Er gwerth y prynwyd chwi, gan hyny gogoneddwch Dduw yn eich corff, ac yn eich ysbryd, y rhai sydd eiddo Duw."

Ond nid rhaid amlhâu geiriau ar hyn. Mae pechadur yn cael ei achub, fe welir, nid yn unig cyn gweuthur o hono ddim da, ond yn fynych wedi iddo wneuthur yr hyn oedd ddrwg hyd y gallai. Pan gyfeiriodd etholedigaeth ei llygaid hyd ato i'w achub, yr oedd efe yna heb wneyd na da na drwg; ac yr oedd hi felly yn etholedigaeth gras. Ond pan y mae efe yn *cael* ei achub, y mae efe nid yn unig heb wneyd dim gwir dda, eithr wedi gwneyd drwg lawer, a hyny weithiau hyd y fynydd y byddo yn cael ei achub. Beth oeddit ti, Paul, cyn dy gadw? Yr oeddwn yn gablwr, yn erlidiwr, ac yn drahâus; eithr yr amser hwnw mi a gefais drugaredd. "Trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf." Yn y modd hwn dyma weithredoedd da yn ffrwyth y cadw, a'r cadw yn ffrwyth gras. Effaith yr achub yw sancteiddrwydd, ac achos yr achub yw gras yn gwbl.

5. Mae graslonrwydd cadwedigaeth yn ymddangos oddiar mai *cadwedigaeth yn Nghrist Iesu ydyw.*

Yma y cawn ni achos haeddiannol yr iachawdwriaeth. Mae yr haeddiant mewn un arall; nid yn yr un cadwedig, ond yn y Ceidwad. Yr oedd eisieu iawn yn gystal â gras mewn trefn i gadw; o herwydd yr oedd pechadur yn euog yn gystal âg yn annheilwng, a Duw yn gyfiawn yn gystal âg yn rasol; ac yr oedd yn anhosibl i ras y Cyfiawn odiaeth achub y troseddwr anghyfiawn heb iawn am ei droseddiadau. Ond y mae yma iawn a haeddiant anfeidrol; ac y mae yr iawn mawr hwn yn cydsefyll yn berffaith â gras yn yr iachawdwriaeth. Gwelwn hyn pan gofiwn mai "Efe yw yr iawn," ac nid y pechadur ei hunan. Ac megys mai arall, ac nid y pechadur ei hun, yw yr iawn, arall hefyd a ddarparodd ac a drefnodd yr iawn hwnw. Ymysg dynion, y dyledwr a geir yn darparu machniydd; ond yma, Duw a edrychodd iddo ei hun; ffrwyth grasol ei gynghor yw

y cwbl; trefn wedi ei gwreiddio mewn cyfammod rhwng y Gofynwr a'r Machniydd, heb ofyn dim i'r dyledwr tlawd ac euog, ac heb fod ganddo un dychymyg am y fath ddarpariaeth i'w ryddhâu. O ran dynion, buasai pryniad yr enaid yn peidio byth. Ond y Tad a roddodd ei uniganedig Fab yn Brynwr. "Hwn a osododd Duw yn iawn," a'i roddi trwy ei wneuthur o wraig, ei wneuthur dan y ddeddf, ei wneuthur yn bechod ac yn felldith drosom ni, fel y gwnelid ni yn gyfiawnder Duw, ac yn fendigedig dros byth, ynddo ef. Pa beth a welir yma ond gras, gras, anfesuro! annherfynol ras!

6. O ras y mae ein cadwedigaeth, am mai *trwy ffydd* y mae.

Pan ddelo'r truan yn nheimlad cydwybod at orseddfainc Duw, er ei fod yn euog annheilwng ynddo ei hun, heb allu gwneyd un taliad, na meddu dim haeddiant o hono ei hun, bydd yn ddigon iddo gredu neu ymddiried yn anfeidrol haeddiant Crist. Ofer ymddiried am help o'r bryniau, medd yr enaid argyhoeddedig a goleuedig; ac nid oes eisieu i mi droi i unlle dan haul; canys wele iachawdwriaeth wedi ei chael o'r nefoedd; colled a thom yw fy mhethau rhagoraf fi fy hun; ond yn yr Arglwydd Crist y mae i mi gyfiawnder a nerth. Yn dy gariad a'th ras, O Dduw, tydi a roddest dy Fab dros of fi, ac wele finnau yn ei dderbyn, ac yn ei roddi yn ol i ti, yn iawn dros fy holl bechodau; cymer ef i ateb dros of. Dyma yw ffydd; ac i'r ffydd yma, mae'r gras a ddarparodd yr iawn yn gwneyd *grant* o'r holl ddarpariaeth; ac felly eiddo yr enaid crediniol yw yr iawn a'i lïosog fendithion. Ac fel na ddaeth yr iawn o honom ein hunain, nid peth o honom ein hunain ychwaith yw'r ffydd hon ynddo; fel y dywed y testun, "Trwy ffydd, a hyny nid o honoch eich hunain; rhodd Duw ydyw." Yr oedd y pechadur ynddo ei hun yn ddigred yn gystal ag yn euog; nis gallasai gredu yn Nuw o herwydd tywyllwch am dano, ac anghariad ato. Ond gyda rhoddi iawn drosto, wele ras Duw yn rhoi meddwl ynddo i'w adnabod; ac wedi ei weled yr hyn ydyw, nis gall yr enaid beidio credu ynddo. Bellach dyma'r gras, yr iawn, a'r ffydd gyda eu gilydd: gras yn trefnu, yr iawn yn haeddu, a ffydd yn derbyn. Nid oes weithian rwystr i drugaredd ymgeleddu'r truan. Y Barnwr a drugarhâ wrtho, ac a ddywed, Gollwng ef, mi a gefais iawn. Er mai annheilwng yw efe, teilwng yw ei Fachniydd; cefais i iawn, a chaiff yntau

drugaredd. Gwnaf fi o'r goreu yn awr, medd gras; mae fy nwyllaw yn rhyddion; caf achub wrth ddymuniad fy nghalon.

Wele ynte, â'm traed ar dir gras, yr hwn a ddichon droi fy ngeiriau gweinion yn ysbryd ac yn fywyd o'th fewn di, bechadur, mi a'th wahoddaf yn wresog. Tyred at Grist; tyred fel yr wyt ti heddyw. Paid a gadael i'th annheilyngdod dy ddigaloni; dyma yr iachawdwriaeth o ras. Paid a sefyll draw o herwydd dy euogrwydd; wele yn yr efengyl faddeuant, cyfiawnder, ac iawn. Na fydded i'th amddifadrwydd o weithredoedd da beri i ti oedi dyfod; mae gwaith perffaith yr Emmanuel yn aros am danat ar yr orsedd fawr, i'th gyfiawnhâu yn rhad; ac wedi i ti fyned at yr orseddfainc heb weithredoedd, ar ol cyfarfod â Christ yno, ti a ddychweli yn awyddus ac yn fedrus i weithredoedd da. A dyna ein mater nesaf,—

II. Y MAE IACHAWDWRIAETH O RAS, HEB WEITHREDOEDD, YN SICRHAU GWEITHREDOEDD DA.

Wedi dyfod at yr Arglwydd trwy ffydd, ceir y credadyn yn rhodio yn addas i'r Arglwydd i bob rhyngu bodd, gan ddwyn ffrwyth ymhob gweithred dda; a dyna yw byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon.

1. Cadwedigaeth trwy ras yw *gwreiddyn ac achos gweithredoedd da*.

Yma y mae pechadur yn cael ei gyfnewid; y pren yn cael ei wneyd yn dda, ac fe fydd y ffrwyth yn dda o ganlyniad. "A gasgl rhai rawnwin oddiar ddrain, neu ffigys oddiar ysgall?" Na, tra byddont yn ddrain ac ysgall, ni cheir byth rawnwin a ffigys arnynt. "Ni ddichon pren drwg ddwyn ffrwythau da." Beth sydd i'w wneyd? "Gwnewch y pren yn dda." A dyma a wna yr efengyl: creu o newydd, gwneyd y dyn yn dda, cyfnewid y galon a rhoi trysor da ynddi, ac yna bydd dyn o anian yn dwyn allan bethau da. Nid oes gan neb weithredoedd a gydnebydd y Bibl yn dda, da yn eu hegwyddor, eu dyben, eu hysbryd, yn gystal a'u mater, ond y pechadur sydd wedi ei gyfnewid trwy ras. Pa fath weithredoedd yw gweithredoedd dyn balch, anedifeiriol, anghrediniol, heb gariad yn ei enaid at Dduw? onid gweithredoedd iddo ei hun, ac er ei fwyn ei hun, ac nid i Dduw? Nid oes ufudd-dod i Dduw heb gariad ato, na chariad ato heb obaith ynddo, na gobaith i bechadur ynddo ond yn unig fel y

mae yn Dduw yn Nghrist. O bosibl y gellwch glywed oferwr gwamal yn bostio ei fod ef yn gobeithio yn Nuw, ac yn ei garu; ond heb ei weled ei hun, na gweled Duw, y mae hwnw. Ond gofynwch i'r euog argyhoeddedig a theimladol beth a dybyga efe am Dduw; a chwi a gewch mai am Farnwr, ac nid am Dad, y sonia efe; ofn, ac nid gobaith na chariad, a ddengys efe; euog-rwydd a melldith deddf doredig sydd yn taranu yn ei gydwybod. Ond y foment y caffo'r truan hwn olwg ar drefn gras i gadw pechadur trwy Iesu Grist, dyna efe yn y fan yn dechre gobeithio yn nhrugaredd Duw; ac o obeithio daw i garu, ac o garu i gadw gorchymynion Duw. "Y mae gyda thi faddeuant fel y'th ofner," fel y'th addoler, ac y'th wasanaether.

2. Mae cadwedigaeth trwy ras yn cymeryd sancteiddrwydd efengylaidd, neu weithredoedd da, *yn amcan iddi*; ac y mae yn *diogelu yr amcan hwnw*.

Ac, yn wir, ni a allwn ddyweyd mai dyma yw y gadwedigaeth ei hunan. Bod yn sanctaidd yw bod yn gadwedig a dedwydd. A dyma yw amcan Duw yn yr holl iachawdwriaeth. "Etholodd efe nynt ynddo ei hun cyn seiliad y byd, fel y byddem sanctaidd." Daeth Crist i'n prynu ni oddiwrth bob anwiredd, er mwyn ein "puro ni iddo ei hun yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da." Beth yw cyfiawnhâu? Pechadur yn marw i bechod gyda Christ, mewn trefn i fyw gydag ef, gan rodio mewn newydd-deb buchedd. Felly yn y testun: "Ei waith ef ydym, wedi ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da." I hyny yr oedd Duw yn amcanu; mae yma greadur newydd wedi cael ei wneyd o bwrpas i gyflawni gweithredoedd da. Mae egwyddorion sanctaidd ynddo, a'r rhai hyny yn tueddu ac yn arwain y creadur i bob gweithrediadau sanctaidd mewn calon a buchedd. A ydyw'r crïstion yn credu, yn gobeithio, yn caru, ac yn ymddigrifo yn Nuw? Ydyw, ac o ran y dyn oddimewn, mor sicr ac mor naturiol ag ydyw i'r aderyn ehedeg yn yr awyr, neu i'r pysgodyn nofio yn y dwfr; dyna ei elfen; i hyny y crëwyd ef. A ydyw efe yn aros yn Nuw? Ydyw, ac nid oddiar deimlad o'i rwymedigaethau yn unig, ond oddiar duedd rhydd a gwirfoddol ei natur, sydd yn gweithio ynddo fel deddf wreiddiol ei fôd. Yn Nuw, ac nid mewn pechod, yr erys y dyn newydd a adnewyddwyd yn ol delw yr Hwn a'i creodd ef. Bid sicr, y mae yn



gwybod am wrthwynebiadau i ymarfer duwioldeb; ond y mae yr anian dduwiol trwy'r cwbl yn tueddu yn gyson at holl ddyledswyddau bywyd sanctaidd, a thrwy nerth yr Ysbryd yn gorchfygu'r gwrthwynebiadau. Ac ni chewch hyn ond ynglŷn â threfn gras. Ti a'm codaist ac a'm cedwaist, O Arglwydd, medd yr enaid hwn; a pha beth a dalaf i ti? "O am gyfeirio fy ffyrdd i gadw dy ddeddfau!"

3. Mae trefn gras yn cynnwys y *cymhelliad tyneraf a grymusaf i weithredoedd da*. Meddwl, O enaid crediniol, pa beth yw hyn a ddaeth i'th ran? Dyma ti wedi cael dy gadw am byth. Os wyt yn dlawd, yn afiach, neu yn brofedigaethus yn hyn o fyd, beth er hyny? wele di yn gadwedig gan yr Arglwydd. A pha beth sydd mewn cyfryw ragoriaeth? Pechodau wedi eu maddeu, person yn heddwch Duw, pob amgylchiad yn cydweithio er daioni, a meddwl a chalon yn gobeithio am rywbeth mwy a gwell i ddyfod. Ac, wele, o ras yr ydwyt yr hyn ydwyt. Ac oni ddylai gras gael ei gydnabod a'i ogoneddu? Dyma'r cwbl y mae Duw yn ei geisio iddo ei hun yn yr holl iachawdwriaeth: fel y bydden ni "er mawl gogoniant ei ras ef," neu, er mawl ei ras gogoneddus ef. Ynddo ei hun, yr oedd ei feddwl grasusol yn ogoneddus erioed a byth; ond efe a ddangosodd ei ras yn ei holl oludoedd yn Nghrist; ac efe a'i dengys eto i oesoedd tragwyddoldeb; ac i ba beth ond i gael mawl oddiwrthyt ti a geidw efe trwy ei ras? Yr oedd am "ddangos, yn yr oesoedd a ddeuai, ragorol olud ei ras ef, trwy ei gymwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu;" a pha fodd y mae efe yn arddangos yn weithredol ragorol olud ei ras ond trwy fod y pechadur a gedwir yn dyfod i'w adnabod nes synu, addoli, a moliannu, ac amlygu effeithiau'r gras yn ei dymher a'i fuchedd, nes y byddo eraill hefyd yn gogoneddu gras Duw ynddo ef. A welwch chwi, meddir, beth a wnaeth gras y nefoedd i hwnacw? Yr oedd efe gynt yn feddw, yn awr y mae efe yn sobr. O'r blaen yr oedd ei galon yn faglau ac yn rhwystrau, a'i dafod yn llarp o gelwydd yn ei ben; ond yn bresennol, y mae efe yn darpar pethau gonest yn ngolwg pob dyn. Dyma bellach un dyn yn y byd drwg presennol nad ydyw yn drygu neb, nac ychwaith yn dial ar neb fyddo yn ei ddrygu ef; y mae efe yn addfwyn yn nghanol ffyrnigwydd, yn gywir yn nghanol anonestrwydd, ac yn haelfrydig yn nghanol hunanol-



rwydd. Unwaith yr oedd efe yn dywyllwch, ac fel pechaduriaid eraill mewn brynti; ond erbyn hyn wele efe yn nghanol cenedlaeth ddrygionus a throfaus yn dysgleirio megys golcuad tanbaidd yn y byd.

“Ond rhyfedd iawn y rhinwedd sy  
Mewn lleied gradd o'r nefoedd fry!”

Y mae trefn gras, o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb, yn rhwymo enaid grasol i sancteiddrwydd ac ufudd-dod. Gallaf gyfeirio at y cariad tragywyddol, a'th alw dithau a dynwyd â thrugaredd ganddo, i garu Duw yn ol, ac amlygu gwirionedd y cariad trwy gadw ei orchymynion. Gallaf gyfeirio at fawrion ryfeddodau y groes, a dywedyd, “Oni wyddoch chwi nad ydych yn eiddoch eich hunain? canys er gwerth y prynwyd chwi; gan hyny gogoneddwch Dduw yn eich corff, ac yn eich ysbryd, y rhai sydd eiddo Duw.” Gallaf gyfeirio at ffrwythau toreithiog y cariad a'r gras mewn ffafrau digyffelyb a thrugareddau aneirif, a dywedyd, “Am hyny yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, er trugarreddau Duw, roddi o honoch eich cyrff yn aberth byw, sanctaidd, cymeradwy gan Dduw, yr hyn yw eich rhesymol wasanaeth chwi; ac na chydymffurfiwch â'r byd hwn. Canys teml y Duw byw ydych chwi, fel y dywedodd Duw, Mi a breswyliaf ynddynt, ac a rodiaf yn eu mysg, ac a fyddaf yn Dduw iddynt hwy, a hwy a fyddant yn bobl i mi; o herwydd paham, deuwch allan o'u canol hwy, ac ymddidolwch, medd yr Arglwydd, ac na chyffyrddwch â dim aflan; ac mi a'ch derbynias chwi, ac a fyddaf yn Dad i chwi, a chwithau a fyddwch yn feibion ac yn ferched i mi, medd yr Arglwydd Hollalluog. Am hyny gan fod genym yr addewidion hyn, anwylyd, ymlanhâwn oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac ysbryd, gan berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw.” Pan ddygo ffydd y pethau hyn i'r profiad, wele fi, medd y cristion, trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf, a chanmawl y gras hwnw a wnaif mwyach; hen droseddwr wedi ei arbed rhag uffern, a'i osod ar y ffordd i'r nefoedd, gwasanaethu fy Achubwr a ddylwn i, ac a fynaf fi; O am nerth i ymhelaethu mewn gweithredoedd da, ac i rodio a rhedeg ynddynt!

Y mae yma, ni a welwn, ddarparu pobl barod i wneuthur gweithredoedd da, a darparu gweithredoedd da i'w gwneuthur-

wyr. Mae Duw yn ngwaith ei ras wedi creu crïstionogion i weithredoedd da, ac y mae efe wedi rhagddarparu'r gweithredoedd da, fel y rhodiai'r crïstionogion ynddynt; megys prenau, fel y sylwa un, wedi eu creu i ddwyn ffrwyth, a ffrwyth pob pren wedi ei ragddarparu gan Dduw; efe wedi trefnu i bob pren ei ffrwyth ei hun, o ran ffurf, a blas, a phob peth a berthyn iddo. Nid oedd Duw yn trefnu, ac nis gallasai efe drefnu, i'w bobl fod yn debyg i neb îs nag efe ei hun. "Byddwch sanctaidd," medd efe, "canys sanctaidd ydwyf fi." Wrth rodio mewn gweithredoedd da, ni a rodiwn yn ol Duw; byddwn felly yn ddilynwyr Duw fel plant anwyl.

Cofiw'n nad oes weithredoedd da heb wreiddio yn ngras Duw, ac nad oes genym ras Duw os heb ffrwytho mewn gweithredoedd da.

## PREGETH VII.

YMRODDIAD AC ARDYSTIAD O BLAID DIRWEST YN ANGHENRHEIDIOL  
AC YSGRYTHYROL.

PSALM cxix. 106: "Tyngais, a chyflawnaf, y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder."•

**M**AE tyngu yn hen arferiad; ac y mae goleuni natur, yn gystal â gair yr Arglwydd, yn dangos ei phwys a'i difrifoldeb. Sonir yn yr Ysgrythyrau am ddynion yn tyngu i'w gilydd, ac am Dduw yn tyngu i ddynion, a dynion i Dduw. Dyben mwyaf cyffredin dynion yn tyngu wrth eu gilydd ydyw, er sicrwydd a rhoi terfyn ar bob ymryson. Ac felly mae y Duw

• Traddodwyd y sylwedd o'r bregeth hon gan yr awdwr parchedig yn Nghymdeithasfa yr Wyddgrug, Mawrth 9, 1836, ac amlygwyd yno ddymuniaid cyffredinol gan y brodyr am ei hargraffu yn llyfryn. Y pryd hwnw Cymdeithas Cymedroldeb oedd y sefydliad a gyfodid ac a bleidid tuag at wrthweithio meddwod, cyfeddach, a diotta, aelodau yr hon a ardystient ymrwymiad i lwyrymattal oddiwrtb bob math o wirod, ac i arfer cymedroldeb gyda gwinoedd a'r diodydd alcoholaidd cyffredin, megys cwrw a *porter*. Ac felly dros yr ardystiad o gymedroldeb y mae Mr. Rees yn ymresymu ac yn annog yn y bregeth hon; eithr y mae ei hegwyddorion yn milwrio yn erbyn diod gadarn yn gyffredinol; a chawn ef ynddi yn fynych yn collfarnu yr holl ddiodydd meddwol. Argraffwyd y bregeth yn yr Wyddgrug gan Mr. John Lloyd, cyhoeddwr cyntaf Esboniad y Parch. James Hughes; a'r taeniad a'r darlleuniad o honi a enynnodd ac a gynnyddodd frwdfrydedd mawr yn Nghymru yn erbyn y Goliath o anghymedroldeb oedd yn gwaradwyddo byddinoedd y Duw byw, ac a barotôdd y ffordd i Gymdeithas Llwyrymattaliad. Cyn diwedd 1836, yr oedd Dirwest, dan y wedd o lwyrymwrthodiad â phob gwlybyron meddwol, wedi dyfod yn enwog a llwyddiannus trwy holl Gymru; a pharliâodd felly mewn goruch-afiaeth am nifer o flynyddoedd. Ceir eto bregeth ragorol ar Sobrwydd yn y gyfrol hon.

mawr hefyd wedi ymostwng i gyfryngu trwy lw, er rhoi terfyn ar holl betrusder ac ymryson anghrediniol ei bobl ynghylch ei addewid. Ac am fod y crïstion yn aml yn teimlo ymddadleu yn ei feddwl ynghylch ei ddyledswydd, parodrwydd i ymgynghori â chig a gwaed, y temtasiynau yn gryfion oddiallan, a'r cnawd yn gwrthwynebu oddifewn, a'i galon yntau yn ymwrando, yn petruso, ac yn oedi, mae yntau hefyd, yn yr olwg ar ogoniant y gair, a'r gras a'i nertha i roi ufudd-dod iddo, *yn tyngu* y ceidw farnedig-aethau cyfiawnder Duw â'i holl enaid ac â'i holl galon; ac y mae llw er sicrwydd yn aml yn llwfrhâu ei wrthwynebwy, ac yn derfyn ar holl ymryson ei feddwl ynghylch ei ddyledswydd.

Oddiwrth y geiriau, sylwn ar dri pheth:

I. GWAITH Y DUWIOL: "*Cadw barnedigaethau cyfiawnder Duw.*"

II. EI DDULL YN YMRWYMO I'W GYFLAWNI: "*Tyngais y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder.*"

III. EI FFVDDLONDEB I'W YMRWYMIAD: "*Tyngais, a chyflawnaf, y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder.*"

I. SYLWN AR Y GWAITH I'R HWN Y MAE POB DUWIOL YN YMRWYMO:—cadw barnedigaethau Duw, sef cyflawni yn ddyfal, o ran mater a dull, yr holl ufudd-dod y mae yr Arglwydd yn ei ofyn yn y gair sanctaidd. Y gair, fel y mae yn ysgrifenedig yn y Bibl, ydyw mater a rheol ufudd-dod; a'r gair fel y mae yn ysgrifenedig yn y galon, ydyw dechreuad ac egwyddor ufudd-dod; a'r un gair fel y dwg awdurdod Duw at y meddwl, ydyw achos a ffurf ufudd-dod. Mae y crïstion yn gwneuthur y peth mae Duw yn ei orchymyn, a hyny *am* ei fod yn gorchymyn, ac *fel* y mae yn gorchymyn. Heb hyn ni byddai ei holl wasanaeth yn ufudd-dod i Dduw. Y mae yn rhaid gosod pob llythyren yn ei lle i wneuthur gair, a phob gair yn ei lle i wneyd ymadrodd â synwyr ynddo; felly y mae yn rhaid i'r holl ufudd-dod o ran mater, egwyddor, ysbryd, dull a dyben, fod yn ol y gair, cyn y byddo yn gymeradwy gan yr Arglwydd.

Hefyd, dylem sylwi fod cadw barnedigaethau yr Arglwydd, yn cynnwys peidio gwneyd yr hyn y maent yn ei wahardd, yn gystal a gwneyd yr hyn y maent yn ei orchymyn. Bwriwch ymaith oddiwrthych, a chymerwch atoch, yw iaith y gorchymyn. Rhoddwch heibio, a gnewch. Rhoddwch heibio yr hen Adda, a gwisgwch

Grist. Rhoddwch heibio yr hen ddyd, a gwisgwch y dyn newydd. Rhoddwch heibio weithredoedd y tywyllwch, a gwisgwch arfau y goleuni. Rhoddwch heibio falchder, ac ymdrwsiwch oddifewn â gostyngeddwydd. Rhoddwch heibio feddwod, cyfeddach, a gormodedd, a gwisgwch sobrwydd, dirwest a chymedroldeb.

A chan mai gwahodd oddiwrth feddwod at sobrwydd a chymedroldeb oedd ein hamcan y waith hon, ni a geisiwn ddangos beth sydd yn gynnwysedig mewn cadw barnedigaethau yr Arglwydd yn hyn.

1. Er cadw barnedigaethau cyfiawnder yn hyn, rhoddwch heibio feddwod *trwy wir ddychweliad at Dduw yn Nghrist.*

Mi a garwn iti ystyried, fy nghydbechadur, fod dy waith yn byw yn y pechod hwn, yn profi dy fod hyd yma yn annychwelledig ac annuwiol. Nid oes ond un o ddwy ystad i ti fod ynddi, sef, naill ai bod yn y cnawd, neu yn yr Ysbryd; a'r unig lwybr i wybod i ba un o'r ddwy yr ydwyd yn perthyn ydyw, edrych ffrwythau pa un o'r ddwy sydd yn tyfu arnat. "Ffrwyth yr Ysbryd sydd ymhob daioni—hefyd amlwg yw gweithredoedd y cnawd, y rhai yw meddwod, cyfeddach, a chyffelyb i'r rhai hyn." Yn awr, os yw meddwod yn un o weithredoedd y cnawd, mae yn amlwg fod yr hwn sydd yn byw ynddo *yn y cnawd*, sef yn nghyflwr natur, a than lywodraeth pechod. "Cyflawni un o drachwantau y cnawd" ydyw gorchwyl ei fywyd. A chofia, fy enaid, "Y rhai sydd yn y cnawd, ni allant ryngu bodd Duw. Os byw yr ydych yn ol y cnawd, meirw fyddwch." Mae y rhai sydd yn gwneuthur ewyllysiau y cnawd a'r meddyliau, yn blant digofaint. Ffrwyth yw meddwod sydd yn codi oddiar ddaear dan felldith, diwedd yr hon yw ei llosgi. A wyt ti yn ddyd meddw? prawf yw hyny mai dyn heb Grist ydwyd; oblegid y rhai sydd eiddo Crist a groeshoeliasant y cnawd. Prawf yw hyny mai dyn heb yr Ysbryd Glân ydwyd; oblegid ffrwyth yr Ysbryd yw dirwest. Prawf yw hyny mai dyn heb ei aileni ydwyd, canys mae yr anian dduwiol yn gwrthwynebu y cnawd. Prawf yw hyny mai dyn dyeithr i effeithiau yr efengyl ydwyd; canys y mae hono yn dysgu dynion i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon. Prawf yw hyny mai dyn na chaiff fyned i'r nefoedd ydwyd. "Na thwyller chwi,

ni chaiff meddwon etifeddu teyrnas Dduw." Ië, mae yn brawf mai dyn ydwyt sydd dan wae a melldith yr Arglwydd Dduw Hollalluog.

Ac yn awr, os myni gadw barnedigaethau yr Arglwydd yn hyn, cais, nid yn unig adael yr arferiad o feddwi, ond cyfnewidiad cyflwr, a dinystr ar lywodraeth pechod yn y galon, trwy gyfranogi o'r duwiol anian, a marwolaeth i'r chwant yn ei wreiddyn, trwy ffoi at farwolaeth Crist. Dyben yr Arglwydd yn gwneyd dy feddwod yn chwewr i'th gydwybod weithiau ydyw, dy ddwyn i syllu arno fel ffrwyth cyflwr colledig, ac i'th ennill i ffoi am dy fywyd at yr Arglwydd Iesu. Dylem ninnau hefyd gadw hyn mewn golwg, wrth ddyweyd yn erbyn meddwod yn Nghymdeithasau Cymedroldeb, sef arwain y meddwl trwy y ffrwyth at y gwreiddyn, a gwneuthur defnydd o'r pechod i ddangos i'r pechadur ei gyflwr a'i berygl. Yr ydwyf yn addef fod yr hwn nad yw ond ceisio sobri a gweddeiddio y meddwyn yn gwneuthur yn dda; ond y mae yr hwn sydd yn ceisio ei ennill at Grist yn gwneuthur yn well. Mae yn wir pe na lwyddem ond i gael y meddwon i fyw yn foesol, na byddai ein llafur yn ofer; eto eu cael i fyw yn dduwiol yn Nghrist Iesu ydyw yr amcan i gyrchu ato. "Ni ddichon pren drwg ddwyn ffrwythau da," er ei docio a'i ymgeleddu; ond "gwnewch y pren yn dda, ac fe fydd y ffrwyth yn dda." Ni ddywedaf, Na chais waredigaeth oddiwrth dy feddwod hyd oni byddi wedi dyfod at Grist; ond dywedaf, Cais waredigaeth yn ddioedi, ond cais hi trwy Grist; tyred ato ef am dani. Dyma. y ffordd gyntaf, sicraf, ië yr unig ffordd i'w chael.

2. Os mynwch gydymffurfio â'r barnedigaethau trwy orchfygu y chwant hwn, *edrychwch am fod yn gywir yr erbyn y cnawd yn ei holl chwantau eraill.*

Dymunwn i'r rhai sydd yn cael eu caethiwo gan feddwod, yn groes i'w cydwybodau a'u hargyhoeddiadau, sylwi yn neillduol ar hyn. Nid oes dim gwir fuddugoliaeth i'w dysgwyl ar ryw un pechod a fyddo yn poeni y gydwybod nes gwneyd yr enaid yn onest yn erbyn pob pechod. Mae yn hollol ofer i ambell feddwyn geisio meddyginiaethu rhyw archoll dyfrllyd sydd ar un o'i aelodau, tra y byddo yn gadael y corff yn afiach trwy ei holl ansawdd, ac yn enwedig tra byddo yn parhâu i faethu y gorllif



poenus wrth fyw yn anghymedrol. Ac y mae mor ofer i ambell broffeswr ddysgwyl cyflawn fuddugoliaeth ar y chwant i ddioid, tra mae holl ansawdd ei enaid yn afiach mewn gwrthgiliad. Oblegid, ysgatfydd, effaith byw mewn gwrthgiliad ydyw y fagl hon sydd wedi dy ddal. Y cnawd ydyw, wedi tori allan yn y chwant hwn, o herwydd rhyw fantais sydd iddo, fe allai, yn dy gyfansoddiad a'th amgylchiadau, fel dwfr wedi hir groni yn tori allan trwy y man gwanaf ar yr argae, a hyny oherwydd dy fod yn byw er ys misoedd heb groeshoelio y chwant a'i farwâu. Archoll ydyw sydd yn profi fod yr enaid yn afiach trwyddo. Fe allai ei fod yn poeni dy gydwybod yn aml; yr ydwyt yn gruddfan ac yn wylo o'i herwydd ar ol dyfod adref o'r farchnad lawer tro. Ond nid yw yn debyg, gan dy fod wedi syrthio unwaith i'w grafangau, y gweli lwyr fuddugoliaeth arno heb ryw gyfnewidiad trwyadl ar agwedd dy ysbryd, nes dy godi i farweiddio pob pechod, ac i ddyfal rodio gyda Duw ymhob dyledswydd. Na ddysgwyl gymhorth yr Ysbryd Glân i farweiddio dim sydd yn dy ofidio di tra byddi yn foddolawn mewn unrhyw agwedd sydd yn ei ofidio ef. A welsoch chwi erioed y truan a'r cystuddiedig o ysbryd, sy'n rhodio gyda Duw, yn syrthio yn awr a phryd arall i'r pechod hwn? Na, nid mynych; ar y rhai olaf o Israel, a'r gwineaidd o'i ol ef, y mae'r Amaleciad hwn yn syrthio.

Mae gweled llawer o broffeswyr yr oes yn byw mor agos i gyffiniau y pechod yma yn profi fod adfeiliad dirfawr mewn crefydd. Ac y mae syrthio iddo yn awr ac yn y man o hyd yn arwydd beryglus fod pechod yn teyrnasu yn y galon. Yr oedd yr anrheg a ddanfonai Hosea, brenin Israel, i frenin Assyria, yn profi ei fod yn was iddo, er nad oedd yn ei thalu ond unwaith yn y flwyddyn.

3. Er cadw y barnedigaethau yn hyn, rhoddwch heibio feddwod *yn yr holl achlysuron a'r temtasiynau iddo*. "Nac edrych ar y gwin pan fyddo coch, pan ddangoso ei liw yn y cwpan, pan ymgynhyrfo yn iawn. Na fydd ymysg y rhai a feddwant ar win." Hyd yr ydwyf fi yn deall, mae *business*, cwmni, blys, a'r holl dai sydd wedi eu hagoryd i'w borthi yn y wlad, ynghyd a'r arferiad o yfed ychydig yn feunyddiol, yn demtasiynau cryfion i feddwod.

Edrychwn ar ddyn yn dechreu ei yrfa mewn anghymedroldeb.

Ar ol cadw noswyl ryw brydnawngwaith annedwydd, denwyd ef gan ei gyfaill i'r dafarn; cafodd flas ar y tân, a blas ar y bibell, a blas ar y ddadl, a blas ar y ddiod. Yr oedd cywilydd ac ofn ar y cyntaf yn peri ei fod yn eistedd yno yn lled anesmwyth, ac yn addaw cychwyn adref o hyd wrth ei gydwybod, ac eto y pleser yn ei ddal yno. Fel yr aderyn bach, mae pob ysgogiad i'r adarwr yn ei ddychrynu, nes y mae ar gymeryd ei aden bob mynydyn, ac eto mae ei awydd am yr abwyd yn ei gadw i chwareu o gwmpas y fagl, nes o'r diwedd myned iddi. Ar ol myned adref, darluniai y diafol y pleser a gafodd yn ei ddychymyg; aeth yno drachefn, a thrachefn—arosai yn hŵy—yfaï ychwaneg—yr oedd yr ofn a'r cywilydd yn lleihâu, a'r pleser yn cynnyddu; tlodi, yr hwn sydd yn sicr o ddilyn meddwdod, yn gwneuthur ei dŷ ei hun yn fwyfwy anghysurus iddo, a hyny yn gwneyd y dafarn yn fwyfwy hyfryd. Mae ei gyfeillion anrhydeddus yn cefnu arno, a hyny yn peri iddo ymgyssylltu yn fwy wrth y meddwon. Wrth ildio ac ildio i'r temtasiynau, yr oeddynt hwy yn myned gryfach gryfach, ac ymroddiad ei feddwl yntau i'w gwrthwynebu yn myned yn lleilai. O'r diwedd y mae yn colli pob llywodraeth arno ei hun; ac fel llestr a gipid gan y gwynt y mae yn myned rhagddo, rhagddo, i ddannedd pob dinystr, nes gwneyd llong-ddrylliad am ei ffydd, ei garitor, ei amgylchiadau, ei gorff a'i enaid, am amser a thros byth. O ieuencyd, gochelwch yr achlysuron! Os yw y cwmni a gedwi yn dy demtio i yfed, mae Duw yn peri i ti beidi bod yn eu mysg hwy. Os yw gweled y ddiod yn deffro y blys drwg yn dy galon, mae Duw yn peri i ti beidio edrych arni. Os profaist fod yn dy alwedigaeth fydol demtasiwn i feddwdod ry gref i'w gorchfygu, âg aros yn yr alwedigaeth hono, y mae yn ddyledswydd arnat ei gadael heibio. Os gwyddost fod blys a blas pob diodydd meddwol yn fagl i ti, mae hyny yn alwad i'w rhoi heibio yn hollol. "Na chyffwrdd, na archwaetha, na theimla," yw galwad Duw arnat ti. Wrth ba reswm y dysgwylï gael dy gadw rhag y pechod ei hun â chellwair â'r achlysuron iddo? "A ddichon un rodio ar farwor heb losgi ei draed, a dwyn tân yn ei fynwes heb losgi ei ddillad?" Mae yr Hwn sydd yn gwahardd meddwdod yn gwahardd hefyd yr holl achlysuron iddo, ac am hyny y mae yr achlysuron eu hunain yn bechodau. Ac a ddysgwylï di i'r Arglwydd dy gadw rhag y naill

bechod â thithau yn byw yn y pechodau sy'n tywys iddo? Pa reswm sydd mewn dysgwyl i achosion beidio esgor ar eu heffeithiau eu hunain? Y mae deddfau dy natur y fath fel y mae cyflawni y naill ddrwg yn arweiniad iddi i ddrygau eraill; a chyflawni rhyw ddrwg unwaith yn gadael tueddiad cryf ynnddi i'w gyflawni drachefn a thrachefn; ac felly ä ymlaen yn ddiddiwedd. Mae y chwant, yntau, yn dy fynwes yn amcanu at yr eithaf. Mae yn lllithio i gael ymddwyn, ac yn ymddwyn i gael esgor ar y pechod yn weithredol, a'r pechod pan esgorer arno, am orphen trwy dy gael i fyw ynndo, nes yr esgoro ar farwolaeth. Fel hyn ychydig a welir ar ol eu gorchfygu gan y diodydd cryfion byth yn diwygio. "Pwy bynag a elo i mewn ati hi, ni ddychwelant, ac nid ymafaelant yn llwybrau y bywyd." Gelli di sy'n penderfynu aros yn safn y brofedigaeth, ddarllen dy drueni yn y *beggar* llwm, afiach, caled, a diystyrlyd âg y mae meddwdod wedi ei lwyr ddinystrio, a gweled dy ddiwedd yn yr adyn âg y mae y dyfroedd poethion wedi ei arwain i'r tân anniffoddadwy. O na saf i siarad moment â'r demtasiwn; na ildia drwch-blewyn i'r brofedigaeth! Dianc am dy einioes oddiwth yr holl achlysuron. Gwaedda fel Tywysog mawr ein hiachawdwriaeth, "Ymaith, Satan, dos yn fy ol i;" a thrwy ei ras ef ti gei y fuddugoliaeth, ac a fyddi yn fwy na choncwerwr.

4. Os mynwn gadw y barnedigaethau, trwy chwanegu cymedrollder at bob rhinwedd arall a ofynir ganddynt, *y mae yn rhaid i ni arfogi yn erbyn arferion yr oes gyda diodydd cryfion.*

Un o arferion pechadurus ein hoes ni ydyw cysylltu diotta wrth bob peth. Heb son am y cyfarfodydd cyhoeddus a gynnelir o bwrpas i addoli duw y gwin, ac i faethu llygredigaeth, nid oes un gorchwyl cyffredin, masnachol na chyfeillgar, gwladol na chrefyddol, nad ydynt yn cael eu halogi yn ddirfawr trwy yr arfer bechadurus hon. Mae y trachwant hwn fel brenin wedi myned i fewn i lawer o glybiau, gweithdai, a *vestries* y wlad, a llunio eu deddfau a'u rheolau yn fanteisiol iddo ei hun.

Yn ein trefydd mawrion, ni chaiff na gweithiwr, na *phrentis*, fyned i mewn i weithdŷ meistr yr un o'r crefftau, heb dalu teyrnged—weithiau bunnoedd—at gynnal llywodraeth meddwdod yn y wlad. Os edrychwn i deuluoedd ar bob achlysur, megys bedyddio, priodi, neu gladdu, cawn weled dynion yn

feddwon, ac yn yr agweddau mwyaf annynol, gwrthun, a rhyfygus, a hyny gyda y pethau mwyaf sanctaidd, ac yn yr amgylchiadau mwyaf difrifol. Os edrychwn i gymydogathau ac ardaloedd, ni a gawn weled eu trigolion, ar ddyfodiad yr etifedd i'w oedran, a dygiad y cynauaf i'r ysgubor, agoriad tai tafarnau newyddion, cyfarfodydd o rith gwneyd elusenau i'r tlodion, ac yn eu marchnadoedd a'u ffeiriau, yn ymwerthu i feddwod a thrythyllwch. Ac ar achosion cyhoeddus a gwladol, megys etholiad ein senedd-wyr, y mae y wlad o'r bron i'w gweled yn fflam o wallgofrwydd, dan effeithiau ysbryd plaid wedi ei ennynnu gan y dyfroedd poethion. Beth yw ein dyddiau gwylion ond gwyliau meddwod? Ar y rhai hyn, ymgasgla cantorion rhai addoldai i'r dafarn, lle y mae y wobr am ganu mawl i Dduw yn cael ei gwario dan ganu maswedd a thrythyllwch. Fy mrodyr o bob enw, ni ddylai y pethau hyn fod felly. Nid oes gyfeillion yn ymweled á'u gilydd, na bargaen yn cael ei gorphen, na swm yn cael ei dalu, na chymwynas yn cael ei gwneuthur gan y naill i'r llall, mewn llawer o fanau, nad yw y chwant hwn yn codi toll oddiar y cwbl. Mae y diafol fel heliwr cywain, yn ysbïo y llwybrau a'r tyllau ag y mae plant dynion yn tramwy trwyddynt, gyda eu holl orchwylion cyfreithlawn, ac yn gosod y fagl hon ynddynt oll. A chan fod y pethau hyn yn hen arferion, a dynion wedi colli pob ofn a chywilydd wrth eu dilyn, a llawer o grefyddwyr yn eu dirgel gymeradwyo, mae eisieu yr un zel a'r un gwroldeb sanctaidd, i wrthsefyll y temtasiynau iddynt, ac i ddal yr erlidigaethau a gawn wrth dystio yn eu herbyn, ag oedd yn eisieu ar y merthyron i farw tros y gwirionedd. Mae y byd fel cenllif yn cydredeg yn sianel anghymedroldeb i bob budreddi. Ac y mae yn ddeithr ganddo os na redwch gydag ef; mae yn synu beth all fod yr achos; ac yn y man fe dyr allan i'ch cablu chwi. "Beth! a yw myned i'r dafarn i wneyd bargaen yn bechod y dyddiau hyn? A ga i ddim *peint* neu ddau o ddiod y nos ar ol cadw noswyl? A ydynt yn gwarafun i ni dipyn o fwyniant ar ol cael y cynauaf i mewn? Beth a feddyliai fy nghyfeillion o honof pe na bawn yn ceisio gwirod a diod i'r tŷ i wneyd yn llawen wrth fedyddio fy un bychan? Mae hwn a hwn yn rhy gybyddlyd i gladdu ei berthynasau yn anrhydeddus; nid oedd yno ddim diod i'w gael cyn cychwyn y corff i'r llan, na myned i'r

dafarn ar ol claddu; ni welwyd erioed gladdedigaeth mor gyffredin ac isel yn ein cymydogoeth ni. Nid oes yr un wraig fwy crintach yn yr holl dref na hon a hon; ni chynnyg hi byth i chwi ar un achlysur gymaint a *glasied o gin*; prin yr ydwyf fi yn cofio gweled na gwin na gwirod erioed ar ei bwrdd hi."

Fe allai fod iaith fel hyn yn rhy annheilwng i'r pulpud; ond y mae yn sicr genyf fod ofn cael eu beio a'u condemnio yn y dull hwn yn peri i lawer lynu wrth arferion llygredig yr oes yn groes i'w cydwybodau. Nis gall neb ddirnad llymder yr erlidigaeth trwy wawd a gogan y mae llawer bachgen ieuanc yn ei dyoddef trwy y dydd, a phob dydd, oddiwrth ei gydweithwyr, am nad yw yn rhedeg gyda hwy i feddwod a gormodedd. Y fath wroldeb sydd yn eisieu mewn cwmpeini, i wrthod cydymffurfio â hwy, pan fyddo'r gwydraid yn myned oddiamgylch drachefn a thrachefn, a'r dyn yn gwybod fod ei ymddygiad yn eu brathu ac yn eu condemnio hwy, ac yn deffro eu gelyniaeth i'w ddifrio a'i gondemnio yntau! Mae ymlyniad dynion wrth yr hen arferion pechadurus a gawsant trwy draddodiad y tadau mor gryf, fel nad oes dim ond gwerthfawr waed Crist a'u gwareda oddiwrthynt. Ond y mae hwn yn ddigon effeithiol i wneuthur hyny. Fe allai fod yma ddynion heddyw ag y mae meddwod wedi myned fel ail natur iddynt. Y maent wedi ei hurddo i'w holl ddefodau halogedig o'u mebyd, ac wedi eu gwrth-hoelio ynddynt trwy fynych a hir ymarfer â hwy. Y mae ymadael â hwy ar unwaith yn ymddangos yn beth anmhosibl yn eu golwg. O bechadur, edrych ar Grist yn marw i brynu trueiniaid oddiwrth eu hofer ymarweddiad, ac fe syrth dy gadwyni oddiwrthyt, fel yr eiddo Pedr wrth gyffyrddiad yr angel. Gwna drysau heiyrn dy hen arferion annuwiol ymagor i ti megys o'u gwaith eu hun. Cei gymhorth i ymadael â dy hen gyfeillion, wrth ba rai yr ydwynt wedi dy dido er ys blynyddoedd yn nghadwynau anghymedroldeb. "Am hyny, gan ddyoddef o Grist drosom ni yn y cnawd, chwithau hefyd byddwch wedi eich arfogi â'r un meddwl; oblegyd yr hwn a ddyoddefodd yn y cnawd a beidiodd â phechod; fel na byddo mwyach fyw i chwantau dynion, ond i ewyllys Duw dros yr amser sydd yn ol yn y cnawd. Canys digon i ni yr amser a aeth heibio o'r einioes i weithredu ewyllys y cenedloedd, gan rodio mewn trythyllwch, trachwantau, meddw-



dod, cyfeddach, diotta, a ffiائد eilunaddoliad." Mae tentasiynau yr oes hon i anghymedroldeb yn aml a chryfion iawn. Pared yr Arglwydd fod crefyddwyr a ieuencyd yr oes ynghyd a phawb sydd eto yn gymedrol, wedi eu harfogi yn eu herbyn yn y ffeiriau, y priodasau, a'r claddedigaethau. Gwnaed yr Arglwydd Gymdeithas Cymedroldeb fel magwyr efydd gadarn, i wrthsefyll yr arferion annuwiol, a newid y defodau halogedig, fel y byddo ffeiriau, clybiau, a gweithdai, ynghyd a holl arferion yr oes sy'n codi, wedi eu ffurfio a'u sefydlu mewn cymedroldeb a dirwest.

5. Os mynwn gadw y barnedigaethau yn hyn, *rhaid bwrw y meddion allan o'r eglwysi, ac na bo dim cyfeillach rhwng professewyr â hwy ond yr hyn nas gellir ei ochelyd heb fyned allan o'r byd.* Fe allai fod yr eglwysi yn lân oddiwrth ddynion sydd wedi ymwerthu yn hollol i feddwod, ac yn diarddel y rhai sydd yn syrthio iddo yn amlwg a chyhoeddus drachefn a thrachefn. Ond pa faint o broffeswyr sydd yn byw ar ei gyffiniau, ac i'w gweled yn fynych mewn tafarndai gyda eu pibellau hirion, a'u hwynebau cochion, a hyny yn anamserol, ac o ddewisiad, heb amgylchiadau yn eu galw, na *business* yn eu dal? Mae y cyfryw ddynion yn warth mawr i grefydd, ac yn gryfder mawr i anghymedroldeb yn y wlad. Byddai breninoedd duwiol Judah yn fynych yn glanhâu ac yn adgyweirio y deml cyn ymosod at ddiwygio y wlad. Mae yn debyg na lwyddwn ninnau ddim i ddarostwng anghymedroldeb yn y byd nes cael yr eglwysi yn lân a phell oddiwrtho yn gyntaf. "Mi a ysgrifenaais atoch na chydymgymysgech, os bydd neb a enwir yn frawd yn odinebwr, neu yn gybydd, neu yn feddw; gyda'r cyfryw un na chydŵytha chwaith." Na chydŵytha gydag ef yn nhŷ Dduw, yn ei dŷ ef, yn nhŷ dy gymydog, nac yn dy dŷ dy hunan; hyny yw, mewn gwleddoedd cyfeillgar, ac o ddewisiad. Mae yn wir fod y cristion weithiau tan anghenrheidrwydd i wneuthur hyny, ond ei groes a'i flinder ydyw, ac nid peth hyfryd i'w feddwl. Y mae ymddygiadau crefyddwyr yn aml yn tueddu i wneuthur ceryddon eglwysig yn aneffeithiol, trwy gadw yr un gyfeillach fynwesol â rhai fo danynt yn hollol fel o'r blaen. Ofer iddynt ddyweyd eu bod yn ymgymysgu â hwy yn eu cyfeillachau cyffredin rhag eu caledu, ac i geisio eu hennill a'u troi. Nid dyna y ffordd: mae



Duw wedi ordeinio ymneillduo oddiwrthynt, yn yr ystyr hwn, fel moddion i'w dwyn i edifeirwch. "Na fydded i chwi gymdeithas âg ef megys y cywilyddio efe." Mae yn ddigon tebyg, pe byddai yr eglwysi yn graff ac effro, y bwrid llawer allan o honynt o herwydd meddwdod; ond y mae yn debyg hefyd y byddai llawer ynddynt wedi hyny a brawf y farn yn ddynion anghymedrol, oblegid y mae graddau mewn anghymedroldeb, fe allai, tu hwnt i'w desgrifio. Ac y mae llawer yn byw megys ar derfyn dirwest ac anghymedroldeb, ac y mae yn anhawdd profi pa bryd y mae y dyn yn myned dros derfynau y naill i mewn i derfynau y llall, ac i ba un o'r ddau y mae yn perthynu. Ei gysur ef ydyw nad oes neb a all ei brofi yn ddyn meddw; ond fe ddylai ystyried hefyd nad oes neb a all ei brofi yn ddyn cymedrol chwaith. A phan benderfynio y farn ei achos, fe all pethau droi yn ei erbyn am byth.

Yr ydwyf wedi meddwl, pan fyddo diod gref i ni yn ddioid feunyddiol, ac yr arferom yfed, i.e., ond ychydig o honi, pryd na feddyliem am yfed llaeth, na dwfr, na dim arall, a'i hyfed o ran cyfeillach, pryd na bo ei heisieu i wlychu ein tamaid na thori ein syched, ein bod eisoes mewn tir tra ammheus, ac yn nesu at dir tra pheryglus. Dylem gydnabod tiriondeb yr Arglwydd yn rhoddi galwad arnom trwy Gymdeithais Cymedroldeb i ddyfod allan o'r tiroedd tywyll hyn; rhodded i ni hefyd ysbryd i ufuddhâu!

6. Os mynwn gadw barnedigaethau yr Arglwydd yn hyn, *gocbelwn dentio eraill i yfed*. Mae rhoddi cwpanaid o ddwfr i un o ddysgyblion Crist yn weithred o gariad at Grist. Mae rhoddi diod i'n gelyn pan fo syched arno yn weithred o ufudd-dod i Grist. Ie, y mae rhoddi diod *gadarn* i'r hwn sydd ar *ddarfod am dano*, a *gwin* i'r *trwm ei galon*, yn weithred o elusen a thrugaredd. Ac fe allai mai i'r cyfryw rai, yn y cyfryw amgylchiadau, y mae y gwin a'r ddioid gadarn i'w rhoddi, yn benaf, os nad yn unig. Ond y mae y Duw sydd yn gorchymyn eu rhoddi yn yr amgylchiadau hyn, yn cyhoeddi gwae am eu rhoddi i ddybenion eraill. "Gwae a roddo ddioid i'w gymydog, yr hwn ydwyf yn rhoddi iddo dy gostrel ac yn ei feddwi hefyd, er cael gweled eu noethni hwynt." Mi a garwn arafu wrth gyhoeddi gwae Duw ar fy nghydgreadur; ond yr wyf yn meddwl fod y wae yn y geiriau

â'i gafael yn mhawb âg y mae eu hymddygiadau unrhyw ffordd yn tueddu i feithrin anghymedoldeb.

Gwae a roddo ddiod i'w gymydog *i'w yspeilio o'i arferion cymedrol*. Mae llawer a wnânt hyn yn fwriadol; ond y mae llawer mwy yn ei wneuthur yn ddifwriad, wrth gymhell eu diod a'u gwirod ar bob achlysur o ran caredigrwydd. Pwy nas gŵyr fod holl gyfeillachau bywyd wedi eu cydwau âg ymyfed, a bod caredigrwydd, a rhoddi diodydd cryfion, bron yr un peth? Os geilw dy gyfaill, ni waeth pa awr ar y dydd, na pha un ai sychedig ai peidio, yr ydwyf yn rhoddi iddo dy gostrel. Am unwaith yr eir i'r cwpbwrdd i ymofyn y dorth, eir i'r seler i ymofyn y botel lawer o weithiau. Yr ydwyf yn ammheu am lawer gwledd grefyddol, lle y mae y gŵr a'r wraig yn cymhell eu cwrw, eu gwin a'u *spirits* ar ol ciniaw, ac ar ol têt, yn unig o ran caredigrwydd—pe rhuthrai Duw i mewn fel i wledd Belsassar, a chodi y gydwybod o'i chwsg, na phrofaï y cwmni yn y fan fod ganddynt rywbeth i'w *settle* â Duw ynghylch y wae yn y geiriau.

Gwae a roddo ddiod i'w gymydog *i borthi a chryshâu ei arferion anghymedrol*. Mae dyn mewn *fever* yn gyffredin yn dra sychedig; ond arswydai pawb roddi iddo i'w yfed yr hyn fyddai yn faeth i'r clefyd, ac yn angeu iddo yntau, er maint ei daerineb am dano. Ond y mae chwant diod fel twymyn boeth, ac y niae lle i ofni ein bod oll yn rhy euog o'i phorthi; o'r cymydog sydd yn rhoddi ei hanner *peint* ar bob achlysur, o ran caredigrwydd, hyd y seneddwr, gyda'i dai agored ar amser yr *elections*. Os ydyw yn bechod ar ddyn borthi ei chwant ei hun yn lle ei farweiddio, onid ydym ninnau wrth hyn yn gyfranog o'i bechod ef? Ac os yw y dyn wrth borthi ei chwant yn ei ladd ei hunan, onid yw yn berygl yr ystyrir ninnau yn y farn yn gyfranog o'r llofruddiaeth.

Gwae a roddo ddiod i'w gymydog *i'w yspeilio o'i ddiweirdeb*; fel y gwnaeth merched Lot â'u tad. Pa faint o hyn sydd eto rhwng meibion a merched, yr Hwn sydd â'i lygaid yn gweled cuddfëydd anwiredd yn unig a ŵyr. Os ydwyf ti yn euog, yr ydwyf tan y wae.

Gwae a roddo ddiod i'w gymydog *i'w yspeilio o'i synwryau*; i'r dyben o gael difyrwch wrth glywed y dyn yn cablu Duw, yn damnio ei enaid, yn siarad ac yn canu maswedd ac ynfydrwydd.

A pha faint o demtio sydd ar ddyinion i yfed *i'r dyben i'w hyspeilio o'u meddiannau?* Yr ydwyt yn rhoddi dy gostrel i'r dyn ac yn ei feddwi, er cael ganddo werthu yr anifail am lai na'i werth, neu lawnodi y weithred a fo'n dinystrio ei amgylchiadau. Onid oes lawer o hyn yn bod wrth werthu meddiannau yn ffeiriau (*auctions*) ein gwlad?

Gwae a roddo ddiod i'w gymydog *er mwyn ei yspeilio ef o'i grefydd.* O pa faint o argraffiadau daionus trwy y gair y mae meddyliau dynion ieuainc yn eu colli, trwy ymlygru ymysg eu gilydd gyda diodydd cryfion! Ië, y mae llawer na roddant ond ychydig at un achos da, yn ddigon parod i wario llawer er mwyn meddwi crefyddwr, a dinystrio yr argraffiadau crefyddol o feddyliau eu cydnabod. Bydd Crist yn dyweyd wrthyt ti yn y farn, "Bum newynog ac ni roddaist i mi fwyd; bu arnaf syched ac ni roddaist i mi ddiod." A'r adyn a ddyfethaist yn dyweyd, "Efe a'm meddwodd i lawer gwaith, i'm twyllo, i'm treisio, ac i ddifa gwaith Ysbryd Duw ar fy meddwl." Mae mwynder crefyddol miloedd yn ymadael trwy feddwod; ac a ydyw eu tentasiynau cyntaf iddo yn peidio codi oddiwrthym ni? "Ac mi a gyfodais o'ch meibion chwi rai yn brophwydi, ac o'ch gwŷr ieuainc rai yn Nazareaid; ond chwi a roisoch i'ch Nazareaid win i'w yfed—oni bu hyn, O meibion Israel? medd yr Arglwydd."

7. Er cadw y barnedigaethau yn hyn, *gwnatwn bob ymdrech i achub yr oes sydd yn codi.* Na roddwch o'ch *glasied* i'r baban bach ar eich gliniau. Na adewch iddynt eich gweled yn ei yfed, ac yn ei gymhell ar eich cyfeillion. Dangoswch i'r ieuencyd y perygl o ddechreu cellwair â diodydd cryfion. Tröer pob ysgol yn Gymdeithas Cymedroldeb. Dywedded pob athraw wrth y rhai sydd dan ei ofal, a phob tad wrth ei blentyn, "Fy mab, na fydd ymysg y rhai sydd yn meddwi ar win, canys y meddw a'r glwth a ddaw i dlodi. I bwy y mae gwae? i bwy y mae ochain? i bwy y mae cynhen? i bwy y mae dadwrdd? ac i bwy y mae gweliâu heb achos? i bwy y mae llygaid cochion? I'r rhai sydd yn aros wrth y gwin, i'r neb sydd yn myned i ymosyn am win cymysgedig. Nac edrych ar y gwin pan fyddo coch, pan ddangoso ei liw yn y cwpan, pan ymgynhyrfo yn iawn. Yn y diwedd efe a frath fel sarph ac a biga fel neidr." O help i gredu hyn! Os äi di unwaith tan ei lywodraeth, fe dy garia tu draw i feddyginiaeth.

“Ti a fyddi megys un yn cysgu yn nghanol y môr, ac fel un yn cysgu yn mhen yr hwybren. Curent fi, meddi.” Curai fy nghydwybod fi, ceryddai fy mherthynasai fi, cosbai y swyddogion gwladol fi; “ond ni chlafychais; dulient fi, ac nis gwybùm; pan ddeffrôwyf, mi a âf rhagof; mi a’i ceisiaf drachefn.” O mor anobeithiol yw diwygio y rhai sydd wedi myned i’r gradd pell hwn mewn anghymedroldeb! Eto pwy a wŷr na achubwn rai o hono? Ond ymdrechwn yn egniol i gadw yr oes sy’n codi rhag myned iddo. Mi a’u gwelais yn y trefydd mawrion, pan fethent a diffodd y tân lle y byddai wedi ennynu, yn troi y peiriannau (*fire-engines*) i weithio ar yr adeiladau nesaf i’w gadw rhag cerdded ymlaen. Os methwn ninnau, fy nghyfeillion, â diffodd y tân hwn lle y mae wedi ymaflyd er y’s blynyddoedd, trown beiriant mawr Cymdeithas Cymedroldeb i weithredu ar ieuenctyd yr oes; a thrwy fendith yr Arglwydd fe fydd y rhai hyn i’w gweled, wedi i’r tân—y demtasiwn i’r gwirod—fyned heibio, fel adeiladau prydferth llawn trysorau, oddeutu y murddyn llosgedig, ag sydd wedi ei lwyr ddinystrio trwy anghymedroldeb. O y mae yn bosibl y bydd yr oes sy’n codi yn gadwedig, eto felly megys trwy dân! Deffrown i weithio tra bo ei filantau cynddeiriog yn dyrchafu.

8. Os myni gydffurfio â galwad y gair i gymedroldeb, *brysia o afael meddwodod at Grist, rhag ofn i ti gael dy ollwng iddo, yn farn am ei wrthod ef.*

Mae parhau yn ddiffwrth dan yr efengyl o’r diwedd yn tori allan yn gnŵd o bechodau. Fel maes diffwrth ar ol ei wrteithio, y mae ei chwŷn yn fwy toreithiog nag o’r blaen. Gwrthododd gwrandawyr Noah yr efengyl, a rhoddodd Duw hwy i fyny. A pha beth fu y canlyniad? “A’r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn; canys pob cnawd a lygrasai ei ffordd ar y ddaear. A Duw a ddywedodd wrth Noah, Diwedd pob cnawd a ddaeth ger fy mron, oblegid llanwyd y ddaear â thrawsedd drwyddynt hwy, ac wele mi a’u dyfethaf hwynt gyda’r ddaear.” Eglurodd Duw ei hun i’r paganiaid; ond ni ddarfu iddynt hwy “ei ogoneddu ef megys Duw. Nid oedd gymeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth. Oblegid hyn”—oblegid hyn, sylwch, “rhoddes Duw hwynt i fyny yn nhrachwantau eu calonau, i wyniau gwarthus, ac i feddwl anghymeradwy.” A pha

beth fu y canlyniad? Ymdroi mewn pydewau rhy ffaidd i'w holrhain. Ac os gwnaeth Duw felly â dynion am wrthod goleuni natur, pa faint mwy y gwna felly â dynion am wrthod yr efengyl? O ai dyma sydd wedi gwneyd Cymru fawr ei breintiau fel maes y dyn diog. a drain wedi codi ar hyd-ddi oll? Ai Duw yn dechreu dial am ein diffwrthder dan yr efengyl sydd yn peri fod llawer o'n eladdedigaethau, ein priodasau, a'n ffeiriau, yn gorsydd rhy leidiog i ddyn yn ofni Duw fyned iddynt? Os metha yr ymosodiad sydd yn cael ei wneyd yn awr yn erbyn anghymedroldeb, ac os gwelir dwylaw crefyddwyr wedi gwywo, Cymdeithas Cymedroldeb wedi ei hanghofio, a meddwdod yn parhâu i flaguro, y frwydr wedi darfod ac anghymedroldeb wedi cario y dydd, bydd hyn yn arwydd dychrynlyd fod yr Arglwydd wedi rhoddi ein gwlad i gadw ynddo i ryw farn dymmorol, a ysguba filoedd, fe allai, o'i thrigolion i'r byd mawr. Feddwyn, os geilw Duw arnat ti eto, gwrando, rhag mai dyna y cymhelliad olaf a gei di byth.

II. BELLACH SYLWN AR Y DULL Y MAE Y SALMYDD YN YMRODDI I GYFLAWNI EI DDYLEDYDD: "*Tyngais* y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder." Yr ydym yn golygu y gair "TYNGU" mewn ystyr helaeth, yn cynnwys ardystiad y duwiol wrth Dduw o ymroddiad ei feddwl i ufuddhâu iddo. Yn adn. 115, y mae yn ardystio yr un peth ger bron dynion, âg a wna yma ger bron Duw. "Ciliwch oddiwrthyf, rai drygionus; canys cadwaf orchymynion fy Nuw. *Tyngais* y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder."

Yn awr, dyma y dull yn hollol ag y mae Cymdeithas Cymedroldeb yn galw arnom ninnau i ymgysregru i'r Arglwydd yn y gangen hono o'i wasanaeth, sef trwy ymroddiad calon ger bron Duw, ac ardystiad cyhoeddus ger bron dynion, ein bod yn penderfynu llwrymwrthod â gwirod poethion (oddigerth fel meddyginiaeth), a gwrthsefyll yr holl arferion sy'n tueddu i anghymedroldeb ymhob modd.

Mae yn amlwg i bawb a ystyrio, fod meddwdod mor uchel ei ben, ac mor ddinystriol yn ei effeithiau yn ein gwlad, fel y mae galwad arnom i ddyfod i'r maes yn ei erbyn mewn rhyw ddull heblaw yn y llwybr cyffredin. Ac i'r dyben o annog ein cyd-genedl, yn enwedig crefyddwyr, i gydymosod yn ei erbyn yn y



llwybr hwn, ni a geisiwn ddangos ei fod yn llwybr rhesymol ac ysgrythyrol; ac felly y mae sail i ddysgwyl y bydd i'r Arglwydd ein llwyddo.

1. *Mae y llwybr hwn yn hollol gyd-daro â'r dull yr ydym yn ymgysylltwno i holl wasanaeth yr Arglwydd yn gyffredinol, sef, trwy ymroddiad gwirfoddol mewn cyfammod. Mae gwasanaeth pob crïstion i'r Arglwydd wedi ei sylfaenu ar fyned mewn cyfammod â Duw yn Nghrist. Mae cyfammod Duw yn dy gnawd er y dydd y bedyddiwyd di; ac yr ydwyf wedi ei adnewyddu lawer gwaith wrth fwrdd yr Arglwydd. A thi a wyddost os bydd rhyw bechod neillduol yn dy flino, nad ydwyf byth yn gwir weddio yn ei achos heb fod dirgeloedd dy galon yn tyngu i Dduw yn ei erbyn. Yn awr, os yw amgylchiadau yn galw am i ti ardystio yn gyhoeddus ger bron y byd benderfyniad dy feddwl i lwyrwmwrthod â phob peth sydd yn arwain i feddwod ac anghymedroldeb, paham y gwrthodi wneuthur hyny? Yn ddiau, nid am dy fod yn golygu ymrwymo ac ymgysylltwno yn anghyfreithlawn; canys y mae dy holl wasanaeth i'r Arglwydd wedi ei ddechreu a'i sylfaenu yn hyny, ac mae rhywbeth o'i natur yn rhedeg trwy lawer o dy ddyledswyddau. Os dywedi fod arnat ofn dyfod i rwymyn Cymdeithas Cymedroldeb rhag na chyflawni, gallasai yr un peth dy gadw rhag cymuno na gweddio byth; a chyda mwy o reswm, canys yn y rhai'n yr ydwyf yn tyngu i Dduw yn erbyn holl chwantau y galon, ond yma nid ydwyf ond dadgan dy benderfyniad i ymattal oddiwrth ryw ymarferiadau allanol.*

2. *Y mae y llwybr hwn yn ddull ysgrythyrol o ymarfogi yn erbyn tentasiynau neillduol pan y byddont yn ymosod arnom. Fel hyn yr ymarfogai Dafydd, pan oedd yr olwg ar yr annuwiol yn cyffroi ei nwydau. "Dywedais," sef, trwy benderfyniad ac ymroddiad, "cadwaf fy ffyrdd rhag pechu â'm tafod; cadwaf ffrwyn yn fy ngenau, tra fyddo'r annuwiol yn fy ngolwg. Bwriedais na throedda fy ngenau." "A Daniel a roddes ei fryd nad ymhalogai efe trwy ran o fwyd y brenin, na thrwy y gwinn yfai efe." "Gwnaethum ammod â'm llygaid," meddai Job. "Pan eisteddych i fwyta gyda thywysog, ystyria yn ddyfal beth sydd yn cael ei roddi ger dy fron, a gosod gyllell ar dy geg, os byddi ddyn blysig;" hyny yw, ymroddiad a phenderfyniad i*



wrthsefyll y demtasiwn. Fel hyn y mae gorchfygu temptasiwn : trwy droi y galon yn benderfyniad diysgog yn ei herbyn. Yn awr, gofynaf, A ydyw ein temptasiynau ni yn yr oes hon i anghymedroldeb ddim yn galw am i ni ymarfogi yn y dull hwn yn eu herbyn? Mae yn awr y brofedigaeth ar yr holl wlad gyda y pechod hwn. Mae miloedd wedi eu gorchfygu a'u dyfetha gan y demtasiwn, a miloedd eraill wedi eu hanafu yn drwm, a phawb yn agored i'w rhuthriadau. Mae Satan yn temptio, y byd yn temptio, cyfeillion yn temptio, a'r cnawd yn temptio. A pha beth a allwn ni wneuthur yn wyneb yr holl demtasiynau hyn ond ymarfogi trwy benderfyniad cadarn i'w gwrthsefyll? Os yw yn ddyledswydd eu gwrthsefyll, mae yn ddyledswydd penderfynu gwneyd; ac os yw yn ddyledswydd penderfynu gwneyd, mae yn ddyledswydd hefyd, os gellir dysgwyl lles o hyny, cyhoeddi ein penderfyniad i'r byd. Os yw yn fuddiol i'r cristion dyngu yn erbyn ei demtasiynau dirgel ger bron Duw, gall fod yn fuddiol hefyd, pan fo y temptasiynau yn gyhoeddus a chyffredin, ymrwymo i ymwrthod â hwy ger bron y byd. I hyn y mae Cymdeithas Cymedroldeb yn ein galw, sef, i ardystio ein hymwrthodiad â phob peth sy'n fagwraeth i feddwod. Ac yr ydwyf yn meddwl y gall cymeryd ei hiau arnom, trwy ymrwymo mewn modd difrifol i wneuthur hyny, fod yn fendithiol i ni, a'n gwneyd o fendith i eraill. Er mor llygredig yw plant dynion, y mae gan eu hymrwymadau difrifol ddylanwad cryf ar eu meddyliau. Beth sydd yn peri fod llawer yn peidio ymuno â'r gymdeithas hon ond meddwl nas gallant ymadael â'u gwirod a'u hymyfed, a phe y llawnodent yr ardystiad i ymwrthod â hwy, y byddai egwyddor, geirwiredd, cysondeb, cymeriad, cywilydd, a chydwybod, yn sefyll rhyngddynt â'r dyfroedd a flysiant, fel lluoedd y Philistiaid rhwng Dafydd a phydew Bethlehem, ac y byddai eisieu rhyw gedym i dori trwyddynt? Wele ynte, mae hyn yn dangos y budd o ymrwymo. A thydi sy'n caru gorchfygu y temptasiynau, rhwym dy holl deimladau fel hyn yn eu herbyn; twng i mewn holl luoedd dy fynwes i'w gwrthsefyll; ysgrifena â'th law dy fod yn ymwrthod â hwy. Yna pan ddangoso y gwirod eu lliw yn y cwpan nes deffro dy flys, a phan fyddo dy gyfeillion yn eu cymhell arnat, gelli ddyweyd fel Israel am y Gibeoniaid, "Ni a dyngasom i Arglwydd Dduw Israel, am hyny nid allwn ni yn awr

gyffwrdd â hwynt." "Agorais fy ngenau wrth yr Arglwydd, ac nid allaf gilio."

Mae penderfyniad cadarn yn y meddwl hefyd, nid yn unig yn arfogi y tentiedig, ond hefyd yn diarfogi y demtasiwn. Y mae y blys yn myned wanach wanach bob tro y gorchfygir ef. Mae y diafol yn ffoi pan bo y meddwl yn gadarn i'w wrthwynebu. Fe baid dy gyfeillion â chymhell pan y gwelont dy fod wedi ymroddi. "Nac erfyn arnaf fi ymadaw â thi," ebe Ruth; "fel hyn y gwnelo'r Arglwydd i mi, ac fel hyn y chwanego, os dim ond angeu a wna ysgariaeth rhyngof fi a thithau. Pan welodd hi ei bod wedi ymroddi, yna hi a beidiodd a dywedyd wrthi." "Beth a wnewch yn wylo," ebe Paul, "ac yn tori fy nghalon i? Parod wyf fi i farw er mwyn enw yr Arglwydd Iesu. A chan na ellid ei berswadio ef, ni a beidiasom." Ië, y mae Cymdeithas Cymedroldeb yn amcanu, nid yn unig *diarfogi* y temtasiynau i anghymedroldeb, ond hefyd eu *diddymu*. Mae llawer iawn o demtasiynau dynion i feddwod yn codi oddiwrth eu gilydd. Ond y mae y gymdeithas hon yn eu galw i ymrwymo i beidio temtio eu gilydd felly: y distyllwyr i beidio gwneyd y gwirod, y gwerthwyr i beidio ei werthu, teuluoedd i beidio ei brynu, a'r gwragedd i beidio ei gymhell—ymddyosg yn llwyr o'r holl arferion sy'n fagwraeth i anghymedroldeb. O pe byddai pawb yn un, a phawb yn wrol dros ychydig amser, byddai y demtasiwn fawr wedi ei diffodd!

3. *Yn y Bibl yr ydym yn cael dynion yn ymuno mewn cyfammod wrth gydymostwng a chyd-ddiwygio, ac i'r dyben o gydymosod yn erbyn pechodau ag a fyddai wedi dirfawr ymdaenu.* Felly y gwnai Hezeciah, a Josiah, Ezra, a Nehemiah. Darllener Ezra ix. a x.; a Nehem. ix. Yr oedd pawb wedi ymlygru: "ein breninoedd, ein tywysogion, ein hoffeirïaid, a'n tadau." Yr oeddynt wedi hir fyw yn eu pechodau: "Er dyddiau ein tadau yr ydym mewn camwedd mawr hyd y dydd hwn." Yr oeddynt wedi pechu yn wyneb breintiau, trugareddau, barnau, a gwaredigaethau. Ac ebe hwy, "O herwydd hyn oll, yr ydym yn gwneuthur cyfammod sicr, ac yn ei ysgrifenu, ac y mae ein tywysogion, ein Lefïaid, a'n hoffeirïaid yn ei selio." Wele, fy nghyfeillion, onid ydym ni fel gwlad, wedi *cyd*-bechu, *hir* bechu, a *mawr* bechu, a hyny *er pob gorchwyliacthau*, trwy anghymedroldeb? Pa ryw, pa radd, pa

oed, pa grefft, pa dref, pa gymydogeaeth, pa blaid grefyddol—nad yw yr haint hwn wedi ymlusgo i'w plith? Pwy sydd o honom nad yw yn euog o gefnogi meddwdod trwy ryw ffordd neu gilydd? Mae rhai yn gwneyd y diodydd meddwol, eraill yn eu gwerthu, eraill yn eu hawdurdodi i wneuthur hyny; teuluoedd yn eu prynu, eu cadw yn eu tai, a'u cymhell ar eu cyfeillion; y tad, y meist, y cyfrifol, y duwiol, y gweinidog, yn eu harfer, a hyny lle y mae eu hesiampl yn llygru ac yn niweidio. O yr ydym oll wedi bod yn cynnorthwyo i wneuthur meddwon!

Onid yw chamwedd y wlad yn hyn *yn fawr iawn* hefyd? Mae yn anmhosibl fod un tŷ o bob ugain yn y wlad yn dŷ tafarn heb fod mawr bechu! Mae yn anmhosibl meddwl, fod hanner can' miliwn o bunnau yn y flwyddyn—deg can' mil hanner cant o weithiau—yn cael eu treulio mewn diodydd meddwol, heb fod mawr bechu! Mae yn anmhosibl meddwl fod chwe' chan' mil o feddwon yn y wlad heb fod ei chamwedd yn cyrhaedd hyd y nefoedd! A phan ystyriwn fod cyflawnder y dyfroedd meddwol a yfir bob blwyddyn yn ddigon i wneyd afon o dair troedfedd o ddyfnder, a chwe' troedfedd o led, a thros bedwar ugain milldir o hŷd, diau fod y wlad yn llawn o gamwedd yn erbyn Sanct yr Israel. Cofiw'n hefyd fod meddwdod yn bechod y pechodau. Mae yn gwneyd dynion yn agored i bob drwg, ac yn eu dyosg o bob arfogaeth i wrthsefyll tentasiwn. Mae arian, enw da, sefyllfa anrhydeddus, synwyr, tynerwch cydwybod, yn gysgod rhag llawer o dentasiynau; ond y mae meddwdod yn dinystrio y rhai hyn i gyd. Ac wedi yspeilio y trueiniaid o'u harfogaeth, mae yn ennynu eu chwantau, yn berwi eu nwydau, ac yn llenwi y meddwl â dibrisdod a gwallgofrwydd, fel y rhuthra y dyn i aftenid, lladrad, a gwaed. Tydi y bachgen sydd yn hoff o ddiod cyn bod yn wyth oed, gallem edrych yn dy wyneb a wylo, fel Eliseus yn wyneb Hazael. Paham yr ydych yn wylo? Am ein bod yn gwybod y drwg a wnei di yn Nghymru. Dy broffes a goll, dy galon a galedi, dy amgylchiadau a ddinystri, dy wraig a leddi, dy blant a'th gymydogion a lygri, iechyd dy gorff a ddyfethi, a'th enaid anfarwol a ddemni. Pa beth? ai ci yw dy was fel y gwnelai efe y mawr beth hyn? *Mae yn ymddangos i mi y byddi di yn feddwyn.* Mae y pechod hwn y fynydd hon yn gwneyd y wlad yn llifogydd cryfion o lygredigaeth trwyddi. Ac

y mae ein breintiau hyd yma yn aneffeithiol i'n diwygio. Y mae y *cholera* wedi lladd llaweroedd o feddwon, ond y mae meddwod eto yn fyw. Pa le y mae y miloedd meddwon? Yn y wlad y mae miloedd Biblau! Pa le y mae y dyfroedd meddwol yn rhedeg fel afon gref, gan ddwyn llaid a marwolaeth y ffordd y cerddant? Yn y wlad lle y mae y dyfroedd bywiol o orseddfainc Duw a'r Oen yn rhedeg yn ffrydiau grisialaidd! Och, paham y mae Cymru eto heb ei hiachâu oddiwrth feddwod? paham y mae yr ardaloedd eto yn gorsydd lleidiog trwyddynt? Ofnwn rhag i'n dedfryd basio, "Ni iacheir; i halen y rhoddir hwyt."

Wele, fy nghyfeillion, a ydyw ein meddyliau yn addfedu i gydymosod yn erbyn y gorllif angeuol? A ydyw y penderfyniad yn rhedeg trwy galon y wlad a'i holl enwadau crefyddol? A gawn ni gyd-ddywedyd yn ngwydd Duw, "O herwydd hyn oll, yr ydym yn gwneuthur cyfammod sicr, ac yn ei ysgrifenu; ac y mae ein pregethwyr, ein blaenoriaid, ein haelodau, ein gwrandaŵyr, ein hathrawon ysgol, ein hieuenctyd, ein gwragedd, a'n plant, yn ei selio." Gwna llawnodi ardystiad rod-di i ni ffurf a chanolbwynt fel cymdeithas; bydd yn rhwymyn o'n hamgylch, ac yn nôd o wahaniaeth rhyngom âg eraill. Ni wna mo'r tro i bawb roi heibio yr ymarferiad â'r gwirod yn ddirgel, a phenderfynu diwygio bob un arno ei hun. Ond y mae yr amgylchiadau yn galw am i ni ymuno i gyd-ddiwgio, a chyhoeddi ein penderfyniad i'r byd. Trwy ymuno, gallwn gynnorthwyo ein gilydd i ddiwygio. "Os dau a syrthiant, y naill a gyfyd y llall;" fel rhai wedi llithro i'r cennlif yn ymaflyd yn nwylaw eu gilydd i ddyfod i'r lân. O yr ydym oll yn rhy euog o dynu ein gilydd i'r pydew! cynnorthwywn ein gilydd allan. Dywedded yr holl deuluoedd, pob teulu trosto ei hun, a'u gwragedd trostynt eu hunain, 'Yr ydym yn gwneyd cyfammod sicr, ac yn ei selio. Ni phrynnwn mo'r gwirod byth mwy. Ni chynnygiwn mo honynt i'n cyfeillion ar bob achlysur, byth mwy.'

Trwy ymuno, gallwn wresogi a gwroli meddyliau ein gilydd yn erbyn y gelyn cadarn. "Os dau a gyd-orweddant, hwy a ymgynhesant; ac os cryfach fydd un nag ef, dau a'i gwrthwynebant yntau." Os edrychwn i'r byd gwladol a chrefyddol, cawn weled pethau anhygoel yn cael eu cyflawni trwy fod dynion yn ymuno:

y mae'r Bibl yn rhedeg i bob iaith, yr efengyl yn seinio ymho b gwlad, eilunaddoliaeth a choelgrefydd yn syrthio, fel Dagon o flaen arch Duw. Ac er mor ddiddym ydyw un aelod o'r cymdeithasau hyn ar ei ben ei hunan, eto mor nerthol yw fel rhan o'r peiriannau cryfion sy'n ysgwyd yr holl genedloedd, ac yn newid wyneb yr holl ddaear! Felly yn yr achos hwn, pa mor gymedrol bynag y byddo dyn yn byw, eto fel person arno ei hun ni bydd ei ddylanwad ar y wlad ond bychan; ond trwy weithredu mewn undeb â llawer, fe gerdd yr effeithiau yn agos ac ymhell. Trwy i bawb o'r rhai cymedrol ymuno i ymwrthod â gwirod, ni a godwn ymataliad oddiwrthynt i fri ac anrhydedd, ac ni a ddygwn yr ymarferiad o honynt i warth a chywilydd. Meddylwch am ddyn meddw ar ryw achlysur yn eistedd ymhlith lliaws o ddynion cymedrol, parchus, a duwiol: y fath ddylanwad nerthol sydd gan eu presenoldeb hwy arno ef! Mor wyladurus a chymedrol ydyw gyda'r diodydd tra yn eu gwydd hwynt! Ië, y mae eu presenoldeb, a gwybod eu barn am feddwod, yn cario eu dedfryd hwy mor effeithiol i'w fynwes, nes deffro ei gydwybod, ei gywilydd, a'i holl deimladau i'w gondemnio ei hun. Mae yr olwg ar y cwpan a'r ddiod iddo ef, yn y fath gwmmi, yn foddion i goffhâu ei anwiredd, ac i godi ei wrid i'w wyneb, fel y gwna dangos yr eiddo lladrad yn y llys gwladol effeithio ar y lleidr, pan y mae yn sefyll o flaen y fainc. Wele, beth pe byddai holl ddynion dysgedig, anrhydeddus, a duwiol y wlad, yn ymuno yn un gymdeithas, ac yn cyhoeddi eu penderfyniad i'r byd, o lwrymwrthod â'r gwirod poethion, ac i roddi heibio yr holl arferion llygredig gyda'r diodydd meddwol: y meistyr yn ei deulu, y masnachwr yn ei *shop*, y gweinidog yn ei bulpud, a'r swyddog gwladol ar y fainc, yn cyhoeddi i'r byd eu bod yn aelodau o Gymdeithas Cymedroldeb, ac yn galw ar eraill i ddilyn eu hesiamplau,—O y fath urddas a roddai hyn ar gymedroldeb, ac i'r fath warth a dirmyg y syrthiai meddwod yn ngolwg trigolion ein gwlad! Yn lle bod ymyfed mor anrhydeddus yn ngolwg pob cwmni, fel nas gall y cymedrol ymddangos ynddynt heb fod yn destun gwawd a chwerthin, deuai pawb yn fuan i ystyried Cymedroldeb mor anrhydeddus, a meddwod mor warthus, fel yr alltudid y meddwyn o gymdeithas pawb ond ei gyffelyb, a byddai ei gyffelyb hefyd yn anhawdd i'w cael. Pe buasai gelyn arfog wedi tirio yn ein gwlad, ac yn dech-



reu lladd ar ei gyfer, oni buasai bechgyn Cymru wrth y cannoedd yn *listio* tan faner y pen coronog i fyned i'r maes yn ei erbyn? O fy nghyfeillion, y mae'r gelynyon mwyaf dinystriol, o Ffrainc, o Holland, yr Iwerddon, a manau eraill, wedi tirio yn ein gwlad, i.e., wedi treiddio trwyddi, a meddiannu ein trefydd a'n dinasoedd, a dirfawr yw y galanastra sydd yn cael ei wneuthur ganddynt. Y mae moesau, meddiannau, synwyrâu, bywydau, ac eneidiau ein cyd-ddynion yn syrthio yn ysglyfaeth iddynt wrth y miloedd bob blwyddyn. Nid yw y dinystr trwy newyn, trwy y cleddyf, na thrwy yr haint, ddim i'w gymharu i'r dinystr trwy feddwod. Mae pedair drygfarn Duw yn gwlladeiddio, ac yn rhoi y goreu am ladd, i ddynion sy'n lladd eu hunain. "Lladdodd fy nhad," meddai un bachgen, "wrth wneyd *porter* fwy o ddynion nag a laddwyd ar faesydd Waterloo." Y mae y gelyn wedi dyfod i mewn fel afon; ond y mae lle genym i obeithio fod Ysbryd yr Arglwydd trwy Gymdeithas Cymedroldeb wedi codi baner yn ei erbyn. Mae miloedd wedi ymrestru dani yn America ac yn Mhrydain, ac y mae yn galw ar Gymru i'r cydfwriad. Dywedwn ninnau, Cydfwriad, wrth y rhai oll y dywedo y bobl hyn, Cydfwriad. Rhodded yr Arglwydd i ni un galon i gydfwriadu, un genau i gyd-dystiolaethu, ac un ysgwydd i gydymdrechu. A gwnaed Gymdeithas Cymedroldeb yn ein gwlad yn ofnadwy fel llu banerog.

4. *Yn yr Ysgrhythyr yr ydym yn cael ein dysgu i ymattal oddi-wrth bethau cyfreithlawn ynddynt eu hunain, pan y byddo yr ymarferiad o honynt yn fagl ac yn dramgwydd i eraill.* Felly y mae yr Apostol Paul, 1 Cor. ix., yn dadleu ei hawl i gymeryd cynnaliaeth gan yr eglwysi; ac eto yn peidio gwneyd, ac yn tyngu na wnai, tra byddai hyny yn rhwystr i efengyl Crist. "Onid wyf fi yn apostol? Onid oes i ni awdurdod i fwyta ac i yfed [ar draul yr eglwysi]? Eithr nid arferasom ni yr awdurdod hon, ond goddef yr ydym bob peth, fel na roddom ddim rhwystr i efengyl Crist. Canys gwell yw i mi farw [o eisieu], na gwneuthur o neb fy ngorfoledd yn ofer. Ymhob dim y'm cedwais fy hun heb bwyso arnoch, ac mi a ymgadwaf, fel y mae gwirionedd Crist ynof." Ac fel yr oedd efe yn gwneuthur hyn ei hun, y mae yn galw ar y saint yn Corinth i ddilyn ei esiampl a gochelyd arfer eu rhyddid gyda phethau cyfreithlawn ynddynt eu hunain pan y



byddent trwy hyny yn tentio eu gilydd i bechu yn erbyn Duw. Yr oedd yno rai wedi eu goleuo i wybod nad oedd eilun ddim yn y byd, ac am hyny yn barnu nad oedd yr hyn a aberthwyd i eilunod ddim gwaeth i'w fwyta fel bwyd cyffredin, ond yn unig peidio gwneuthur hyny mewn ffordd o barch ac addoliad i'r eilun. Ac felly yr oeddynt yn dadleu eu hawl i gydwlleda â'r paganiaid ar eu haberthau. Ond yr oedd yr ymddygiad hwn yn dentasiwn ddychrynlyd i'r cristion gwan, yr hwn oedd mor dywyll eto, fel y tybiai fod rhyw barch ac addoliad yn perthyn i'r eilunod fel duwiau. Yr oedd gweled y gwybodus yn eistedd i fwyta yn nheml yr eilunod yn cryfhâu ei gydwybod ef i fwyta "fel peth a aberthwyd i eilunod," sef mewn ffordd o barch ac addoliad iddynt; ac felly yr oedd yn cael ei halogi yn ddifawr trwy eilun-addoliaeth. Byddai yn ffiائد genym, meddai y rhai oedd â gwybodaeth ganddynt, fwyta o barch i eilun; ond er mwyn bod yn gyfeillgar ni a awn i'r wledd; nid gwaeth genym ni y bwyd hwnw na bwyd arall; canys ni a wyddom nad yw eilun ddim yn y byd. Ië, meddai Paul, ond chwi a ddylech gofio "nad yw'r wybodaeth hon gan bawb [o'r cristionogion]. Y mae rhai â chanddynt gydwybod i'r eilun hyd y pryd hwn. Edrychwch rhag mewn un modd i'ch rhyddid hwn fod yn dramgwydd i'r rhai sydd weiniaid. Canys os gwel neb dydi sydd â gwybodaeth genyt, yn eistedd i fwyta yn nheml yr eilunod, oni chadarnhëir ei gydwybod ef [i eilunaddoliaeth]? Ac a ddyfethir y brawd gwan trwy dy wybodaeth di, dros yr hwn y bu Crist farw?" Yna mae yr apostol yn dadgan ei benderfyniad i lwyrwmwrthod â phob peth a fyddai yn rhwystr i eraill, pa mor fuddiol a chyfreithlawn bynag y byddai ynddo ei hun. "O herwydd paham, os yw bwyd yn rhwystro fy mrawd, ni fwytâf fi gig fyth, rhag i mi rwystro fy mrawd."

Yn awr, gofynaf, a ydym ni ddim mewn amgylchiadau cyffelyb i hyn yn yr oes hon gyda golwg ar y gwirod a'r diodydd cryfion? Ac os ydym, a ydyw addysg ac esiampl yr apostol ddim yn ein rhwymo i ryw ymddygiad o'r cyffelyb? Ped addefem yn awr nad yw'r arferiad cymedrol o'r gwirod yn bechadurus ynddo ei hun, y pwnc i'w ystyried wedi hyny ydyw, A ydyw yn bosibl i ni yn yr amgylchiad presennol ar ein gwlad eu harferyd yn y cyffredin heb fod hyny yn gryfhâd i anghymedroldeb, ac felly ein hesiampl yn fagl ac yn ddinystri eraill? "Yr ydwyf fi," medd un, "yn

ystyried y gallaf fyned i'r dafarn wrth fy mhleser, ac ysmocio pib-ellaid, ac yfed gwydraid heb bechu yn erbyn Duw. Mi a allaf ddwyn y gwirod a'r diodydd ar bob achlysur ger bron fy nghyfeillion, a'u harferyd fy hunan yn gymedrol ymhob cyfeillach heb wneyd dim allan o'i le. Yr wyf fi yn sicr nad wyf tan lywodraeth y chwant." Wele, gâd i hyny fod, fy mrawd; ond edrych rhag mewn un modd i dy ryddid hwn fod yn dramgwydd i eraill. Y mae cannoedd o'th amgylch â chanddynt chwant i'r diodydd; ac os gwêl y rhai hyny di sydd â gwybodaeth genyt, tydi sydd mewn sefyllfa anrhydeddus, tydi sy'n proffesu, yn pregethu, yn blaenori, yn gweddio, ac yn ymarfer yn gyhoeddus â gwaith Duw, yn eistedd yn ddiachos yn nheml yr eilunod, yn ymarfer yn ddiofn â'r diodydd meddwol, ac yn galw am y gwirod ar bob achlysur, oni chryfhëir eu cydwybod hwy i fyned ymlaen yn eu meddwod a'u hanghymedroldeb? Edrych rhag i dy ryddid hwn fod yn ddinistr i dy blant bychain. Ti a elli wrth arfer y gwirod yn eu gwydd hwy, a'u cymhell ar dy gyfeillion, hyfforddi dy blentyn yn mhen y ffordd i anghymedroldeb, ac na ymâd efe ddim â hi pan heneiddio. Fe allai fod yn yr ardal neu'r eglwys lle yr ydwyt, lawer newydd eu gwaredu o grafangau meddwod, a'r chwant heb ddiffodd yn eu meddyliau: os gwel y rhai hyny di yn hyf gyda diodydd meddwol, ti a elli eu dwyn hwy i faglau a fydd flinder iddynt tra byddont byw. Na ddystrywia ef â'th ddiod dros yr hwn y bu Crist farw. Gall gweled proffeswr yn yfed ond un glasiad o'r peth na ddylai, mewn lle na ddylai, y pryd na ddylai, neu mewn dull (hyf) na ddylai, wneyd ei esiampl yn felldith pan byddo efe yn pydru yn y bedd. Nid oes dim sydd sicrach na bod llawer o arferion yr oes gyda diodydd ynddynt eu hunain yn bechadurus, ac am hyny i'w rhoddi heibio pe na byddai dim arall yn galw; ac os yw meddygon yn dyweyd y gwir na ddylid arfer gwirod ond fel meddyginiaeth, y mae pob arferiad arall o honynt ynddo ei hun yn tueddu i anghymedroldeb, ac felly yn bechadurus. Ond, nid beth sydd bechadurus ynddo ei hun yw y pwnc yn awr, ond, Beth yw ein dyledswydd ni gyda golwg ar achub ein gwlad? A oes dim galwad arnom i wneyd rhyw ymdrech anghyffredinol? A ydyw yn debyg y llwyddwn ni mewn ymdrech felly heb osod ein hunain yn esiampl mewn dim mwy nag o'r blaen? Oblegid y mae yn anmhosibl i'r rhai oedd

gymedrol gyda gwirod o'r blaen wneyd ychwaneg yn hyny eto, ond trwy hollol ymattaliad. Ac onid yw y pwys o wneuthur hyny tu hwnt i bob dirnadaeth, os gwir yw mai o'r ymarferiad cymedrol y mae yr holl anghymedroldeb yn tori allan? Os yw cymedrolion gyda'u hymarferiad cymedrol o'r diodydd poethion, yn rhoddi dechreuad a pharhâd i anghymedroldeb, y mae eu cyfrif yn annhraethol. A'r rhai hyny yn ddiau yw prif gynnalwyr meddwdod, sef y rhai sydd yn cadw y cyfeiliornad fod maeth i natur yn y diodydd cryfion mewn grym yn meddyliau dynion, a'r rhai sydd yn cynnal yr ymarferiad cyffredin o honynt mewn bri yn eu mysg. Yn awr, y mae yn anmhosibl i'r meddwyn wneuthur yr un o'r ddau. Pwy a'i coelia ef, gyda'i iau a'i ysgyfaint afiach, ei anadl drewedig a'i gorff pwdr, pan y dywedo fod maeth i natur yn y pethau hyn? Mae ef ei hun yn dystiolaeth i'r gwrthwyneb. A pha fodd y gall ef, ag y mae meddwdod wedi ei ddyosg o bob anrhydedd, a'i wneyd yn rhy warthus i ymddangos ond ymhlith sorod cymdeithas, ddal yr ymarferiad o honynt mewn bri? O'i ran ef, fe gleddid yr ymarferiad o'r diodydd meddwol fel peth gwarthus yn yr un bedd ag yntau, ac ar yr un pryd. Ond y mae y pethau sydd megys yn ddiniwed yn nwylaw y meddwyn, yn troi yn arfau angeuol yn nwylaw y cymedrolion. Pan welir y doeth, y parchus, a'r duwiol, yn arferyd y gwirod ar bob achlysur, megys wrth deithio, ar ol chwysu, ac ar ol blino, ac wrth fyned i orphwys, mae yn rhaid y cedwir y dychymyg am y llesâd sydd ynddynt i natur mewn grym yn meddyliau dynion. Pa fodd na wneir wrth weled y rhai sydd yn proffesu bwyta ac yfed er gogoniant i Dduw, ac er cryfder ac nid er meddwdod, yn eu harferyd mor gyffredin? A phwy sydd yn cynnal yr ymyfed mewn bri ond y rhai cymedrol? Pwy sydd yn cadw yr arferiad cyffredin o'r diodydd cryfion rhag syrthio i warth ond y rhai cymedrol? Pwy sydd yn rhoddi urddas a pharhâd i'r holl arferion sydd yn feithrinfa anghymedroldeb ond y rhai cymedrol? O blith pwy y mae'r meddwon wrth y miloedd yn tori allan ond o blith y rhai cymedrol? Beth yw'r brif gochl yn yr hwn yr ymlapia y meddwyn ond *sotian* ac ymyfed y rhai cymedrol? Ymha le y mae yr ieuanc parchus a chrefyddol yn cyfarfod â'r demtasiwn gyntaf ond ymysg y rhai cymedrol? Yn nwylaw crynedig y meddwyn mae y gwirod yn

tanbeidio fel goleuni wedi ei osod ar graig; y maent yn rhybuddio pawb i gadw o'r llynclyn. Ond yn nwyllaw y cymedrol, y maent fel y tân-ellyll (*jac y lantern*) yn gwibio o flaen llygaid y crwydryn, ac yn ei ddenu i'w ddilyn, gan addaw diogelwch a chysur iddo, nes ei arwain i holl gorsydd drygioni a dinystr. Wrth gael ymddangos ar fwrdd y parchus a'r duwiol, y maent yn ymrithio fel angylion y goleuni; a thrwy eu gwaith hwy yn eu cymhell, yn eu canmawl, ac yn eu harfer, y maent yn lledu trwy y wlad yn gyffredinol, yn cael derbyniad croesawgar i bob tŷ, a'u harferyd yn ddiogfn gan bob rhyw ac oedran. Pan oedd un gweinidog yn myned allan o gyfarfod Cymdeithas Cymedroldeb, wedi areithio yn erbyn llwrymattal oddiwrth y gwirod, ac o blaid eu harferyd yn gymedrol, deuai meddwyn oedd yn gwrando arno i'w gyfarfod ef; a than honcian, dywedai, "Rhowch eich llaw, fy nghyfaill; dyn iawn ydych chi beth bynag." Tarawodd hyn gydwybod y gweinidog mor nerthol fel y troes yn ei ol yn ddiogedi, ac yr ysgrifennodd â'i law wrth ardystiad i lwrymattal oddiwrth y gwirod poethion. Y mae y wlad yn llawn o feddwod; gwyliwn rhag mai oddiwrth broffeswyr a phrophwydi Jerusalem y mae y lledrith yn myned allan i'r holl dir. Gochelwn i'n hesiamplau gynnorthwyo dwylaw y drygionus fel na ddychwel neb oddiwrth ei ddrygioni. Na ato Duw i ni foddhâu ein harchwaeth ar draul dinystr miloedd o'n cydgreaduriaid. Mae pob peth yn gyfreithlawn i mi, meddi. Ië, ond cofia nad yw pob peth yn llesâu; a chofia hefyd nad yw dilynwr Crist i geisio ei lesâd ei hun ond llesâd llaweroedd. Onid yw y Bibl yn dyweyd fod pob peth a greodd Duw yn dda, a dim i'w wrthod? Mae'r Bibl hefyd yn dyweyd, 'Da yw nad yfer gwin, na dim trwy yr hyn y tramgwydder neu y rhwystrer dy gydgreadur.' Mi fynaf fi fy nghysuron fel o'r blaen. Cymer dithau hwy, a gorwedded meddwdod yr oes wrth dy ddrws; cofia y byddi gyfrifol am yr holl gynnorthwy yr ydwyt yn ei roddi i anghymedroldeb. Os oedd Paul yn barod i ymattal oddiwrth gig, y peth y mae Duw wedi ei roddi i gynnal natur, yn hytrach na rhwystro ei frawd, pa faint mwy y dylem ni ymattal oddiwrth y gwirod sydd yn wenwyn iddi, pan y mae lle i ofni fod ein hesiampl yn rhwystro miloedd? O! gobeithio fod llawer yn barod i ddyweyd, Os yw diod yn rhwystro fy mrawd, os yw fy ngwaith yn arfer y gwirod yn faeth i

anghymedroldeb, mi a ymgadwaf oddiwrthynt tra bo'r byd yn sefyll.

5. *Mae tyngu yn erbyn unrhyw bechod yn ddull cyffredin yn yr Ysgrythyrau pan y byddo holl nwydau y galon wedi ennynu yn ei erbyn mewn tymmor o ddiwygiad.* Fe wŷr pob cristion nad yw byth yn cael ei adferu o afael unrhyw chwant trwy edifeirwch a maddeuant heb fod ei holl galon yn tyngu i Dduw yn erbyn y chwant hwnw. Ac ymhob adfywiad neillduol ar grefydd ymhlith yr Iuddewon, ni a'u cawn yn ymgyfammodi o newydd â Duw, ac yn tyngu yn erbyn y pechodau trwy y rhai y byddent wedi ymlygru yn fwyaf. Pan glybu Ezra fod yr hâd sanctaidd wedi ymgmysgu â phobl y gwledydd, a llaw penaethiaid a thywysogion y genedl yn gyntaf yn y camwedd, fe'i gorlanwyd â zel a thristwch duwiol; ac y mae yn ymddangos i'r un ysbryd ddisgyn ar y bobl. Dywedir fod tyrfa fawr wedi ymgasglu ato ef, yn wŷr, ac yn wragedd, ac yn blant, yn wylo âg wylofain mawr. Mor angerddol ydoedd eu serchiadau ar y pryd, fel ag yr oedd eu nwydau naturiol yn dystewi, teimladau o gariad a thosturi at y gwragedd a'u rhai bychain yn cael eu gorthrechu, a hwythau yn y fan, heb ymgynghori moment â chig a gwaed, yn *tyngu* i ymadael â'u bai, trwy roddi heibio y gwragedd dyeithr! Ië, yr ydym yn cael y saint yn tyngu i ymwrthod hyd yn nôd â'u cysuron cyfreithlawn pan y byddai rhyw amgylchiadau yn cyffroi eu serchiadau yn achos eu Duw, eu gwlad, neu lesâd eu cenedl. Yr oedd zel Dafydd mor fawr dros ei Dduw fel y tyngodd nad äi tros y rhiniog i'w dŷ newydd yn Jerusalem, hyd oni chaffai le i'r Arglwydd; felly fe'i gadawodd heb ei fendigo, neu ei gysegru yn ol y gyfraith i fyw ynddo, hyd nes y dychwelodd wedi gosod yr arch yn ei lle. Fe dyngodd Urias yn erbyn holl gysuron ei dŷ pan demtiai Dafydd ef i'w mwynhâu, mewn amgylchiad ag oedd yn galw am eu haberthu er llesâd ei genedl. "Mae yr arch ac Israel," medd efe, "yn aros mewn pebyll, a gweision fy Arglwydd yn gwersyllu ar wyneb y maes; a âf fi gan hyny i'm tŷ fy hun i fwyta ac i yfed? fel mai byw di, ac fel mai byw dy enaid di, ni wnaf y peth hwn." Y mae rhai yn gwneyd eu hunain yn eunuchiaid er mwyn teyrnas nefoedd. Yr oedd serchiadau Paul mor gryfion yn achos ei genedl, fel yr oedd yn barod i fod yn anathema oddiwrth Grist tros ei frodyr. Ac yn wir, pan fyddo y



serchiadau tufewnl yn awchus ac angerddol iawn, y mae natur ei hun fel yn ymwrthod â'i chysuron. Beth pe tywelltid ysbryd o ddiwygiad oddiwrth feddwdod ar y wlad, nes llenwi pob mynwes â soriant, ofn, awyddfryd, zel, dial, ac astudrwydd yn ei erbyn : fe fyddai ymwrthod â'r diodydd meddwol nid yn unig yn beth y boddlonid i'w wneyd o anghenrheidrwydd fel dyledswydd, ond fe gollid yr archwaeth atynt, ac fe äi natur i'w ffeiddio a'u casâu. Treiwch chwi gael eich diodí i ysbryd Cymdeithas Cymedroldeb, ac oni phrofwch yn fuan ddiflasrwydd at bob ysbryd arall? Myfyriwch fynyd ar y ffeidd-dra a'r creulonderau sy'n canlyn meddwdod ; ac oni theimlwch barodrwydd i dyngu yn ei erbyn? Beth ! ai difater genym ni fod miloedd yn ein gwlad yn lladd eu hunain bob blwyddyn trwy feddwdod? Ai difater genym fod miliynau o arian ein gwlad yn cael eu gwario yn flynyddol i ddifa iechyd, moesau, cysur, ac eneidiau ei thrigolion? Ai difater genym fod meibion a merched yn cael eu gyru yn yroedd i'r elusendai, yr ysbytai, y gwallgofdai, a'r carchardai, yn ts yr olwg arnynt na'r anifeiliaid, a hyny yn unig o herwydd anghymedroldeb? O pa sawl tad sydd heddyw â'i benwyni yn debyg o fyned i waered i'r bedd mewn tristwch, wedi ei ddiblantu gan y diodydd meddwol? Pa sawl mam sydd â'i hocheneidiau yn aml, a'i chalon yn ofidus, oblegid fod y rhai a fagodd yn dyner, naill ai wedi eu colli, eu halltudío, neu wedi llosgi, boddi, syrthio, neu fferu i farwolaeth, yn unig o herwydd meddwdod? Pa sawl gwraig gyda'i phlant bychain sydd â'i chefn yn llwm, ei chylla yn wag, ei haelwyd yn oer, ei chalon yn drom, a'i gwaith yn galed, yn unig o herwydd meddwdod ei gŵr? Ac fe allai, ar ol ymlwybro yn ddystaw trwy ddiluw o flinderau am flynyddoedd, y bydd hi yn trengu trwy ddwylaw gwaedlyd ei phriod, mewn pangfa o gynddaredd yn ei feddwdod. Pa faint o blant sydd heddyw yn grwydriaid digartref, o herwydd fod eu rhieni wedi yfed eu hunain i'r carchar, neu i angeu, a'u gadael hwythau yn ysglyfaeth barod i bob tentasiwn? Pa sawl meddwyn sydd yn awr yn gweled ei fod wedi rhoddi ei harddwch i eraill, a'i flynyddoedd i'r creulawn—estroniaid y *gin-shops* wedi eu llenwi â'i gyfoeth, a'i lafur yn nhŷ y ddiód, ac yntau o'r diwedd yn ochrain wedi i'r cnawd a'r corff gurio, "Pa fodd y caseais i addysg? pa fodd y dirmygodd fy nghalon gerydd?" A allwn ni feddwl

am hyn oll heb deimlo dim? A gaiff troell naturiaeth fyned yn fflam ar bob achlysur, a rhewi yn awr? A gaiff dynion mewn cynddaredd rwympo eu hunain â diofryd i ymgadw oddiwrth fwyd a diod nes cyflawni eu bwriad gwaedlyd, ac a betruswn ni dyngu yn erbyn pethau mor hawdd eu hebgor i ddybenion mor uchel âg achubiaeth ein cydgreaduriaid? Gosoded pob tad ei hun yn lle tad y meddwyn, a phob gwraig ei hun yn lle gwraig y meddwyn : gosodwch eich hunain am fynydd yn lle yr adyn sy'n awr yn marw, wedi sobri unwaith am byth, a'r gwin fu yn ei ddifyru yn dechreu brathu fel sarph, a phigo fel neidr. Dyma le i dosturi wylo, a digon, os nad yw ymlygru gyda'r diodydd meddwol wedi ein caledu yn fawr, i beri i zel ac awyddfryd frefu yn ein mynwes. Ac os cyffry y nwydau rhai'n, fe fydd miloedd yn fuan yn cofrestru eu hunain tan faner Cymdeithas Cymedroldeb; canys rhywbeth tueddol i'r natur ddynol ydyw gwystlo ei hunan yn gadarn, pan bo ei heiddigedd a'i zel wedi eu cynhyrfu yn fawr.

6. *Yn yr Ysgrythyrau y mae genym esiamplau penodol o ymrwymo i ymattal oddiwrth y diodydd cryfion* : rhai dros dymmor, megys y Nazareaid; rhai dros eu hoes, megys Samuel, Samson, ac Ioan Fedyddiwr; a rhai oes ar ol oes, megys teulu y Rechab-iaid. Yn y Testament Newydd hefyd yr ydym yn cael Timotheus yn yfed dwfr, a dim arall mae'n debyg, hyd nes y cynghorwyd ef i arfer ychydig win yn unig fel meddyginiaeth. Ni a gawn Paul hefyd dan adduned i ymattal oddiwrth win; ac nis gwn i paham nad allem feddwl ei fod yn amcanu lladd anghymedroldeb y Cenedloedd, yn gystal a rhagfarn yr Iuddewon, wrth gymeryd adduned Nazarëad arno ei hun. Yn Corinth, mae'n debyg, yr oedd yr apostol pan y gwnaeth yr adduned, Act. xviii. 1—18, lle nodedig am feddwdod a phob gormodedd, a llawer o'r cristionogion wedi ymdroi ynddynt yn hir, cyn eu golchi trwy'r efengyl (1 Cor. v.) Nid yw yn annaturiol meddwl iddo wneyd adduned o ymattaliad er condemnio meddwdod, a bod yn esiampl o sobrwydd a dirwest, a chadw y cristionogion ymhell oddiwrth yr achlysuron i'w hen bechodau. A phe dilyn-asant ei esiampl yn well, ni welsid neb o honynt yn feddw yn swper yr Arglwydd. Fe farna rhai mai meddwdod ac ymyfed ei gydoesolion a barodd i Jonadab ddysgu ei deulu i beidio yfed

dim. Ond ar ba gyfrif bynag yr oeddynt hwy yn gwneyd adduned o ymattaliad, mae eu hesiampl yn ddigon o sail i Gymdeithas Cymedroldeb, canys y mae yn cyfiawnhâu ymattaliad pan byddo amgylchiadau yn galw. Ac y mae meddwod dirfawr ein gwlad yn alwad arnom ni i hyny, yn yr oes hon. Mae y gair, a rheswm, yn ein dysgu i roddi heibio yr ymarferiad o bethau hawdd eu hebgor, pa mor ddiniwed bynag ynddynt eu hunain, os byddant trwy gamarferiad wedi myned yn ddrwg a niweidiol, ac yn enwedig os gellir profi mai grym y camarferiad ydyw yr arferiad diniwed, ac nad oes gobaith cael y naill i lawr heb roddi y llall heibio. Ar yr egwyddor hon y mae Cymdeithas Cymedroldeb wedi ei sefydlu. Nid oes neb yn ammeu nad oes camarferiad dychrynlyd o'r diodydd meddwol yn y wlad. Pa bosibl camarfer dim yn fwy nag arfer *physic* yn ddiod? Beth ond camarferiad arswydus sy'n peri fod y gwlybwr a werthid ychydig flynyddau yn ol, wrth y dyferion yn *sioſ* yr apothecari, yn awr yn rhedeg yn afonydd cryfion ar hŷd ac ar led y wlad? Mae yr Arglwydd yn llefaru am ei waith yn codi Nazareaid yn Israel fel bendith gyffredinol i'r wlad. Amos ii. 11. O bendithied Gymru â llawer o honynt yn yr oes hon, a gwnaed hwy trwy eu hesiamplau, a'u hymdrechiadau yn mhlaid Cymedroldeb, yn fendith i laweroedd.

Bellach, ni a roddwn ychydig o gyfarwyddiadau pa fodd i ennill meddyliau dynion i ymuno â Chymdeithas Cymedroldeb.

1. Ymdrechwn i daenu gwybodaeth trwy y wlad ynghylch anghenrheidrwydd a phwys yr achos; yn enwedig, ymdrechwn i ddadymchwel y dychymyg disail sydd yn meddyliau dynion am y budd sydd yn y diodydd meddwol i natur. Mae y dyb gyfeiliornus hon yn dra niweidiol; oblegid hyn yw grym llawer i gymhell y diodydd poethion i'w gilydd, ac oddiar hyn y mae llawer wedi dechre eu hyfed, ac o ddechre eu hyfed o gydwybod i borthi natur, awd i'w hyfed i borthi blys, nes dyfetha natur a'i holl gysuron dros amser a byth. Dyma yr esgus a rydd pawb dros eu gwaith yn ymarfer â hwy; nid oes neb a addef eu bod dan lywodraeth awydd anghymedrol atynt. O na, y mae hyd yn nôd y meddwyn, os coeliwch ef, yn eu harfer yn unig am eu bod yn fagwraeth i natur, yn anghenrheidiol i'w nerthu i galedwaith, i'w ddadebru o'i ludded, i'w feddyginiaethu pan yn afiach, ac i gadw

afiechyd draw. Fel hyn y mae yn twyllo, nid eraill yn gymaint, ond ei feddwl ei hun, ac yn cymmodi ei gydwybod â bai, am na fedd galon i'w adael. Mae meddwl am yfed er mwyn ei fol yn rhy warthus yn ngolwg y meddwyn; am hyny rhaid roddi cochl dros y diodydd cryfion, i'r dyben o wneyd yr ymarferiad o honynt yn anrhydeddus ger bron y byd, a chadw y gydwybod yn dawel. A'r gochl gyffredin a roddir ydyw, eu bod yn anghenrheidiol, yn fuddiol, a llesol. Ymdrechwn gan hyny i'w dyosg hwy o'r wisg trwy ba un y maent yn twyllo miloedd, a miloedd yn twyllo eu hunain gyda hwy, trwy argyhoeddi meddyliau dynion eu bod yn camgymeryd am eu llesâd. Mae y rhai sy'n hysbys o gynneddfau diod frâg yn dyweyd nad oes ynddi ond ychydig iawn o'r hyn sydd wir faeth i natur. Ac am y gwirod poethion, mae meddygon yn dywedyd, nid yn unig nad oes ynddynt faeth i natur, ond eu bod yn wenwyn iddo. "Pan edrychom (medd un ysgrifenydd) i waith meddygon, yr ydym yn canfod gwirod poethion, ac *opium*, yn cael eu gosod ynghyd fel yn meddu yr un priodoliaethau. Y mae y ddau, yn ystyr gyntaf y gair, yn *wenwyn*. Yr ydwyf gan hyny (meddai) yn apelio at synwyr a theimlad crïstionogion yn gyffredin, ac yn gofyn, a ddylent hwy ystyried y peth hwnw yn iachus a da, ac i'w arferyd yn feunyddiol, ag sydd yn cael ei roddi i lawr yn ngwaith meddygon fel gwenwyn. Ië, y mae rhai o'r meddygon penaf yn barnu mai yr arferiad cymedrol o'r gwirod poethion ydyw unig achos llawer o glefydau, ac y byddai llawer eraill yn hawdd eu symud, ond fel y maent yn cael eu gwneuthur yn anfeddyginiaethol trwy yr un achos. Y maent (meddai'r ysgrifenydd) wedi ardystio ger bron y byd, eu bod yn barnu y dylai y gwirod poethion gael eu gwrthod yn hollol, gan bawb mewn iechyd, fel y gormodedd mwyaf niweidiol." Os felly ymdrechwn ninnau i wneyd eu barn yn hysbys i'r cyffredin, ac i daenu eu hopiniynau ar lëd y wlad. Cyhoedder hwy yn yr holl gyhoeddiadau misol, a dadganer hwy yn nghyfarfodydd Cymdeithas Cymedroldeb. A phe gallem ond gosod y gwirionedd hwn tu hwnt i ammheuaeth yn meddyliau dynion, fe fyddai yr achlysur sy'n peri i lawer ddechre cellwair â'r gwirod wedi ei symud, ac fe fyddai y rheswm a rydd pawb dros eu gwaith yn ymarfer â hwy wedi ei ddadymchwel, ac felly, deuai pob un gonest i'w gadael heibio,

ac fe wneid y gwir achos o fod eraill yn ymlynu wrthynt yn amlwg, sef, eu chwant eu hunain. Fel hyn, ni a amddifadem y *so'tyn* o'r esgus teg a rydd dros ei ymyfed, ac a ddyosgem ei chwant o'r gochl â pha un y mae yn ei wisgo i ddallu ei gydwbybod, ac a osodem ei nodweddiad yn noethlymun ger bron ei gydwbybod a'r byd, sef, ymyfwr, diotwr, a meddwyn.

2. Gan fod esiamplau yn foddion i gyffroi meddyliau dynion i ddaioni, gwnawn yn hysbys y llwyddiant mawr sydd ar Gymdeithas Cymedroldeb yn amryw barthau o'r byd. Yn America mae dros wyth mil o Gymdeithasau Cymedroldeb wedi eu sefydlu, yn cynnwys yn agos i ddwy filiwn o aelodau. Mae dros bedair mil o'r *distilleries* wedi eu cau i fyny, a thros wyth mil o'r marsiandwyr wedi rhoi heibio werthu y gwirod poethion, a rhai wedi rhoi heibio werthu pob diodydd meddwol yn hollol. Mae tros fil a dau cant o'u llongau wedi taflu y gwirod poethion dros y bwrdd, ac oddeutu deuddeng mil o feddwon wedi eu sobri. Mae banerau Cymdeithas Cymedroldeb wedi eu codi yn ein gwlad ninnau hefyd, a gweinidogion, meddygon, a rhai seneddwyr, yn ymrestru tanynt. Y mae y diodydd cryfion yn dechreu myned i anghymeradwyaeth, a meddwdod yn prysur syrthio i warth, a channoedd yn tyngu yn ei erbyn. Ar wyliau arbenig y Gymdeithas, a gynnelir mewn rhai trefydd, y mae eu haelodau i'w gweled yn fyntioedd trefnus, yn cerdded ar ol ei banerau, ar y rhai y mae yn argraffedig mewn llythyrenau mawrion, "NA FEDDWER CHWI GAN WIN—LLWYDDIANT I LWYRYMATTALIAD," &c., ac yna yn eistedd i gydfwyta, yn eu dillad a'u hiawn byyll, mewn tai cyhoeddus, lle nad oes dim o'r diodydd meddwol yn cael eu gwerthu.

3. Da fyddai pe bae tai cyhoeddus o'r fath wedi eu hagoryd ymhob tref trwy Gymru, lle y byddai bwyd ac ebran ddigon i anifeiliaid, a lle i lettŷa ac i wneyd *business*, ond dim o'r diodydd meddwol yn cael eu gwerthu. Fe ddiolchai llawer am le i droi i mewn heb fyned i dadwrdd y meddwon. Ac fe gai y rhai a wŷr fod myned i'r dafarn yn demtasiwn iddynt i yfed, le i ddianc i ochel y brofedigaeth.

Bellach yr ydym yn diweddu, gan gyfeirio gair yn

1. *At y rhai sy'n ymwerthu i anghymedroldeb, ac yn barod i dyngu ffyddlondeb i'w chwant.* Onid oes dirgel benderfyniad yn



meddyliau rhai o honoch i fyned ymlaen er pob peth? Er fod cywilydd yn dal eich meddyliau, eich cydwybodau eich hunain yn eich condemnio, dinystr eich cyd-ddynion o flaen eich llygaid, eto eich iaith ydyw, “Deuwch, cyrchwn win, ymlanwn o ddiodyd gadarn; a bydd yfory megys heddyw, a mwy o lawer iawn.” Chwi sy’n dadleu cymaint yn y tafarndai dros ddiwygiad gwladol (*reform*), oni ddiwygiwch eich hunain? Yr ydych yn galw am ryddid i’r caethion; ond O yr ydych chwi eich hunain yn weision llygredigaeth, ac yn *slafaid* i bechod! Yr ydych yn cwyno ar y trethi; ac onid ydych chwi eich hunain yn trethu eich amser, eich arian, eich iechyd, a’ch cymeriad, i gynnal meddwdod? Yr ydych yn casâu gorthrymder; ac onid ydych chwi eich hunain yn gorthrymu eich gwagedd a’ch rhai bychain yn y modd mwyaf creulawn a didrugaredd? Yr ydych yn arswydo rhag y rhai sy’n cymeryd gwenwyn i ladd eu hunain, ac eto yr ydych yn yfed gwenwyn eich hunain trwy y blynyddoedd; a hunanleiddiaid yr ystyrir chwi yn y farn. Mae rhai o honoch yn anesmwyth ynghylch y *score* sydd ar lyfrau y dafarn; a fyddwch chwi byth yn meddwl am y ddyled sydd ar lyfrau Duw? Mae eich cyflwr yn myned yn fwy enbyd bob mynydyn, diwygio yn fwy anhawdd, a’ch gwardigaeth yn fwy annhebyg. Ond cofiwch nad yw eto yn anmhosibl; mae gan yr Arglwydd ras i’ch nerthu i ddiwygio, a maddeuant pan nad oes genych ddim i dalu.

2. *Gair wrth y rhai sydd yn petruso ymuno â Chymdeithas Cymedroldeb.* Mae oedi, ac ymgynghori, pan y mae ein dyledswydd yn amlwg, yn ddigon o brawf fod y galon yn anonest. Galw am amser i ystyried beth a ddylem wneyd pan y mae y meddwl yn gwybod ei ddyledswydd ar yr olwg gyntaf—nid yw ddim ond cymeryd amser i geisio esbonio y ddyledswydd ymaith, a chymodi y gydwybod â byw yn yr esgeulusdra o honi. “Paham yr ydych yn cloffi rhwng dau feddwl?” Os ydyw yr ymarferiad â’r gwirod poethion yn anghenrheidiol, ewch ar eu hol hwy. Os ydyw yn ffordd i iechyd, anrhydedd, cysur, a chrefydd, ewch ar eu hol hwy. Os nad yw crefydd Crist yn galw arnoch i ymwadu â chwi eich hunain mewn dim er mwyn eraill, ewch ar eu hol hwy. Os difater genych golli miloedd o’ch cyd-ddynion, ewch ar eu hol hwy. Ond os yw rhagluniaeth yr Arglwydd, ac

amgylchiadau ein gwlad, yn galw arnoch i ddyfod allan i bleidio Cymedroldeb, ewch ar ei ol yntau.

3. *Eglwysi Crist a'u swyddogion*: gwyliwch fethu adnabod gwaith eich dydd, a chysgu pan y mae'r Arglwydd yn ei ragluniaeth yn eich galw i wasanaethu eich cenedlaeth cyn myned i huno i'r bedd. Na fyddwch ddifraw yn awr pan y mae rhywbeth tebyg i ysbryd o ddiwygiad fel yn disgyn ar y wlad. Os ymddangoswch chwi yn ddifater, chwi a ddiffoddwch ysbryd diwygiad ymhob man y dechreuo ennynu. Gair diystyrlyd oddiwrth weinidog, neu broffeswr, am Gymdeithas Cymedroldeb a wna ddrygau dirfawr. Fe glywir llawer yn dywedyd am bleidwyr cymedroldeb, "Mae nhw yn myned i eithafoedd, ac yn cario pethau yn rhy bell." Mae yn chwith clywed cristion yn cwyno rhag ofn myned yn rhy bell er mwyn achub ei gydgreaduriaid, pan y mae esiampl ei Waredwr ganddo yn myned can belled ag anghy. Yr ydym yn gweddïo llawer am dywalltiad o'r Ysbryd Glân; ond fe allai na wrandewir ni, hyd nes bo llai o dywallt ar ysbrydion eraill yn ein plith. Pam y mae y Bibl wedi gosod y ddau beth mewn cyferbyniad: "Na feddwr chwi gan win, eithr llanwer chwi â'r Ysbryd?" A gwyliwn rhag mai ffrwyth gradd o dywalltiad o'r Ysbryd ydyw y cyffro sy'n awr yn cerdded drwy y wlad yn achos cymedroldeb,—yn ddiau, ffrwyth yr Ysbryd yw dirwest—a'n bod ni sy'n gweddïo am dano heb adnabod ei waith, ac yn barod i ddiystyru ei effeithiau, ac felly yn methu goddef ei ddyfodiad.

4. *Bydded i holl bleidwyr Cymedroldeb ymwroli*. Er cryfed y mae meddwdod yn ymddangos, ac er mor ddifater yw llawer am ddyfod i'r maes yn ei erbyn, na ddigalonwch; y mae mwy gyda chwi nag sydd yn eich erbyn. Y mae Duw gyda chwi, ac y mae yn rhaid i feddwdod ddyfod i lawr rywbyrd. Mae dirgel ymsyniad yr holl wlad gyda chwi, ac yn cymeradwyo eich amcan. Mae tystiolaeth mynwesau hyd yn nôd gwerthwyr y dioddydd cryfion gyda chwi: mae yn ofid i lawer o honynt eu bod yn byw ar lygredigaeth y wlad, ac mai trwy dlodi eraill y maent yn cael eu cyfoethogi, a bod eu cysur hwy a'u teuluoedd bron yn ymddibynu ar fod teuluoedd eraill mewn cyfyngder ac eisieu. Ië, y mae llawer meddwyn gyda chwi: y mae ei farn, a'i reswm, a'i gydwbybod gyda chwi. Mae yn rhaid iddo osod

rhyw liw drwg ar eich achos cyn y maidd ei gondemnio, a rhyw esgusion teg dros ei ffyrdd ei hun cyn y maidd eu ham-ddiffyn; a phan y byddo raid iddo edrych ar y naill a'r llall fel y maent, mae yn gorfod eich cyfiawnhâu chwi, a'i gondemnio ei hun. Fel hyn y mae plaid i'ch achos hyd yn nôd yn ngwersyll eich gelynion. Yr ydym yn llawenhâu wrth feddwl fod Cymdeithas Cymedroldeb yn wynebu ar ieuenctyd tyner yr oes, i ffurfio a sefydlu eu harferion o'u mebyd i gymedroldeb a sobriwydd; a phan gofiom fod duwioldeb yn ei holl gangenau yn blanigyn sydd yn cael ei faethu â gwllith y nefoedd, gallwn sicrhâu y daw yr amser pan y bydd dirwest a phob rhinwedd yn oruchaf ar yr holl ddaear. *Amen.*

## PREGETH VIII.

TYSTIOLAETHAU DUW YN ETIFEDDIAETH I'R DUWIOI.

PSALM cxix. 3: "Cymerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth, o herwydd llawenydd fy nghalon ydynt."

**Y** MAE pawb sydd yn arfer darllen y Bibl yn gwybod mai gorchymynion neu dystiolaethau yr Arglwydd ydynt y prif bethau ag sydd o dan sylw y Salmydd yn y salm hon. Mae yn llefaru am danynt dan amrywiol enwau, ac yn tystio y pethau mawrion a gawsai trwyddynt, yr hyfrydwch mawr a brofasai ynddynt, a'r parch mawr oedd ganddo iddynt, fel y mae yn hawdd casglu oddiwrth yr holl salm mai un nôd neillduol ar bob dyn duwioI ydyw serchogrwydd mawr at air yr Arglwydd. A fynit ti wybod, fy enaid, pa un a ydwyt dduwioI ai nid ydwyt? edrych pa fodd y mae rhyngot â gair yr Arglwydd. Os wyt yn dduwioI, mae dy feddwl wedi ei oleuo i ryw raddau i weled ei ogoniant a'i ryfeddodau; ti a brofaist i ryw fesur ei felusder; ac y mae hyny wedi ennill dy ewyllys a'th serchiadau i'w gymeradwyo, ei garu, ymhyfrydu ynddo, a chydffurfio âg ef; ac felly iaith dy galon wrth y Duw a'i hadwaen ydyw, "Cymerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth, o herwydd llawenydd fy nghalon ydynt."

Gellir ystyried yr ymadrodd olaf o'r testun, sef, "O herwydd llawenydd fy nghalon ydynt," naill ai fel rheswm a ddyry'r Salmydd dros ei waith yn cymeryd y gorchymynion yn etifeddiaeth, neu ynte fel llwybr trwy yr hwn y mae yn profi iddo wneuthur hyny. "Cymerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth." Paham y gwnaethost hyny? pa fodd y profi i ti wneuthur felly?

"O herwydd llawenydd fy nghalon ydynt." Yr oedd llawenydd ei galon ynddynt yn peri iddo eu cymeradwyo fwyfwy fel ei etifeddiaeth, a'r gymeradwyaeth o honynt yn peri i'w galon lawenyachu fwyfwy ynddynt; ac fel hyn y profai i Dduw, i ddynion, ac iddo ei hun, ei fod wedi eu cymeryd yn etifeddiaeth dros byth.

I. GWELWN YR HYN Y MAE'R SALMYDD YN ARDYSTIO EI GYMERADWYAETH O HONYNT: "Dy orchymynion."

Mae efe yn y salm hon yn llefaru am ewyllys ddadguddiedig Duw i ddynion o dan amrywiol enwau, megys gair, deddf, cyfraith, gorchymynion, barnedigaethau, a thystiolaethau. Arferir yr ymadroddion hyn yn yr Ysgrythyr weithiau i arwyddo rhyw ranau priodol o'r gair; ond yn benaf yn y salm hon, arferir hwynt er amrywiaeth, ac mewn ystyr gyffredinol, am yr holl air.

1. Wrth ystyried yr enwau hyn, ni a welwn *lwybr gwneuthuriad ewyllys Duw yn hysbys i ddynion*, sef mewn geiriau; ac felly fe'u gelwir, "Dy ymadroddion, dy dystiolaethau, tystiolaeth dy enau, dy air di." Gyda golwg ar bethau'r Bibl yn guddiedig yn Nuw, gelwir hwy yn "gynghor a dirgelwch ei ewyllys ef—meddyliau ei galon—ei ewyllys a arfaethasai efe ynddo ei hun." Ond gyda golwg arnynt wedi eu dadguddio i ddynion, gelwir hwy "ei eiriau ef, barnedigaethau ei enau," ac "ymadroddion Duw." Meddyliau Duw wedi eu gwneuthur yn hysbys i ddynion trwy eiriau o'i ddewisiad ydyw yr Ysgrythyrâu sanctaidd. Y mae clywed y Duw tragywyddol yn dywedyd ei feddwl wrth ddynion yn eu hiaith hwy yn beth tra rhyfedd, ond nid yn beth anhhosibl. Diau y gall yr Hwn a gynnysgaethodd ddynion âg iaith a dawn i adrodd eu meddyliau i'w gilydd, ddywedyd iddynt ei feddwl ei hun. A gall yr Hwn a'u dysgodd hwy i lefaru mewn amryw ieithoedd, beri iddynt glywed "bob un yn ei iaith ei hun fawrion weithredoedd Duw."

2. Trwy y teitlau hyn, ni a welwn *awdurdod a mawrhydi gair yr Arglwydd*. Am hyny y gelwir ef yn orchymynion, cyfraith, deddf, a deddfau Duw. Llyfr y gyfraith yw'r Bibl; llyfr pob cyfraith a roddes Duw i ddynion erioed. Cawn yma hanes pob cyfammod a fu rhwng Duw â dynion, a deddf pob cyfammod hefyd. Mae deddf y cyfammod a wnaeth efe âg Adda wedi ei chyhoeddi a'i hegluro yn ei hysbrydolrwydd, ei hëangder a'i



hawdurdod, yn yr Ysgrhythrau. Mae'r cyfammod a wnaeth efe âg Israel dan Sinai, a holl ddeddf y cyfammod perthynol iddo, yn nghadw yma, fel cofarwydd o ddoethineb Duw yn dysgu ei eglwys, ac o'i ffyddlondeb iddi yn dwyn y gras a'r gwirionedd a ddangosir ynddo trwy Iesu Grist. Cawn yma hefyd y cyfammod newydd y mae Duw yn ei wneuthur â'i eglwys yn Nghrist, sef y cyfammod gras wedi ei gadarnhâu yn ei holl addewidion trwy farwolaeth y Machniydd, a'i ddwyn i mewn yn yr holl reolau a'r ordinhadau perthynol iddo i fod yn unig reol gwasanaeth yr eglwys tra ar y ddaear. Mae'r Bibl yn cynnwys holl ddeddf y ffydd gristionogol, holl osodiadau yr addoliad cristionogol, ynghyda holl eiriau'r fuchedd gristionogol. Mae holl ffordd Duw mewn credu, addoli, a bucheddu, yn cael eu dysgu yma. Mae yn wir fod Duw yn deisyf, yn erfyn, ac yn addaw yn y gair; ond y mae awdurdod Ddwyfol yn gwneuthur y cwbl yn ddeddf i ni; ac felly y mae dibrisdod ar bob rhan o hono yn drosedd, a phob trosedd yn sicr o dderbyn cyfiawn daledigaeth.

3. Trwy rai o'r enwau hyn, dangosir *cyfiawnder ac uniondeb y gair*; ac felly gelwir ef, "Dy wirionedd, dy farnedigaethau, dy gyfiawn farnedigaethau, neu farnedigaethau dy gyfiawnder." Mae'r Bibl yn cynnwys barnedigaethau neu reolau cyfiawn Duw i ddynion, y rhai y maent i'w chwilio a rhodio ynddynt. Mae hefyd yn cyhoeddi barn neu ddeddfyd gyfiawn Duw ar ddynion. Os dygwyd di, fy enaid, i gredu ei athrawiaeth a chadw ei orchymynion, y mae barn Duw am danat i'w chael yma: "Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, ni ddemnir." A thithau anghredadyn a dirmygwr gorchymynion Duw, y mae'r ddeddfyd sydd arnat o orsedd Duw yn cael ei chyhoeddi yma: "Yr hwn nid yw yn credu a ddamniwyd eisoes." "Y mae digofaint Duw yn aros arno ef." A cheir gweled y bydd barnedigaethau llaw Duw yn perffaith gyfateb i farnedigaethau ei enau. Y peth a ddywedodd y naill a gwblhâ'r llall. "I wneuthur arnynt y farn ysgrifenedig." Mae yn effeithiol hefyd i wneuthur barn o fewn dynion: "Bywiol yw gair Duw, a nerthol, a llymach nag un cleddyf daufiniog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, y cymmalau a'r mêr, ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon." Mae'r galon fel pydew dwfn, o fewn yr hwn y mae ymlusgiaid heb rifedi. Yno y mae'r anghrediniaeth, y tywyllwch am Dduw a'r

amryw chwantau, yn gwau yn ddi-ddiwedd. Eto y maent yn aml yn cael eu cuddio rhwng yr enaid a'r ysbryd allan o olwg y dyn ei hunan. Ond mewn ambell bregeth wele nerth Duw wedi ei wisgo yn y gair yn gwahanu rhwng yr enaid a'r ysbryd, yn treiddio i'r meddyliau a'r bwriadau, yn codi y chwantau dirgelaf o ddyfnder y galon i olwg y gydwybod, ac yn gwneyd barn arnynt, ac ar y dyn o'u herwydd, yn ei fynwes ei hun. O na byddai y nerth Dwyfol yn cydfyned â gair Duw o enau ei holl weision yn y dyddiau hyn, nes y byddo'r digred yn cael ei argyhoeddi gan bawb, a'i farnu gan bawb, a dirgelion ei galon yn cael eu gwneyd yn amlwg, ac yntau, gan syrthio ar ei wyneb, yn addoli Duw! O na byddai y pregethau yn barnu dynion, yn lle bod dynion yn barnu y pregethau! Ac fel y mae'r gair yn cynnwys barnedig-aethau Duw i ddynion, ac yn nerthol i wneuthur barn o'u mewn, felly hefyd y mae yn gosod barn ac uniondeb yn eu mysg yn lle trais, gorthrymder, a thwyll. Pan dywallter yr Ysbryd gyda'r pregethiad o hono, "Yna y trig barn yn yr anialwch, a chyfiawnder a crys yn y doldir."

II. EDRYCHWN AR GYMERADWYAETH Y SALMYDD O DYSTIOL-AETHAU YR ARGLWYDD: "Cymerais dy orchymynion yn etifeddfeddiaeth dros byth."

Mae'r Salmydd yn llefaru yma fel dyn duwiol; ac y mae yn perthyn i bob dyn duwiol allu llefaru yr un modd. Mae yr ymadrodd yn dangos cymeradwyaeth holl enaid y Salmydd o holl air Duw a'r pethau sydd yn gynnwysedig ynddo.

1. Mae cymeryd y tystiolaethau yn etifeddiaeth yn arwyddo *cymeryd eu cynnwysiad fel sylwedd ein hetifeddiaeth.*

O fy enaid, a welaist ti ddigon o etifeddiaeth i ti dy hun yn mhethau gair Duw? Edrych ar yr etifeddiaeth, yn y lle blaenaf, yn y desgrifiad a rydd y gair o honi o ran y swm a'r crynodeb. Dyma hi yn y golwg oll ar unwaith: "Myfi a fyddaf yn Dduw i chwi." Ond y mae yn hyna gyfoeth a fydd allan o'r golwg byth. Mae etifeddiaeth y cristion yn cael ei desgrifio yn y gair yn debyg fel y gwneir gyda'r ddeddf foesol: mae hono wedi ei chwalo yn lliaws o orchymynion trwy yr holl Fibl, ond weithiau yn cael ei chrynhoi i ddeng air, a phryd arall i ddau; ac y mae Paul yn dywedyd fod rhan o honi yn cael ei "gynnwys yn gryno mewn un ymadrodd, Câr dy gymydog fel ti dy hun." Felly am

etifeddiaeth y credadyn: y mae wedi ei chwalu yn lliaws o bethau trwy'r Bibl; efe a etifedda gyfiawnder, iachawdwriaeth, y deyrnas, a bywyd tragwyddol; ond od oes un ragorfraint neu fendith arall, mae wedi ei chynnwys yn gryno yn yr ymadrodd hwn, "Myfi a fyddaf yn Dduw i chi." Ac er mwyn i'r saint weled beth sydd yn gynnwysedig yn hyn, mae'r Duw mawr yn y gair yn dangos yn gyntaf pa fath un ydyw ynddo ei hun, ac yna yn dangos y bydd efe, yr hwn sydd felly, yn Dduw iddynt hwy. Yn debyg ag y gwnaeth y diafol â Iesu Grist, pryd y dangosodd iddo holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant, ac y dywedodd, "Hyn oll a roddaf i ti," felly y mae'r Duwdod mawr yn ymagor yn ngogoniant ei briodoliaethau tragwyddol o flaen dirnadaeth y cristion trwy dystiolaethau y gair, ac yna yn dyweyd yn effeithiol yn ei fynwes, Hyn oll a roddaf i ti. Myfi yw Duw holl-ddigonol, y Duw tragwyddol, Ydwyf yr hwn ydwyf, Jehofah, y Duw trugarog a graslawn; a myfi, yr hwn ydwyf hyn oll, a fyddaf, yn yr hyn oll ag ydwyf, yn Dduw i ti! Wele, medd y credadyn, y llinynau a syrthiodd i mi mewn lleoedd hyfryd; ië, y mae i mi etifeddiaeth deg, ac yr ydwyf yn ei chymeryd dros byth. Mae Duw wedi rhanu etifeddiaeth y cenedloedd, ond yr Arglwydd ei hun yw etifeddiaeth ei bobl. Yr oedd Peninnah a'i meibion yn cael rhanau gan Elcanah ar y dydd nodedig; "ond i Hannah y rhoddes efe un rhan hardd." Yr oedd meibion Jacob oll yn cael seigiau gan Joseph eu brawd, ond yr oedd saig Benjamin yn fwy na'u seigiau hwynt oll. Felly y mae Duw yn rhoddi seigiau breision i blant y byd, yn ymherodraethau, teyrnasoedd, cyfoeth, a mawrhydi; ond mwy yw saig y cristion na'u heiddo hwynt oll: Duw yn Dduw! Ac os bydd cristion yn tueddu i genfigenu wrth annuwiolion a'u seigiau breision, y mae Duw yn dyweyd wrtho, Ni bydd i ti, fy mhlentyn, etifeddiaeth yn eu tir hwynt, na rhan yn eu mysg; canys myfi yw dy ran a'th etifeddiaeth. Ië, etyb y cristion, fel y dywedai Mephiboseth wrth Dafydd, Cymered efe'r cwbl, canys yr Arglwydd yw fy rhan i, medd fy enaid.

Yn ganlynol, fy enaid, edrych ar yr etifeddiaeth yn y desgrifiad a rydd y gair o honi o ran mawredd y gras a'r trysorau sydd yn tarddu oddiyma i'r credadyn. Duw yn Dduw ydyw y môr mawr; ond y mae rhyw ffrydiau yn rhedeg o hono âg sydd yn llawenhâu

dinas Duw. Duw yn Dduw ydyw y mŵnglawdd goludog; ond y mae rhyw drysorau yn cael eu cloddio o hono a wnânt y cristion yn gyfoethog byth. Ac i'r dyben o weled y trysorau a ddaw oddiwrth Dduw i'w bobl, fel eu Duw, myfyriwch lawer ar ei addewidion; oblegid y rhai hyn yw rheol a mesur ei weithred-iadau tuag atynt fel eu Duw. Yn a thrwy y pethau a addawodd y bydd efe, yn yr hyn oll ag ydyw ynddo ei hun, yn Dduw iddynt hwy. Y mae digon yn addewidion yr etifeddiaeth fawr i godi dy natur o bwll llygredigaeth i ddelw Duw, i godi corff ac enaid o slafwaith y diafol i wasanaeth Duw, ac yn y man i'th godi yn gwbl o'r byd a'r bedd i dragywyddol fwynhâd o Dduw. Myfi a allwn eich arwain at yr amrywiol addewidion megys i gynifer o feusydd äang sydd yn perthyn i'r etifeddiaeth werthfawr. "Myfi, myfi yw yr hwn a ddiläef dy gamweddau er fy mwyn fy hun, ac ni chofiaf dy bechodau. Taenellaf arnoch ddwfr glân fel y byddoch lân. Cynnaliaf chwi â deheulaw fy nghyfiawnder. Pan elych trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi. Hyd henaint hefyd myfi yw; ië, myfi a'ch dygaf hyd oni benwynoch." O yr euog, aflan, methodig, marwol, ymafl yn y cyfryw addewidion, a chymer hwynt yn etifeddiaeth dros byth.

Ac yn olaf ar hyn, edrych, fy nghyd-bechadur, ar y desgrifiad a rydd yr Ysgrythyrau o'r etifeddiaeth yn ngogoniant y llawn fwynhâd. Mae pethau ardderchocaf y byd yn cael eu benthyca i'w gosod allan, ac oll yn rhy anmherffaith i'w dangos yn llawn. Mae dinas yn eisteddle rhagorfreintiau, marsiandiaeth, a gogoniant dynion yn y byd hwn. Wele y mae Duw wedi parotoi dinas i'w bobl, a'r fath ddinas ag oedd deilwng iddo ef barotoi iddynt fel eu Duw, ac sydd yn profi nad yw gwilyddus ganddo ei alw yn Dduw iddynt. Ië, dinas äg iddi sylfeini ydyw; eu cyflwr yn y nef, nid yn unig yn gyfoethog, ond hefyd yn sefydlog a digyfnewid byth. Mae teyrnas yn nôd uchaf ymgais dynion yn y byd hwn. Beth ynte yw teyrnas Dduw, y deyrnas a barotöwyd cyn seiliad y byd, y deyrnas ag y mae'r Tad wrth ei fodd yn ei rhoddi i'w deulu? A pha beth fydd eu llawenydd a'u cyfoeth hwythau pan y geilw Crist, "Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad, etifedd-wch y deyrnas a barotöwyd i chwi cyn seiliad y byd?" Mae bywyd yn werthfawr gan bawb a'i mêdd. Yma, "bywyd tra-gywyddol a etifedda efe." Mae gwobr yn *spring* pob llafur yn y

byd hwn. Ac medd Duw wrth y cristion, "Myfi yw dy wobr." Dyma, yn wir, wobr sicr—gwobr lawer—mawr wobr; i.e., os coeliwn Dduw ei hunan, "gwobr mawr iawn." Yr wyt ti, gredadyn, yn cofio'r diwrnod pan yr oedditi wrth orsedd Duw yn euog, ac y darfu iddo yntau yn ei drefn nesâu atat, a dywedyd, Myfi yw dy gyfiawnder; ac yn cofio pan oedditi ar lethu dan dy feichiau trymion, ac y dywedodd Duw, Myfi yw dy nerth. A chofus genyt y dydd yr oedditi yn nghanol dy elynion, a phob un yn annelu at dy galon, ac y dywedodd yntau, Myfi yw dy darian, nes y profit dy hun yn fwy na diogel yn nghanol y rhyfel, ac yn fwy na choncwerwr cyn ennill y frwydr. Wel, fy enaid, y mae diwrnod eto gerllaw pan y byddi wedi gorchfygu y cwbl, dyoddef y cwbl, a chyflawni y cwbl, a Duw yn dywedyd, Gorphwys, bellach; myfi yw dy wobr mawr iawn. Gwnaethum di mor ddiogel ag yr oedd yn bosibl i ti fod yn nghanol dy elynion, trwy fod fy hunan yn darian i ti! Bellach mi a'th wnaf mor gyfoethog ag y mae yn ddichonadwy i ti fod, trwy fod fy hunan yn wobr i ti! Dyma a fydd y nefoedd: yr iachawdwriaeth a darddodd o Dduw wedi dwyn ei gwrthdychau i ymgolli yn Nuw yn dragywydd. O hono ef fel ffynnon dragywyddol y mae hi wedi tarddu; trwyddo ef y mae hi yn rhedeg at y gwrthdychau; ac ynddo ef y bydd y cwbl yn dybenu byth. Bu yn dda cael y ffrydiau yn nghrasdir y byd; ond beth am y cefnfor tragywyddol? Bu yn dda cael y perlau, megys maddeuant, gras, tangnefedd, a'r cyffelyb; ond beth pan fyddo y mwnglawdd mawr yn ymagor o flaen dirnadaeth yr enaid byth mwyach? Beth a fydd enaid perffaith mewn ystâd berffaith yn syllu ar y Gwrthdych perffaith, a rhyw drosglwyddiadau yn afonydd o hyfrydwch yn dyfod oddiwrth y Gwrthdych gogoneddus i'r enaid dedwydd yn oes oesoedd? O mi a ddymunwn alaru am i mi erioed lefaru ac ysgrifenu y pethau hyn gyda meddwl mor dywyll, a serchiadau mor farwaidd! Tydi, O ffydd, cyflawna dy waith!

2. Mae cymeryd y tystiolaethau yn etifeddiaeth yn cynnwys *cymeryd trefn y tystiolaethau yn ffordd i ddyfod i hawl a meddiant o'r etifeddiaeth.* Y mae llawer yn awyddus am yr etifeddiaeth, ond nid yn y drefn a ddadguddia y tystiolaethau i ddyfod i'r gafael â hi. Mae Duw bob amser, wrth drefnu etifeddiaeth i



blant dynion, wedi gofalu bob amser am eu gosod ar lwybr i ddyfod i'r etifeddiaeth yn deilwng iddo ei hun. A chwi a sylwch, fy nghyfeillion, mai dwy ffordd a fu erioed o flaen dynion i ddyfod i'r etifeddiaeth, y rhai a eilw'r Bibl, y cyfammod cyntaf a'r cyfammod newydd, y ddeddf a'r addewid, gweithredoedd a ffydd. Ond cofiwch na bu y ddwy ffordd erioed yn agored ar unwaith, ac na ddangoswyd y newydd nes yr oedd yr hen wedi ei chau. A chofiwch hefyd fod y naill mor wahanol i'r llall fel nad yw yn bosibl byth gwneuthur un o'r ddwy. Y mae arnaf ofn fod llawer o ddynion, hyd yn nôd o rai sydd yn arfer gwrando yr efengyl, yn ceisio gwneyd un ffordd o'r ddwy: gyru eu gweithredoedd eu hunain can belled ag yr änt, a chymeryd Crist a'i gyfryngdod i orphen. Ond y mae yr Ysgrythyr yn bendant yn sicrhâu mai ofer yw meddwl am gyfryw gymysgiad. "Ni lesâ Crist ddim i chwi, y rhai ydych yn ymgyfiawnhâu yn y ddeddf. Os o'r ddeddf y mae yr etifeddiaeth, nid yw mwyach o'r addewid." Ië, "os y rhai sydd o'r ddeddf yw yr etifeddion, gwnaed ffydd yn ofer, a'r addewid yn ddirym." Gwnaeth Duw gyfammod â'n tad Adda, ac â ninnau ynddo ef; ac yr oedd etifeddiaeth deg wedi ei gosod o'i flaen ynddo: holl ddaioni y bywyd hwn mewn mwynhâd, a dedwyddwch y nef mewn dysgwyliaid, a'r naill yn ernes o'r llall. Ond yr unig lwybr i ddyfod i lawn fwynhâd o'r etifeddiaeth yn ol trefn y cyfammod hwnw ydoedd perffaith ufuddod i ddeddf Duw. "Gwna hyn, a byw fyddi." Ond tori y cyfammod a ddarfu dyn, ac felly colli yr etifeddiaeth addawedig ynddo. Y fynyd y pechodd, wele holl bethau'r ddaear, y rhai oedd o'r blaen at ei wasanaeth, yn rhedeg rhwng ei ddwy-law i'w hymddibyniad uniongyrchol ar Dduw. Ac am ddedwyddwch tragwyddol y nef, y mae "Gan farw y byddi farw" yn sefyll rhyngddo â'r holl wynfyd. Ond gwrandewch, fy mrodyr, y mae genyf ddirgelwch mawr a newyddion da i'w mynegu i chwi. Gwnaeth Duw gyfammod arall, ac yn hwnw efe a wnaeth ei Fab yn etifedd pob peth, a hyny gyda golwg ar gael pechaduriaid i gydetifeddu âg ef. Daeth yr etifeddiaeth i'w ddwylaw ef, yn debyg i lawer etifeddiaeth yn dyfod i'w hetifedd yn y byd hwn, gyda dyled fawr arni. Gyda golwg arnom ni, yr ydoedd yn aros dan hen ffordd yr Adda cyntaf, er dyfod i ddwylaw Adda yr ail, fel nad oedd bosibl

byth ein dwyn i gydetifeddu âg ef yn deilwng i Dduw heb dalu y ddyled. Ond yn ein natur ac yn ein lle, trwy ei ufudd-dod a'i angeu, talodd Crist y ddyled, a phrynnodd feddiant i'w bobl yn yr etifeddiaeth. Mae ei farwolaeth yn ymward oddiwrth droseddau; ac am hyny "caiff y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragywyddol." Mae'r cymmod wedi ei wneuthur, ac udgorn y jubili yn canu, Dychwelwch bob un i'w etifeddiaeth. Ond cofiwch nad oes ffordd yn awr i ddyfod iddi ond trwy gredu yn Nghrist, etifedd pob peth. O na allwn ennill eich meddyliau i gymeryd y drefn hon yn etifeddiaeth dros byth!

Ystyria, O fy enaid, na ddeui byth i'r etifeddiaeth heb fod ffordd yn ngolwg dy feddwl i'w chael. Y mae llawer yn breuddwydio am fod yn gadwedig heb un ffordd yn ngolwg eu meddyliau i fod felly. Maent yn gobeithio bod yn ddedwydd, ond nis gwyddant pahan na pha fodd. O, meddi, yr wyf yn gobeithio nad âf fi ddim i uffern. Ië, ond pa ffordd y gocheli uffern? O yr ydwyf yn hyderu yr âf i'r nefoedd. Ond pa ffordd, fy enaid? Pa beth! a ydych chwi yn dywedyd nad âf fi ddim yno? Nac ydwyf fi; ond yr ydwyf yn gofyn i ti sydd yn dyweyd yr äi di, Pa ffordd yr wyt ti yn meddwl myned yno? Crêd fi, O bechadur, ni chei di byth gyfiawnder ond yn ffordd cyfiawnder, na thangnefedd ond yn ffordd tangnefedd, na bywyd ond yn ffordd y bywyd, nac iachawdwriaeth ond yn ffordd iachawdwriaeth. Nid äi di ddim i uffern heb ffordd i fyned yno; ac, fel y mae dy enaid yn fyw, nid äi ddim i'r nef heb ffordd i fyned yno, ac heb wybod y ffordd, a'i rhodio ar ol ei gwybod.

Cofia hefyd, fy enaid, na thâl yr hen ffordd ddim oll i bechadur i geisio yr etifeddiaeth. Y fan y codir dyn o'r breuddwyd i weled fod yn rhaid cael ffordd i fyned i'r nefoedd, y mae efe yn troi yn union at yr hen gyfammod, am fod holl egwyddorion a dirnadaeth ei feddwl yn cyfateb yn unig i drefn y cyfammod hwnw. A phan ofyno pan o dan argyhoeddiad, "Beth a wnaif i fod yn gadwedig? pa fodd y gallaf wybod y ffordd?" mae yr egwyddorion hyny yn ateb yn ymarferol drwy yr holl enaid, Dyma'r ffordd: gwna hyn a byw fyddi. Ond y mae Ysbryd yr Arglwydd yn dangos i ambell un na thâl y ffordd hon ddim i droseddwr. Beth! medd y ddeddf, a ddaethost ti yma i

geisio bywyd trwof fi? gâd i mi ddyweyd beth sydd raid i mi gael genyt ymlaenaf. Yn gyntaf oll, tyred â pherson i mi mor rydd oddiwrth gamwedd Adda ag oedd y Person hwnw a anwyd yn Bethlehem; tyred â natur i mi mor lân oddiwrth lygredigaeth gwreiddiol â natur ddynol Mab Duw; a thyred â bywyd mor ddirycheulyd â'i fywyd ef, a rodiodd o Bethlehem i Galfaria lygad yn llygad â mi. Ond och! onid wyt ti yn un o'r llawer hyny a wnaed yn bechaduriaid trwy gamwedd un? Onid mewn anwiredd y'th luniwyd di, a'th fod felly wrth naturiaeth yn blentyn digofaint? Onid wyt ti yn un o'r rhai sydd yn dy fywyd wedi gadael y gyfraith? Onid hen dorwr sabbath, neu feddwyn, a diweddi a fuost ti lawer blwyddyn? A mellidgedig yw pob un o dy fath. Ond, medd y pechadur, mi a wnaf fy ngoreu. Dy oreu! medd y ddeddf; ni ddarfum i erioed ofyn, ac ni wnaf byth dderbyn, llai na pherffeithrwydd; yr oll o'r dyn yn yr oll o'r ddeddf, dros yr oll o'i fywyd, i mi. Ië, a phe cawn berffeithrwydd genyt yn awr, mae cyfiawnder yn gofyn dy ddamnio ar ol hyny am y pechodau sydd wedi eu gwneyd. Ynfydrwydd fyddai i adyn dan gollfarn yn nghell y grogfa ddywedyd, Mi gadwaf ddeddf fy ngwlad byth mwy. Ah, druan! nid hyny sydd yn cael ei ofyn oddiwrthyt yn awr, ond dy fywyd am y trosedd a wnaethost. Mi wnaf fy ngoreu, ebe'r euog. Mae hi yn rhy ddiweddar, fy enaid, i ti geisio gwneyd hyny; yr wyt yn ddamniol eisoes!

Ond ar gyfer hyny, hyfryd yw cyhoeddi fod ffordd newydd i ddyfod i'r etifeddiaeth wedi ei hagor o bwrpas i bechadur. Os na thâl yr hen ffordd ddim i bechadur, nid yw y newydd yn briodol i neb ond i bechadur. Nid wyf yn galw pechaduriaid, medd y ddeddf, ond rhai cyfiawn i fywyd tragwyddol. Nid wyf finnau yn galw rhai cyfiawn, medd yr efengyl, ond pechaduriaid i edifeirwch. Pe cawn yr euog, mae genyf gyfiawnder iddo ef; deued y gelyn, ac mi a'i cymmodwn. Y cymhwysder i ddelio â mi yw bod heb ddim, oblegid yr wyf yn meddu pob peth—bod heb deilyngu dim, o herwydd yr wyf yn rhoddi y cwbl yn rhad—ie, bod yn haeddu angeu, canys yr wyf yn cyhoeddi rhyw un farwolaeth nad oedd achos am dani na dyben iddi, ond fel y caffai y cyfryw fywyd a diangfa drwyddi byth.

Gwranddo eto, bechadur : mae yr etifeddiaeth a gei yn y ffordd hon yn fwy cyfoethog, a Duw wrth ei rhoddi yn fwy gogoneddus, na phe buasit heb bechu erioed. Dau ddymuniad gogyfuwch yn enaid y duwiol yw cael digon iddo ei hun, a chael hyny yn deilwng i Dduw. Dymuno gogoniant Duw yn ei ddinystyr ei hun nis gall, a dymuno bod yn gadwedig ei hun gyda phriodoliaethau Duw dan gwmwl ni faidd. Ond O, meddai, na welwn lwybr i gael y ddau: rhoi i Dduw ei ogoniant, a minnau yn cael fy nghadw hefyd! Wele i ti hyny, medd yr efengyl; edrych yn wyneb Iesu Grist. Y drefn hon yw y dysgleiriad uchaf ar ogoniant Duw; ac ynddi y mae yn barod i ddywedyd wrthyt ti y fynyd hon, Myfi a fyddaf yn Dduw i ti, a hyny nid fel yr wyf yn ymddangos yn ngwaith y greadigaeth a rhagluniaeth, ac yn y cyfammmod gweithredoedd, ond yn y drefn lle y cei weled fy noethineb yn ddyfnder golud doethineb, fy nghariad yn fawr gariad, fy nhrugaredd yn gyfoeth, a'm gras yn anchwiliadwy olud. Wel, ebe'r pechadur, mi a'i cymeraf yn etifeddiaeth dros byth: ac O y fath hurtyn oeddwn na buaswn yn gweled gogoniant hon yn gynt! ond yn awr pe byddai fyrdd o ffyrdd i fyned i'r nefoedd, mi a gyfrifwn yr oll yn dom, ac a ddewiswn y drefn trwy Gyfryngwr.

Yn y ffordd hon, daw yr enaid i'r etifeddiaeth gyda llawenydd i bawb. Os bydd gŵr yn dyfod i'w etifeddiaeth yn anrhydeddus, y mae llawenydd trwy yr holl gymydogiaeth; a bydd llawenydd drachefn pan fyddo yn dwyn ei briod i gydetifeddu. Daeth Crist i'w etifeddiaeth gyda llawenydd mawr; y pyrth yn dyrchafu eu penau, y drysau tragwyddol yn ymagor, a Brenin y gogoniant yn dyrchafu gyda llawen floedd. Ac y mae llawenydd drachefn pan y mae pechadur tlawd yn cael ei ddwyn, trwy gredu, i gydetifeddu âg efe. Mae'r Tad yn llawenychu o'i blegid gan lawenydd, yn ymddigrifo ynddo dan ganu, ac â'i holl galon yn rhoddi iddo y deyrnas. Mae dydd ei ddyweddi i Grist yn ddydd llawenydd ei galon. "Yr wyf yn ordeinio i chwi deyrnas," medd efe, "fel yr ordeiniodd fy Nhad i minnau." Mae llawenydd yn ngwydd angylion Duw, ac ymhlith ei saint, llawenydd yn y nef ac ar y ddaear, am un pechadur a edifarhão. O bechadur, os troi di i geisio yr etifeddiaeth yn ffordd y ddeddf, bydd Duw i'th erbyn, cerubiaid dan arfau, y

gyfraith yn melldithio; ond tro dy wyneb at drefn yr efengyl, ac fe fydd yma bawb yn dywedyd, Tyred ac etifedda bob peth. Enniller dy feddwl gan hyny i gymeryd dros byth yr etifeddiaeth oreu oll.

3. Mae cymeryd tystiolaethau Duw yn etifeddiaeth yn cynnwys *cymeryd addewidion y tystiolaethau yn ddiogelwch a sicrwydd am yr etifeddiaeth.* Ar ol ei darparu o ras, a gwneuthur llwybr i'w dwyn iddi yn anrhydeddus trwy yr iawn, mae'r Arglwydd yn ei throsglwyddo i'w bobl trwy yr addewidion. "Duw a'i rhad roddodd i Abraham trwy addewid." Am hyny gelwir hi yn "addewid yr etifeddiaeth;" a gelwir y saint yn "etifedion yr addewid," gan y byddant yn etifeddu yr addewidion byth yn y llawn fwyhâd o'u trysorau. Y rhai hyn yw gweithredoedd (*deeds*) etifeddiaeth y saint. Mae dynion trwy gyfryw weithredoedd yn trosglwyddo eu meddiannau i'w gilydd; ac er mwyn dangos eu hawl i wneuthur hyny, gwneir crybwylliad ynddynt o'r modd y treiglodd yr etifeddiaeth o law i law nes dyfod i'w law ef ag sydd yn awr, ar ryw ammodau, yn eu gwneyd drosodd i un arall. Felly y mae ein Duw ni, wrth roddi yr etifeddiaeth i bechadur, yn dangos yr holl dreiglo fu arni o dragywyddoldeb hyd yma, a'r cwbl yn profi y teitl yn dda: ei darpariad o ras, ei rhoddiad i Grist, ei sicrhâd trwy yr iawn. Ac y mae weithiau yn coffâu hynafiaid y pechadur wrth ei rhoddi iddo, er dangos fod yr etifeddiaeth yn perthyn i'r teulu. "Heddyw y daeth iachawdwriaeth i'r tŷ hwn, o herwydd ei fod yntau yn fab i Abraham." Ac yn awr pan y mae enaid yn credu, mae yr etifeddiaeth yn cael ei gwneyd drosodd iddo mewn addewid dros byth. Pa ryw well hawl na bod y Duw a'i darparodd yn ei rhoddi? A pha sicrwydd mwy y rhydd efe hi na'i fod yn ymrwymo mewn addewid? Mae Paul yn son am "obaith bywyd tragywyddol." Ar ba sail y mae'r gobaith hwnw am fywyd tragywyddol? Ar hen addewid gadarn Duw: "Yr hwn," sef yr hwn fywyd tragywyddol, "a addawodd y digelwyddog Dduw cyn dechre'r byd." Pan welo perchen ffydd drysorau gras yn addewid y Duw digelwyddog, i.e, mewn addewidion lawer, a'r oll wedi eu crynhoi mewn cyf-ammod, a'u cadarnhâu â llw Duw, ac â gwaed ei Fab, bydd yn barod i waeddi, Yr ydwyf yn eu cymeryd yn etifeddiaeth dros byth. Y mae Satan ac anghrediniaeth yn aml yn ceisio



dryllio hawl y saint i'w hetifeddiaeth; ond y mae eu Dadleuwr, "yr Ysbryd hwn, yn cyd-dystiolaethu â'u hysbryd hwy eu bod yn blant i Dduw; ac os plant, etifeddion hefyd." Mae efe yn dwyn yr addewidion, yr hen *deeds of settlement*, i olwg y meddwl, nes y mae'r cristion yn ymlonyddu ynddynt fel ei etifeddiaeth dros byth.

4. Mae cymeryd tystiolaethau yr Arglwydd yn etifeddiaeth yn cynnwys *cymeryd eu hordinhadau fel moddion ein cynnalïaeth a'n dygiad i fyny i'r etifeddiaeth, nes y delom i'n cyflawn oed i'w mwynhâu*. Wedi i Grist sicrhâu yr etifeddiaeth a ddarparwyd i'r saint, a chymeryd meddiant o honi yn eu henw, "efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon, i berffeithio y saint—hyd oni ymgyfarfyddom oll, yn undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw, yn ŵr perffaith at fesur oedran cyflawnder Crist." Trwy weinidogaeth y gair y mae Duw yn adgenedlu ei blant i'r etifeddiaeth, yn dangos ei gogoniant i lygad eu ffydd, yn selio ei gweithredoedd iddynt yn y sacramentau sanctaidd, ac yn trosglwyddo ei ffrwyth mewn heddwch, maddeuant, a gras i'w mynwesau, er eu cynnal a'u cymhwyso i'r llawn fwynhâd o honi. Am hyny y maent yn fawr eu hawydd i ordinhadau Duw, fel Dafydd pan ddadganai, "Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd! Fy enaid a hiraetha, i.e., ac a flysia am gynteddau yr Arglwydd; fy nghalon a'm cnawd a waeddant am y Duw byw." Maent yn cymeryd y gras a'r gogoniant a ddangosir ynddynt yn etifeddiaeth dros byth, ac yn cymeryd yr ordinhadau eu hunain fel moddion i gyfranogi o honynt tra byddant ar y ddaear.

5. Mae cymeryd y tystiolaethau yn etifeddiaeth yn cynnwys *cymeryd eu rholau yn ffordd i'w cherdded nes dyfod i'r llawn fwynhâd o'r etifeddiaeth*. Gyda phob parodrwydd y caniatawn i'r duwiol fyw fel y mynai, canys efe a fynai fyw mewn perffaith gydffurfiad â deddf ei Dduw. Edrychwch arno yn ei ystafell: wedi darllen y Bibl, yr hwn sy'n gofyn am burdeb a sancteiddrwydd yn ysgogiadau'r galon, geiriau'r tafod, a gweithredoedd y fuchedd, i.e. hollol gydffurfiad natur a bywyd âg ewyllys yr Arglwydd, mae efe yn myned ar ei liniau, ac yn tystio wrth ei Dduw, Yr wyf yn cymeryd dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth; llawenydd fy

nghalon ydynt. Edrychwch arno yn ei deulu: dyna efe yn darllen y rheolau sanctaidd, "Y gwŷr, cerwch eich gwragedd—y gwragedd, ymostyngwch i'ch gwŷr priod—y plant, ufuddhewch i'ch rhieni—rieni, maethwch hwynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd—y gweision, ufuddhewch ymhob peth i'ch meistr-iaid—y meistriaid, gwnewch yr un pethau tuag atynt hwy." Ac wedi hyny y mae'r holl deulu yn cydblygu ger bron Duw, ac yn cyd-dystio trwy enau y penteulu, bob un drosto ei hun, Yr wyf yn cymeryd dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth. Edrychwch arno yn yr eglwys ac yn y byd, gyda'i gyfeillion a'i elynion, mewn hawddfyd ac mewn adfyd, mewn cysur ac mewn ofnau: mae efe gyda'r cyfan yn cymeradwyo yn gyson holl orchymynion ei Dduw. Ceir ef weithiau yn ofni y dyfethir ef o herwydd ei anghydfurfiad â hwy; ond y mae hyny yn peri iddo ddigio wrtho ei hun, ac nid wrth y gyfraith. "Y gorchymyn yr hwn ydoedd i fywyd, hwnw a gaed i mi i farwol-aeth. Eithr myfi sydd gnawdol;" arnaf fi y mae'r bai. "Mae'r ddeddf yn sanctaidd, a'r gorchymyn yn sanctaidd ac yn gyfiawn ac yn dda." Beth bynag wyf fi ac a ddaw o honof, "yr wyf fi yn cydsynio â'r ddeddf mai da ydyw." O y mae cydffurfiad calon â deddf Duw yn etifeddiaeth ei hunan, ac yn llwybr i fwynhâu'r cwbl! Trwy hyn y mae'r cristion yn cael tangnefedd a boddlonrwydd ynddo ei hun, ac yn dyfod yn debyg i Grist, ac i ymddigrifo yn Nuw.

Wele ynte, bydded y testun yn adseiniad ein calon i Dduw yn ei holl air. Pan y dywedo efe, "Myfi a fyddaf yn Dduw i chwi," dywedwn ninnau, Amen: "Y Duw hwn yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd." Pan ddywedo efe, "Yn yr Arglwydd y cyfiawnheir ac yr ymogonedda holl had Israel," dywedwn ninnau, Amen: "Ac y'm ceir ynddo ef, heb fy nghyfiawnder fy hun." A phan y dywedo efe, "Mi a roddaf fy nghyfreithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonau yr ysgrifenas hwynt," bydded i ninnau ddywedyd, Amen: "Cymerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth." Os nad allwn ddadgan ein hawl i'r etifeddiaeth, dadganwn, ynte, ein cymradwyaeth o honi.

Bydded y testun hefyd yn amddiffyniad genym yn ngwyneb pawb a'n beio am garu'r Bibl: Yr ydym wedi ei gymeryd yn etifeddiaeth dros byth. Esgusodwch ni, chwi ddynion y byd, y

rhai y mae eich rhan yn y bywyd yma; oblegid sylwedd hwn yw ein hetifeddiaeth ni dros byth. Na ryfeddwch, chwi ddeddfolion a chyfeiliornwyr, o herwydd ein hymlyniad wrth athrawiaeth gras a'r drefn trwy Gyfryngwr; canys yr ydym wedi ei chymeryd yn etifeddiaeth dros byth. Na ryfeddwch, chwi ddirmygwyr moddion gras, o herwydd ein cariad ni at yr ordinhadau; oblegid drwyddynt yr ydym yn cael golwg ar ein hetifeddiaeth, cyfranogi o honi, a'n cymhwyso i'w llawn fwynhâu. Na ryfeddwch, chwi grefyddwyr penrhydd, os bydd zel y duwiol yn ei ddiifa wrth eich gweled chwi yn gadaw'r gyfraith; canys y mae efe wedi cymeryd pob iot o honi yn etifeddiaeth dros byth.

## PREGETH IX.

BYGYTHION DUW, A'I ALWADAU.\*

SEPHANIAH ii, 1, 2, 3: "Ymgesglwch, ie, deuwch ynghyd, genedl an-hawddgar; cyn i'r ddeddf esgor, cyn i'r dydd fyned heibio fel peiswyn, cyn dyfod arnoch lid digofaint yr Arglwydd, cyn dyfod arnoch ddydd soriant yr Arglwydd. Ceisiwch yr Arglwydd, holl rai llariaidd y ddaear, y rhai a wnaethant ei fam ef; ceisiwch gyfiawnder, ceisiwch lareidd-dra; fe allai y cuddir chwi yn nydd digofaint yr Arglwydd."

**O**S anfonwyd y prophwyd Sephaniah i bregethu yn nechre teyrnasiad Josiah, fe allai i'w weinidogaeth nerthol ef, ynghyd a llafur y brenin duwiol hwnw, fod yn foddion i beri y diwygiad a fu yn Judah y pryd hyny. Pan yr oedd brenin duwiol yn teyrnasu, a phrophwyd o'r gwaed breninol, fel y tybygir, yn pregethu, dinystriwyd yr eilunod, adgyweiriwyd y deml a'r addoliad, a dygwyd Judah yn ol at Arglwydd Dduw eu tadau. Ond mae yn amlwg nad oedd y diwygiad yn Judah ond arwynebol iawn. Yr oedd yn fwy mewn ymddangosiad nag yn y galon—mewn ufudd-dod i'r brenin nag i Dduw. "Ni ddychwelodd Judah ei chwaer anffyddlawn ataf fi â'i holl galon, eithr mewn rhagrith, medd yr Arglwydd" (Jer. iii. 10). Mwy tebygol ydyw mai yn nyddiau diweddaf Josiah yr anfonwyd y prophwyd duwiol ac effro hwn, pryd yr oedd y diwygiad wedi llaesu ac adfeiliad yn ymdaenu; rhagrithwyr yn troi yn wrthgilwyr, sef y rhai a ddychwelasant yn arwynebol at Dduw yn nyddiau cyntaf Josiah, yn troi yn ol at eu pechodau, fel ci at ei chwydiad. Felly y mae efe yn dechre ei

\* Traddodwyd y bregeth hon yn 1831-2, pan yr oedd anrheithiau y Cholera Morbus yn arswydlawn mewn lliaws o wledydd y Cyfandir, a phryd yr oedd wedi cyffwrdd âg amryw leoedd yn y wlad hon.

weinidogaeth trwy gyhoeddi y barnau trymaf, gan nodi y gwrth-ddrychau ar ba rai y byddent yn disgyn. Mae yr Arglwydd trwyddo yn bygwth tori ymaith yr eilunaddolwyr cyhoedd, y rhai a ymgyrment ar benau y tai i lu y nef, a'r rhai oedd yn ceisio gwasanaethu Duw a'r eilunod; fel y dywed, "A'r addolwyr y rhai a dyngant i'r Arglwydd, hefyd a dyngant i Malcham; a'r rhai a giliant oddiar ol yr Arglwydd," er dychwelyd mewn rhagrith ato yn y diwygiad trwy Josiah, "a'r rhai ni cheisiasant yr Arglwydd" yn amser y diwygiad, eithr yn parhâu yn annuwiol o hyd. Onid oes yn Nghymru, yn gyffelyb, gannoedd a ddychwelasant at yr Arglwydd mewn ymddangosiad yn y diwygiadau, ac sydd wedi cilio oddiar ei ol ef at eu chwantau, tra y mae cannoedd wedi parhâu yn galed ac annychweledig trwy bob diwygiad a fu yn eu dyddiau? Ac onid oes llaweroedd yn ein gwlad fel y rhai hyny yn tyngu i'r Arglwydd ac hefyd i Malcham—yn ceisio byw i Dduw ac hefyd i'w chwantau—ceisio gwasanaethu Duw a mammon, Duw a balchder, Duw a meddwdod? Ond "pa gyfeillach sydd rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder? a pha gymundeb rhwng goleuni a thywyllwch? a pha gysondeb sydd rhwng Crist a Belial?" Y pethau gan hyny a wahanodd Duw, na chysyllted dyn.

Wedi desgrifio y gwrthddrychau, mae'r prophwyd yn cyhoeddi y farn a ddisgynai arnynt: "Agos yw mawr ddydd yr Arglwydd, agos a phrysur iawn, sef llais dydd yr Arglwydd; yno y bloeddia y dewr yn chwerw. Diwrnod llidiog yw y diwrnod hwnw, diwrnod tralod a chyfyngdra, diwrnod dinystr ac anghyfannedd-dra, diwrnod tywyll a du, diwrnod cymylau a thywyllni, diwrnod udgorn a larwm. Gan ddystrywio y dystrywiau bob dim oddiar wyneb y ddaear, medd yr Arglwydd. Dystrywiau ddyn ac anifail, dystrywiau adar yr awyr a physgod y môr." Mae yr Arglwydd yn dangos y dyddiau hyn y medr efe ein dyfetha ninnau a'n hanifeiliaid. Mae yn gwenwyno yr awyr yn y manau lle mae y *cholera* nes lladd y gwibed; a byddai yn hawdd iddo ef wneyd hyny nes dystrywio yr adar. Buan y gallai efe ddyosg ein dolydd a'n dyffrynoedd o'u harddwch, lladd y pysgod sy'n chware yn yr afonydd bychain a gerddant rhwng ein bryniau, a'r adar sy'n trigo gerllaw iddynt yn ein bröydd prydfeth, ac yn lleisio oddi-rhwng y cangau, nes gwneyd ein gwlad sy'n llawn bywyd a phrydfethwch yn swp o farwolaeth drwyddi. A ydym yn ystyried ac



yn cymeryd rhybudd? Pan fyddo barnedigaethau Duw ar y ddaear, mae yn perthyn i drigolion y ddaear ddysgu cyfiawnder. Mae pechod ac anghyfiawnder yn anweddaidd iawn i'n daear ni bob amser, ond yn fwy felly pan fyddo barnedigaethau Duw arni. Gweled preswylwyr y ddaear yn codi allan i bechu pan y mae'r Arglwydd yn dyfod allan o'i fangre i ymweled â'u hanwiredd, sydd olwg alarus a dychrynedig iawn. Y mae barnau Duw ar y ddaear y dyddiau hyn, a galwad uchel arnom ninnau i droi at yr Hwn sydd yn bygwth ein taro, ac i geisio Arglwydd y lluoedd.

Yn ngair y testun, mae'r prophwyd yn dangos mai nid cyhoeddi dedfryd ddialw yn ol yr ydoedd, ond cyhoeddi y bygythion fel moddion i ddychwelyd y bobl at Dduw er mwyn gochelyd y farn. Am hyny y mae yn cysylltu wrth y cyhoeddiad gymhelliadau taerion i droi at yr Arglwydd.

Mae yn galw yn gyntaf ar gorff y genedl yn gyffredinol. Ei henw a gawn yn "genedl anhawddgar;" un heb ddymuniad, fel y darllenir y gair; cenedl nad oedd ynddi ddim yn dymuno Duw, na dim oedd ddymunol gan Dduw. Mae yn y duwiol beth sydd yn dymuno Duw. "Dymuniad ein henaid sydd at dy enw ac at dy goffadwriaeth." "A'm henaid y'th ddymunais liw nos. Sychedig yw fy enaid am Dduw." Ac y mae'r peth sydd yntau y duwiol yn dymuno Duw yn ei wneyd yntau yn ddymunol gan Dduw. "Ataf fi y mae ei ddymuniad ef. Dygaist fy nghalon, fy chwaer a'm dyweddi." Ond am yr annuwiol, nid oes ynddo ef ddim yn dymuno Duw, nac i'w ddymuno ganddo. Mae yn gas ganddo ef Dduw, a chas gan ei enaid yntau y drygionus. Dyma yr alwad arnynt: "Ymgesglwch." Chwiliwch eich hunain, ystyriwch eich ffyrdd, a gwelwch eich perygl. "Ië, deuwch ynghyd," yn gynulleidfäol. Cyffelyb yw i'r alwad trwy y prophwyd Joel: "Cys-egrwch ympryd, gelwch gymanfa, cesglwch yr henuriaid a holl drigolion y wlad i dŷ yr Arglwydd eich Duw, a gwaeddwch ar yr Arglwydd, Och o'r diwrnod! canys dydd yr Arglwydd sydd yn agos. Pwy a ŵyr a dry efe ac edifarhâu?" Nodir yma yr amser iddynt wneyd hyn: "Cyn i'r ddeddf esgor." Wrth y ddeddf y deallir y bygythion oedd wedi eu cyhoeddi yn y bennod o'r blaen. "Cyn i'r ddeddf esgor" ydyw, cyn troi y bygythion hyny yn ddedfryd ddigyfnawid arnynt, ac i Dduw benderfynu cyflawni arnynt y farn ofnadwy. "Cyn i'r dydd fyned heibio fel peiswyn:?"

cyn i'r dydd ddyfod yn yr hwn y byddwch chwi, yn nghorwynt-oedd y barnedigaethau, yn myned heibio fel peiswyn, neu, cyn i ddydd gras fyned heibio fel peiswyn. Mae'r tymmor sydd genych i ddychwelyd fel swp o fân ũs a ddygid ymaith o un i un gan yr awel. Felly y mae dydd iachawdwriaeth yn myned heibio o awr i awr, o Sabboth i Sabboth, ac o oedfa i oedfa; ac os derfydd a'n gadael yn annychweledig, "dydd soriant yr Arglwydd a ddaw."

Yn y drydedd adnod, mae'r prophwyd fel yn anobeithio am ddiwygiad y wlad yn gyffredinol, ac yn troi ei genadwri yn neillduol at hyny o dduwilion oedd ynddi: "Ceisiwch yr Arglwydd, holl rai llariaidd y ddaear." Pe dychwelasai y genedl at Dduw, ni ddaethai y farn ar y wlad; eithr gan nad oes arwyddion y bydd hyny, dydd soriant yr Arglwydd a ddaw. Ond deuwch chwi yn nês at eich Duw, fe allai pan ddelo'r farn y cuddir chwi. Mae yma ddesgrifiad nodedig o wir dduwilion o ran eu hysbryd a'u tymher: "rhai llariaidd y ddaear." Mae efe, eu Pen mawr, yn llariaidd. "Dysgwch genyf, canys addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon," hyny yw, Dysgwch genyf addfwynder, a gostyng-eiddrwydd calon; a thrwy ddysgu ganddo maent yn dyfod yn gyffelyb iddo. Maent yn llariaidd dan y gair; nid gwrthryfelwyr a drain fel gwrandaŵyr Ezeziel. Maent yn rhoi heibio bob budreddi a helaethrwydd malais, a thrwy addfwynder yn derbyn yr impiedig air. Er y gallant fod yn fwy mewn dyddiau, dysg, dawn, a phrofiad, na rhai o'r cenadon y byddant yn eu gwrando, eto traddodant eu henaid i fyny i awdurdod Duw yn ei air, a derbyniant ef yn ewyllysgar. Maent yn llariaidd dan y groes; nid cnoi eu tafodau a chablu Duw y nefoedd, nid dywedyd, "Y drwg hwn sydd oddiwrth yr Arglwydd; paham y dysgwyliaf wrth yr Arglwydd mwy?" ond cydnabod, "Yr Arglwydd yw efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith; bendigedig fyddo enw yr Arglwydd." Maent yn llariaidd gyda chyfeillion a gelynon. Yr oedd raid i Dduw ddyfod i'r maes yn achos Moses cyn y cynhyrfai efe yn ei achos ei hun; canys "y gŵr Moses ydoedd lareiddiaf o'r holl ddynion oedd ar wyneb y ddaear." O fy nghyfeillion, hyn o bob peth â'n gwna yn debyg i Grist. "Bydded ynoch y meddwl yma, yr hwn oedd hefyd yn Nghrist Iesu." Mae yma ddesgrifiad o dduwiol-

ion, hefyd, yn eu hymarweddiad: "Y rhai a wnaethant ei farn ef," yr hyn ydyw, rhodio yn ei ffyrdd, ymarfer â'i addoliad, a chadw ei orchymynion.

Yr alwad arnynt ydyw, "Ceisiwch yr Arglwydd:" deuwch yn nês ato cyn yr ystorm; byddwch yn fwy diwyd ac ysbrydol yn ei ordinhadau. Yn awr, pan y mae ei farn ef yn debyg o ddisgyn ar eich gwlad, a chyffwrdd â'ch personau, eich teuluoedd, a'ch amgylchiadau, mynwch fwy o'i gymdeithas ef a'i dangnefedd ef yn eich eneidiau; bydded agweddau eich ysbrydoedd tuag ato ef yn gyfatebol i'w orchwyliaethau ef tuag atoch chwi. "Ceisiwch gyfiawnder;" pob cyfiawnder. Ceisiwch eich gwisgo yn nghyfiawnder Crist er eich codi i ffafr Duw; ceisiwch "ymadnewyddu yn ysbryd eich meddwl, a gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grëwyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd;" ceisiwch gyfiawnder ymarferol, gan fyw yn fwy sobr, yn fwy cyfjawn, ac yn fwy duwiol. Wele farnedigaethau Duw ar y ddaear; am hyny, dysgwch gyfiawnder. "Ceisiwch larieidd-dra." Ymroddwch i ewyllys Duw; gadewch iddo eich trin fel y myno; meddiennwch eich eneidiau mewn amynedd dan ei law; ac na roddwch ddim yn ynyfyd yn ei erbyn.

Y calonogiad iddynt ydyw, "Fe allai y cuddir chwi yn nydd digofaint yr Arglwydd." Mae rhai pethau yn sicr i'r saint; maent, o ran bywyd tragywyddol eu heneidiau, wedi eu cuddio yn sicr gyda Christ yn Nuw. Ond am gadwraeth eu personau rhag barnau tymmorol, nid oes ganddynt ond "fe allai." Pan fyddo eu gwlad wedi addfedu i farn, a hwythau eu hunain yn adfeiliedig, fe ddichon y bydd Duw yn dyfetha'r perffaith fel yr annuwiol. Eto y mae yma amnaid y caiff y rhai fyddo yn agos iawn at Dduw, pan ddelo y farn, ei brofi ef yn dirion: "Fe allai y cuddir chwi." Cymer yr awgrym bychan o'i enau ef, fy enaid, a dychwel at ei draed. Mae fe allai Duw yn well na llw dyn.

Bellach cymerwn rai addysgiadau oddiwrth y geiriau.

I. Y MAE YMWELED A PHOB TROSEDD AC ANUFUDD-DOD A CHYFIAWN DALEDIGAETH YN DDEDDF A GOSODIAD DIALW YN OL GYDA DUW.

Yn y ddyfais fawr trwy Gyfryngwr, fe aeth Duw rhwng y gosb â phechadur; ond nid aeth efe rhwng y pechod a chosb. Mae cosbi pechod yn ddeddf ddigynnewid; oblegid y mae wedi tarddu

o anghenrheidrwydd natur Duw, ac wedi ei sefydlu yn y *transaction* cyntaf rhwng dyn a Duw, ac yn cael ei gadarnhâu trwy yr holl Ysgrhythyr. Nid peth y mae yr Arglwydd yn ei wneyd o benarglwyddiaeth yw cosbi pechod, ond peth y mae cyfiawnder a sancteiddrwydd ei natur yn ei wneyd yn anghenrheidiol. Nid peth ydyw y mae yn ei wneyd yn unig o herwydd ei fod yn ewyllysio, ond y mae yn ei ewyllysio am fod cyfiawnder ei natur yn ei ofyn. Buasai ewyllysio cosbi pan y gallesid yn gyfiawn beidio, yn fwy o ddrwg ewyllys na chyfiawnder. Nid llid a chynddaredd yn y Duwdod ychwaith yw achos y gosbedigaeth. Desgrifir hi, mae yn wir, fel tân yn ennyn o'i enau, a mwg yn dyrchafu o'i ffroenau, ac yntau mewn lliodiogrwydd a digter â gwedd ei wyneb megys yn newid yn erbyn y pechadur; eithr nid dangos ffynnon y gosb yn Nuw y mae'r pethau hyn, ond effeithiau arswydus\* y gosbedigaeth ei hun. Eto, fel y mae effeithiau digofaint yn tarddu oddiwrth nwydau arosol yn natur creadur, felly y mae cosbedigaeth pechod yn tarddu oddiwrth ryw berffeithrwydd arosol a thragywyddol yn Nuw; a pha beth yw hwnw ond cyfiawnder a sancteiddrwydd ei natur ef? Nid yw gwneuthur yn ei lid ond yr un peth â gwneuthur yn ei gyfiawnder. "Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau, tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus; dyma ran eu phiol hwynt. Canys yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder." Ni bydd dydd dial, dydd cynddaredd, a dydd digofaint, ond "dydd dadguddiad cyfiawn farn Duw." Cwyno fod Duw yn cosbi pechod yw cwyno ei fod yn gyfiawn. Nid cyfiawn fyddai peidio cosbi pechod. Nis gall Duw fod yn anghyfiawn; ac am hyny efe a'i cosba.

Mae'r ddeddf hon hefyd wedi ei sefydlu yn y cyfammod cyntaf rhwng dyn a Duw. "Gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn." Yn yr ail bennod o Genesis, cawn y ddeddf yn cael ei sefydlu: "Yn y dydd y bwyti di o hono, gan farw ti a fyddi farw." Mi a allaswn dy ddiddymu ar ol dy greu, fel pe dywedasai Duw; ond dyma fel yr wyf wedi sefydlu iddi fod dros byth rhyngof fi â thi ac â'th hâd: byw neu farw. Felly pan bechodd, "aeth marwolaeth ar bob dyn."

Mae yn cael ei chadarnhâu hefyd trwy yr holl Ysgrhythyr. Mae yr Arglwydd i'r dyben hyny yn mynych ddyweyd yr un peth

drosodd a throsodd drachefn. "Gan farw y byddi farw." Ië, coelia fi, bechadur, "Yr enaid a becho, hwnw fydd marw. Cynifer ag sydd o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent." Ië, cred fi eto, bechadur, "melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifeniir yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt." Fel hyn, "mae yn rhaid eich geni chwi drachefn;" ac os ydych yn ammheu, mi a äf ar fy llw: "Yn wir, yn wir, oddi-eithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw." O bechadur, onid yw yn resyn dy fod yn ammheu am fynydd y byddi yn uffern yn fuan, a thi yn byw mewn pechod? Mae Duw wedi dyweyd hyn lawer gwaith, a dyweyd ar ei wir, ac yn dyweyd o hyd.

II. MAE BYGYTHION Y GAIR YN CAEL EU CYHOEDDI YN YR EFENGYL I DDYBENION DAIONUS A GRASOL. Ni a welwn hyn oddiwrth waith y prophwyd yn cysylltu wrth y cyhoeddiad o'r farn gymhelliadau i ddychwelyd at Dduw.

Y mae Crist, ar ol dyoddef y felldith oedd yn y bygythion, wedi ordeinio y bygythion eu hunain i ddychwelyd ei bobl ato ei hun. Mae gwahaniaeth rhwng y bygythion a'r addewidion yn hyn. Mae yr addewidion yn dangos fel y bydd yn sicr ar eu gwrthddrychau, sef credinwyr; ond y mae'r bygythion yn cael eu cyhoeddi er dychwelyd eu gwrthddrychau hwy fel na byddo felly iddynt. Mae yn wir eu bod yn dangos penderfyniad Duw i gosbi pechod, a'r cysylltiad anwahanol sydd rhwng byw a marw ynddo â thragwyddol gosbedigaeth. Ond y mae hyn oll yn cael ei wasgu at gydwybod yr anghredadyn yn awr, nid i selio ei ddamnedigaeth, ond i'w ddychwelyd at Grist.

I. Mae dyben grasol cyhoeddiad y bygythion yn ymddangos os ystyriwn *natur y cyfammod wrth ba un y maent wedi eu cysylltu*. Cyfammod hedd a bywyd ydyw. Ynddo y mae bywyd a thrugaredd wedi eu darparu, a Duw yn dywedyd wrth yr euog, "Trugarog fyddaf." Holl iachawdwriaeth y pechadur ydyw, a'i holl ddymunriad. Dyben Duw yn ei lunio, a Christ yn ei gadarnhâu, a'r Ysbyrd yn ei weinyddu, yw dwyn y truenus i afael iachawdwriaeth. Beth bynag gan hyn sydd wedi ei gysylltu wrth hwn, mae yn rhaid mai dyben grasol y cyfammod sydd iddo. Yma y mae'r bygythiad a'r addewid, y ddeddf a'r efengyl, yn cydweithio at yr



un daioni. Mae Sinai a Chalfaria, Moses a Josua, law yn llaw, yn myned â theulu y cyfammod i'w gwlad. Pan yr oedd y Galatiaid yn tueddu i droi at y ddeddf, dangosai Paul mai yn yr addewid yr oedd Crist, cyfiawnder, a bywyd i'w cael. Yno y cawsai Abraham gyfiawnder, cyn rhoddiad y ddeddf; ac fe rag-efengylwyd iddo mai o'r un fan, yn yr un ffordd, y deuai yr un fendith at y Cenedloedd. Wele, meddynt hwythau, "beth gan hyny yw y ddeddf? Os nad oes cyfiawnhâu trwyddi, ac os nad oedd cyfiawnhâu trwy yr addewid hebddi, paham y rhoddwyd hi yn ychwaneg at yr addewid? "O herwydd troseddau," meddai Paul. I attal argyhoeddi, a chondemnio am bechod y rhoddwyd hi. Beth? meddynt hwythau, "a ydyw y ddeddf gan hyny yn erbyn addewidion Duw?" Mae'r naill yn condemnio, a'r llall yn cyfiawnhâu; a ydyw y ddwy, y ddeddf a'r efengyl, yn erbyn eu gilydd felly? Na, na, medd Paul, er fod eu gwaith yn wahanol, y mae'r ddwy yn perthyn i'r un cyfammod, ac yn cyrchu at yr un amcan; oblegid os yw'r ddeddf yn cau tan bechod, mae yn cau i'r ffydd, ac yn athraw at Grist. Mi äf fi at y pechadur di-deimlad, medd y ddeddf, i agoryd ei glwyf. Mi ddeuaf finnau gyda thi, medd yr efengyl, i roi yr olew a'r gwin yn ei archoll. Mi godaf fi y dymhestl yn ei gydwybod ef, medd y ddeddf. Mi ddangosaf finnau y lloches a'r ymguddfa iddo, medd yr efengyl. Fel hyn y mae cariad a gras yn yr un cyfammod yn cael eu trosglwyddo i feddwl y pechadur trwy y naill a'r llall.

2. Mae gwaith yr Arglwydd *yn mynych gyhoeddi y bygythion, ac eto yn hir oedi eu cyflawni*, yn dangos graslonrwydd ei amcan yn y cyhoeddiad o honynt. Gallasai weinyddu y gosb yn y man y camweddwyd, a galw'r troseddwr yn ddioedi i'r carchar; neu os mynasai ein goddef ar y ddaear, gallasai ein goddef a'n gadael heb ddywedyd gair wrthym am y gosb nes ei gweinyddu arnom. Ond paham y mae wedi gwisgo'r felldith yn ngeiriau y Bibl, a sefydlu y weinidogaeth i'w gwasgu at ein cydwybodau mewn rhybudd ar ol rhybudd, ac eto ei hoedi flynyddoedd lawer? O fy nghyd-bechadur, nid o eisieu cyfleusdra i dy daro y mae Duw wedi dy arbed. Y mae'r tân anniffoddadwy wedi ei barotoi i angylion cyn i ddyn syrthio; y mae Duw wedi parotoi ei saethau, annelu ei fwa, a hogi ei gleddyf. Nid oedi y mae ychwaith am nad wyt tithau yn ddigon addfed i'r dyrnod. Pa sawl mantais a

roddaist iddo i'th ddyfetha? Onid allasai dy ddamnio mewn atebiad i'th weddïau rheglyd? Onid allasai dy ollwng oddiar dy anifail yn dy feddwod i'r farn? Onis gallasai yn gyfiawn dy ddamnio pan yr oeddit yn troi adref o'r oedfa gan ddiffodd y cymhelliadau, a gwrthod ei Fab? Eto arbed y mae, a pharhâu i rybuddio, bygwth, ac ymryson trwy bob gorchwyliaethau, er pob gwrthnysigrwydd, nes y mae'r gelynyon yn gwatwor ac yn gofyn, "Pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef?" a'r saint yn y nef a'r ddaear yn synu ac yn gofyn, "Pa hyd ni ddieli?" I ba beth y byddai yr holl amynedd a'r llafur hwn? Paham y treuliai Duw nerth ei genadon fel hyn ond am ei fod trwy gyhoeddi'r felldith am roddi y fendith? "Hir ymarhous yw efe tuag atom ni, heb ewyllysio bod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch." Ha, y mieri a'r drain, "buan yr awn drwyddynt, ac y llosgwn hwynt ynghyd." Ond paham na wnelit ti, Arglwydd, a hwythau yn blino yn dysgwyl am danat i'r maes? Wele yn awr nis gwnawn yn fy myw; mae fy nghalon yn troi, a'm hedifeirwch yn cydgyneuu; mi a ddysgwyliaf i drugarhâu. "Pa fodd y'th roddaf i fyny?"

3. Mae bod y *bygythion yn cael eu cyhoeddi mewn dull ammodol* yn dangos fod i'r cyhoeddiad o honynt amcan grasol. "Oni ddychwel yr annuwiol, efe a hoga ei gleddyf," cystal a dywedyd, Os dychwel, efe a'i rhydd yn y wain. Y mae fel hyn addewid yn y bygythiad, a'r cysylltair "Oni" fel adwy i redeg trwyddi o ewinedd y bygythiad i fynwes yr addewid. Mi welaf ffydd wedi ysbïo'r bwch yn y bygythiad mwyaf ofnadwy, ac yn rhedeg drwyddo i ddiogelwch: "Yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn i'r orphwysfa, megys y dywedodd efe, Fel y tyngais yn fy lliid, na chaent ddyfod i mewn i'm gorphwysfa." Pa beth! a ydych chwi yn gweled drws i fyned i mewn y ffordd yna? Ydym yn ddïau. Onid yw Duw yn tyngu na chaiff dynion fyned i mewn? Ië, ond "wrth bwy y tyngodd efe na chaent hwy fyned i mewn i'w orphwysfa ef? onid wrth y rhai ni chredasant?" Wel ië yn sicr. Wel ynte, "yr ydym ni y rhai a gredasom yn myned i mewn i'r orphwysfa." Wrth dyngu na chaent hwy fyned i mewn, efe a dyngodd y caem ni fyned.

4. Mae gras yn cael ei weinyddu trwy gyhoeddiad y *bygythion er dychwelyd pechaduriaid, ac adeiladu y saint*. Mae rhybuddio am

y diluw wedi dwyn llawer i'r arch; y mae dyweyd fod Duw yn myned i ddinystrio y lle wedi peri i lawer ddianc o Sodoma; mae clywed fod yr Arglwydd yn myned i dramwy yn ei farn wedi dwyn aml bechadur dan arwydd y gwaed; mae cyhoeddi'r dymhestl wedi dyfod â rhai o weision Pharaoh i dŷ. Yr oedd hi yn ofnadwy, fy enaid, rhwng Duw a thithau ar Sinai; tân, a chwml, a thywyllwch, a thymhestl, a sain udgorn, a llef geiriau; llef geiriau'r ddeddf yn aredig dy galon. Beth er hyny? ti a geni byth am y tro; dyna y waith gyntaf y gwelaist ti werth Cyfryngwr; ti a gefaist yno Aberth a'i gwnaeth yn dawel byth; a llawer gwaith ar ol hyny y profaist ras Duw yn cael ei ddwyn i'th galon trwy fygythion ei air, pan, fe allai, y byddai yr addewid yn aneffeithiol. Y bygythiad a barodd i Noah ofni yn dduwiol, ac ufuddhâu i Dduw. Geiriau bygythiol y llyfr a feddalahödd galon y brenin Josiah. Llef yr Arglwydd yn ei farnau a ddygodd Habacuc i grynu, a than grynu i fyw trwy ffydd ar Grist nes profi gorphwysdra a gorfoledd yn Nuw ei iachawdwriaeth yn nydd trallod. Mae bygythion ein Tad nefol, fel ei geryddon, "er llesâd i ni."

### III. NID MODDION APPWYNTIEDIG I ACHUB A FYDD Y BYGYTHION BYTH.

Mae'r cleddyf yn ddaufiniog; a lle nad yw yn clwyfo er medd- yginiaethu, y mae yn clwyfo i ladd. O y mae cyflwr y pechadur ag y mae bygythion y gair yn darfod bod yn foddion gras iddo, yn anfeddyginiaethol! canys yna,

1. *Mae y ddeddf yn esgor.* Y Saesonaeg yma yw *decree: Before the decree bring forth*; y bygythion yn troi yn ddeddfryd ddigyfnewid, a Duw ar ei lw i'w gweinyddu. Tra nad yw y bygythion yn ddim *ond* bygythion, gallant, mewn cysylltiad âg annogaethau ac addewidion, fod yn foddion i ddychwelyd y pechadur; a llawer a gawsant eu dychwelyd drwyddynt. Ond pan y mae yn rhoi'r dyn i fyny, nid bygythion yn unig ydynt mwy. Y mae yr oll oedd ammodol ynddynt yn cilio, a phob adwy yn cael ei chau, a hwythau yn troi yn ddeddfryd ddiwrthdro o orsedd Duw ar berson y pechadur, a hono yn cael ei chofrestru yn llys y nef yn erbyn ei fywyd, a chyfiawnder a gallu Duw wedi eu rhwymo trwy lw i'w gweinyddu yn yr amser appwyntiedig. Nid, "Oni chredwch, chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau," yw'r iaith mwyach; nid

oes bellach nac *os* neu *oni* yn y mater; y mae yr efengyl yn ddywedyd mor bendant â'r ddeddf, "Meirw fyddwch." Bygythiodd Duw ei bobl Israel lawer gwaith; ond yr oedd Moses yn cael lie i ddadleu drostynt, ac yn llwyddo; eithr pan dyngodd Duw yn ei lid na chaent fyned i Ganaan, ni cheisiodd Moses byth fyned; a phan fynai'r bobl fyned, "Yr ydych yn troseddu ac yn rhyfygu," medd Moses; "hyn ni lwydda;" ni ddaw yr arch na minnau un cam o'r gwersyll. Ië, ond y maent yn edifarhâu, ac yn drist odiaeth, Moses. "Ni lwydda;" mae'r llw wedi pasio. "Nid dyn yw Duw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhâu." O ddyn anobeithiol! y mae Duw yn edrych dros yr holl ymryson fu rhyngddo â thi, ac yn tyngu na fyn efe ychwaneg i wneyd â thi byth; y mae yn edrych dros dy bechodau, ac yn tyngu na wneir iawn am danynt âg aberth na bwydoffrwm byth; y mae yn edrych dros dy holl regfeydd a'th lwon, ac yn tyngu, "Fel y llefarasoch yn fy nghlustiau, felly y gwnaf i chwi." O ddyn truenus ei gyflwr! y mae Duw yn edrych dros holl fygythion y gair, ac yn myned ar ei lw i ddwyn yr holl felldithion hyn arnat ti. Dychwelwch, O bechaduriaid, cyn i'r ddeddf esgor.

2. *Mae dydd y dynion hyn, eu dydd gras, wedi myned heibio.* Mae yn myned heibio fel peiswyn gyda phawb o honom; ond y mae yn bosibl ei fod *wedi* myned heibio ar rai. Fe allai fod dydd eu bywyd a'u llwyddiant bydol yn parhâu, fel dinas a fu yn mwynhâu tawelwch am ronyn, er ei bod wedi gwrthod ammodau heddwch. Ond y mae'r ystorm yn ymyl. Mae pob heddw-negesydd wedi ei alw adref, y gair a'r gydwybod wedi tewi, a'r dyn wedi ei roddi i'w gadw yn nghadwynau ei chwantau a'i galedwch i ddydd y farn i'w boeni. O fy enaid, ai llawenhâu yr ydwynt dy fod yn medru pechu gyda mwy o bleser, a gwrando gyda llai o ofn, a'r gair yn myned yn fwy dieffaith ar dy galon? Gwylia rhag mai Duw sy'n dechre dy roi i fyny, a dydd gras yn dechre cilio. "Mi a wn," ebe'r prophwyd, "i'r Arglwydd arfaethu dy ddinystrio di, am na wrandewaist ar fy nghynghor i." Ac am feibion Eli y dywedir, "Ni wrandawsant hwy ar lais eu tad, am y mynai yr Arglwydd eu lladd hwynt." Paham y mae yr efengyl mor ddieffaith i lawer yn ein cynulleidfaoedd a'n Hysgolion Sabbothol? Ni ddywedaf fi ond hyn: y bobl y mae Duw yn galw arnoch, gwrandewch ef; y bobl y mae cymhelliadau trwy'r gair arnoch

i edifarhâu a chredu, gweithiwch tra y mae hi yn ddydd. "Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau."

3. *O'r diwedd, y mae dydd soriant yr Arglwydd yn dyfod*: y ddeddf yn esgor yn y cyflawniad; y darfodiad terfynedig, gosod-edig (*decreed*) yn llifo trosodd mewn cyfiawnder, a'r dyn oedd yn cael ei arbed hyd ddydd dial yn cael ei ddwyn allan yn nydd cynddaredd. Fe ddaw y dydd hwnw o'r diwedd, bechadur; y dydd y bydd Satan yn dyweyd wrthyt, Heddyw y byddi gyda mi yn y tân anniffoddadwy! Daw, fe ddaw, wrthodwr Crist; mae yn brysio yn ffest. Brysia di, gan hyny, a dianc i'r noddfa. Yn achos y wraig anniwair yn Israel, byddai geiriau llw y felldith yn cael eu golchi i'r dwfr melldigedig, a'r cwbl yn cael ei arllwys i goluddion yr euog. "Aed," medd y farn, "o'i mewn hi." Pan fyddai y felldith ysgrifenedig wedi ei chrafu oddiar y *parchment* yn lân, a'r cwpan yn wag, yna dyna'r felldith o'i mewn hi yn gweithio pydredd. O ddynion, ddynion! yn y llyfr y mae'r felldith heddyw; ond yn fuan, fuan, fe fydd Duw yn ei golchi i'r phiol, ac annuwiolion y tir yn yfed ei gwaelodion. Bydd sylwedd geiriau Duw yn chwerwi cydwybod yr annuwiol oesoedd wedi oesoedd, ar ol i inc a phapyr y llyfr fyned i ddi-dymdra.

Ond, bendigedig fyddo Duw! am danat ti a ddychwelodd at Dduw yn Nghrist, nid oes llythyren o'r felldith ar y llyfr yn dy erbyn, na dyferyn o honi yn chwerwi dy goluddion. Golchwyd hi i'r gwpan yn Gethsemane, ac yfwyd hi ar y groes; ac weithian nid oes i ti, gredadyn, ddim damnedigaeth; mae dy gydwybod wedi ei phuro, a dy ddyfroedd chwerwon wedi eu troi yn fendith, fel yr oedd gyda'r wraig os byddai yn ddieuog, i beri i ti ddwyn ffrwyth i Dduw. Tithau yr anedifeiriol a'r digred hyd yn hyn, dychryna, dianc, tyred at Grist cyn i'r ddeddf esgor. Os unwaith y twng Duw yn dy erbyn, ni eilw efe ei air yn ol. Ti a aethost dan ddeddfryd unwaith trwy dori y ddeddf; eithr fe gafwyd trefn i symud y ddeddfryd hono trwy aberth. Ond os syrthi dan y ddeddfryd am wrthod yr efengyl, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach—dim ond rhyw ddysgwyl ofnadwy am farnedigaeth. O, medd rhyw bechadur, yr ydwyf fi yn crynu ac yn wylu rhag fod fy nhynged wedi pasio, a'm dydd wedi



darfod. Nac ydyw yn wir, fy enaid, arnat ti sydd yn crynu; pe buasai wedi myned heibio, buasit yn rhy galed i wylo. Os oes yna y teimlad lleiaf yn dy fynwes, a'r deigrin lleiaf ar dy rudd mi waeddaf, Yn awr yw'r amser cymeradwy; yn awr yw dydd iachawdwriaeth. Cymer galon, y mae Efe yn dy alw di.

IV. PAN Y MAE YR ARGLWYDD YN DYFOD ALLAN AR LWYBER EI FARNEDIGAETHAU, Y MAE YN PERTHYN I'R DUWIOLION YMBAROTOI I GYFARFOD A'U DUW. "Ceisiwch yr Arglwydd, holl rai llariaidd y ddaear."

Paham yr oedd yr unig bobl oedd yn glynu wrth yr Arglwydd, yn cael eu galw i geisio yr Arglwydd, y rhai cyfiawn i geisio cyfiawnder, a rhai llariaidd y ddaear i geisio llarieidd-dra? Dengys hyn fod ynglŷn â llygriad cyffredinol y wlad, adfeiliad wedi dyfod i mewn i'r eglwys. Anaml y mae'r byd yn myned rhagddo mewn drwg heb fod y saint yn adfeilio mewn crefydd; ac y mae felly yn wastad cyn i farn gael ei thywallt. Pa fodd y mae'r byd, Micah? Yn "gwneuthur drygioni â'r ddwy ddwyllaw yn egniol." A pha fodd y mae yr eglwys? "Fel lloffion grawnwin y cynauaf gwin," ymron wedi darfod oddiar y ddaear. Beth fydd y diwedd? "Dydd eu gwylwyr a'u gofwy sydd yn dyfod; bellach y bydd eu penbleth hwynt." Pa fodd y mae'r byd, Iesu mawr? Y mae "anwiredd yn amlhâu." A pha fodd y mae yr eglwys? Mae "cariad llawer yn oeri." Yr amser yr oedd y pethau mwyaf ofnadwy ar ddisgyn ar y wlad, yr oedd dysgyblion Crist mewn perygl o gael eu trymhâu gan lythineb, a meddwod, a gofalon y bywyd hwn.

Onid oes adfeiliad mawr mewn byw ar Grist a'i gyfiawnder, mewn sancteiddrwydd calon, ac mewn llarieidd-dra tymher y dyddiau hyn? Y mae'r byd gwladol a chrefyddol fel pe byddai'r seren a elwir Wermod wedi disgyn ar eu dyfroedd; a da fydd os na cheir llawer o broffeswyr wedi marw ynddynt. Lle mae dynion yn berthynasau neu yn hen gyfeillion, neu yn ymuno yn blaid i wrthwynebu plaid, fe allai fod ymddangosiad o gariad. Ond pa le, lle na byddo dim o hyn, y mae ysbrydoedd yn cael eu toddi i'w gilydd yn yr efengyl, nes bod yn ddiog i ddigofaint, yn barod i faddeu, a holl hyfrydwch y naill yn y llall?

“Ceisiwch yr Arglwydd.” Yr ydych wedi adfeilio. A cheisiwch hefyd gyfiawnder a llarieidd-dra yn awr, am fod eisieu gradd arbenig o honynt i gyfarfod â Duw yn ei farn. “Gan fod yn rhaid i hyn i gyd ymollwng, pa ryw fath ddynion a ddylech chwi fod mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb?” Mae eisieu bod yn sanctaidd a duwiol yn wastad; ond yn awr y mae eisieu bod yn “rhyw fath ddynion,” y fath berffeithiaf ynddynt. Mae'r farn yn dyfod, medd Habacuc, a thrwyddi bydd Duw yn dadleu â'm hysbryd. “Beth a atebaf pan y'm cerydder?” Nid oes genyf ddim yn wyneb pob cerydd i'w ateb ond hyn: “Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd;” ac mi a redaf at Grist a'i gyfiawnder, doed a ddêl. O grefyddwyr, os ä Duw i ysgwyd ein gwlad ninnau â'i farnau, ac i ladd ein cymydogion trwy y *cholera* ar aswy ac ar ddeau, chwi a gewch weled y bydd y barnau allanol yn cario cerydd i'r gydwybod yn dufewnol. Cewch, chwi a gewch weled y bydd yr Arglwydd yn edliw y chwantau sydd heb eu marweiddio, a'r cwympiadau sydd wedi eu hanghofio, ond erioed heb eu hiachâu yn ngwaed Crist. Y diwrnod hwnw fe fydd myfyrdodau, gweddïau, a bywyd diffrywth â gwedd arall arnynt yn ngolwg dy feddwl. Beth a atebi pan y'th gerydder? Dedwydd fyddi os medri wneyd dy lwybr at Grist.

Ceisiwch y pethau hyn, o herwydd pa faint bynag sydd genych o honynt, y mae eisieu mwy. Mae eich llafur am danynt i fod yn ddiiddiwedd tra ar y ddaear. Ceisiwch gyfiawnder Crist tra y cynhyrfo tuedd ddeddfol o'ch mewn; ceisiwch sancteiddrwydd nes eich digoni â'i ddelw Ef; ceisiwch yr Arglwydd nes ei weled fel y mae.

V. NID YW DUW YN GALW I DDYLEDSWYDDAU HEB RODDI ANNOGAETHAU I'W CYFLAWNI. “Fe allai y cuddir chwi,” medd yr annogaeth yn y testun.

Dychwelwch; *fe allai y cuddir chwi yn wladol*. Pan y mae gwledydd eraill eisoes dan y farn, a'r lleill â'u tynged wedi pasio, ni feddylw'n fod clorian Prydain eto yn llaw penarglwyddiaeth Duw he'r fantoli; ac felly dychweliad a'i troai i ochr trugar-eod. Pan y mae seiliau'r ddaear yn crynu wrth gerydd Duw, a dynion wrth y miloedd yn disgyn i dragywyddoldeb fel y locustiaid i'r môr, O na welem ein gwlad yn ofni, ac yn ymroddi i geisio yr Arglwydd! Pe deuai yr eglwys ymaith oddi-

wrth y byd, a'r byd ymaith oddiwrth ei bechodau, fe allai y cuddid Prydain.

Neu os daw y farn ar y wlad, dychwelwch, ac *fe allai y cuddir chwi yn bersonol*. Medrodd Duw guddio Noah rhag y diluw, a Lot rhag y tân. Os bydd y *cholera* yn cael cenad i dramwy'r wlad, medr Duw guddio dy fwthyn bychan dithau yn nghysgod ei law fel na ddaw'r pla yn agos i'th babel.

A pha beth bynag am hyny, *fe guddir y dychweledig yn dragywyddol*. Nid "fe allai" yw hi gyda golwg ar fod yn gadwedig yn y byd a ddaw; ond y mae pob sicrhâd y caiff y dychweledig fyw yn dragywydd; caiff, "fel mai byw fi, medd yr Arglwydd Dduw."

Ceisiwch ynte, fy nghyfeillion, gyfiawnder a llarieidd-dra; felly chwi a fyddwch yn ogoniant i Dduw ymhob cyflwr; ac fe fydd heddwch oddimewn, pa fodd bynag y bydd oddiallan. Pan fyddo fy nghydwbybod wedi ei thangnefeddu trwy gyfiawnder Crist, fy ewyllys wedi ei cholli yn ewyllys Duw, a'm nwydau terfysglyd wedi eu llarieiddio yn rhinwedd yr efengyl, yna deued a ddelo, mi a gaf dangnefedd. Deued rhyfel, caf fi heddwch; deued tlodi, ni bydd eisieu arnaf; ië, deued angeu, ceir fi ganddo Ef mewn tangnefedd; ac mi a af drwy angeu i dangnefedd byth.

## PREGETH X.

### DONIAU CYFFREDINOL A GRAS CADWEDIGOL.

HEBREAID vi. 9: "Eithr yr ydym ni yn coelio am danoch chwi, anwylyd, bethau gwell, a phethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth, er ein bod yn dywedyd fel hyn."

**Y** MAE dull yr Apostol o ymwneyd â'r Hebreaid yn y lle hwn yn esiampl barhâus, i ddangos pa fodd i ymdrin âg eneidiau dynion gyda golwg ar eu hachos tragywyddol. Mewn cysylltiad â'r cyd-destun, neu yr adnodau blaenorol o'r bennod hon, efe a ddengys ar un llaw nad oes un cyrhaeddiad mewn crefydd a gyfiawnhâ i ddyn am fynydd ymddiofalfhâu—nad oes un sicrwydd gobaith na ddylai fod yn gymysgedig âg ofn. Ar yr un pryd, y mae yn ymdrin â'r mater hwn gyda thynnerwch mawr. Ceir ef yn gyffelyb i arweinydd doeth a ffyddlawn, yr hwn fydd yn dywedyd yn onest am y peryglon, ac yn galw y teithwyr i fod yn ofalus a gwyliadwrus, trwy ddangos y clogwyni dros ba rai y syrthiodd eraill i'w dinystr; eithr ar yr un amser efe a'i cymhella hwy i fyned ymlaen yn galonog, ac i fod yn hyderus am gyrhaedd pen y daith, gan droi pob rybudd a phob esiampl alaethus yn symbyliad i lafur egniol, ac nid yn gefnogiad i ymollyngiad swrth. Felly y cawn yr Apostol yn y testun: wedi cyhoeddi diwedd arswydol gwrthgilwyr, wele efe yn prysuro i wneyd math o esgusiad dros ei waith yn dywedyd felly wrth yr Hebreaid crisiongol, ei anwyl frodyr—y rhai anwyl iawn ganddo;

“anwylyd,” fel eu geilw. Mynai, yn wir, iddynt gymeryd rhybudd oddiwrth y gwrthddrychau euog a thruenus a syrthiasent ymaith yn anadferadwy; eto y mae efe yn y modd mwyaf serchog yn hysbysu iddynt ei fod yn coelio am danynt hwy bethau gwell—pethau gwell na dim a gawsai y lleill—a phethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth, er ei fod wedi dywedyd wrthynt am yr hyn oedd alarus a brawychus iawn.

Am bethau perthynol i deyrnas y Gwaredwr, ac i achos eneidiau anfarwol—pethau ysbrydol, fel eu gelwir genym—y mae yr Apostol yn llefaru yma. Ac yr ydym yn canfod ei fod yn dosbarthu y pethau hyny i ddau fath. Am y pethau cyntaf, y mae cystal â'u haddef yn bethau da; ond am bethau yr ail ddosbarth, mae yn eu galw yn “bethau gwell;” pethau uwch eu natur, a rhagorach eu canlyniadau. Doniau cyffredinol yr Ysbryd Glân yw y naill, a gras cadwedigol yr Ysbryd yw y lleill. Mae y naill bethau yn gadael eu deiliaid yn agored i syrthio ymaith—yn eu gadael, fel y dengys yr adnod o flaen y testun, fel y ddaear ddiffwrwyth, neu ddaear yn dwyn ffrwythau'r felldith, “drain a mieri, yr hon sydd anghymeradwy, ac agos i felldith, diwedd yr hon yw ei llosgi,” a'r pethau eraill yn dybenu yn “iachawdwriaeth” eu perchenogion. Nis golygir nad yw gwir gredinwyr yn gyfranogion o ddoniau cyffredinol yr Ysbryd; ond y maent hwy yn gyfranogion hefyd o bethau mwy a gwell, tra nad oes gan y lleill ond y cyfryw ddoniau yn unig. Mae y ddau ddosbarth hyn i'w cael yn wastad yn eglwys Dduw: rhai heb feddu dim mwy na'r doniau cyffredinol, ac eraill yn meddu hefyd y gras cadwedigol.

Dylai esiamplau y cyfryw ddynion ag “a oleuwyd unwaith, ac a brofasant y rhodd nefol,” ac felly ymlaen, ein cadw ni rhag bod yn uchelfryd, eithr peri i ni ofni yn wastadol. Ond ni a welwn nad oes dim achos ofni nas gall yr efengyl wneuthur chwaneg, rhoi dim mwy, na'r pethau a gafodd y rhai hyny; canys dyma ganddi hi “bethau gwell” i'w rhoddi. Yn y rhestr o'r pethau da a nodir yn flaenorol, nid oes dim o'i phethau uchaf hi yn cael eu henwi—dim un o'r rhai sydd yn cyfansoddi enaid yn wir gredadyn, ac yn perthyn iddo fel y cyfryw. Ni chrybwyllir yma am eni o Dduw, am gyfiawnhâu trwy ffydd, am ffydd yn gweithio trwy gariad, am newid i ddelw Duw, am sanctaidd



ymarweddiad a duwioldeb, nac am ysbryd mabwysiad trwy yr hwn y mae'r duwiol yn llefain Abba, Dad. Gwir fod y rhai y cyfeirir atynt yma wedi eu "goleuo unwaith;" ond nid oeddynt wedi eu "cyflawni â gwybodaeth ei ewyllys Ef ymhob doethineb a deall ysbrydol," nac yn "cynnyddu yn ngwybodaeth am Dduw." Hwy "a brofasant y rhodd nefol;" ond ei harchwaethu, heb ymborthi arni yn wastadol, a wnaethant. Gwnaethpwyd hwy "yn gyfranogion o'r Ysbryd Glân," a hyny, fe allai, fel ag i ddoniau yr Ysbryd eu gwneuthur yn ddefnyddiol gydag ordin-hadau crefydd, a'u galluogi, hwyrach, i wneuthur gwrthiau yn enw Crist; ond ni chyfodwyd hwynt i fod yn demlau i'r Ysbryd Glân, nac i arddangos "ffrwyth yr Ysbryd, yr hwn sydd ymhob daioni, a chyfiawnder, a gwirionedd." Do, hwy "a brofasant ddaionus air Duw," nes cael teimlad cysurus o'i felusder, yn debyg i'r hwn a hauwyd ar y creigleoedd "yn gwrando y gair, ac yn ebrwydd trwy lawenydd yn ei dderbyn;" ond ni wnaethant hwy fel y gwnaeth y Salmydd: "Cuddiais dy ymadroddion yn fy nghalon, fel na phechaf i'th erbyn;" ac ni chafwyd hwy fel y Rhufeiniaid a alwyd i fod yn saint, yn "ufuddhâu o'r galon i'r ffurf o athrawiaeth a draddodwyd iddynt." A hwy a brofasant hefyd "nerthoedd y byd a ddaw," nes cael amgyffrediaidau a theimladau cryfion am bwysigrwydd tragywyddoldeb ac am ogoniant y nefoedd; ond ni wybuant ddim am ddechreuad nefoedd yn ei chariad a'i phurdeb o'u mewn. Mae hyn, yn ddiau, yn galw arnom ninnau i ofni; eto nid oes achos ofni, oddiwrth gwmp proffeswyr fel y rhai hyn, am ddiogelwch tragywyddol y bobl sydd yn meddu'r pethau gwell; o herwydd y mae'r pethau hyny, fel y gwelwn, ynglŷn wrth iachawdwriaeth—wrth gadwedigaeth yr enaid byth. Nid oedd dim iachawdwriaeth yn y pethau cyntaf, er y gallasai fod cryn enwogrwydd a mwyniant am yr amser ynglŷn â'r pethau hyny.

Yr unig beth, gan hyny, sydd genym ni i'w ofni ydyw esgeuluso neu gamgymeryd y pethau y mae iachawdwriaeth ynglŷn â hwy. Ac felly er mwyn dangos y posibilrwydd a'r perygl o gamgymeryd y naill am y lleill, ac er ein dysgu i adnabod y pethau gwell, a'n cymhell i'w ceisio, ni a geisiwn ddangos, tra y mae'r doniau cyffredinol a gras y bywyd mewn ymddangosiad yn debyg

i'w gilydd, eto fod gwahaniaeth annhraethol rhyngddynt â'u gilydd, ac am hyny nad yw y sail oreu i goelio am ein gilydd ein bod yn wir gredinwyr ddim yn cau allan yr anghenrheidrwydd o "ddywedyd fel hyn," sef o ddwyn bygythion y gair ac ystyriaethau difrifol yr efengyl at gydwybodau proffeswyr, i'w dychrynu a'u cyffroi i weddio ac ymdrechu rhag tynu yn ol a syrthio yn fyr o iachawdwriaeth.

I. MAE Y DONIAU SYDD DAN SYLW, A'R GRAS Y CYFEIRIR ATO, AR RYW GYFRIFON, YN DEBYG I'W GILYDD.

Am ddeiliaid y doniau cyffredinol, a deiliaid gras cadwedigol yr efengyl, ceir hwy yn aml yn anhawdd eu gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd. Ar yr un pryd, rhaid i ni ddywedyd nad oes neb yn camgymeryd yn y mater hwn i'w dinystr eu hunain ond proffeswyr anghywir a diofal; dynion na fynant, o herwydd eu cariad at bechod, wybod y gwirionedd. Ond y mae tebygrwydd y pethau hyn i'w gilydd yn peri fod yn berygl i ddynion dwyllo eu hunain. Am hyny y mae'r Bibl yn ysgytian proffeswyr o'u difrawder, ac yn eu galw i ystyried y mater yn drwyadl. "Profwch chwychwi eich hunain a ydych yn y ffydd; holwch eich hunain. Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, sef bod Iesu Grist ynoch, oddieithr i chwi fod yn anghymeradwy?" "Bydd ddyfal i'th osod dy hun yn brofedig gan Dduw." "Profed pob un ei waith ei hun, ac yna y caiff orfoledd ynddo ei hun yn unig, ac nid mewn arall." "Byddwch ddiwyd i wneuthur eich galwedigaeth a'ch etholedigaeth yn sicr."

Mae annogaethau o'r fath yma ar unwaith yn dangos fod yn bosibl i ddyn wybod beth ydyw ger bron Duw, ac eto bod gymaint o anhawsder yn y mater fel y mae yn gofyn llafur a dyfalwch i'w gyrhaeddyd. Ac un peth sydd yn gwneyd hyny yn anhawdd yw bod rhywbeth tebyg i dduwioldeb, a rhywrai dros ryw hyd yn debyg i dduwiolion, ac er hyny heb fod felly mewn gwirionedd. Ar lawer o gyfrifon, y mae proffeswyr yn gydradd neu yn gyffelyb. Dyna hwy yn aelodau o'r un eglwysi, yn proffesu yr un ffydd, ac yn addoli mewn cysylltiad â'r un ordinhadau. Mae y naill fel y llall yn ymgadw rhag beiau ysgeler, a'r naill fel y llall yn cyflawni llawer o'r un fath ddyledswyddau crefyddol.

A gellid meddwl nad ydynt yn annhebyg ychwaith o ran y dyn

oddimewn. Mae yr un pethau yn ysbrydoedd y ddwyblaid, a'r rhai hyny yn bethau da, a phethau o ansawdd ysbrydol, ac yn gwneyd ysbryd y dyn nad yw yn meddu ond y pethau hyny eu hunain ar lawer pryd yn debyg i ysbryd y dyn sydd wedi cyrhaedd meddiant o'r pethau gwell. Edrychwch ar y pethau a nodir yn flaenorol, y pethau y mae'r testun yn eu cyferbynu â'i bethau gwell: y goleuo unwaith, profi y rhodd nefol, a'r lleill. Pan weloch chwi ddyn yn dringo ac yn sefyll ar ben y grisiau hyn, diammheu y gellwch ddyweyd, "Nid wyt ti bell oddiwrth deyrnas Dduw." Rhaid fod hwn yn ddyn sydd â rhywbeth yn ei ysbryd oddiwrth Grist fel Gwardwr. Nid doniau naturiol, na rhagoriaethau cyrhaeddadwy gan ddynion o honynt eu hunain ydynt; nid y doethineb a'r cymhwysderau y mae Duw natur yn eu rhoddi i ddynion tuag at orchwylion a sefyllfaoedd y byd hwn. Na, y mae'r doniau hyn yn perthyn yn nês i deyrnas y Cyfryngwr. Efe trwy ei gyfryngdod a'i farwolaeth a'u hennillodd i'w eglwys. Ac efe fel Cyfryngwr wedi ei ddirchafu trwy ddeheulaw Duw, ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Ysbryd Glân, sydd yn tywallt y peth yma i ysbrydoedd dynion. Ac fel y maent yn ffrwyth cyfryngdod Crist, y maent hefyd yn gynnyrchion yr Ysbryd Glân yn meddyliau dynion. Yn a thrwy y gweithrediadau hyn y mae dynion yn cael eu gwneuthur, fel y dangosir yma, yn gyfranogion o'r Ysbryd Glân. Er nas gellir dywedyd ei fod ef yn preswyllo ynddynt fel gwreiddyn gras a sancteiddrwydd, eto y mae yn bresennol gyda hwy mewn dull mwy neillduol na chyda neb arall ar dir natur. Ac y maent hefyd yn bethau ag y mae yr Ysbryd yn eu gweithio ar ysbrydoedd dynion drwy yr efengyl, ac ar eu derbyniad o honi. Pe buasent yn cael eu rhoddi i ddynion amlwg ddrygonus, buasai y gwahaniaeth rhyngddynt â duwioldeb yn llawer mwy eglur. Fel o'r dechreuad felly yn awr: arwyddion ydynt a ganlynant y rhai a gredant. Megys yn Samaria, yn Galatia, ac yn nhŷ Cornelius, maent yn dyfod gyda gwrandauiad ffydd, ac yn arwydd o ryw ymostyngiad i'r efengyl a phroffes o honi.

Ymhellach, y mae rhyw gyfathrach rhwng y doniau hyn â gwir ras. "Doniau ysbrydol," a "rhodd nefol," y gelwir hwy. Y maent felly, nid yn unig o ran eu Hawdwr, ond am eu bod yn codi dynion cnawdol a daearol, a chreaduriaid dwl a

dideimlad, i ryw fywyd ac ymarferiad tra effeithiol gyda dyledswyddau, a phethau a elwir yn ysbrydol, ynglŷn â'r efengyl. Yr ydych chiwi, fe allai, yn aml yn camgymeryd am ragrithiwr, yn meddwl mai dyn ydyw yn wastad sydd yn hõni fod ganddo rywbeth pryd nad oes ganddo ddim. Na, y mae gan y dyn rywbeth, a hwnw yn beth da, yn beth crefyddol, ac yn beth tebyg i wir grefydd; ond nid yw y peth y cymerir ei fod. Dyn anianol ydyw ef; eithr y mae rhyw weithrediadau ysbrydol o'i fewn, tra chyffelyb i'r eiddo gwir grefydd. Gall fod argyhoeddiad yn y gydwybod, goleuni yn y meddwl, galar am bechu, diwygiad oddiwrth bechod, cydsyniad cryf â'r gwirionedd, ac, ar ryw gyfrifon, llawenydd a gorfoledd yn mhethau Duw. Mewn gair, gall fod yno rywbeth am bob peth sydd gan wir gredadyn, rhywbeth tebyg i bob peth y mae'r Bibl yn gofyn am dano i brofi undeb â Christ, ac mor debyg i'r gwir bethau nes y byddo'r dyn ei hun yn meddwl mai pethau cadwedigol ydynt. Ac am ei frodyr, mae yn iawn i ddyn obeithio felly.

Bellach, ond odid nad yw yr enaid difrifol yn grynedig a digalon yn wyneb ystyriaethau o'r fath yma; ond mi a garwn ofyn iddo, Pa beth sydd yn peri i ti ymollwng a llwfrhâu? Ai ofni yr ydwyt y gelli, er bod yn gredadyn, syrthio ymaith a myned yn golledig? Gwybydd nad oes dim yn yr oll a ddywedwyd yn sail i gyfryw ofnau; o herwydd nid am gredinwyr y buom ni yn son. Mae credinwyr yn dyfod yma i'r golwg o dan nôd o wahaniaeth oddiwrth y rhai a fu dan ein sylw. Heblaw pethau da y rhai hyny, y maent hwy yn meddu pethau gwell, a'r pethau hyny yn eu diogelu rhag syrthio ymaith i'w dinystr; canys y maent yn bethau ag y mae iachawdwriaeth yn gynnwysedig ynddynt ac ynglŷn â hwynt. Ymysg yr holl bethau mawrion a da a briodolir i'r personau a ddarlunir yn yr adnodau blaenorol i'r testun, nid oes, fel yr awgrymasom eisoes, ddim cymaint âg un peth yn cael ei nodi ag sydd yn cyfansoddi neillduolrwydd credadyn, ac yn perthyn yn wahaniaethol iddo fel y cyfryw; ac felly nid oes sail i ofni am iachawdwriaeth credinwyr oddiwrth dynged y bobl hyny. Sylwn gan hyny yn

II. MAE GWAHANIAETH A RHAGORIAETH RHWNG Y PETHAU SYDD YNGLŷN WRTH IACHAWDWRIAETH AR Y DONIAU UCHAF, "Pethau gwell" ydynt.

1. *Mae gras yn tarddu o ffynnon fwy neillduol na'r doniau cyffredin.* Duw, mae yn wir, yw awdwr y naill a'r llall; ond y mae gras y bywyd yn ffrwyth cariad tragywyddol Duw at berson y pechadur. Gall doniau fod yn ganlyniad ethol i swyddau; ond y mae gwir ras yn dyfod i'r galon mewn canlyniad i ethol i iachawdwriaeth. Mae Duw yn ei gynghor bore wedi neillduo iddo ei hun yr enaid a gedwir; ei ordeinio i fywyd tragywyddol, ei appwyntio i gaffael iachawdwriaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Dyma achos y pethau sydd ynglŷn wrth yr iachawdwriaeth hon: "A chariad tragywyddol y'th gerais; am hyny tynais di â thrugaredd." Am hyny y rhoddwyd Crist yn Ben bywiol iddo, a'r Ysbryd i drigo o'i fewn. Am hyny y mae'r cyfiawnhâu, y maddeu, a'r sancteiddio. "Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a'n bendithiodd ni â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd yn Nghrist; megys yr etholodd efe ni ynddo ef cyn seiliad y byd, fel y byddem yn sanctaidd ac yn ddifeïus ger ei fron ef mewn cariad." "Yr hwn," sef Duw, "a'n hachubodd ni, ac a'n galwodd ni â galwedigaeth sanctaidd, nid yn ol ein gweithredoedd ni, ond yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras, yr hwn a roddwyd i ni yn Nghrist Iesu cyn dechre y byd." "Nyni a ddylem ddiolch yn wastad i Dduw drosoch chwi, frodyr caredig gan yr Arglwydd," medd Paul wrth y Thessalonïaid, "oblegid i Dduw o'r dechreuad eich ethol chwi i iachawdwriaeth, trwy sancteiddiad yr Ysbryd a ffydd i'r gwirionedd." Chwi a welwch yma mai iachawdwriaeth yw yr amcan, ac mai sancteiddiad yr Ysbryd, a ffydd i'r gwirionedd, yw'r moddion, ond mai ffynnon y cwbl yw etholedigaeth Duw. Am fod Duw o'r dechreuad wedi ethol i iachawdwriaeth trwy sancteiddiad yr Ysbryd, y mae efe mewn amser yn galw â galwedigaeth sanctaidd yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras. Fel hyn y mae perthynas grasau y saint â chariad Duw yn eu gwneyd yn bethau uwch eu natur na'r doniau cyffredin; a dyma nôd o wahaniaeth arnynt yn y Bibl. "Ffydd etholedigion Duw" y dynodir y ffydd achubol, a galwedigaeth yn ol ei arfaeth ef" yw yr alwedigaeth effeithiol.

Onid pa fodd y gwybyddwn ni y gwahaniaeth hwn? Gall llawer enaid ofnog ddywedyd, Mi a wn fod yn fy mynwes deimladau crefyddol; ond pa sut y gallaf wybod ai ffrwyth cariad tragywyddol Duw tuag ataf ydyw hyny, ac felly eu bod yn



bethau sydd ynglŷn wrth iachawdwriaeth? Ni a allwn ateb fod tuedd mewn gras yn enaid dyn i arwain y meddwl yn ol i'r ffynnon o'r lle y tarddodd. Mae doniau yn unig yn gadael dyn i ymddifyru ynddo ei hun. Os bydd y rhai hyn wedi dyfod i ryw ymarferiad nodedig mewn dyledswydd, dyna'r dyn yn troi i edrych ar ei degwch ei hun, ac i lawenychu yn ei waith a'i dalantau. Ond y mae gras, yr hwn a darddodd o gariad Duw, yn dwyn yr enaid yn ol at Dduw yr hwn a garodd, ac yn cynhyrfu'r galon i'w fawrhâu yn ddiolchgar, ac i'w garu ef yn ol. Mae yn wir fod yr enaid duwiol yn ymhyfrydu yn ei agweddau grasol ei hunan; ond yn a thrwy y cyfan y mae yn ymhyfrydu yn Nuw. Ymhyfrydu y mae yn ei ras ei hun am ei fod yn ffrwyth a gweithrediad gras Duw. Mae cofio am y gras a rodded yn Nghrist cyn dechreu'r byd yn deffro gras yn yr enaid, a'r gras hwnw, drachefn, pan mewn gweithrediad bywiog yn arwain yr enaid mewn mawl a diolchgarwch at raslonrwydd diddechre a diderfyn Duw pob gras. Tra y mae eraill yn cweryla âg etholedigaeth, mae yr enaid hwn yn addoli, ac yn cydnabod mai dyma ffynnon y cwbl. "Trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf." Mae y gragen, chwi a dybygech, pan y rhowch hi wrth eich clust, yn cario yno sŵn y môr o'r lle y daeth hi; yr ydych megys yn clywed y môr o bell yn swinio. Felly y mae gras yn enaid crïstion yn cario iddo sŵn y cariad tragwyddol, y môr diwaelod a di ben draw o ddaioni. Oddiyno y daeth, ac yno y dychwel eilwaith mewn rhyfeddu a chlodfori. O fe fydd y gân yn groëw ac yn newydd byth yn nef y nefoedd: "Iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun, ac a'n gwnaeth ni yn freninoedd ac yn offeiriad i Dduw a'i Dad ef; iddo ef y byddo'r gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen!"

2. *Mae gras yn well na doniau, oblegid fod y doniau yn cael eu rhoi i ddyn er mwyn eraill yn benaf, ond gras yn gyntaf ac yn benaf er mwyn y dyn ei hun, ac i'w lesâd ei hun.* Pell ydwyf oddiwrth feddwl nad yw y doniau cyffredinol sydd gan grïstion yn llesâd iddo ei hun; a phellach ydwyf oddiwrth ddywedyd nad yw ei ras yn ei wneyd er lles i eraill. "Eglurhâd yr Ysbryd a roddir i bob un er llesâd," sef i lesâu eraill âg ef. "Gan eich bod yn awyddus i ddoniau ysbrydol, ceisiwch ragori

tuag at adeiladaeth yr eglwys;" dyna oedd annogaeth a siamp Paul. Ond meddwl yr ydwyf fod gras yn beth arbenigol i'r dyn ei hun, yn cadw ac yn sancteiddio ei enaid ei hun. Felly y mae Paul, pan yn tybied ei hun yn meddu'r doniau mwyaf a'r graddau helaethaf o honynt, yn dywedyd nad ydyw efe ddim os heb gariad. Mae yn tybied ei hun yn llefaru â thafodau dynion ac angylion, yn gwybod y dirgelion oll a phob gwybodaeth; felly yn gwybod am galon dyn, dirgelion natur, a threfn gras; digon o ddefnyddiau i ddangos ei fater trwy gymhariaethau, a thafod angel i'w gosod allan a'u cyhoeddi. Ac y mae yn tybied ymhellach ei fod mor hynod am ei rinweddau ag am ei dalentau, yn porthi'r tlodion â'i holl ddâ, ac i goroni'r cyfan, ei fod yn y diwedd yn marw yn ferthyr. Ond wedi yr holl ogoniant a roed arno, a'r holl orchestion a wnaeth, yn ol y tyb-osodiad neu'r tebygoliaeth hyna, mae yn edrych arno ei hun heb y gras o gariad yn swp o ludw, ac yn gwaeddi, Nid wyf fi ddim! dim llesâd i mi! Bum o ryw wasanaeth i eraill, ond, heb y cariad grasol, nid oedd genyf ddim i mi fy hun. Ond nid felly am ras y bywyd; mae hwnw yn beth yn y dyn, ac felly yn nodedig yn beth i'r dyn ei hun.

Mae y gweithrediadau cyffredin ynglŷn â'r doniau yn rhywbeth ar yr enaid yn unig, megys addurniadau o'r tu allan iddo; nid ydynt yn egwyddorion ynddo ef; nid oes dim cysylltiad rhyngddynt a sancteiddio cynneddfau, nac ynddynt ddim yn cyfansoddi ansawdd sanctaidd ar yr enaid. Mae'r doniau yn dyfod oddiwrth ryw weithrediadau ar y dyn; Ysbryd Duw yn anadlu arno, yn debyg i'r cerddor yn chwythu a chwareu y chwibanogl (*flute*). Marw yw yr offeryn ei hun; ond pan y mae anadl y cerddor ynddi, a'i fysedd yn chwareu arni, hi a swnia yn beraidd i ddifyru eraill; eithr nid yw ddim wedi iddo ef ei thaflu o'i law. Felly y gall yr enaid fod, dan y gweithrediadau sydd yn cynnyrchu neu yn cynhyrfu'r doniau, ac yn yr ymarferiadau o honynt gyda dyledswyddau crefydd, yn gwneuthur lles i eraill, tra bydd ansawdd ei galon tuag at Dduw yr un ag o'r blaen, ac heb dderbyn un fendith sancteiddiol iddo ei hun. Ond y mae gras yn ddwfnreddfol yn yr enaid, yn gymaint felly fel y dywedir fod Duw wrth roddi gras megys yn rhoi yr enaid ei hun. "Ysbryd newydd a roddaf ynoch." Mae'r peth a roddir mor ddwfn, mor reddfol

yn y cynneddfau, ac yn gwneuthur y fath gyfnewidiad arnynt, fel y mae'r cynneddfau bellach yn cael eu priodoli i'r greadigaeth newydd yn gystal ag i'r hen. Cafwyd eu hanfod naturiol o'r hen greadigaeth, a'u hansawdd sanctaidd o'r greadigaeth newydd. Ac y mae'r gras hwn sydd yn yr enaid yn beth o'r gwerth mwyaf i'r enaid ei hun. Gallasai Paul ddyweyd wrth Philemon ei fod yn ei ddyled ef am dano ei hun; Philemon yn ddyledus am dano ei hun i Paul fel offeryn yn llaw yr Ysbryd Glân. Yr oedd efe wedi ei golli ei hun trwy bechod; ond pan y cafodd ei aileni trwy weinidogaeth Paul, wele efe yn ei gael ei hunan ganddo. Adferu dyn iddo ei hun y mae gras; ei fywyd a'i ddedwyddwch ydyw; ac y mae mor gysylltiol â'r enaid ag yw ei hanfod. Yr oedd yr Hebraid crïstionogol, er mwyn enw Crist, yn cymeryd eu hyspeilio am y pethau oedd ganddynt yn llawen, "gan wybod," medd yr adnod, "fod genych i chwi eich hunain olud gwell yn y nefoedd, ac un parhâus." Y darlenniad Seïsonig ydyw, "Gan wybod ynoch eich hunain fod genych yn y nefoedd olud gwell a pharhâus;" ac yn ol darlenniadau diweddar, "Gan wybod fod genych ynoch eich hunain olud gwell ac un parhâus." Golud cariad a gras Duw yn Nghrist, a'i holl ganlyniadau am amser a thros byth; yr oedd hwn yn olud ynddynt eu hunain. Ac am ei fod ynddynt hwy eu hunain, yr oedd, yn ol ein darlenniad ni, yn olud iddynt eu hunain, yr hwn nad allasai neb ei ddwyn oddiarnynt; golud yn ddechre nefoedd iddynt ar y ddaear, ac yn berffeithiad nefoedd iddynt yn y byd a ddaw. Yn hyn, yn eu gras oddiwrth Dduw, ac nid yn eu doniau, eu cyrhaeddiadau, a'u cyflawniadau, pa mor orchestol bynag y mynasai Crist i'w ddysgyblion lawenhâu. "Yn hyn na lawenhewch, fod yr ysbrydion wedi eu darostwng i chwi; ond llawenhewch yn hytrach am fod eich enwau yn ysgrifenedig yn y nefoedd." Na lawenhewch oddiwrth ddim a wnaed genych, ond oddiwrth yr hyn ydych yn eich perthynas â Duw'r nefoedd; nid eich doniau fel cenadon Duw a'ch gesyd yn gadwedig yn y diwedd, ond ei ras tuag atoch ac ynoch fel ei blant.

3. *Mae gras yn well na doniau, am ei fod yn cyfnewid ac yn adnewyddu yr holl enaid.* Y meddwl yn unig yw eisteddle'r doniau. Mae yn y meddwl ryw oleuni ar bethau ysbrydol, a medr drwy hyny i ymdrin â hwy yn fwy effeithiol; ond y maent

yn gadael y gydwybod heb ei phuro, a'r ewyllys heb ei llywio; a pha beth bynag yw yr effeithiau ar y serchiađau, nid ydynt yn cael eu gwneuthur yn nefol, fel ag i ymsefydlu ar y pethau sydd uchod. Mae yn wir nad ydynt, fel y maent yn ddoniau ysbrydol, yn cael eu rhoi i ddynion anfucheddol, na'u parhâu i ddynion a elont felly wedi iddynt eu derbyn. Ond pan y mae'r rhagrithiwr yn uchder ei ogoniant, mae y galon heb ei chyfnewid. Yr oedd Judas, mae yn debyg, yn meddu pob dawn ag oedd gan ei frodyr yn nhymmor ei apostoliaeth; ond o dan y cwbl, diafol oedd efe o ran egwyddor ei galon, a mab y golledigaeth o ran ei gyflwr. Nid annhebyg ydoedd gyda Balaam. Cofier am y pethau yr oedd y dyn hwnw wedi eu cyrhaedd. "Y gŵr yr agorwyd ei lygaid, gwrandaŵydd geiriau Duw, gwybedydd gwybodaeth y Goruchaf, a gweledydd gweledigaeth yr Hollalluog," yw yr enwau arno; a dyna efe mewn hwyl rymus yn mynegu gogoniant Israel, ac yn dybenu gan ddywedyd, "Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau." Ond gyda'r cyfan, caru gwobr anghyfiawnder yr oedd Balaam. Wedi i'r hwyl ddarfod, nid oedd yno ond y drygionus yn aros. Anifail o asen oedd ei asen ef, er iddi gael dawn siarad am y tro; a dewin cybyddlyd a drwg oedd ei meistr, er i hwnw gael dawn prophwydoliaeth. "Llawer a ddywedant wrthyf yn y dydd hwnw," medd Iesu Grist, "Arglwydd, Arglwydd, oni prophwydasom yn dy enw di? ac oni fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di? ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di? Ac yna yr addefaf wrthynt, Nis adnabûm chwi erioed; ewch ymaith oddiwrthyf, chwi weithredwy'r anwiredd."

Ond nid felly y gras sydd yn cynnwys y pethau gwell, y pethau sydd ynglŷn wrth iachawdwriaeth. Mae gras yn cyfnewid yr holl galon. Mae Crist yn cael ei ffurfio ynddi, ac ynddi yr ysgrifeni'r cyfraith yr Arglwydd. Nid gweithio ar hen egwyddorion crefydd natur oedd yn y galon o'r blaen y mae gras, a thynu y rhai hynny allan i ryw uwch ymarferiad ar bethau crefydd. Na, mae yno ryw beth yn cael ei chwanegu at ysbryd y dyn, a hwnw yn rhywbeth sydd yn newid ei holl ansawdd, o fod yn gnawdol a daearol i fod yn ysbrydol a nefol. Mae yno ddyn newydd yn y galon, a hwnw wedi ei greu yn ol Duw—yn ol delw yr Hwn a'i creodd, mewn gwybodaeth, cyfiawnder, a gwir sancteiddrwydd.

Creadur wedi ei eni o Dduw ydyw ; a thrwy yr enedigaeth hono, y mae anian neu natur Duw, a bywyd Duw, yn yr enaid ; rhywbeth sydd yn ei dueddu at Dduw, yn ei uno â Duw, ac yn ei wneyd yn debyg i Dduw. Ac y mae'r fath gysylltiad rhwng yr enaid a'i ansawdd grasol yma fel mai efe ei hun yw'r cwbl. Efe yw y creadur newydd—yr ysbryd a enir o'r Ysbryd. Y mae hwn yn gyfryw gyfnewidiad fel y mae galluoedd a serchiadau y galon yn cael eu galw yn "ffrwythau yr Ysbryd." Tra yn parhau yr un yn eu hanfod, y maent wedi cyfnewid yn eu hansawdd. Ond cyfnewidiad mor ryfedd ydyw ! y daearol yn nefol, yr anianol yn ysbrydol, y balch yn ostyngedig, y trahâus yn fwynaidd, a'r anghymedrol yn sobr. Ceir etifedd gras y bywyd yn gweithredu'r cyfiawnder na wna o'i le yn y lleiaf mwy nag yn y mwyaf, yn arddangos y purdeb coethaf o ran ysbryd ac ymddygiad, yn dal at y gwir na wyra er unpeth, yn ymostwng yn foddolawn ymhob cyflwr y byddo ynddo, yn gwisgo'r cariad sydd yn rhwymyn perffeithrwydd, a chyda'r cwbl yn ymddiried ac yn ymffrostio yn Nghrist yn unig. Os yw yr hen ddyn eto'n fyw, mae yn cael ei farwâu a'i goeshoelio, ac nid ei borthi.

Mae arnaf ofn, medd rhyw frawd gwan, nad oes genyf fi mor gras gwirioneddol a chadwedigol. Beth, ynte, yw y cariad sydd yn dy fynwes at Grist? beth yw'r poeni a'r galaru o herwydd pechod, a'r ymdrech yn wastad yn ei erbyn? beth yw'r dymuno a'r egnïo am berffeithrwydd? Hwyrach na ddangosaist deimladau mor gryfion, neu na welir ynot dalentau mor ddysglaer, ag a geir mewn rhywrai sydd eto heb eu symud o'r cyflwr colledig wrth naturiaeth. Ond os yw'r pethau a nodwyd genyt, dyna ti yn meddu'r pethau gwell, uwch eu natur, ac amgenach eu ffrwyth, a phethau yn dy rwymo wrth iachawdwriaeth gyflawn a thragywyddol.

Mi hoffwn innau gael gwybod, medd un arall, ai gras sydd genyf, ai ynte y doniau sydd yn wasanaethgar i ras mewn eraill. Wel, a wyt ti fel Paul yn gwerthfawrogi gras yn fwy na doniau—yn edrych ar gariad yn fwy rhagorol na'r doniau goreu? A wyt ti yn defnyddio dy ddawn, pa beth a pha faint bynag ydyw, i geisio'r pethau gwell? Am y teimladau sy'n codi oddiwrth y doniau yn unig, mae y rhai hyny yn aml yn bod ac yn darfod gyda'r dyledswyddau lle yr arferid y doniau. Rhyw awel o wynt



yw yr ofn, y llawenydd, a'r dymuniad crefyddol sydd yn myned ac heb dychwelyd. Ond y mae gras yn ansawdd sefydlog ar y galon; mae yn gweithio mewn meddyliau y nos cyn cysgu, ac yn y bore ar ol deffroi, ac yn awr ac yn y man ar hyd y dydd, a'r meddyliau hyny yn bwrlymu yn wirfoddol o'r dyn ei hun, oddiwrth egwyddorion greddfol y galon, pan na byddo dyledswydd ddefodol, nac un cynhyrriad allanol i'w cymhell. "Mae fy nghalon yn berwi allan beth da," medd y Salmydd (gwel ar ymyl y ddalen Psalm xlv. 1), pan yr oedd yn myfyrio nes traethu am ogoniant breniniaeth Crist. "Y dyn da, o drysor da y galon a ddwg allan bethau da."

Ac os yw cydwybod neb yn dyweyd wrtho ei fod yn wir heb y gras sy'n cadw—heb y pethau sydd ynglŷn wrth iachawdwriaeth, mae yn dda genyf goffiâu ymha le y mae'r cyfan i'w cael. Mae'r "iachawdwriaeth yn Nghrist Iesu;" ydyw, â'r "gras yn Nghrist Iesu;" yno yn faith ddiderfyn ystôr i'w gyfranu heb arian ac heb werth. Derbyn Grist fel yr wyt, bechadur; dyro dy hun iddo mewn gweddi ddiwyll, heb bwyso ar ddim sydd genyt; ac wedi cael gafael arno ef trwy ffydd, ti a dderbyni yn sicr ddiwedd dy ffydd, sef iachawdwriaeth dy enaid.

## PREGETH XI.

UFUDD-DOD EFENGYLAIDD.

HEBREAID vi. 10: "Canys nid yw Duw yn anghyfiawn fel yr anghofio eich gwaith, a'r llafurus gariad yr hwn a ddangosasoch tuag at ei enw ef, y rhai a weiniasoch i'r saint, ac ydych yn gweini."

**Y**N yr adnod o'r blaen mae yr Apostol yn dadgan darbwylliad sicr ei feddwl o barth i'r Hebreaid fel cristionogion; ac y mae'r geiriau hyn, fel y dengys y cysylltair "canys," yn dyfod i mewn yn rheswm dros y syniad y mae yn ei amlygu am danynt. Yr hyn a ddywedai ydoedd ei fod yn coelio am danynt bethau gwell a phethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth. Yr oedd y rhai hyn yn bethau gwell o'u cymharu â'r pethau yr oedd eraill wedi eu gwneyd yn gyfranogion o honynt; y pethau a nodir yn adnodau 4 a 5: gwell na'r goleuo unwaith, profi, a dim ond profi, y rhodd nefol, a daionus air Duw, &c. Yr oedd y pethau hyn yn bethau da, ond yn bethau agored i farw, a gadael eu perchenogion yn ddiffwrwyth a thruenus. Ond yr oedd yr Hebreaid cristionogol yn meddu pethau gwell; duwiol anian, Ysbryd Duw nid yn unig nac yn gymaint fel awdwr doniau, ond fel gwreiddyn ffydd, cariad, a sancteiddrwydd; ffynnon y dwfr sydd yn tarddu i fywyd tragwyddol. Ac fel yr oedd yn coelio pethau gwell am eu crefydd hwy nag am grefydd y rhagrithwyr mwyaf trwsiadus, felly yr oedd hefyd yn coelio pethau gwell am eu diwedd. Yr oedd y lleill y cyfeiriai atynt yn syrthio ymaith, ac yn cael eu gadael fel y ddaear oedd waeth na diffwrwyth, yn anghymeradwy gan y llafurwr, dan felldith, a diwedd yr hon oedd ei llosgi. Yma y

mae ymysgaroedd yr Apostol yn cynhyrfu tuag at ei frodyr, fel mam, wrth ddychymygu am ryw drychineb, yn gwasgu ei baban i'w mynwes, ac yn llawenyachu yn ei ddiogelwch. "Yr ydym ni yn coelio am danoch chwi, anwylyd, bethau gwell." Yr ydym yn credu fod genych chwi ffydd yn Nghrist, ac y dybena'r ffydd hono trwy allu a ffyddlondeb Duw yn iachawdwriaeth eich eneidiau. Ac fel hyn, yn y testyn, efe a rydd reswm am y gobaith oedd ynddo yn mherthynas iddynt; ac ni a welwn fod ei gred yn eu cylch yn cynnwys dwy elfen: hyder gobeithiol gyda golwg arnynt hwy, a ffydd neu sicrwydd diammheuol am yr hyn a wnai Duw yn rasl a gwobrwyol iddynt. Oddiwrth eu gwaith a'u llafurus gariad, efe a deimlai fod yn iawn iddo synied am danynt eu bod yn gredinwyr; ac oddiar gymeryd yn ganiataol eu bod felly mewn gwirionedd, credai yn ddiammheuol y byddai i Dduw eu dwyn i dragywyddol ddedwyddwch, yn ol ei gyfiawnder, sef gan nad allai fod yn anffyddlawn i addewidion ei gyfammod.

Yr ydym yn gweled mai sail yr holl obaith hwn am yr Hebraid oedd eu gwaith hwy, a ffyddlondeb Duw i wobrwyo'r gwaith hwnw. Yn gyffelyb y mae Paul yn dywedyd wrth y Philippiaid fod eu herlidigaethau, a'r ysbryd a amlygent hwy ynddynt a thanynt, yn mynegu beth a fyddent hwy a pheth a fyddai eu gelynyon yn dragywydd. I'r gwrthwynebwyr yr oedd yn wir yn arwydd sicr o golledigaeth, ond i'r dyoddefwyr crediniol yn arwydd o iachawdwriaeth, a hyny gan Dduw. A'r un modd y mae yn dyweyd gyda diolchgarwch a gorfoledd wrth y Thessaloniaid fod cynnydd eu gras a'u hysbryd amyneddus a ffyddiog yn yr holl erlidiau a'r gorthrymderau yr oeddent yn eu goddef, yn argoel goleu o gyfiawn farn Duw, fel y cyfrifid hwy yn deilwng i deyrnas Dduw. Ac felly am yr Hebraid: oddiwrth eu gwaith a llafur eu cariad yr oedd yn penderfynu eu bod yn dduwiol ac y byddent gadwedig. Ac nid oes un ffordd arall, cofier, i benderfynu yr achos hwn eto. Nid yw haeriadau noethion y tafod, na gweniaeth dynion iddynt eu hunain, ac i'w gilydd, o ddim gwerth. Rhaid yw, fy enaid, i'th ffydd a'th gariad ddangos eu hunain mewn gwaith, i brofi dy fod yn dduwiol, ac y'th gymerir i'r nefoedd. A chan fod cristion i'w adnabod yn unig wrth ei waith, neu wrth ei ufudd-dod efengylaidd, gan mai

dyna a olygir, ni a geisiwn ddarlunio yr ufudd-dod hwn yn ei fater, yn ei egwyddorion, ac yn benaf yn ei natur a'i hynodrwydd.

I. MATER YR UFUDD-DOD HWN, neu, ymha beth y mae yn gynnwysedig.

Galleu ddyweyd fod mater yr ufudd-dod yn gynnwysedig yn yr hyn oll y mae Duw yn ei ofyn oddiwrthym yn yr Ysgrhythrau. Cydffurfiad mewn calon a bywyd â deddf foesol Duw, a hyny fel y mae ei hegwyddorion tragywyddol wedi eu harddullio a'u tynu allan yn yr efengyl, yn lliaws o orchymynion cyfaddas i amgylchiadau dyn fel pechadur; ufuddhâu i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist mewn credu, addoli, a bucheddu; yn ein perthynas â phob dyn, yn ein hymdrin â phob peth, ac yn holl amgylchiadau ein bywyd, meddwl am "ba bethau bynag sydd wir, pa bethau bynag sydd onest, pa bethau bynag sydd gyfiawn, pa bethau bynag sydd bur, pa bethau bynag sydd hawddgar, pa bethau bynag sydd yn ganmoladwy, od oes un rhinwedd, ac od oes dim clod,"—y mae hyny oll o fewn mater yr ufudd-dod hwn. Yma y mae'r cristion, nid i fod yn berffaith-gwbl yn ei ufudd-dod, neu yn ddibechod, dan berygl myned i uffern, ond i ymestyn yn barhâus at berffeithrwydd, a hyny oddiar gymhelliadau newyddion a grasol yr efengyl.

Gwedus yw i ni yma gofio fod dyn o'r dechreuad, nid yn unig dan ddeddf i Dduw, ond wedi ei ddwyn i gyfammod âg ef; ac ymhob cyfammod, ni a welwn fod Duw yn ychwanegu at ddeddf natur ryw osodiadau pendant; ac y mae rhwymau y rhai hyny mor gadarn â'n rhwymedigaethau i ddeddf ein natur. Ië, un gyfraith yw y cyfan i ddyn. Y gorchymyn am ffrwyth y pren i Adda, y gosodiadau seremonïol i Israel, a'r hyn oll a arddodir arnom ninnau dan yr efengyl, yn yr un a'r unrhyw ddeddf y gwreiddiodd y rhwymedigaethau iddynt. Dyna ein cydgynnulliad crefyddol, bedyddio yn enw y Drindod, a gwneuthur coffa am angyf y groes,—byth wedi i Fab Duw sefydlu a gosod y pethau hyn, mae deddf ein natur yn eu rhwymo i'w cyflawni. A phe cadwem y gyfraith i gyd oll, a phallu yn barhâus yn un o'r pethau hyn, byddem yn euog o'r cwbl. Ydyw, bechadur, mae esgeuluso ordinhadau yr efengyl yn fai ag y mae ei wreiddiau yn rhedeg yn ddwfn i galon deddf dy natur. Beth yw ystyr gorchymynion y llech gyntaf ond cymeryd y gwir Dduw i fod yn Dduw i ni ac

nid arall, a'i addoli ef ar ei ddydd yn ei drefn ei hun, ac nid mewn un ffordd arall? Mae yr holl ddeddf yn cael ei chyflawni yn y gorchymyn mawr hwnw, "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon;" a'r ffordd i ddangos y cariad hwnw ydyw ei addoli ef yn ol ei ewyllys; a lle nas addolir ef felly, nis gellir meddwl fod yno gariad ato; a lle nad oes gariad ato, dyna yr holl gyfraith dan draed. Heb i ni farnu neb, edryched pob un rhag fod ei esgeulusdra gydag ordinhadau yr efengyl yn profi ei amdifadrwydd o grefydd. Tydi, ddyn, pa mor foesol bynag y gelli fod, os wyt yn byw heb broffesu Crist, ac heb ymarfer â holl ordinhadau ei dŷ, neu â'th ymarferiadau ar wedd grefyddol heb effeithio i gynnyrchu buchedd dduwiol, mae yn ddiaw y buasai yr Apostol, ar ol edrych ar ddiwedd ofnadwy pobl y doniau cyffredinol heb y gras cadwedigol, yn troi i edrych yn dy wyneb dithau, ac yn dyweyd wrthyt yn onest, Yr wyf yn methu coelio am danat ti fod genyt bethau gwell, a phethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth!

II. EGWYDDORION YR UFUDD-DOD HWN. O ba le y mae yn codi? neu, Pa beth sydd yn ei gymhell?

I ateb yn gryno, gallem ddywedyd mai egwyddorion yr ufudd-dod yw ffydd a chariad. Wedi yr argyhoedder pechadur o'i golledigaeth, ac i ganfod drwy ffydd drefn Duw yn cadw'r colledig drwy Iesu Grist, ac i ymorphwys arni am iachawdwriaeth, yn y fan bydd y ffydd hono yn dechre gweithio trwy gariad at Grist, a'r cariad hwnw drachefn yn ei ddangos ei hun drwy gadw ei orchymynion ef. "Canys hyn yw cariad Duw, bod i ni gadw ei orchymynion; a'i orchymynion ef nid ydynt drymion." Cariad yw cadw y gorchymynion mewn egwyddor, a chadw y gorchymynion yw cariad mewn ymarferiad. Felly Paul, yn ei lythyr cyntaf at y Thessalonïaïd, a eilw yr ufudd-dod, "gwaith eich ffydd chwi, a llafur eich cariad;" a'r ymlyniad wrtho dan bob gwrthwynebiad, a eilw yn "ymaros eich gobaith" (1 Thess. i. 3).

Yn y testun, mae yr ymadrodd "eich gwaith," yn golygu ufudd-dod yn gyffredinol, tra y mae yr ymadrodd, y "llafurus gariad," neu, "lafur eich cariad," yn golygu esiampl arbenig o'r ufudd-dod hwnw mewn haelioni tuag at y saint, fel y dengys diwedd yr adnod, "y rhai a weiniasoch i'r saint, ac ydych yn gweini." Ffydd a chariad, cofier,—dyma egwyddorion ufudd-dod efengylaidd.



## III. NATUR A HYNODRWYDD YR UFUDD-DOD HWN.

Gan fod rhywbeth tebyg iddo yn codi oddiar egwyddorion tra gwahanol, megys oddiar hunanoldeb, neu yn unig oddiar argyhoeddiad cydwybod, cymhwys yw i ni nodi rhagoriaethau yr ufudd-dod cymeradwy.

1. Mae yr ufudd-dod sydd yn codi oddiwrth ffydd, ac yn dybenu yn iachawdwriaeth yr enaid, yn *brif amcan a gorchwyl bywyd y cristion*. Nid rhywbeth ydyw a gyflawna yn achlysurol pan y bydd heb ddim arall i'w wneyd; ond *business* ei fywyd yw hwn. "*Eich gwaith*," y gelwir ef yn y testun. Nid nad ydyw y cristion yn gwneuthur gorchwylion cyffredin bywyd fel dyn arall, ond fod y cyfan yn ail i'r ufudd-dod dan sylw. Nid oes dim mwy cyffredin yn y byd, chwi a wyddoch, na chadw mân-negeseuau, gorchwylion bychain a dibwys, yn ddarostyngedig i ryw un prif orchwyl mawr. Mae'r dyn yn gwneyd llawer o bethau; ond y mae ganddo ryw un alwedigaeth; a dyledswyddau yr alwedigaeth hono yw ei waith ef. Efe a wna ryw fân orchwylion y bore; ond gwna hyny cyn myned at ei waith. Ceir ei weled yn trin ei ardd gyda'r nos; ond hyny a fydd wedi iddo ddyfod oddiwrth ei waith. Nid yw y pethau hyn ond pethau a gyflawna yn achlysurol; ond am *ei waith*, y mae wrtho yn gyson a gwastadol. Efe a wna y pethau yma wrth ei ewyllys ei hun; ond ymeifl yn ei waith oddiar deimlad o'i rwymedigaethau. Gorchwyl ei fywyd yw hwn, tra nad yw y lleill ond ail bethau ganddo. Yn gyffelyb y mae'r cristion gyda dyledswydd ei alwedigaeth nefol; dyma ei waith ef. Mae yr holl iachawdwriaeth â'i golwg ar ei ddwyn ef i hynyma. Mae wedi ei greu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da, wedi ei neillduo gan Dduw iddo ei hun, ac wedi ei brynu i Dduw gan Grist trwy ei waed. Bu efe farw dros ei bobl, nid yn unig fel y caent hwy fyw trwyddo ef, ond fel na byddai i'r rhai byw yma "fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r Hwn a fu farw drostynt ac a gyfodwyd." Y fan y caffo pechadur ei fywyd yn Nghrist, mae ar yr un fynydd yn dechre byw i Grist. Felly yn cyrchu at hynyma y cawn Paul: "Byw i mi yw Crist," neu, "I mi Crist i fyw." Mae efe nid yn unig yn wreiddyn ond yn amcan fy mywyd. Pe byddwn wedi gorphen ei waith ef, i ba beth mwyach y chwennychwn fy einioes? byddai dyben fy mywyd wedi darfod. "Os byw fyddaf yn y cnawd, hyn yw ffrwyth fy

llafur." Cystal â dyweyd, Os arosaf i fyw ar y ddaear, arosaf i boeni a llafurio; a hyn fydd y ffrwyth, gwneuthur mwy dros Iesu Grist. Yr un modd yr ydym yn cael yr Apostol, wedi cyfeirio at ryw ddynion o ysbryd ac amcanion gwahanol, yn appello at Timotheus, "Eithr ti a lwyr adwaenost fy nysgeidiaeth," neu, fy athrawiaeth, "fy muchedd, fy arfaeth, fydd, hirymaros, cariad, amynedd," ac felly ymlaen. Ti a wyddost mai Crist yr wyf fi yn ei bregethu, ac mai i Grist yr wyf yn byw; a gwyddost ymysg pethau eraill mai fy arfaeth, fy mwriad sefydlog, doed a ddelo, yw byw, tra byddwyf, i Grist a'i wasanaeth.

Gallwn nodi, ar ein pwnc hwn, fod y saint yn cael eu cymharu i bethau ag oedd dan yr hen oruchwyliaeth wedi eu llwyr gysgru i Dduw, ac felly yn perthyn iddo ef yn hollol. "Teml y Duw byw ydych chi," medd Paul; a thy Dduw yn gwbl oedd y deml; yr oedd pob peth a wneid yn hono yn cael ei wneuthur i'r Arglwydd. Gelwir hwynt yn "offeiriaid i Dduw a'i Dad ef;" ac urdd o ddynion oedd yr offeiriaid wedi eu galw oddiwrth bob peth i wasanaethu Duw, rhai yn preswyllo yn ei dŷ, ac yn ei foliannu yn wastad. Desgrifir hwynt fel aberthau Duw; ac fe roddid yr aberthau yn waed a chnawd a chyfan i Dduw yn gwbl ac am byth. "Yr wyf yn attolwg i chi, frodyr, er trugareddau Duw," ebe yr Apostol, "roddi o honoch eich cyrff yn aberth byw, sanctaidd, cymeradwy gan Dduw, yr hyn yw eich rhesymol wasanaeth chi." Rhoddwch eich nerth, eich talentau, eich amser, a holl ymadferthoedd ac egni corff a meddwl, i Dduw. Ofni Duw, a chadw ei orchymynion ef, ydyw oll y dyn duwiol. Nid yn unig efe a geidw negeseuau bywyd yn ddarostyngedig i waith ei Dduw, ond efe a'u try yn rhan o hono. Rhoddwch gristion cywir uwchben cyfoeth, ac fe'i gwelir yn troi hwnw yn sancteiddrwydd i'r Arglwydd. Os penteulu neu feistr ydyw, efe a'i cyfrifa ei hun yn hyny yn was i'r Meistr yn y nefoedd; neu, os gwas ydyw, mae efe yn ufuddhâu i'r neb sydd feistr iddo yn symlrwydd ei galon, megys i Grist, ac fel gwas Crist yn gwneuthur ewyllys Duw o'r galon, trwy ewyllys da yn gwneuthur gwasanaeth megys i'r Arglwydd, ac nid i ddynion. A rhowch gristion i ddyoddef a marw: ei awyddfryd a'i obaith a fydd y mawrygir Crist yn ei gorff ef, pa un bynag ai trwy fywyd ai trwy farwolaeth. Nid oes

yr un o saint yr Arglwydd yn byw iddo ei hun, ac nid yw yr un yn marw iddo ei hun; canys pa un bynag yr ydynt ai byw, i'r Arglwydd y maent yn byw; ai marw, i'r Arglwydd y maent yn marw; am hyny pa un bynag y byddont ai byw ai marw, eiddo yr Arglwydd a fyddant hwy.

2. Mae yn *ufudd-dod dcallus a rheolaidd*. Mae i bob galwed-igaeth ei rheolau; mae rhyw ffordd benodol ar wneyd ei gwaith hi; a dysgwylir i'r gweithiwr fod yn deall ei waith, ac yn ofalus i arfer ei wybodaeth mewn trefn i gyflawni ei waith yn iawn. Felly am y credadyn: mae yn gwybod beth yw ewyllys ei Arglwydd, ac yn ofalus am wneuthur ei ewyllys ef. Mae perffeithrwydd ei galon yn dyfod i'r golwg mewn gwneuthur yr *oll* y mae Duw yn ei ofyn, a gwneuthur yr *oll fel* y mae Duw yn gofyn. Ceir y rhagrithiwr yn hannerog yn ei waith: weithiau yn lled foesol, ond nid yn addolwr Duw yn ordinhadau y gair; weithiau yn zelog gydag ordinhadau crefydd, yn wrandawr, yn gymunwr, ac yn weddiwr, ond, o ran tymher ac ymddygiad, yn droseddwr o ddeddf Duw. Er ei holl grefydd, mae ei galon yn falch, ei ysbryd yn sarug, ei dafod yn enllibus, ac, hwyrach, ei fod yn llawn castiau isel a bryntion. Os yw yn sobr, nid ydyw yn hael. Os ydyw yn haelionus, nid yw yn sobr a chymedrol ei arferion. Os yw yn deg yn ei fasnach, mae yn chwerw yn ei deulu; neu, os yw yn hawddgar gartref, mae yn galed a drwg ei weithredoedd tuag at ei gymydogion. Ar y tir uchaf y mae rhagrithiwr yn ei gyrhaedd, a phan y mae debycaf i ddyd duwiol, mae yno rywbeth o flaenion y ddfrodaeth yn cael ei arbed, peth o werth y tir yn cael ei gadw, rhyw Rimmon yn cael ymgrymiad. Ond am y cristion, mae efe yn rhodio yn nghwbl o ewyllys Duw. Megys y mae yr Arglwydd wedi myned o'i flaen yn y rheol, a thori allan ei waith iddo, mae yntau, fel Caleb gynt, yn cyflawni gwneuthur ar ol yr Arglwydd. Mae ffydd yn edrych ar yr holl orchymynion, a chariad yn awyddus am eu cyflawni; a byddai mor chwith gweled creadur yn anghofio rhai o weithrediadau ei natur â gweled cristion yn cyson esgeuluso yr un o ddyledswyddau ufudd-dod.

Ac megys y mae'r duwiol am wneuthur yr oll o'i ddyledswyddau, felly y mae am wneyd pob un yn iawn; gwneyd y cyfan fel y mae Duw yn peri. Tra y mae rhagrithiwr yn pentyru

dyledswyddau ar eu gilydd rywfodd, mae'r cristion, pan yn myned i gyflawni dyledswydd, yn edrych am ei bod ymhob dim yn ol y rheol: ei mater yn gyflawn, ei hamser yn gyfaddas, a'r egwyddor a'r ysbryd a'r dyben yn eu lle. Nis gall efe gyfrif un ddyledswydd yn well na cholled os na bydd hi wedi ei gwneyd trwy ffydd, ei bywiogi gan gariad, a'r enaid ynnddi yn cyrchu at ogoniant Duw, ac at ddinystr pechod ynddo ei hun. Gweithiwr difeffl yw gwasanaethydd yr Arglwydd Crist; un yn rhodio yn ddiesgeulus, yn rhoddi pob cam yn fanwl yn ol y rheol. Ac onid fel hyn y cyrhaeddir pob amcan? Rhaid rhoi pob llythren yn ei lle i wneuthur gair, a phob gair yn ei le i wneuthur ymadrodd. Os ewch chwi i adeiladu, nid taflu y defnyddiau ar eu gilydd rywsut a wna'r tro, ond gosod pob maen, pob defnydd, yn ei le yn ol egwyddorion a rheolau adeiladaeth. Yr un modd y mae gyda chrefydd. Os oes adeiladu mewn sancteiddrwydd yn myned ymlaen yn yr enaid, y mae yna, yn nghanol prysurdeb gyda dyledswyddau, ofal am eu cyflawni yn iawn a chymhwys. Y mae rhai o honoch yn feistriaid gwaith; a pha fodd y teimlech chwi, wedi myned i'r gweithdŷ gyda'r nos, os byddech yn cael hanner y gwaith heb ei wneuthur, a dim o hono wedi ei wneuthur yn iawn? A fyddech chwi yn foddolawn o'r herwydd? Oni wnaethum i y peth a'r peth? ebe y gwas. Do, ond paham y mae'r peth acw heb ei wneyd? a phaham y mae yr hyn a wnaed heb ei wneuthur yn ei le yn ol y rheol? Ac y mae yn rhyfedd os na ddywedid wrtho, "Tydi was drwg a diog." Onid ydwyf yn ddyn bucheddol? medd rhywun. Ië, ond pa le y mae gwneuthur proffes o Grist? pa le y mae'r cofio am angeu'r groes? Onid yw fy mywyd yn awr yn well nag yr ydoedd gynt? A ydyw dy galon wedi ei hadnewyddu? ac a ydyw yn ysgrifenedig ar yr oll sydd genyt, a'r oll ydwyf, Sancteiddrwydd i'r Arglwydd? Onid wyf yn gweddïo? A fyddi di yn gweddïo yn yr Ysbryd Glan, ac mewn ffydd, gan lwyddo i fyned at Dduw yn dy weddïau, a gwybod dy fod yn cael y deisyfiad a ddeisyfi ganddo? Onid wyf yn cyfranu at achosion crefyddol? A wyt ti yn rhoddwr llawen, heb offrymu y dall a'r cloff, ond yn rhoddi megys y llwyddodd Duw di, ac o'r gallu y mae efe yn ei roddi? A ydyw yr oll yn cael ei wneuthur, meddaf, a'r oll yn cael ei

wneyd yn iawn? Ho, yr ydych yn rhy fanwl. Wel, cynnyg dy waith yn awr i'th dywysog; a fydd efe foddllawn ar waith ar ei hanner, heb ei orphen? O ddyn, ti a fyddi yn cadw noswyl yn ebrwydd; ac y mae'r Meistr mawr yn dyfod i edrych dros y gwaith. Gwylia rhag y bydd efe yn dywedyd, "Ni chefais dy weithredoedd yn gyflawn ger bron Duw;" yr oedd rhyw bechod yn wastad heb ei adael, neu ryw ddyledswydd bob amser yn cael ei hesgeluuso. Ac am na wnaed dim mewn ffydd a chariad, ac felly dim wedi ei wneyd yn Nghrist—dim i Dduw, nid oes yna ddim yn gymeradwy, na dim i'w wobrwyo.

3. Mae yn *ufudd-dod llafurus*. "Gwaith" ydyw; ac yn waith y mae pob dyn duwiol yn ei brofi. Beth bynag yw yr ufudd-dod ynddo ei hun, mae dau beth yn ei wneyd yn llafur ac ymdrech i'r cristion: ei wendid ef, a mawredd y gwrthwynebiadau iddo. I'r dduwiol anian, mae yn wir fod iau Crist yn esmwyth, a ffyrdd crefydd yn ffyrdd hyfrydwch. Beth er hyny? os yw yr ysbryd yn barod, mae'r cnawd yn wan; ac i'r gwan, y mae gwaith yn galed. Mae ynglŷn â'r credadyn wendid naturiol ac ysbrydol. Mae'r corff yn wan, ac fel y cyfryw, mae llawer o'r amgylchiadau cysylltiedig â chrefydd yn y byd hwn yn boenus iddo, a llawer o'r dyledswyddau yn anhawdd. Eithr nid yn unig hyny, ond y mae gwendid y corff yn fynych yn effeithio i wanychu'r meddwl yn ei weithrediadau. Po mwyaf y byddo egni'r meddwl, cyntaf oll y bydd y corff yn blino; ac fe fydd hyny drachefn yn gwanychu'r meddwl yn fwy. Mae gwrando yn astud, myfyrio yn ddwys, a darllen llawer, yn flinder i'r cnawd. Mae zel yn difa'r natur, a llafur yn ei threulio, gyda chrefydd fel gyda rhywbeth arall. A'r canlyniad yw fod cnawd drwg yn cymeryd achlysur oddiwrth gnawd gwan, ac yn cario'r cristion i syrthni a marweidd-dra mewn dyledswyddau crefyddol, os nid i esgeulusdra o honynt. Ac y mae gwendid gras yn gystal a gwendid natur yn gwneyd crefydd yn llafur. Weithiau, yn wir, bydd holl ddyledswyddau crefydd yn ymddangos yn hawdd i'r cristion; gras yn rymus yn ei ddwyn drwyddynt at ei bethau gyda yr un nerth a hyfrydwch ag yr ä'r digrefydd at yr hyn a bair foddlonrwydd i'r cnawd; a'r pryd hwnw bydd gweddio, a dyoddef, a maddeu, yn hawdd a hyfryd. Ond nid felly pan fydd gras yn adfeiliedig; yna mae'r cyfan yn faich, a christion ynddynt yn faich iddo ei hun.



A chyda fod y crïstion yn wan, mae'r gwrthwynebiadau iddo yn gryfion. Yn ei lafur crefyddol, mae ei ymdrech "yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdurdodau, yn erbyn bydol lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd." Os yw deddf y meddwl yn ymhyfrydu yn mhethau Duw, mae deddf arall yn yr aelodau yn gwrthryfela yn ei herbyn. Pan yn ewyllysio gwneuthur da, pa bryd bynag, pa dda bynag, mae y drwg yn bresennol : marweidd-dra serch, sibrawd esgusodion, meddyliau bydol yn dwyn ymaith y galon, nes y bydd credadyn wedi ei holl ymdrech yn cwyno, "Cwblhâu yr hyn sydd dda, nid wyf yn medru arno."

Ac yn yr amgylchiadau hyn, edrychwch ar y dyledswyddau sydd gan grïstion i'w cyflawni. Diau y gall efe ddywedyd, "Gwaith mawr yr ydwyf fi yn ei wneuthur." Gwaith mawr yw rhoi lle pob peth i Grist yn y serchiadau ; gadael gŵr, gwraig, plant, tai a thiroedd, os bydd raid, er ei fwyn ef. Gwaith mawr yw cadw ysbrydolrwydd crefydd trwy yr oes, nes bod yn ffrwythlawn, tîrf, ac iraidd yn ngauaf henaint. Gwaith mawr, ar ol cynnefino o'r mebyd â thymher gyfeiliornus ac arferion drwg, yw eu newid am ysbryd a buchedd hollol wrthwyneb ; rhywbeth tebyg i Ethiop yn newid ei groen, neu'r llewpard ei frychni. Gwaith mawr i ddyd a deimlodd ac a ddangosodd galon falch, ddialgar, yw caru gelynion, bendithio melldithwyr, gwneuthur da i gaseïon, a gweddïo dros niweidwyr ac erlidwyr. Gwaith mawr i ysbryd gwylaidd, llednais, boneddigaidd, yn nghanol gwawd beilchion trahâu, yw dywedyd, "Nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist," a thystio am dduwiolion tlodion, "y rhai rhagorol, yn y rhai y mae fy holl hyfrydwch." Gwaith mawr yn nghanol deniadau fyrdd yw marwhâu pob awydd at bleserau anghyfreithlawn, a chadw ymhell oddiwrth swyn adloniant ammhëus. Gwaith mawr yn wyneb pethau tueddol i gyffroi a chythruddo yw cadw bob amser yr ysbryd yn dymherus, a'r geiriau yn rasol. Gwaith mawr yw bod dros ein holl fywyd yn wyliadwrus ymhob peth, yn eirwir a chyfiawn ymhob amgylchiad, yn sanctaidd ymhob ymarweddiad, yn ffyddlawn i Grist ymhob temtasiawn, ac yn ysbrydol ymhob dyledswydd. Mae dosbarth llïosog o grefyddwyr heb gyffwrdd erioed âg un o'u bysedd â gwaith o'r natur yma ; ac y mae eraill wedi ceisio myned i mewn drwy y

fath borth cyfyng, ond nis gallent. Y mae yr ufudd-dod hwn, yn yr holl ystyriaethau hyn, yn ymddangos yn anhawdd; ond yr ydym i gofio nad ydyw yn anmhosibl. Yn yr holl lafur, yr hwn sydd yn meddu anian crefydd, ac yn pwyso ar ras Duw am gymhorth, a ddeil ei ffordd, ac a chwanea gyrydwr.

4. Mae yr ufudd-dod hwn yn *dduwiol ufudd-dod*. Megys y mae rhyw grefydd i'w chael weithiau heb foesoldeb a rhinwedd, gellir hefyd gyfarfod â rhyw fath o foes a rhinwedd heb grefydd, neu fath o grefydd yn wir heb dduwioldeb. Y mae yno weithio, a hwnw, fe dybygid, yn waith crefyddol; ond nid yw Duw yn yr holl waith. Ond am y crïstion, mae'r cwbl ganddo ef yn dechre ac yn diweddu yn Nuw. Felly y dengys y testun: "Eich gwaith, a'r llafurus gariad, yr hwn a ddangosasoch tuag at ei enw ef." Mae'r cyfan a wna duwiolion gyda chrefydd yn codi oddiar ffydd ynddo, a chariad ato, fel Duw iachawdwriaeth. Ydyw, y mae pob peth credinwyr o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef. Beth bynag ac i bwy bynag y bydd credadyn yn gweithio, efe a wna am fod Duw yn peri iddo wneyd; gwna i'w ogoniant; a gwna er ei fwyn ef. Paham y mae yn parchu y Sabbath? Am mai dydd yr Arglwydd ydyw. Paham y mae mor hoff o'r eglwys a'i hordinhadau? Am mai dyma dŷ yr Arglwydd. Paham y dengys garedigrwydd i'r saint? Am mai pobl a phlant yr Arglwydd ydynt. Efe a'u cynnorthwya am eu bod yn perthyn i Grist; ac felly bydd Mab Duw yn y farn yn cydnabod holl weithredoedd eu caredigrwydd fel pethau a wnaethpwyd iddo ef ei hun. Mynwn oll fod yn gywir yn ein nôd crefyddol. Bydded y Duw byw yn gyfeirnod ein dyledswyddau. Gwylwn y croesffyrdd, megys hunan-gyfiawnder, hunan-foddhâd, clod dynion a'r cyffelyb; ac awn rhag blaen at Dduw heibio iddynt oll.

5. Mae yr ufudd-dod hwn yn *waith sydd yn dyfod yn amlwg i eraill*. "Eich gwaith, a'r llafurus gariad, yr hwn a ddangosasoch," meddir yma, neu, "yr hwn a arddangosasoch," yn arwyddo pob eglurdeb ac amlygrwydd. Mae'r geiriau sydd yn deillio o'r gair cyfansawdd y cyfeirir ato yma yn wreiddiol, meddir wrthym, yn cael eu cyfieithu yn "argoel goleu," "arwydd sicr," a "hysbysrwydd" (2 Thess. i. 5, Phil. i. 28, a 2 Cor. viii. 24). Golygir yma lafurio yn nyledswyddau ffydd a chariad nes y byddo'r llafur yn amlwg i bawb. Dyn a adwaenir wrth ei waith,

Fel pob gweithiwr da yn ei alwedigaeth, mae'r crïstion, os caiff oes, yn sicr o ddyfod i'r amlwg. Mae wrthi yn gweithio yn ddiwyd, ac weithiau yn ymhelaethu ac yn cyflawni gorchestion ar lwybrau ufudd-dod nes synu pawb. I hyn ein hannogir: "Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion," medd Crist, "fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd;" llewyrchu *felly*—y fath lewyrch nes y byddo dynion yn ei weled. "Gan fod â'ch ymarweddiad yn onest ymysg y cenedloedd," medd Pedr, "fel, lle y maent yn eich goganu megys drwgweithredwyr, y gallont, o herwydd eich gweithredoedd da a welant, ogoneddu Duw yn nydd yr ymweliad." Yn ddiâu, crefydd ammheus yw hono nad yw byth mewn un amgylchiad yn ei dangos ei hun yn eglur. Dysgwylir i grïstionogion fod yn llythyr Crist, yr hwn a ddeallir ac a ddarllenir gan bob dyn. Mae yn sicr na buasai yr apostol yn dyweyd am y dyn diffrwyth yn ei deulu, yn yr eglwys, ac yn y byd—y dilafur a'r diddaioni ymhob amgylchiad a phob amser—ei fod yn coelio am un felly bethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth. Na, mae'r saint yn dangos eu ffydd trwy weithredoedd, a'u cariad trwy lafurwaith. Dangosant eu gras mewn hawddfyd trwy ganu salmau, meithrin gostyngeddrydd, a gweini haelioni, ac mewn adfyd trwy hiroddef, gweddïo, a diwygio, ac ar ol cwympto i bechod trwy edifarhâu fel Dafydd a Pedr. Dangosant eu bod yn ceisio gwlad well trwy eu marweiddiad i'r byd presennol. Gosodweh y duwiol yn yr amgylchiadau mwyaf anfanteisiol, ac fe'i dengys ei hun yn ffyddlawn i'r Arglwydd, megys Abiah yn nhŷ Jeroboam, a'r llances fechan o Israel yn nhŷ Naaman y Syriad. Mae ffydd a chariad fel gwraidd yn cadw yr ufudd-dod efengylaidd yn fyw yn y gauaf gerwinaf, ac yn fynych yn peri iddo ymagor i brydferthwch gogoneddus.

6. Mae yn ufudd-dod *hyd y diwedd*. "Y rhai a weiniasoch i'r saint," meddir yma. Wel; hwy a wnaethant ddigon yn y dechre i brofi eu bod yn dduwiol. Na, buasai achos i'w hammheu er ystalm oni byddai am yr hyn sydd yn canlyn, "Ac ydych yn gweini." Felly, onid ydynt wedi gwneyd digon erbyn marw pe na wnaent ddim ychwaneg ar ol hyn? Na, yr adnod nesaf a ddywed, "Ac yr ydym yn chwenych fod i bob un o honoch ddangos yr un diwydrwydd, er mwyn sicrwydd gobraith hyd y

diwedd." Pe gwelid hwynt yn myned yn ddiffwrth yn y diwedd, collid pob gobaith am danynt. "Y neb a barhäo hyd y diwedd, hwnw a fydd cadwedig." Beth bynag a wnaed, pa hyd bynag y buwyd yn gweithio, os pallu a wneir cyn y diwedd, mae yn rhaid nad oedd dim a wnaed yn codi oddiar ffydd, ac na byddant yn dybenu mewn iachawdwriaeth. "Ffordd yr Arglwydd sydd gadernid i'r perffaith." I'r perffaith neu'r cywir yn y ffordd, bydd y ffordd ei hun yn gadernid i fyned ymlaen i'r pen. Mae'r naill ddyledswydd yn dwyn nerth i gyflawni'r llall. Mae dyledswyddau heddyw, o'u cyflawni yn ysbrydol, yn rym at ddyledswyddau yfory. Ac felly tra y ceir eraill yn diffygio a blino, bydd y credinwyr yn adnewyddu eu nerth; a chan fyned o nerth i nerth, ymddangosant bob un ger bron Duw yn y Sion nefol.

Am ychydig ymhellach, edrychwn yn fwy neillduol ar yr hyn y crybwyllir yma am dano yn ffrwyth llafurus gariad pobl Dduw fel plant ufudd-dod, sef gweini i'r saint: "Y rhai a weiniasoch i'r saint, ac ydych yn gweini."

Mae'r gair a gyfieithir yma yn *weini*, fel y dywedir wrthym, yn air cyfansawdd, yn arwyddo gwasanaeth a gyflawnir gyda diwydrwydd. Arferir y gair am unrhyw fath o wasanaeth, megys am yr angylion ar ol temtiad Crist, "Angylion a ddaethant ac a weiniasant arno," ac am y gwragedd duwiol oedd yn dilyn Crist, "y rhai oedd yn gweini iddo o'r pethau oedd ganddynt. Yn enwedig y mae yn air sydd yn sefyll am ddau beth neillduol: gweinidogaeth y gair, a gweinidogaeth haelioni. Mae yn werth sylwi fod yr ymarferiad o haelioni yn arbenig yn cael ei alw yn *weinidogaeth* yn y Testament Newydd; megys "y weinidogaeth feunyddiol," "y weinidogaeth i'r saint," a "gweinidogaeth y swydd hon." Aeth haelioni y crigionion i'r saint oedd mewn anghen mor helaeth, a'r galwad am dano mor fawr, fel y bu yn rhaid gosod dynion yn benodol ar hyn o orchwyl; ac am hyny galwyd gwaith y swydd yn weinidogaeth, a'r rhai a'i cyflawnt yn wasanaethwyr neu ddiaciaoniaid. Ond y mae gweini yn hynyma yn perthyn i'r holl bobl dduwiol. Cariad yn gweinidogaethu ydyw; ac y mae dyledswyddau a ffrwythau y weinidogaeth hon yn lliosog, ac yn benaf y mae yn gweini mewn haelioni.

Gallwn nodi am y weinidogaeth hon,

1. Ei bod yn *weinidogaeth newydd a dyeithr yn y byd*. Nis gallaf sicrhâu a oedd y byd yn gwybod dim am haelioni a thynnerwch yn ei gyflwr syrthiedig, ac yn ei ystâd baganaidd, ac ar wahân oddiwrth bob dylanwad efengylaidd. Ond yn sicr ynglŷn â'r efengyl, fe welir ffrwythau cariad yn eu perffeithrwydd. Trwy bechod yr oedd cariad, gwir gariad, wedi colli o'n byd ni, a'i holl ddyledswyddau wedi myned o ymarferiad. Yr oedd Duw wedi gwneyd y cwbl i fod mewn cyflwr o gariad. Yr oedd efe yn caru pawb, ac wedi gwneuthur pawb i'w garu yntau; ac yn eu cydgariad ato ef, yr oedd pawb mewn perffaith gariad at eu gilydd. Ond pan yr aeth yn ddrwg rhwng dyn â Duw, aeth yna yn ddrwg rhwng dynion â'u gilydd, i.e., rhwng yr holl greaduriaid rhesymol â'u gilydd. Dyna angylion dan arfau fel milwyr y Brenin mawr, ac y mae eu hofn ar ddynion byth. A than felldith y cwmp, y mae dynion yn "byw mewn drygioni a chenfigen, yn ddigasog, yn casâu eu gilydd," a'u drwg-anwydau yn tori allan yn fynych mewn rhyfeloedd ac ymladdau. Ond y mae cariad Duw yn Nghrist yn ddigon effeithiol i ddwyn ei greaduriaid i ystâd o gariad a chydgorriad drachefn. Mae Pen newydd wedi ei osod, a chorff newydd wedi ei grynhoi, yn yr hwn y mae yr holl aelodau yn gwasanaethu eu gilydd. Yn awr y mae yr angylion yn gydweision â'r saint o ddynolryw, ac yn weision i'r saint; ac y mae'r saint yn weision i'w brodyr a'u cydgreaduriaid. Mae cariad Duw yn nhrefn eu hadferiad fel gwaed brwd yn rhedeg trwy wythienau yr holl gorff. Iaith newydd ar y ddaear oedd cyfarchiadau fel yr eiddo'r dysgybl anwyl: "Anwylyd, carwn ein gilydd, oblegid cariad o Dduw y mae; a phob un a'r sydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef, ac y mae efe yn adnabod Duw. Anwylyd, os felly y carodd Duw ni, ninnau hefyd a dylem garu ein gilydd." Gras efengyl a ddyg gariad newydd i'r byd; ac y mae'r cariad hwnw yn porthi'r newynog, yn dilladu'r noeth, yn ymweled â'r claf, yn pleidio'r gorthrymedig, yn sychu dagrau, yn lleddfu poenau, ac yn diwallu anghenrheidiau o bob math. Pan ddaw dylanwad y cariad hwn i lanw'r byd, ni chlyw neb son am drais yn ei wlad, na dystryw na dinystr yn ei derfynau, ond pawb mewn cariad brawdol yn garedig i'w gilydd, yn cyfranu i gyfreidiau y saint, ac yn dilyn llettygarwch, gan fod



yn llawen gyda'r rhai sydd llawen, ac wylo gyda'r rhai sydd yn wylo.

2. Mae yn *weinidogaeth werthfawr a chyfaddas iawn i gyflwr y byd hwn*. Cariad a ddaeth â Duw i fod yr oll âg ydyw ef i greadur annheilwng ac i bechadur euog; ac y mae cariad yn sicr o ddwyn dyn i wneyd yr oll a allo er llesâu ei frawd. Yr oedd y byd yn dyheu am gael dynolryw i'r tueddfryd y mae yr efengyl yn eu dwyn iddo; yr oedd ei waedd yn uchel am undeb, cydymdeimlad, a chynnorthwy. Yr oedd y rhai mwyaf meddylgar a gwybodus ymysg y paganiaid yn hiraethu, yn teimlo a chydymdeimlo, am weled dynolryw yn un gymdeithas heddych-ol, megys un ddinas a gwlad dan yr un llywydd a'r un gyfraith. Wele dyma amcan mawr trefn yr efengyl: Duw yn llunio ac yn gweithio "fel yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd y gallai grynhoi ynghyd yn Nghrist yr holl bethau sydd yn y nefoedd, ac ar y ddaear, ynddo ef." A ydyw dyn yn gofyn cydymdeimlad? efe a'i caiff gan gariad yr efengyl. A oes arno eisieu help? y cariad hwn a ddyry'r cymhorth rhwyddaf a goreu iddo. Ni wna cariad i'w wrthddrych ond daioni, ac nid oes dim daioni na wna. Mae serchiadau cnawdol yn dinystrio eu gwrthddrychau; mae cariad yr annuwiol, fel ei dosturi, yn greulawn. Cafwyd cariad Sichem at Dinah, a chariad Amnon at Tamar, yn wreiddyn drygau a dinystr. Ac nid yw serch naturiol o'r fath oreu ond hannerog a diffygiol; anghenrhaid y corff, llesiant tymmorol, yw ei nôd. A bydd y gwrthddrych a gynnorthwya yn fuan yn y bedd, lle na bydd eisieu, ac nas gellir, diwallu ei anghen mwy. Ond tra na edy cariad yr efengyl yr un cysur tymmorol galluadwy heb ei weini, hi a geisia ei lesâu yn benaf fel un â'i wyneb ar fyd arall. Ni orphwys ar wareiddiad, dysg, masnach, a llawnder tymmorol, ond hi a ymestyn at iachawd-wriaeth dragywyddol yr enaid.

3. Mae, fel gweinidogaeth cariad, yn sicr o fod yn *weinidogaeth effeithiol*. Gellir cyflawni rhai o ddyledswyddau cariad yn awr ac yn y man, ac heb feddu y cariad ei hun; ond nis gall cariad fod heb dori allan yn y dyledswyddau perthynol iddo. "Yr hwn sydd ganddo ddâ y byd hwn, ac a welo ei frawd mewn eisieu, ac a gauo ei dosturi oddiw'rtho, pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef?" Paham felly? Am fod cariad yn weithgar pa le

bynag y mae. Mae cariad yn Nuw yn weithgar. Nid caru ar air y mae efe, ond mewn gweithred a gwirionedd. Danfon y Mab, galw, cyfiawnhâu, gogoneddu,—felly y carodd Duw. Carodd Crist nes rhoddi ei Berson yn was, a'i einioes yn aberth. Os yw'r cariad ynom ninnau, mae yn gweithio yn effeithiol. Nid ŵyr cariad ddim am derfynau. Yr oedd cyflwr y Macedoniaid crisionogol yn dlawd a chystuddiol; ond dyna'r gras Duw, ac yn neillduol y gras o gariad, oedd ynddynt, yn peri "mewn mawr brofiad cystudd, i helaethrwydd eu llawenydd hwy a'u dwfn dlodi, ymhelaethu i gyfoeth eu haelioni hwy." Beth oedd y dylanwad? "Cymdeithas gweinidogaeth y saint." Wedi clywed am anghenrhaid y saint tlodion yn Jerusalem, dyna hwy yn ol eu gallu, ac uwchlaw eu gallu, yn ewyllysgar o honynt eu hunain i'w cynnorthwyo. "A'm holl gryfder y parotoais i dŷ fy Nuw," ebe Dafydd frenin. Wel ie, dyna di wedi gwneyd digon, yn aur, arian, pres, haiarn, coed, meini gwerthfawr, a meini marmor. Na, nis gallaf foddloni heb roddi yn helaeth eto cyn fy marw: "Ac eto am fod fy ewyllys tua thŷ fy Nuw, y mae genyf o'm heiddo fy hun aur ac arian, yr hwn a roddaf tuag at dŷ fy Nuw, heblaw yr hyn oll a barotoais tua'r tŷ sanctaidd." Os ceir yr ewyllys a'r serch yn eu lle, ni bydd raid cymhell a pherswadio i weithgarwch a haelioni.

4. Mae yn *weinidogaeth egniol a phoenus*. Peth hyfryd yw cariad ynddo ei hun; ond pan yr ymesyd ar ei holl ddyledswyddau yn ddyladwy, mae yn cyfarfod â rhwystrau lawer. Digon hawdd yw proffesu cariad, a dywedyd wrth y noeth a'r newynllyd, "Ewch mewn heddwch, ymdwymmwch, ac ymddigonwch;" ond y mae gweithio allan gariad mewn rhoddi a chyflawni yn fynych yn anhawdd. Yn nghyflawniad gweinidogaeth cariad yr aeth Crist a'i apostolion trwy bob gorthrymder a dyoddefaint; a rhaid i ninnau yfed o'r un cwpan os ydym am eu dilyn hwy i'r deyrnas nefol. "Anerchwch Mair, yr hon a gymerodd lawer o boen erom ni." Beth bynag a welai hi yn eisieu, beth bynag a allasai hi wneyd, hi a gymerai boen i'w wneyd yn iawn; dangos llettygarwch, ymgeleddu mewn cystudd, gwneuthur neu wella dilledyn, golchi traed, a'r cyffelyb,—hi a ymroddai i'r llafurwaith haelfrydig. Mae yn rhaid wrth boen i gyflawni y ddyledswydd yn ol y rheol, o ran mater, ysbryd, ac egwyddorion. Ac y mae

Crist wedi codi'r marc mor uchel nes bydd y dyn, ceisied a geisio, yn debyg i fod yn is nag ef. Yr wyf fi wedi gwneyd digon; gyda yr hwn a'm cymhellodd un filldir, mi a aethum y filldir hono. "Dos gydag ef ddyw." Yr wyf wedi dyoddef digon: goddefais i'r gwrthwynebwr fy nharo ar fy ngrudd ddehau. "Tro y llall iddo hefyd." Nid gwiw aros ar ddim a wnaethpwyd neu a gyrhaeddwyd; rhaid anghofio y pethau sydd o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen. Ond ar gyfer y dyledswyddau anhawdd a phoenus, gallwn ddywedyd fod cariad yn gweithio yr anhawsder i esmwythder, ac yn troi'r boen yn bleser. "Hyn yw cariad Duw: bod i ni gadw ei orchymynion, a'i orchymynion ef nid ydynt drymion."

Wele dyma grefydd bur yn ei hansawdd a'i gweithrediad; a pha le bynag y mae gwaith y ffydd, a llafur y cariad, yn gweini fel hyn, mae yn rhaid fod yr enaid hwnw yn meddu gras cadwedigol. Ond, medd rhywun, hwyrach na bydd y cyfryw un yn cadwedig er y cyfan. Gall ei ras wywo, a'i grefydd o'i rhan ei hun ddarfod, a'i adael i grino eto i'r tân. A pha faint bynag o lafur a gwaith a wnaeth efe, nid yw ei holl weithredoedd yn haeddu'r nefoedd o law Duw. A pha le felly y mae un sicrwydd am iachawdwriaeth yr enaid? Wel, nid yn wir yn yr enaid ei hun, ond yn ei Dduw. Am bwy bynag sydd yn meddu gwir ras, mae sicrwydd y dybena hwnw mewn gogoniant; canys y mae Duw yn ei gyfammod a'i addewidion wedi gwystlo ei hunan i gynnal a meithrin y gras a ddaeth o hono ef, ac i wobrwyo gras â gogoniant.

Ond, beth os anghofia efe? Na, na, medd ein testun, "nid yw Duw yn anghyfiawn, fel yr anghofia." Efe a gofia yn berffaith a thrwyadl am gristion, a'i ras, a'i waith. Wedi addaw, mae cyfiawnder ei natur yn ei rwymo i gyflawni. Gall yr enaid crediniol fod yn hyderus gan hyny, ar ol iddo ddechre y gwaith da, y bydd yn sicr o'i orphen. Gan i Dduw ei alw i'w dragywyddol ogoniant drwy Iesu Grist, a gwneyd hyny fel Duw pob gras, efe hefyd a'i perffeithia, a'i cadarnhâ, a'i cryfhâ, ac a'i sefydla, nes ei osod ger bron ei ogoniant ef yn ddifeïus mewn gorfoledd. "Ni orphwys y gŵr nes gorphen y peth hyn heddyw," meddai Naomi am Boaz wrth Ruth. Beth yw y sicrhâd? Am ef fod wedi myned ar ei lw i gymeryd plaid Ruth. "Myfi a wnafl ran cyfathrachwr â thi,

fel mai byw yr Arglwydd," medd efe; a chan mai gŵr da ydyw, yna wedi iddo ddyweyd fel hyn, ni orphwys efe nes gorphen yn ol ei air. O ddedwydd enaid sydd yn credu yn Nghrist! Buost yn lloffa yn ei feusydd, ac yn canlyn ei lancesau, gan fwyta o'r bara, a gwlychu dy damaid yn finegr ei dylwyth; ac y mae efe ei hunan wedi bod yn llefaru wrth fodd dy galon pan nad oedd ond efe a thithau. Ni orphwys efe ddim nes gorphen mwyach. Mae wedi tyngu y bydd iddo dy ddwyn ato ei hun, a'th osod yn ogoneddus iddo ei hun, yn sant heb árnat na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw. Ac nid yw yn anghyfiawn fel yr anghofio ei ymrwymadau ei hun, na dim o'th gyflawniadau dithau.

Nid anghofia efe wobrwyo y gwaith a'r llafurus gariad a ddangosir tuag at ei enw ac i'w saint. Meddylier yn neillduol am gariad yn gweinidogaethu mewn cymwynasgarwch a haelioni. Mae'r cymwynasgar yn cael yma dâl yn ei fynwes. "Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn." Pa bryd y bu Dafydd ddedwyddach na'r dydd yr offrymai y miloedd talentau aur ac arian tuag at gael llŷs i'r Arglwydd Dduw? "Dafydd y brenin a lawenychodd â llawenydd mawr; a dywedodd hefyd wrth yr holl dyrfa, Bendithiwch, attolwg, yr Arglwydd eich Duw." Cofiai Mair yn llawen a diolchus byth am y pryd y torodd hi flwch yr enaint gwerthfawr, ac a'i tywalltodd ar ben y bendigaid Iesu. Mae effeithiau elusen ar eraill yn dâl i'r elusengar. "Y mae genym lawer o lawenydd a dyddanwch yn dy gariad di," ebe Paul wrth Philemon, "o herwydd bod ymysgareodd y saint wedi eu lloni trwot ti, frawd." Mae sirioldeb yr aelwyd a lanwyd â thanwydd, cynhesrwydd y cefn a ddilladwyd, boddlondeb y cylla a ddiwallwyd, yn adweithio yn sirioldeb i wynebpryd, yn gynhesrwydd i galon, ac yn foddlondeb i enaid y caredigol, fel y mae efe yn ddedwydd yn ei weithred. Yr oedd lwynau yr anghenog yn bendithio Job, am ei wisgo a'i gynhesu gan gnu ei ddefaid ef; a melus i'r patriarch yn ei flinfyd oedd tystiolaeth ei gydwybod iddo gynnorthwyo y weddw a'r amddifad yn ei hawddfyd. Ond yn y dydd a ddaw, ac yn y byd a ddaw, y gwobrwya Duw y llafur cariad yn gyflawn. Wedi cyrhaedd pen yr yrfa y mae'r rhedegwr yn dysgwyl y gamp; ac wedi ennill y frwydr yr anrhydeddir y rhyfelwr; felly hefyd yn y diwedd

y derbynia crïstion lawn wobr, a hyny nid am fod dim teilyngdod o'i du ef, ond oblegid yr anfeidrol raslonrwydd a haelfrydigrwydd sydd o du Dduw. Fe fyn Duw wobrwyo fel Duw; y Brenin mawr a dâl fel Brenin. "Yr hwn sydd yn hau i'r Ysbryd, o'r Ysbryd a fêd fywyd tragywyddol." "Am hyny, fy mrodyr anwyl, byddwch sicr a diymmod a helaethion yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, a chwi yn gwybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd."



## PREGETH XII.

YR IAWN AGWEDD DAN GYSTUDDIAU.

HEBREAID xii. 5 : “A chwi a ollyngasoch dros gof y cynghor, yr hwn sydd yn dywedyd wrthych megys wrth blant, Fy mab, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd, ac nac ymollwng pan y’th argyhoedder ganddo.”

**A**MCAN yr Apostol yn y lle hwn yw cryfhâu calonau y credinwyr i lynu wrth Grist a’i efengyl o dan yr erlidigaethau oedd arnynt hwy o herwydd eu proffes grefyddol. I’r dyben hwn, efe a ddengys fod y saint ymhob oes yn blant cystudd, a bod llawer o honynt yn gorphwys yn awr gyda Duw, yn dystion i’w holynwyr o allu ffydd yn Nghrist i ddwyn ei pherchenog drwy holl brofedigaethau amser yn ddiogel i nef y nefoedd. Ac oddiar yr ystyriaeth hon, mae yn eu galw hwynt i redeg yr yrfa a osodwyd o’u blaen, gan edrych ar Iesu, oddiwrth yr hwn y caent gymhorth, yn gystal âg esiampl, i redeg yr yrfa yn llwyddiannus i’r pen. Mae yn amlwg oddiyma fod rhai o leiaf ymysg yr Hebreaid hyn yn tueddu i ymollwng dan eu dyoddefiadau; ac y mae’r Apostol yn priodoli hyny i’w hesgeuludra hwy eu hunain. Nid mawredd eu dyoddefiadau oedd yr achos o’u hymollyngdra. Yr oedd Crist, a llawer o’i saint, wedi dyoddef hyd farw; ond nid oedd neb o honynt hwy eto wedi eu merthyru. Gwyddent beth oedd colli eu parch—“wedi eu gwneuthur weithiau yn wawd;” a gwyddent pa beth oedd colli eu meddiannau, gan y “cymerasent eu hyspeilio o’r pethau oedd ganddynt yn llawen.” Ond nid ydych hyd yn hyn, medd yr ysgrifenydd sanctaidd, wedi colli eich bywydau yn achos crefydd.

“Ni wrthwynebasoch eto hyd at waed.” Ac wrth ddefnyddio y gair *eto*, mae efe yn awgrymu y gallent hwy gael eu galw i farw dros Grist a'i grefydd; ac fel hyn mae efe cystal â'u ceryddu am ymollwng dan ddyoddefiadau llai, pryd yr oedd, wrth bob tebyg, ddyoddefiadau mwy yn eu haros.

Ond pahan yr oeddynt yn y modd hwn yn dueddol i ymollwng yn eu heneidiau yn wyneb blinder a dyoddefaint? Y gwir achos ydoedd—a dyma ydyw yr achos o hyn yn wastad—diffyg talu sylw digonol i ddarpariaeth Duw yn athrawiaeth yr Ysgrythyrau tuag at eu nerthu yn eu hymdrech grefyddol, a'u cynnal a'u cysuro dan eu holl ddyoddefiadau. Yn ei air, y mae'r Duw mawr yn dangos natur a dyben blinderau y saint, a pha fodd i fyned yn ddiogel trwyddynt; ac nid oes eisieu ond cofio a chredu hyny gan bobl Dduw tuag at eu dyddanu ymhob gorthymder. Ond yr oedd raid llefaru wrth yr Hebraid yma, “Chwi a ollyngasoch dros gof y cynghor, yr hwn sydd yn dywedyd wrthych megys wrth blant, Fy mab, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd, ac nac ymollwng pan y'th argyhoedder ganddo.” Mae'r geiriau wedi eu cymeryd o lyfr y Diarebion, yn ol cyfieithiad y Deg a Thriugain, meddir wrthym, ac felly yr adnod ganlynol. Mae'r cynghor yn yr Ysgrythyr yn dywedyd, a Duw ynddo yn dywedyd, a hyny fel eich Tad, er eich cyfarwyddo a'ch cysuro mewn cystudd; a phe buasech chwi yn gwranddo yn fwy astud, ac yn sylwi yn ddyfalach, ar ei gynghor tadol ef, ymgryfhâu ac nid ymollwng yn eich eneidiau y buasech. Yn y modd yma, mae yr Apostol wrth nodi achos eu llwfrdra, yn arwain eu meddyliau at y feddyginiaeth rhagddo. Mae yn dangos yn adnod y testun, ac yn yr adnodau canlynol, fod llaw uniongyrchol gan Dduw yn eu cystuddiau, a pha beth bynag oedd amcan y byd yn eu poeni, mai o gariad yr oedd eu Tad nefol yn gweithredu, gan olygu eu gwir lesâd, a'r lles hwnw yn ddim llai na bod yn gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef.

Mae'r geiriau hyn yn bresennol yn llefaru wrthym ni. Mae yn wir nad oes neb yn ein mysg ni yn awr yn dyoddef oddiwrth y byd mewn ffordd o erlid megys yr oedd yr Hebraid crisionogol yn y dyddiau hyny. Eto y mae yn ein plith ninnau rywrai yn barhâus yn cael eu galw i ddyoddef yn y ffordd hon neu arall; naill ai yn eu personau, neu yn eu teuluoedd; yn eu meddyliau,

neu yn eu hamgylchiadau allanol. Y mae Duw eto yn barnu ac yn ceryddu ar fynydd Sion, a'i saint o hyd yn syrthio mewn amryw brofedigaethau. Cymhwys gan hyny yw i ni geisio cyfarwyddo a chynnorthwyo ein gilydd trwy sefyll ar y cynghor ger ein bron.

#### I. YSTYR Y CYNGHOR HWN.

Mewn trefn i'w wneuthur, mae yn rhaid ei ddeall. Mae yma agweddau annheilwng a beïus dan gystuddiau yn cael eu nodi, a phlant yr Arglwydd yn cael eu rhybuddio i'w gochelyd. Dyma hwy: dirmygu cerydd yr Arglwydd ar y naill law, ac ymollwng dano ar y llaw arall. Eithafoedd dynt, pell oddiwrth eu gilydd, a thra gwahanol i'w gilydd; ond y maent yn codi oddiar yr un gwreiddyn yn y galon, a'r naill a'r llall yr un mor bechadurus yn erbyn Duw, a niweidiol i eneidiau dynion. Mae'r ddau beth hyn yn cynnwys y cwbl sydd i'w ofni mewn cystuddiau; ac heb weddi, gwyliadwriaeth, a gras, yr ydym agos yn sicr o syrthio i'r naill a'r llall.

Y *cyntaf* yw, dirmygu cerydd yr Arglwydd. Dywedir fod y gair yn arwyddo cymeryd rhywbeth yn ysgafn, peidio gosod cyfrif arno yn ol ei werth, ei ddibrisio fel peth dibwys. Am ddirmygu yn y ffurf noeth o hono, ni a obeithiwn nad oes un o blant yr Arglwydd yn syrthio i hyny. Eto hwy a allant fyned i agwedd ag a fyddo mewn gwirionedd yn ddirmyg ar gerydd yr Arglwydd, er na bydd hyny yn feddwl a bwriad ganddynt hwy. Beth a all hyn ei gynnwys?

1. *Diffyg cydnabyddiaeth o law Duw yn ei geryddon.* Nid oes dim drwg cystuddiol yn cyffwrdd â dynion heb i law yr Arglwydd ei beri. Ond y mae llawer na welant pan ddyrchafer ei law. Mae yr annuwiol yn hollol felly. Oes, y mae rhai dynion mor annuwiol o'u mebyd i fyny, fel y maent nid yn unig mewn diffyg o oleuni ysbrydol, ond y meddwl mewn dygn anwybodaeth fel y fagddu, y gydwybod megys wedi ei serio, a'r holl galon yn gnawdol, swrth, a dideimlad, oddiar fod wedi hir fyw mewn pechod. Mae dynion o'r fath hyn yn myned trwy eu dyoddef-jadau fel yr anifail; mae hwnw yn cael poen ei glefyd, ac nid ydynt hwythau yn cael dim arall. "Nid yw Duw yn ei holl feddyliau ef." Mae ei ddagrau a'i ocheneidiau yn ddi-Dduw; ac hyd yn nôd ei ddymuniadau am waredigaeth neu esmwythâd, nid

oes nemor fwy o Dduw ynndynt nag yn mrefiad yr anifail. Mae eraill eto, sydd yn fwy meddylgar na'r rhai hyn, yn aros gydag ail achosion eu dyoddefiadau, ac felly yn colli yr olwg ar Dduw fel yr achos cyntaf, uchaf, a phenaf. Weithiau bydd y meddwl mewn ymrafael â'r ail achos, a phryd arall bydd yn teimlo fel pe byddai yn dda ganddo ddyfod o hyd i hwnw, gan ei fod felly yn cael rhyw esgus i orphwys cyn dyfod at Dduw. Y peth a'r peth oedd yr achos, medd y meddwl; ac nid oes dim a wnelo â Duw yn yr orchwyliaeth. Ond beth yw ail achosion? mae'r gair fel ei harferir genym ni yn dangos fod achos arall, achos uwch, yn bod. Yr ymadrodd genym weithiau yw deddfau natur. Wel, os deddfau, y mae Deddfroddwr yn bod. Nid yw deddf ond amlygiad o ewyllys. Rhaid bod ewyllys cyn bod deddf. Mewn gwrth, dyna Dduw yn ddigyfrwng yn gweithio, ac felly ei law yn fwy amlwg, heb un is nac ail achos yn cyfryngu. Ond yn gyffredin y mae'r Duw mawr yn ymguddio yn nghysgod ail achosion. Efe yn wir sydd yn gwneyd y cwbl; ond ffydd yn unig â'i gwêl ef; ac "nid oes ffydd gan bawb." Yn nghanol gorchwyliaethau Duw, mae yr annuwiol mor dywyll ac mor galed fel y dywed, "Gadawodd yr Arglwydd y ddaear. Nid yw yr Arglwydd yn gweled. Ni wna yr Arglwydd dda, ac ni wna ddrwg." Os bydd masnach yn llwyddiannus, dynion fydd wedi anturio yn amserol ac yn synwrol; ac os bydd yn dyrysu, dynion fydd wedi anturio yn ormodol neu yn anamserol. Ond y mae Duw, yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, yn goddef ynfydrwydd dynion, ac yn peri iddynt ddwyn arnynt eu hunain ganlyniadau yr ynfydrwydd hwnw, a hyny yn naturiol yn rhinwedd y cysylltiad sydd rhwng achosion ac effeithiau. Ni chredai Pharaoh fod Duw yn ngwrthiau Moses, oblegid fod y swynwyr yn gwneyd rhyw gyffelybrwydd i'r gwrthiau hyny. "Duw yr Hebreaid a gyfarfu â ni," ebe Moses ac Aaron wrtho; "ac fel hyn y dywedodd efe, Gollwng ymaith fy mhobl fel y'm gwasanaethont." Yr wyt ti, Pharaoh, wedi cael eu gwasanaeth yn hir; dyro hwy yn ol i'r neb a'u pïau. Dangoswch wrthiau i brofi eich comisiwn, medd Pharaoh. O'r goreu, medd Moses; yr Hollalluog yw ein Duw ni, yr hwn a'n hanfonodd atat. Dyna'r wialen yn troi yn sarph, dyfroedd yr afon yn troi yn waed, a'r wlad yn heigio o lyffaint. Ac wele swynwyr yr Aipt

yn gwneyd dangosiad cyffelyb; a chan hyny, caledodd calon Pharaoh, ac efe a aeth i'w dŷ, heb osod y pethau hyny at ei ei galon. Yn fuan drachefn yr oedd gwialen Moses yn trechu'r swynwyr, nes y gorfu iddynt hwy addef, "Bys Duw yw hyn." Ond yr oedd calon Pharaoh wedi myned mor galed, fel na wnaï hyn ei thoddi. Heb adwaen Duw yr oedd, ac felly yn dirmygu ei geryddon. Dirmygu ei gerydd ef yn ein dyddiau ni eto yw myned trwy drallodion yn ddi-Dduw. Mynych y ceir bychander y dygwyddiadau, neu eu cyffredinolrwydd yn y byd, neu eu hail achosion, a phethau eraill cyffelyb, yn lluddias i ddynion gydnabod Duw ynddynt. Ac y mae'r dideimladrwydd sy'n teyrnasu ar feddwl yr annuwiol, yn fynych yn llithro yn ormodol i ysbryd dyn duwiol, nes y mae yn briodol ei anerch ef, "Fy mab, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd."

Bydded genym gan hyny y grediniaeth effeithiol ac ymarferol fod Duw yn gweithio yn a thrwy ein holl gystuddiau, ac yn wir, fod holl ddygwyddiadau ein bywyd, mawrion a bychain, yn hollol dan ei lywodraeth ef. "Ni ddaw cystudd allan o'r pridd, ac ni flagura gofid allan o'r ddaear." Nid cynnyrch natur megys glaswellt ydyw. "Pwy a ddywed y bydd dim heb i'r Arglwydd ei orchymyn? A fydd niwed yn y ddinas heb i'r Arglwydd ei wneuthur? Myfi yw yr Arglwydd, ac nid arall, yn llunio goleuni, ac yn creu tywyllwch; yn gwneuthur llwyddiant, ac yn creu drygfyd; myfi yr Arglwydd sydd yn gwneuthur hyn oll." Bu'r clefyd yn ein tŷ ni acw yn ddiweddar, ebe rhywun; ac fe fu farw dau o'r plant. Ië, ond pwy a'i hanfonodd? Duw yr einioes oedd yn lladd, ac yn dwyn i waered i'r bedd; cydnebydd ef, ac ymostwng iddo. Y mae'r plant eraill yn ffodus wedi gwellâu, meddir. Nid ffawd oedd yna ddim; ond Duw oedd yn bywhâu ac yn meddyginiaethu; dyro'r gogoniant i'w enw. Y peth cyntaf tuag at ochelyd dirmygu cerydd yr Arglwydd yw cydnabod ei law. "Myfi a aethum allan yn gyflawn, a'r Arglwydd a'm dyg i eilwaith yn wag," medd Naomi. Efe sydd uwchlaw a thrwy'r cwbl yn gweithio.

2. Dirmygir ceryddon yr Arglwydd trwy *anystyriaeth a diffyg teimlad o rŷg Duw ynddynt am ein pechodau i'w erbyn*. Mae yn wir fod cariad Duw wrth wraidd holl gystuddiau'r saint; ond os ydynt yn brofion o gariad at eu personau, maent hefyd yn



amlygiadau o anfoddlonrwydd eu Tad, am y drwg a wneir ganddynt. Felly y dengys ef ei hun: "Myfi a fyddaf iddo ef yn dad, ac yntau a fydd i mi yn fab," medd Duw wrth Dafydd am Solomon. "Os trosedda efe, mi a'i ceryddaf â gwialen ddynol, ac â dynodiau meibion dynion; ond fy nhrugaredd nid ymedy âg ef." Cyflog pechod oedd gofid ar y cyntaf; ac er fod y cyfammod gras wedi newid natur cystudd i'r saint, eto y mae rhyw faint o'r hen flas arno byth; mae yn cynnwys i ryw fesur amlygiadau o wŷg Duw am bechod. Mae ambell drallod neillduol yn gerydd am fai neillduol. "Barnaf dŷ Eli yn dragywydd, am yr anwiredd a wŷr efe," medd Duw wrth Samuel ieuanc. "Nid ymedy y cleddyf â'th dŷ di byth, o herwydd i ti fy nirmygu i," medd efe wrth Dafydd frenin. "O herwydd i ti beri i elynion yr Arglwydd gablu, y plentyn a anwyd i ti a fydd marw yn ddiau." Mae yn dra thebyg y gallai llawer un eto ddarllen ar wyneb tlodi eu sefyllfa, afiechyd eu cyrff, gwywdra eu hysbrydoedd, ac annuwioldeb ac aflwydd eu plant, ysgrifen hen bechodau eu hieuenctyd, a hyny yn peri iddo ochain, Dyma ffrwyth yr hen esgeulusdra, yr anghymedroldeb gynt, yr hen anwiredd y gŵyr Duw a minnau am dano! Er na ddemir byth mo gredinwyr, ac na byddant heb amserau y cânt fwynhâu profiad o faddeuant a heddwch cydwybod, eto rhaid bwyta ffrwyth yr hen ffyrdd camweddus, ac yfed llwch y llo y buwyd yn dawnsio o'i flaen. Myn Duw, tra yn arbed, ddial am y dychymygion hefyd. Mae'r gair "cerydd," a arferir yn y testun, yn wastad yn golygu bai; ac y mae'r orchwyliaeth geryddol yn cario gyda hi ryw arwydd o wŷg ag sydd yn galw ar y ceryddedig i gofio ei feiau, ystyried ei ffyrdd, ac ymostwng yn edifeiriol ger bron Duw.

Ond ni a addefwn mai nid bob amser y mae'r blinder yn gerydd am fai penodol; ond beth er hyny? hyd yn nôd pe byddai gristion yn dyoddef yn hollol anghyfiawn, yn dyoddef dros Grist, eto efe a addefai fod ei lygredigaeth ei hun yn galw am y blinfyd hwnw. Yr ydym yn cael saint yn eu cystuddiau yn cwyno am eu pechodau, ac am anfoddlonrwydd eu Duw o'r herwydd: "Nid oes iechyd yn fy nghnawd o herwydd dy ddigllonedd, ac nid oes heddwch i'm hesgyrn oblegid fy mhrechod; fy nghleisiau a bydrasant ac a lygrasant gan fy

ynfydrwydd." Fy mhechod i a'th ddipllonedd dithau, O Arglwydd, sydd wedi difa fy iechyd a'm holl gysuron. Wele, os ydyw gwŷg y Duw mawr i'w weled fel hyn yn ein cystuddiau, mae anystyriaeth o'i weithrediad ef ynddynt yn cynnwys dirmyg arnynt, ac y mae dirmyg ar gyfryw orchwyliaeth yn dangos rhyfyg a chaledwch dirfawr. Felly y dengys Duw ei hunan trwy ei brophwyd Esaiah: "Pwy a roddes Jacob yn anrhaith, ac Israel i'r yspeilwyr? onid yr Arglwydd, yr hwn y pechasom i'w erbyn? canys ni fynent rodio yn ei ffyrdd, ac nid ufuddhäent i'w gyfraith. Am hyny y tywalltodd efe arno lidiogrwydd ei ddigter a chryfder rhyfel; efe a'i hennynodd oddiamgylch, ond ni wybu efe; llogodd ef hefyd, ond nid ystyriodd." Dyna ddynion mewn cyflwr truenus, ac mewn ansawdd meddwl mwy truenus na hyny: Duw wedi dwyn arnynt, nid rhyfel yn unig, ond *cryfder* rhyfel; hwnw yn yspeilio, yn anrheithio, ac yn llogi eu meddiannau a'u gwlad o amgylch, a'r cyfan yn effaith lliidiogrwydd digter Duw am eu pechodau. Pa fodd yr oedd teimlad y meddwl yn wyneb hyn oll? "Ni wybu efe—nid ystyriodd!" Mae'r fath ansawdd yn myned yn farn ar ysbryd dyn, yr hyn a elwir yn "feddwl anghymeradwy," ac yn "ysbryd trymgwsg." Os na bydd cnofeydd cydwybodau a phoenau cyrff dynion fel hyn yn eu gyru i gablu Duw'r nefoedd, hwy a ânt drwy bob peth gan ymfrostio yn eu dideimladrwydd. "Ti a fyddi fel un yn cysgu yn nghanol y môr, ac fel yn cysgu yn mhen yr hwylybren. Curent fi, meddi, ac ni chlafychais; dulient fi, ac nis gwybûm; pan ddeffröwyf, mi a âf rhagof, mi a'i ceisiaf drachefn." O ddirmyg mawr ar gerydd yr Hollalluog! Mae natur ddifywyd yn teimlo wrth ei geryddon ef. "Efe a geryddodd y Môr Coch fel y sychodd efe. Y mae colofnau'r nefoedd yn crynu ac yn synu wrth ei gerydd ef. Y mynyddoedd a'th welsant ac a grynasant." O bechadur, a ydyw dy galon di yn gadarnach na'r mynyddoedd, a'th ysbryd yn fwy ei rym na'r cefnfor? Mae hwnw yn gwneyd twrf, megys yn nadu dan gerydd Duw, ac, yn iaith yr Ysgrhythyr, yn "cyfodi ei ddwyllaw yn uchel," megys yn appelio am arbediad. Ai dyn pechadurus yn unig a fydd yn ddigryn a dideimlad? Ond daw yr amser iddo yntau arswydo. Yn nydd mawr ei ddigter Ef, sef yr Oen wedi llidio, ni ddichon yr euog sefyll, ac efe a fynai i fynyddoedd a chreigiau syrthio arno, a'i guddio o wŷydd ei Farnwr.

Pen y ffordd i gael lles trwy gystudd yw teimlo llaw geryddol Duw ynddo. Daw yr enaid teimladol i gofio ei anwiredd, i chwilio ei ffyrdd, i ddychwelyd at yr Hwn sydd yn ei daro, a chyda gwylder a pharchedig ofn i ymofyn am faddeuant oddiwrth orseddfainc y gras, ac yn lle grwgnach, i ymostwng am gosbedigaeth ei bechod.

3. Yr ydym yn dirmygu cerydd yr Arglwydd os byddwn yn *anystyriol a dibris o amcan a neges ei geryddon*. Pan fyddo dyn heb ddysgu dim, na meddwl fod dim i'w ddysgu yn yr orchwyliaeth gystuddiol, nid yw yn gwneyd dim llai na dirmygu'r cerydd. Ond os cenadon Duw yw'r cystuddiau, mae yn rhaid fod ganddynt eu cenadwri. Os ei weision ef ydynt, y maent yn dyfod ar neges eu Meistr. Felly y mae'r gair cerydd yn cael ei ddarllen mewn manau eraill yn athrawiaeth, neu ddysgyblaeth, gan mai ceryddu er mwyn addysgu y mae Duw. "Gwyn ei fyd y gw'r a geryddi di, O Arglwydd, ac a ddysgi yn dy gyfraith. Ffordd i fywyd yw ceryddon addysg." Mae'r tyner ei galon yn wastad yn cael addysg yn cydfyned â'r cerydd. Mae Duw fel Tad wrth geryddu ei blentyn yn dyweyd trwy ei air sydd yn ei ddwyllaw, a thrwy ei Ysbryd yn ei gydwybod, paham y mae yn ei geryddu, a pha beth a fynai i'r ceryddedig ei wneuthur rhagllaw. Ond y mae poen a gŵg yn y cystudd, meddir. Oes, ond nid poen fel poen yr anifail, ac nid gŵg dialeddol fel yn uffern isod, eithr y mae addysg llesol ynddo. "Yn amser adfyd ystyria." "Gwrandewch y wialen." Ac y mae'n ddiau fod myned trwy'r cwbl heb ddysgu a gwellâu yn brawf o galedwch calon, ac yn ddirmyg mawr ar Dduw. Ac eto y mae'n bosibl, nid i annuwiolion yn unig, ond i dduwiolion fyned ymhell i'r agwedd hon, fel y dysgyblion pan y bu raid i'w Harglwydd ddywedyd wrthynt, "Onid ydych chiwi eto yn ystyried nac yn deall? ydyw eich calon eto genych wedi caledu? pa fodd nad ydych yn deall?" Yr iawn agwedd dan y cerydd yw gofyn yn ostyngedig, "Arglwydd, beth a fyndi di i mi ei wneuthur?" Gweddus fyddai i ni dyngu pob gorchwyliaeth oddiwrth Dduw fel Eli yn tyngu Samuel, "Beth yw y gair a lefarodd yr Arglwydd? na chela, attolwg, oddiwrthyf," a deisyfu gyda Job, "Mynwn wybod â pha eiriau y'm hatebai, a deall pa beth a ddywedai efe wrthyf."

4. Dirmyg pellach eto ar gerydd yr Arglwydd ydyw, fod y neb sydd dano, ar ol deall meddwl Duw yn yr orchwyliaeth, yn *parhâu yn anufudd, ac felly yn lluddio iddi ateb ei hamcan*. Nid yn anfynych, yn wir, y mae'r fath wrthnysigrwydd a hyny yn bod: Duw trwy'r ceryddon allanol yn argyhoeddi y gydwybod oddimewn; efe yn edliw i'r pechadur ei ffyrdd drygionus, yn barnu a chondemnio ei agweddau cyfeiliornus, ac yn ei alw i ddychwelyd a diwygio, ond y dyn er y cwbl yn ymgyndynu ac anufuddhâu. "Am anwiredd ei gybydd-dod ef y digiais, ac y tarewais ef; ymguddiais a digiais, ac efe a aeth rhagddo yn gildynus ar hyd ffordd ei galon." "Gwae y fudr a'r halogedig, y ddinas orthrymus! ni wrandawodd ar y llef, ni dderbyniodd gerydd." Onid fel hyna y bu am lawer un yn Nghymru? Yr oedd Duw yn ei gystuddio, ac yn ymddadleu âg ef trwy hyny. Yr oedd efe yn dyweyd yn uchel wrth ei gydwybod am ddrwg ei ffyrdd, yn galw i'w gof fel y bu iddo gam wario ei arian, a cham dreulio ei amser—yn dadlenu i'w feddwl ei serchiadau bydol, ei dymher ddigofus, ei dafod celwyddog ac enllibus a'i holl eiriau chwervon, ei ymddygiadau anonest a thwyllodrus, ei esgeulusdra o ordinhadau yr efengyl, ei grefydd ddifywyd, a'i wrthodiad o Grist—a'r cyfan yn galw, "Tro dithau at dy Dduw; dos ac na phecha mwyach." Dyna'r pechadur, ond odid, yn addaw yn dda, ond yn oedi dychwelyd; ac wedi i'r ystorm o gystudd ac argyhoeddiad fyned drosodd, y mae efe yn ymsefydlu yn dawel yn ei hen ffyrdd a'i agweddau cyfeiliornus. Beth yw hyn onid dirmyg anfad ar Dduw hollalluog? Gwybydd, O ddyn, y bydd yn bwysig pa fodd y dybena yr ymdrin rhwng Duw a thithau. "Os hwy a rwymir â gefynau, ac a ddelir â rhaffau gorthrymder, yna efe a ddengys iddynt hwy eu gwaith, a'u hanwireddau, amlhâu o honynt, ac a egyr eu clustiau hwy i dderbyn cerydd, ac a ddywed am droi o honynt oddiwrth anwiredd." Beth fydd y canlyniad? "Os gwrandawant hwy, a'i wasanaethu ef, hwy a dreuliant eu dyddiau mewn daioni, a'u blynyddoedd mewn hyfrydwch. Ac oni wrandawant, dyfethir hwy gan y cleddyf, a hwy a drengant heb wybodaeth." Felly yr oedd Duw gyda'r Israel: "Yn ei holl gystudd hwynt efe a gystuddiwyd." Yr oedd efe gyda hwy yn eu dysgu a'u hargyhoeddi; efe a'u dygodd hwynt, ac a'u harweiniodd yr holl



ddyddiau gylt." Ond yn ynfyd a drwg y talasant iddo: "Hwythau oeddynt wrthryfelgar, ac a ofidiasant ei Ysbryd sanctaidd ef; am hyny y trôdd efe yn elyn iddynt, ac yr ymladdodd yn eu herbyn." Ceir gweled yn y diwedd mai dinystriol i ddyn wedi bod dan geryddon Duw yw pellhâu oddiwrtho, yn lle nesâu ato. "Gŵr a gerydder yn fynych, ac a galeda ei wâr, a ddryllir yn ddisymwth fel na byddo meddyginiaeth."

Ond, yn ail, y mae yma bydew ar y llaw arall i'w ochelyd: dyn yn myned yn llwfr a digalon, ac yn crwydro hyd gyffiniau anobaith yn ei gystudd. "Ac nac ymollwng pan y'th argyhoedder ganddo."

Am y rhai y gellir hyderu am danynt hwy nad ydynt dan gystuddiau wedi myned mor galed âg i ddirmygu cerydd yr Arglwydd, ond sydd yn barod i gydnabod fel Job, "Duw a fedd-alhâodd fy nghalon, a'r Hollalluog a'm cythrybloedd," eu perygl hwynt sydd yma ar y llaw arall: ymollwng dan argyhoeddion cystudd. "Nac ymollwng," sef, Gwylia gael dy lyncu gan dristwch i gyflwr o synedigaeth pruddglwyfus a meddyliau llwfr a diobaith; tymher sydd yn gwneyd dyn yn ddigysur, ac yn ddifywyd a bylchog yn nyledswyddau crefydd. Mae yr ymollyngar yn esbonio y cyfan yn ei erbyn ei hun, yn meithrin syniadau celyd am Dduw ac am amcan ei orchwyliaeth, heb allu dysgwyl am ddaioni mwyach. Dyma iaith y cyfryw: "Cuddiwyd fy ffordd oddiwrth yr Arglwydd, a'm barn a aeth heibio i'm Duw. Yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd." Ni waeth i mi heb ddarllen y Bibl, gweddio, nac ymarfer âg ordinhadau'r gair. "Y drwg hyn sydd oddiwrth yr Arglwydd; paham y dysgwyliaf wrth yr Arglwydd mwy?"

Dyma'r Apostol yn annog a rhybuddio yn erbyn y gogwydd niweidiol hwnw eto: "Nac ymollwng pan y'th argyhoedder ganddo." Mae efe yma yn awgrymu fod y neb a gyferchir ganddo mewn perygl dyblyg: cystudd yn curo yn allanol, a hwnw i'r meddwl yn gerydd argyhoeddiadol; yr enaid yn profi trwy'r cystudd fod Duw wedi digio, ac yn deall am ba beth. Mae rhywbeth yn yr orchwyliaeth gystuddiol yn cyrhaedd ymhellach na'r corff a'r amgylchiadau tynmorol—yn "cyrhaedd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymmalau a'r mēr,



ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon," ac yn gwneyd i'r dyn deimlo fod Duw oddiuchod yn anfoddlawn i'w hen agweddau a'i ffyrdd cyfeiliornus. Nid yn unig y mae'r blinder a'r dyoddefaint yno, ond y mae Duw yn hyny yn coffâu yr anwiredd, yn dial am y dychymygion, ac yn mesur hen ddrwg-weithredoedd dyn i'w fynwes. Mae yn gorfod darllen ar gystudd ei gorff, ac aflwydd ei amgylchiadau, ac, fe allai, ar annuwioldeb ei blant, w'g Duw "am yr anwiredd a w'yr efe," ac am ei ddiffrwythdra gyda chrefydd. Nid anhawdd yw canu mewn cystudd pan fyddo Duw yn gwenu, a'r gydwybod yn dawel, heb fod yn condemnio am unrhyw bechod neillduol; ond y mae yn gwbl i'r gwrthwyneb pan fyddo saethau'r cystudd wedi eu trochi mewn anfoddlonrwydd oddiwrth y Goruchaf; mae'r gwenwyn hwnw yn yfed nerth a hyder a chysur ysbryd dyn. Dyna ddyd yn awr nid yn unig yn gystuddiol, ond mewn ing. Ond pan fyddo yr amgylchiad felly, y cynghor ydyw, "Nac ymollwng."

Cawn dduwiolion weithiau yn y cyflwr blin hwn, ac eto heb ymollwng, ond yn esiamplau o iawn deimlad ac ymddygiad dan y cystudd a'r argyhoeddiad—yn ymddarostwng i Dduw, yn ymarfer ffydd ac amynedd, yn rhoi eu hunain i fyny i ewyllys yr Arglwydd, gan barhâu i lynu yn ddyfal wrth holl ddyledswyddau crefydd. Dacw Dduw yn dwyn drwg ar dŷ Eli, hil ac eppil, a hyny am anwiredd gwybyddus; barn fyddai oesoedd yn llosgi nes difa gwreiddyn a changen o'r ddaear, heb iawn i'w wneyd am anwiredd tŷ Eli âg aberth nac â bwydoffrwm byth. Yr oedd y rhaghysbysiad Dwyfol am hyn yn ddigon i dori calon undyn. Eto y mae Eli yn ymostwng, ac nid yn ymollwng. Wedi i Samuel ieuanc fynegu holl eiriau'r bygythiad, heb gelu dim oddiwrth Eli oedranus, holl ateb yr hen offeiriad ydosdd, "Yr Arglwydd yw efe; gwnaed a fyddo da yn ei olwg." Dacw Dafydd, am ei bechod, yn cael ei blentyn yn glaf iawn. Tra y bu'r bachgen yn fyw, wele efe yn ymbil â Duw drosto, a hyny nid mewn ymollyngdra, ond i edrych a oedd gobaith. "Pwy a w'yr," ebe efe, "a drugarhâ yr Arglwydd wrthyf, fel y byddo byw'r plentyn?" Ond o'r diwedd daeth y newydd i'w glustiau fod y plentyn wedi marw. Wel, ai nid yw efe yn ymollwng

yn awr? Nac ydyw, eithr y mae efe yn cyfodi oddiar y ddaear, yn ymolchi, ac yn newid ei ddillad; a pha beth a allasai fod yn well i ddyn wedi bod mewn hir ympryd, yn ymdreiglo ar y ddaear, a'i wyneb yn fudr gan wylo, nag ymysgwyd, ymolchi, ac ymwisgo mewn dillad glân, yr hyn oedd yn adfywio'r corff, ac yn achlysuero adfywiad i deimladau crefyddol y meddwl? Wedi hyny mae efe yn myned i dŷ'r Arglwydd, ac yn addoli; cystal a dyweyd, Nid yw o un dyben i mi ymollwng; ond fy enaid a lŷn wrthyt, Arglwydd. Yna y mae yn dychwelyd i'w dŷ ei hun, ac yno yn dyweyd, Dowch â thamaid o fwyd i mi; ni wna imi ymollwng mewn digalondid un lles i'm plentyn ymadawedig, nac i minnau; ac nid oes achos am hyny ychwaith, gan i Dduw fynegu fod fy mhechod, er mor fawr, wedi ei faddeu. Yr oedd Dafydd yma yn ymddwyn yn gall. Ac nid yn anghyffelyb yr ymddygodd Duw ei hun tuag at Elias ar ol hyn. Pan yr oedd efe wedi ymollwng, ac yn deisyfu marw, dyna Dduw yn gwneuthur âg ef ran Meddyg yn gystal â Dyddanydd. Mae Angel yr Arglwydd yn ei roddi i gysgu dan y pren, yn crasu iddo deisen fwyadwy, ac yn rhoddi phiolaid o ddwfr yn gyfleus iddo, ac wedi iddo fwyta ac yfed, yn ei roddi i gysgu drachefn, yna yn ei alw i fwyta eilwaith, ac yn erchi iddo gymeryd *exercise*. "Mae i ti lawer o ffordd." Y Meistr nefol oedd yn codi ei hen was ffyddlawn o'r ymollyngdra, trwy arfer y moddion rhagoraf i sirioli ei feddwl. Dacw Jonah yn y dymhestl ar y môr. Yr oedd yn ddigon adfydus ar bawb oedd yno gydag ef, ond yr oedd yn waeth arno ef nag ar neb. Dyna'r coelbren wedi syrthio arno, a'i gydwybod yn gorfod tystiolaethu, "Gwn mai o'm hachos i y mae'r dymhestl fawr hon." A phan yr oedd y pysgodyn wedi llyncu ei gorff, bu agos, yn wir, i anobaith lyncu ei enaid, nes ei fod yn ei weled ei hun ar suddo o wŷdd Duw i fol uffern. Ond dyma ei ffydd yn cael ei hanadl eto, ac yn ei gadw rhag ymollwng yn anobeithiol: "Pan lewygodd fy enaid ynof, cofiais yr Arglwydd," a'i benderfyniad oedd, "Er hyny mi a edrychaf eto tua'th deml sanctaidd." Ac wele'r cwbl yn diweddu mewn dwyn yr hen greadur anhydyn i aberthu mewn llais clodforedd, i dalu ei addunedau, ac i gydnabod yn ddiolchgar fod iachawdwriaeth yn eiddo yr Arglwydd. Ceir Habacuc mewn dychryn a chryndod drwyddo; mae yn gweled y barnau trymion

yn dyfod, ac yn ymsynio y dygent nid yn unig ddinistr ar y wlad, ond cerydd i'w gydwybod yntau. "A pha beth a atebai pan y'm cerydder?" medd efe. Wel, fe balla dy ysbryd yn llwyr, Habacuc. Na, yr wyf yn dysgwyl gorphwys yn nydd trallod; y mae genyf eto ffydd yn Nuw, a'r "cyfiawn a fydd byw trwy ei ffydd. Er i'r ffygysbren na flodeuo, ac na byddo ffrwyth ar y gwinwydd: gwaith yr olewydd a balla, a'r meusydd ni roddant fwyd; torir ymaith y praidd o'r gorlan, ac ni bydd eidion yn eu beudai; eto mi a lawenychaf yn yr Arglwydd, byddaf hyfryd yn Nuw fy iachawdwriaeth."

II. GWRANDAWN AR Y RHESYMAU I UFUDDHAU I ANNOG-AETH Y TESTUN, sef, iawn ymagweddu ger bron Duw mewn cystuddiau, heb ymgaledu ar y naill law, na digaloni ar y llaw arall, ond ymostwng dan law Duw, gobeithio ynddo, ac ufudd hâu iddo.

I. *Y mae ewyllys a gweithrediad Duw yn yr holl bethau a ddyoddefir.* "Cerydd yr Arglwydd," meddir yma, yw y cyfan. Yn y golwg, nid oedd dim ond gelynion yr Hebreaid cristionogol yn eu hyspeilio, a'u gwneuthur yn wawd; eithr nid oedd dyn ond yr offeryn; Duw oedd y gweithredydd mawr. Felly eto: mae'r cristion yn y byd hwn yn cael ei droi a'i drosi gan fyrdd o bethau.. Mae Satan yn ymosod arno, pechod yn ymgynnddeiriogi ynddo, y byd yn gwgu, afiechyd yn gwasgu, ac angeu ei hun yn dynesu. Ond tra mae blinderau o amrywiol fath yn dygyfor oddiamgylch y cristion, y mae yr Ysbryd mawr fragywyddol goruwch oll, a thrwy oll, yn dysgyblu ac yn ymgeleddu ei enaid. Maent yn fynych yn ymddangos i ni fel damweiniau deillion; ond y mae bwriad, mae llygad, mae trefn ac amcan yn y cwbl. Ydyw, y mae Duw yn yr holl bethau cystuddiol. Efe sydd yn rhoddi ac yn cymeryd ymaith, yn lladd ac yn bywhâu. Ei weision ef yw pob peth. Pa gystudd bynag a all alw gyda thi, fy nghyfaill, cofia ei fod yn dyfod yn enw ac ar neges yr Arglwydd o'r nef. Na ddirmyga'r cerydd; y mae Duw ynddo, ac, hwyrach, gyda gŵg yn ei wêdd, a'r wialen yn ei law, yn galw am ymostyngiad, edifeirwch, a diwygiad. Nac ymollwng ychwaith: mae Duw yn ei anfeidrol ddoethineb a'i ras yn dylanwadu ar bobpeth dy gystudd, ac yn goleuo yr holl dywyllwch.

2. *Y mae cystuddiau'r saint yn geryddon cariad; ac y mae iawen agwedd meddwel danynt yn sicrhâu iddynt hwy eu hunain mai felly y maent.* Yr adnod ar ol y testun a ddywed, "Canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu y mae yn ei geryddu, ac yn fflangellu pob mab a dderbynio." A chawn Iesu Grist ei hun yn dywedyd, "Yr wyf fi yn argyhoeddi ac yn ceryddu y sawl yr wyf yn eu caru." Cariad yw yr achos o holl adfydau y cristion. Fel hyn y maent yn dyfod o'r un ffynnon ag y mae ei iachawdwriaeth yn tarddu o honi. Y cariad tragywyddol a roddodd yr unig-anedig Fab—y cariad a barodd i'r Mab roddi ei fywyd i lawr yn dy le—y cariad a'th wnaeth di, gristion, yn blentyn i Dduw—y cariad sydd wedi estyn i ti yr holl faddeuant, yr holl ddaioni, yr holl gysur a'r cynnalïaeth a dderbyniaist hyd yn hyn, ac yn yr hwn y byddi yn ymhyfrydu yn oes oesoedd,—y cariad hwn yw yr achos o'r holl geryddon sy'n cael eu gweinyddu arnat yn hyn o fyd. Mae yr Arglwydd yn caru cyn ceryddu, ac yn ceryddu am ei fod yn caru. Ië, nid *er* ei fod yn caru, ond *am ei fod* yn caru. Pe na buasai yn dy garu, fy enaid, ti a gawsit lonydd ganddo. Ond y mae yn dy garu yn rhy fawr i'th adael i ti dy hun—yn caru dy sancteiddrwydd yn fwy na dy bleser; yn caru dy lesâd dros byth yn fwy na'th esmwythyd dros amser. Ac, yn wir, y rhai mae Duw yn eu caru fwyaf sydd yn gyffredin yn cael eu ceryddu drymaf; ac o dan y cyfryw geryddon y cânt yr amlygiadau cryfaf o gariad eu Tad. Pa bryd y maent yn gorfoleddu fwyaf? Mewn gorthrymderau. Pa bryd y maent yn sôn fwyaf am y gogoniant a ddadguddir iddynt? Pan dan ddyoddefiadau yr amser presennol hwn. Pa bryd y maent yn gallu gofyn yn fwyaf hyderus, "Pwy a'n gwahana ni oddiwrth gariad Crist?" Pan mewn gorthrymder, neu ing, neu ymlid, neu newyn, neu noethni, neu enbydrwydd, neu gleddyf? Llawer cristion a all roddi yn hanes am dano ei hun tra yr oedd pob peth yn esmwyth gydag ef, nad oedd efe yn derbyn nemawr o amlygiadau cysurol ei fod yn blentyn i Dduw; ond pan ddaeth cystudd i'w gyrchu adref i'w orphwysfa, clywodd lais peraidd ei Dad drachefn yn ei gyfarch, "Fy mab!" Na ddirmyga yr hyn a wna cariad, ac nac ymollwng dan law cariad. Cariad sydd wrth wraidd yr holl orchwyliaethau; a deui dithau ryw ddydd i

ardystio, "Gwn, Arglwydd, mai cyfiawn yw dy farnedigaethau, ac mai mewn ffyddlondeb y'm cystuddiaist."

Pan ddelo'r meddwl i'r teimlad priodol dan gerydd, yna gellir dysgwyl y daw i brofi mai ffrwyth cariad mabwysiadol yw ei holl gystuddiau. Wel ië, medd rhywun, yr wyf fi yn dduwiol; o herwydd dyma fi yn cael llawer o gystuddiau. Nage, bechadur; nid yw y *fact* dy fod yn cael dy gystuddio yn ddigon i brofi duwioldeb. Ni wŷr dyn na chariad na châs oddiwrth hyny ynddo ei hun. Mae yr annuwiol, fel y duwiol, yn cyfarfod â chystuddiau. Y pwnc ydyw, Pa un ai arwydd o lid, ynte o gariad, ydyw'r cystudd? Pa un ai cosb Barnwr ai cerydd Tad ydyw? Wele, pa fodd y gallaf wybod hyny? Wrth dy ysbryd a'th ymddygiad dan y cystudd. "Os goddefwch gerydd," medd adnod ddilynol i'r testun, "y mae Duw yn ymddwyn tuag atoch megys tuag at feibion." Nid y goddef cerydd sydd yn peri iddo ymddwyn felly, ond hyny sydd yn amlygu ei fod felly yn ymddwyn. Beth sydd yn haws na gweled fod Aaron yn blentyn i Dduw? O dan orchwyliaeth lêm iawn o eiddo Duw, "tewi a wnaeth Aaron." Y plentyn oedd yna yn tewi dan law ei Dad. Dacw Dafydd yn euog o feiau ysgeler iawn; a dacw ei Dad nefol yn ei geryddu, nes y mae ei esgyrn yn ddrylliog, a'i gydwybod yn gythryblus; ond yna wele efe yn amlygu holl deimladau plentyn at ei Dad. Ysbryd plentyn sy'n peri iddo gyfaddef, "Yn dy erbyn di, dydi dy hunan y pechais, ac y gwnaethum y drwg hwn yn dy olwg," ac yn ei gynhyrfu i ofyn, "Glanhâ fi âg isop, a mi a lanheir; golch fi, a byddaf wynach na'r eira." Ië, plentyn Duw yn unig a all waeddi o'i galon, "Na fwrw fi ymaith oddi ger dy fron, ac na chymer dy Ysbryd sanctaidd oddiwrthyf. Dyro drachefn i mi orfoledd dy iachawdwriaeth, ac â'th hael Ysbryd cynnal fi. Arglwydd, agor fy ngwefusau, a'm genau a fynega dy foliant." Da yn wir gan lawer un yn bresennol a fyddai gwybod ei fod yn blentyn i Dduw; a gwell a fyddai cael gwybod hyny mewn cystudd nag mewn un amser. Clyw, fy enaid, dyma'r ffordd i ti ddyfod i ddeall hyn: pa fodd yr wyt ti yn ymdeimlo ac yn ymagweddu yn dy gystudd? Os cei mai chwerwi ac ymgyndynu, neu mai tuchan a llwfrhâu y byddi, cymer hyny yn awgrym i ti ofni nad ydwyt yn y berthynas fabaidd â'r Tad o'r



nef. Dyfalbarhâ mewn gweddi am dy wneyd yn blentyn, ac am gael cymaint o dymher plentyn ag a dyno nôd y basdardd oddiarnat, ac a ddangoso mai plentyn i Dduw mewn gwirionedd ydwyt. "Os goddefwch gerydd," ei oddef yn yr ysbryd ym-ostyngol, amyneddgar, crediniol, a diolchgar, "mae Duw yn ymddwyn tuag atoch" fel Tad tuag at ei feibion. Diau, ond cael y galon i'r iawn dymher, y ceir Duw, yntau, yn barod i dywallt ei gariad yn y galon hono, gan dderbyn yr enaid i gyfeillach neillduol âg ef ei hun.

3. *Mae dyben ac effeithiolrwydd y cerydd cystuddiol yn annogaeth i'w ddyoddef yn yr agwedd deilwng.* Dangosir hyny hefyd yn yr adnodau ar ol y testun. Mae tadau daearol yn fynych yn ceryddu eu plant oddiar fympwy a theimlad digofus. "Hwynt-hwy," sef "tadau ein cnawd," fel eu gelwir, "yn wir dros ychydig ddyddiau a'n ceryddent fel y gwelent hwy yn dda." Ond nid felly am y Tad nefol. "Eithr hwn er llesâd i ni." Mae'r cystudd dan fendith yn peri ffrwyth da. Mae'r Llafurwr Dwyfol, trwy orchwyliaethau anhyfryd i natur, yn glanhâu canghenau ffrwythlawn ei winwydden, fel y dygont fwy o ffrwyth.

Beth yw y ffrwyth? *Sancteiddrwydd.* "Fel y byddem gyfranogion o'i sancteiddrwydd ef." Mae Duw am wneyd credadyn fel efe ei hun, ac wrth ei fôdd ei hun. Effaith pechod yw cystudd; ond wedi newid ei natur yn nhrefn yr efengyl, y mae i'r crïstion yn gwrthweithio pechod. Mae y dyfroedd sydd yn rhedeg dros y meteloedd yn mherfedd y mynyddoedd yn troi yn feddyginiaethol; felly y mae profedigaethau'r saint. Rhedeg y maent i ddechre o berfedd mynyddoedd tragywyddol y cyfammod gras, ar hyd sianel gwaed ei groes Ef; ac erbyn y deuant at enau'r credadyn, y maent yn iachusol yn wir. "Trwy hyn y glanheir anwiredd Jacob; a dyma yr holl ffrwyth, tynu ymaith ei bechod;" tynu'r chwerwder o'r dymher, a'r bydolrwydd o'r galon, gan ddwyn yr enaid trwy ffydd a chariad i lynu wrth Dduw yn Nghrist.

Beth yw y ffrwyth? *Heddwch.* "Ni welir yr un cerydd dros yr amser presennol yn hyfryd, eithr yn anhyfryd." Yn ystod y cystudd, mae'r teimlad o hono yn flinderus; nis gall natur yn y credadyn, mwy nag yn yr anghredadyn, ymhyfrydu mewn dysgyblaeth geryddol. "Ond gwedi hyny y mae yn

rhoi heddychol ffrwyth cyfiawnder i'r rhai sydd wedi eu cynnefino âg ef," neu, "i'r rhai sydd trwyddo yn ymarfer eu hunain." *Exercise* da i ras yw cystudd; lle i ddangos ffydd ac amynedd ac ufudd-dod i Dduw. Ac i'r rhai sydd yn dyfod yn llwyddiannus drwy'r fath ymarferiad, rhoddir heddychol ffrwyth cyfiawnder; canys "gwaith cyfiawnder fydd heddwch; ië, gweithred cyfiawnder fydd llonyddwch a diogelwch hyd byth." Dyna bechadur yn cael "ei geryddu trwy ofid ar ei wely, a lliaws ei esgyrn ef â gofid caled, fel y ffeiddio ei fywyd ef fara, a'i enaid fwyd blasus;" yn awr y mae 'daear, da, a dyn,' yn myned yn ddigymhorth iddo ac yn ddiwerth ganddo, nes nad oes ganddo ond troi ei wyneb tua'r nefoedd; ac yna, yn y cyfyngder mawr, mae yr Angel-Ladmerydd, yr Arglwydd ein cyfiawnder, yn dangos anfeidrol haeddiant ei iawn yn ddigonol eto o'i blaid; a dyna efe yn awr yn teimlo heddwch fel yr afon. Mae'r euogrwydd wedi ei symud, ofnau yr enaid wedi peidio â'u cyffro, a'r chwantau cythryblus wedi eu darostwng; yr heddychol ffrwyth cyfiawnder sydd wedi dyfod iddo yn sypiau mawrion addfed.

Beth yw y ffrwyth? *Bywyd.* "Ni a gawsom dadau ein cnawd i'n ceryddu, ac a'u parchasom hwy; onid mwy o lawer y byddwn ddarostyngedig i Dad yr ysbrydoedd, a byw?" Y darostyngiad hwn i Dduw fel Tad yr ysbrydoedd yw goddef y cerydd yn addfwyn a gostyngedig, yn edifeiriol a chrediniol: y goddef heb ddirmysgu ac heb ymollwng; a'r effaith o hyny a fydd "byw." Annhraethol well ydyw fflangell gyda bywyd na llonyddwch gyda chrogbren. "Pan y'n bernir, y'n ceryddir gan yr Arglwydd, fel na'n damnier gyda'r byd." Mae trefn cyfammod heddwch yn gwneuthur y cystudd presennol yn barotöad odiaeth i'r bywyd tragwyddol. "Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant i ni." Pa fodd y bydd arnom yn y diwedd? dyna'r cwestiwn pwysig i ni oll. Pwy yw hwnyma? Gŵr goludog a wisgir â phorphor a llian main, ac sydd yn cymeryd byd da yn helaethwych beunydd. A phwy yw hwnacw? Dim ond cardotyn, a fwrir wrth borth y goludog yn gornwydlyd. Dyma'r naill yn derbyn ei wynfyd yn ei fywyd, a'r llall ei adfyd. Mae gan y naill a'r llall Moses a'r prophwydi; ac y mae'r tlawd cornwydlyd yn gwrando arnynt,

ond gŵr y cyfoeth a'r porphor heb gredu. Wel, dyna'r ddau yn marw rywbyrd; ac O yr olwg wahanol a geir arnynt yr ochr draw i farw! Y tlawd cystuddiedig ond crediniol,—dacw efe yn mynwes Abraham, yn mwynhâu y tragywyddol bwys gogoniant a weithredwyd iddo trwy gystudd; ond y cyfoethog digred a geir yn uffern, yn suddo dan y tragywyddol bwys digofaint yr oedd efe yn nghanol y byd da yn ymgymhwysio fwyfwy iddo.

Mynwn ni oll ddangos ein bod yn blant i Dduw trwy wrando gydag ufudd-dod mabaidd ar gynghor y testun. Ac os dywed y gydwybod wrth rywun yma nad ydyw efe yn blentyn i Dduw, dychryned y cyfryw, ac nac oeded dderbyn Crist fel y mae yn cael ei gynnyg yn yr efengyl; canys "cynifer ag â'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, sef i'r sawl a gredant yn ei enw ef."

## PREGETH XIII.

YR EFENGYL YN DYSGU SOBRWYDD.

TITUS ii. 11, 12 : “Canys ymddangosodd gras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn, gan ein dysgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon.”

**Y** “GRAS Duw” hwn yw efengyl ei ras ef, yr hon sydd yn amlygu a chyhoeddi trefn gras i gadw pechaduriaid. Gras ydyw wedi “ymddangos”—fel yr haul yn codi yn ei rym, ac “yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn,” i ddynion yn gyffredinol, ymhob gradd a sefyllfa. A chyda fod efengyl gras yn iachâu neu yn achub yr enaid rhag digofaint yn y byd a ddaw, y mae hefyd yn “dysgu” yn effeithiol i iawn ymagweddu yn y byd sydd yr awr hon. Y mae yn dysgu i ddechre trwy ddad-ddysgu yr hyn sydd ddrwg,—dysgu “i wadu annuwioldeb a chwantau bydol,” ac yna yn dysgu i wneuthur yr hyn sydd dda: i “fyw yn sobr” tuag atom ein hunain, “ac yn gyfiawn” tuag at bawb eraill, “ac yn dduwiol” tuag at Dduw.

Cawn yma aros yn unig ar yr efengyl yn ein dysgu i fyw yn sobr.

Mae'r gair sobrwydd yn cael ei gymhwyso weithiau at yr ysbryd, ac yn arwyddo pwyll ac iawn fantoliad meddwl, mewn cyferbyniad i orphwylldra a dychymyigion gwylltion a chyfeiliornus. Weithiau fe'i cymhwysir at y corff, ac felly yn golygu iawn lywodraethiad blysiâu iselaf ein natur, mewn cyferbyniad i bob gormodedd ac anghymedroldeb. Ond fynychaf mae'r

sobrwydd i'w gymeryd fel y mae yn cyrhaedd a threfnu yr holl ddyd—y corff, y meddwl, a'r ymddygiadau.

Gallwn nodi fod yr efengyl yn dysgu sobrwydd,

1. Mewn cyferbyniad i *falchder a hunan-dyb*. “Yr wyf yn dywedyd, trwy y gras a roddwyd i mi,” medd Paul wrth y Rhufeiniaid, “na byddo i neb uchel synied yn amgen nag y dylid synied, eithr synied i sobrwydd.” Dyn yn synied i sobrwydd ydyw un yn barnu ei hunan wrth faint ei ffydd, ac yn barnu ei ffydd wrth ei weithredoedd, a'i gallu i gynnyrchu sanct-eiddrwydd ac ufudd-dod, ac nid barnu yn ol maint dysg, gwybod-aeth, a doniau mwy cyffredin.

2. Mewn cyferbyniad i *orphwylldra meddwl a barn*. Mae yn wir fod yr efengyl ei hun yn cael ei chyhuddo o wallgofrwydd, o ran ei hathrawiaeth a'i hysbryd, gan blant y byd hwn. Ac y mae hithau weithiau megys yn derbyn y cyhuddiad, ac yn troi allan dan yr enw y mae'r byd yn ei roddi arni, er mwyn gallu ei gyfnewid a'i achub. “Yr ydym ni yn pregethu Crist wedi ei groeshoelio, i'r Groegwyr yn ffolineb.” Ond os ffolineb, ffolineb Duw ydyw; ac “y mae ffolineb Duw yn ddoethach na dynion, a gwendid Duw yn gryfach na dynion.” Os “anmhwyllo yr ydym” yn ein zel i bregethu yr efengyl, bydded felly; “i Dduw yr ydym yn anmhwyllo; cariad Crist sydd yn ein cymhell ni.” Ond bryd arall y mae'r cyfryw gyhuddiad yn cael ei wadu yn hollol. “Nid wyf fi yn ynfydu, O ardderchocaf Ffestus; eithr geiriau gwirionedd a sobrwydd yr wyf fi yn eu hadrodd.” Nis gall athrawiaeth fod yn wallgofrwydd, pa mor hynod bynag y byddo, os ceir hi yn wirionedd, ac yn enwedig yn wirionedd pwysig. Ac nid yw ysbryd dyn yn wallgofus, gan nad pa faint yw ei zel a grym ei deimladau, os bydd yr hyn y teimla yn ei gylch yn sylweddol a phwysfawr. Ond y mae yn bosibl i'r golygfeydd am y dyfodol, a agorir gan yr efengyl ger bron y meddwl, achlysuru dychymyigion disail, a rhywbeth tebyg i wallgofrwydd. Gallem ni dybied fod llawer o ddiffyg pwyll yn syniadau rhai dynion, a'r rhai hyny yn ddyinion da, o barth i ddychweliad yr Iuddewon, y mil blynnydoedd, ac ystâd y saint mewn gogoniant. Pe meddyliem am brydyddion Cymru yn canu ar faterion neu adroddiadau'r Bibl,—y wisg ac nid enaid y pwnc—yr hyn sydd yn gweithio ar y dychymyg;



ac nid yr hyn sydd yn cydio yn y gydwybod, a ddewisir fynychaf. Ond y mae tuedd yn ngorchwylliaethau Ysbryd Duw trwy yr efengyl i wneyd dyn yn sobr mewn meddwl a barn. Y mae efe yn gweithio, nid ar y dychymyg, ond ar y gydwybod a'r teimladau moesol,—yn dwyn dynion i wregysu lwynau eu meddwl a bod yn sobr yn eu gobeithion, eu hofnau, a'u holl ddirnadaeth.

3. Mewn cyferbyniad i *afreoleidd-dra nwydau digofus ein natur*. Nid anfynech y gwelwyd llygredigaeth yn gweithio i'r digofaint nad yw yn cyflawni cyfiawnder Duw, ond yn tori allan yn deimlad digllawn yn yr ysbryd, yn lliw digllawn ar y wyneb, yn llais digllawn yn y gwddf, ac yn iaith ddigllawn ar y tafod, i.e., yn cynnyrchu gweithredoedd mor waedlyd nes y gellid dyweyd yn debyg i'r hen Jacob, "Melldigedig oedd eu dig, canys tost oedd, a'u llid, canys creulawn fu." Ond y mae'r efengyl yn dysgu dyn i lywodraethu ei ysbryd ei hun, i fod yn gymhesur ac yn dymherus, gan dynu ymaith oddiwrtho bob chwerwedd, a llid, a dig, a llefain, a chabledd, gyda phob drygioni; a thrwy dynu'r chwerwedd o'r ysbryd, tynir ef o'r geiriau a'r llais. Wrth ddyweyd y rhaid i esgob fod yn sobr, yr oedd yr Apostol yn dysgu, nid yn unig nad oedd efe i fod yn wingar, ond hefyd nid yn ddigllawn, nid yn darawydd, eithr yn dirion ac yn amymladgar, ac felly ymddwyn ar bob pryd mewn pwyll a doethineb.

4. Mewn cyferbyniad i *orawydd am gyfoeth a mawredd bydol*. Mae dysgu byw yn sobr, ni a welwn, yn cydgerdded â dysgu i wadu annuwioldeb a chwantau bydol. Mae dysgeidiaeth gras yr efengyl yn gwaredu oddiwrth ariangarwch, yr hwn, yn y rhai y mae yn dal llywodraeth arnynt, sydd yn wreiddyn pob drwg. Y chwantau bydol sydd yn peri i ddynion nid yn unig gyfeiliorni oddiwrth y ffydd, ond hefyd oddiwrth foesau da cyfiawnder a gwirionedd, a chymeryd ffyrdd drwg i geisio'r byd, ac i'w fwynhâu, a syrthio i dristwch drwg ac angeuol wrth ei golli. Mae y rhai hyn yn syrthio i brofedigaethau a maglau, yn eu gwanu eu hunain â llawer o ofidiau, ac yn y diwedd yn boddi i ddinystyr a cholledigaeth. Ond y mae'r sobrwydd a ddysgir gan yr efengyl yn ein cadw rhag rhoi ein meddwl ar uchel-bethau, eithr i fod â'n hymarweddiad yn ddiariangar, gan fod yn foddllawn i'r

hyn sydd genym. Os bydd genym ond ymborth a dillad, hi a'n dysg i ymfoddloni ar hyny.

5. Mewn cyferbyniad i *ysgafnder a choegddigrifwch*. Nid yw yr efengyl yn gwahardd sirioldeb a mwyniant diniwed. Yr ydym i wasanaethu yr Arglwydd ein Duw "mewn llawenydd, ac mewn hyfrydwch calon, am amltra pob dim." Ond y mae yn gosod yr "ymadrodd ffol a'r coegddigrifwch" yn yr un rhestr â godineb a phob aflendid, cybydd-dra, a serthedd, "pethau nid ydynt weddus." Mae sobrwydd yn trigo yn wastad gyda gwir ddifrifwch.

6. Mewn cyferbyniad i *goegwychder mewn gwisgiad*. "Yr wyf yn ewyllysio," ebe Paul, "bod i'r gwragedd eu trefnu eu hunain mewn dillad gweddus, gyda gwylder a sobrwydd; nid â gwallt plethedig, neu aur, neu òmau, neu ddillad gwerthfawr." Ac medd Pedr, "Trwsiad y rhai bydded nid yr un oddiallan, o blethiad gwallt, ac amgylch-osodiad aur, neu wisgiad dillad;" nid am y dyn oddiallan yr wyf fi yn meddwl; nid am hwnw y dylai fod eu gofal mawr hwythau; "eithr bydded cuddiedig ddyn y galon mewn anlygredigaeth ysbryd addfwyn a llonydd." Dyna yr iawn real tuag at wisgo. Gofaled y menywod am burdeb a mwynder yn ngwisgoedd y dyn oddimewn, ac fe ddysg hyny gymedroldeb gweddus gyda gwisgoedd y dyn oddiallan.

7. Mewn cyferbyniad i *ormodedd gyda'r blysiâu anifeilaidd*. Byw yn sobr yw byw nid yn lwth, yn feddw, yn drythyll, yn cyfrif moethau beunydd yn hyfrydwch, ond arfer pob cymedroldeb a dirwest.

Bellach ni a ymofynwn,

I. PA BRYD Y MAE DYNION YN MYNED GYDA BLYSIAU Y CNAWD DROS DERFYNAU SOBRWYDD YR EFENGYL?

II. PA FODD Y MAE YR EFENGYL YN DYSGU Y SOBRWYDD ANGHENRHEIDIOL?

I. YR YDYM I YMOFYN PA BRYD Y MAE BLYSIAU CORFFOROL EIN NATUR YN DWYN DYNION DROS DERFYNAU Y SOBRWYDD A GYMHELLIR ARNOM YN YR EFENGYL; neu, Pa bryd y mae'r chwantau naturiol yn myned yn chwantau drwg a phechadurus?

Mae rhai o nwydau dynoliaeth nad ydynt braidd byth yn ymdangos yn amgen nag yn eu gwedd afreolaidd a llygredig, nes ag yr ydym bron wedi myned i'w hystyried yn ddrwg ynddynt

eu hunain—yn llygredigaeth, nid yn unig o ran eu hansawdd, ond o ran eu hanfod. Anhawdd yw tynu y llinell rhwng natur a llygredigaeth; rhwng unrhyw nwyd fel ei gwnaed gan Dduw, a'r nwyd hono fel y mae Satan a phechod wedi ei gwneuthur. Eto nid yw gwyniau mwyaf gwarthus y natur ddynol, o ran eu gwreiddyn a'u hanfod, ond galluoedd a roes y Creawdwr yn ein natur i ddybenion daionus. Tafu'r holl beiriant i anhwylded a ddaru'r cwmp: nid rhoi dim teimladau neu alluoedd i mewn yn ein natur, ond llygru y rhai oedd yno eisoes, pa rai ynddynt eu hunain sydd yn amlygiad o ddoethineb a daioni y Lluniwr Dwyfol, ac yn anheggorol i ddyn yn ei gyflwr daearol er ateb dyben ei greadigaeth. Ond yr ydym yn dyfod i ateb y cwestiwn, Pa bryd y mae'r chwantau hyn yn cario dynion dros derfynau y sobrwydd a ddysgir gan yr efengyl?

1. Mae blysiâu neu wyniau natur yn sicr o fod mewn ansawdd afreolaidd *pan y maent yn galw am eu boddhâu ymhellach nag y mae yn anghenrheidiol er gwasanaethu natur ei hun.* Pan y byddo unrhyw nwyd wedi ei gosod yn ein natur i wasanaethu rhyw amcan neillduol, y mae hi yn rhwym o fod o'i lle os bydd yn myned dros ben ei hamcan ei hun. Mae'r amcan i reoleiddio'r moddion, y dyben sydd i'r blys neu'r teimlad, yn dysgu i ba raddau y dylid ei foddhâu. Mae holl dueddiadau y natur, yn eu hansawdd ddiniwed, yn tueddu at ei hesmwythâd, ei chyfnerthiad, a'i hiechyd, wrth eu cyflawni; ond pan fyddont yn gwarthruddo y cymeriad, yn llethu natur, yn dinystrio ei hiechyd a chryfder y corff, ac yn ei lenwi â phoen a chlefydau, maent yn dinystrio eu hamcan eu hunain, ac yn sicr o fod yn chwantau drwg a phechadurus.

Er enghraifft, y mae naturiaeth, oddiar ei gwylder a'i hanwyd, yn galw am ddïllad i'w chynhesu a'i haddurno. Mor eglur yw ei haddysg yn y pwnc hwn, fel y cawn ein rhieni cyntaf heb orchymyn, nac esiampl, nac un cyfarwyddyd arall, yn gwnïo dail y ffigs bren, ac yn gwneuthur iddynt eu hunain arffedogau. Ond os gwelir neb yn ymwisgo ymhellach nag y mae yn anghenrheidiol er clydwch a harddwch y corff, yn ol eu sefyllfa, dyna'r peth yn cael ei gario ymhellach na'i amcan, ac yn brawf o ynfydrwydd yn y meddwl, ac yn dangos fod yr awyddfryd am ymwisgo felly yn afreolaidd a drwg. Yn gyffelyb, y mae digofaint yn

deimlad cynhenid yn y ddynoliaeth, ac yn anghenrheidiol i'w hamddiffyn; ie, ond i'w hamddiffyn yn unig mewn mater o bwys, ac ar y fynydd nad oes nawdd arall i'w gael. Dychymyger am lofrudd yn ymosod ar deithiwr ar gefn mynydd ganol nos; nid oes yno yr un gyfraith i'w chael, yr un heddegidwad i'w alw—dim dylanwad oddiwrth bresennoldeb a chondemniad y cyffredin, i wahardd cynddaredd ac i amddiffyn y diniwed. Eithr y mae'r Creawdwr wedi arfogi natur â gallu i'w hamddiffyn ei hun. Nid yn unig y mae yr ofn sydd ynnddi, ond ei digofaint hi, yn ymgyhyrfu yn ngolwg amcan gwaedlyd y lofrudd; ac o dan y cynhyrriad hwnw, mae'r dyn yr ymosodir arno yn alluog i wneuthur mwy mewn hunan-amddiffyniad nag y buasai mewn tymher wahanol. Ond os bydd y cynhyrriad yn para yn hŵy na'r achlysur, a'r dyn â llid yn gorphwys yn ei fynwes yn wastadol, yn digio heb ystyr, neu yn dal digofaint yn ddiidwedd, ac yn lle llochesu dan gysgod cymdeithas a'i sefydliadau, yn dial ei gam â'i law·ei hun, yn gwbl er mwyn boddhâu ei nwydau digofus a lliidiog, mae hwnyna wrth ddigio yn pechu, a'r nwydau digofus yn ddireol a chythreulig. Y wraig sydd yn ei chartref yn anynad yn wastad, a'r creadur digllawn a dialgar mewn cymydog-aeth,—maent hwy yn eu beichio eu hunain â'u hoffer amddiffynol yn ddiachos; ac y mae eu hamddiffyn yn troi yn niweidiol, os nid yn angeuol, iddynt hwy eu hunain.

Yr un modd am chwant bwyd a diod: mae y rhai hyn wedi eu gosod yn y natur ddynol mewn trefn i'w chynnal a'i maethu. Beth yw y teimladau anesmwyth o newyn a syched ond natur yn galw am ei hanghenrheidiau? Ac felly y maent yn cael eu gosod gyda'u gilydd gan Iesu Grist: "Beth a wnaeth Dafydd pan oedd anghen a chwant bwyd arno?" Yr oedd y corff mewn gwir *anghen* am ymborth, a'r *chwant* yn adrodd yr anghen, ac yn galw am yr hyn a'i diwallai. Ac yn hyn, ni a allwn weled mor effeithiol y mae'r Arglwydd wedi darpar at gadwraeth y corff. Gallasai'r meddwl anghofio'r corff, a'i gadw i ymprydio i farwolaeth, heb ystyried ei anghenrhaid, oni byddai fod yn y corff ei hunan deimladau yn galw am ei gynnalïaeth, ac yn gwneyd y meddwl o'i fewn yn awyddus am ei feithrin. Ond pan elo'r blysiâu hyn i alw am fwy, ac i alw yn amlach, nag a fyddo yn anghenrheidiol er cynnal natur, ac i yru'r dyn i ymroi i foethau a danteithion,

maent yna yn sicr o fod yn chwantau drwg a pechadurus. Welé'r dyn erbyn hyn yn bwyta ac yn yfed, nid er cryfder, ond er glythineb a meddwdod, ac yn dyfetha ei gnawd, yn lle ei feithrin. Fel moddion cyffredin dan fendith yr Arglwydd i ochelyd y galanastra hwn, ymgadwn hyd y byddo modd at anghenrheidiau natur—at yr hyn a'i cynnal heb wneuthur ei blysiau yn afreolaidd.

Ar yr egwyddor hon yr ydym yn awyddus i ennill ieuencyd y wlad yn ddirwestol. Nid oes yn y dwfr glân na magl na siomedigaeth; mae yn myned i waered yn felus tra y mae'r corff yn sychedig; ond wedi y torer ei syched, mae'r blys yn darfod, amcan yfed wedi ei gyrhaedd, y natur wedi ei diwallu, a dim yn y dwfr yn temtio i yfed gormod. Ond am y diodydd cryfion, y maent yn demtasiwn i bob math ar ddyn; mae eu lliw yn y cwpan, eu harogl i'r ffoenau, eu blas i'r archwaeth, a'u heffeithiau symbyliadol ar y corff i ddechre, oll yn demtasiwn. Wrth eu hir ymarfer, mae'r chwant atynt yn cael ei genedlu a'i grythâu; ac unwaith y delo'r chwant hwnw i deyrnasu ar natur, ni ddywed byth, Digon; ac y mae'r dyn wrth ei gyflawni yn anhwylyso, yn nychu, ac yn lladd ei hunan.

2. Mae'r blysiau naturiol yn afreolaidd, ac yn myned dros derfynau'r sobrwydd y mae yr efengyl yn ei ddyssu, *pan y maent yn rhy angerddol yn eu gweithrediadau, a'r boddhâd o honynt wedi myned yn brif hyfrydwch y meddwl*. Mae'r Bibl weithiau yn darlunio dynion megys yn wallgof ar eu chwantau. "Calon meibion dynion sydd yn llawn drygioni, ac ynfyrwydd sydd yn eu calon tra fyddant fyw." Yn hytrach, meddir, "gwallgofrwydd sydd yn eu calon tra fyddant fyw;" ac felly y cawn y darlleniad Seisonig, "*Madness is in their heart;*" a darllena rhai, "Gwallgofrwydd sydd yn meddiannu eu calon." Mae drygioni yn naturiol yn nghalon dyn pechadurus; ac y mae hwnw trwy'r chwant hwn, neu chwant arall, o dan ddylanwad demtasiwn, yn myned yn wallgofrwydd ynddo; a chan nerth ei chwant mae'r dyn yn cael ei yru trwy holl gwterydd bryntion dychymygion ffol a gweithredoedd camweddus.

Mae yn wir fod y blysiau yn eu hystâd ddiniwed yn gryfion pryd y byddo'r corff mewn cyfyngder ac anghen am wrthddrych-  
au'r blysiau hyny. Ac o bosibl nad oes yr un teimlad corfforol



yn fwy angerddol na syched pan fyddo'r natur wedi sychu i fyny gan wrês a llafur. "O pwy a rydd i mi ddiod ddwfr o bydew Bethlehem?" meddai Dafydd pan yn gauedig yn ogof Adulam. "Y sychedig a freuddwydia, ac wele efe yn yfed; a phan ddeffrô, wele ef yn ddiffygiol, a'i enaid yn chwennych diod." Teimlad felly oedd yn Samson pan ddywedir, "Efe a sychedodd yn dost, ac a lefodd ar yr Arglwydd." A chyffelyb ydoedd gydag Ismael ieuanc pan y gadawodd ei fam ef dan y twmpath, am ei bod hi yn methu edrych ar ei bachgen yn marw o syched. Pwy a all draethu yr hyn a deimlai Iesu Grist pan lefodd, "Y mae syched arnaf?" Ond yn y cyfryw amgylchiadau, pa mor gryf bynag ydoedd y chwant, a dymuniad y meddwl am ei ddiwallu, yr oedd y cyfan yn naturiol a diniwed. Felly mae y Duw mawr, yn lle beio, yn tosturio, ac yn addaw gwaredigaeth i ddynion yn y fath anghenocid: "Pan geisio y trueiniaid a'r tlodion ddwfr, pan ballo eu tafod o syched, myfi yr Arglwydd a'u gwrandawaf hwynt; myfi Duw Israel nis gadawaf hwynt. Agoraf afonydd ar leoedd uchel, a ffynnonau yn nghanol y dyffrnoedd; gwnaf y diffeithwch yn llyn dwfr, a'r crasdir yn ffrydiau dyfroedd." Efe a ddanfonodd angel i ddangos y pydew i Agar mam Ismael, ac a dynodd ddwfr trwy gilddant yr asyn i ddadebru Samson; ac ymysg gwyrthiau eraill yr anialwch i blant Israel, efe a ddŷg ddwfr o'r graig i'w disychedu, yn gystal a rhoddi iddynt fara o'r nef rhag newynu.

Ond mewn amgylchiadau eraill, yr ydym yn cael fod yr Arglwydd yn condemnio y chwantau hyn, ac yn galw ar ddynion i'w croeshoelio a'u marwhâu. "Pan eisteddych i fwyta gyda thywysog, ystyria yn ddyfal beth sydd ger dy fron; a gosod gyllell ar dy geg os byddi ddyn blysig. Na ddeisyf ei ddant-eithion ef, canys bwyd twyllodrus ydyw. Nac edrych ar y gwin pan fyddo coch, pan ddangoso ei liw yn y cwpan, pan ymgynhyrfo yn iawn." A phan flysiodd Israel yn ddirfawr yn y diffeithwch, os na ommeddodd Duw eu dymuniad iddynt, efe a barodd i'r cyflawniad o hono fod yn farn ar eu cyrff a'u heneidiau. Ond yr un yn wreiddiol yw y chwantau hyn yn y ddau amgylchiad; ac wele hwynt yn gryfion yn y ddau fel eu gilydd. Pa fodd, ynte, yr oedd y chwant yn ddiniwed yn y naill amgylchiad, ac yn feius yn y llall? Yr ateb yw, ei fod yn y

naill yn chwant yn codi oddiar anghen y corff am y peth a ddymunid, ond yn y llall yn chwant heb anghenrhaid corfforol, eithr yn cynhyrfu ac yn gweithio yn gryf at ei wrthddrych yn unig er mwyn y pleser o'i fwynhâu. Mae chwant cryf am yr hyn nad oes ar y pryd anghen am dano, yn sicr o fod yn chwant afreolaidd a drwg; ac am hyny yn lle ei borthi, gelwir arnom i'w farweiddio, fel y gwelsom. Dyro gyllell marweiddiad ar geg y chwant, os byddi ddyn blysig. Nac edrych ar y gwîn. Yn yr amgylchiadau hyna, golygir fod y chwant wedi meddiannu y meddwl yn ormodol; y meddwl gwag wedi colli ei wir wrthddrych, a'r gallu i ymhyfrydu ynddo, ac yn anghenus yn gwaeddi, Pwy a ddengys i mi ddaioni? ac yn ngwall daioni uwch, dyna'r cnawd yn gwneyd ei ffordd i'r meddwl, yn gwisgo ei wrthddrychau yn goegwych yn y dychymyg, ac yn addaw mwynhâd i'r serchiadau; a dyna'r galon yn myned yn wallgof ar ei chwant. Mae'r chwant wedi myned â lle Duw yn y galon; ei dduw yw ei fol; mae yn caru meluschwant yn fwy nag yn caru Duw. "Deuwch, meddant, cyrchaf wîn, ac ymlanwn o ddiod gref; a bydd yfory megys heddyw, a mwy o lawer iawn." Mae'r dyn yn cael pleser wrth gyflawni ei chwant, wrth gofio yn ôl am yr hyn a gafodd, ac wrth edrych ymlaen at yr hyn a fwriada. Mae yn myned mor wallgof ar ei chwant, nes y cyffelybir ef i'r march porthiannus yn gynddeiriog ar ei nwyd a'i fwyth (Jer. ii. 24, 25). "Cadw dy geg rhag syched. Tithau a ddywedaist, Nid oes obaith, nac oes; canys cerais ddyeithriaid, ac ar eu hol hwynt yr âf fi." Y diodydd cryfion, dyna'r dyeithriaid hudoliaethus yn ein gwlad ni; ac ar eu hol hwynt yr âf fi, medd y dyn dan eu hudoliaeth—ar eu hol o ddydd i ddydd, ac o dafarn i dafarn. A oedd gan air Duw ryw ddylanwad unwaith ar ddyn fel hyn? Mae'r gwirionedd yn ddieffaith arno yn awr. A oedd gan ofn angeu a barn uffern radd o feistrolaeth arno gynt? Ni arswydir mo hyny bellach. A oedd gan geryddon tymmorol, anhwyldeb corff, a chystudd teuluaidd, ryw effaith i'w arafu amser yn ol? Mae pob peth yn methu gwneyd argraff ddaionus arno mwyach. "Ti a fyddi fel un yn cysgu yn nghanol y môr, ac fel yn cysgu yn mhen yr hwyldbren. Curent fi, meddi, ac ni chlafychais; dulient fi, ac nis gwybûm; pan ddeffröwyf, mi a âf rhagof, mi a'i ceisiaf drachefn." Pa beth bynag yw gwraig, a phlant, ac enw da,

ac iechyd corfforol, ac amgylchiadau llwyddiannus, yn ngolwg a theimlad eraill, y mae'r blysig hwn yn eu haberthu hwynt oll i'w drachwant cnawdol. A pha beth bynag yw Duw, a Christ, a phethau'r nefoedd, gan y crïstion, wele'r dyn anifeilaidd yma yn eu bwrw oll ymaith oddiwrtho, ac yn cymeryd ei chwant yn eu lle. Mae yn ei groesawu er a chyda'i holl ganlyniadau; doed a ddelo, efe a'i mÿn.

Gyda golwg ar hyn, mae yn sicr am yr hwn sydd yn teimlo chwaeth neillduol at y ddiiod feddwol—rhywbeth ynddo sy'n dysgwyl am dani yn gyson, ac yn ei mwynhâu yn fawr pan ei ceiff, serch ei fod yn ei olwg ei hun, ac yn ngolwg eraill, yn gymedrol wrth ei harfer—mae yn sicr am hwn, meddaf, ei fod yn bwydo neidr a'i piga yn farwol, ac yn porthi clefyd a'i lladd. Os nad yw'r chwant ond megys gwas iddo eto, mae efe wedi ei ddwyn i fyny yn foethus o'i febyd, ac am hyny yn y diwedd efe a fydd megys mab iddo, ac yn arglwydd ar ei gwbl, ac yn fab afradlawn yn dinystrio llawer o ddaioni. Yr oedd mam synwyr-gall Lemuel frenin yn gweled y chwant, wedi cael ei rwysg, yn dyfetha breninoedd; ac felly y mae hi yn gwasgu yn serchog ac yn ddifrifol ar ei mab, mab ei haddunedau, "Na ddyro dy ffyrdd i'r hyn a ddyfetha freninoedd. Nid gweddaidd i freninoedd, O Lemuel, nid gweddaidd i freninoedd yfed gwîn, nac i benaduriaid ddioid gadarn."

3. Mae'r blysiâu hyn yn myned ar grwydr oddiwrth sobrwydd yr efengyl, *pan yn gyru dyn i'w cyslawni mewn ffyrdd pechadurus, a chyda gwrthdrysychau gwaharddedig ac anghyfreithlawn.* Mae Creawdwr ein teimladau wedi eu gosod dan ddeddf, ac wedi darparu i bob un ei wrthdrysych priodol. "O .bydd genym ymborth a dillad, ymfoddlonwn ar hyny. Rhag godineb, bydded i bob gŵr ei wraig ei hun. Yf ddwfr o'th bydew dy hun, a ffrydiau allan o'th ffynnon dy hun." O fewn y terfynau a osodwyd gan Dduw, mae pob nwyd yn ddiniwed, yn anrhydeddus, yn ddiogel, ac yn ateb dybenion ei gosodiad. Ond pan êl y chwant i ddechre sibrd yn y galon, "Dyfroedd lladrad sydd felus, a bara cudd sydd beraidd," ac i gario y naill oddiwrth ei wraig at y butain, a'r llall oddiwrth anghenrheidiau natur i gyfrif moethau beunydd yn hyfrydwch, y mae sobrwydd wedi ei lwyrr golli, a'r chwant wedi myned yn anghymedrol a drwg. Oni wyddoch chwi beth a

wnaeth Dafydd pan ddaeth y chwant heibio iddo fel ymdeithydd? Drwg oedd yna, yn profi fod y chwant yn afreolaidd. Ond Dafydd frenin a arbedodd gymeryd o'i ddefaid ei hun, ac o'i wartheg ei hun, i arlwyo i'r ymdeithydd chwantus, eithr efe a gymerth oenig y gŵr tlawd. Nid felly Mab Dafydd. Er fod newyn arno, a hyny nid yn nghyrhaedd digonedd, ond mewn anialwch, ni fynai efe droi i un ffordd anghyfreithlawn i'w dori. Chwi a ellwch fod yn sicr, ynte, nad ydych sobr yn eich blysiâu pan yn anfoddlawn yn nghanol digonedd, yn ddiflas o'ch cysuron cyfreithlawn eich hunain, ac yn dyheu ar ol yr hyn sydd waharddedig.

Yma ni a garem sylwi fod yr archwaeth at ddiiod wedi myned i fesur mawr yn y wlad hon dros derfynau y sobrwydd ag y mae yr efengyl yn ei ddysgu, fel y mae lle i ofni, pan y mae cymdeithas mor gyffredin wedi gadael heibio yr ymarferiad â dwfr, a throi at y diodydd cryfion. Os nad yw'r tlodion yn eu harfer yn gyson, eto y maent yn eu harfer pryd na bydd syched nac anghen am danynt, ac yn aml i ormodedd; a pha beth sydd yn peri hyny ond chwant drwg? Ac am eraill, y mae'r ffaith eu bod wedi myned i ymarfer â'r diodydd hyny mor hollol nes y mae diod natur wedi myned mor ddiflas ganddynt, yn brawf o archwaeth wedi llwyr lygru. A chaniatâu fod "mynych wendid" yn galw am "ychydig win," a bod dyn yn greadur cymdeithasgar, ac i fod yn llawen gyda'i gyfeillion, a bod yn deg iddo ar achlysuron cyfeillgar "fwyta'r breision ac yfed y melusion," eto os ydynt wedi myned yn unig ddiodydd dyn, neu yn cael eu defnyddio ar bob rhyw achlysur, y mae hyny yn ddigon i brofi fod y blys am danynt wedi myned yn rhy gryf, pe na byddai dyn byth yn syrthio i'r cyflwr a elwir yn feddwi.

4. Mae yr egwyddorion yn sicr o fod wedi myned dros derfynau cymedroldeb a sobrwydd *pan, yn lle bod yn gynhyrfaid mynydol, y byddant wedi greddfau yn y meddwl fel tueddiadau sefydlog neu barhâus.*

Pan fyddo unrhyw nwyd yn ei lle, mae hono yn bôd ac yn dar-fod megys ar unwaith. Mae'r blys am y peth a'r peth yn codi, ac yn cael ei foddhâu, a dyna'r cwbl drosodd, a'r meddwl yn rhydd i ddilyn amcanion uwch. Os sychedai Ruth, a gwlychu ei thamaid yn y finegr, dyna hi yn cael ei digoni, ac yna yn cyfodi i loffa.

Wedi rhwbio ychydig o'r tywys, yr oedd newyn y dysgyblion wedi ei leddfu, a hwythau yn gymhwys i ddilyn eu Hathraw, i wrando ei eiriau, ac i fyned ar ei negeseuau. Ac y mae'r chwant hwn, fy nghyfeillion, yn gwneyd cystal a'ch rhybuddio i'w gadw ef fel hyn yn ei le priodol; oblegid y mae pleser ynglŷn â'i gyflawni tra na byddo ond *impulse* y foment; eithr y mae'r pleser hwnw yn troi yn boen pan yr elo i ysu yn y meddwl yn barhâus.

Mae rhyw serchiadau yn perthyn i ni ag y gallem ymwerthu yn hollol iddynt, neu eu meithrin fel ansawdd sefydlog ein meddwl; ac y mae natur yn eu marcio hwy allan trwy eu gwneyd yn wastad yn hyfryd. "Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw. Fy enaid a hiraetha, i'e, ac a flysia am gynteddau yr Arglwydd; fy nghalon a'm cnawd a waeddant am y Duw byw." Yma ni sychedwn byth yn rhy gryf, ac nid yfwn yma byth yn rhy helaeth. Po ddyfnaf ein hiraeth am, a pho helaethaf ein mwynhâd o Dduw, mwyaf a all fod ein dedwyddwch. Ond nid felly y mae gyda chwantau'r cnawd. Mae y rhai hyn yn myned yn boenus wrth ymollwng iddynt yn ormodol, a'u gadael i ologi yn y meddwl yn wastadol. Felly y mae'r trythyll, ac felly y mae'r meddw, i'w cael yn aml yn greaduriaid cwbl druenus. Mae'r chwant yn ysu, ysu yn y meddwl yn ddi-ddiwedd; ac er i'r dyn ymwerthu, ni ddywed ef byth, Digon, ac ni newidia efe byth mo'i enw; chwant ydyw o hyd. Mae efe yn poeni'r meddwl, er ac ar ol yr ymroddiad i'w gyflawni; mae efe yno wedi i'r corff fyned yn analluog i'w gyflawni; mae yno yn galw am ei wasanaethu, er nad yw y cyflawniad yn dwyn dim boddhâd. Mae'r dyn wrth arolygu ei gyflawniadau cnawdol, yn barod i ddyweyd am y cwbl, fel Solomon, "Gwagedd a gorthrymder ysbryd." Ac wedi goroesi y pleser, a darostwng corff ac enaid i drueni, mae'r chwant eto yn gwaeddi, "Mi a âf rhagof; mi a'i ceisiaf drachefn." O mor resynus yw meddwl fod llawer o fechgyn Cymru yn ffurfio'r chwant gormesol hwn yn eu mynwesau wrth ymarfer â'r diodydd meddwol! Wrth eu hyfed bob dydd at yr un amser, mae'r dyn yn ddiarwybod iddo ei hun yn myned i'w caru. Ar ol myned yn hoff o honynt, efe a syrth i feddwdod yn achlysurol; ac y mae'r achlysuron hyny yn lliosogi nes y mae'r dyn o'r diwedd yn feddwyn cyson. Dyma godi yn fore i ddilyn diod gadarn, ac



aros hyd yr hwyr—*byw* i chwantau dynion—*rhodio* mewn trythyllwch, trachwantau, meddwdod, cyfeddach, diotta. Ymdeithydd oedd y chwant i ddechre, ond cymerid ef yn fuan yn gyfaill, ac erbyn hyn y mae yn feistr gorthrymus. Dyna fyned dros derfynau y sobrwydd a argymhellir ac a feithrinir gan yr efengyl.

Mae yn bryd i ni ymofyn,

II. PA FODD Y MAE YR EFENGYL YN DYSGU I FYW YN SOBR?

1. Mae yr efengyl yn dysgu hyn yn *athrawiaethol*. Mae hi yn dangos fod sobrwydd yn ei le ei hun mor hanfodol i wir grefydd ag ydyw ffydd yn ngwaed Crist. Ac nid ydyw'r ffydd nad yw yn codi dyn i lywodraethu ar ei fflisiau anifeilaidd yn werth dim.

Mae sobrwydd yr efengyl yn cyrhaedd dros yr holl ddyd, ei deimladau a'i anwydau. Nid yw yn caniatâu i ddyd fyned yn anghymedrol gydag ewyllysiau y cnawd—myned yn drythyll, glwth, a meddw—rhag iddo fyned yn is na'r anifail a ddyfethir. Ac nid yw yn caniatâu iddo ymollwng i ewyllysiau'r meddyliau—myned yn falch a maleisus—rhag iddo fyned yn debyg i ddiadol. Mae hi yn galw arnom i “ymlanhâu oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac ysbryd, gan berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw.” Ac megys y mae yn cyrhaedd yr holl ddyd, felly y mae yn cael ei ddysgu i bob dosbarth. “Rhaid i esgob fod yn sobr, nid yn wingar;” ac nid yw diaconiaid i fod “yn ymroi i win lawer.” Rhaid “bod o'r hynafgwyr yn sobr.” “Y gwŷr ieuainc yr un ffunud cynghora i fod yn sobr.” Mae pob rhyw ac oedran a gradd yn cael eu galw i hynyma, gan nad yw oed na swydd na lle yn ddiogelwch rhag anghymedroldeb.

Onid oes lle i ofni mai prin yw'r ddysgeidiaeth hon yn ein heglwysi? Mae sirioldeb dros derfynau sobrwydd yn myned yn ysgafnder, gwisgo dros derfynau sobrwydd yn myned yn falchder, ac yfed dros derfynau sobrwydd yn myned yn ddiotta, os nad yn feddwdod. Pe deuai Crist Iesu i farnu ei eglwys, gellid ofni y byddai efe yn cael llawer â'u calonau wedi trymhâu trwy lythineb a meddwdod a gofalon y bywyd hwn. Cofier fod “rhaid” yn cael ei arddodi ynglŷn â sobrwydd. “Rhaid bod yn sobr,” fel ammod defnyddioldeb; rhaid fel arwydd o grefydd. Os yw dyn yn anghymedrol, dyn yw hwnw heb Grist; o herwydd “y rhai sydd yn eiddo Crist a groeshoeliasant y cnawd, a'i wŷniau a'i

chwantau"—dyn yw hwnw heb yr Ysbryd, canys "ffrwyth yr Ysbryd yw dirwest"—dyn yw hwnw heb fod ar y ffordd i'r nefoedd, oblegid "ni chaiff meddwon etifeddu teyrnas Dduw."

2. Mae yr efengyl yn dysgu sobrwydd *yn effeithiol*. Nid athrawiaethu y gwirionedd am hyn, a gadael rhwng natur ddi-gymhorth â'i gyflawni, ond y mae yn codi pawb a'i credo i fywyd o dduwioldeb a sobrwydd.

(1.) Mae yn dysgu i fyw yn sobr *trwy ddwyn iachawdwriaeth i'r enaid, ac adnewyddu yr holl natur*. Mae arglwyddiaeth chwantau'r cnawd yn codi oddiar gyflwr colledig. Yn gosb am bechod y mae Duw yn rhoi pechaduriaid i fyny i'w pechodau. O herwydd eu gelyniaeth ato, mae efe yn eu rhoddi i fyny yn nhrachwantau eu calonau i feddwl anghymeradwy ac i wŷniau gwarthus. Yna y maent wedi eu llenwi â drygioni, yn anharchu eu cyrff, yn dilyn anian ddrwg nes iddynt fyned yn erbyn anian. Felly tra y mae dynion yn blant digofaint, y maent hefyd yn blant anufudd-dod. Ond y mae yr efengyl trwy waed Crist yn dwyn maddeuant a chyfiawnder i bechadur. A'r hwn sydd wedi marw i bechod yn y cyfiawnhâd, marw iddo yn ei gosb, ni bydd efe eto yn byw ynddo. Cyfodwyd ymaith y condemniad oddiar y person i dori yr hen iau orthrymus oddiar y natur. Ac os codir y person i heddwch Duw, a'r natur i'w ddelw, dyna osod hen beiriant dynoliaeth eto yn ei le. Mae'r chwantau drwg yn codi oddiar ansawdd lygredig y galon. "Oddi mewn, allan o galonau dynion, y daw drwg-feddyliau, tor-priodasau, puteindra, llofruddiaeth, lladradau, cybydd-dod, drygioni, twyll, anlladrwydd, drwg-lygad, cabledd, balchder, ynfydrwydd; yr holl ddrwg bethau hyn sydd yn dyfod oddi mewn, ac yn halogi dyn." Y galon, sydd mor äang a chref ei dymuniadau, wedi dyeithro oddiwrth fywyd Duw, a ymröa i drythyllwch, i wneuthur pob aflendid yn un chwant. Ond y mae gras yr efengyl yn dysgu dynion i roi heibio yr holl bethau hyn, trwy eu hadnewyddu yn ysbryd eu meddwl, a chodi yr enaid yn ei holl dueddiadau tuag at Dduw. "Eithr chwychwi, nid felly y dysgasoch Grist; os bu i chwi ei glywed ef, ac os dysgwyd chwi ynddo megys y mae'r gwirionedd yn yr Iesu, dod i o honoch heibio, o ran yr ymarweddiad cyntaf, yr hen ddywyr hwn sydd lygredig yn ol y chwantau twyllodrus, ac ymad, newyddu yn ysbryd eich meddwl." Yn ddiau nid sotyn meddw,

ac nid gwamal-ddyn trythyll, yw yr hwn ag y mae yn ei feddwl oleuni Duw ar wrthddrychau y Bibl, awdurdod Duw yn ei orchymynion yn arglwyddiaethu ar ei gydwybod, a'i ddaioni yn ei addewidion yn llanw ei brofiad, a'r gobaith gwynfydedig oddiyma i dragwyddoldeb a roddir ganddo yn ymagor ger bron dirnadaeth yr enaid. Na, y mae ynddo ef feddwl a serch wedi eu cyfodi o dan draed y blysiâu anifeilaidd, i deyrnasu arnynt a'u cadw yn eu lle. Mae yna newyn a syched eto; ond newyn a syched am gyfiawnder ydyw mwyach. Mae yna lawenydd; ond llawenydd yn yr Arglwydd ydyw; calon yn gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw. Dengys Paul mai pethau'r nos, pethau'r tywyllwch, ydyw y chwantau anghymedrol a drwg, a bod y saint o'r dydd, yn blant y goleuni, a phlant y dydd, ac am hyny y rhwymir ac y dysgwylir hwy i wylïo a bod yn sobr (1 Thess. v. 5—8). Felly, bechadur, os wyt heb gymeryd dy ddysgu gan yr efengyl i fyw yn sobr, dyn o'r nos ydwyf, oblegid y mae dillad y nos am danat; dyn yn y cnawd, ac felly dan felldith y ddeddf, o herwydd mae dy weithredoedd yn amlwg yn weithredoedd y cnawd; dyn heb yr Ysbryd, canys ffrwyth yr Ysbryd yw dirwest; dyn heb Grist, oblegid "y rhai sydd yn eiddo Crist, a groeshoeliasant y cnawd, a'i wýniau a'i chwantau."

(2.) Mae yr efengyl yn dysgu ei deiliaid i fyw yn sobr *trwy eu galw a'u nerthu i farweiddio pechod dros eu bywyd*. Er i ddyn gael ei aileni, bydd pechod o'i fewn yn ymdrech ac yn adymdrech am ddinystrio gras, ac ennill yn ol y llywodraeth ar y galon; a thra byddo yr hen ddyn yn gwrthryfela, mae'r cristion i ymdrech yn ei erbyn nes ei ddyfetha. Ymladd dau fywyd ydyw yma; mae'r pechod yn ceisio am dy fywyd di, gredadyn; cais dithau gan hyny am ei fywyd yntau. "Os cydgyfodasoch gyda Christ, rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod, nid ar bethau sydd ar y ddaear. Marwhewch gan hyny eich aelodau y rhai sydd ar y ddaear; godineb, aflendid, gwýn, drygchwant, a chybydd-dod, yr hon sydd eilunaddoliaeth." Er mwyn marweiddio pechod, "na roddwch le i ddiabol." "Na fydd ymysg y rhai sydd yn meddwi ar win. Nac edrych ar y gwin pan fyddo coch, pan ddangoso ei liw yn y cwpan, pan ymgynhyrfo yn iawn. Cadw dy ffordd ymhell oddiwrthi hi," yr un ddyeithr sydd yn tentio, "ac na nesâ at ddrws ei thý hi." Ië, "yngedwch rhag pob rhith

drygioni." Nid digon ymgadw rhag rhywbeth tebyg i ddrwg yn yr ymddygiad, ond ei wrthwynebu yn ei ymweithiad i'r serchiadau trwy gyfrwng y dychymyg a'r myfyrdod. Os y wraig ddyeithr a ddaw i'r dychymyg, na chwennych ei phryd hi yn dy galon. Nac aros yn dy feddwl gyda chamymddygiad dy gymydog tuag atat, rhag, wrth i ti fyfyrio ar hyny, i'r tân drwg gynneu, ac y tŷr allan yn fflam yn llosgi. Rhaid cilio oddiwrth gwmni y pechaduriaid sydd yn denu, gochel presenoldeb y gwrthddrychau sydd yn temtio, a chasâu y drychfeddyliau fyddo yn ennyn y chwant. "Cadw dy galon yn dra diesgëulus." Nid ydyw purdeb ymddygiad yn ddigon; mae yn rhaid wrth galon bur. Ac felly dylid troi y galon oddiwrth y pethau sydd yn ei llygru at y pethau sydd yn ei phuro, trwy wylidwriaeth fanwl, myfyrdodau duwiol, a gweddïau dyfal.

Mae'r marweiddiad pechod yn ddyledswydd i'w hymarfer gan bob oedran a math o broffeswyr, gan nad oes neb heb fod yn agored i syrthio i ormodedd gyda chwantau'r cnawd. Mae eisieu gwylio rhagddynt yn hen fel yn ieuanc, yn ferched fel yn feibion, yn swyddogion fel yn aelodau, a hyny yn yr amgylchiadau mwyaf difrifol ar gristion. Pan fyddo nos ei fywyd wedi cerdded ymhell, a'i Arglwydd ar ddyfod, gall mynyd o anwyliadwriaeth, hyd yn nôd y pryd hwnw, ddifwyno ei holl harddwch, a difrodi ei nerth a'i gysur. Mae yn rhy sicr, ysywaeth, fod diffyg sobrwydd mawr mewn proffeswyr liaws yn y dyddiau hyn. Oni welir yn rhy fynych sirioldeb yn myned dros derfynau sobrwydd i ysgafnder, gwisgo yn myned dros derfynau sobrwydd i falchder ac ynfydrwydd, ac ymyfed yn myned dros derfynau sobrwydd i ddiotta a meddwod? Pe deuai Crist yn ngweinidogaeth angeu, oni byddai efe yn debyg o gael llaweroedd â'u calonau wedi trymhâu gan ofalon a chwantau bydol, ac mewn agweddau sydd yn amddifadu yr enaid o nerth a heddwch erbyn marw? Gwrandawer, ynte, yn astud yr awr hon ar ddysgeidiaeth yr efengyl: "Y nos a gerddodd ymhell, a'r dydd a nesäodd; am hyny bwriwn oddiwrthym weithredoedd y tywyllwch, a gwisgwn arfau y goleuni. Rhodiwn yn weddus, megys wrth liw dydd; nid mewn cyfeddach a meddwod, nid mewn cydorwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynhen a chenfigen. Eithr gwisgwch am danoch yr Arglwydd

Iesu Grist; ac na wnewch ragddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef."

(3.) Mae yr efengyl yn dysgu dynion i fyw yn sobr *trwy wasgu y ddyledswydd at eu meddyliau oddiar yr egwyddorion uchaf, a'r ystyriaethau mwyaf difrifol*. Mae daioni corff ac enaid, y llês am amser a thros byth, yn cael eu defnyddio i'r amcan hwn. Mae'r Bibl yn egluro ac yn sicrhâu fod chwantau cnawdol yn difa nerth, iechyd, cyfoeth, anrhydedd, a bywyd corff ac enaid, ac yn enw'r cyfan yn gwaeddi, "Na feddwer chwi gan win." Mae gofal a thynerwch Mab Duw, yn yr awyddfryd daionus a chariad-lawn a roes efe yn ei eglwys a'i swyddogion, ac yn mynwesau rhieni duwiol, yn tori allan yn yr iaith fwyaf cynhyrfus, a'r dull mwyaf serchog, wrth gyfarch y dyn ieuanc: "Fy mab, na ollwng fy nghyfraith dros gof, ond cadwed dy galon fy ngorchymynion; canys hir ddyddiau, a blynyddoedd bywyd, a heddwch, a chwanegant hwy i ti. Cadw fy ngorchymynion a bydd fyw, a'm cyfraith fel canwyll dy lygad." Cadw di hwy, a hwy a'th gadwant di rhag y fenyw â'r ymadrodd gwenieithus, a rhag y ddiod gadarn sydd yn y diwedd yn brathu fel sarph ac yn pigo fel neidr. "Gwranddo addysg dy dad, ac nac ymado â chyfraith dy fam;" hen addysg dy dad am ofn yr Arglwydd, yr hen brophwydoliaeth a ddysgodd dy fam i ti am gyfraith Crist; nac ymâd â hwynt, rhag yn y diwedd y bydd gwin wedi dwyn dy galon, gwragedd wedi dwyn dy nerth, ac estroniaid wedi ymlenwi â'th gyfoeth; dim wedi ei adael i ti ond corff afiach a chydwybod euog, a thithau yno yn ochain, "Pa fodd y casëais i addysg? pa fodd y dirmygodd fy nghalon gerydd, ac na wrandewais ar lais fy athrawon, ac na ostyngais fy nghlust i'm dysgawdwyr? Bum o fewn ychydig i bob drwg;" a hyny yn benuchel, "yn nghanol y gynnulleidfa a'r dyrfa."

Mae dysgeidiaeth yr efengyl, yn ei gocheliadau a'i chymhell-iaidau, yn ei gwaeau a'i gwynfydau, yn cau pawb a phob math, ac yn enwedig pobl ieuainc, i'w sobrwydd hi. Ac O na fedrem anfon adref ei haddysg ar hyn i fynwes y mwyaf anystyriol a rhyfygus! A ddywed rhywun nad ä efe byth i'r eithafoedd a nodwyd, sef, o fewn ychydig i bob drwg? Ah! twyll i gyd yw y cyfryw syniad. Myned ymlaen y mae pechadur o ddrwg i ddrwg. Gellir dyweyd am y ddiod gref, fel am y fenyw hudolus, "Llawer



a gwmpodd hi yn archolledig ; ïe, gwŷr grymus lawer a laddodd hi." Neu, a ydyw'r llall yn gwenieithio iddo ei hun, er ei fod yn awr ar y ffordd ddrwg, y caiff efe eto amser a chyfle i ddychwelyd? Wrth fyned ymlaen ar y fath ffordd, ni bydd ganddo un galon i droi yn ol. "Godineb, a gwin, a gwin newydd, a ddrwg y galon ymaith." A "phwy bynag a elo i mewn ati hi," y fenyw estronaidd, "ni ddychwelant, ac nid ym-afaelant yn llwybrau'r bywyd." Mae chwantau'r cnawd yn swyno'r dyn ymlaen y naill ddydd ar ol y llall yn ddifeddwl tua dystryw. "Rhag i ti ystyrio ffordd bywyd y symud ei chamrau hi heb wybod i ti." Gan rodio a rhodio y ffordd nid yw dda, dyna'r pechadur o'r diwedd wedi colli ei hun yn yr anialwch, nes bod dychweliad at Dduw mewn edifeirwch yn beth annhebygol, os nid anmhosibl. Neu, a wyt ti, bechadur, yn meddwl dilyn pleserau anghymedroldeb ar hyn o bryd, ac, er hyny, yn tybied y bydd i ti ochel y canlyniadau? O na! rhaid i ti fedi yr hyn a hauaist. "Y meddw a'r glwth a ddaw i dlodi." I bwy yn benodol y mae gwae? "I'r neb sydd yn aros wrth y gwin; i'r neb sydd yn myned i ymofyn am win cymysgedig." "Pechodau rhyw ddynion sydd amlwg o'r blaen, yn rhagflaenu i farn; eithr rhai sydd yn eu canlyn hefyd." Oes, y mae pechodau i ryw ddynion megys yn dyfod ar eu holau i farn; nis gwyddoch pa fodd y try yn yr achos hyd nes y byddo'r *trial* drosodd; ond am y meddwyn, a'r trythyll, a phawb anfucheddol, mae eu pechodau yn amlwg o'r blaen, fel banerau yn cael eu cario o flaen eu hwyneb; maent megys y troseddau eglur y mae pawb yn gallu penderfynu y ddedfryd ymlaen llaw cyn iddi gael ei chyhoeddi o enau y barnwr; ac nid anaml y mae barnau tymmorol ynglŷn â hwy, yn rhagflaenu y farn dragywyddol. Na thwyller chwi ynghylch canlyniadau'r chwantau pechadurus. Mae pleser pechod yn rhwym o ddarfod, tra y mae ei drueni yn anochel-adwy. O ddynion ieuainc sydd yn dewis mwyniant pechod o flaen yr eiddo gwir grefydd, ystyriwch y diwedd! Mae'r ffordd yr ydych arni yn arwain i ystafelloedd angeu; ïe, ffordd i uffern, ac i ddyfnder uffern ydyw. Ond nid yw y ffordd a gymeraf fi, medd hwnacw, yn ddim i neb arall? Pa beth! gofyn i'th dad a'th genedlodd, ac i'th fam a'th ymddyg. Onid ydynt hwy yn barod i ddywedyd, "Fy mab, os dy galon di fydd doeth, fy

nghalon innau a lawenycha; i.e, fy arenau a grychneidiant pan draetho dy wefusau di gyfiawnder?" Ac, o'r ochr arall, os gwelir di yn gogwyddo i ffordd y cnawd, nid rhyfedd os bydd dy fam yn ochain mewn ing, "Pa beth, fy mab? pa beth, mab fy nghroth? i.e, pa beth, mab fy addunedau?" Wedi i ti ebargofi y ddeddf, i ba beth y chwennychwn fy einioes?

A beth pe dywedem am gariad Duw yn Nghrist, am waed y groes, ac am obaith bywyd tragywyddol? Maent oll yn eu natur a'u heffeithiau yn dy osod, enaid gwerthfawr, dan y rhwymau tyneraf i sobrwydd a rhinwedd. "O herwydd paham, gan wregysu lwynau eich meddwl, a bod yn sobr, gobeithiwch yn berffaith am y gras a ddygir i chwi yn nadguddiad Iesu Grist; fel plant ufudd-dod, heb gydymagweddu â'r trachwantau o'r blaen yn eich anwybodaeth, eithr megys y maë y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd, byddwch chwithau hefyd sanctaidd ymhob ymarweddiad." Pan y byddo pethau mawrion gobaith yr efengyl yn preswyllo yn helaeth yn y galon, ni bydd yn fuan gymaint o eisieu eu nerth hwy fel cymhelliad i wrthsefyll chwantau drwg. Hwy a'i purant, ac a'i gwnânt yn nefol, gan ei chario o ran ei hansawdd ymhell o wlad y pethau gwa-harddedig, nes y byddo yr enaid yn gwybod trwy brofiad, i fesur, pa fodd bynag, beth yw bod wedi marw i bechod, a pheth yw byw i gyfiawnder, ac y byddo yn dangos i bawb ei fod wedi ei ddysgu yn dda "i fyw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon."

## PREGETH XIV.

Y PERYGL O ADFEILIAD ODDIWRTH GRIST A'R EFENGYL.

HEBREAID iv. 12, 13: "Canys bywiol yw Gair Duw, a nerthol, a llymach nag un cleddyf daufiniog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahanïad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymmalau a'r mêr, ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon. Ac nid oes greadur anamlwg yn ei olwg ef, eithr pob peth yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef am yr hwn yr ydym yn son."

**Y**N lle "Am yr hwn yr ydym yn son," gellir darllen, "A'r hwn y mae a wnelom," neu, "I'r hwn y rhaid i ni roddi cyfrif." Ac ni a welwn mai yr hwn yma yw Gair Duw; hwnw sydd "yn barnu meddyliau a bwriadau y galon," a phob peth "yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef." Oddiwrth yr hyn a ddywedir, y mae rhai esbonwyr a duwinyddion da yn golygu mai Mab Duw, efe am yr hwn y lleferir, "Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair," Gair tragwyddol a hanfodol Duw, a feddylir yn y testun wrth Air Duw. Ac felly tueddir ninnau i feddwl mai am Grist, yr hwn y "gelwir ei enw ef, Gair Duw," y mae'r apostol yn llefaru yn y testun, gan ei osod o flaen yr Hebreaid yn nhreiddgarwch a manyl-rwydd ei sylw, a'i hollwybodaeth ef.

Y dyben o'i osod fel hyn o'u blaen hwy oedd eu llenwi âg eiddigedd duwiol, a gwyliadwriaeth sanctaidd, rhag holl achosion adfeiliad oddiwrtho ef a'r efengyl. Cawn yr apostol yn dwyn ger bron esiampl eu tadau er rhybudd iddynt, yn eu baint, eu pechod, a'u cosb; ac y mae yn dangos fod yr Hebreaid crïstionogol yn awr yn meddu cyffelyb fraith, ac mewn perygl o syrthio

i'r unrhyw fai, a chael eu goddiweddyd gan yr unrhyw gosbedig-aeth. Braint eu tadau oedd cael "addewid i fyned i mewn i'w orphwysfa ef." Yn awr, medd yr ysgrifenydd sanctaidd, "y mae gan hyny orphwysfa eto yn ol i bobl Dduw," ac y mae addewid yn yr efengyl am fyned i mewn i'r orphwysfa. Bai eu hynafiaid yn yr anialwch oedd anghrediniaeth o addewid Duw, trwy yr hyn y darfu iddynt demtio yr Arglwydd, a'i ddigio, nes "y tyngodd efe na chaent hwy fyned i mewn i'w orphwysfa ef." Felly rhoddir annogaeth i'r Hebraeid yn bresennol i ochel yr un bai a chosb arswydol. "Edrychwch, frodyr, na byddo un amser yn neb o honoch galon ddrwg anghrediniaeth, yn ymado oddiwrth Dduw byw. Byddwn ddyfal gan hyny i fyned i mewn i'r orphwysfa hono, fel na syrthio neb yn ol yr un siampl o anghrediniaeth." Ac i'r dyben o beri i'r annogaethau hyn nerthol weithio yn eu cydwybodau, mae efe yn troi eu meddyliau at Fab Duw, yn yr holl briodoliaethau goruchel a gyfrifir iddo yn y testun. Ofnwch rhag bod yn debyg i fod yn ol—edrychwch na byddo yn neb o honoch galon ddrwg anghrediniaeth—cynghorwch eich gilydd bob dydd, fel na chaleder neb o honoch trwy dwyll pechod—byddwn ddyfal i fyned i mewn i'r orphwysfa. Paham am yr holl rybuddion hyn? "Canys bywiol yw Gair Duw, &c." Gan ei fod ef y fath un, efe a ganfydda'r bai pa le bynag y byddo, ac a weinydda'r gosb am dano.

Mae proffeswyr yn barod i ymwneicithio na ddaw eu diffygion hwy mewn crefydd ddim i'r golwg. Ymgadwant rhag pethau beïus amlwg, rhag pethau a barai i ddynion, a'u cydwybodau hwy eu hunain, eu condemnio; ond am adfeiliad yn y serchiadau, a diftyg manylrwydd ac ysbrydolrwydd yn y dyledswyddau, hwy a obeithiant na ddaw hyny i'r golwg. Ond y mae'r apostol yn dangos fod y Barnwr, sydd i benderfynu achos proffeswyr yn orphenol, yn un sydd yn chwilio a barnu dirgeloedd y galon, yn canfod cyfeiliornad ac adfeiliad yr enaid a'r ysbryd, meddyliau a bwriadau'r galon. Os bydd yr anwiredd yno, efe a'i caiff allan; ac os caiff, efe a'i cosba. Am hyny y mae yr Apostol am iddynt gadw y fath ddirnadaeth o Grist a'u gwnelai yn eiddigus dros ddirgeloedd eu calon, ac actau dyfnion eu meddyliau, gan eu bod oll yn agored i sylw Gair Duw, ac i roddi cyfrif iddo mewn barn.

Oddiwrth y geiriau yn amcan eu llefariad, ni a sylwn yn

I. FOD DECHREUAD ADFEILIAD ODDIWRTH GRIST A'R EFENGYL  
YN DDWFN A CHUDDIEDIG IAWN—YN NOETH AC YN AGORED YN  
UNIG I LYGAD TREIDDGAR MAB DUW.

Y mae yr adfeiliad ysbrydol fel hyn,

1. *Am ei fod yn dechre ac yn cynnyddu mewn graddau bychain ac ansicr.* Mae dechreuad pob peth yn anweledig. Pwy a fedr ganfod pa bryd y mae yr eginyn yn dechre deffro yn y ddaear? Pwy a ddichon ddyweyd pa bryd y mae clefyd yn dechre gweithio yn y corff? A phwy a all gael allan ddechreuad gras yn y galon? Mae'r pethau mwyaf amlwg yn fwy adnabyddus yn eu hachosion a'u heffeithiau nag y maent ynddynt eu hunain yn eu dechreuad. Mae yn wir fod rhai yn cael eu hyrddio i wrthgiliad megys ar unwaith; temtasiwn yn rhuthro arnynt, nes y maent yn tori allan i wadu eu Harglwydd ymron ar yr un gwynt ag y gwaeddant, Ni wadaf mo honot byth; Satan yn myned i mewn iddynt mor ebrwydd ac mor nerthol, nes y bradychant Grist newydd wneyd cof am ei angeu. Mae rhai yn syrthio i bechod erchyll, dan euogrwydd yr hwn y maent yn myned allan o wydd yr Arglwydd, fel Cain, heb droi yn ol byth. Am y rhai hyn, mae dechreuad a chynnydd eu nychdod a'u methiant gyda chrefydd yn eglur. Ond y mae adfeiliad rhai, dan ystod o broffesu, yn raddol a dirgel iawn.

Meddylwch am gristion yn dyfod allan o law Duw yn y greadigaeth newydd. Da iawn ydyw yn nechreuad ei hyder; mae ei gariad, ei ffydd, ei ffyrdd a'i weithredoedd cyntaf, yn brydferth a chanmoladwy; efe, mewn serchiadau ysbrydol, a chysondeb ei ddyledswyddau, yn berffaith gyda Duw. Dyna efe fel hyna yn troi allan i'r byd a'i demtasiynau, ac mewn ugain mlynedd o grefydd yn adfeilio, adfeilio, megys o fod fel helyg wrth yr afon i fod fel grug yn y diffeithwch, na wêl pan ddêl daioni, neu o fod fel llo pasgedig i fod fel gwartheg culion Pharaoh. Mae Mab Duw yn dywedyd wrth y cyfryw broffeswr, "Y mae genyf beth yn dy erbyn am i ti ymadael â'th gariad cyntaf; ni chefais dy weithredoedd yn gyflawn ger bron Duw," ac yntau yn gwneyd dim ond cwyno, "O na bawn i fel yn y misoedd o'r blaen! O na wyddwn pa le y cawn Ef!" Ond pa fodd yr aeth efe i'r cyflwr adfeiliedig hwn? Mae holl gamrau



calon ddrwg anghrediniaeth ynglŷn â'r ymadawiad oddiwrth y Duw byw yn anolrhefnadwy. Yr oedd hi yn symud ei chamrau yn ffyrdd adfeiliad heb yn wybod i'r dyn ei hun. O yr oedd wedi dechre yn isel ac yn ddwfn, ymhell cyn tori allan yn esgeuluso'r cydgynnulliad, ac yn fylchu yr addoliad teuluaid, ac yn enciliad o'r ystafell ddirgel! Yr oedd yn wreiddyn chwerwedd yn y serchiadau cyn tyfu i fyny i beri blinder i'r crefyddwr ei hun; megys yn afiechyd greddfoll yn y galon cyn y gwelid yr wyneb yn curio, na'r dyn yn cwyno o'i herwydd. Nid oes neb a fedr ganfod yr adfeiliad yn ei ddechreuad ond yr Hwn a all olrhain meddyliau a bwriadau y galon, a gwahanu yr enaid a'r ysbryd, y cymmalau a'r mêr. Rhyw sibrd o eiddo'r diafol, fe allai, a ddechreuodd halogi'r serch. Dyna'r dyn yn ymwrando am foment ar y brofedigaeth, ac wele efe yn derbyn argraff oddiwrth y demtasiwn. Hwyrach mai tremio am fynydyn ar wrthddrych rhyw chwant, neu air sarug oddiwrth gyfaill, neu hanner awr mewn cwmni llawen, neu wên neu ynte wêg y byd, a roes i'r enaid bigiad mor wenwynig nes y trôdd yn *mortification*. Ychydig anwyd a drôdd yn ddarfodedigaeth marwol. Y gramen fach a ymledodd nes i'r enaid fyned yn wahanglwyfus drwyddo, a hyny pan nad oedd offeiriad yn meddwl fod dim niwed arno.

Ac fel y mae dechreuad yr adfeiliad yn raddol, felly y mae ei gynnydd yn raddol. Mae yr enaid yn adfeilio mewn crefydd fel y mae'r corff yn llygru gan henaint, heb yn wybod i'r dyn. "Ymdaenodd penwyni ar hyd-ddo, ac nis gwybu efe." Nid oedd yr hen wŷr yn ei deimlo ei hun yn gwanychu ar y pryd; ond gŵyr na fedr ef ddim gwneyd y peth a wnelai ddeng ddeng mlynedd yn ol. A fedri di, fy enaid, gyda chrefydd, wneyd y gweithredoedd a wnaethit gynt? Ai nid oedd Duw wedi cilio oddiwrthyt pan yr oeddit ti, fel Samson, heb wybod hyny? Llettya temtasiynau yn y dychymyg oedd y cychwyn, a'r enaid yn tori allan mewn tuedd fflysig atynt; bryd y meddwl ar fedr cilio oddiwrth Dduw, yn lle nesu ato, a'r bwriad yn rhyw wŷro ychydig ar yr ymarferiad, a'r cwbl yn araf iawn. Dechreuwyd blino ar ysbrydolrwydd crefydd; y cnawd yn gwaeddi, "Pa flinder yw!" y son a'r gwrando am Dduw, a Christ, a'i groes, heb beri un effaith ar y galon; ym-

arfer â gweddio heb fyned i mewn i'r cysegr. Yna ar ryw amgylchiad, mewn rhyw demtasiwn, dechreuwyd rhoddi i fyny y gweddio ei hunan. Arferwyd llawer dadl i lonyddu'r gydwybod, a chynnefinwyd â'r esgeulusdra. Bellach yr oeddid yn awr ac yn y man yn colli o'r moddion cyhoeddus, a chynnefinwyd â hyny nes colli arswyd o'r herwydd. Fel hyn yr oedd y naill gam yn palmantu'r ffordd i gam arall, a'r naill ddrwg yn cynnyddu i ddrwg arall. Y galon, wedi ei gwneyd yn ddrwg gan anghrediniaeth, oedd yn myned rhagddi yn yr ymadawiad oddiw'rth Dduw byw. Yr oedd hi yn synud ei chamrau mor raddol, a'r meddwl yn pellhâu oddiw'rth fawrion bethau crefydd o gam i gam, nes nad oedd y dyn yn dychymygu mai gwrthgilio yr ydoedd.

O broffeswyr crefydd, pa le yr ydych chiwi? Pe delai Crist i'ch barnu heddyw, oni ddywedai efe fod rhai o honoch yn cilio yn eich ôl âg encil tragwyddol? Pa sawl proffeswr pwdr sydd wedi ildio ei grefydd i'w chwantau? Yr oedd y naill argyhoeddiad ar ol y llall yn colli o'i gydwybod, iachus bwnc ar ol pwnc yn cael eu bwrw ymaith o'i farn, a dyledswydd ar ol dyledswydd yn ymollwng o'r ymarferiad, nes y mae yr hwn a welwyd yn agos i deyrnas Dduw wedi tynu yn ol i golledigaeth, gan gynyddu i fwy o annuwioldeb. Ac onid oes aml gristion a all gwynfan, "Cyfeiliornais fel dafad wedi colli?" fel dafad yn myned wysg ei phen, dan bori, hyd gloddiau'r cnawd, wrth ddilyn defaid crwydredig eraill. Nid oes i'r cyfryw un ond gwaeddi am ei fywyd, "Cais dy was." Ni ddaw'r ddafad ffol adref nes i'r Bugail da ei cheisio, a'i chael, a'i doddi ar ei ysgwyddau ei hun.

2. *Mae yr adfeiliad yn cael ei ddwyn ymlaen yn y galon trwy resymau teg a thwyllodrus.* A'r hyn a ddygir ymlaen trwy dwyll, mae yn sicr o fod yn ddirgel a chuddiedig, oblegid cuddio yw dyben twyllo. Yn yr adfeiliad ysbrydol rhoddir lliw ar beth drwg i'w ddangos yn wahanol i'r hyn ydyw, rhag i'r meddwl ei adnabod. Prif achosion gwrthgiliad yw y byd, y cnawd, a'r diafol; a phrif amcan y rhai hyn yw gwneyd ysgariaeth rhwng proffeswyr â Duw; a'r prif lwybr i gyrhaedd eu hamcan yw twyll. Pa fodd y bu yr ymadawiad oddiw'rth Dduw yn Eden? "Y wraig, wedi ei thwylllo, oedd yn y camwedd." Beth am yr

ymadawiad mawr oddiwrth wir Gristionogaeth? Dirgelwch yr anwiredd oedd yn gweithio—yr anwir hwnw oedd â'i ddyfodiad yn ol gweithrediad Satan, gyda rhyfeddodau gau, a phob dichell anghyfiawnder. Mae pechod yn y galon yn ei gwneuthur yn fwy ei thwyll na dim; y mae o hyd trwy dwyll yn ei chaledu yn erbyn Duw. Amcan Satan yn ei sibrwd sarphaidd yw twyllo yr holl fyd, a thwylllo, pe byddai bosibl, yr etholedigion. "Mae arnaf ofn," medd Paul wrth y Corinthiaid, "rhag mewn modd yn y byd, megys y twyllodd y sarph Efa trwy ei chyfrwysdra, felly bod eich meddyliau chwi wedi eu llygru oddiwrth y syml-rwydd sydd yn Nghrist." Yr oedd eu perygl yn fawr, canys yr oedd "Satan yn ymrithio yn angel goleuni," a chanddo "ei weinidogion yn ymrithio fel gweinidogion cyfiawnder—gweithwyr twyllodrus, wedi ymrithio yn apostolion i Grist." "Drwg-ddynion a thwyllwyr a ânt rhagddynt waeth-waeth, gan dwyllo a chael eu twyllo." Mae'r byd yn tagu'r gair gan hōni cyd-dyfu yn ddymunol. Ac y mae dyfnderoedd tri gelyn yr enaid mewn undeb i hudo yr enaid oddiwrth Dduw. A phan y mae gelynyon mor gyfrwys yn cymysgu eu holl ddichell i geisio eu hamcan trwy dwyll, mae yn rhaid fod y gwaith yn ddwfn a chuddiedig iawn.

Cymerwch broffeswyr yr oes hon a christion y Bibl ar gyfer eu gilydd; ac onid yw yn amlwg fod adfeiliad mawr mewn cysylltiad â chrefydd ysbrydol yn y dyddiau hyn? Dacw gristion yr hen efengyl, newydd gael teitl o'r nef trwy gyfiawnder Crist, yn cael ei osod mewn ymdrechfa galed nes cymeryd gafael yn y bywyd tragywyddol. Y mae efe yn aros yn ofn yr Arglwydd, yn ymgadw yn nghariad Duw, yn perffeithio sanct-eiddrwydd yn ofn Duw, zel tŷ Dduw yn ei ysu, afonydd o ddagrau yn rhedeg o'i lygaid am na chadwant gyfraith Duw, y gyfraith hono yn gu iawn ganddo, diwrnod yn nghynteddau Duw yn well na mil ganddo, y Sabboth yn hyfrydwch iddo, efe yn gorfoleddu mewn gorthrymderau, yn maddeu o'i galon i'w frawd ei gamwedd, yn marweiddio pechod a chroeshoelio'r cnawd, iē, yn rhodio yn nghwbl o ewyllys Duw. Mae efe, nid yn unig yn cyflawni dyledswyddau, ond hefyd yn nghyflawniad pob un yn llafurio am ryngu bodd Duw. Mae am gyflawni'r cwbl y mae Duw yn orchymyn, a hyny *fel* y mae yn gorchymyn; mae am

gael pob dyledswydd wedi ei bywhâu â ffydd Crist, ei gwresogi â chariad Duw, ac yn cyfeirio yn uniongyrch at ei ogoniant. Yn hyn y mae yn llafurio gan ymdrechu, yn gwisgo holl arfog-aeth Duw, ac yn ymladd fel un yn ystyried fod perygl colli'r dydd. Ydyw, y mae yn rhedeg yr yrfa fel un yn teimlo fod perygl colli'r gamp, yn ymdrechu am fyned trwy'r porth cyfyng fel un yn cofio fod llawer yn *ceisio* myned i mewn ac nas gallant, yn edrych arno ei hun rhag iddo golli y peth a wnaeth, yn ofni rhag bod yn debyg i fod yn ol, yn ddyfal i fyned i mewn i'r orphwysfa, yn rhoi cwbl ddiwydrwydd i chwaneu gras at ras, fel un yn credu mai o'r braidd y bydd y cyfiawn yn gadwedig. Yn awr, ai dyma yr agwedd sydd ar grefyddwyr ein hoes ni? Onid oes lliaws o broffeswyr na welwyd mo honynt erioed yn yr agwedd dda a ddesgrifiwyd? ai onid oes llawer a gyfodwyd gan argyhoeddiadau i ymdrechiadau wedi blino a diffygio? A wyt ti, broffeswr, yn rhedeg fel y caffot afael? a ydyw teyrnas nefoedd yn cael ei threisio ar dy law di? ai nid yw dy agwedd yn debycach i un yn cysgu nag i un yn llafurio—i un fyddai wedi ildio meddwl am y nef nag i un mewn ymdrechfa galed am dani—neu i un fyddai yn meddwl fod ei elynion wedi meirw, ei frwydrau drosodd, ei lafur wedi darfod, a'i rwystrau wedi eu symud, nag i un mewn egni ymroddgar a dysgwyliad gwresog yn gweithio allan ei iachawdwriaeth? Ac eto fe welir rhai fel hyn heb ynddynt nemawr ofn am y canlyniad; maent yn rhyw obeithio am y nefoedd dan chwareu, ac yn meddwl myned drwy'r porth cyfyng heb ymdrech.

Pa fodd y mae hyn yn bod? O y mae *opiates* cryfion yn cael eu gweinyddu i'r galon! Mae holl ddichellion dyfnion y gelynyion ar waith yn llygad-dynu yr enaid. Mae hûg yn cael ei frwr dros wynebaw y barnwyr yn y fynwes, a'r ymadawiad â Duw yn cael ei guddio yn y meddwl âg esgusodion teg. O y fath sibrdw gwenwynig sydd yn nghilfachau'r galon! Fe ddygir trefn gras, gwaed Crist, esiampl proffeswyr, addunedau am wella rywbyrd, yn ddadleuon i dynu'r meddwl i ymadael â Duw. Ha, medd y dyn, os nad yw pob peth yn y modd goreu gyda mi, mae yn dda genyf feddwl am gadernid y drefn. Mae rhywbeth rhyngwyf â'r Gŵr er ys llawer blwyddyn. Pa niwed i mi lacio gronyn yn yr ymdrech? Mae yr etholedigaeth yn ddiammadol, doniau Duw

yn ddiedifarus, yr undeb â Christ yn anwahanol, ac ni ddwg neb yr eiddo ef o'i law. Paham y rhaid wrth yr holl fanylrywydd, yr holl wyllo, a'r holl alaru am bechod? Os oes beiau ynglŷn â mi, nid ydynt ond bychain; ni ddygais i erioed warth cyhoeddus ar achos Duw. Mae yn wir y bydd gwendid fy nhymher yn ymddangos weithiau; ond caf ladd pob drwgdymer rywbyrd. Byd yr anmherffeithrwydd yw hwn; ac onid yw Crist wedi ei ddyrchafu i roddi edifeirwch a maddeuant pechodau? Ië, medd y sibrwd gwenieithus, ond cwbl beryglus, yn nghuddfeydd y galon, Ymryddhâ ychydig oddiwrth fanylrywydd dy ufudd-dod er mwyn boddio dy gyfeillion. Cydymffurfia â'r cwmni *respectable*, yn lle tynu cawodydd o ddirmyg a gwawd ar dy ben. Gelli wneyd hyny heb beryglu dy iachawdwriaeth. Dal dy ffydd, ond paid bod mor opiniyngar gyda dy broffes. Glyned dy feddwl wrth Dduw Israel, Naaman, ond cerdd gyda'r brenin i dŷ Rimmon, er mwyn cadw dy le. Rhaid edrych ar ol yr amgylchiadau bydol. Mae eisieu gogoneddu Duw trwy'r diwydrwydd daearol yn gystal a thrwy ddyledswyddau crefyddol. A chei wneyd iawn am esgeuluso dyledswyddau dirgel trwy gyflawniadau cyhoeddus. Edrych ar dy frodyr, y rhai oedd yn Nghrist o'th flaen di, y rhai a berchir fel pobl dduwiol? Nid mor fanwl y maent hwy gyda'r Sabboth; a thi a'u gweli yn awchus am y byd, ac yn mwynhâu cwmni sydd heb fod yn grefyddol iawn. Paid tithau gan hyny a bod yn rhy *exact*. Fe ddaw yn haws i ti fyw yn dduwiol rywdro ymlaen, pan na byddo yr amgylchiadau mor drafferthus, na galwadau *business* yn dal mor bwysig.

Dyna hwy, y twyllresymiaadau, yn cyfrwys ddenu yr enaid oddiwrth Dduw. Y fan y byddo'r meddwl yn edrych ar bechod, mae yno lu o ddadleuon o'i blaid; a'r fan y byddo yn edrych ar ddyledswydd, mae yno fyrdd o bethau dros ei rhoddi heibio. Beth pe dattodid yr enaid o'i holl dorchau, a'i godi allan gan Dduw gwybodaeth o'r cilsfachau dyfnion y mae yn ymguddio ynddynt? Beth pe chwelid y swynion sydd yn ei syfrdanu, ac i oleuni Duw ddangos y dirgeloedd fel y maent? Fe ganfyddai llawer o broffeswyr eu bod ar ddibyn colledigaeth dragywyddol, a dychrynent wrth gael allan nad yw yr holl sibrwd teg, y rhesymau dengar, a'r esgusodion trwsiadus, namyn gwaith calon ddrwg anghrediniaeth yn ymado oddiwrth Dduw byw.



3. Mae yr adfeiliad yn fynych yn guddiedig odaiar y tuedd sydd mewn dyn i obeithio y goreu, hyd y gallo, am dano ei hun. Os yw efe yn dueddol i ddrwgdybio eraill, ni fyn gynnwys drwgdybiaeth am dano ei hun. Cyffelyb yw hyn i ddyn yn adfeilio yn ei amgylchiadau bydol, neu yn ei iechyd corfforol: ceir hwnw, hyd y byddo bosibl, yn gobeithio'r goreu am dano ei hun. Mae eraill yn gweled am hwnw mewn masnach, nad etyb hi ddim iddo, ac na thâl ef byth mo'r ffordd ynddi; eto glynu y mae efe ynddi, gan ddysgwyl i'r flwyddyn nesaf fod yn well na'r flwyddyn hon. Mae pawb, ond efe ei hun, yn gweled y claf yn dihoeni mewn darfodedigaeth, heb ddim gobaith am ei wellhâd. O mae efe yn llawer gwell, meddai; mae'r meddyg wedi dechre dyfod i'w ddeall erbyn hyn; nid oes arno eisieu dim ond llonydd gan y peswch tuag at ddyfod mor gryf ag erioed. Anhawdd gan un roi ei hunan, neu rywun anwyl ganddo, i farw. O pa faint sydd fel hyn gyda chrefydd! Mae eraill yn methu peidio gweled fod yna ddrwg yn ysbryd y proffeswr; ac fe adnabyddai yntau'r drwg pe byddai yn ysbryd rhywun arall. Byddai efe yn barod i gondemnio yno y pethau y mae yn eu cyfiawnhâu ynddo ei hun. ganfyddid yn ysgelerder yno yr hyn a gyfrifir yn ddiniwed yma. Pa sawl gwaith y dangosodd y pregethwr yr afiechyd yn ysbryd ei frawd oedd yn greddfau yn llawer dyfnach yn ei galon ef ei hun? "Diesgus wyt ti, O ddyn, pwy bynag wyt yn barnu; canys yn yr hyn yr wyt yn barnu arall, yr wyt yn dy gondemnio dy hun; canys ti yr hwn wyt yn barnu, wyt yn gwneuthur yr un pethau. Eithr ni a wyddom fod barn Duw yn ol gwirionedd yn erbyn y rhai a wnânt gyfryw bethau."

Mae hunangariad yn cadw dyn mewn anwybodaeth o hono ei hun, ac yn ei luddio i'w iawn farnu ei hun. Dyma sydd yn peri iddo gymeryd yn ganiatâol fod pob peth yn dda, ac yn ei rwystro rhag meithrin ammheuaeth am dano ei hun. Mae yn gwneyd cân lleied ag a fedro o bob peth sydd yn ei erbyn, a chymaint ag a fedro o'r cwbl sydd o'i blaidd. Ië, y mae yr hunanbleidgarwch yn peri nas edrycha efe ddim ond ar yr ochr ffafriol iddo ei hun. Efe a ddarlлена nodau cristion arno ei hun, casgla y rhai hyn ynghyd, ac erys arnynt yn ei fyfyrododau. Ond nid yw yn edrych ar bethau a osodant ammheuaeth ar hyny, os na phrofant, hefyd, y cwbl yn gau; neu os edrycha efe ar gyfryw

bethau, edrych arnynt y mae i'w bychanu, i'w hesgusodi, ac i'w cyfiawnhâu, a hyny nid i eraill, ond iddo ei hun. Oes, mae yma ddifaterwch am weddio yn y dirgel; ond afiechyd ydyw y gwna amser ei wella. Do, mi a gyflawnais y bai fel a'r fel; ond oddiar demtasiwn y cyflawnwyd ef. Yr Arglwydd a faddeuo i mi yn hyn; ac mi a rodiaf yn well gyda Duw rhagllaw. Y fantais a rydd y cyfryw enaid i'r gelyn cyfrwys i'w dwyllo! Mae'r galon yn eithaf twyllodrus, mae dyfnderau yn nichellion Satan, ac y mae mewn golud hudoliaeth; ac amcan y cyfan yw dwyn yr enaid oddiwrth Dduw. Mor hir ac mor enbyd y gall y callaf gael ei dwyllo mewn un na bu efe erioed yn ei ammbheu, un a gyfrifa fel un o'i gyfeillion mwyaf! os clyw efe ryw ddygair yn ei gylch, nis gall ond gobeithio'r goreu am dano. Felly y mae dyn yn dueddol i fod gyda ei grefydd.

Ac y mae'r pleidgarwch hwn, nid yn unig yn cuddio yr enaid rhagddo ei hun, ond hefyd yn tueddu i aneffeithioli pob moddion i'w ddadguddio iddo ei hun. Mae yn cadarnhâu'r galon yn erbyn argyhoeddiad, ac yn attal y dyn i gymhwysu pob rhybudd a bygythiad ato ei hun. Tra y mae'r galon yn troi oddiwrth yr Arglwydd, a'i gwreiddyn yn dwyn gwenwyn a wermod, y mae efe yn "ymfendithio yn ei galon ei hun, gan ddywedyd, Heddwch fydd i mi, er i mi rodio yn nghyndynrwydd fy nghalon, i chwaneu meddwod at syched." Tynwch i'r byw bictiwr y proffeswr adfeiliedig, portreidiadwch ei ysbryd o'i flaen, dangoswch ddaearoldeb ei serchiadau, a ffurfioldeb ei ddyledswyddau, ac fe wêl pawb y portreid ond efe ei hun. Mae efe yn gwrando dros eraill, yn gweled eraill, yn cydnabod gwirionedd a pherygl y darluniad, ond nid yn ei berthynas âg ef ei hun. Boed y breuddwyd i'r gwrthgiliwr, a'i ddeongliad i'r rhagrithiwr, ond heddwch fydd i mi. Y cyflwr echryslonaf yw hwn: dyn yn mynwesu chwant, yn ildio i galon ddrwg, yn cellwair â bai arswydus, ac eto yn cyhoeddi heddwch iddo ei hun. Yr oedd Nathan y prophwyd yn tynu darlun Dafydd yn gywir, ac yntau ei hun yn edrych arno mor *intent*, nes yr oedd ei holl deimladau yn cynhyrfu, a'i ddigofaint yn ennynu, eithr efe heb ei weled ei hun. "Euog o farwolaeth yw y gŵr a wnaeth hyn." Ië, ond "ti yw y gŵr." Ysbryd Duw a ddywedo hyny yn bersonol wrth lawer a ddarlunir gan y gwirionedd yn ein hoedfâon. Yr oedd egiwys Laodicea yn

hollol ddyeithr i'w gwir garacter pryd yr oedd hi ar lwyr ymadael â Christ a Christ â hithau, a hyn oddiar anystyriaeth, balchder, a phleidgarwch. Yr oedd yn ymfalchïo mewn cywirdeb athrawiaeth, rhagoriaeth trefn eglwysig, ac ymddangosiad o wychder, pan yr oedd bywyd ac ysbrydolrwydd crefydd ar goll. Yr wyt "yn dywedyd, Goludog wyf, ac mi a gyfoethogais, ac nid oes arnaf eisieu dim; ac ni wyddost dy fod yn druan, ac yn resynol, ac yn dlawd, ac yn ddall, ac yn noeth." Fy mrodyr, meiddiwn gynnwys ammheuaeth am danom ein hunain. Mae llawer o ragrithwyr i'w cael; gwylw'n rhag i ni ein hunain fod felly. Na chynmerwn yn ganiatâol fod ynom gariad at Dduw, a chasineb at bechod, heb chwilio, a mynu gweled eu gweithrediadau. Nid ydynt ynom wrth natur, a gellir cael pethau tebyg iddynt heb eu bod yn wir bethau. Profwn ein hunain, holwn ein hunain, a gweddiwn ar y Duw byw, "Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy nghalon; prawf fi, a gwybydd fy meddyliau; a gwêl a oes ffordd annuwiol genyf, a thywys fi yn y ffordd dragywyddol."

4. Meddylier am y *parodrwydd sydd mewn dyn i guddio y gwaethaf rhagddo ei hun*. Fel y mae efe yn barod, megys y nodwyd, i obeithio'r goreu, felly hefyd y mae yn barod i guddio'r gwaethaf am dano ei hun, nid yn unig rhag eraill, ond rhagddo ei hun. Mae efe nid yn unig yn agored i gael ei dwyllo, ond yn ei dwyllo ei hun. Mae gwir ansawdd ei galon yn ddiarwybod iddo o'i wirfodd. Calon siomedig sydd yn ei wurdroi, nes y mae yn ymborthi ar ludw byd a chnawd. O pe byddai dyn yn onest ato ei hun, nis gallai'r fall ei dwyllo byth! Er maint yw arwybodaeth a hunanhyder dyn, ac er holl esgusodion teg y galon, mae yn fynych dan y cwbl ammheuaeth nad ydyw pob peth yn iawn, a rhyw ddirgel ymwybyddiaeth fod drwg yn nirgeloedd y galon; ond yn lle sefyll uwch ben y mater mwyaf mewn myfyrdodau difrifol, mae yr enaid, pan y collo ffyddlondeb i Grist, yn troi yn anfyddlawn hefyd iddo ei hun. Pan yr oedd Laban yn cyhuddo Jacob o ladrata ei ddelwau, yr oedd Jacob yn onest yn gallu gwadu hyny yn bendersynol; ond yr oedd Rahel euog yn ymesgusodi, gan ddyweyd nad oedd bosibl iddi hi gyfodi ger bron ei thad. Gwelwyd llawer, ar ol methu yn eu hamgylchiadau daearol, yn ymddangos yn synu fod pethau cynddrwg. Nis gwyddwn i, medd y dyn, fy mod

gymaint mewn dyled, a chenyf gàn lleied ar ei chyfer. Beth oedd yn lluddias iddo wybod? Onid y wybodaeth gyffredinol oedd ganddo fod ei amgylchiadau yn ddrwg oedd yn rhwystro iddo chwilio i fanylwydd, er mwyn cuddio'r gwaethaf rhagddo ei hun? Ai felly yr wyt ti, fy enaid? ai ofni yr wyt fod yn fanwl yn chwilio'th galon rhag y try hi yn bydredd? Holl gysur rhyw bobl yw medru ymgadw yn ddigon pell oddiwrthyt eu hunain.

II. MAE CREDINIAETH WIRIONEDDOL A GWASTADOL O'R HYN YDYW CRIST, YR HWN Y MAE A WNELOM AG EF FEL PROFFESWYR CREFYDD, YN EFFEITHIOL I ATTAL ADFEILIAD AC I GADW YR ENAID GYDA DUW.

Cael dirnadaeth gywir o hyn a wasgara burdeb drwy yr holl galon.

1. *Cofawn nad yw'r Hwn y mae a wnelom ni fel crefyddwyr âg ef neb llai na'r Duw byw.* "Bywiol yw gair Duw, a nerthol;" ac nis gall efe fod ond felly, canys "y Duw byw" ydyw. Ymado oddiwrth Grist yw "ymado oddiwrth Dduw byw." Mae efe yn cael ei ddangos fel hyn er rhybudd ac er cysur, er annogaeth i lynu wrtho, ac i beri arswyd rhag ymadael âg ef. Wrth gredu ynddo, yr ydym yn "gobeithio yn y Duw byw;" ac wrth gyflawni ymarferiadau yr efengyl, yr ydym yn "gwasanaethu y bywiol a'r gwir Dduw." Ganddo ef y mae "bywyd ynddo ei hun." Nis gall efe beidio byw, na byth golli ei fywyd. Efe yw bywyd yr holl greadigaeth. Gydag ef y mae "ffynnon y bywyd;" ffynnon bywyd didranc iddo ei hun, ac o'r hon y mae ffrydiau pob bywyd yn tarddu, o'r angel hyd yr abwydyn. Mae efe "yn bywhâu pob peth;" Duw ein heinioes ydyw. Y bywyd tyfol, y bywyd anifeilaidd, y bywyd rhesymol, a'r bywyd ysbrydol,—oddiwrtho ef y deuant oll. Dyma yr hwn a saif ac a lefara yn y dydd diweddaf uwch ben y ddaear, fel hen fynwent fawr yr oesoedd; "a chaiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef, a hwy a ddeuant allan." "Megys yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yn Nghrist y bywheir pawb." Ac fel y mae efe yn fywiol a nerthol ynddo ei hun, mae wedi ei wneuthur yn Offeiriad i ni "yn ol nerth bywyd annherfynol." Wedi myned i lawr i'r bedd, efe a adgyfododd "fel yr arglwyddiaethai ar y meirw a'r byw hefyd." Gall efe y fynyd hon "fywhâu y neb y myno." Medr ddyweyd wrthyt ti, gristion, yn

nghanol gelynion a pheryglon o bob math, "Nac ofna; myfi yw y Cyntaf a'r Diweddaf, a'r hwn wyf fyw, ac a fum farw, ac wele, byw ydwyf yn oes oesoedd; ac y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth." "Byw wyf fi," medd efe wrth ei holl bobl, "a byw fyddwch chwithau hefyd." Ië, medd y credadyn, "Byw ydwyf, eto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi; a'r hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw." Efe yw bywyd yr holl eglwys, bywyd y gair a'r ordinhadau, bywyd ein holl ddyledsdyddau, a bywyd tragywyddol nef y nefoedd. Mae yn fyw i nerthu'r duwiol ar ei daith trwy'r byd hwn, ac i'w wobrwyo yn y diwedd. Ac os "rhoddir ni, y rhai ydym yn fyw, i farwolaeth er mwyn Iesu," hyny a fydd "fel yr eglurer hefyd fywyd Iesu yn ein marwol gnawd ni." Os gwneir i blentyn Duw "weled aml a blin gystuddiau," ei Wareddydd "a'i bywhâ drachefn, ac a'i cyfyd drachefn o orddyfnder y ddaear." Dyma oedd yn rhoi grym i Abraham yn erbyn gobaith i gredu dan obaith. "Credodd efe iddo, sef Duw, yr hwn sydd yn bywhâu'r meirw, ac yn galw y pethau nid ydynt fel pe byddent." Wedi i'r bwystfil ladd y ddau dyst oedd yn prophwydo dros Dduw, "Ysbryd y bywyd oddiwrth Dduw a aeth i mewn iddynt hwy, a hwy a safasant ar eu traed."

Mae hyn gan hyny yn peri fod cilio oddiwrtho ef yn rhywbeth arswydus. Wrth ymadael â'r Duw byw, y mae dyn yn myned yn hunanleiddiad. Fe welwyd gwraig wedi ymadael â'i phriod, neu blentyn â'i dad, yn byw rywfodd ar ol hyny; ond corff wedi cael ei ysgar oddiwrth yr enaid, marw yw, ac i'r bedd i bydru yr anfonir ef. A dyna pa fath yw enaid wedi ymadael â Duw. Wedi troi oddiwrth eilunod, y pethau gweigion hyny, bydd pob peth yn dda o'u rhan hwy; nid oes ganddynt hwy lygaid i weled, na braich i daro, y rhai a'u gadawant; ond am ein Duw ni, gweddus, fel y dywedai Darius, "i bawb ofni a chrynu rhagddo, o herwydd efe sydd Dduw byw, ac yn parhâu byth." Ganddo ef y mae awdurdod i achub, ac awdurdod i ddamnio. Yn ei law ef y mae ein hamserau; ac y mae yn mesur a chyfranu amser wrth y momentau, er mwyn i bechadur anystyriol, ac i broffeswr cysglyd, edifarhâu. Mae yn edrych arnom gyda'r fflam dân yn ei lygaid, ac agoriad byd arall yn ei law; a pheth peryglus yn wir yw bod mewn ordinhadau, ac o dan



argyhoeddiadau, yn oedi ac yn ymesgusodi, gan nas gŵyr yr enaid pa fynyd y bydd Arglwydd bywyd ac angeu yn rhoi tro â'r allwedd, i'w ollwng i'r byd mawr tragywyddol. Beth fydd y canlyniad o ymadael âg ef? "Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw." Dywed efe uwch ben ei holl ddirmygwyr, "Mi a fyddaf fyw byth." Bu Jeroboam, wedi iddo ddyrchafu ei law yn erbyn y brenin Solomon, yn ffoadur yn yr Aipht hyd farwolaeth Solomon; ac wedi hyny efe a ddychwelodd i dir Israel. A Christ yn fab bychan, pan yr oedd Herod yn ei geisio i'w ddyfetha, a gymerwyd i'r Aipht, ac a fu yno hyd farwolaeth Herod; ac yna daeth y newydd i Joseph, "Cyfod, a chymer y mab bychan a'i fam, a dos i dir Israel." Ond am bechadur wedi myned dan ddigofaint "y Brenin tragywyddol, anfarwol," ni bydd marwolaeth a'i rhyddhâ ef; ceir ef yn angeu, a thu hwnt i angeu, yn ngafael ei Farnwr mawr. Felly pan y mae Iesu Grist yn annog ei bobl i gywirdeb a manylrwydd ar lwybr ufudd-dod, dyma yr olwg a rydd efe ar Dduw: "Ofnwch yr Hwn, wedi y darffo iddo ladd, sydd âg awdurdod ganddo i fwrw i uffern; ië, meddaf i chwi, hwnw a ofnwch."

Gwybydd, ynte, a chrêd, ti wrthgiliwr, fod dy wrthgiliad yn ymadawiad â'r Duw byw. Mae llawer yn rhyw wâg feddwl fod pethau yn dda rhyngddynt â Duw, er eu bod hwy yn gallu byw mewn esgeulusdra o ordinhadau yr efengyl. Ond os nad wyt o ddifrif yn ceisio heddwch Duw yn nhrefn yr efengyl, os nad wyt yn ymostwng i'w awdurdod ef yn ei gorchymynion, ac os nad wyt yn ei wasanaethu yn yr ymarferiad a'i hordinhadau, yr wyt yn wir wedi ymadael âg ef. Dyna di mewn gwrthryfel yn ei erbyn, ac hebddo ef yn y byd. Mae yr oll y mae Duw yn ei addaw i ddyn, ac yn ei ymosyn oddiwrth ddyn, i'w cael yn yr efengyl; a chefnu arni hi sydd yn gefnu ar Dduw.

2. *Ystyriaen fod Mab Duw yn gwybod yn berffaith am, ac yn sylwi i fanlyrwydd ar, ddirgeloedd y galon bob mynyd.* Gall fod llawer sydd yn byw o'th amgylch, fy nghyfaill, heb wybod nemawr am danat, nac yn gofalu dim yn dy gylch; ond y mae holl histori dy galon yn wybyddus i Arglwydd pawb oll. Megys pan yn nyddiau ei gnawd, "nad oedd raid iddo dystiolaethu o neb iddo am ddyn, o herwydd yr oedd efe yn gwybod beth oedd mewn dyn," felly y mae efe eto "yn chwilio yr arenau

a'r calonau." Hyn a roddir yn rheswm am yr annogaeth i gadw'r galon rhag llygru trwy demtasiwn: "Canys ffyrdd ôyn sydd yn ngolwg yr Arglwydd, ac y mae efe yn dal ar ei holl gamrau ef." Mae efe yn dal gydag eiddigedd ar gamrau yr enaid, a mynai iddo ymgadw megys morwyn bur iddo ef, rhag iddo ymhalogi yn anffyddlaw'n iddo.

Nid anaml y mae dyn yn wylidwrus ar ei ymddygiad am fod llygad y byd a'i frodyr arno. Y fath ofal a gymer am ymddwyn yn iawn ger bron llygad y cyffredin! Mae yn gwneyd y peth hwn am ei fod yn beth a gymeradwyir, ac yn peidio gwneyd y peth arall am ei fod yn beth a gondemmir, yn y llysoedd ymha rai ei profir yn barhâus. Ië, y mae ei gydwybod ei hun yn beirmiadu yn fwy manwl ar ei ffyrdd o herwydd y cymundeb sydd rhyngddi hi â chydwybodau rhai eraill. Pe na buasai ond hi ei hun, buasai lawer tro wedi cymeryd ei breibio a'i swyno i gysgu. Ond y mae'r ymwybyddiaeth sydd mewn dyn ei fod yn actio ger bron brawdle cydwybodau eraill a rydd farn onest ar ei fater, yn cadw ei gydwybod ei hun ar ddihûn. Mae'r cyfryw ystyriaeth yn peri llawer o fanylrydd yn ymddygiadau dyn. "Dywedais, Cadwaf fy ffyrdd rhag pechu â'm tafod; cadwaf ffrwyn yn fy ngenau tra fyddo yr annuwiol yn fy ngolwg. Gwrando fi rhag llawenychu o honynt i'm herbyn; pan lithrai fy nhroed, ymfawrygent i'm herbyn." Gyda dywedyd, "Ein gorfoledd ni yw hyn, sef tystiolaeth ein cydwybod," dywedai Paul, "Yr ydwyf yn gobeithio ddarfod ein gwneuthur yn hysbys yn eich cydwybodau chwithau hefyd." Ië, y mae ystyriaeth ein bod ar chwareufwrdd y byd yn ngwyddfod myrdd myrddiwn o fodau anweledig sydd yn syllu arnom, yn ein galw i fod yn dra gwyliadwrus ar ein ffyrdd a'n hymddygiad. Yr oedd Paul yn gorchymyn i Timotheus "ger bron yr etholedig angylion," ar gadw o hono ei gyfarwyddiadau mewn pethau eglwysig. Ac yr oedd benywod crisionogol Corinth i ddyfod allan o'u hystafell drwsio i'r addoliad yn weddus eu hymddangosiad, "o herwydd yr angylion." Ac yr ydym oll i iawn redeg yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni, "gan fod cymaint cwmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch." Wele, O ddyn, os yw llygad dy gydwybod, llygad y byd, llygaid dy frodyr, a llygaid yr angylion arnat, yn peri i ti edrych beth a wnei, oni ddylai yr ystyriaeth fod yr Hwn sydd uwch na'r

uchaf yn gwylied beri i ti gadw dy ffyrdd, a chadw dy galon yn dra diesgeulus? Nis gall dyn namyn "edrych ar y golygiad, ond yr Arglwydd a edrych ar y galon." Pe byddit yn cael cam neu ynte ffafriaeth annhêg oddiar law creaduriaid, fe fydd eto farn Duw, y farn uchaf, a'r farn olaf, yn berffaith gywir ar dy achos.

Nac anghofier geiriau'r testun : "Nid oes creadur anamlwg yn ei olwg ef," o uchder nef y nefoedd i lawr hyd yn uffern isod; "eithr pob peth sydd yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef." Mae holl weithredoedd y tywyllwch yn oleu iddo ef; mae dyfnion weithrediadau'r galon ar y wyneb o'i flaen ef; mae tu mewn yr aberth yn agored i lygad yr Offeiriad mawr. Mae ei wybodaeth a'i sylw treiddgar ef, "yn llymach nag un cleddyf daufiniog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd;" yr *enaid* yn golygu, fe dybygid, yr ewyllys a'r serchiadau, a'r *ysbryd* y meddwl neu'r deall sydd yn eu llywyddu; "a'r cymmalau a'r mêr:" cymhariaeth oddiwrth y corff yn cael ei chymhwyso at yr enaid; yr enaid yn ei ddymuniadau, ei fwriadau, a'i ddychymygion dirgelaf, megys yr ychwanegir, "ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon." Os oes yna goleddu'r chwantau yn y fynwes, efe a chwilia hyny allan. Nid oes un meddwl, o'r lluoedd sydd yn troellu trwy'r dychymyg, heb fod o flaen ei welediad ef. Y meddwl bydol, neu hunangar, neu ddialgar, neu drythyll, efe a'i gwêl; a'r mynydau o gellwair a choegddigrifwch, efe a'i barn. Esgusodir weithiau afiechyd yr ysbryd trwy ei briodoli i afiechyd corfforol; ond fe fedr Gair Duw wahaniaethu rhyngddynt. Saif uwch ben pob eglwys, ac a ddywed, "Mi a adwaen dy weithredoedd." Mae yn eu hadwaen yn y ffynnon y maent yn tarddu o honi, yn yr amgylchiadau y maent ynglŷn â hwynt, ac yn y diwedd y maent yn tueddu iddo. Y pethau na fynai'r dyn i'w gymydogion, ei frodyr, na'i wraig, eu gwybod, mae Mab Duw yn eu gwybod yn drwyadl. O mi ddymunwn waeddi wrth fy nghalon fy hun, a chalon pob un yn y gynnulleidfa, "Bydd ddyfal i'th osod dy hun yn brofedig gan Dduw!" Dyna a wasgarai ffyddlondeb drwy y dyn oddimewn, ac a wnaï i ni wneuthur pob peth "megys o burdeb, megys o Dduw, yn ngwydd Duw."

3. *Mae Mab Duw yn barnu'r cwbl yn ol gwirionedd, ac y mae amser yn dyfod pan y bydd efe yn barnu airgeloedd y galon*

yn y galon ei hun, ac yn gwneuthur hyny hefyd ger bron y bydoedd, sef nefoedd, daear, ac uffern. Nid sylwi fel un difater am yr hyn a welir ganddo y mae efe; ond y mae, ar ol craffu a sylwi, yn rhoi ei farn a'i ddedfryd ar yr hyn a ddaw o flaen ei lygaid. Pan yn ein gweled mewn dyledswydd, neu mewn temtasiwn, y mae efe ar ei orsedd yn barnu. Nid oes nwyd yn troi ynom, na gair yn dyferu o'n genau, nad yw efe yn cymeradwyo neu yn condemio. A'r farn sydd yn pasio ganddo ef ar y ddyledswydd, ar yr agwedd, ar y cyflwr yn awr, a gyhoeddir ganddo yn y dydd olaf.

Ac wrth farnu crefyddwyr, nid wrth yr honiadau, yr ymddangosiad a'r broffes, y mae yn gweithredu; eithr y mae yn treiddio i'r dirgeloedd. "Nid wrth olwg ei lygaid y barn efe, nac wrth glywed ei glustiau y cerydda efe." Efe a wêl yn awr lawer rhagrithiwr pwdr yn cael ei ganmawl a'i anrhydeddu, ac a glyw y truan tlawd, dall, hunanol, yn dywedyd, "Goludog wyf, ac mi a gyfoethogais, ac nid oes arnaf eisieu dim;" ond nid wrth y gweled a'r clywed yna y barn efe. Llawer a ddywedant wrtho yn y dydd hwnw, "Arglwydd, oni phrophwydasom yn dy enw di? ac oni fwriasm allan gythreuliaid yn dy enw di? ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di?" A glywi di hwy, Iesu mawr? Clywaf, clywaf; ond nid wrth a glywaf yr wyf fi yn barnu, eithr wrth feddyliau a bwriadau'r galon. Yr oeddwn i o'r un meddwl am danynt hwy yn wastad, ac felly yr addefaf heddyw, "Nis adnabûm chwi erioed; ewch ymaith oddiwrthyf, chwi weithredwyr anwiredd." Broffeswr, a foddloni di ar weddi ffurfiol pan y mae'r weddi a thithau yn noeth ac yn agored i lygad dy Farnwr? Dyna'r ystyriaeth oedd yn unioni Paul ymhob meddylfryd ac ymddygiad, "Duw yw yr hwn sydd yn fy marnu." Gan mai ar y dirgeloedd y mae efe yn sylwi fanylaf, felly am fod yn bur iddo ef yno y mae y gwir gristion yn gofalu mwyaf.

Mae gan Air Duw, neu Fab Duw, amser pryd y bydd yn barnu'r galon yn y galon ei hun. Megys y mae efe yn hysbys o'r galon, efe a'i gwna hi yn hysbys hefyd iddi ei hun. Fel y mae efe yn barnu ac yn cyhoeddi y farn hono yn ngair y gwirionedd, y mae efe yn medru rhoi ei fywyd a'i nerth yn nedfryd y gair, gan chwilio celloedd y bol, a *dissectio*, a gwahanu yr enaid a'r ysbryd; codi dyfnion agweddau'r galon i olwg y meddwl, a

gwrneuthur barn arnynt yn nghydwylbod y dyn ei hun. Mor hawdd yw i Grist wneyd y gydwylbod yn gnofëydd i'r pechadur ! Yn wir, y mae barn dynion wedi bod yn foddion lawer pryd i wneyd barn ar yr euog yn ei gydwylbod ei hun. Dacw'r dyn yn eithaf tawel yn ei bechod ; ond y foment y cafwyd ef allan, ac y syrthiodd efe dan gondemniad dynion, dyna ei gydwylbod ef ei hun yn deffro i'w gondemnio ei hun, ac yn gyru hoelion eu dedfryd hwy i mewn i'w enaid a'i ysbryd. O fy enaid, os na fedri di ddyoddef crybwyll dy fai gan dy gydgreadur heb i'th gydwylbod gnoi o'th fewn, beth a wnei pan yr ä Mab Duw mewn cystuddiau, ac yn angeu, i agor llyfr ei hollwylbodaeth o flaen llygad y gydwylbod, i ddarllen yn uchel ddirgeloedd y galon ? A beth am y dydd mawr pan y cymer efe'r farn i'w ddwylaw ei hun ger bron y bydoedd, ac y geilw efe'r nefoedd oddiuchod a'r ddaear oddi isod, yn dystion ar dy achos ? Pa faint a dâl medru dyweyd yno, Barn fi, Arglwydd, ac nid ofnaf ; ti a wyddost nad ydwyf annuwiol ; ti a wyddost fy mod yn dy garu di ; bum hefyd yn berffaith gyda thi, ac ymgedwais rhag fy anwiredd ! Wele, ynte, yn ein dydd hwn cynhyrfed y pethau hyn nyni i wneyd ein goreu ar ein cael ganddo ef mewn tangnefedd, yn ddiŵrycheulyd ac yn ddiargyhoedd.



## PREGETH XV.

YR EFENGYL YN GALW I UFUDD-DOD FFYDD.

RHUFEINIAID i. 5: "Trwy yr hwn y derbyniasom ras ac apostoliaeth, i ufudd-dod ffydd ymhlith yr holl genedloedd, er mwyn ei enw ef."

**P**AN fyddo dyn yn amcanu gwneuthur gwaith mawr, ei ddoethineb yw sylfaenu yn dda. Yr oedd Paul, fel y mae yn amlwg, yn bwriadu dysgu y Rhufeiniaid cristionogol yn nirgelwch yr efengyl, a chadarnhâu eu heneidiau yn ei hathrawiaeth a'i haddoliad. Ac i'r dyben o lwyddo yn well, mae yn ymdrechu i symud pob rhagfarn yr oedd yn tybio a allasai godi yn eu meddyliau ar eu gwaith yn derbyn llythyr oddiwrtho ef. Gallasai rhai o honynt fod yn barod i ddywedyd, Paham y mae'r gŵr hwn yn ymyraeth â ni o gwbl? Nid drwyddo ef y dychwelwyd ni i'r ffydd. Os yw efe yn Apostol i eraill, nid ydyw felly i ni, ond yn ymestyn at bethau hwnt i'w fesur wrth ysgrifenu atom. Yn ateb i hyna, efe a ddywed nad oedd yn gwneuthur dim ond talu i eneidiau dynion y ddyled dan ba un yr oedd Crist wedi ei osod wrth ei wneyd yn apostol: "Dyledwr ydyw i'r Groegiaid ac i'r barbariaid hefyd; i'r doethion ac i'r annoethion hefyd. Felly, hyd y mae ynof fi, parod wyf i bregethu yr efengyl i chwithau hefyd y rhai ydych yn Rhufain." Y commisiwn oddiwrth Grist ydoedd, "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur;" pob creadur ymysg yr holl genedloedd. "Ewch a dysgwch yr holl genedloedd." Gallasent ddywedyd hefyd, Wel, os yw ein hachos ni ar ei galon, pa fodd na buasai wedi dyfod i ymweled â ni cyn hyn? Yn ateb i hyny, mae efe

yn myned ar ei lw i sicrhâu ei awyddfryd i ddyfod atynt: "Tyst i mi yw Duw, yr hwn yr ydwyf yn ei wasanaethu yn fy ysbryd yn efengyl ei Fab ef, fy mod i yn ddibaid yn gwneuthur coffa o honoch bob amser yn fy ngweddïau, gan ddeisyf a gawn rywfodd ryw amser bellach rwydd hynt gydag ewyllys Duw i ddyfod atoch chwi; canys yr wyf yn hiraethu am eich gweled, fel y gallwyf gyfranu i chwi ryw ddawn ysbrydol fel eich cadarnhaer." Ië, yr oedd efe, meddai, heblaw deisyfu, wedi arfaethu yn fynych ddyfod atynt, ond ei Feistr mawr wedi ei luddio hyd yn hyn. O bosibl y mynai rhai o honynt feddwl, Os yw Paul yn bregethwr, nid ydyw efe yn apostol, na'i lythyr ddim angen na llythyr cyfaill cyffredin at ei gyfeillion. Ond wele efe yn hysbysu yn benderfynol am dano ei hun, "Paul, gwasanaethwr Iesu Grist, wedi ei alw i fod yn apostol, ac wedi ei neillduo i efengyl Duw." Yr wyf yn gwasanaethu Iesu Grist, nid yn ei ragluniaeth, ond yn yr efengyl, ac heb fod yn is fy awdurdod ynddi hi nag apostol, ac felly yn dysgu meddwl Duw yn yr efengyl gyda sicrwydd anffaeledig.

Wedi nodi yr efengyl, mae efe yn syrthio yn ddiatreg ar ei Gwrthddrych hi. Efengyl ydyw "am ei Fab ef;" ac wedi ei enwi ef, mae ganddo liaws o bethau gogoneddus i'w dywedyd am dano: ei Berson, ei gnawdoliaeth, ei swydd, a'i awdurdod. "Ei Fab ef" o ran ei Berson—"Iesu Grist," y Gwardwr eneiniedig wrth ei swydd—"ein Harglwydd ni" yn ei awdurdod—"yr hwn a wnaed o had Dafydd o ran y cnawd;" ond er ei wneyd felly, nid yw efe neb llai na Mab Duw; ac y mae ei hawl i'r teitlau goruchel hyn wedi ei phrofi tu hwnt i amheuaeth: "Ac a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu yn ol Ysbryd sancteiddiad, trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw." Yna daw adnod y testun: "Trwy yr hwn y derbyniasom ras ac apostoliaeth," y swydd, a'r doniau i gyflawni'r swydd, "i ufudd-dod ffydd;" i alw am yr ufudd-dod hwnw, ac i gymhell iddo. Yr ydym yn cael amryw bethau er ein haddysg dda yn y rhanau hyn a grybwyllwyd.

Yr ydym yn cael yma nôd wrth ba un y gallwn adnabod efengyl Duw: efengyl "am ei Fab ef" ydyw. Mae yn bod "efengyl arall, yr hon nid yw arall," sef nid yn efengyl o gwbl; ac y mae yn gymaint â gwerth ein heneidiau i ni fedru adnabod y

naill oddiwrth y llall. Efengyl am ddyn, yn rhyw ffordd neu gilydd, ydyw efengyl dyn. “Yr hwn sydd o’r ddaear, sydd o’r ddaear, ac am y ddaear y mae yn llefaru. Y mae yr hwn sydd yn llefaru o hono ei hun, yn ceisio ei ogoniant ei hun.” Felly y mae Eglwys Rhufain, a rhyw blaid yn Eglwys Loegr, yn sôn yn ddibaid am eu heglwysi; ac nid oes ddiogelwch i enaid ganddynt hwy, fe dybygid, ond o fewn y naill neu’r llall. Efengyl am y sacramentau yw eu hefengyl hwy; derbyn y rhai hyn yn eu ffordd hwy sydd yn iachawdwriaeth; caiff dyn ei aileni yn y naill, a’i wneyd yn gyfranog o Grist yn y llall. Yma y mae yr eglwys a’i hordinhadau, a’r neb sydd yn eu gweinyddu, yn cael mwy o arbenigrwydd na Christ. Mae’r Eglwys Babaidd wedi myned yn hollol i le Duw, gan hōni fod iachawdwriaeth y byd yn ei llaw. Ond hynodrwydd efengyl Duw, fel y gwelwn, yw ei bod yn efengyl “am ei Fab ef,” ac nid am ddyn, na philosophi, na moesau dynol. Person, cyfryngdod, aberth, a swyddau y Gwarddwr, yw ei thestun. “Yr ymadrodd am y groes” ydyw. Nis gŵyr hi ddim “ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio.”

Yr ydym yma yn gweled fod y doniau i gymhwyso dyn i bregethu yr efengyl yn ffrwyth cyfryngdod Mab Duw. “Trwy yr hwn,” ebe Paul, “y derbyniasom ras ac apostoliaeth;” gras yn gyffredinol, ac apostoliaeth yn neillduol; gras yn sylfaen, ac apostoliaeth yn oruwchadeiladaeth; gras i ddyfod at Grist, ac apostoliaeth i gynnrychioli Crist. Yn ol barn rhyw bobl, gellid meddwl mai’r cwbl sydd anghenrheidiol i wneyd dyn yn weinidog yr efengyl yw ordeiniad gan ddyn arall, a fyddo yn awdurdod-edig i weinyddu hyny. Os caiff efe yr ordeiniad hwnw, dyna efe yn weinidog pa fath bynag a fyddo. Ni a addefwn fod ordeiniad yn ofynol cyn y byddo dyn yn weinidog rheolaidd; ond nis gall ordeiniad o un math wneyd dyn yn wir weinidog heb ei fod wedi cael gras gan a thrwy Grist i’w gymhwyso i’r gwaith. Nid oedd hyd yn nôd ordeiniad Crist ar yr apostolion yn ddigonol heb eu gwisgo â nerth o’r uchelder. Efe a’u rhoddes hwy yn apostolion trwy iddo roddi ei Ysbryd arnynt, pan yr oedd efe wedi eu gosod yn y swydd o’r blaen. Yr oedd y goleuni, y nerth, yr ymadrodd i adeiladu, yn dyfod iddynt trwy Ysbryd Crist.

Dangosir i ni yma hefyd ddyben gweinidogaeth yr efengyl: "i ufudd-dod ffydd," neu, fel y cawn yn niwedd yr epistol hwn, "er mwyn ufudd-dod ffydd." Nid er difyru dynion y mae gweinidogaeth y gair wedi ei rhoddi—nid i borthi y deall yn unig, ond er eu cael i ufuddhâu; eu dwyn trwy wrando i wneuthur. Gofynai cyfeillion yn Llundain i Charles o'r Bala beth oedd hynodrwydd Rowlands o Langeitho fel pregethwr; ac atebai Mr. Charles, "Yr ydym ni yn pregethu edifeirwch a ffydd i'r bobl; ond yr oedd Mr. Rowlands yn pregethu nes y byddai'r bobl yn edifarhâu ac yn credu." Dyna oedd pregethu yr efengyl yn effeithiol i ufudd-dod ffydd.

Y mae ufudd-dod ffydd yn golygu naill ai yr ufudd-dod y mae athrawiaeth y ffydd yn ei ofyn, neu yr ufudd-dod y mae yr egwyddor o ffydd yn ei beri. Ac ni a gymerwn y ddau olygiad. Mae athrawiaeth y ffydd yn gorchymyn ufudd-dod; a phan y byddo pechadur yn ei chredu, mae efe yn teimlo ei hawdurdod a'i chymhelliadau ar ei galon, fel y mae efe o'i fodd yn ufuddhâu.

Bellach ni a geisiwn ddangos ymha bethau y mae'r efengyl yn galw i ufudd-dod ffydd, neu, pa beth y mae'r ffydd, fel deddf neu athrawiaeth, yn ei ofyn oddiwrthym.

I. Y peth cyntaf y mae deddf ffydd yn ei ofyn oddiwrth bechadur ydyw, *derbyniad o Grist fel Gwardwr*; rhoddi i tyny yr holl enaid i ddwylaw trugaredd Duw yn iawn Crist; syrthio i mewn â threfn gras yn cadw'r colledig.

Pan y caffo hyn ei wneyd, mae pob peth arall sydd yn eisieu yn sicr o ddilyn; ond cyn i hyn gael ei wneuthur, mae pob peth a wnelo dyn yn anghymeradwy gan Dduw. Mae yn wir fod yn ddyledswydd ar bob dyn wneyd pob peth y mae yr efengyl yn ei ofyn: marweiddio pechod, perffeithio sancteiddrwydd, cofio angeu Crist, gweddio, gwasanaethu Duw ymhob peth. Ond yr ydym i wneuthur gwaith Duw yn ffordd Duw; ac y mae sail y cyfan yn cael ei roi i lawr yn ngwaith pechadur yn ei gyflwyno ei hunan i Dduw yn Nghrist. Beth yw yr ufudd-dod ond dwyn ffrwyth i Dduw? A pha fodd y deawn i ddwyn y ffrwyth hwnw? "Chwithau, fy mrodyr, ydych wedi meirw i'r ddeddf trwy gorff Crist, fel y byddech eiddo un arall, sef eiddo yr hwn a gyfodwyd o feirw, fel y dygem ffrwyth i Dduw."

Beth yw yr ufudd-dod onid byw i Dduw? Ac y mae hyny trwy fydd yn Nghrist. Felly y cyflawnai Paul ei holl ddyledswyddau: “Mi a groeshoeliwyd gyda Christ, eithr byw ydwyf; eto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi; a’r hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw, yr hwn a’m carodd, ac a’i dodes ei hun dros of fi.”

Er mwyn i ni weled mai derbyn Crist yw y peth cyntaf a ofynir oddiwrth bechadur, meddyliwn am yr ystâd y mae ynddi wrth naturiaeth. Yr oedd dyn yn ei greadigaeth yn berffaith sanctaidd; ac fe wnaeth Duw gyfammod âg ef, lle yr addawai iddo fywyd tragwyddol ar yr ammod iddo roddi ufudd-dod perffaith i’w ddeddf. Ac yn ol y cyttundeb hwnw, os pechai dyn, nid oedd dim i’w wneyd âg ef ond ei osod i farw y farwolaeth fygythiedig. Pechu a ddarfu dyn, a dyna bob peth, o ran cymdeithas a mwynhâd, wedi darfod rhyngddo â Duw. Mae dyn wedi colli nid yn unig ei duedd a’i fedr i ufuddhâu, ond y cymhelliad hefyd oedd ganddo i wneyd hyny, a hyny ydoedd bywyd. Ac wele Dduw yntau wedi darfod gofyn am wasanaeth dyn mewn trefn i wobrwyo â bywyd. Beth? a ydyw dyn syrthiedig wedi myned bellach i’r un cyflwr âg angel syrthiedig? Wedi i angylion bechu, ni cheisiodd Duw byth wasanaeth ganddynt hwy; ac ni chais efe wasanaeth ganddynt yn dragwydd. Beth bynag am eu dyledswydd i edifarhâu a chredu, ni cheisiodd ac ni cheisia Duw mo hyny oddiwrthynt. Ni threfnodd efe yr un Bibl na Sabboth iddynt, nac un ordinhâd grefyddol iddynt ymarfer â hi; ac ni ddenfyn efe genadwri heddwch iddynt byth. Ac ai felly y mae gyda dyn—pob peth wedi darfod rhwng Duw âg ef? Ië, o ran y dyn ei hun. Ond yr oedd yn Nuw fwriadau tuag at ddyn heblaw yr hyn yr oedd gosodiadau Eden wedi ei ddadguddio. Fy mherfedd a ruant am y dyn syrthiedig, medd efe; gan gofio y cofias ef eto; gan drugarhâu y trugarhâf wrtho ef. A chan hyny, wele Grist yn cael ei ddangos trwy addewidion a chysgodau yr hen destament. Yn ol yr arfaeth dragwyddol yn nghyflawnder yr amser, daeth Mab Duw i’r byd; ac mewn undeb â natur dyn, rhoes yn ei fywyd a’i angeu iawn i Dduw. Bellach y mae gweinidogaeth y cymmod wedi ei sefydlu; a dyma ei hystyr: “Sef, bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt



eu pechodau. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gŵr anwir ei feddyliau, a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymer drugaredd arno, ac at ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth. Crêd yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi."

Yn awr y mae cydfod rhwng Duw a dyn yn gorphwys ar hyn : derbyn Crist. Nid oedd dim trafndiaeth i fod rhwng llywodraethwr yr Aipht â phlant Israel ond ar yr ammod iddynt ddwyn Benjamin eu brawd i'r Aipht gyda hwy. Ofer oedd i Abel Beth-maachah ddadleu ei bod yn ddinas a mam yn Israel, ac yn etifeddiaeth yr Arglwydd ; nid oedd dim heddwch i fod iddi heb i ben Seba mab Bichri, y gwrthryfelwr yn erbyn breniniaeth Dafydd, gael ei dasfu dros y mur. Os bydd unrhyw barth o'r deyrnas mewn gwrthryfel, a'r llywodraeth, cyn ymosod ac anrheithio, yn cynnyg ammodau heddwch, mae yn amlwg mai y peth cyntaf sydd gan y bobl a wrthryfelasant i'w wneuthur ydyw ymostwng sydd ammodau. Dyna y ffordd y caiff eu bywyd ei arbed, eu rhagorfreintiau fel deiliaid eu hadferu, a'u hactau newydd o ffyddlondeb i'w brenin eu derbyn yn foddlongar. Ond os gwrthodant yr ammodau heddwch, dyna bob peth ond brwydr a dinystr yn darfod rhyngddynt â'u penaeth. Felly os yw ein byd ni yn fyd o wrthryfel yn erbyn Duw y nefoedd, ac yntau wedi amlygu trefn yn yr hon y derbyn efe y gelyn i'w ffafr, ac os y drefn hono ydyw aberth ac iawn Crist, mae yn eglur mai y peth cyntaf, a'r peth anheggorol, i'w wneyd ydyw derbyn Crist. Wedi i Dduw osod ei Fab yn Frenin ar Sion ei fynydd sanctaidd, y cyhoeddiad oddiwrtho, hyd yn nôd ar freninoedd a barnwyr y ddaear, yw, "Cusenwch y Mab, rhag iddo ddigio a'ch dyfetha chwi o'r ffordd." Yr arwydd cyntaf o ymostyngiad a ddysgwylia Duw yw hyn : "Hwy a barchant fy Mab i." Y peth cyntaf i'w ofyn i ti, bechadur, ydyw, "A wyt ti yn credu yn Mab Duw?" Yr wyf yn onest, yn eirwir, yn hael, meddi. Ond a wyt ti yn credu? Heb hyny, bydd pob moesau a dyledswyddau oddiwrthyt yn ofer. "Hyn yw gwaith Duw : credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe." Dyna'r gwaith cyntaf y mae Duw yn ei ofyn oddiwrth bechadur, y gwaith sydd yn ei anrhydeddu a'i foddloni fwyaf o ddim, o'r hwn y tardd pob peth arall sydd yn gymeradwy ganddo, ac heb yr hwn na bydd dim arall yn dderbyniol. Dacw yr Iuddewon

â chanddynt zel Duw, ac yn dilyn deddf cyfiawnder; ond y mae'r cwbl yn ofer. Paham? Nid ymostyngasant i gyfiawnder Duw, canys hwy a dramgwyddasant wrth y maen tramgwydd. Yr oedd yr holl ufudd-dod i Dduw, neu waith Duw i Adda, wedi ei grynhoi i'r pwynt ynghylch ffrwyth y pren. Yr oedd gwaith Duw i'r Israel i'w gael o fewn cyfammod Sinai. Ond ein pwynt mawr ni yn bresennol yw derbyn yr efengyl, credu o honom yn Mab Duw.

Ac megys nad oes dim da a wna pechadur yn gymeradwy heb iddo gredu yn Nghrist, felly nid oes dim drwg a wnaeth efe a luddias iddo iachawdwriaeth os crêd. "Os gelli di gredu, pob peth a all fod i'r neb a gredo." Y mae mantais fawr mewn bod Duw wedi gwneyd credu yn ddyledswydd. Pe byddai hyn yn cael ei wasgu atom yn unig fel braint, gallem ofni ein bod ni yn rhy annheilwng. Ond nis gallwn beidio gweled fod yn deilwng i Dduw gael ufudd-dod oddiwrthym. Am a wn i, pe buasai Duw yn anfon atom ni, droseddwy, i beri i ni ymbarotoi i fyned i uffern ymhen ychydig oriau, na buasai hynny felly yn ddyledswydd arnom. Ond nis anfonodd efe erioed, ac nid enfyn efe byth, y cyfryw siars ofnadwy arnom. Beth a gais efe genym, ynte? Ceisio y mae efe genym yr act hono â'n cysyllta wrth iachawdwriaeth dragywyddol. "Hwn yw ei orchymyn ef: gredu o honom yn enw ei Fab ef Iesu Grist." Dyna'r peth cyntaf a gais efe genym, y peth a'i boddia ef fwyaf, y peth a ddwg iddo fwyaf o ogoniant, a mwy nag a fedr neb ond pechadur ei roddi iddo, a'r hyn hefyd a dÿn ymaith oddiwrth hwnw enw a thynged pechadur.

O bobl, dyma yn unig a'ch ceidw, ac fe'ch ceidw hyn chwi yn anrhydeddus: ufudd-dod ffydd. Tra y byddoch chwi yn anghredu yr efengyl, yr ydych yn byw yn y pechod mwyaf, ac yn dangos eich bod yn anedifeiriol am eich holl bechodau eraill; o herwydd i *settle* â Duw ynghylch eich beïau, i'ch heddychu âg ef yn ngwaed Crist, y mae yr efengyl yn eich galw. Wele alwad drugarog yr Arglwydd Dduw: "Deuwch yr awr hon, ac ymresymwn, medd yr Arglwydd; pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, ânt càn wuned â'r eira; pe cochent fel porphor, byddent fel gwlan." A'ch anufudd-dod a etyb, Na ddeuwn byth. Beth yw hyn ond gwrthryfela yn erbyn y daioni

mwyaf? gwrthryfela yn erbyn cariad, cnawdoliad, a gwaed Crist! Wedi dechre ymladd â Duw yn ei ddeddf, dyma'r pechadur yn dal y frwydr yn yr efengyl. Ond y mae yn rhwym o goli'r dydd. Ar dir yr anghrediniaeth a'r anufudd-dod, nid oes ond rhyw ddsygwyl ofnadwy am farnedigaeth ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyd. "Yr hwn nid yw yn credu, a ddamniwyd eisoes, o herwydd na chredodd yn enw uniganedig Fab Duw."

II. Y mae yn yr ufudd-dod ffydd *ymuno â theulu y ffydd i wasanaethu Duw yn efengyl ei Fab.*

Nid wyf wrth hyn yn dywedyd mai dyledswydd uniongyrchol pob dyn yw ymgynnyg am aelodaeth yn nhŷ Dduw. Mae yn rhaid gwneuthur gwaith yr Arglwydd yn ffordd yr Arglwydd. Ffordd Duw yn hynyma yw i ddydd roddi ei hunan yn gyntaf i'r Arglwydd, ac yna i'w bobl yn ol ewyllys Duw. Pa fath bobl a chwanegwyd at yr eglwys yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost, a'r dyddiau canlynol? Rhai yn gofyn o ddirif, "Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?" rhai yn edifarhâu ac yn dychwelyd, ac yn derbyn gair Duw yn ewyllysgar. Dyma y rhai oedd yno yn gwneuthur proffes trwy fedydd, yn cael eu chwanegu at yr eglwys, ac oeddynt gadwedig. Y rhai anwyl gan Dduw, a sancteiddiwyd yn Nghrist, saint a ffyddloniaid yn Nghrist Iesu, a ddangosir i ni yn ddefnyddiau yr eglwys apostolaidd; a'r eglwys sydd yn derbyn dynion gwrthwyneb i hyny, nis gellir ei chyfrif, o leiaf yn y peth hwn, yn meddu y sêl a'r argraff apostolaidd. Nid wyf fi, gan hyny, yn dyweyd y dylai dyn amlwg annuwiol ymofyn am aelodaeth eglwysig yn yr ansawdd hono. Ac nid ydwyf chwaith yn dyweyd y dylai dyn wybod ei fod yn dduwiol cyn troi i eglwys Dduw. Y mae rhyw dir canol rhwng i ddydd fod yn galed annuwiol ac iddo wybod ei fod yn dduwiol; ac o hwnw y mae dynion yn dyfod i eglwys y Duw byw. Dyledswydd y rhai sydd ar y cyfryw dir yw rhoi eu hunain i fyny i Grist a'i achos. Yr enaid ymofyngar, teimladol, yr hwn y mae ofn angeu a barn yn ei ddal, bygythion y gair yn peri iddo arswydo, a'r gobaith y mae'r efengyl yn ei osod o'i flaen yn ei gysuro ac yn ei gymhell,—mae deddf ffydd yn gwasgu arno ef i fwrw ei goelbren ymysg y ffyddloniaid. Nid peth y mae sect o bobl yn ei ofyn yw hyn; ond y mae'r ffydd yn ei ofyn. Mae yn

anmhosibl i wrandawyr yr efengyl beidio gwneuthur hyn heb fod yn ddiystyr o Awdwr y ffydd yn ei drefn, yn anufudd i alwad y ffydd yn y gair, ac yn wrthwynebus i effeithiau y ffydd yn ei gydwytbod a'i galon ei hun.

Mae Duw wedi trefnu i'w bobl fod yn eglwys. Pa le y cafodd neb y dyb am fyned i'r nefoedd ar eu penau eu hunain? Pan yr oedd pobl Dduw ymysg un genedl, gwnaeth Duw hwy yn un teulu. Yr oedd un archoffeiriad yn gweinyddu drostynt tuag at Dduw, a chanddynt un addoldy cysegredig lle yr ymgynullent. Nis gall pethau fod felly dan yr efengyl. Mae achos Crist i fyned i blith yr holl genedloedd. Mae pobl yr Arglwydd ar y ddaear yn cael eu gwahanu gan ieithoedd a moroedd. Ond y mae yr Hwn a wnaeth ei bobl yn eglwys gynt, yn eu gwneuthur yn eglwysi eto. Sonir yn fynych yn y Testament Newydd am yr eglwysi. I ddangos pa fath rai oedd ynddynt, gelwir hwy yn "eglwysi y saint;" i ddangos pa le yr oeddynt, gelwir hwy yn eglwys Corinth, eglwys Ephesus, eglwys Galatia, eglwys Asia, &c.; ac i ddangos pwy oedd yn eu perchenogi a'u harddelwi, gelwir hwy yn "eglwysi Duw" ac "eglwysi Crist."

Mae yn perthyn i'r eglwys hon ei hordinhadau; yr ordinhadau o addoliad sydd wedi eu sefydlu dan yr efengyl; ac nis gellir dangos yr ufudd-dod ffydd heb ymarfer yn deilwng a chyson â'r ordinhadau hyny. Derbyn yr efengyl, a Christ yn yr efengyl, yw'r weithred gyntaf o ymostyngiad ffyddiog i Dduw; a'i addoli ef yn ordinhadau yr efengyl, yw'r brif ffordd i ddangos yr ymostyngiad hwnw. Yn y naill, y mae yr enaid yn gwneuthur cyfammod âg ef, ac yn ei gymeryd i fod yn Dduw iddo; ac yn y llall, y mae yn ei anrhydeddu ef megys Duw. Mae yn wir nad yw deddf natur fel y cyfryw yn sôn dim am ordinhadau; eto pan y gwnelo Duw gyfammod â dyn, a chysylltu wrtho ryw sacramentau, mae deddf ei natur yn galw arno i wasanaethu Duw yn yr ymarferiad â'r rhai hyny; ac y mae eu hesgeuluso yn drosedd o honi. Wedi i Dduw sefydlu y ddau bren yn sacramentau yn nghyfammod Adda, yr oedd iddo droseddu yn hyny yn drosedd o holl ddeddf ei natur. Ac wedi sefydlu addoliad dan gyfammod Sinai, yr oedd esgeuluso yr addoliad hwnw yn wrthryfel yn erbyn holl awdurdod cyfammod Duw. Yn awr, y mae'r Duw oedd yn galw am gyfryw wasanaeth gynt,

yn galw am ei wasanaethu yn ordinhadau y cyfammod newydd. Gan adael Eden a Sinai, yr ydym bellach i orphwys ar fynydd Sïon; aros gyda Christ, ac ymarfer âg ordinhadau ei efengyl. Yn y Sïon efengylaidd, y mae dinas y Duw byw, cartref yr addoliad; yma y mae gorseddfainc y gras, ymha le y mae Barnwr pawb yn ei amlygu ei hun fel gwrthddrych yr addoliad, ac yn derbyn y gwasanaeth; ac yma y mae cymanfa a chynnull-eidfa y rhai cyntafanedig, lle y mae yr addolwyr o'r ddaear i'r nefoedd yn cydgyfarfod yn yr addoliad. "Mi a edrychais ac a glywais lais angylion lawer ynghylch yr orseddfainc, a'r anifeiliaid, a'r henuriaid; a'u rhifedi hwynt oedd fyrddiynau o fyrddiynau, a miloedd o filoedd, yn dywedyd â llef uchel, Teilwng yw yr Oen, yr hwn a laddwyd, i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith. A phob creadur a'r sydd yn y nef, ac ar y ddaear, a than y ddaear, a'r pethau sydd yn y môr, ac oll a'r sydd ynddynt, a glywais i yn dywedyd, I'r Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc, ac i'r Oen, y byddo y fendith, a'r anrhydedd, a'r gogoniant, a'r gallu, yn oes oesoedd."

Os na bydd yr ufudd-dod ffydd yn cael ei roddi yn addoliad yr efengyl, dengys hyny anufudd-dod rhyfyg. Mae byw heb addoli Duw yn Sïon yr efengyl yn fyw heb Dduw yn y byd; ac y mae troi oddiwrth yr addoliad hwn yn ymadael â'r Duw byw.

III. Mae yr ufudd-dod ffydd yn cynnwys *cadw holl orchymynion Duw oddiar yr egwyddorion ac i'r dybenion y mae yr efengyl yn eu cymhell.*

Dadguddiad o Dduw i'r creadur yw gwreiddyn neu sail ei ufudd-dod i Dduw; ac y mae pob dadguddiad o hono yn cynnwys cymhelliadau i'r ufudd-dod iddo. Llwfwr a fydd dyn heb rywbeth i'w gymhell at ei waith. Yr oedd ufudd-dod Adda i Dduw yn cyfodi oddiar y dadguddiad o Dduw iddo yn ngwaith y greadigaeth, a'r cyfammod a wnaethai Duw âg ef. Y dadguddiad hwnw oedd sylfaen a chynhyrfydd ei holl grefydd. Yr oedd yr amlygiad o ogoniant Duw yn hyny yn ei rwymo i ufuddhâu, ac ewyllys Duw yn ddadguddiedig felly yn rheol ei ufudd-dod. Yn nghalon Adda cyn syrthio, yr oedd deddf yn peri iddo ddywedyd, "Teilwng wyt, O Arglwydd, i dderbyn



gogoniant, ac anrhydedd, a gallu; canys ti a grëaist bob peth, ac o herwydd dy ewyllys di y maent, ac y crëwyd hwynt." Ac fel yr oedd Adda yn cael ei gymhell i ufuddhâu o herwydd daioni Duw fel Crëawdwr, yr oedd plant Israel yn cael eu cymhell i ufuddhâu o herwydd ei ddaioni neillduol iddynt hwy fel cenedl: "Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddÿg di allan o wlad yr Aipht, o dÿ y caethiwed." Ond y mae pob amlygiad o Dduw yn diflanu ger bron yr amlygiad o hono yn wyneb Iesu Grist; ac ar yr amlygiad hwn y mae yr holl gymhelliadau i'r ufudd-dod ffydd yn sylfaenedig. Mae ar bechadur eisieu cymhelliadau arbenig iddo ei hun; ac y mae y rhai hyny i'w cael yn yr efengyl. Os gelwir fi i ddychwelyd at Dduw, ei garu, a dysgwyl wrtho, mae yn ngair y ffydd y cymhelliadau cryfaf i orchymyn fy ufudd-dod. Cred a chadwedig fyddi; ni cholli'r pwy bynag a gredo; cyfododd Duw Grist oddiwrth y meirw, ac a roes iddo ogoniant, fel y byddai ein ffydd ni a'n gobaith yn Nuw.

Yn athrawiaeth y ffydd y mae'r cymhelliadau i ufudd-dod yn cael eu cyflwyno; a phan y mae yr efengyl yn cael ei derbyn drwy ffydd, mae'r cymhelliadau hyn yn cael eu dwyn i nerthol weithio ar y galon, ac ar holl egwydderion uniongyrchol ufudd-dod, nes ysgogi yr holl enaid i ufuddhâu. Wele yr efengyl yn dangos Duw yn mawredd ei gariad a'i ras yn Nghrist; ac y mae ffydd yn credu y cariad hwnw nes y mae hyny yn cynnyrchu cariad at Dduw yn ol, a'r cariad hwn yn peri iddo gadw ei orchymynion. Ar yr amlygiad hwn o Dduw yr oedd Paul yn sylfaenu ei gymhelliadau pan y mynai gynhyrfu credinwyr i ufudd-dod: "Yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, er trugareddau Duw," tosturiaethau ei natur yn rhedeg yn nghyfyngdod ac aberth Crist, "roddi o honoch eich cyrff yn aberth byw, sanctaidd, cymeradwy gan Dduw. Er gwerth y prynwyd chwi; gan hyny gogoneddych Dduw yn eich corff, ac yn eich ysbryd, y rhai sydd eiddo Duw." Beth yw yr annogaeth fawr i sancteiddrwydd? "Megys y mae y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd, byddwch chwithau hefyd yn sanctaidd ymhob ymarweddiad; gan wybod nad â phethau llygredig, megys arian neu aur, y'ch prynwyd oddiwrth eich ofer ymarweddiad, yr hon a gawsoch trwy draddodiad y tadau, eithr â gwerthfawr waed Crist." Beth

yw'r cymhelliad cryfaf i amynedd dan ddyoddefiadau? "Oblegid Crist yntau a ddyoddefodd drosom ni, gan adael i ni esiampl, fel y canlynech ei ôl ef; yr hwn pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddyoddefodd, ni fygythiodd, eithr rhoddodd ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn; yr hwn ei hun a ddÿg ein pechodau ni yn ei gorff ar y pren, fel gwedi ein marw i bechodau, y byddem byw i gyfiawnder." Beth yw yr ystyriaeth â'n gweithia oreu i frawdgarwch a maddeugarwch? "Yn hyn y mae cariad: nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau. Anwylyd, os felly y carodd Duw ni, ninnau hefyd a ddylem garu ein gilydd. Byddwch gymwynasgar i'ch gilydd, yn dosturiol, yn maddeu i'ch gilydd, megys y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau." A pha beth yw yr annogaeth effeithiol i haelioni? "Edrychwch ar fod o honoch yn y gras hwn hefyd yn ehelaeth; canys chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef, ac yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef." Mae Crist wedi ein dwyn dan ddyled hollol iddo ei hun. "Am hyny, frodyr, dyledwyr ydym, nid i'r cnawd, i fyw yn ol y cnawd." Nid ofn uffern yn gymaint sydd yn peri i gristion gadw ei enau rhag traethu twyll, cadw ei law rhag gwneuthur dim drwg, a symud ei droed oddiwrth ddrygioni; ond oddiwrth groes Crist y mae efe yn cael tuedd a grym i groeshoelio y cnawd, a'i wyniau a'i chwantau.

Mae yr ufudd-dod y mae ffydd yn ei ofyn ac yn ei gynnyrchu yn ufudd-dod oddiar egwyddor ddiragrith. Telerau yr ufudd-dod yn y cyfammod gweithredoedd oedd perffeithrwydd di-bechod. Ond trwy Grist, maddeuir yr holl amherffeithrwydd; eto y mae cyfraith Crist yn gofyn diragrithrwydd a'i dengys ei hun mewn parch i holl orchymynion Duw. Maddeuir yma fyrdd o wallau, a derbynir yr enaid cywir er maint ei ddiffygion; ond "ni ddaw rhagrithiwr yn ei wÿdd ef." Nis gall hyd yn nôd haeddiant Crist beri derbyn sarph yn lle pysgodyn. Na, fy enaid, ni osodwyd mo gyfryngdod Crist i fyny i fod yn fantais i ti ragrithio i Dduw â'th enau, a dywedyd celwydd wrtho â'th dafod; ei anrhydeddu ef â'th wefusau, ond dy galon yn bell oddiwrtho. Israeliad yn wir, yn yr hwn nad oes dwyll, yw yr hwn a gydnabyddir yn gymeradwy gan Grist. Rhaid i'r enaid

fod yn yr ufudd-dod, a rhaid i'r ufudd-dod fod mor äang â gorchymyn Duw. Nid cadw hynyma, a thori hynacw; nid cadw heddyw, a thori yfory; ond rhaid sefyll yn gyflawn yn nghwbl o ewylls Duw, heb ymgrymu i un Rimmon, na phlygu i un Baal, nac attal dim o werth y tir, na bo dim brefiad defaid, neu feichiad gwartheg, yn brawf na chyflawnwyd gair yr Arglwydd. Mae deddf ffydd yn gofyn i ni gyflawni pob dyledswydd, a hyny ymhob peth fel y mae Duw yn peri. Nid digon peidio gwneuthur drwg, ond rhaid i ni hefyd wneuthur da i bawb; nid peidio gorthrymu yn unig, ond dangos trugaredd hefyd; nid caru cyfeillion yn unig, ond caru gelynon hefyd. O fy enaid, a elli di ddyweyd wrth yr Hwn sydd yn gorchymyn, "Rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith," fel y dywedodd y Salmydd, "Rhodiais yn fy mherffeithrwydd?" A oes genyt lygad dê yn dy rwystro heb ei dynu ymaith? Beth yw yr *ond* sydd gan dy gymydogion am danat? Ai nid yw dy deulu yn gweled dy feiau? Ac onid yw dy gydwybod yn dy gondemnio? Ond nac anobeithia eto. Dos yn ymostyngar, yn ol trefn y ffydd, am faddeuant gan Dduw iachawdwriaeth, ac am nerth rhagllaw i roddi yr ufudd-dod ffydd a ofynir oddiwrthyt.

Mae yn rhaid hefyd, yn yr ufudd-dod ffydd, ufuddhâu ymhob peth i'r dyben penodol y mae'r ffydd yn ei osod o'n blaen, a hyny yw, cyrchu at ogoniant gras Duw. Hunan-gyfiawnder a hunan-glod, yw holl amcan dynion di-ffydd yn eu hufudd-dod. Ac yn wir, pan yr oedd dyn i gael ei gyfiawnhâu trwy ei weithredoedd ei hun, yr oedd ganddo ryw fymryn o le i ymogoneddu ynddo ei hun. Ond y mae deddf ffydd wedi cau allan yr holl ogoniant oddiwrth ddyn, ac y mae ei holl drefn hi wedi ei bwriadu i ddychwelyd y clod yn gwbl i ras y nefoedd. Ein rhagluniaethu, ein prynu, ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da, a'r cyfan, sydd "er mawl gogoniant ei ras ef." Wedi i Dduw wneyd y cwbl o ras i bechadur, bydd y pechadur bellach am wneyd y cwbl i ddyrchafu gras. Gwaith un arall, nid ei waith ei hun, yw'r cyfiawnder sydd yn dieuogi'r pechadur, ac sydd yn dyfod yn ddawn trwy ras iddo. Ac y mae yn cael dawn bywyd tragywyddol trwy Grist cyn dechre gwneuthur dim da ei hun. Felly efe a weithia oddiar fywyd; a'i arwyddair fydd, I'r Arglwydd yr ydwyf yn byw. Yr hyn a lefara ei Arglwydd a greda; yr hyn a

esyd ei Arglwydd arno, a wna; a'r hyn a gais oddiwrtho, a rydd; a'r cyfan oddiar gariad ato, ac er gogoniant iddo. Ei awyddfryd a'i hyfrydwch a fydd mynegu rhinweddau yr Hwn a'i galwodd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef.

Cofiw'n mai dyma ydyw holl grefydd pechadur: ufudd-dod ffydd. Act o ffydd yw dechre yr ufudd-dod, a thrwy ffydd yr ufuddheir hyd y diwedd. Mae yn anmhosibl i ddyn wneuthur dim i ryngu bodd Duw tra byddo ei berson dan ddigofaint Duw, a'i galon dan lywodraeth gelyniaeth ato; ac am bob un sydd heb gredu i'r Mab, "y mae digofaint Duw yn aros arno ef." Pan yr oedd Israel ddirywiedig yn offrymu y dall, y cloff, a'r clwyfus, yn aberth i'r Arglwydd, dywedai Malachi, "Cynnyg ef yr awrhon i'th dywysog, a fydd efe boddlaw'n i ti?" Gallwn ninnau ofyn, Pa dywysog a fyddai boddlaw'n i ryw wasanaeth rhagrithiol a wna'i gwrthryfelwr oddiar orfodaeth, tra y gwyddai fod ei galon yn llawn gelyniaeth ato ef a'i lywodraeth, a thra y byddai ei fywyd yn ofynol gan ddedfryd y gyfraith? Na, nid gwasanaeth y *rebel* a ofynir, ond ei fywyd ef. Rhaid ei adferu i ffafr ei frenin cyn y gellir derbyn ei wasanaeth. Felly tra byddo'r pechadur dan felldith deddf Duw, ei fywyd yw yr hyn a ofynir. Rhaid i waed Crist buro ei gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon cyn y caiff, nac y gall, wasanaethu y Duw byw. Y peth cyntaf gan hyn yw ofynir oddiwrth bechadur tuag at ei dderbyn yn gymeradwy yw credu yn Nghrist. Heb hyn, bydd yr oll a wnel yn wrthoddedig; ond wedi cael hyn, bydd yn dilyn wasanaeth derbyniol gan yr Arglwydd. Dyna bellach y beiau yn cael eu maddeu, y person yn cael ei godi i ffafr Duw, a'r galon yn cael ei hadnewyddu i garu Duw, a'i holl weithredoedd yn ganlynol yn cael eu gwneuthur mewn cariad, ac yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda. Mae ffydd yn cyd-daro â Duw am y lle i osod yr ufudd-dod. Mae yr ufudd-dod deddfol, yr ufudd-dod am fywyd, yn wrthryfel yn erbyn trefn yr efengyl; ond iaith credinwyr ydyw, "Ninnau a gredasom yn Nghrist Iesu, fel ein cyfiawnhâer trwy ffydd Crist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf."

"Iesu ei hunan

Oll o flaen y fainc i mi,"

medd yr enaid sy'n credu; a'i ddaioni ef fel Gwaredwr sydd ganddo yn gymhelliad mawr i'w ddilyn a'i wasanaethu.

Mae hyn yn galondid o'r mwyaf i ffydd pechadur, ac i'w waith yn byw trwy ffydd: ufudd-dod ydyw. Duw sydd yn peri i ni gredu; ac anufudd-dod yw anghrediniaeth. Dyma ddyben bygythion, rhybuddion, galwadau, a chymhelliadau Duw yn ei air: "Y pethau hyn a ysgrifenyddyd fel y credoch chwi mai yr Iesu yw y Crist, Mab Duw, a chan gredu y caffoch fywyd yn ei enw ef." Os bydd neb neu rywbeth am dy attal di, bechadur, i gredu yn Mab Duw, dywed mai Duw ei hunan a barodd i ti wneyd hyny. Yr wyt ti yn annheilwng. Ydwyf, ond y mae Duw yn gorchymyn i mi ddyfod ato trwy Grist. Nid oes genyt ti ddim hawl na haeddiant am iachawdwriaeth. Nac oes, ond y mae gorchymyn Duw yn rhoi hawl i mi droi ato ef am dani. Pe byddai fy nghydwbybod yn gwneuthur i mi feddiannu fy holl bechodau, a lleng o gythreuliaid uffern yn ceisio fy rhwystro ymlaen, er hyny mi âf at Dduw yn Nghrist, am ei fod ef yn fy ngalw. Ië, pe byddai Duw ei hun yn ymddangos fel un am wrthod fy enaid, eto ni thrown yn ol, ond mi a waeddwn, Wele fi, canys gelwaist arnaf. Nage, O Arglwydd Dduw, nis gelli fy ngwrthod yn nhrefn yr efengyl. "Cofia y gair wrth dy was, yn yr hwn y perai i mi obeithio."





*Cynghorion Gweinidogaethol*

AC

*Anerchiadau.*



# *Cynghorion Gweinidogaethol ac Anerchiadau.*

---

## Y GWEINIDOG I WYLIO ARNO EI HUN.

CYNGHOR a draddodwyd yn y *Cyfarfod Ordeinio yn NGHYMDEITHASFA*  
Y BALA, *Michefin* 11, 1834.\*

**F**Y MRODYR ANWYL,—Yr ydwyf wedi llafurio cryn lawer er pan y nodwyd fi i hyn o orchwyl, am air i'w ddyweyd a fyddai buddiol. Bum yn ceisio chwilio y Bibl, fy hunan, a chwithau. Mae fy meddwl wedi bod yn edrych arnoch yn eich llyfrgelloedd, yn eich teuluoedd, yn mhrofedigaethau a llafur eich bywyd gweinidogaethol, yn gorphen eich gyrfa yn angeu, ac yn rhoddi cyfrif i Dduw yn y farn dragywyddol. Ac wrth sylwi arnoch yn yr amgylchiadau arswydawn hyn, rhedai geiriau hygof Paul, yn ei gynghor i Timotheus, i fy meddyliau, oddiwrth y rhai y ceisiaf eich cyfarch y fynyd hon :

1 TIMOTHEUS iv. 16 : “Gwylia arnat dy hun.”

2 TIMOTHEUS iv. 5 : “Gwylia di ymhob peth.”

Ymha olygiad bynag yr edrychwn ar y geiriau, y maent yn haeddu pob derbyniad. Maent yn eiriau hen gristion, a hen weinidog, ac apostol Iesu Grist, ac yn eiriau diweddfaf ganddo

\* Sylwedd y Cynghor hwn a draddodwyd ar neillduad y brodyr parchedig, David Jones, Caernarfon—Ellis Phillips, Wrexham—John Davies, Nerquis—a John Edwards, Llangollen.

hefyd. Wedi gwasanaethu yr Arglwydd gyda phob gostyngeidd-rwydd, a llawer o dagrau a phrofedigaethau, nes gorphen ei yrfa a chadw'r ffydd, mae efe yn awr yn hynafgwr, a charcharor Iesu Grist, ar gael ei aberthu trosto, a'i ogoneddu gydag ef byth. Ac wedi cael dwfn brofiad o bwys y gwaith, a llawn olwg ar fawredd ei wobwr, mae yn rhoi bloedd ar bob un a ymaflai ynddo, "Gwylia di ymhob peth!"

Fy mrodyr, yn wlyedyddion y gwnaethpwyd chwi. Yr ydych i edrych ar yr holl braidd, i wyllo dros eneidiau, ac i wyllo ar yr athrawiaeth; ond goddefwch i mi yn awr eich galw yn nês adref, i edrych a gwyllo arnoch eich hunain.

I. Gwylwch arnoch eich hunain *gyda golwg ar y fagl a all fod i chwi yn eich cyfansoddiad a'ch tymherau naturiol.*

Mae gweision Duw wedi eu neillduo i waith y weinidogaeth cyn eu llunio yn y groth, ac yn cael eu cymhwyso iddo wrth eu llunio ynddi. Yno y gosodir y sylfaen ar ba un y bydd yr Ysbryd yn adeiladu—y rhoddir y defnyddiau y bydd iddo ef eu cysegru, a'r llestri a addurna i ddal y trysor, a dwyn enw Crist ger bron y cenedloedd. Ond dylem gofio y gall hyd yn nôd y pethau hyny, yn eu cyfansoddiad a'u tymher naturiol, ag sydd fanteisiol i ras a doniau yr Ysbryd weithredu, fod felly hefyd i lygredigaeth eu natur dori allan i fod yn fagl, rhwystr, ac anharddwch arnynt yn y gwaith.

Gwylwch arnoch eich hunain os oes yna rywbeth manteisiol i zel dduwiol Phineas ennynu, gan y gall hwnw eich bradychu i waeddi am dân o'r nef fel y dysgyblion, ac i yru yn ynfyd fel Jehu. Trwy eich cymhwysderau naturiol i lywodraethu yn dda, gellwch, heb wybod i chwi eich hunain, gael eich bradychu i dra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Duw. Trwy yr hyn, yn eich tymher naturiol, sydd yn tueddu i'ch gwneyd yn ddiog i lefaru, gellwch, heb wyladwriaeth, golli bod yn athrawaidd. A gall yr hyn, o'i amaethu gan ras, a'ch gwna yn eofn a gwrol yn ffordd eich dyledswydd, a'ch dal yn gryf yn erbyn pob gwrthwynebiad, beri i chwi anghofio fod pawb yn nheyrnas Crist i fod yn ostyngedig i'w gilydd, ac nad yw esgob i fod yn gyndyn.

Rhaid oedd i'r offeiriad fod yn ddianaf; a "rhaid i esgob fod yn ddiargyhoedd." Ond, fel yr oedd anaf y naill, felly y gall y peth sy'n achlysuero llawer o golladau y llall, ddyfod gydag ef o'r



bru. Am hyny, fy mrodyr anwyl, mynwch wybod o ba ysbryd a thymher yr ydych. Darllenwch y llythyrau at Timotheus a Titus; ac edrychwch i ba rai o'r rhinweddau, y cymhellir chwi yno, y mae amharodrwydd yn codi oddiar dymher eich natur, ac arferion eich bywyd; ac ymdrechwch i ymarfer eich hunain i dduwioldeb yn y pethau hyny, nes y caffoch y fuddugoliaeth arno. Edrychwch i ba rai o'r beïau a nodir yno y mae eich cyfansoddiad naturiol yn fanteisiol i lygredigaeth eich natur dueddu; a oes yna Jonah gyndyn, neu Demas fydol, neu Diotrefhes yn chwennyhch y blaen, neu Dafydd fyrbwyll. A dyblwch eich diwydrwydd i roi heibio y pechod sydd barod i'ch amgylchu. Mynwch adnabod eich perffeithrwydd gyda Duw trwy ymgadw rhag eich anwiredd (Psal. xviii. 23). A chofiwch mai ordinhâd arbenig er marweiddio y pechod y byddo magwraeth iddo yn ein cyfansoddiad naturiol ydyw cosbi y corff, a'i ddwyn yn gaeth, trwy wylidwriaeth, cymedroldeb, ymprydiau, a gweddïau dirgel. Ond y mae lle i ofni ein bod yn dirfawr esgeuluso hyn.

Bydd eich tymherau naturiol gyda chwi yn yr holl waith, bob amser, ymhob amgylchiad, a'r drwg yn barod i dori allan drwyddynt ar bob achlysur. Am hyny, gwyliwch arnoch eich hunain wrth drin yr athrawiaeth, y ddysgyblaeth, a'r sacramentau sanctaidd, yn enwedig os byddwch yn eu trin mewn ffordd o ddadl; oblegid y mae'r gelyn sydd i chwi yn eich tymher naturiol yn barod. fe allai, "i gymysgu eich gwaed" drwg "ynghyd â'ch aberthau." Yr ydych yn dwyn tân yn eich mynwes a rydd, os cynneua, sawyr uffern ar bethau'r nef. Ac heb wylidwriaeth, gall eich afiechyd greddfól dori allan fel gwahanglwyf Uzziah wrth arogldarthu i'r Arglwydd yn ei deml.

II. Gwyliwch arnoch eich hunain *gyda golwg ar dentasiynau eich lle a'ch swydd.*

Mae yr Arglwydd yn rhoddi y doniau gweinidogaethol er magwraeth gras; ond yn aml y mae pechod yn eu troi yn faeth i lygredigaeth, ac yn enwedig i falchder. Mae yn wir y gall y meddwl gostyngeiddiaf awyddu am ennill cymeradwyaeth rhai eraill; ac am na feiddia gymeradwyo dim ynddo ei hun, nis gall lai na synu a lloni pan yr ennillo ganmolïaeth ei frodyr, er ei fod yn gwrïdo wrth ei dderbyn. A phe y cedwid ni yn wastad yn

ngolwg ein gwaeledd, a phwys y gwaith, byddai rhyw awgrym doeth o foddlonrwydd ein cyfeillion yn anghenrheidiol ymron i'n cadw rhag digaloni ynddo. Eto y mae hunan ar ei wyladwriaeth, ac, fel gweision Benhadad, yn dysgwyl yn ddyfal a ddaw dim oddiwrthynt hwy iddo gipio yr amnaid lleiaf i'w droi at wasanaeth oferedd.

Gallem ryfeddu fod y gwaith a wasgai feddwl apostol i waeddi, "Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?" yn goddef i feddyliau rhai mor wael a diaddurn â ni falchïo ynddo. Ond eto mae'r gair, a sylw, a phrofiad, yn cyd-dystio fod ynddo rywbeth a all fod yn demtasiwn i gyfryw ynfyrwydd. Pan fyddo y gweinidog ieuanc, fel ei Feistr, â llygad pawb yn y synagog yn craffu arno, a sôn yn myned am dano trwy yr holl wlad oddiamgylch, a'r rhai ffïolaf o'i gyfeillion yn dechre ei syfrdanu â'u canmoliaeth bron cyn diwedd ei bregeth, fel y wraig a waeddai, "Gwyn fyd y groth â'th ddŷg di, a'r bronau a sugnaist," nerthol yw y gras â'i ceidw ar y pryd, fel yntau, yn addfwyn a gostyngedig o galon. O y mae eu lle a'u doniau gweinidogaethol fel gwenwyn i lawer! y maent yn chwyddo. Ac odid na bydd llawer yn yr amrywiol siroedd yn edrych arnoch chwithau, anwyl frodyr, fel y barbariaid ar Paul—"gan ddysgwyl iddo ef chwyddo"—ac yn ofni i'ch codiad fod yn godiad i'ch gwaradwyddo, ac i syrthio i fagl, ië, i ddamnedigaeth diafol. Ond gobeithiwn y byddant, fel y rhai hyny, "wedi hir ddysgwyl, a gweled nad oedd dim niwed yn dygwydd," gyda gorfoledd yn "newid eu meddwl," gan dystio, Dyn Duw yw efe!

✓ Cofiwch nad oes dim yn fwy dinystriol i feddylfryd ysbrydol na balchder calon. Beth yw meddylfryd ysbrydol ond arosiad yr enaid ar bethau Duw yn ei holl fyfyrnodau, a'i ymlyniad wrthynt yn ei holl serchiadau gyda blâs a hyfrydwch? Beth yw dyn ysbrydol ond dyn â'i serch ar bethau sydd uchod—holl fryd, bwriad, meddylfryd ei galon yn ddaionus bob amser? Iddo ef y mae'r Ysgrhythrau, nid yn unig yn weithdŷ, lle y mae yn gwneyd ei orchwyl fel gweinidog, ond yn feusydd hyfryd lle y mae yn ymrodio pan heb ddim arall i'w wneyd. Wele nefol agwedd! ac hebddi i ryw fesur, diffwrth a fyddem tuag at wneyd pethau Duw yn orchwyl ein bywyd. Ond beth sydd yn fwy dinystriol i'r agwedd hon na hunan, os na bydd dan gyson farweiddiad? Mae

yn troi holl allu myfyrgar yr enaid i'w wasanaeth, ac yn gwneuthur dyn yn ganolbwynt iddo ei hun. Mae yn ei yru i grwydro mewn dychymygion ofer a gwag am fawrhydi. Nid yw ei fyfyrnodau ond math o ddydd-freuddwydion, lle y mae yn gweled ei hun y peth nid yw, yn gwneyd yr hyn nis gwna, ac yn mwynhâu yr hyn na fêdd. Ac ni bydd yr hyn a gaffo yn y gwaith, hyd yn nôd gan Dduw, ond porthiant i oferedd ei feddwl, a maeth i un o'r chwantau gwaethaf a halogodd y natur ddynol erioed. "Dringaf!" yw iaith y galon o hyd; "mi a ddringaf i'r nefoedd, oddiar ser Duw y dyrchafaf fy ngorseddfa; dringaf yn uwch na'r cymylau;" i.e, os hunan fydd ar yr orsedd, nid oes derfyn, ond, "tebyg fyddaf i'r Goruchaf!" Yn gyffredin iawn, chwi a gewch y gorllif gwag, sydd yn halogi eich meddwl yn y gwaith, yn byrlymu o'r ffynnon hon: hunan. O iachaer ffrydiau ein syniadau trwy fwrw halen i ffynnonell y dyfroedd; ac yna ni bydd oddiyno farwolaeth mwyach na diffwrthdra; canys "syniad yr Ysbryd, bywyd a thangnefedd yw;" ac y mae yr hwn "sydd â'i ewyllys yn nghyfraith yr Arglwydd, ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos, fel pren wedi ei blanu ar làn afonydd dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd."

Gwylwch yn neillduol rhag balchder; canys nid oes dim a all fod yn fwy niweidiol i'r ysbryd hwnw ag sydd yn anghenrheidiol i'ch gwneyd yn gydweithwyr Duw â'ch brodyr—ysbryd ag y mae ein dull ni o lafurio yn galw yn arbenig am ei faethu. Y mae gweinidogion eraill yn llafurio bob un yn ei winllan ei hun, i'r hon nad oes i'w brodyr ddyfodfa, oddigerth yn achlysurol. Ond yr ydym ni o hyd ymhlith ein gilydd; ac yr ydym nid yn unig yn llafurio yn yr un maes, ond fel ychain â'n gwddf yn yr un iau. Ac nid oes dim â'n ceidw i gyd-dynu ond yr ysbryd a'n dysg i gyd-ddwyn, i faddeu, ac i lawenhâu yn llwyddiant ein gilydd fel yr eiddom ein hunain. Ond beth sydd yn fwy dinystriol i'r ysbryd hwn na balchder? Mae y rhai sydd â'u serch arnynt eu hunain yn ddiserch i'r rhai da. Mae cynhen lle byddo gwag ogoniant—ymrysonau lle byddo ymchwyddo ac ymholi pwy fydd fwyaf. Ac nid oes i'w ddysgwyl ond cenfigen chwerw, ac ymryson, a therfysg, pan fyddo brodyr yn feistriaid lawer. Ni wna cael, mwy na methu cael, y parch a fynai iddo ei

hun, byth mo'r balch yn anwyl o'i frodyr. Os caiff efe y parch, mae yn chwyddo i ddiystyrwch a thra-arglwyddiaeth arnynt; ac os cyferfydd â siomedigaeth, mae yn syrthio i genfigen, rhagfarn, a chwerwedd atynt. Gras, a doniau, a llwyddiant ei frodyr, a fyddant iddo ef yn elynion calon; a'u cwmpiadau, eu hanaf, a'u hafwydd, a fyddant iddo yn elfen ac ymborth. Wedi anobeithio am yr anrhydedd a fynai iddo ei hun, efe a edrych yn genfigenus ar bob seren ddysgleirach na'u gilydd yn ffurfafen yr eglwys, ac a ddirgel ddymuna lwyddiant i gynffon y ddraig i'w tynu i'r ddaear.

Pell oddiwrth yf yw meddwl mai felly yr ydych chwi, fy anwyl frodyr, er fy mod yn dywedyd fel hyn. Eto, megys nad ydych chwi, mwy na minnau, yn hõni bod yn lân oddiwrth falchder, nid ydych ychwaith goruwch teimlo ei gynhyrfaadau mewn llwybrau mor gythreulig â'r rhai hyn. A dylai y cynhyfiad lleiaf ein deffro i gofio ymha beth y dybenai pe cai ei ffordd ei hun. Byddai pob meddwl uchelgais yn myned â ni, ar ol ein hen dad, i ymgais am orsedd Duw, a phob meddwl cenfigenus â ni, ar ol Cain, i ladd ein brodyr. Gwylwch yn neillduol rhag i'w gynhyrfaadau oeri eich cariad, yn enwedig at eich cydradd a'ch cyffelyb; oblegid at eich brodyr fyddo is na chwi, neu at eich tadau, y rhai yr ydych wedi hen arfer edrych arnynt ymhob golygiad o'ch blaen chwi, nid oes, ar y cyfrif hwn, gymaint i oeri brawdgarwch, am nad oes gymaint i gynhyrfu eiddigedd, ac i ddeffroi cenfigen. Ond i un weled ei gyffelyb yn ei adael, ac yn enwedig gweled yr hwn oedd ar ei ol yn myned o'i flaen, sydd annyoddefol i hunan a balchder. O broffeswyr, na chwythwch y tân drwg yn mynwes pregethwyr ieuainc, trwy siarad am danynt megys rhai yn cydredeg am ragoriaeth! Dysgwn ninnau, fy anwyl frodyr, lawenychu yn ewyllysgar yn ngoleuni canwyllau a fyddo yn llosgi yn fwy tanbaid na ni ein hunain. Bydded gweithrediadau balchder yn ein gwneyd yn ostyngedig; a thra y cynhyrfo hunan, dysgwn ein ffeiddio ein hunain.

III. Gwylwch arnoch ein hunain *gyda golwg ar beryglon a themtasiynau eich oes a'ch tymmor.*

Pa beth bynag mewn gorchwyliaethau gwladol, arferion y byd, ynghyd a bywyd cyffredin crefyddwyr yn ein tymmor, a all

fod yn achlysur i'r diafol a llygredigaeth ein calon i'n tynu o gymdeithas â Duw, ac oddiwrth lwybrau ufudd-dod,—y mae hyny i ni yn demtasiynau ein tymmor. Megys y mae i bob dyn, a phob gwlad, felly hefyd y mae i bob oes, ei themtasiynau neillduol. Ac anwybodaeth ac esgeulusdra proffeswyr o demtasiynau neillduol eu hoes, sydd wedi bod yn brif achosion a moddion adfeiliad yr eglwys yn yr amrywiol oesoedd. Felly y llwyddodd coelgrefydd yn y naill oes, llygredigaeth yn y llall, a chyfeiliornadau yn y drydedd. Fel y mae temtasiynau yr eglwys yn wahanol yn yr amrywiol oesoedd, felly hefyd y mae'r pethau ymha rai y mae yn adfeilio ac yn ymlygru. Ac O pwy sydd yn adnabod—pwy sydd yn gwyllo—a phwy sydd yn dianc rhag niweidiau temtasiynau neillduol eu hamser? Mae proffeswyr y naill oes yn barod i ddychrynu wrth feddwl am lygredigaeth proffeswyr mewn oes arall, tra y gallant fod gymaint yn ngafael llygredigaeth eu hoes eu hunain â hwythau. Mae llawer yn deall y pethau, a'r prif demtasiynau i'r pethau hyny, trwy ba rai y llygrwyd yr eglwys fil o flynyddoedd yn ol; “ond yr amser hwn, pa fodd nad ydych yn ei ddeall?” Os edrychwn ar weinidogion yr eglwysi ryw bryd a basiodd wedi eu trybaeddu yn llygredigaeth neillduol eu hamseroedd a'u gwledydd, yr ydym yn barod i ofyn mewn syndod, A ydyw yn bosibl fod y dynion hyn yn dduwiol? Ond y mae lle i ofni fod llawer o honom ninnau wedi ein gwisgo gymant â dillad budron ein hamser, fel pe ein dangosid i rywrai oesoedd a ddaw, y byddent yn barod i ofyn yr un cwestiwn. Byddai yn chwith genym ni yn yr oes hon feddwl am bregethwr yn ŵr i chwaneg nag un wraig; ond fe allai na byddai meddwl am dano yn wingar, yn darawaydd, neu yn fydol, ddim yn gwbl mor annyoddefol i'n teimladau, o herwydd nad yw hyny yn gwbl mor anghyffredin yn ein hoes.

Dichon nas gŵyr llawer o honom i ba raddau yr ydym eisoes wedi cael ein llygru gan demtasiynau ein dydd. Maent fel yr haul yn newid lliw ein crwyn heb yn wybod i ni. Wrth hir fyw gyda phechodau, mae proffeswyr yn colli teimlad bywiog o'u drwg, eu heuogrwydd, a'u cywilydd, a'r naill ar ol y llall yn llithro iddynt, nes colli bod yn berffaith gyda Duw yn eu hoes. Weithiau y mae temtasiynau yr eglwys mewn oes yn nerthol



a chynddeiriog iawn; erlidigaethau, cyfeiliornadau, a llygredigaethau, fel plâau dinystriol, neu fel afonydd cryfion o safn y ddraig, nes gwneyd yr amseroedd yn enbyd. O mor effro y rhybuddiai Iesu Grist ei ddysgyblion yn y fath amser! "Cyfyd gau gristiau, ac a dwyllant lawer. Edrychwch rhag i neb eich twyllo chwi. Amlhâ anwiredd, ac fe oera cariad llawer. Gwylwch rhag i'ch calonau un amser drymhâu." Ac felly y rhybuddiai Paul: "Mae yr Ysbryd yn eglur ddywedyd yr ymedy rhai yn yr amseroedd diweddaf oddiwrth y ffydd. Oddiwrth y gwirionedd y tröant ymaith eu clustiau, ac at chwedlau y tröant. Eithr gwylia di ymhob peth; aros yn y pethau a ddysgaist; bydded genyt ffurf yr ymadroddion iachus, yn y ffydd a'r cariad sydd yn Nghrist Iesu. O Timotheus, cadw yr hyn a roddwyd i'w gadw atat." Ac os yw ariangarwch yn peri i eraill gyfeiliorni oddiwrth y ffydd, "tydi, gŵr Duw, gochel y pethau hyn."

O fy mrodyr, os ydych wedi eich galw i wyllo ar yr athrawiaeth mewn oes ag sydd eisoes wedi adfeilio mewn cariad ati, ac os daw yr amser pryd na ddyoddefant hi, a Satan yn derbyn awdurdod i dwyllo a gorchfygu, proffeswyr yn troi ymaith eu clustiau oddiwrth y gwirionedd, ac yn merwino am rywbeth yn ei le, a Duw yn anfon iddynt amryfusedd cadarn fel y credont gelwydd—gau-athrawon yn cael eu pentyru, heresiau dinystriol yn cael eu dwyn i mewn, llawer yn canlyn eu dystryw hwynt, a ffordd y gwirionedd a phawb a safant ynddi yn cael eu cablu a'u difriö,—pa beth, fy mrodyr, a barai i chwi aros yn yr athrawiaeth ar y fath amser â hwn, ac i fod yn foddllawn i ymadael âg enw, cysur, a chyfeillion, a myned trwy warth ac erlid, dirgel a chyhoeddus, er ei mwyn? Mewn gwirionedd, nid opiniwn marwaidd mai hi yw y wir athrawiaeth, na'r ystyriaeth mai hi yw athrawiaeth y blaidd y perthynwch iddi, na pharch i rai a fu yn ei phregethu, na medr i ddadleu drosti, a wnai hyny. Nid oes dim, fy mrodyr, a barai hyny ond goleuni ysbrydol i weled gogoniant y gwirionedd—profiad, mewn canlyniad, o nerth a rhinwedd y gwirionedd yn trosglwyddo gras Duw i'ch eneidiau, ac yn eich newid i'w ddelw—dysgu y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu, a thrwy y ddysgeidiaeth profi fod yr Arglwydd yn dirion, a'r effeithiau yn peri doddi heibio, o ran yr ymarweddiad

cyntaf, yr hen ddyn yr hwn sydd lygredig, ac ymadnewyddu yn ysbryd y meddwl, a gwisgo y dyn newydd,—o hyn y tardd cariad at y gwirionedd, cadernid ynddo, zel drosto, ac ymdrech o'i blaid. Y galon fyddo wedi ei chryfhâu â gras y wir athrawiaeth, nis arweinir oddiamgylch âg athrawiaethau amryw a dyeithr.

Fy mrodyr, os ydych yn byw mewn oes ag y mae anwiredd yn amlhâu, proffeswyr yn byw mewn pechodau, yn ariangar, yn ymfrostwyr, yn feilchion, &c., gwybyddwch fod yr amseroedd yn enbyd. Ac nid heb wyllo arnoch eich hunain y cedwch eich dillad yn lân, a'ch gwefusau yn bur, â chwithau yn trigo ymysg pobl halogedig. O mor ahawdd yw cadw yn effro mewn amser cysglyd! Mae yr eglwys mewn amser nosog fel tref yn y nos. Ewch trwyddi yn lled gynnar ar y nos, mae goleu yn y naill dŷ pryd y mae'r llall yn dywyll; y naill deulu i fyny pan y mae teuluoedd eraill yn gorwedd. Ond fel y mae'r nos yn cerdded, mae'r teuluoedd effro yn myned yn anamlach, ffenestr ar ol ffenestr yn tywyllu, drws ar ol drws yn cau, a'r naill heol ar ol y llall yn disgyn i dywyllwch a dystawrwydd, nes o'r diwedd y mae yr holl ddinas yn cysgu, a phrin y ceir y gwylwyr yn effro. Felly nid ar unwaith y mae holl eglwys Dduw yn syrthio i gwsg. Gall y naill blaid fod yn effro ar ol y blaid arall, a'r naill gynnulleidfa ar ol y gynnulleidfa arall, ac ambell i gristion, neu weinidog, fel un anesmwyth mewn gwely yn rhwystro eraill i gysgu, nes y maent yn chwerwi wrtho. Ond yn raddol fel y mae y rhai mwyaf effro yn myned i gwsg y bedd, ac eraill i wrthgiliad, dyna yr holl eglwys yn cysgu. Ac yn y fath amser, odid nas gallai Iesu Grist ofyn i'r mwyaf ysbrydol, "Simon, ai cysgu yr wyt ti?" O fy mrodyr, os ydych wedi eich gosod ar furiau Sion yn y fath amser, "ymogelwch, gwylwch, a gweddiwch, rhag iddo ddyfod yn ddisymwth, a'ch cael chwi yn cysgu. Gwyn ei fyd y gwas hwnw yr hwn y caiff ei Arglwydd ef, pan ddêl, yn effro." Wrth edrych ar agwedd y byd a'r eglwys yn y dyddiau hyn, mae mwy o le i ofni drwg, fe allai, nag i obeithio am ddaioni. Pa fodd bynag, mae hyn yn briodol: "Byddwch sobr, gwylwch." Nid ar ol gwybod yn sicr fod rhywbeth i fod, a pha beth a fydd, a pha bryd y bydd, y mae dechre gwyllo, ond yn wyneb yr arwyddion lleiaf fod perygl yn agosâu. Ac os na ddygwydd yn ein hoes ddim mwy nag a welsom, eto os bydd i'n hofnau ein

deffro, a'n gweithio yn nês at Dduw,—pob peth yn dda; o herwydd yna ni a fyddem yn barod i wynebu pethau sydd yn sicr, a phethau sydd i ni yn llawer mwy eu pwys na dim a all ein cyfarfod yn y hyd hwn, sef, myned o honom i'r byd tragwyddol, ynghyd a'r holl ganlyniadau.

IV. Gwylwch arnoch eich hunain *fel rhai sydd wedi eu gosod i fod yn arddangosiad o Grist a'i athrawiaeth i'r eglwys.*

Megys na ddaeth y Pen-cenadwr mawr i roddi hysbysiad athrawiaethol yn unig o'r Duw anweledig, ond i fod yn ddelw ac arddangosiad o hono yn ei Berson a'i waith ei hunan, felly y mae yr is-genadon, nid yn unig i ddyweyd am rinweddau Crist, a sancteiddrwydd ei athrawiaeth, ond i fod yn eu personau, eu tymher, eu hysbryd, a'u bywyd, yn arddangosiad o honynt i'r eglwysi. Yr ydych wedi eich gosod yn genadau dros, yn lle Crist. Mae ar ei galon ef gael pechaduriaid i gymmod â Duw; ac y mae efe wedi eich gosod chwi i erfyn arnynt yn ei le. O am fod i ryw fesur fel Crist—yn lle Crist!

Edrychwch am ei gynnrychioli ef yn ei swyddau, a thebygoli iddo yn ei rasau. Fel y gosododd y Tad ef yn Frenin ar Sïon, mae yntau wedi eich gosod chwithau i weinyddu ei lywodraeth ef ynddi. Ymdrechwch i weinyddu ei ddeddfau, a dim ond ei ddeddfau ef—yn ei Ysbryd ef, a dim ond ei Ysbryd ef, fel y profo yr eglwysi ei fod ef yn cyfateb i'w enw fel eu Brenin—yn llariaidd, addfwyn, a gostyngedig o galon, a'i awdurdod ymhob peth yn tueddu i adeiladaeth, ac nid i ddinyst. Dysgwch ei athrawiaeth ef yn ei Ysbryd ef, nes trwoch chwi yr adnabyddo y praidd lais y Bugail, ac y profant y gras sydd ar ei wefusau fel eu Prophwyd mawr. Ac fel y mae efe yn byw bob amser i eiriol drostynt, felly yr ydych chwithau i ymdrechu yn wastadol drostynt mewn gweddïau, a hyny yn ol eu hamrywiol oedran, temtasiynau, amgylchiadau, profiadau, a'r amseroedd a fyddo yn myned drostynt hwy. O fy mrodyr, gwaith sydd yn cael ei roddi i chwi yma heddyw, ac yn waith y profwch chwi ef os meddyliwch am roi cyfrif am dano yn llawen ac nid yn drist. O yr addfwynder, y gostyngeddwrwydd, y zel dros Dduw, y parodrwydd i'r groes, y marweidd-dra i'r byd, a'r amynedd a'r tynerwch at ddynion, sydd yn eisieu i'w arddangos ef a'i athrawiaeth iddynt!

Mae dynion yn barod i feddwl nad oes i'r efengyl yr un effaith ond a ddangosir yn mywydau ei gweinidogion. Os beilchion, bydol, dialgar, ac anfucheddol a fyddant hwy, mae'r anwybodus yn barod i ystyried y pethau hyny yn firwythau yr athrawiaeth a ddysgir ganddynt. Felly galwai Paul ar Titus, nid yn unig i "ddangos mewn athrawiaeth," sef wrth bregethu, "anlygredigaeth, gweddeidd-dra, purdeb," ond hefyd i "ddangos ei hun ymhob peth yn esiampl i weithredoedd da," er mwyn profi effeithiau yr athrawiaeth hono. Byddwch ddyfal, O fy mrodyr, *vi*-ddangos yn y pulpud athrawiaeth bur, ac i ddangos ar lawr fywyd sanctaidd. Cyhoeddwch yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb, a bydded eich bywyd yn brawf o'i rhinwedd, i ddysgu dynion i wadu annuwioldeb, ac i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon. "Heb roddi dim achos tramgwydd mewn dim, fel na feier ar y weinidogaeth, eithr gan ein dangos ein hunain ymhob peth fel gweinidogion Duw." Pa fodd? Darllenwch 2 Corinthiaid *vi*. 4—11; "a'r neb a ddarlleno, ystyried." Y mae Iesu Grist yn gwneyd ei genadon i fesur yn debyg iddo ei hun. Fel y mae efe yn dysgwyl i drugarhâu wrth bechaduriaid, y maent hwythau mewn addfwyn-der i'w dysgu, i edrych a roddo Duw iddynt ryw amser edifeirwch. Megys nad oedd efe yn ei foddhâu ei hun, felly nid ydynt hwythau i geisio eu lleshâd eu hunain ond lleshâd llaweroedd. "Mi a lawenychaf ynddynt," medd Crist, "gan wneuthur lles iddynt, â'm holl galon ac â'm holl enaid." Ac medd yr hwn sydd genad dros Grist, "Myfi yn ewyllysgar iawn a dreuliaf ac a ymdreuliaf dros eich eneidiau chwi." Ië, medd y gwir genadon, "Ni a welsom yn dda gyfranu â chwi, nid yn unig efengyl Duw, ond ein heneidiau ein hunain hefyd, am eich bod yn anwyl genym." "Fel un y dyddana ei fam ef, felly y dyddanaf fi chwi," medd Efe. "Ni a fuom addfwyn yn eich mysg, megys mammaeth yn maethu ei phlant," meddynt hwythau. O fy mrodyr, mor amddifad ydym o ysbryd y rhai hyn! a pha ryfedd ein bod yn amddifad o'u llwyddiant? Ymdrechwch i ymdebygoli iddynt mewn anwyldeb a chariad at yr eglwysi. O gariad y mae'r iachawdwriaeth wedi tarddu, ac mewn cariad y dylai ei holl ordinhadau gael eu gweinyddu. Rhaid dysgu, annog, rhybuddio, cysuro, a cheryddu mewn cariad. Bydded

eich ysbryd a'ch dull pan fyddo raid i chwi geryddu, yn gadael dirgel dystiolaeth yn y gydwybod, O gariad at fy enaid y mae efe yn gwneyd.

V. Gwylwch arnoch eich hunain *fel rhai sydd i fod yn esiamplau i'r praidd.*

Un o ddybenion Duw yn anfon ei Fab i drigo yn ein plith ni oedd, rhoddi esiampl i ni yn ein natur ein hunain o'r sancteiddrwydd a'r ufudd-dod y mae efe yn ei ofyn oddiwrthym. Ac un o'i ddybenion ef yn rhoi dynion o'r un natur, amgylchiadau, gwendidau, a themtasiynau yn weinidogion i ni ydoedd, fel y caem fudd o'u hesiampl yn gystal a'u gweinidogaeth. Yn gyffredin y mae esiamplau y llwybr mwyaf effeithiol i ddysgu dynion. Ond, yn chwaneog at y rhinwedd sydd ynddynt yn naturiol i effeithio ar ein meddyliau, pan yr ystyriom eu bod yn cael eu rhoddi gan rai mor anwyl gan yr eglwysi âg yw eu tadau a'u hathrawon, a'u bod hefyd wedi eu hordeinio gan Dduw yn foddion i'w hadeiladu, mae eu grym a'u heffeithioldeb yn fwy. Bydded, gan hyny, i'r ystyriaeth fod eich rhodiad sanctaidd yn ordinhâd trwy ba un y mae Duw yn bendithio yr eglwysi, beri i chwi wyllo ymhob peth. Gwylwch rhag i'ch esiamplau fod yn gyfryw ag a ddygo ar yr eglwysi felldith ac nid bendith. Gwylwch am ragori mewn pob rhinwedd, fel y byddoch ynddynt "yn esiampl i'r ffyddloniaid, mewn gair, mewn ymarweddiad, mewn cariad, mewn ysbryd, mewn ffydd, mewn purdeb." Wrth gymhell yr eglwysi i fod â'u geiriau yn wastad yn rasol, byddwch ymhob cyfeillach yn esiampl iddynt mewn gair. Wrth eu cymhell i fod â'u hymarweddiad yn ddiariangar, yn sanctaidd, yn ddiwair, yn onest, ac yn dda, byddwch abl i ddyweyd, "Megys yr ydym ni yn esiampl i chwi, canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd." Byddwch yn esiampl mewn cariad, trwy garu yn helaethach, ac yn esiampl mewn ysbryd addfwyn, gostyngedig, dyoddefgar, a maddeugar, trwy rodio yn yr ysbryd hwnw. Bydded eich ffydd y fath yn ei gweithrediadau a'i ffrwythau hyd nes y byddoch yn esiampl i bawb sydd yn credu. Wrth alw eraill at eu dyledswyddau, dangoswch eich hunain yn esiampl i weithredoedd da. Ac wrth annog eich brodyr i ba bethau bynag sydd wir, onest, cyfiawn, pur, hawddgar, a chanmoladwy,



bydded i chwi allu dywedyd, “Y rhai a welsoch ynof fi, y pethau hyn gwnewch.”

Gwylwch arnoch eich hunain ymhob amgylchiad neillduol ar eich bywyd, pa un bynag ai o hawddfyd a chysuron neu ynte o adfyd a helbulon; canys y mae yr Arglwydd yn aml yn dwyn ei weision i'r cyfryw amgylchiadau er mwyn dangos gallu a rhinwedd ei ras, ac fel y byddont yn esiampl a chefnogaeth i'w holl frodyr. O y fath rym a chysur i gristion yn ei brofedigaethau a fydd gweled gras Duw yn eich gwneyd chwi yn fwy na choncwerwyr ynddynt oll! Ac O y fath annogaeth i bechaduriaid teimladol i nesu am ymgeledd yr efengyl a fydd gweled ei ôl arnoch chwi sydd yn cyhoeddi yr efengyl iddynt! “O achos hyn y cefais drugaredd—er esiampl i'r rhai a gredent rhagllaw ynddo ef i fywyd tragywyddol.” A pha fodd na bydd y diog, ag sydd yn barod i feddwl fod dyledswyddau a rhinweddau yr efengyl yn anmhosibl i'w harfer, yn teimlo argyhoeddiad pan y gwelo chwi yn eu cyflawni? “Y pethau hyn gwnewch;” nid ydynt yn anmhosibl, canys y maent yn “rhai a welsoch ynof fi.”

Wele ynte, fy mrodyr, byddwch, oddiyma i angeu, yn abl i appello at yr eglwysi, a dywedyd, “Chwi a wydloch eich hunain pa fodd y dylech ein dilyn ni; oblegid ni buom afreolus yn eich plith chwi. Tystion ydych chwi, a Duw hefyd, mor sanctaidd, ac mor gyfiawn, a diargyhoedd, yr ymddygasom yn eich mysg chwi y rhai ydych yn credu.” Ac ar ol eich claddu, bydded galw ar yr eglwysi i feddwl am danoch, i ddilyn eich ffydd, ac i ystyried diwedd eich ymarweddiad. Y mae bywydau halogedig llawer o weinidogion yn debyg o adael eu coffadwriaeth dan warth tragywyddol, a bywydau diles rhai eraill yn debyg o'u harwain i anghof tragywyddol. Diwedd eu hanes a fydd, “Mi a welais gladdu y rhai annuwiol, y rhai a ddaethent ac a aethent o le y Sanctaidd; a hwy a ebargofiwyd yn y ddinas lle y gwnaethent felly.”

VI. Gwylwch arnoch eich hunain, *rhag, wrth astudio y gwirionedd gyda golwg ar eraill, i chwi golli llafur am brofiad o hono yn eich eneidiau eich hunain.*

“Yr ydwyf yn meddwl,” medd un awdwr, “nas gall un dyn bregethu y bregeth hono yn dda i eraill ag nad yw wedi ei phregethu yn gyntaf i'w galon ei hun. Yr hwn nad yw yn ymborthi ar, ac yn cynnyddu trwy, yr hyn y mae yn ei barotio

i'w wrandawyr, a all roi gwenwyn iddynt o ran dim a'r a wŷr efe. Os nad yw yn profi effaith ei bregeth yn ei galon ei hun, nid oes ganddo un sail i obeithio y bydd yn effeithiol yn nghalonau rhai eraill. Mae yn haws dwyn ein penau, na dwyn ein calonau, i bregeth. Tuag at ddwyn ein penau i bregeth, nid rhaid ond llenwi ein meddyliau a'n côf â *notions* o'r gwirionedd, yr eiddom ein hunain neu yr eiddo eraill, a'u traddodi er boddio ein hunain a'n gwrandawyr. Mae hyn yn dra hawdd. Ond dwyn ein calonau i bregeth ydyw profi nerth y gwirioneddau hyny yn adnewyddu ein calonau a'n meddyliau, fel y caffom leshâd cyn ac wrth eu traddodi, a bod dan ddylanwad zel dros Dduw, a thosturi at eneidiau dynion. Gall dyn bregeth bob dydd o'r wythnos â'i galon heb ei dwyn i'r gwaith unwaith."

O fy mrodyr, astudiwch wirioneddau yr efengyl yn gyntaf arnoch eich hunain. Ymddyddenwch â'ch calon yn eu cylch, a gofynwch, Fy enaid, a wyt ti yn credu y tystiolaethau hyn? A brofaist ti awdurdod Duw yn y gorchymynion hyn? Pa fodd y gwyddost fod y pethau hyn yn addas i bechadur? a ydynt hwy yn cyfateb i'th anghen di? Paham y dysgwyli iddynt fod yn fendithiol i eraill? a fuant hwy felly i ti? Paham, fy enaid, yr ydwyt mor zelog dros yr athrawiaeth hon neu arall? a welaist ti ryw ogoniant ynddi? a brofaist ti ymgeledd drwyddi? a gefaist ti dy fywyd ynddi? Pregethwch, fy mrodyr, yr hyn a wnaeth Duw i chi, a'r hyn a wnaethoch chwithau iddo yntau. "Mynegaf," medd Dafydd, "yr hyn a wnaeth efe i'm henaid." Ac medd efe hefyd, "Dywedyd yr ydwyf y pethau a wnaethum i'r Brenin." Mater ei bregeth oedd "yr hyn a wnaeth Duw," a'r "pethau a wnaethum i." Nid annihosibl ydyw i ni bregeth yr hyn a wnaeth Duw i eraill, ac a wnaeth eraill iddo yntau; ond y pethau a wnaeth Efe i ni, ac a wnaethom ninnau iddo yntau, sydd debycaf o fod yn effeithiol. Mor wahanol yr ymddengys yr un gwirioneddau pan eu traddodir gan rai a fyddo wedi profi eu hymgeledd, nes y maent yn bethau "a wnaeth efe i'w henaid," a chan rai a fyddo hefyd wedi eu deall, canfod eu gogoniant, ac ymasio â hwy yn eu meddwl a'u serchiadau, nes y maent yn "bethau a wnaethant hwy i'r Brenin," ragor pan eu traddoder yn unig allan o'r côf! Nid ydynt yn unig trwy gymhorth y côf ond tybiau diffwrth yn meddwl y naill, tra y maent wedi eu himpio i

feddwl y llall, ac wedi gwreiddio yn ei ddirnadaeth a'i farn. I'r naill y maent yn bethau benthyg, ond i'r llall ei bethau ei hur. Gan y naill chwi a'u cewch yn anmrwd, ond gan y llall yn fwyd blasus o'r fath ag y mae archwaeth ysbrydol yn ei garu. O pa bryd y daw yr amser ag y bydd genym rywbeth wedi ei wneuthur i'r Brenin erbyn pob Sabbath, pob cyfarfod eglwysig, pob bedydd, a phob cymun? Gwnewch bethau yr awdwyr a ddarllenwch yn bethau i chwi eich hunain, fy mrodyr, trwy eu deall, a'u berwi yn eich myfyrdodau. Bwyteuoch yr hyn a gaffoch, nes, fel gyda'r fammaeth, y byddo yr un gwirioneddau yn troi yn gynnalïaeth i chwi, ac yn faeth i'r eglwysi. Ymhob pregeth, ymdrechwch am ddwyn doniau a grasau yr Ysbryd i weithrediad: ei ddoniau, fel y traddodoch y gwirionedd er ymgeledd ac adeiladaeth rhai eraill, a'i rasau, fel y profoch ymgeledd a lleshâd i chwi eich hunain.

VII. Gwylwch arnoch eich hunain yn yr holl waith *am ennill canmoliaeth Duw, cydwybodau eich gwrandawyr, a'r eiddoch eich hunain.*

Nid oes dim yn fwy effeithiol i farweiddio y meddwl i bob canmoliaeth arall na'i fod yn awyddus am y ganmoliaeth hon. Mynwch, fy mrodyr, fod yn fawr yn ngolwg Duw, ac yn nghydwybodau eich gwrandawyr. Mae llawer o bregethwyr nad ennillasant ganmoliaeth erioed, i.e. a gondemnr byth, yn y llysoedd hyn. Fe allai fod ganddynt rywbeth sy'n boddio clustiau, archwaethau, a theimladau eu gwrandawyr pan yn iach eu cyrff a'u calon. Ond yr awr sobr y llefaro cydwybod, ni bydd yno yr un dystiolaeth o'u plaid. Ac yn nghanol holl ddigrifwch gwag y meddwl yn ei gyflawniadau ei hun, pe tröai y pregethwr i'w fynwes, byddai ei galon yn ei gondemnio. A phan y codir ei achos i'r llys uchaf a eistedd arno, "Nis adnabum chwi erioed —ewch ymaith oddiwrthyf," a fydd y ddedfryd yno. O am fod yn gymeradwy gando Ef pa fodd bynag y byddom yn ngolwg dynion! "Megys ein cyfrifwyd ni gan Dduw yn addas i ymddiried i ni am yr efengyl," medd Paul, "felly yr ydym yn llefaru; nid megys yn rhyngu bodd i ddynion, ond i Dduw, yr hwn sydd yn profi ein calonau ni." Ai felly y mae yma heddyw? Ai o herwydd eich cyfrif gan Dduw yn addas i ymddiried i chwi am yr efengyl yr ydych yn cael eich neillduo i'r

holl waith yn awr? A ydyw y Duw sydd yn pwysu yr ysbrydion, ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon, ar ol edrych dros eich cyflyrau, eich ysbryd, eich egwyddorion, a'ch dybenion, yn dywedyd wrth y gynnulleidfa hon, gyda golwg ar bob un o honoch, "Cyfod, eneinia ef; canys dyma efe?" Felly hefyd y byddoch chwi yn llefaru, fy mrodyr, "nid megys yn rhyngu bodd i ddyinion, ond i Dduw."

Byddwch ddyfal, yn yr holl waith, i osod eich hunain yn brofedig gan Dduw. Er i chwi fod yn eich egwyddorion a'ch dybenion wrth fodd Duw yma heddyw, eto fe all llawer o'ch dyledswyddau ar ol hyn fod yn anghymeradwy am na byddo yr egwyddorion hyny mewn gweithrediad yn y cyflawniad o honynt. Nid digon fod ffydd genych chwi i wneyd eich gweddïau yn gymeradwy, ond mae yn rhaid i'r ffydd hono fod mewn gweithrediad ymhob un o honynt. Na foddlonwch ar fod gogoneddu Duw yn rhyw amcan cyffredin i'r cwbl o'ch dyledswyddau, ond bydded yn y meddwl ymdrech bywiog at ei ogoniant ef yn nghyflawniad pob un. Mor isel y llithra ein dybenion yn ein dyledswyddau heb wylïadwriaeth neillduol! Arferiad, boddloni cydwybod, ceisio moliant gan ddyinion, ac weithiau y meddwl mor farwaidd nas gwyddom pa beth a fydd yn ein cymhell i'w cyflawni oddieithr y rhwymau i gadw'r cyhoeddiad a llenwi ein cylch,—O ai hyn yw cyflawni y weinidogaeth a dderbyniasom gan yr Arglwydd? Ai hyn yw llafurio gan ymdrechu yn ol ei weithrediad Ef, yr hwn sydd yn gweithio ynom ni yn nerthol? Byddwch, fy mrodyr, yn ddyfal i osod eich hunain yn brofedig gan Dduw, yr hyn a bair i chwi edrych ar y fath gyflawniadau â'r rhai hyn yn bechodau, a ffoi am faddeuant a glanhâd trwy waed Crist.

Mynwch yn yr holl waith dystiolaeth eich cydwybodau eich hunain hefyd. Os yn amddiffyn yr athrawiaeth y byddwch, gwnewch hyny o gydwybod bur. Gochelwch yn wastad wneuthur yr athrawiaeth yn gochl malais a chenfigen, a cheisio boddio y naill, a chnoi y llall, dan rith o zel drosti. Os yn proffesu zel yn erbyn pechod, a thosturi at bechaduriaid, bydded eich cydwybod yn cyd-dystiolaethu â chwi yn yr Ysbryd Glân fod i chwi dristyd mawr a gofid dibaid i'ch calon. Nid anmhosibl ydyw ymddangos yn wasgedig iawn yn achos dynion, a

zelog iawn dros Dduw a'i wirionedd, pan y mae'r gydwybod yn barod i dystio nad oes ond ychydig, os dim, o honynt yn y fynwes. Eich gorfoledd chwi, fy mrodyr, a fyddo tystiolaeth eich cydwybod.

Ymdrechwch hefyd yn eich gweinidogaeth am ganmoliaeth cydwybodau eich gwrandawyr. Na ofelwch gymaint am ganmoliaeth eu tafodau, ond canmolwch eich hunain wrth eu cydwybodau. "Trwy eglurhâd y gwirionedd yr ydym yn ein canmawl ein hunain wrth bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw." Gwelwch y pethau oedd o flaen llygaid yr apostolion yn eu gweinidogaeth: gwirionedd, cydwybod, a Duw; y pregethwr yn sefyll yn ngolwg Duw fel ei dyst a'i Farnwr, yn eglurhâd y gwirionedd mwyaf ei bwys a thragywyddol ei ganlyniadau, a hyny gyda golwg ar ddeffroi ac argyhoeddi y gydwybod. Mae pwys a sobrwydd yn sicr o fod yn y fath weinidogaeth â hon. Os byddwch yn wastad yn ngolwg Duw, ac yn amcanu at y gydwybod, chwi a fyddwch, fy mrodyr, yn sobr yn y dewisiad o'r pethau a bregethir genych. Os at y gydwybod y byddwch yn anelu, chwi a gesglwch y saethau tebycaf o lynu ynddi, a'r pethau mwyaf priodol i'w hargyhoeddi a'u dal; a chwi a drinwch y pethau hyny nid mewn ffordd o ddeffro dychymyg, boddloni cywreingarwch, a chynhyrfu y teimladau, ond gan eu heglurhâd yn y modd mwyaf tebyg i gyrhaedd ac ymafflyd yn y gydwybod. Ni foddlonwch ar roddi rhyw ddesgrifiad hedegog o fawredd a gallu Duw, ond chwi a ddygwch hefyd ger bron berthynas dyn âg ef; oblegid oddiyma y cewch saethu at y gydwybod: dangos awdurdod Duw ar y dyn, a rhwymau a chyfrifoldeb dyn i Dduw; ei ddwyn ef i wyneb y ddeddf a droseddodd, ac felly ei argyhoeddi o bechod, a dangos iddo ei golledigaeth, nes y byddo yn ffoi at Grist am iachawdriaeth. Os mynech roddi desgrifiad prydyddol a mawreddig o ragbarotodau y farn, nid anghofiwch ddyweyd wrth yr euog y bydd yr holl ddarpariaeth arswydlaun yn cael ei dwyn ymlaen er penderfynu ei achos ef dros byth. Ac ni foddlonwch ar ddarlunio yr elfenau yn ymgymysgu, nes deffro'r dychymyg a chodi y teimladau; ond chwi a sefwich ar yr hyn sydd fwy sobr, a mwy priodol i argyhoeddi'r gydwybod: hen droseddwr yn myned i *settle* â Duw.



Pair llafur am dystiolaeth eich cydwybod yn ngolwg Duw i chwi fod yn wyllyddwr ar eich egwyddor, eich dyben, a'ch ymddygiad, bob amser, ac yn yr holl waith. "Yr ydwyf fi fy hun yn ymarfer i gael cydwybod ddirwystr tuag at Dduw a dynion yn wastadol." "Ni waradwydda fy nghalon fi tra fyddwyf byw." Y fath orphwysfa a deimla eich ysbrydoedd wrth edrych dros eich holl waith, os bydd y gydwybod, gyda golwg ar gywirdeb eich dyben, a diragrithrwydd eich calon, yn tystio, Wele da yw! Mor hyfion fyddwch i alw am gynnorthwy eich brodyr, "Gweddïwch drosom ni," pan alloch ddywedyd, "Canys yr ydym yn credu fod genym gydwybod dda;" i.e., bydd genych hyder ar Dduw! Mor dawel y dyoddefwch ddrygair eich gelynion, pan y galloch edrych i mewn a dywedyd, "Ein gorfoledd ni yw hyn, sef tystiolaeth ein cydwybod," ac edrych i fyny a dywedyd, "I Dduw ein gwnaed yn hysbys," i.e., a throi at y rhai sy'n drygliwio eich egwyddorion, eich dybenion, a'ch enw, a dywedyd, "Yr ydym yn gobeithio ddarfod ein gwneuthur yn hysbys yn eich cydwybodau chwithau hefyd."

VIII. Mae eich gweinidogaeth yn cael ei galw yn *weinidogaeth yr Ysbryd*; gwyliwch gan hyny *rhag ei ddiffodd ef a'i dristâu*.

Meddu ei ddoniau gweinidogaethol, ni a obeithiwn, yw yr achos o'ch gosodiad ynddi yr awr hon. Heb y rhai hyn, nid oes i chwi ran na chyfran yn y gwaith. Trwy eu rhoddi y mae Crist yn anfon i'r weinidogaeth. Nid gwybodaeth, nid dysgeidiaeth, ac nid gras, a wna ddynion yn gymhwys iddi hebddynt hwy. Yr oedd Aaron yn dduwiol; ond yr oedd yn rhaid ei wisgo i'r offeiriadaeth. Yr oedd Bezaleel yn dduwiol; ond yr oedd yn rhaid ei lenwi âg ysbryd doethineb i gywreinaeth y tabernacl. "Yr hwn a'n cymmododd ni âg ef ei hun;" am hyny yr ydym yn gyfeillion. "Ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymmod; am hyny yr ydym ni yn genadau." "Mi a gefais drugaredd;" a gwnaeth hyny Paul yn dduwiol; ond, "i mi y rhoddwyd y gras hwn i efengylu." Mae Crist yn galw ei weision i roddi ei ddâ atynt cyn eu hanfon i farchnata Gwnawn fel a'r fel, ebe Paul, "gan fod i ni amryw ddoniau." Cadw y rhai hyn mewn gweithrediad, fy mrodyr, a fydd eich holl ragoriaeth yn y gwaith.

Gwelwyd llawer yn meddu pob addurniadau dynol, ac eto pan ymaflent yn y weinidogaeth, byddai rhywbeth yn ymddangos yn eisieu. Ac fe welwyd ambell un, tra yn amddifad o'r addurniadau hyny, eto yn meddu rhywbeth yn y gwaith nas gall y byd mo'i greu na'i ddirnad. Yr oedd yno drysor oddi mewn, a medruswydd i'w ddwyn allan i gyfoethogi llawer; yr oedd yn llawn llygaid i ganfod pethau Duw, ac yn llawn geiriau i'w traddodi gyda goleu a nerth i adeiladaeth rhai eraill; ei galon yn ymehangu mewn amgyffred, a'i enau yn agor mewn hyfder, a'i eiriau yn dyfod allan fel saethau llymion a bwledau poethion, nes yr oedd y caletaf yn gwaeddi, "Y mae Duw yn wir ynoch." O fy mrodyr, os bydd dynion, wrth eich gwrandio yn pregethu, yn deall mai gwŷr annysgedig ydych, mynwch yr eneniad a baro iddynt ryfeddu, a gofyn, "Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth âg yntau heb ddysgu?" Os gofynant, "Pwy a roddes i ti yr awdurdod hwn?" mynwch gymaint o'r doethineb, y nerth, a'r hyfder hwnw ag a ddelo â hwy i wybod "eich bod chwi gyda'r Iesu."

Ond cofiwch, fy mrodyr, fel y mae gweinidogaeth yr Ysbryd yn weinidogaeth ragorol, felly ei bod hefyd yn un lafurus ac anhawdd. Ni phery y tân sanctaidd i ennyn heb ymdrech a gofal. Mae yn rhaid i'ch gwialen fod yn nghadw o flaen arch y dystiolaeth i ddal ei blodau a'i halmonau. Ni phery y doniau ysbrydol i flaguro ond mewn calon rasol; ac os adfeilia gras, gwywa y doniau, ac fe ä gweinidogaeth yr Ysbryd yn faich a blinder. Onid ydych yn cofio yr oedfa hono yn yr hwyr, ar ol treulio y diwrnod yn segur a daearol y myfyrdodau? Mor anhwylyd a marwaidd oedd y meddwl, a'r ymdrech lleiaf at ysbrydolrwydd yn peri iddo waeddi, "Wele, pa flinder yw!" Wel, dyna'r peth, trwy beidio ei farweiddio, sydd wedi diffodd y doniau ysbrydol o feddyliau llaweroedd. Gwelwyd rhai, ar ol eu colli, yn ceisio ymysgwyd a gwneuthur fel cynt. A gwelwyd rhai wedi tro i'w herlid. Wedi colli y tân oddiar eu hallorau eu hunain, maent, fel Cain, yn llawn cenfigen pan y gwelant ef yn syrthio ar allor eu brodyr. A gwelwyd eraill wedi boddloni ar redeg dros eu ffurfiau yn gostymol hebddo; wedi blino ar weinidogaeth boenus yr Ysbryd, yn gosod i fyny un arall, haws ei chyflawni na dim y gall dyn ymaflyd ynddo.

Dechreuad gwrthgiliad pob eglwys, medd un gŵr, yw blino ar wasanaethu Duw trwy help a chymhorth ei Ysbryd. O fy mrodyr, chwi a deimlwch weinidogaeth yr efengyl naill ai fel y llwybr mwyaf poenus i'r nef, neu y mwyaf esmwyth i uffern.

Amaethwch galon ddrylliog, gostyngeiddrwydd, myfyrdod ar bethau y gair, ac ymddibyniad ar yr Ysbryd Glân. Dyna'r tir y blagura'r doniau gweinidogaethol. Gwylwch y duedd i ddyfod i fyny gyda Duw heb Grist, ac i geisio myned ymlaen gyda'i waith heb yr Ysbryd. Cofiwch eiriau nodedig yr Apostol, "Na ddiystyred neb di." Nid yw yn dyweyd wrth eraill am beidio diystyru Titus, ond wrtho ef ei hun. Os bydd eraill yn gallu ein diystyru, mae lle i ofni mai arnom ni y bydd y bai. Chwi a ellwch gael eich casâu a'ch erlid; ond os byddwch yn ddynion Duw, nis gall neb yn ei ddirgel feddwl eich diystyru. A'r pethau y mae Paul yn eu cymhell er ein codi uwchlaw diystyrwch yw llefaru gyda phob awdurdod, a bod yn ein bywyd yn esiampl i'r ffyddloniaid. Nid hawdd i neb ddiystyru y rhai sydd wedi eu gwisgo â nerth Duw yn y gwaith, ac â delw Duw yn eu hysbryd a'u bywyd. Fe allodd Herod ddal, carcharu, a marwolaethu Ioan; ond yr oedd ei sancteiddrwydd, a nerth ei weinidogaeth, yn ei godi uwchlaw iddo ef fedru ei ddiystyru. Ië, yr oedd Herod yn ei ofni ac yn ei barchu, gan wybod ei fod yn ŵr cyfiawn a sanctaidd. Ond os heb nerth o'r uchelder, buan y daw dynion a chythreuliaid i ofyn, "Pwy ydych chwi?" Ac os pregethir y gair, a byw yn groes iddo, buan y dywedant mewn diystyrwch, "Tydi, yr hwn wyt yn addysgu arall, oni'th ddysgi dy hun? yr hwn wyt yn pregethu, Na ladrater, a ladreti di?" Mewn gair, os na fynech i neb eich diystyru, byddwch wŷr ymhob amgylchiad, mewn gwybodaeth, synwyr, a barn. Gochelwch bob peth isel, gwrachiaidd, ac anfoneddigaidd, a'ch dangoso yn llai na dynion. A byddwch hefyd gristionogion, neu ddynion duwiol, gan eich dangos eich hunain ymhob peth perthynol i'ch swydd fel gweinidogion Duw.

IX. Yn olaf, fy mrodyr, gwylwch *rhag wedi i chwi bregethu i eraill, fod eich hunain yn anghymeradwy.*

Dyma chwi heddyw wedi eich cymeradwyo i bregethu i eraill; ond pa fodd y bydd *wedi* pregethu i eraill? Yr ydwyf yn fy

nheimlo fy hun yn gweddïo na byddo yr un o honom fel Balaam, yn cyhoeddi dialedd Duw ar ei elynion, ac yn marw dan y dialedd yn eu plith, nac fel Judas, yn gydstad â'r apostolion o ran swydd, ac â'r diafol o ran cyflwr. Mae diwedd hanes llawer pregethwr yn debyg i'r eiddo yntau: "Efe a gyfrifwyd gyda ni, ac a gawsai ran o'r weinidogaeth hon, o'r hon y cyfeiliornodd, i fyned i'w le ei hun." Mae llawer wedi esgyn i'r pulpud yn gyffelyb i'r drwgweithredwr i'r dienyddle; yn rhoi gair o gynghor i'r edrychwyr, a'i wddf ei hun yn y cortyn, ac yna dyna efe yn ngrhîg. "Llawer a ddywedant yn y dydd hwnw, Arglwydd, Arglwydd, oni phrophwydasom yn dy enw di? ac oni fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di? ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di?" Do, do! nid oes neb yn gwadu hyny, ond, "Nis adnabum chwi erioed!"

O fy mrodyr, bydded i chwi beunydd, fel yr offeiriaid hyny, offrymu yn gyntaf dros eich pechodau eich hun cyn nesu at achos y bobl. "Gwna gymmod drosot dy hun, a thros y bobl," medd Moses wrth Aaron. "Dilëa fy anwireddau, golch fi yn llwyr-ddwys—yna dysgaf dy ffyrdd i rai anwir," medd Dafydd. Fel hyn, fy mrodyr, pan y byddoch wedi darfod teithio y gwledydd, i erfyn ar eraill, "Cymmoder chwi â Duw," bydd hyny genych chwi eich hunain, "Yr hwn â'n cymmododd ni âg ef ei hun." Wedi eich holl athrawiaethu a'ch geirio am y cyfammod, eich geiriau diweddaf a fyddont, "Cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi." Ac felly wedi darfod am byth â'r gwaith o ddangos Crist i eraill ar y ddaear, chwi a drowch yn siriol tua'r nef, dan waeddi, "Yr hwn a gâf fi i mi fy hun ei weled; a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall."

Byddwch wych, fy mrodyr. Mynych, mynych y caffoch olwg ar fawredd y gwaith nes gofyn, "Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?" ac mor tynych y profoch, "Ein digonedd ni sydd o Dduw."

## PAUL A THIMOTHEUS.

ANERCHIAD AT BREGETHWYR IEUAINC CYMRU.\*

**A**NWYL FRODYR,—Chwi a wyddoch fod y pulpud yn cario dylanwad cryf ac iachusol ar ein cenedl ni er ys llawer o flynyddau bellach. Os yw cenedloedd eraill yn ddyledwyr i'r argraffwasg, i'r pulpud yn benaf, ac yn wir i'r pulpud ymneillduol hefyd, mae y werin yn Nghymru, gan mwyaf, yn rhwymedig. Efe sydd wedi goleuo eu tywyllwch, a dyrchafu eu moesau—codi ynddynt syched am wybodaeth gyffredinol, yn gystal a rhoddi iddynt wybodaeth o'r Ysgrythyr Lân, ac felly darpar eu meddyliau i dderbyn addysg ac amaethiad pellach drwy y ffyrdd amrywiol ag sydd yn llïosogi yn eu mysg yn y dyddiau hyn. Y modd yma mae y pulpud Cymreig, er pob anfanteision, ac yn wyneb llawer o wawd a dirmyg hefyd, wedi ennill llywodraeth gref ar deimladau llïaws o'n cydgenedi, ac yn sefyll yn uchel a dyladwy yn eu serchiadau. Ac mae yr ystiriaeth o'r perygl iddo golli neu gamddefnyddio y dylanwad hwn, trwy anfedrusrwydd, ysgafnder, ac anghrefydd y rhai a safant ynddo, yn cyffroi ein meddyliau ni i anturio i'ch anerch ar hyn o bryd. Yr ydym yn llwyr argyhoeddiadol na chedwir mo'r pulpud Cymreig yn hir eto yn ei fri a'i ddefnyddioldeb heb i Dduw a'i eglwys ddyfod allan i'w gynnorthwyo, ac heb i'r rhai sydd dano, yn gystal a'r rhai sydd o'i fewn, gydymdrechu yn nghyflawniad eu gwahanol ddyledswyddau, a hyny yn llawer mwy egnïol nag

\* Traddodwyd sylwedd yr anerchiad hwn mewn ffurf o gynghor yn Nghyfarfod Ordeinio Cymdeithasfa'r Bala, Mchefin 11, 1845, ar yr achlysur o neillduad y Parchn. John Parry, D.D., Athrofa y Bala, a Daniel Jones, Cilcen, a anfonwyd allan fel cenadwr i Fryniau Cassia, India. Parotöwyd ef yn anerchiad, fel y ceir yma, i'w gyhoeddi yn y *Traethodydd* (Ebrill, 1847).



yr ydys yn gwneuthur yn bresennol. Rhaid i chwi yn anad neb, frodyr ieuainc, ymddyosg at eich gwaith. Cyflog, neu beidio, mae yn ddyledswydd arnoch chwi roddi pob moment a alloch hebgor, i amaethu eich meddyliau eich hunain, ac i ddarpar at adeiladaeth rhai eraill. Mae eich gwrandawyr yn cynnyddu mewn gwybodaeth, ac ni chymerant genych eiriau yn lle mater, na mater heb ysbryd; ac os mynech wneyd argraff dda ar eich cydoeswyr, ac nid dwyn eich hunain a'r weinidogaeth i ddiystyrwch a gwarth, mae yn rhaid i chwi lafurio; i.e. llafurio sydd raid i chwi. Goddefwch, gan hyny, air oddiwrthym y tro hwn.

Nid ydym yn bwriadu cyfyngu ein hunain at unrhyw fater neillduol, na chymeryd un gair fel testun; ond nyni a wnawn ychydig o sylwadau rhydd ac amryfath, sylwedd pa rai a gasglwyd allan o lythyrau Paul at Timotheus. Ystyrir yr epistolau hyn, ynghyd a'r un at Titus, yn feusydd toreithiog iawn o addysgiadau eglwysig, ac yn cynnwys y darluniad mwyaf eglur o'r ysbryd a ddylai hynodi deiliaid teyrnas Crist, a pha ryw fath ddynion a ddylech chwithau fod, gweinidogion y deyrnas hco, mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb. Am nas gallwn ni yn bresennol ond codi tywysen yma ac acw ar hyd wyneb y maes hwn, ni a'ch annogwn yn gyntaf dim i fyned i mewn iddo eich hunain. Bron na thyngedem chwi yn awr i wneuthur fel y gorchymynid i freninoedd Israel i wneuthur gynt gyda'r gyfraith, sef, ysgrifenu copi o'r llythyrau hyn, a darllen arno holl ddyddiau eich einioes, "fel y gwybyddoch pa fodd y mae yn rhaid i chwi ymddwyn yn nhŷ Dduw, yr hwn yw eglwys y Duw byw, colofn a sylfaen y gwirionedd."

O fewn y tri llythyr yma, chwi ganfyddwch fod serchogrwydd ac anwyldeb anghymharol yn hanfodi rhwng yr hen weinidog a'r gweinidogion ieuainc, yr hyn sydd yn esiampl i'r ddau ddsbarth hyn yn y weinidogaeth hyd ddiwedd y byd. Nid oedd yma ddim drwgdybiaeth yn yr hen am yr ieuanc, na dim drwgdeimlad na diystyrwch yn yr ieuanc at yr hen. Yr oedd eiddgedd, pellder, a meistrolaeth ar y naill law, a'r caethiwed a'r ofn hyny ag sydd yn cynnyrchu yn y meddwl ddirgel-gasineb ar y llaw arall, wedi eu bwrw allan yn hollol gan berffaith gariad, cydgordiad, a thynnerwch. Yr ydoedd Paul, fel tad tirion i'w blentyn, yn cyfarwyddo ac yn dysgu Timotheus ymhob dim.

Gofalai am lwyddiant ei enaid, ac am iechyd ei gorff. Ac wrth gofio am ei dduwioldeb a'i garedigrwydd, yr oedd ei lwynau yn ei fendithio beunydd, fel ag yr ydym yn ei gael ef yn diolch i Dduw, wrth feddwl mor ddibaid yr oedd ganddo goffa am dano yn ei weddïau nos a dydd. Yn ei lythyrau ato, nid oes un ymadrodd mwy serchog na'i gilydd mewn iaith nad ydyw yn ei ddefnyddio. "Fy mab—fy mab anwyl—fy mab naturiol yn y ffydd. Yr ydwyf yn mawr ewyllysio dy weled, gan gofio dy ddagrau, fel y'm llanwer o lawenydd." Ac yn ei lythyrau at yr eglwysi yr un modd, mae y coffâd am Timotheus yn wastad yn hoff ac anrhydeddus. Yn lle sibrdw pethau niweidiol i'w gymeradwyaeth (ffrwyth cenfigen ac anghariad), mae Paul i'r gwrthwyneb yn llawn awyddfryd i'w ddyrchafu; ac felly mae yr holl ddyllanwad a'r cymeradwyaeth a feddai ef ei hunan gyda yr eglwysi yn cael eu defnyddio i sefydlu ei frawd ieuanc yn eu serchiadau. "Fy nghydweithiwr a'm cydfilwr," medd efe. "Edrychwch ar ei fod yn ddiogel gyda chwi." Fel pe dywedasai, Ni fedrwch chwi ddim meddwl mor garedig y cymeraf fi oddiar eich dwylaw i chwi beidio bod yn un achos pryder a gofid i Timothy bach. "Canys gwaith yr Arglwydd y mae yn ei weithio fel finnau. Am hyny, na ddiystyred neb ef."

Tra yr oedd Paul fel hyn yn mawrygu Timotheus, yr oedd yntau o'r ochr arall mor hynod mewn gostyngeddwrwydd ac ufudd-dod. Yr oedd wrth draed yr henafgwr hybarch, yn gwasanaethu gydag ef yn yr efengyl fel plentyn gyda thad, yn cysuro ei feddwl ef yn ei drallod, ac yn gweini iddo yn ei deithiau; yn myned ac yn dyfod o le i le wrth ei orchymyn, gan ofalu am ei lyfrau a dwyn ei fantell. Yr ydym yn bur sicr, pe buasai Troas filldroedd o'i ffordd, y buasai Timotheus yn eu teithio hwy yn ewyllysgar i ymosyn am y cochl a'r memrwn i Paul. Nid oedd dim yn ormod ganddo wneuthur i'w hen athraw tirion, ond yn unig ymadael âg ef; parai hyny iddo wylo y fath firwd o ddagrau hiraethlawn fel ag yr oedd yr apostol ei hunan yn eu cofio byth.

Dyma gynllun godidog i hen ac ieuanc i ymdebygoli iddo. Y fath ddiogelwch, y fath harddwch, a'r fath ddefnyddioldeb, a ganfyddid yn fuan ar yr eglwysi yn ngwlad ein genedigaeth, pe byddent wedi eu llenwi o'r ysbryd hwn: pob gweinidog

ieuanc yn Timotheus mewn tymher ostyngedig, a phob hen weinidog yn gyfryw un â Paul mewn ymysgaroedd tadol! Cyfeiliornad mawr yn yr hen ydyw llywodraethu yn sarug. Ac o'r ochr arall, nid oes olwg mwy anrasol yn bod na gweled dynion ieuainc yn ddibris o'r rhai sydd yn hynach na hwy yn y gwaith. Edrychwch na byddoch yn euog o hyn, rhag y bydd yn ochenaid i chwi ar ol hyny, ac y byddwch eto yn cofio eich ymddygiad gyda galar wrth heneiddio eich hunain, pan y bydd y rhai a ddiystyrasoch yn y bedd, ac eraill wedi codi i'ch diystyru chwithau.

Ond i ddychwelyd yn fwy at ein hamcan. Ni a welwn yn addysgiadau Paul i Timotheus,—

I. FOD GWR DUW, NEU WEINIDOG YR EFENGYL, I FOD YN UN RHAGOROL MEWN DUWIOLEB.

Un felly oedd Timotheus, a hyny a fu yn achos i Paul ei neillduo ef i waith y weinidogaeth. Brodor ydoedd o Lystra yn Asia Leiaf; ei fam yn Iuddewes grefyddol, a'i dad yn Roegwr. Wedi marw hwnw, ni a dybiem i'w nain Lōis a'i fam Eunice, ddyfod i drigo ynghyd, ac iddynt, ar ol cael eu dychwelyd eu hunain i ffydd Crist, ymroddi ill dwoeodd i ddwyn y dyn ieuanc hwn i fyny yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. A thrwy fendith Duw ar eu llafur hwy, yn gystal a thrwy weinidogaeth yr apostol Paul, fe gafodd ei genedlu yn Nghrist drwy yr efengyl yn more ei ddyddiau. Felly dywedir iddo gael ei "fagu yn ngeiriau y ffydd," a'i fod yn "gwybod yr Ysgrythyr Lân er yn fachgen, yr hon oedd abl i'w wneuthur ef yn ddoeth i iachawdwriaeth, drwy y ffydd sydd yn Nghrist Iesu." Erbyn i Paul ddyfod i Lystra yr ail waith, yr ydoedd wedi cynnyddu yn amlwg yn nghrefydd yr Arglwydd Iesu, a dyfod i gymeriad mawr gyda phobl dduwiol. Yr oedd gair da iddo gan y brodyr, y rhai oedd yn Lystra, ac yn Iconium, a'r trefydd o gwmpas. Ac ni wnaeth blynnyddau o brawf o hono ddim ond dwyn ei egwyddorion ef yn fwy amlwg, a sefydlu ei gymeriad fel cristen hwnt i bob ammheuaeth, nes yn y canlyniad yr aeth ei glod ef fel dyn duwiol drwy yr holl eglwysi. Iē, y cyfryw ydoedd caredigrwydd a duwioldeb Timotheus, fel ag yr oedd eu cofio yn peri i Paul hiraethu am un olwg yn ychwaneg arno cyn marw, gan wybod y buasai ychydig o'i gymdeithas ddyddanus yn llenwi ei

feddwl ef â llawenydd ar ei ymadawiad o'r byd. "Yr wyf yn mawr ewyllsio dy weled di," medd efe, "gan alw i'm cof y ffydd ddiffuant sydd ynot ti, yr hon a drigodd yn gyntaf yn dy nain Lōis, ac yn dy fam Eunice; a diammeu genyf ei bod ynot tithau hefyd." Yr oedd ei grefydd ef, chwi a welwch, hwnt i'w hammheu. Dyma y pam yr oedd Paul yn ei alw ef yn fab naturiol iddo ei hunan; yr ydoedd yn debyg iddo mewn duwioldeb; o'r un egwyddorion ac ysbryd ag yntau. "Nid oes genyf neb," medd efe, "o gyffelyb feddwl, yr hwn a wir ofala am y pethau a berthyn i chwi." Meddwl rhyfedd, ni a wyddom, ydoedd meddwl Paul. Yr oedd ei ffyrdd ef yn Nghrist fel ffordd eryr yn yr awyr, ymhell uwchlaw cyrhaeddiad crigionion yn gyffredinol. Ac eto yr oedd enaid y gŵr ieuanc hwn yn gyffelyb i'r enaid eryraidd yma, o ran ei ffydd a'i gariad tuag at y Gwardwr mawr, ei awyddfryd a'i zel yn ei wasanaeth, a hyny hefyd mewn tymmor o adfeiliad cyffredinol, pan oedd pawb wedi myned i geisio yr eiddynt eu hunain, ac nid yr eiddo Crist Iesu. Dyma y gŵr a osodai yr apostol yn ngwaith y weinidogaeth. "Paul," medd yr hanes, "a fynai i hwn fyned allan gydag ef." *Hwn*, sylwch: y dyn ag oedd er yn fachgen yn gwybod yr Ysgrythyr Lân, wedi ei fagu yn ngeiriau y ffydd, ac yn dilyn athrawiaeth dda o'i febyd—*Hwn*, ag yr oedd gair da iddo gan ei holl frodyr; athrawiaeth yr efengyl ganddo, nid mewn hanes yn unig, ond yn y ffydd a'r cariad sydd yn Nghrist Iesu; dyn ag oedd wedi ei alw drwyddi i fywyd tragywyddol, ac yn abl ar y dydd yr ordeiniwyd ef i'w phregethu ac i ymdrech o'i phlaid, i "broffesu proffes dda o honi ger bron llawer o dystion." I *hwn* yr ymddriedai Crist eglwysi y saint i'w trefnu, a gwirioneddau yr efengyl i'w cadw, gan eneinio ei ysbryd ef â'r doniau dwyfol hyny ag oeddynt yn ei gymhwyso i'r gwaith, i gyflawni pa un yr ydoedd yn ymgysegru ar ddiwrnod ei neillduad.

Frodyr, dyma y dyn eto, a'r unig ddyn, i'w ddanfôn allan i bregethu yr efengyl. Mae yn amhosibl i chwithau yn yr oes yma fod yn weinidogion da i Iesu Grist, na milwrio milwriaeth dda yn nghyflawniad eich llafur gweinidogaethol, heb fod yn gyntaf yn ddynion da eich hunain. Mae ein perygl ni yn fawr ar y pen hwn; canys y mae balchder talent yn dueddol i ddynion wedi troi i ddiwyllio eu meddyliau. Ac mewn gwlad fel Cymru,

lle mae cynifer yn ymgais am wybodaeth grefyddol, a'r pulpud bron yr unig gyfleusdra ag sydd o fewn eu cyrhaedd i ymddangos yn gyhoeddus, ac i'w droi yn chwareufwrdd i ymarfer eu doniau, mae yn ddigon enbyd fod llawer eisoes o ddynion beilchion ac annuwiol wedi ymlusgo i'r weinidogaeth. Cofiwch nad ydym ni yn collfarnu neb personau; ond y mae y mater yn dra phwysig. Pregethwyr annuwiol! os gwelwch chwi genedl, neu eglwys, â gwasanaeth y cysegr o'i mewn, ei defosiynau a'i gweinidogaeth, wedi disgyn i ddwyllaw y cyfryw, chwi a ellwch fod yn ddigon sicr fod y genedl neu yr eglwys hono yn nesu at ei hamseroedd diweddf. Mae Duw yn canfod yn ysbryd dynion felly, ond odid, ymadawiad âg ef yn mhethau yr efengyl, ac yn ei farn yn goddef i'r diafol godi arweinwyr i'w dwyn rhagddynt yn eu gwrthgiliad, ac am hyny yn dyweyd am y coegddyn balch a chyfeiliornus, "Efe a gaiff fod yn brophwyd i'r bobl yma." Ond pa beth a fydd trueni y dyn hwnw ei hunan, dybygwch chwi? y dyn, nad oedd ddim yn ddigon ganddo lygru a dyfetha eneidiau dynion, eu harwain i ymadael â Christ, ac ar gyfeiliorn oddiwrth wirionedd yr efengyl, heb gael gwneuthur hyny yn enw Duw ei hunan, a than rith o'i wasanaethu ef!

Llafuriwch, attolwg, am dduwioldeb yn benaf dim. Mae pregethwr annuwiol yn gyffelyb i Judas gynt, yn gydstâd a'r apostolion o ran swydd, ac â'r diafol o ran cyflwr ac egwyddor. Mae yn esgyn y pulpud fel y drwgweithredwr i'r pren dyoddef; yn rhoi gair o rybudd i eraill cyn ei golli ei hun! Gochelwch arfer canmawl pethau yr efengyl heb eu caru, na lladd ar bechod heb gymaint a dymuno ei gasâu, ac felly myned yn ddigon caled o'r diwedd i argyhoeddi eraill am fyw mewn pechodau, pan y gwyddoch chwi eich bod wrth wneuthur hyny yn condemnio eich hunain. "Tydi yr hwn a ddywedi, Na ladrata, a ladreti di?" A wrthodi di Grist? a esgeulusi di yr iachawdwriaeth? "Ac a wyt ti yn tybied hyn, O ddyn, yr hwn wyt yn barnu y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau, a thithau yn gwneuthur yr un pethau, y diengi di rhag barn Duw?" Na, y mae rhagrith y cyfryw ddynion yn ffiائد yn ngolwg yr Arglwydd; ac fe fydd eu diwedd fel yr eiddo Balaam annuwiol, yr hwn, ar ol cyhoeddi dialedd Duw ar ei elynion, a fu farw dano yn eu plith. Mae llawer o bethau yn fanteisiol, ond y mae duwioldeb yn hanfodol



i iawn gyflawniad y weinidogaeth. A ydych chwi yn meddwl yr ymddirieda Duw am y gorchwyl i'r anffyddloniaid, ac y rhydd efe ei braidd i ofal bugeiliaid annuwiol, a gwirioneddau yr efengyl i'w cadw at y dyn anianol, nad yw yn eu gwybod nac yn eu derbyn? Dynion o'r un egwyddor, plant o'r un tad ag ef, sydd yn dattroi efengyl Crist, yn dwyn i mewn heresiau dinystriol, ac yn anrheithio yr eglwys trwy erlidigaethau. Pa fodd, gan hyny, y dichon y cyfryw wir ofalu am y pethau a berthyn i eglwys Dduw? A ddysgwylwch iddo ef, yr hwn sydd yn elyn i Dduw ei hunan, fod yn galonog a ffyddlawn yn ei ymdrechiaidau i ddwyn eraill i gymmod âg ef? A all ef dreulio ac ymdreulio dros eneidiau dynion, a llafurio, gan ymdrechu i'w cyflwyno hwy yn berffaith yn Nghrist Iesu, ac oddiar wir wewyr ysbryd yn eu hachos, eu hesgor drachefn, hyd oni ffurfier Crist ynddynt hwy, tra ar yr un pryd y mae drwy gydol yr amser yn gwbl ddiotal am ei enaid ei hun, yn wrthodwr Crist, ac yn esgeuluswr iachawdwr-iaeth? Mae yn anmhosibl; nis gall y cyfryw beth fod.

Nis gwyddom yn amgen nas dichon rhyw fath o gywirdeb fod yn ymdrechiaidau dynion fel hyn dros dro, mewn ufudd-dod i argyhoeddiadau eu cydwybod; ond pan wisgo y rhai hyny ymaith, ac i'w llygredigaeth gael ei rwysg yn eu calonau, erlidwyr, cyfeiliornwyr, neu o leiaf, os na bydd eu tymher a'u hamcanion hunanol yn eu cymhell i ffyrdd felly, segurwyr ffurfiol a diotal, a fyddant yn ngwinllan Crist dros eu hoes. Gwaith y diafol ryw ffordd neu gilydd maent yn ei gyflawni. Huda rai o honynt i warthruddo y weinidogaeth drwy fuchedd aflan, a gesyd y lleill i ymlusgo drwy gyflawniadau yr efengyl yn ddefodol, neu hwyrach i sych-gecru dros rai o'i gwirioneddau, o bwrpas i beri i ddynion eraill ddiflasu arnynt a'u casâu, tra y cynhyrfa y trydydd, perchen ymadferthoedd a dawn, i lygru eu meddyliau oddiwrthynt, ac i ddwyn i mewn heresiau dinystriol. O frodyr ieuainc, a ydych chwi wedi eich aileni, a'ch symud o farwolaeth i fywyd? Yr oedd hyn o bwys i chwi bob amser; mae ef o bwys i eraill bellach. Mae ef o bwys i eneidiau anfarwol, i bob peth gwerthfawr a fêdd eglwys Duw, i'r oes hon, ac hwyrach i'r oesoedd a ddaw, gan i chwi ymgymeryd â gweinidogaeth yr efengyl. A ydych chwi wedi eich gwneyd yn dduwiol? Mae gan Dduw a dynion hawl i fynu gwybod genych.

II. MAE GWR DUW, NEU WEINIDOG YR EFENGYL, YN DDYN A DONIAU DWYFOL YN EI YSBRYD I'R GWAITH.

"Yr ydwyf yn dy goffâu," medd Paul, "i ail ennyn dawn Duw yr hwn sydd ynot trwy arddodiad fy nwyllaw i." Maent yn cael eu galw yn ddoniau, am eu bod yn rhoddion rhad Duw i ddyinion, ac yn ddoniau ysbrydol, o herwydd mai cynnyrchion yr Ysbryd ydynt yn eu meddyliau, ac mai yn y gwaith ysbrydol o adeiladu yr eglwys y maent i'w hymarfer. Barna rhai nad oes dim doniau yn anghenrheidiol i'r weinidogaeth yn amgen na bendith yr Arglwydd ar dalentau naturiol a chyrrhaeddiadau amaethedig y meddwl, na dim galwad iddi ond yr un eglwysig ac allanol. Ond ein hamcan ni yn bresennol ydyw, argraffu ar feddyliau ein cyfeillion ieuainc, fod cymhwysderau o weithrediad uniongyrchol Ysbryd yr Arglwydd yn cael eu rhoddi yn meddyliau dynion i bregethu yr efengyl, ac mai y rhoddiad hwnw o honynt *ydyw yr alwad yn sylweddol i'r gwaith*, heb yr hon mae pob trefn allanol o osod dyn yn y weinidogaeth yn hollol seithig ac ofer.

A gadael allan y doniau gwyrthiol, mae gweinidogion yr efengyl yn awr yn gyfranogion yn ol eu mesur o'r un ysbrydol ddoniau ag oedd ar Timotheus ei hunan, ac erail o swyddogion anghyffredinol yr eglwys; mae y gwahaniaeth yn unig yn y graddau. Dyma y rheswm paham y mae yr efengyl yn cael ei galw yn "weinidogaeth yr Ysbryd:" nid yn unig o herwydd fod pechaduriaid yn derbyn yr Ysbryd wrth ei gwranddo, ond hefyd o herwydd bod ei hordinhadau i'w gweinyddu, a holl ddyledswyddau ei gwasanaeth i gael eu dwyn ymlaen, yn ngrym y doniau neu y gallu dwyfol y mae Ysbryd yr Arglwydd yn ei gynnyrchu yn eneidiau ei gweinidogion. Yr ydym ni gan hyny yn hollol ymwrthod â'r cyfryw ddygiad i fyny i'r weinidogaeth ag a'i gosoda hi yn gydwestad âg unrhyw alwedigaeth fydol, ac a fyddo yn sail i ddyn wedi ei ddwyn drwy gwrs o ddysgeidiaeth i ddysgwyl yn ddiffaél am gael ei osod ynddi, yn unig o herwydd ei fod wedi ei feithrin felly. A'r un modd, nid ydym yn credu fod unrhyw gynhyrfiad yn hanfodi yn meddwl dyn duwiol ei hunan yn ei ddirgymhell ef at y weinidogaeth, nac un math o ordeiniad cyhoeddus i'r gwaith gan neb dynion pa bynag yn cyfansoddi galwad reolaidd i'r weinidogaeth yn absennoldeb y cymhwysderau ysbrydol yr ydym yn son am danynt. Yr oedd yr apos-

tolion, mae yn wir, wedi eu hordeinio i'r swydd cyn eu donio iddi yn gyflawn. Ond yr oedd hyny gan Grist ei hunan; ac fe ddylid sylwi, er eu hapwyntiad iddi felly, nad oeddynt i ymosod at ei gwaith a'i dyledswyddau hi hyd oni wisgid hwy â nerth o'r uchelder. Nid oeddynt wedi eu perffeithio yn eu swydd cyn eu gwneuthur yn gyfranogion o'r Ysbryd a'i doniau ar esgyniad yr Arglwydd Iesu i'r nefoedd; ac am hyny, dywedir iddo ef y pryd hwnw "rodidi rhai yn apostolion, a rhai yn brophwydi," &c. Ac os nad y meddiant ymlaen llaw o'r cymhwysderau gofynol oedd y rheswm am alw yr efengylwyr i'w swydd, yr oedd hyny yn tarddu oddiar fod y cyfryw, ac hwyrach rai o weinidogion cyffredin yr eglwys yn yr amseroedd hyny hefyd, yn cael eu nodi allan i'w gwaith mewn modd anffaeledig drwy ysbryd prophwydoliaeth. Yr oedd hyn yn warant i'w hordeinio; ac am y doniau ysbrydol, yr oeddynt yn cael eu gwneuthur yn gyfranogion o honynt, tybygid, drwy arddodiad dwylaw yr henuriaeth, ar y dydd y byddent yn cael eu neillduo. Ond yn awr, gan nad yw y person yn cael ei nodi allan i'w swydd trwy ddadguddiad dwyfol, nac un ffurf o urddiad eglwysig i'r gwaith, nac arddodiad dwylaw neb dynion pa bynag yn foddion mwyach i drosglwyddo un ddawn achubol na gweinidogaethol i'w ysbryd, fe ddylai yr eglwys edrych am arwyddion fod enaid yr ymgeisydd yn gyfranog o'r pethau hyn cyn eu neillduo. Dyma ddylai fod y rheswm am eu neillduad; oblegid eu meddu sydd yn cyfansoddi galwad i'r weinidogaeth. Y mae hanfodiad yr eglwys, o ran ei threfn allanol, a'r holl weinyddiad o'i hordinhadau i ogoniant Crist ac adeiladaeth eneidiau pechaduriaid, yn ymddibynu yn hollol ar fod Ysbryd Duw yn parhâu i gynnrychu y doniau hyn yn eneidiau gweinidogion y gair.

Yr ydych wedi eich neillduo i efengyl Duw, frodyr, os neillduwyd chwi yn rheolaidd, nid yn unig am eich bod o gynneddfau naturiol da, nid am fod genych ddawn ymadrodd hwylus, ac nid am eich bod, rai o honoch o bosibl, wedi eich taenellu âg ychydig ddysgeidiaeth. Nage, ond gosodwyd chwi yn y weinidogaeth am fod marworyn oddiar allor y nef wedi cyffwrdd â'ch gwefusau, tân Duw cyn yma wedi disgyn ar wasanaeth eich dyledswyddau crefyddol, ac am fod yr eneniad genych oddiwrth y Sanctaidd hwnw, yr hwn sydd wedi rhoddi i chwi ddoeth-

ineb, gwybodaeth, ac ymadrodd yn mhethau Duw. Iaith eich esgyniad i'r pulpud yn wastadol ydyw, "Ysbryd yr Arglwydd Dduw sydd arnaf; o herwydd yr Arglwydd a'm heneiniodd i efengylu i'r rhai llariaidd; efe a'm hanfonodd i rwymo rhai ysig eu calon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sy'n rhwym. Yr Arglwydd Dduw a roddes i mi dafod y dysgedig, i fedru mewn pryd lefaru gair wrth y diffygiol." Mae y broffes yn uchel ac arswydol; ond nis gall hi fod ddim yn amgen. Os gwybodaeth ddynol yw yr holl gymhwysder i'r weinidogaeth—os dysgeidiaeth—paham na allai pawb sydd yn meddu y pethau hyn fod yn weinidogion? Os gras, gosodwch ar y fainc neu yn y pulpud y gwaelaf yn yr eglwys. Na, yr oedd Aaron yn dduwiol, ond yr oedd yn rhaid ei gysegru a'i wisgo i'r offeiriadaeth. Yr oedd Bezaleel, dybygid, yn dduwiol, ond yr oedd yn rhaid ei lenwi âg Ysbryd Duw, mewn doethineb, mewn deall, ac mewn gwybodaeth, i gywreinwaith y tabernacl. Yr oedd Paul yn pregethu, nid am ei fod wedi cael trugaredd iddo ei hunan, ac yn hyny ei wneyd yn un o'r saint, ond am ei fod ef, yr hwn oedd felly, wedi "derbyn y gras hwn," sef y doniau gweinidogaethol; am hyny yr ydoedd efe yn "efengylu ymysg y cenedloedd anchwiliadwy olud Crist." Yr oedd derbyn y cymmod yn un peth, ond yr oedd derbyn y weinidogaeth hono yn beth arall. Ac o herwydd yr olaf yr oedd yr apostolion yn pregethu. "Efe a'n cymmododd ni, ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymmod. Am hyny yr ydym ni yn genadau dros Grist, megys pe byddai Duw yn deisyf arnoch trwom ni: yr ydym yn erfyn dros Grist, Cymmoder chwi â Duw. Efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon." Ond pa fodd? "I bob un o honom," medd Paul, "y rhoddwyd gras, yn ol mesur dawn Crist." Mae y gras yma yn golygu yr un peth â'r doniau neu y rhoddion a roddes efe i ddynion, fel y mae'r adnod ganlynol yn dangos. A thrwy eu gwneuthur hwy yn gyfranogion o'r rhai hyn, ni a welwn, yr oedd Crist yn eu cymhwyso hwy at y gorchwyl o berffeithio y saint, ac i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist. Mae y gras achubol yn gwneyd dynion yn ddeiliaid o deyrnas Crist, ond y gras neu y doniau yma sydd yn eu gwneyd hwy yn swyddwyr yno, i.e., ac yn eu cymhwyso oll i'w gwahanol

swyddau, gan gyfleu pob un i'w le priodol, a gwneyd y naill yn llaw a'r llall yn llygad yn y corff, yn ol y gwahanol ddoniau â pharaï y mae y Pen mawr yn eu cynnysgaethu. Nid yw yr Arglwydd Iesu byth fel Pharaoh, yn gofyn am briddfeini heb roi gwellt; lle bynag y cais ef waith eglwysig, mae yn rhoddi gallu ysbrydol i'w gyflawni. Ac felly, ni a'i cawn ef, cyn danfon ei weision allan i farchnata, yn eu galw hwy yn gyntaf ato ei hun, ac yn rhoddi ei ddâ atynt; ac â'r talentau mae efe yn ymddiried i'w gofal y maent i farchnata, yn yr ymarferiad â gwaith ei deyrnas, hyd nes y delo efe drachefn i wneyd cyfrif â hwynt.

Dyma y rheswm, gan hyny, sydd yn cymhell y saint i ymaflyd yn eu gwahanol ddyledswyddau er adeiladaeth yr eglwys. "A chan fod i ni amryw ddoniau yn ol y gras a roddwyd i ni, pa un bynag ai prophwydoliaeth, prophwydwn yn ol cysondeb y ffydd; ai gweinidogaeth, byddwn ddyfal yn y weinidogaeth." Y sail, ni a welwn, i ymaflyd yn y gwaith o gwbl, ydyw meddu doniau i'w gyflawni. Gwnawn hyn neu hyny gan fod i ni ddoniau. A'r sail i ymaflyd yn y naill ran o hono yn hytrach na'r llall ydyw meddu doniau i'r peth hwnw. Yr oedd pob un, nid yn unig i weithredu am fod ganddo ddoniau, ond i weithredu hefyd yn ol y doniau oedd ganddo, gan benderfynu natur a maint ei weithrediadau yn yr eglwys wrth natur a gradd y talentau yr ydoedd yn gyfranog o honynt. Ac felly, mae yr apostol Paul yn annog y saint yn Rhufain i ochelyd ymgyrhaedd at bethau uwchlaw eu doniau, oddiar fymppy hunanol am eu rhagoriaeth, eithr "synied i sobrwydd" am danynt eu hunain, a chyflawni dyledswyddau eu cylch priodol, "fel y rhanodd Duw," medd efe, "i bob un fesur ffydd." Pan y gweloch chwi y rheol hon wedi ei llwyr anghofio yn Nghymru, a dynion yn rhuthro i'r weinidogaeth heb gymhwysderau i'w chyflawni, ac yn ysu am fwy o le ac awdurdod yn yr eglwys nag y mae eu dawn a'u defnyddioldeb yn ei ennill iddynt, chwi a welwch drefn ac adeiladaeth yr eglwys wedi diflanu, ac ordinhadau Duw yn gwbl ddieffraith i eneidiau dynion, bugeiliaid wedi myned yn ddirmygus yn ngolwg eu pobl, a swyddau eglwysig yn destun cynhen ac anghydfod rhwng dynion a'u gilydd, hyd nes y byddo tai addoliad ein gwlad naill ai wedi eu troi yn llety i goelgrefydd, neu ynte wedi eu gadael yn ddigon anghyfannedd ac unig i'r dylluan nythu yn eu pyrth.



O nad allem argraffu ar eich meddyliau bwysfawrogrwydd a gogoniant gweinidogaeth trwy rinwedd doniau ysbrydol! Yn hyn yr oedd gwahaniaeth mawr y ddwy oruchwyliaeth yn gynwysedig. Fe fu gweinidogaeth angeu yn ogoneddus, medd Paul; ond edrychwch ar ogoniant gweinidogaeth yr Ysbryd, neu, meddylwch am bregethwr tlawd, yn cyhoeddi cyfiawnder Crist i bechaduriaid, ac yn gweinyddu ordinhadau yr efengyl yn ngoleuni a nerth yr Ysbryd Glân; ac y mae holl ogoniant Sinai a'r deml yn diflanu yn ymyl y gogoniant tra-rhagorol hwnw. Dyma wreiddyn holl ragoriaeth gweinidog yr efengyl—y peth sydd yn gwneuthur dyn yn llef yr Arglwydd ar bechaduriaid. Tra mae yr eilun-bugail a'i fraich wedi gwywo, a'i lygad dehau wedi tywyllu, heb na goleu na nerth yn ei weinidogaeth, mae yr Ysbryd a'i ddoniau fel y Shecinah tanllyd yn pelydru ar gyflawniadau hwn, ac wedi ei droi ef, ag oedd o'r blaen, fe ddichon, fel y dysgyblion cyn tywalltiad yr Ysbryd, yn llwfr ac anwybodus ddigon, yn eryr mewn treiddgarwch, ac yn dân i oddeithio llygredigaeth y byd. O y fath ddirnadaeth dreiddgar i gynghor Duw—y fath fedrusrwydd i iawn gyfranu gair y gwirionedd—y fath ddoethineb i adnabod ansawdd meddyliau dynion, gwaith pechod a gras yn eu heneidiau, ac i gymhwyso cyfferiau yr efengyl atynt yn ol yr amgylchiad—y fath ffrydlif o hyawdledd nefol y mae Ysbryd Duw ar brydiau yn ei gynnyrchu yn eneidiau gweinidogion y gair! Mae'r deall yn fywiog, a'r galon yn ei holl serchiadau yn ymëangu, nes mae y genau “yn agoryd yn hyf i hysbysu dirgelwch yr efengyl,” a geiriau y dyn fel taranau cryfion, yn ysgwyd pechaduriaid o'u marweidd-dra. Mae pawb yn teimlo rhywbeth oddiwrth bresenoldeb Ysbryd yr Arglwydd mewn dyn fel hyn. Mae y lliaws yn rhyfeddu, ac yn gofyn, Beth a all hyn fod? tra mae yr argyhoeddedig, yr hwn y mae dirgelion ei galon yn codi i'w gondemnio yn llys ei gydwybod, naill ai yn cynddeir-iogi o dan y ffrewyllau, neu yn syrthio ar ei wyneb i addoli Duw, gan ddywedyd, Mae Duw yn wir ynoch. Pan weloch chwi bregethwr wedi ei wisgo fel hyn, chwi ellwch ddyweyd, Dyma arwydd o ras Duw, nid yn unig i'r dyn ei hunan, ond i'w bobl hefyd. Mae cynnyrchion yr Ysbryd a ffrwyth angeu Crist yn Ysbryd y dyn yma. I ennill y weinidogaeth, a'r doniau nerthol hyn i'w gweinyddu, yr aeth Mab Duw i barthau isaf y ddaear; a

dyma ydoedd y fendith â pha un yr anrhegodd efe ei eglwys pan esgynodd goruwch yr holl nefoedd.

Fe ddichon eich bod yn barod bellach i adgofio i ni fod graddau yn y doniau hyn. Oes, ond cofiwch chwithau nad oes yr un pregethwr o anfoniad Duw nad yw yn meddu rhyw raddau o honynt. Hyd y medrwn ni ddeall, fe ellid dosbarthu athrawon crefyddol yr oesoedd i dri math: mae ambell un, fel y darlun- iwyd, yn amlwg o Dduw, a'r lleill mor amlwg o'r diafol, tra mae eraill ag mae yn anhawdd penderfynu fod Duw na diafol wedi eu danfon. Fe ddewisir y weinidogaeth ganddynt fel pe dewisid rhyw alwedigaeth arall, pryd nad yw yn ymddangos fod un ysbrydiaeth goruwchdynol arnynt i dda na drwg. Ar yr un pryd, er nad yw yr offeryn ei hunan, fe allai, yn ymwybodol o un drwgfwriad wrth ymgymeryd â'r gwaith, eto mae yn ammhëus na bo drwgfwriad yn rhywle o'r tu ol i'r llen yn gysylltiedig â mynediad yr anghymhwys a'r aneffeithiol i waith y weinidogaeth, yn gystal ag ynglŷn â chodiad yr ysbrydion mwyaf cyfeiliornus.

III. Mae annogaethau Paul i Timotheus yn dangos i bregeth- wyr, NID YN UNIG YR ANGHENRHEIDRWYDD AM FEDDU GRAS A DONIAU YR YSBRYD, OND AM GYNNYDDU YNDYNT, A'U MEITHRIN YN WASTADOL YN EIN CALONAU, I'R DYBEN O IAWN GYFLAWNI GWAITH Y WEINIDOGAETH.

"Arfer dy hun i dduwioldeb," medd efe; "nac esgeulusa y ddawn sydd ynot." A thrachefn, ysgrifennai ato i'w goffâu am "ail ennyn dawn Duw ynddo ei hunan," yr hyn sydd yn dangos fod y tân sanctaidd hwn yn dueddol i ddiffoddi ac adfeilio yn ysbryd dyn. Yr oedd llusernau y deml, chwi a wyddoch, âg eisieu eu trwsio, a gofal mawr i'w gymeryd i gadw y tân sanctaidd i gynneu ar yr allor nos a dydd bob amser. Frodyr, yr ydych chwi mor agored i syrthio i adfeiliad â neb dynion yn yr eglwys; ië, hwyrach fod eich enbydrwydd yn fwy. Gall ymdaenu ar hyd- doch yn fwy dirgel, a throï allan yn fwy ystyfnig, o herwydd cynnefindra eich meddwl â phethau Duw, a'ch mynych ymarfer- iad â dyledswyddau crefyddol. A'r fan y dechreuo y galon adfeilio mewn gras, mae y doniau ysbrydol yn gwywo; ac yna dyna yr holl ratoriaeth oedd arnoch fel pregethwyr yn colli. Yn ofer yr ymwenieithiwch i chwi eich hunain yr ewch allan fel cynt

ac yr ymysgydwch ; mae Duw wedi cilio, a Samson wedi colli ei nerth a gwanychu, a myned fel gŵr arall.

Ac os bydd y tân nefol wedi diffoddi ar yr allor, rhaid offrymu â rhyw dân arall. Y fan yr elo y serchiadau yn llygredig, a gweinidogaeth trwy rinwedd doniau'r Ysbryd yn faich i'r meddwl, y canlyniad a fydd, ceisio gosod i fyny ryw ffug o honi yn ei lle, yr hon a ellir gyflawni yn ngrym y doniau naturiol, ac ymhob ansawdd ar y galon. Beth yw holl wasanaeth Fglwys Rhufain, er esiampl, gyda'i gwisgoedd, ei *music*, ei *pictures*, a holl funudiau rhodresgar ei hofferiaid? dim ond ymdrech dynion, wedi colli pob medrusrwydd i bortreadu Crist croeshoeliedig ger bron eu gwrandawyr yn ngeiriau syml y gwirionedd, a thrwy nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân, er cyffroi gwir addoliad y galon, yn ffugio y peth, ac yn cyflawni y diffyg trwy gyfarch y dychymyg, a chynhyrfu defosiwn gau yn y fynwes. Dyma weinidogaeth anghrist—yr efengyl arall yr hon nid yw arall. Fe ddichon y bydd y moddion a arferwch chwi o natur wahanol i'r eiddynt hwy ; ond cnawdol fydd arfau eich milwriaeth chwithau hefyd os adfeilia crefydd a doniau yr Ysbryd yn eich eneidiau. Nid hwyrach y temtir chwi weithiau i borthi teimladau digrifol eich gwrandawyr, ac weithiau i gynhyrfu yr ysbryd anifeilaidd trwy egni corfforol a grym llais. Neu ynte, os byddwch yn alluog, chwi elwch i'ch gwasanaeth holl ymadferthoedd areithyddiaeth, gan ymdrechu i ddwyn allan eich rhesymau cedyrn, a'ch hediadau barddonol, a'r cwbl wedi eu gwisgo mewn iaith odidog a chymhen, nes difyru a synu y rhai a wrandawant arnoch. Ah ! fe ddichon fod y pregethwr erbyn hyn wedi cyrhaedd ei amcan ei hunan ; ond mae yn bur bosibl fod gwir amcan pregethu heb ei gyrhaeddyd eto. Nid yw y peth ofnadwy, dystaw, treiddgar, sydd yn argyhoeddi y gydwybod ac yn achub pechaduriaid, ddim acw. Rhaid gadael hyny i rywun sydd yn aros yn y mynydd gyda Duw. Yr holl amser yr oedd efe fel hyn yn llosgi ac yn taranu, yr oedd y cybydd o dan y bregeth yn prysur rifo ei arian, y gwammal yn llygadrythu, a'r trachwantus yn rhag-ddarbod dros y cnawd er mwyn cyflawni ei chwantau ef y fan y gadawo yr addoldŷ. Ah ! nid taranau Duw oedd yn y pulpud, ond sŵn y fên wag yn cloncian ar y palmant ; natur yn gwreichioni ac yn ymgnïo, wedi colli y nerth goruwchnaturiol ag oedd

yn canlyn y pregethwr, o bosibl, yn yr amser gynt. “Oni hoga efe y mîn, rhaid iddo roddi mwy o nerth,” medd Solomon. Enaid nês at Dduw a wnaethai fwy o effaith ar lai o lafur.

Duwioldeb, yn cael ei harfer mewn gweddïau dirgel a chymunedeb cyson â Duw, ydyw y fan y mae mawr nerth pregethwr yn cartrefu. Dyma ddirgelwch ei hyawdledd, ei rym, a llwyddiant ei weinidogaeth. Pair hyn ddarostyngiad i ddeythruch gelymol y serch, a rhydd drigfa effeithiol i wirioneddau yr efengyl yn eich eneidiau. Trwy ymarferiadau grasol yr ymborthwch arnynt, ac y treuliwch hwy, nes y byddant ar unwaith yn troi yn gynnalïaeth i chwi eich hunain, ac yn llaeth yn mronau eich gweinidogaeth i eglwys Dduw. O y fath breswylïad hyfryd sydd i bethau y gair yn y meddwl drwy brofiad grasol o’u daioni! Mae yr enaid yn dyfod i’w caru hwy fwyfwy, a’r cariad yma drachefn drwy buro y galon yn tryloewi y deall i’w hadnabod, ac yn cadw yr enaid yn ymyl Duw. Ië, mae yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau. Os bydd gweinidogaeth yr adfeilïedig yn fferu ac yn newynu ei wrandäwyr, fe fydd gwres a chyflawnder yn ngweinidogaeth hwn. Mewn bywyd o rodiad gyda Duw, mae holl diroedd breision Emmanuel yn ymagor yn raddol o flaen ei ddirnadaeth—y naill wirionedd ar ol y llall yn ymddangos gyda newydd ogoniant. Mae yr enaid yn ymhyfrydu mewn brasder, ac yn cynnyddu beunydd mewn gras; ac o ganlyniad, mae y donïau ysbrydol yn cael maeth, ac yn blaguro fwyfwy yn ei ysbryd. Gan hyny, mae yn hawdd mewn cymhariaeth i’r cyfryw un borthi praid Duw, a’u harwain at ffynnonau bywiol o ddyfroedd. Mae y gwaith yn hyfryd iddo. Oddieithr i chwithau gael eich cadw i ryw fesur ar dir fel hyn, chwi flinwch ond odid yn pregethu wedi i fywiog-rwydd ieuencyd a newydd-deb y peth fyned heibio. Byddwch naill ai yn esgeuluso y gwaith yn gwbl, neu, os bydd rhyw ddybenion hunanol yn lluddias hyny, ni wnewch chwi ddim ond rhedeg drwyddo yn ddefodol; fe fydd pob ymgais i’w iawn gyflawni yn faich gorthrwm ar y galon.

Heblaw hyny, mae yn ddigon tebyg mai yn ol graddau eich ffydd a’ch duwioldeb y bydd mesur eich llwyddiant gweinidogaethol. Os nad yw hon yn rheol ddieithriad, eto nis gall neb wadu nad yw bod yn dduwiol yn anhebgorol anghenrheidïol i fod yn ddefnyddïol; a bod yn dduwiol iawn hefyd ydyw y

ffordd i fod felly mewn defnyddioldeb. Mae ambell un yn ymgysuro fod y Brenin mawr yn arddel offerynau gwael. Ydyw, ond nid y dioglyd a'r dizel. Gwyrth, na wneir ond yn achlysurol, ydyw cyflawni peth drwy foddion anmhwyrpasol; y rheol ydyw gweithio trwy foddion cymhwys. Mae *temper* ysbryd y gweithiwr, a maint y gwaith a wna, yn gyffredin yn cyfateb i'w gilydd; os yw y naill yn anarferol, mae y llall felly hefyd. O bosibl nad allwn ni yn yr ansawdd isel sydd arnom yn y dyddiau hyn fod yn offerynau i droi ambell bechadur, a lloni ambell gristion; ond mae yn rhaid, wrth bob tebyg, cael dynion o ryw ysbryd pur wahanol i wneyd rhwygiadau mawr yn nheyrnas y diafol, ac i newid wyneb y byd a'r eglwysi. "Nid ä y rhyw hwn ddim allan ond drwy ympryd a gweddi," medd Iesu Grist. Ympryd—un o ddyledswyddau anghyffredin crefyddol—y gelwir crefydd ei hunan yma, i ddangos fod yn rhaid i'r dyn a fyno fod yn dra defnyddiol gydag achos Iesu Grist fod felly mewn duwioldeb. Ympryd a gweddi; hyny yw, ystod o lafur a gorchestion anghyffredinol, a raid i'w fywyd ef fod. Nid oes un ammod is i wir a mawr ddefnyddioldeb.

O arferwch eich hunain i dduwioldeb. Ymogelwch rhag segurddod myfyrdodau, na myned yn gaeth i ddim chwantau dirgel. Gwyliwch ymorphwys ar amaethu y deall ac esgeuluso y galon, nac ymfoddioni ar wybodaeth hanesiol o'r gwirionedd, dadleu a siarad yn ei gylch, heb ddim llafur am brofiad o'i ddaioni, na chael ansawdd eich ysbryd i gydffurfiad äg ef. Gwyliwch gangymeryd astudio am fyfyrdodau duwiol, ac ymarferiadau doniau am ymarferiad gras, na chamgymeryd hoffder yn eich cyflawniadau eich hunain am ymhyfrydiad y galon yn mhethau Duw. Mynwch orchfygu annhueddrwydd yr enaid at y Bibl, ac at fyfyrdodau duwiol, a gweddiâu dirgel. "Glŷn wrth ddarllen, wrth gynghori, wrth athrawiaethu. Myfyria ar y pethau hyn, ac yn y pethau hyn aros, fel y byddo dy gynnydd yn eglur i bawb."

IV. EDRYCHWCH AM ROÐDI ARBENIGRWYDD I WIRIONEDDAU YR EFENGYL YN EICH PREGETHAU; megys euogrywdd a llwgr dyn, penarglwyddiaeth gras yn ei iachawdwriaeth, gwaith yr Ysbryd, Person a chyfryngdod yr Arglwydd Iesu. Yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb ydyw mater eich gweinidogaeth;



a cholofn a sylfaen hono—y gwaelod ar yr hwn y mae holl adeilad ei haddoliad a'i moesau yn ymddibynu—ydyw y “dirgelwch mawr, Duw a ymddangosodd yn y cnawd.” Y pridwerth sydd i'w dystiolaethu. “I'r hyn,” medd Paul, “y'm gosodwyd i yn bregethwr ac yn apostol—yn athraw y cenedloedd mewn ffydd a gwirionedd.” Ac mi fynwn i tithau, fy mab Thimotheus, ddal hyn i fyny yn dy weinidogaeth. “Cofia,” medd efe, “gyfodi Iesu Grist o had Dafydd, o feirw, yn ol fy efengyl i.” Pa beth a fuasech chwi yn ei feddwl o'r apostolion, pe buasent, ar ol eu gwneyd yn weinidogion y cymmod, yn troi i ddysgu philosophi—yn anghofio eu testun priodol, ac heb roddi dim mwy o arbenigrwydd i drefn gras a Christ croeshoeliedig yn eu gweinidogaeth, nag i ryw destun arall? Ond a oes genyn ni fwy o hawl i wneuthur hyny nag oedd ganddynt hwy? Eto fe ddywedir fod hyd yn nôd cynnydd gwybodaeth gyffredinol yn achlysuero hyny weithiau. Wedi cael meusydd eraill yn agored, mae y gweinidog ieuanc yn myned i grwydro, a'i feddyliau ar léd yn casglu gwybodaeth o bob parth. Ond yn rhywfodd neu gilydd, mae yn dygywydd yn aml mewn canlyniad i'r hynt hon, yn lle bod y galluoedd amaethedig yma yn ymgrynhoi drachefn, ac yn ymgysegru i ddyrchafu Crist yn fwy egniol, fod archwaeth y pregethwr fel pe byddai wedi ei llygru oddiw'rtho, a'i hen wresogrwydd cynhenid wedi colli; ac y mae nid yn unig yn pregethu Crist yn fwy llwfr a difywyd nag y byddai gynt, ond yn pregethu pethau eraill bron gymaint ag yntau. Os ydyw Mab Duw a phrif wirioneddau yr efengyl eto yn ei weinidogaeth, maent yno fel ser yn llewyrchu yn nghanol ser eraill, yn lle bod fel yr haul yn cuddio y cwbl.

Pa fodd bynag, yr ydym ni, tra yn dymuno i bregethwyr ieuainc ein gwlad gael pob gwybodaeth a manteision llenyddol, yn gweddio ar Dduw na byddo iddynt wybod dim yn y pulpud ond Iesu Grist a hwnw wedi ei groeshoelio. Os pregethu priodoliaethau Duw, dangoswch hwynt fel y maent yn cyddysgleirio yn ogoneddus yn iachawdwriaeth pechadur yn wyneb Iesu Grist. Os yr achos pwysig rhwng Duw â dynion a fydd testun eich ymdriniaeth, gofawch am ddwyn “Cyfryngwr hefyd” i sylw, yr hwn yn unig a all osod ei law arnynt eu dau, ac yn yr hwn yr ymgyfarfyddant mewn heddwch. Os eich amcan fydd

dangos drwg pechod, prysurwch heibio yr holl farnau tymmorol, ac uffern ei hunan, ato Ef, yr hwn a "archollwyd am ein camweddau ni, ac a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni." Canfydda pechadur yma ddrwg ei fai mewn cysylltiad â'r fath amlygiadau o gariad a daioni ag a larieiddia ei ysbryd gelynol, ac a dawdd ei galon i edifarhâu. Gofynwch i gydwybod y drygionus wrth y groes, "Os gwnant hyn yn y pren îr, pa beth a wneir yn y crin!" Trowch yr hunan-gyfiawn yma, i'w argyhoeddi o falchder ac ynfyrwydd ei amcan o geisio gwneyd cyfiawnder iddo ei hunan. A fu Crist farw yn ofer? Os nad do, nid o'r ddeddf y mae cyfiawnder. Os nad do, yr wyt ti, bryfyn chwyddedig, wedi ymgymeryd â gorchwyl ag yr oedd eisieu marwolaeth Mab Duw i'w gyflawni. Ac os cyfeiriwch chwi y cymeriadau hyn at y groes am argyhoeddiad, chwi a ddylech fod eto yn fwy gofalus am droi wyneb yr edifeiriol yno am obaith a dyddanwch. "Pa beth a wnaif fel y byddwyf cadwedig," ydyw y cwestiwn gydag ef. Mae yn ei ofyn yn bryderus, ac nid oes yn yr holl greadigaeth atebiad iddo ond yn yr efengyl. Iachawdwriaeth o ras, trwy Grist, a nerthol weithrediad ei Ysbryd, yn unig sydd yn ateb i'w anghen ef. Mae yn cyd-daro yn hollol â'r chwerw brofiad sydd ganddo o'i euog-rwydd, ei annheilyngdod, a'i anallu ei hunan. Peidiwch a chellwair â'r dyn hwn; mae yn ŵr caled arno, ac yn dysgwyl yn ddyfal pa beth a ddaw oddiwrthych mewn ffordd o atebiad i gwestiynau celyd ei gydwybod. Gofyna fara genych; a roddwch chwi gareg iddo yn lle bara? Ei neges â chwi ydyw, cael gwybod a gaiff efe fyw gan ei Farnwr, a chwithau, ysgatfydd, yn rhoi darlith iddo ar drefn y planedau, neu ar philosophyddiaeth ei natur, neu rywbeth a phob peth ond yn unig yr un peth anghenrheidiol a phriodol i'w sefyllfa. O nid oes olwg chwithach dan y nefoedd, na gweled truan fel yma yn cael ei siomi a'i watwor gan y coegyn balch, neu y dwl anfedrus, ag sydd wedi cymeryd arno ei hunan i fod yn was i Grist!

Na feddylwch, pa fodd bynag, ein bod ni yn eich cyhuddo chwi o wneuthur fel hyn. Ond yr ydym yn meiddio awgrymu ein dymuniad, ar fod i lygad syml ar wir amcan pregethu eich cyfarwyddo yn wastad pa beth a pha fodd i brægethu. Yn enwedig, edrychwch yn y dirgel a'r cyhoedd am iawn hyfforddi y

rhai a fyddo yn dechre ymfyn am iachawdwriaeth. Dangoswch iddynt yn awr, tra y maent o dan addysg eu cydwybodau, yr anghenrheidrwydd am ddwfn edifeirwch, ac am beidio boddloni ar ddiwygiad allanol, ond ceisio cyfnewidiad calon, a gwneuthur sicrhâu iachawdwriaeth trwy Grist, a byw yn dduwiol, yn amcan eu bywyd. Ac yn lle eu swcro i ymorphwys yn yr hyn nad yw ond rhagbarotöawl, arferwch bob moddion tuag at beri i'w hargyhoeddiad ddiweddu mewn adenedigaeth a gwir ddychweliad at Dduw yn Nghrist.

Na ruswch ei wneuthur Ef yn Alpha ac Omega eich gweinidogaeth, gan gysegru cymaint ag a feddoch o ddysgeidiaeth a thalentau i'w ogoniant. Mae yn wir nad yw hyny ond ychydig, ac felly ni a fynem i chwi fod yn fwy gofalus i ochelyd gwneuthur unrhyw arddangosiad gwag o honynt yn y pulpud. Ond ar yr un pryd, os cewch chwi rywbeth o ysgrif ei achos ef yn Hebraeg, Groeg, neu Lladin, trowch yr ieithoedd, a phob gwybodaeth o fewn eich cyrhaedd, i'w ddyrchafu. Hyderwn, pa ddiffyg bynag a fydd yn eich gweinidogaeth, y bydd Mab Duw yn alluog i esbonio o'r cyntaf i'r olaf yn eich holl bregethau y pethau am dano ei hun, ac i argraffu yn y diwedd ar geryg eich beddau, "Am danaf fi yr ysgrifenodd efe."

Ond wrth eich annog i roddi arbenigrwydd i athrawiaeth yr efengyl, ni fynem am fynyd i neb dybied ein bod am i chwi esgeuluso dysgu a chymhell ei gwersi moesol ar eich gwranda-wyr. Yr ydys yn cwyno weithiau fod y ddeddf a'r efengyl yn cael eu hysgar oddiwrth eu gilydd yn fawr yn y weinidogaeth. A ydyw felly yn Nghymru yn bresennol, gadawn i eraill benderfynu. O dan y naill gronglwyd, rhyw grêd gyffredin yn y Dadguddiad Dwyfol ac iawn-ymddygiad rhwng dyn a dyn ydyw Cristionogaeth, moesau da yw yr oll o grefydd, a'r rhai hyny yn cael eu trin fel cynnyrchion natur, ac nid fel ffrwyth yr Ysbryd—ar wahân oddiwrth egwyddorion a chymhelliadau yr efengyl, a'u gosod, mae lle i ofni, yn lle cyfiawnder Mab Duw. O dan y gronglwyd arall, mae athrawiaeth gras bron a rhoi taw ar y gorchymynion; Calfaria wedi dystewi, nid yn unig daranau Sinai, ond ei deddf hi. Hyny ydyw: nid yw yr athrawiaeth fawr yn cael ei dwyn allan yn deilwng, o ran ei heffeithiau ar eneidiau dynion; ac nid yw ei dyledswyddau moesol, fel

ffrwythau ffydd, yn cael eu hesbonio a'u cynhell yn ddigon rhydd a chalonog ar eu cydwybodau. Ac megys y mae trydar yn wastad ar foesau da, heb ddim ond rhyw gynnil gyfeiriad yn awr ac yn y man at brif bynciau yr efengyl, o anghenheidrwydd yn gadael y pethau hyny heb feddiannu y meddwl yn deilwng, felly, o'r ochr arall, mae pregethu ei hathrawiaeth hi heb ddim ond rhyw gyfeiriad hannerog ac achlysurol at ei moesau, yn tueddu i feithrin barn is am sancteiddrwydd ymarferol yn mynwesau y gwrandaŵyr; oblegid yr ydys yn myned i edrych ar grefydd o'r diwedd yn unig mewn un golygiad, sef, fel trefn o ymwarded i'r euog, ac nid fel dysgyblaeth wastadol ar y galon. O ganlyniad, mae pregethwr ymarferol yn cael ei ystyried yn ddeddfol, a'i addysgiadau yn ddiflas, ac felly penrhyddid yn dirgel lefeinio yr ysbryd heb yn wybod i'r dyn ei hunan. Mae yn wir fod duwioldeb fel greddf yn enaid y cristion yn dyheu am lwyr gydymffuriaid âg ewyllys Duw. Ond dylid cofio fod y reddf hono yn wan, ac yn nghanol llawer o gymysgedd a gwrthwynebiadau; ac oddieithr iddo gael ei addysgu yn fanylaidd a parhâus yn ffyrdd crefydd, gall fyw hwyrach dros ei oes yn ddiffrwyth mewn llawer rhinwedd, yn esgeulus o lawer dyledswydd, ac yn esmwyth wrth lawer bai, a hyny heb dybied ei fod yn euog.

Oni ddylai ffrwythau y cnawd a ffrwythau yr Ysbryd gael eu hegluro a'u dwyn allan yn eu hegwyddorion a'u gweithrediadau yn fwy cyflawn nag y gwneir yn fynych? Heblaw cymhell i sancteiddrwydd, dangoswch ymha beth y mae y sancteiddrwydd hwnw yn gynnwysedig. A gadewch i broffeswyr ddeall, os nad mewn moesoldeb yn unig y mae yn gynnwysedig, eto nad oes dim o hono lle mae rhinweddau felly yn cael eu diystyru, a dynion yn byw yn eu pechodau, a'i fod, nid yn unig yn adnewyddu ansawdd y galon oddifewn, ond hefyd yn cywiro yr holl ymddygiad allanol, yn coethi rhinweddau cynhenid natur drwy eu himpio i wreiddyn efengylaidd, ac yn codi y cristion oddiar yr egwyddor fawr o gariad at Dduw i ddarpar pethau onest yn ngolwg pob dyn. Edrychwch fel y mae yr apostol Paul yn ei lythyrau yn cysylltu athrawiaeth a moesau—yn dyfod i lawr megys oddirhwng brynau yr arfaeth dragywyddol, dros feusydd breision cnawdoliaeth ac angeu Crist, i ddyffrynoedd prydferth buchedd dduwiol. Oddiar yr egwyddorion mwyaf effeithiol,

mae yn cyfarwyddo pob dosbarth yn yr eglwys yn ol eu hoedran a'u gwahanol amgylchiadau; ac heblaw annog i sancteiddrwydd, ac arddangos y dymher a'r fuchedd gristionogol mewn ymadroddion cyffredin, y mae yn nodi allan rinweddau a dyledswyddau neillduol y fuchedd hono, a hyny gyda y fath amrywiaeth ac i'r fath fanylrwydd, fel nad yw yn esgeuluso dysgu i fenywod pa fodd i warchod gartref, ac i wisgo am danynt.

Wrth bregethu diogelwch y saint, gochelwch bob dull ag a fyddo yn tueddu i wneyd proffeswyr crefydd yn ddiotal, ac yn eu gadael i ymfoddloni ar eu cyrhaeddiadau presennol, ac i ddysgwyl llwyddiant unrhyw ffordd yn yr yrfa ysbrydol ond yn yr ymarferiad o ddiwydrwydd a gwyliadwriaeth. Mae i'r gwirionedd melus hwn ei wirionedd gwrthgyferbyniol. Fe fydd y cristion yn ddilai yn gadwedig; ond ar yr un pryd, mae llafur yn foddion appwyntiedig i hyny. Nid oes un dyn yn y fuchedd hon mor sicr o'i gadwedigaeth ei hunan, na fynai y Bibl ei gadw o hyd i wyllo rhag pob tebyg i fod yn ol. Dengys sicrhâu a pherffeithio iachawdwriaeth fel gwrthdrys o bryder parhâus, yn nilyniad yr hwn y mae gorchestion newydd i'w cyflawni, a buddugoliaethau newydd i'w hennill, mewn ystod ddidor o ymdrech ac ufudd-dod, hyd nes y byddo y cristion yn cymeryd gafael ar y bywyd tragywyddol.

Cymhwyswch rybuddion yr efengyl yn dyner, eto yn ffyddlawn, at gydwybodau proffeswyr. Ac od yw bosibl, peidiwch gadael tant na nwyd o fewn eu cyfansoddiad heb eu cyffwrdd, i'r dyben o'u cyffroi i roddi allan eu holl ymadferthoedd yn y filwriaeth ysbrydol. Yn ol yr hen gyfarwyddyd, pregethwch yr athrawiaeth yn ymarferol, a phregethwch ymarferiadau yn athrawiaethol ac efengylaidd. Gwrteithiwch y gwreiddyn â bendithion yr efengyl, a hoeliwch y blagur wrth furiau'r ddeddf.

V. YR YDYCH WEDI EICH GOSOD, NID YN UNIG I BREGETHU Y GAIR, OND I'W GADW A'I AMDDIFFYN HEFYD YN NGWYNEB POB GWRTHWYNEBIADAU.

Wrth eich neillduo i'r weinidogaeth, yr oedd athrawiaeth yr efengyl, ordinhadau a dysgyblaeth tŷ Dduw, yn cael eu hymddiried i'ch gofal; a chwi a fyddwch yn gyfrifol am danynt yn y fath a fydd. "O Timotheus, cadw yr hyn a roddwyd i'w gadw atat. Y peth da a rodded i'w gadw atat, cadw drwy yr Ysbryd



Glân, yr hwn sydd yn preswyllo ynom." Nid ydym ni yn meddwl fod pob pregethwr wedi ei alw i drin y gwirionedd mewn ffordd o ddadl, i'r dyben o gau safnau cyfeiliornwyr cyfrwys. Mae hyn yn gofyn talent i'r pwrpas, ac, o bosibl, yn orchwyl mwy priodol i'r argraffwasg nag i'r pulpud. Edrychwch yn gyntaf dim ar eich bod wedi eich gwreiddio a'ch sefydlu yn athrawiaeth yr efengyl eich hunain. I'w hiawn bregethu, mae yn ofynol fod yr enaid wedi ei meddiannu, a chael ei feddiannu ganddi, trwy wybodaeth, crediniaeth, a chariad yn y galon. Yr ydys yn colli yr efengyl weithiau, nid yn unig o herwydd fod dynion yn ei chasâu, a gau athrawon yn eu hudo oddiwrthi, ond o herwydd fod ei gweinidogion hi yn esgeulus ac anwybodus o honi, ac felly yn analluog i'w gosod allan er adeiladaeth eu gwrandaŵyr.

A oes genym ni ddim achos i ofni ar y pen yma yn yr oes hon? Pa rym sydd yn y dyn hwnw i amddiffyn y gwirionedd, ag sydd yn chwareu hefo geiriau y Bibl a hen dermau duwinyddiaeth, ond yn gwbl amddifad o ddeall eu hystyr—y dyn, ag y mae yr ychydig syniadau sydd ganddo yn ei gof yn unig, erioed heb gael eu himpio i'w farn, na'u troi yn egwyddorion bywiol a gweithgar yn ei ddirnadaeth? Mewn gair yn unig y mae ei greddo gan y cyfryw; ac ni byddai ei newid am un arall ddim mwy iddo ef na newid rhes o eiriau am eiriau gwahanol. Na, mae yn rhaid cael deall da i'r dyben o fod yn gadarn yn athrawiaeth yr efengyl. Ië, ymhellach, mae'n rhaid cael "sicrwydd deall"—argyhoeddiad trwyadl o'i gwirionedd, a ffyddlondeb iddi, i redeg drwy holl ddirgeloedd y galon. Heb hyn, mae yn anmhosibl i chwi fod yn gadarn yn y ffydd, nac ymdrechu yn onest ac egnïol o'i phlaid. Os bydd yr enaid wedi myned i *ymbarlio* â'r demtasiwn ynghylch ei gwirionedd, ac i ddystaw ymwrandaŵ ar waith y diafol yn sibrd, Ai diau ddywedyd o Dduw fel a'r fel? ac felly yn derbyn argraff oddiwrth y brofedigaeth, ac yn llettŷa rhyw ddirgel anhoffder at un gangen o honi yn y meddwl—mae eich ffyddlondeb i'r athrawiaeth wedi llygru, ac fe fydd eich llafur i'w dysgu i eraill yn yr ansawdd yna yn fwy tebyg o gynnyrchu ammhueaeth na ffydd yn eu meddyliau. O dan bob ymddangosiad o zel drosti, fe ddaw y drwg i'r golwg; fe fydd y tafod bloesg, a'r dull

mwys, petrusgar, ac amhenodol, wrth ei phregethu, yn bradychu y dirgel ammheuaeth sydd yn llercian oddifewn, a hwnw drachefn yn cenedlu ei rywogaeth yn meddyliau eich gwrandawyr, ac yn eu cadarnhâu yn eu hanghrediniaeth. Am hyny, pan oedd Paul yn ymdrechu i gysuro, neu yn hytrach i sefydlu calonau y cristionogion yn yr efengyl, mae yn dymuno iddynt, nid yn unig gariad i'w gilydd, ond "pob golud sicrwydd deall," a chydabyddiaeth effeithiol ac ymarferol "â dirgelwch Duw y Tad a Christ." Dyma yn unig a'ch caria chwithau drwy lwyni dyrys coeg-ddadleuon, ac a'ch gwna yn ddiarchwaeth at bob peth croes i'r gwirionedd. Ceisiwch adnabyddiaeth eglur o hono, a chariad ato, yn cyfodi oddiar brofiad o'i ddaioni yn trosglwyddo gras, sancteiddrwydd, a dyddanwch Duw i'ch eneidiau. Traddodwch eich holl eraid i fyñ i awdurdod Duw yn ei air. Darllenwch yr Ysgrhythrau yn fynych, gyda manwl sylw a gweddiâu taerion.

Mae eich llinynau, wrth bob tebyg, wedi disgyn mewn amseroedd enbyd. Mae y diafol, ar ol cael trigolion ein gwlad i hir broffesu y gwirionedd, a byw mewn pechod, yn awr fel pe byddai yn ymbarotoi i wneuthur ymosodiad egniol i'w symud oddiwrtho i anffyddiaeth ac ofergoeledd. Ac wrth ragweled y pethau hyn, dyma ydoedd cyngor diweddf Paul i Thimotheus, a hyny, tybygid, fel cynnrychiolwr i weinidogion ieuainc pob oes, ac yn enwedig yr oes bresennol: "Eithr aros di yn y pethau a ddysgaist, ac yr ymddiriedwyd i ti am danynt, gan wybod gan bwy y dysgaist. Ac i ti er yn fachgen wybod yr Ysgrhythr Lân, yr hon sydd abl i'w wneuthur di yn ddoeth i iachawdwr-iaeth, trwy y ffydd sydd yn Nghrist Iesu."

Wrth ddarllen y llythyrau hyn, chwi a welwch fod gwyrni y farn yn aml yn cyfodi oddiar ddrygansawdd y meddwl. Mae dynion yn credu neu yn anghredu yn ol eu hewyllysiau llygredig eu hunain. Ac am hyny, mae Paul, wrth annog Thimotheus i ymdrech yn mhlaid y ffydd, yn ei gymhell ef i feithrin duwioldeb a phurdeb calon ynddo ei hunan ac eraill, fel y gwrthweithydd mwyaf effeithiol i gyfeiliornadau. Mae yn ei ddysgu i arswydo rhag heresia, yn eu hachosion a'u heffeithiau; dengys eu bod yn tarddu oddiar falchder, ymchwydd, a llygredigaeth meddyliau dynion, yn ofer ynddynt

eu hunain, ac yn waeth nag ofer o ran eu canlyniadau, yn magu ymrysonau a'r tymherau mwyaf lliidiog yn yr eglwysi. Dwg ar gof iddo pwy ydoedd: gŵr Duw, a gwas yr Arglwydd, ger bron yr hwn yr ydoedd yn llafurio, ac i'r hwn yr ydoedd i roddi cyfrif. Ac wedi dangos mor anweddaidd ydoedd i'r cyfryw ddyd dreulio ei amser i gecru ynghylch pethau anfuiddiol, mae yn gosod y dybenion uchaf o'i flaen: "cadw ei hun, a'r rhai a wrandawent arno," ac yn ei alw i ochelyd pob ysgafnder mewn ysbryd a barn, ac i ymroddi i feithrin gwir grefydd, fel yr unig foddion i gyrhaeddyd y dybenion hyny. Mewn gair, ymdrecha i gynnyrchu ansawdd ddifrifol ar ei feddwl, ac i osod amcanion pwysig ger bron ei lygaid, fel y ffordd fwyaf effeithiol i'w sefydlu yn y gwirionedd. "Oddiwrth yr hyn bethau," medd efe, "y gwyrodd rhai," sef, oddiwrth yr amcan mawr o amaethu "cariad o galon bur, a chydwybod dda, a ffydd ddiragrith;" hyny yw, gwir grefydd. Ac wedi gadael yr amcanion goruchel yma, y cam nesaf ydoedd gadael athrawiaeth yr efengyl, a throi heibio at ofer siarad. Ac yr oedd yn ddigon hawdd i'r fath biogod ysgeifn i neidio o'r naill i'r llall. Am hyny, byddwch sobr, frodyr. Edrychwch ar waith y pulpud yn awr yn gyffelyb ag yr edrychwch arno yn awr angy. Fe fydd hyny yn help, nid yn unig i'ch cadw rhag cyfeiliorni oddiwrth y gwirionedd, ond hefyd rhag llithro i unrhyw ddull cyfeiliornus ac ysgafn o ymdrin âg ef. Mae y fath beth a hyny yn bod, cofiwch. Ac er y gall ef ymddangos i chwi ar y cyntaf fel ymdrech yn mhlaid y ffydd, y mae ef mor bell o fod felly mewn gwirionedd, fel y mae tuedd ynddo yn hytrach i ddarpar meddyliau dynion i gofleidio cyfeiliornadau.

Weithiau, fe fydd gan y pregethwr, fe ddichon, ychydig o hoff bynciau athrawiaethol, pa rai mae yn drin yn wastad allan o'u cysylltiad â gwirioneddau eraill, a hyny mewn ffordd gywreinddoeth, gecrus, ac anymarferol. Mae yr athrawiaeth, o bosibl, yn cynnwys gwirionedd pwysig; ond mae y dull yr ymdrinir â hi yn gyfeiliornus; a'r effaith sydd yn dilyn yn gyffredin ydyw, peri i'r gwrandaŵyr fyned i edrych arni yn unig fel pwnc o ddadl, a gyru rhai i zel anghyfartal drosti, a'r lleill i'w gwrthod a'i chasâu. Darllenasom am un gŵr yn pregethu fel hyn yn wastad ar Dduwdod Crist; a'r diwedd a fu i'w gynnulleidfa o'r bron droi

yn Ariaid a Sosiniaid. Nid dyna yr effaith a fuasid yn ei ddysgwyl ar y pryd; eto, fel y mae un ysgrifenydd yn sylwi, yr oedd y canlyniad yn ddigon naturiol; oblegid yr oedd tuedd yn yr ymdriniaeth i gynnyrchu i ddechre gywreinrwydd gwag at y pwnc, ac yna ddadleuon ffyrnig yn ei gylch, "o ba rai y mae cenfigen, ymryson, cableddau, a drwg-dybiau yn dyfod." Ac yn yr ystâd yma mae ysbryd y gwirionedd yn colli, a dynion yn suddo i'r fath ansawdd meddwl ag sydd yn eu gwneyd yn addfed i lyncu unrhyw heresi a gyflwynir i'w sylw.

Os ydych am ymdrech yn mhlaidd y ffydd, ymddyosgwch o bob ysgafnder a dull anfuddiol o ymdrin â'r gwirionedd, ac ymdrechwch i feithrin ansawdd sobr ac ysbrydol ar feddyliau eich gwrandaŵyr; dyma y diogelwch goreu rhag cyfeiliornadau. Pregethwch y gair, yr holl air, ac nid mewn dull ag a fyddo yn boddloni cywreinrwydd ac yn magu ysfa am newydd-deb, ond mewn ffordd ag a fyddo yn tueddu i ddeffro y gydwybod, ac yn meithrin duwioldeb a dwysder ysbryd yn y rhai a wrandawant arnoch. "Eithr gâd heibio halogedig a gwrachiaidd chwedlau, ac ymarfer dy hun i dduwioldeb. Tydi, gŵr Duw, gochel y pethau hyn; a dilyn gyfiawnder, duwioldeb, ffydd, cariad, amynedd, addfwindra. Pregetha y gair; bydd daer mewn amser, allan o amser; argyhoedda, cerydda, annog, gyda phob hir ymaros ac athrawiaeth." Dyma fel yr oedd Thimotheus "i ymdrechu hardd-deg ymdrech y ffydd, ac i gymeryd gafael ar y bywyd tragwyddol." Ac ymhob man y mae Paul yn ei rybuddio ef a Titus i gadw y gwirionedd, mae yn eu dysgu, nid yn gymaint i ddadleu gyda y gau-athrawon, ond i ochelyd eu hysbryd, ac ymroddi drwy bregethiad ffyddlawn y gair i'w hargyhoeddi, ac i feithrin crefydd ymarferol yn yr eglwysi.

VI. GOFALWCH AR FOD Y FFYDDLONDEB AG SYDD I HYNODI EICH HOLL WEITHREDIADAU YN EGLWYS DDUW YN CAEL EI GYD-DYMERU YN WASTAD AG YSBRYD CAREDIG, AC YMDDYGIADAU DOETH AC ENNILLGAR.

Mynych iawn y mae Paul yn cymhell y pethau hyn ar Thimotheus. Yr oedd yr athrawiaeth i'w phregethu, a'i holl weithredoedd ef i gael eu gwneuthur, mewn cariad. Annogid ef i fod yn esiampl i'r ffyddloniaid mewn cariad, i ochelyd y drwg-anwydau ag sydd yn dueddol i ieuentyd, ac i ddilyn purdeb, cariad,

amynedd, ac addfwyndra. “Ni ddylai gwas yr Arglwydd ymryson, ond bod yn dirion wrth bawb, yn athrawaidd, yn ddyoddefgar; mewn addfwynder yn dysgu y rhai gwrthwynebus, i edrych a roddo Duw iddynt hwy ryw amser edifeirwch i gydna-bod y gwirionedd.” O gariad y tarddodd teyrnas Crist, ac i gariad mae yn adferu ei gwrthdrysau; yn yr ysbryd yma, gan hyny, y dylai ei holl ordinhadau a'i gorchwylion gael ei gweini a'u dwyn ymlaen. Yr ydych yn sefyll yn lle Crist fel gweinidogion yr efengyl; ac fe ddylai ei bobl gael clywed ei lais ef yn eich llais chwi, canfod ei ysbryd yn eich holl ymddygiadau, a theimlo fod ei iau ef yn esmwyth a'i faich yn ysgafn o dan eich arweiniad. Nid oedd yr Esgob Mawr yn darawydd, yn gyndyn, nac yn ddigllawn. Fe ddywedai y gwir yn onest ac yn awdurdodol, eto mewn addfwynder a chariad. Ni byddai efe byth wrth drin trueni yr annuwiol yn haerllug nac yn ddfisraw, agweddu, er ein bod ni yn cael ein bradychu iddynt yn aml wrth ymdrin â'r mater hwnw, ydynt brofion sicr nad yw yr enaid ar y tir anghenrheidiol o ran dyfnder amgyffred, bywiogrwydd, a dwysder teimlad, i lefaru yn effeithio ar y pwnc. Yr oedd ei eiriau ef yn heilltion, a'i fygythion yn ofnadwy; ond er hyny, yr oedd yn tueddu yn wastad i argyhoeddi y gydwybod, ac yn fwy priodol i ddifrifoli y meddwl nag i gynnyrchu ynddo ryw bangfeydd trancedig o ddychryn a gwylltineb, pan ar yr un pryd yr oedd y cyfan yn aroglu yn esmwyth, oblegid eu bod yn tarddu o ysbryd gwylaidd a llawn o garedigrwydd. Meddyliwch am dano yn syllu ar drueni yr hen Jerusalem, ac yn syrthio i wylu: “Pe gwybuasit tithau—!” ond dacw y dagrau yn lluddias ei ymadroddion, a'r tynerwch, yr hwn oedd hwnt i gyrhaeddiad iaith, yn cael ei adael i'w esbonio gan ddystawrwydd ac wylofain—iaith fwyaf naturiol tosturi, ac yn dangos ei grym yn well nag y dichon geiriau. “Fel bugail,” medd Esaiiah, “y portha efe ei braidd, â'i fraich y casgl ei wŷn, ac a'u dwg yn ei fynwes, ac a goledda y mamogiaid.”

Dyna yr esiampl; myfyriwch arni yn aml; ac megys ag yr oedd efe y byddoch chwithau hefyd yn y byd hwn. Ac i'r dyben i fod felly yn nghyflawniad eich gweinidogaeth, cofiwch fod yn rhaid eich perffeithio mewn cariad. Os darllenwch chwi hanes yr apostolion, chwi gewch weled fod yr Arglwydd Iesu yn



gwneyd ei weision i ryw fesur yn debyg iddo ei hun; fe a'u gwnaeth hwy, ac fe all eich gwneyd chwithau; yn debyg iddo, meddwn, nid yn ngwyrthiau gallu, ond yn ngwyrthiau ei gariad a'i dynerwch. Mae efe yn dysgwyl i drugarhâu wrth ei bobl, ac yn arfer amynedd anfeidrol tuag atynt yn ngweinidogaeth y gair, cyn ac wedi eu galw trwy eu ras. "Hiry-marhòus yw efe tuag atom ni," medd Pedr. Ac felly y mae ei weision i fod hefyd: "mewn addfwynder yn dysgu rhai gwrthwynebus," a hyny "gyda phob hirymaros, ac athrawiaeth," yn dirion a dyoddefgar, "i edrych a roddo Duw iddynt hwy ryw amser edifeirwch i gydnabod y gwirionedd." Mae efe yn eu dyddanu hwy fel un y dyddana ei fam ef; a'r ffordd y mae amlygu y serchogrwydd yma tuag atynt ydyw, trwy wneuthur ei weision "yn addfwyn yn eu mysg hwy, fel mammaeth yn maethu ei phlant." Ac os yw yr Arglwydd Iesu yn gwneyd daioni i'w bobl â'i holl enaid ac â'i holl galon, yr un modd maent hwythau hefyd, yn ewyllysgar iawn, yn treulio ac yn ymdreulio dros eu heneidiau hwy. "Felly, gan eich hoffi chwi," medd Paul, "ni a welsom yn dda gyfranau â chwi, nid yn unig efengyl Duw, ond ein heneidiau ein hunain hefyd, am eich bod yn anwyl genym." Yr oedd cariad yn toddi eu heneidiau i'w geiriau a'u gweddïau, ac i bob cyflawniad o'r eiddynt ar ran yr eglwys.

Yn wir, nid rhywbeth i'w wneyd am gyflog ydyw cenedlu dynion yn Nghrist trwy yr efengyl. Mae yn rhaid i fywyd gael ei roi allan i'r dyben o gynnyrchu a meithrin bywyd mewn eraill. Druan oedd y gwas cyflog! oerllyd iawn ydyw ef yn y pulpud. O na roddid ei gyflog iddo am aros ar lawr! Na, gyfeillion ieuainc, cariad ydyw yr elfen ag yr ydych i fyw ynddi fel gweinidogion y gair; mae llymder a thynerwch eich gwaith yn cydalw am dano. Nis gellwch ddyddanu y gwan, cydymdeimlo â'r trallodedig, na cheryddu y beius yn effeithiol hebddo. Gwyliwch rhag ysgyrnygu uffern ar eich gwrandawyr gyda rhyw ffyrnigrwydd poethlyd, a hyny yn anghysylltiol âg annogaethau i ddychwelyd, ac mewn tôn heb ei dofi a'i meddalau gan ddwysder meddwl a thosturi, fel pe byddai yn eich mynwes ryw nwyd a foddhëid yn eu dinystr, ac megys pe mai y pechadur yn hytrach na'i bechod a fyddai gwrthddrych eich dygasedd. Gwyliwch gam-gymeryd halltrwydd am haerllugrwydd. Ceryddwch yn ffydd-

lawn, ond ceryddwch yn garedig. Na foddlonwch ar lwytho y bai â rhes o ddrwg-enwau anmhenodol; ond ceisiwch y gair cymhwys, neu y dull cyrhaeddgar hwnw o ddyweyd ag sydd yn darlunio i'r byw y bai dan sylw, a'r hwn sydd ar unwaith yn sefydlu ei gondemniad ef, o herwydd y cywiredd gyda'r hwn y mae yn ei ddangos. Ac na fyddwch anghofus ar yr un pryd o oedran, cymeriad, na dim ag sydd yn y beïus yn teilyngu parch, wrth ei geryddu. "Na cherydda hynafgwr, eithr cynghora ef megys tad, a'r rhai ieuainc megys brodyr, yr hen wragedd megys mamau, a'r rhai ieuainc megys chwïorydd, gyda phob purdeb."

Mewn cysylltiad â thiriondeb, byddwch ofalus iawn am arfer gonestrydd yn wastad yn eich holl orchwylion eglwysig. Mae Paul yn gorchymyn i chwi, yn mherson Timotheus, "ger bron Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist, a'r etholedig angylion, i beidio gwneuthur dim o gydbartiaeth." Ni phery unrhyw beth pwdr byth. Ystyriwch, attolwg, mor bwysig ydyw heddwch eglwysig, ac mor ddinystriol iddo ydyw ymddygiadau haerllug, anonest, ac annoeth. Ac os rhaid cyfeiliorni, cyfeiliornwch yn nghywirdeb eich calonau. "Y gorchymyn hwn yr ydwyf yn ei roddi i ti, fy mab Timotheus," medd Paul; a thybygid ei fod yn golygu pob gorchymyn yn y llythyr—hyny yw, yr holl siars fawr o berthynas i'w ysbryd, ei athrawiaeth, a'i ymddygiad. A "diwedd y gorchymyn," medd efe, amcan mawr y cwbl, "yw cariad o galon bur." Gochel y cwbl a waherddais i ti, a gwna y cwbl a orchymynais, er mwyn cariad a heddwch yr eglwysi.

VII. Un gair ymhellach, ac yna wele ni yn canu yn iach i chwi: BYDDWCH DDYFAL I OSOD EICH HUNAIN "YN BROFEDIG GAN DDUW, YN WEITHWYR DIFEFL, YN IAWN GYFRANU GAIR Y GWIRIONEDD."

Mae y pregethwr yn sefyll yn llŷs ei wrandawyr; ond tra y gofala na byddo dim cyfreithlawn i'w roddi yn ei erbyn ef yno, bychan iawn ganddo ei farnu ganddynt hwy, na chan farn dyn. Yr un wedd mae yn sefyll yn llys ei gydwybod ei hunan; ac os bydd ei achos yn syrthio yma, ni bydd ganddo ddim grym i apelio i lys uwch. "Os ein calon a'n condemnia, mwy yw Duw na'n calon. Anwylyd, os ein calon ni'n condemnia, y mae

genym hyder ar Dduw." Chwi a ewch ymlaen yn nghyflawniad eich gweinidogaeth yn grynedig, eto yn wrol, er pob enllibio a fydd ar eich amcanion, a phob drygliw a fwir ar eich enwau, ond bod yn alluog i ddywedyd, "Ein gorfoledd ni yw hyn, sef tystiolaeth ein cydwybod, mai mewn symlrwydd a phurdeb duwiol, nid mewn doethineb cnawdol, ond drwy ras Duw, yr ymddygasom yn y byd, ond yn hytrach tuag atoch chwi." Ac eto mae yn ymddangos nad yw y duwiol ddim yn ymddiried i dystiolaeth ei gydwybod ei hunan fel y penderfyniad olaf ar ei achos. "Cany's ni wn i ddim arnaf fy hun," medd Paul; nid yw fy nghydweddyd yn condemnio mo honof am un esgeulusdra nac anffyddlondeb gwybyddus yn nghyflawniad fy swydd; "ond yn hyn ni'm cyfiawnhâwyd." Mae dyn, fel pe dywedasai, mor dueddol iddo ei hun, fel nad yw tystiolaeth fy nghydweddyd yn ddigonol i benderfynu fy mater; "eithr yr Arglwydd yw yr hwn sydd yn fy marnu" Yr Arglwydd Iesu, yr hwn a oleua ddirgelion y tywyllwch, ac a eglura fwriadau y calonau yn y dydd mawr a ddaw, sydd i benderfynu fy achos i; ac wrth ei ddedfryd ef y byddaf yn sefyll neu yn syrthio byth. Nid rhyfedd, gan fod yr apostolion yn teimlo fel hyn, fod rhyw gyfeiriad gwastadol yn eu heneidiau at Dduw yn nghyflawniad eu gweinidogaeth. Maent hwy eu hunain yn tystio fod hyny yn bod. "Eithr megys y'n cyfrifwyd ni gan Dduw yn addas i ymddiried i ni am yr efengyl, felly yr ydym yn llefaru; nid megys yn rhyngu bodd i ddynion, ond i Dduw, yr hwn sydd yn profi ein calonau ni;" profi ein calonau ni, ac yn y profiad ein cymeradwyo a'n cyfrif yn addas i ymddiried i ni am yr efengyl. O frodyr ieuainc, a oedd hi felly gyda chwi pan eich neillduwyd i'r gwaith? A oedd y Duw mawr, wedi edrych dros eich cyflwr, egwyddorion eich calonau, a'ch dybenion, yn eich cyfrif yn addas, gan eich gosod yn y weinidogaeth? A oedd ef yn dywedyd wrth ei eglwys, megys wrth Samuel gynt am Dafydd, "Cyfod, eneinia ef, canys dyma efe?" Ond a bwrw fod pethau felly, nid ydych i ymorphwys ar hyny, cofiwch; ond mae yn anghenrheidiol fod ymdrech gwastadol yn eich eneidiau, yn nghyflawniad pob dyledswydd a berthyna i'ch swydd, am fod yn gymeradwy ganddo ef. "Felly yr ydym yn llefaru," medd Paul, "nid megys yn rhyngu bodd i ddynion, ond i Dduw, yr hwn sydd yn profi

ein calonau ni." Oddiar yr ystyriaeth fod yn rhaid iddynt ymddangos ger bron ei frawdle, yr oedd yr apostolion yn cyflawni pob gwasanaeth megys yn ngolwg Crist, gan ymorchestu am fod yn gymeradwy gydag ef. "Bydd ddyfal i'th osod dy hun yn brofedig gan Dduw."

Mae tuedd mawr yn y meddwl i ymorphwys ar y meddiant o egwyddorion grasol, gan esgeuluso eu gweithrediadau, ac ar fater y ddyledswydd yn lle ei hysbryd a'i bywyd hi. Os caiff y dyn le i obeithio ei fod yn meddu ffydd yn Nghrist, a bod gogoniant Duw yn rhyw amcan cyffredin i'w weithrediadau, mae yn ymfoddloni ar hyny, heb ymdrechu yn ddyladwy i ddwyn yr egwyddorion hyn i ymarferiad, a'u gweithio allan yn nghyflawniad pob dyledswydd neillduol. Ond wedi y cwbl, y peth ydych yn y rhai hyn ydych mewn gwirionedd, a dim mwy. Ac os ystyriwch chwi mor anghenrheidiol i gymeradwyaeth eich dyledswyddau ydyw eu bod yn cyfateb ymhob dim i reol y gair, ac mor barod ydyw eich calonau chwithau i adfeilio yn y pethau hyny, chwi a fyddwch yn ddyfal i osod eich hunain yn brofedig gan Dduw. Parotowch eich calonau i gyfarfod âg ef yn ordinadau ei dŷ. Ymegniwch yn yr ymarferiad â phob un o honynt i'w addoli ef mewn ysbryd a gwirionedd. Ac yn y diwedd, holwch eich hunain ger ei fron ef, ar ol offrymu y weddi, traddodi y bregeth, neu weinyddu y sacrament, A wnaethum i hyn oll wrth fodd yr Arglwydd? Fe fydd hyn yn foddion i feithrin cywirdeb a gostyngeiddrwydd yn eich eneidiau, i'ch cadw i rodio yn eich perffeithrwydd, ac ar yr un pryd i ymddiried yn nhrugaredd eich Duw.

## CYMHWYSDERAU A GWAITH Y WEINIDOGAETH.

CYNGHOR A DRADDODWYD AR ORDEINIAD GWEINIDOGION.\*

**M**AE cynghori, yn enwedig mewn rhyw ddull ffurfiol fel yma, yn orchwyl ag yr ydym ni yn wastad yn teimlo gradd o gywilydd i ymaflyd ynddo; nid yn unig o herwydd anghymhwysder i'w gyflawni, ond hefyd, o herwydd fod rhoddi cynghor yn cynnwys ynddo ryw dybiaeth fod y neb sydd yn ei weinyddu yn rhagori mewn profiad a gwybodaeth ar y rhai sydd yn ei dderbyn. Yr ydys yn barod i feddwl mai yr hwn sydd leiaf a gynghorir gan ei well. Mae hyn yn ddigon i beri i ddyn ag sydd yn adnabod dim o hono ei hunan deimlo yn gywilyddgar, ac yn fwy felly wrth gynghori rhai hŷn mewn dyddiau, neu fwy eu galluoedd, nag ef ei hun. Ond wedi y cyfan, nid yw hon ond un o ddyledswyddau y frawdoliaeth efengylaidd; mae pawb yma i'w chyflawni tuag at eu gilydd; ac y mae y doeth yn aml mewn amgylchiadau ag y dichon cyfarwyddwyd neu gynghor ei isradd ar bob cyfrifon fod o wasanaeth mawr iddo. Fel yn cydlafurio â chwi gan hyny, frodyr, yr ydym ni yn awr yn dymuno eich cyfarch gyda serch a gostyngeiddrwydd, a chyflawni un o'r dyledswyddau ag y gellwch chwithau eto yn eich tro, mewn rhyw ddull ac ar ryw achlysur neu gilydd, fod yn rhwym i'w chyflawni tuag atom ninnau, yn ol y cyfarwyddyd apostolaidd, "Cynghorwch eich gilydd bob dydd, tra y gelwir hi heddyw."

\* Y Cynghor hwn, yn y ffurf gyntaf arno, a draddodwyd yn Nghyfarfod yr Ordeinio yn Nghymdeithasfa Caernarfon, Medi 13, 1848, pryd yr ordeiniwyd y brodyr Griffith Davies, Llanerchymedd; Edward Price, Birmingham; Hugh Jones, a William Roberts, Caergybi (W. Roberts, D.D., America, yn awr); William Williams, Tŷ Calch, Môn; Hugh Roberts, Bangor; Robert Hughes, Uwchlaw'r ffynnon; a John Mills, Llundain.



Er wrth wneyd sylwadau amrywiol nad yw yn bosibl i ni gyfyngu ein hunain at un gair neillduol fel testun, eto ni a ddymunem yn gyntaf dim eich cyfeirio at y darluniad apostolaidd o gynneddfau ac ysbryd gweinidogion yr efengyl. Dywedir yno, fod yn rhaid eu bod hwy yn cyfateb i'r darluniad hwnw. Nid oes neb ond dynion o'r nodau hyny i'w gosod yn y swydd. Ac os nad ydym yn mawr gamgymeryd, prin y gellir dysgwyl cael dyn o'r cymeriad perffaith a ofynir gan yr apostol, heb fod tri pheth yn cydgyfarfod ynddo i ryw fesur: natur, amaethiad, a gras.

Mae dynion, yn eu zel dros unrhyw beth ag a fydd yn benaf yn eu golwg hwy, yn aml yn anghofio rhoi eu lle dyladwy i bethau eraill. Y cwbl bron, dybygid, mae rhai yn ei ymfodyn yn yr ymgeisydd am y weinidogaeth ydyw dysgeidiaeth ddydol, tra mae eraill drachefn, yn eu gofal am bethau uwch, yn esgeuluso, os nad yn diystyru, addurniadau o'r natur hono. Os ceir dyn yn dduwiol, nid ydys yn edrych cymaint pa fath un ydyw fel dyn o ran grym cynneddfau naturiol a graddau ei fanteision. "Ni ddichon dyn dderbyn dim oni bydd wedi ei roddi iddo oddiuchod." Tra yr ydym ni yn llwyr gredu fod yn Nghymru ei hunan ddigon o brofion nad ydyw dwyn dyn drwy gwrs rheolaidd o efrydiaeth, nac un ffordd neillduol o ordeiniad, yn abl i wneuthur gweinidog effeithiol yr efengyl, a bod gras a doniau yr Ysbryd yn anheggorol anghenrheidiol, yr ydym, o'r ochr arall, yn hòni, er cael y pethau hyny, os bydd y synwyr naturiol yn fychan, a'r cynneddfau yn weiniaid, ac yn enwedig os bydd y rhai hyny wedi eu gadael heb eu hymgeleddu a'u coethi trwy lafur ac amaethiad, na bydd y llestr hwnw drachefn ddim mor gymhwys i ddal gweinidogaeth yr efengyl. Wrth geisio y naill, ni ddylid bod yn ddiymodyn am y lleill, yn yr ymgeisydd at y weinidogaeth. Maent yn deillio o'r un ffynnon. Mae pob rhoddiad daionus oddiuchod, pa un bynag ai naturiol, cyrhaeddedig, ai ysbrydol; ac y mae yn debyg mai drwy beri i'r tair yma gydgyfarfod mewn rhyw fesur mwy na chyffredin, mae y Brenin Mawr yn arfer gwneuthur gweinidogion cymhwys y testament newydd. Hyderwn na bydd i'r sylwadau hyn dramgwyddo na digaloni neb; ond goddefer i ni annog yn ddifrifol, yn enwedig y dosbarth ieuengaf yn y weinidogaeth, i fod yn ddiwyd i ddiwyllio

eu meddyliau, ac i arfer pob egni i gynnyddu mewn gras a phob gwybodaeth fuddiol.

Mae chwaeth ein cenedl yn newid yn raddol, ac amgylchiadau newyddion yn debyg o gyfodi, mewn cysylltiad â lledaniad mwy cyffredin gwybodaeth, ag sydd yn peri y bydd graddau uwch o amaethiad meddwl nag oedd yn eisieu gynt yn anhebgorol anghenrheidiol mewn dynion cyhoeddus yn yr amseroedd sydd i ddyfod. Os na chyffry Ysbryd yr Arglwydd ein meddyliau i ddarpar gogyfer â'r amgylchiadau hyn, fe fydd yn arwydd i ni fod dyddiau ein defnyddioldeb a'n dylanwad yn Nghymru wedi eu rhifo. Yr ydys yn sylwi eisoes am Loegr, nad athrawon crefydd mwyach ydyw unig athrawon y genedl yno, ond y mae lliaws o ddwfn-feddylwyr eraill wedi codi, y rhai, trwy yr argraffwasg, ac oddiar yr esgynlawr, sydd yn prysur ddysgu gwybodaeth i'r bobl. Newydd-deb a difrifwch addysgiadau rhai o honynt a ychwanega eu dylanwad yn feunyddiol. Ac y mae dynion meddylgar, tybygem, yn dechre ofni, oddieithr i'r pulpud yntau hefyd gael ei wisgo â mwy o newydd-deb a nerth, y bydd ei effeithiolrwydd yn colli, a'r oes yn dianc o afael athrawon crefydd. Nid oes le o dan yr amgylchiadau presennol na bydd dysgeidiaeth ac arferion Lloegr yn ymledanu trwy Gymru hefyd. Fe ä yr oes rhagddi, pa un bynag a awn ni rhagom ai peidio. Y cwestiwn yw, A ysgoga crefyddwyr i'w chanlyn hi? Os na wnânt, maent yn debyg o gollu y fraint o fod yn arweinyddion y genedl. Pwy bynag a fynd fod yn weinidog effeithiol yr efengyl yn yr amseroedd sydd yn agosâu, mae yn rhaid i'w dalentau fod yn amrywiol; a rhaid i'r talentau hyny hefyd fod o dan eneinriad yr Ysbryd, ac wedi eu cysegru yn drwyadl i Grist a'i achos. Dyma, o leiaf, yw barn ambell un ag sydd wedi dyfod, ond yn rhy ddiweddar, i adnabod eu diffygion eu hunain.

Ond cyn dyfod at waith eich swydd, dymunem alw eich sylw yn fwy neillduol at ddau beth hanfodol anghenrheidiol i'r rhai sydd ynddi.

*Yn gyntaf*, Mae yn ofynol i weinidog yr efengyl fod YN DDYN UCHEL EI GYMERIAD MOESOL.

Dyma y peth cyntaf mae yr apostol yn ei nodi: "Rhaid i esgob fod yn ddiargyhoedd." Paham, ac yntau yn cael ei alw i'w swydd o blith cymundeb o ddynion sanctaidd y dangosir

cymaint o ofal am burdeb ei foesau, ond i brofi fod yn rhaid iddo ef fod yn hynod yn y pethau hyn; “yn esiampl,” nid yn unig i'r byd, ond “i'r ffyddloniaid” eu hunain? Mae dysgu rhinwedd yn rhan arbenig o'i waith; ac mae yn anmhosibl iddo wneuthur hyn yn effeithiol heb fod yn alluog i'w ddangos ei hun ymhob peth yn esiampl i weithredoedd da. Felly, yn lle ymfoddloni, fel y dywed un gŵr, yn y meddiant o rinwedd cyrhaeddedig y dysgybl, mae yn rhaid iddo ef ymestyn at berffeithrwydd y meist, a rhoddi i'w ymddygiadau gywiredd cynllun, nes bod yn abl i ddyweyd wrth ei frodyr, “Byddwch ddilynwyr i mi.”

Mae yn ofnus, hwyrach, fod yr eiddigedd canmoladwy rhag i foesau da fyned â lle Crist, ynghyd a'u canfod hwy yn aml mewn dynion digrefydd, yn demtasiwn i grefyddwyr weithiau i esgeuluso, ac edrych yn fwy diystyr ar, foesau da ynddynt eu hunain. Wrth eu gweled yn codi oddiar egwyddorion hunanol, mae y profeswyr penrhydd, yn lle gofalu am eu meithrin oddiar egwyddorion uwch, yn troi i'w dirmygu; ac yn ei ddiffyg ymwybodol o honynt, mae yn syrthio i ddirgel ymwenieithio iddo ei hun, nad ydyw cywiredd—y galon unplyg, a'r ymddygiadau anrhydeddus—ond rhyw fresych gwylltion sydd yn tyfu ar feusydd y byd, pethau dianghenrhaid i ddyw ysbyrdol i drafferthu yn eu cylch. Ond nis gwyddom ni am ddim mwy anffodus i grefydd na bod ei phroffeswyr, ac yn enwedigol ei gweinidogion, yn ddiffygiol mewn un rhinwedd ag sydd yn gymeradwy gan y byd. Chwi gewch basio ganddo ef heb ffydd yn Nghrist, ond nid heb y rhinweddau cymdeithasol; nid heb eirwiredd a gonest-rwydd, nid heb fod cystal â'ch gair, nid heb dalu eich dyledion. Nid ydyw y byd ddim yn gofyn am iawn ansawdd ar y galon tuag at Dduw; ond y mae efe yn gofyn am iawn ymddygiad tuag ato ei hunan. Ac os ä dyn i'r pulpud heb fod y pethau hyn ganddo ac yn aml hwynt, mae yn ddigon sicr o'i ddwyn ei hun a'r weinidogaeth i waradwydd. Mae yn “rhaid i esgob fod yn ddiargyhoedd,” yn ŵr difai ger bron y byd.

Ië, ni a fynem i chwi sylwi fod yr apostol, wrth ei ddarlunio fel un gwylidwrus, sobr, a gweddaidd, yn sefydlu rheol ag sydd ar unwaith yn gwahardd myrdd o fân bethau, rhy ddiddym bron i'w henwi, ac eto, os byddant o gwmpas pregethwr, y maent,

fel gwibed meirw yn enaint yr apothecari, yn sicr o roddi sawyr ddrwg ar ei gyflawniadau. O yr "ychydig ffolineb" hwnw, ag y mae Solomon yn son am dano, sydd wedi difa defnyddioldeb llawer gweinidog! Prin y gellid ystyried y peth yn fai; ni buasai neb yn sylwi arno bron mewn dyn arall; ond fe olygir gŵr Duw yn ŵr mor "ardderchog," fel y mae'r brycheuyn lleiaf ar ei wisgoedd ef yn annyoddefol i'r llygad. Gwylwch, frodyr, rhag i unrhyw ffaeidd fyned fel nôd arnoch ymysg eich cydnabyddiaeth. Ydyw, mae yn bregethwr da, medd y bobl, ond y mae efe yn rhy hoff o son am dano ei hun, neu yn rhy gellweirus neu siaradus yn y gornel, neu yn rhy chwerw ei dymher, neu yn rhy ferchedaidd a pharod i dramgwyddo, neu yn rhy gryf a chyndyn am ei ffordd ei hunan, neu yn rhy glustagored i dderbyn chwedlau gwrachiaidd, ac yn rhy dafodrydd i'w cario a'u sibrawd o fan i fan. Ynglŷn â manteision eraill sydd gan lygredigaeth yn ein herbyn ni, mae ambell un weithiau âg iddo wreiddyn cryf yn nghyfansoddiad ein natur. Mae y dyn, fel yr offeiriad gynt, yn anafus o'r groth; ac megys ag yr oedd yr anaf hwnw yn anfeddyginiaethol, felly gorchest fawr fydd cael y cristion yn berffaith yn y gwall cynhenid a berthyna iddo fel dyn. Ond y mae hon yn orchest ag y mae galwad uchel ar bawb sydd yn weinidogion y gair i ymestyn ati. Fe fyn rhai fod corff anafus eto, fel cynt, yn anghymhwysu dyn i'r weinidogaeth. Fe allai hyny. Pa fodd bynag, mae yn sicr, os bydd cyfansoddiad y corff yn rhoi mantais i ryw ddrwg dori allan yn anafod ar y cymeriad moesol, y gall ef fod, ac heb wylidwriaeth fe fydd hefyd, yn achlysur o anghymhwysder mawr iddi. Mynwch wybod ynte, frodyr, dynion o ba ysbryd ydych, gan orchfygu a dwyn yn gaeth bob teimlad corfforol, a gwyllo nid yn unig na chaffo calon ddrwg, ond na chaffo tymher anhapus, osod un drygnod neillduol ar eich cymeriad.

Er dangos ymhellach bwysigrwydd y mater hwn, sylwch, fod Paul yn dysgu y rhaid i'r dyn a osoder yn y weinidogaeth fod yn ŵr o gymeriad da, nid yn unig er ei dröedigaeth, ond o'i febyd. Mae yn rhaid iddo hefyd, medd efe, "gael tystiolaeth dda gan y rhai oddiallan," hyny yw, am ei fuchedd gynt. Mae yn amlwg, tybygid, mai dyna feddwl yr adnod;

oblegid y mae yr adnodau blaenorol yn gofyn pob rhinwedd anghenrheidiol i sicrhâu tystiolaeth dda i'w fuchedd bresennol ef. Paham, wedi dyweyd fod yn rhaid iddo fod yn ddiargyhoedd, yn ddyn tirion, anymladdgar, sobr, diariangar, &c., yr oedd yn anghenrheidiol ychwanegu, a dyweyd fod yn rhaid iddo hefyd gael gair da gan y rhai oddiallan? Onid oedd efe yn sicr o'i gael, o leiaf o'i deilyngu, os byddai yn ddyn felly? Ond nid oedd teilyngdod ei fuchedd gristionogol ddim yn ddigon i'w gymeradwyo; yr oedd yn rhaid iddo hefyd fod yn ŵr da ei air ymysg anghredinwyr cyn ei ddychweliad. Os byddai ei ymddygiadau gynt wedi bod yn fryntion, byddent yn debyg o greu rhagfarn yn ei erbyn yn meddyliau ei wrandawr; a gwanychid ei feddwl yntau i ddyweyd yn onest yn erbyn beiau rhai eraill, rhag trwy hyny eu cyffroi i edliw iddo ei feiau ei hunan; a byddai y diafol, yntau, gan gofio ei lwyddiant blaenorol, yn sicr o gymeryd mantais ar ei hen arferion i geisio ei hudo ef iddynt drachefn; ac felly dengys yr apostol y byddai y cyfryw ddyn mewn perygl o syrthio i waradwydd a magl yn nghyflawniad ei swydd. I'r gwrthwyneb, mae y weinidogaeth mewn ystyr yn ddiogel yn nwyllaw dyn ag ydoedd yn wastad yn bur ei foesau; oblegid nid yn unig ni ddaw dim oddiwrth ei ymarwedd- iad cyntaf i'w gwaradwyddo, ond fe fydd yr arferion da hefyd ag y mae wedi ymsefydlu ynddynt o'i febyd yn gymhorth mawr i'w gadw rhag pethau gwaradwyddus rhagllaw. Ond a oes gan y Cymry ddim achos i wyllo rhag o'r diwedd i safon (*standard*) yr areithfa fyned yn rhy isel ar y pen hwn yn ein mysg? A gydsaif ef âg urddas y weinidogaeth i godi i'r pulpud y diarebol mewn drygioni, yr anenwog yn ngolwg cymdeithas, neu y dyn ag oedd o'i febyd hyd ei dröedigaeth yn wrthodedig, hyd yn nôd gan y byd, o herwydd ei ddrygfoesau? Nid oes, o bosibl, un reol heb eithriad iddi; ond ein meddwl ni yw, y dichon fod pechodau ag sydd o ran eu natur, neu o ran graddau a pharhâd yr ymygr- iad ynddynt, yn gwneyd yr euog, serch ei gael yn edifeiriol, yn ddyn anghymhwys i fod yn ddyn cyhoeddus. Mae yn anrhydedd i'r efengyl, yr ydym yn cydnabod, i weled y cyfryw wedi eu dychwelyd, ac, o bosibl, yn cyflawni rhyw wasanaeth oddeutu'r tŷ, ond nid yn y weinidogaeth gyhoeddus, ac yn enwedig nid yn ail ymaflyd ynddi, wedi syrthio o honi unwaith i bethau bryntion,



pethau ag sydd yn sefydlu gwarthnod ar y cymeriad, ac yn aros yn dramgwydd i'r byd.

Chwi a wyddoch, frodyr, nad oes genym ni ddim amgen na daioni i'w ddywedyd am danoch chwi. Ond nid yw hynynemawr at eich cyfiawnhâu; tystiolaeth eich cydwytodau eich hunain i synlwydd a phurdeb dūwiol eich ymddygiadau yn unig a rydd i chwi orfoledd. Hyderwn eich bod wedi bod yn adolygu eich einioes cyn dyfod yma; a goddefwch i ni eich cymhell i wneuthur hynyn eto, ac i'w wneuthur yn aml; fe fydd yn foddion, dan fendith yr Arglwydd, i feithrin gostyngeddwydd eich calonau, ac i reddi tōn ddwysach a mwy difrifol i'ch ysbryd yn nghyflawniad eich gweinidogaeth. Os rhoddwyd rhyw gamrau brasach na'u gilydd rywbyrd yn y bywyd, wylwch o'r herwydd yn y dirgel, diolchwch am eu cuddio oddiwrth y byd, a dymunwch am i orchudd mawr yr Iawn fod drostynt fel na ddelont i'ch erbyn yn nhragywyddoldeb, ac am i asgell dirion rhagluniaeth eu cysgodi fel na ddelont i waradwyddo eich wynebau yn eich gwaith. Gweddīwch gyda Dafydd, "Gwared fi o'm holl gamweddau, ac na osod fi yn waradwydd i'r ynyfyd;" a chyda Williams,—

"Cudd fy meīau rhag y werin,  
Cudd hwy rhag cyfiawnder ne';  
Cofia 'r gwaed un waith a gollwyd  
Ar Galfaria yn fy lle."

Yr ystyriaeth o wendid eich natur, ac mor ebrwydd y gall ei llygredigaeth drwy hudoliaeth y gelyn saethu allan i'r weithred ysgeler, a'ch marcio dros eich bywyd, a'ch cadwo yn wastad yn sobr a gwyliadwrus. Byddwch fel y doeth â'ch llygad yn eich pen, a'ch nwydau dan lywodraeth barn a synwyr, yn weddaidd ymhob ymddygiad—yr iaith, y wisg, yr olwg, a'r holl ystumiau corfforol, yn cydweddu â synlwydd gŵr Duw. Cōfiwch mai wrth eich ymddygiadau y berinir eich gweinidogaeth, ac yr edrychir ar eich bywyd, gan laweroedd, fel esiampl o wir effaith yr athrawiaeth yr ydych yn ei phregethu ar bawb a'i credant. Ac yn lle ymfoddloni ar gymaint o grefydd ag a wasanaetho yn unig i'ch cadw yn ddigerydd, ac i'ch gwneyd yn oddefol i eglwys Dduw, ymestynwch at wneuthur yr arddangosiad mwy ammeuthyn hwnw o honi, ag sy'n wastad, lle canfyddir ef, yn gadael

tystiolaeth yn nghydwybod gelynyon, ac yn ennill parch ac ymgyriad oddiwrth annuwiolion y byd. Ond yr ydym ni yn myned ymlaen i sylwi,

*Yn ail*, Fod yn rhaid i weinidog yr efengyl fod YN WIR GRISTION.

Yr oedd Paul yn gofyn nid yn unig am ddyn moesol, ond am y dyn hwnw wedi ei aileni, a'i impio i Grist, i'r dyben i'w osod yn esgob yn yr eglwys. "Nid yn newyddian yn y ffydd," medd efe, neu nid newydd ei blanu, fel y darilenir y gair; hyny yw, nid wedi ei ddychwelyd yn ddiweddar at Gristionogaeth. Yr oedd yn rhaid ei fod ef yn ddyn dychweledig, sylwch; a chwaneg na hyny, yr oedd yn rhaid iddo fod felly er's amser, fel y ceid prawf o wirionedd ei ddychweliad, a gwybod a fyddai y gangen yn ymasio â'r gwreiddyn, modd y gellid dysgwyl ffrwyth arni i gynnaliaeth yr eglwys. Ië, ymhellach, mae y gair yma yn dangos fod yn rhaid i weinidog yr efengyl nid yn unig fod yn gristion cywir, ond mewn ystyr cymhariaethol yn gristion perffaith. Rhaid ei fod yn ddyn sefydlog ei egwyddorion, fod graddau ac addfedrwydd ei ddeall a'i brofiad ysbrydol o bethau yr efengyl yn gyfryw fel y gellir gobeithio y bydd ei godiad i'r swydd bwysig yn ddiogel iddo ei hun ac yn fanteisiol i eraill.

Yn ei dröedigaeth mae y pregethwr yn dechre dyfod i adnabod a charu y pethau y mae i'w pregethu i eraill. Os nad oes yn eich ysbrydoedd heddyw egwyddorion heblaw y rhai a gawsoch yn ol trefn anian, a mwy na dim ag y mae bedydd, na dygiad crefyddol i fyny, yn ddigonol i'w sicrhâu i chwi, nid oes yna ddim gallu i wybod na derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw. Er eich ordeinio i'w pregethu, maent mewn gwirionedd yn ffolineb yn ngolwg eich meddyliau. Yr ydych wedi eich ffurfio dan gyfammod arall; ysbryd ac egwyddorion hwnw sydd yn llywodraethu y galon wrth naturiaeth. Ac megys nad oedd Cyfryngwr ac Iawn, prif destynau yr efengyl, yn ein perthynas naturiol ni â Duw, felly nid yw syniadau gwreiddiol ein natur yn yngan dim am y fath bethau. Ië, mae holl oleuni rheswm yn wrthwyneb i drefn yr efengyl; oblegid mewn gwirionedd nid oes ynddo ddim goleuni, ond gweddillion o'r hyn a gafodd dyn i'w gyfarwyddo i fyw i Dduw yn ystâd ei greadigaeth; ac yr oedd hyny, fel y

sylwyd, mewn trefn a than gyfammod hollol wahanol. Mae yn wir y dichon y dyn yma dderbyn syniadau efengylaidd trwy addysg grefyddol; eto os bydd y rhei'ny ar unrhyw bryd, trwy nerth yr Ysbryd, yn gweithio at eu hamcan priodol yn y galon, sef codi y dyn o hono ei hunan i Grist, ac o'i bechodau i fyw i Dduw, mae holl du mewn y creadur, yn egwyddorion deddfol a thueddiadau llygredig, yn codi yn eu herbyn hwy. "Gwna hyn a byw fyddi," ydoedd y cwbl o reol ei berthynas gyntaf ef â Duw, ac â hyny yn unig y mae ei holl synwyr yntau yn cyttuno. Mewn gair, mae yr efengyl, yn nirgelwch ei hathrawiaeth, ac yn sancteiddrwydd ei gorchymynion, yn gas gan y dyn anianol.

Wel, beth a ddysgwyliwch chwi oddiwrth y fath un fel pregethwr? Fe all fod yn ddyn o alluoedd a dysgeidiaeth, wedi ei feddyddio yn rheolaidd, a'i ordeinio o'r iawn urdd oll. Ac y mae yn bosibl iddo fod yn ŵr o wybodaeth grefyddol helaeth, ac o ran ei farn yn efengylaidd. Ond y mae un peth eto yn anghenrheidiol, a hyny cyn y bydd efe yn gristion, chwaithach yn bregethwr, sef y cyfnewidiad a ddwg ei galon i gydgordiad â'i farn, a'r ddau i gofleidio trefn yr efengyl. Rhaid adnewyddu yr enaid i ymdeimlo â phurdeb y Jehofah, sefydlu condemniad y ddeddf yn y gydwybod, a lladd y creadur iddo ei hun. Ac i berffeithio yr oruchafiaeth ar egwyddorion natur, rhaid i'r efengyl hithau dreiddio i'w ysbryd, a dëongli i'r gydwybod gythryblus, ag oedd yn wastad yn dirnad euogrwydd a chosbedigaeth yn efeilliaid anysgaredig, fod maddeuant ac iachawdwriaeth yn Iawn Crist yn bethau ag sydd yn cydsefyll â gogoniant holl briodoliaethau Duw. Yma y mae y pechadur yn cael ei aileni, yr egwyddorion grasol sydd yn dyfod i'w enaid oddiwrth Grist, yr ail Adda, yn diorseddu yr egwyddorion a dderbyniodd oddiwrth yr Adda cyntaf. Mae yn marw i'r ddeddf, a thrwy ffydd yn cofleidio trefn yr efengyl. O'r blaen, nid oedd yn y meddwl, ar y goreu, ond rhyw argyhoeddiad diffrwyth o'i gwirionedd, ac ammheuon gelynyol yn llechu yn aml oddidano. Ond yn awr, mae profiad o'u daioni wedi gwneyd preswylfa sicr yn yr enaid i wirioneddau ag sydd ymhell uwchlaw ei amgyffred. Mae yn eu caru hwy, ac wrth eu caru, mae rheswm ei hunan yn dyfod i'w cymeradwyo, a'r meddwl yn barod i synu pa fodd na buasai yn gweled eu

gogoniant yn gynt. Bellach y dadguddiad o Dduw yn Nghrist yw sylfaen ei grefydd. Mewn ystyr, mae wedi anghofio pob dadguddiad arall, ac yn gorfoleddu yn dragywydd yn yr amlygiadau o hono yn y greadigaeth newydd. Mae ei galon yn efengylaidd, ei holl egwyddorion wedi eu harddullio yn gyfatebol i neillduolrwydd ei amgylchiad fel pechadur, a phechadur wedi ei ddwyn at Dduw mewn Cyfryngwr. O ganlyniad, os gelwir hwn i bregethu, mae ei weinidogaeth, fel ei galon, yn sicr o fod yn efengylaidd. Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, fydd prif wrthddrych ei genadwri. Yn gymaint a bod ei feddwl yn ymhyfydu yn mater ei weinidogaeth, fe fydd ei gwirioneddau yn ffrydio o'i ysbryd gyda thynnerwch ac effeithiolrwydd na fedr neb arall ddangos y cyffelyb. Nid yn unig fe'i pregetha, ond fe'i pregetha dan addoli a mawrhâu Duw

Yr ydym yn cydnabod fod rhywbeth pur debyg i weinidogaeth weithiau gan ddyinion heb eu dychwelyd. Ond pan y mae hyn yn dygwydd, mae rhyw oleuni mwy na dynol yn yr ysbryd ar y pryd. Os bydd hwn, yn lle diweddu mewn tröedigaeth, yn diflanu o'r meddwl, yna mae pob arwyddion gwir weinidogaeth yn colli. Mae dyn, naill ai yn troi i ddirmygu a gwyrddroi gwirioneddau yr efengyl, neu ynte yn crino mewn ffurfioldeb ac adfeiliad, yn hollol ddiarchwaeth atynt, a difedr i'w trin. Neu os dygwydd i'w ddygiad i fyny, a'i gysylltiadau crefyddol, fod yn foddion i gadw rhyw deimlad o barch i'r efengyl yn ei feddwl, ac oddiar hyny, math o ymgais cywir i'w phregethu, eto ni bydd yno ar y goreu ond megys llun gweinidogaeth, heb oleuni, bywyd, na grym. Mae rhywbeth, hyd yn nôd yn ei ddull yn canmawl yr efengyl, ag sydd yn bradychu diffyg adnabyddiaeth o honi. Nid yw ei zel drosti yn aml ond efelychiad ffuantus o'r ysbryd a welodd efe yn gweithio mewn rhai eraill, a gorchudd dros yr amddifadrwydd o hono yn ei galon ei hun; a dim ond i ryw syniadau eraill mwy cyfaddas i falchder y meddwl, neu i gnawd-olrwydd y serchiadau, gael eu dwyn i'r golwg, mae yr anianol yn wastad yn barod i ymadael â'r efengyl er eu mwyn. Ni byddai waeth i chwi geisio dal y dwfr yn y llestr candryll na chadw ysbryd dyn yn yr efengyl heb ei aileni. Boed ei argyhoeddiadau o'i gwirionedd mor gryfed ag y byddont, a'i ddechreuad gyda chrefydd byth mor obeithiol, mae yn ddigon sicr o adfeilio oddi-

wrthi mewn ysbryd neu farn, o ran purdeb ei gorchymynion neu ysbrydolrwydd ei gwasanaeth, ond iddo yn unig gael amser a themtasiwn. Er ein holl ymdrechïadau i feithrin yn yr athrawiaeth iachus, a gofal wrth dderbyn i'r gwaith, fe ffyna llygredigaeth calon dyn yn ein herbyn, ac fe dyr ei gelyniaeth allan mewn oerni, tewi, gwadu, ac o'r diwedd dirmygu trefn yr efengyl yn mhulpudau Cymru, oni pharhâ Duw i godi dynion duwiol i'r weinidogaeth. Dyma y prif ddiogelwch rhag y niwed hwn: gweinidogion â'u calonau wedi eu lefeinio yn drwyadl gan ras yr efengyl, ac yn aros yn y mynydd gyda Duw; yn caru y gwirionedd eu hunain, ac yn llawn o rym gan Ysbryd yr Arglwydd i'w draddodi yn effeithiol i'r rhai ag a fyddo yn cyfodi ar eu hol.

Galleu sylwi ymhellach fod gras, trwy yr hwn y mae dyn yn dyfod i ddirnad a derbyn yr efengyl, mater mawr y weinidogaeth, yr un mor anghenrheidiol hefyd er meithrin y doniau trwy ba rai y mae i gael ei phregethu. Mae yn anhawdd i ni yn awr, o bosibl, wahaniaethu rhwng y rhai hyn â'r teimladau grasol mae yr Ysbryd yn eu cynnyrchu yn enaid y cristion. Ond y mae y canlyniad yn dangos fod gwahaniaeth yn bod. Mae parhâd a chynnydd yn perthyn i'r egwyddor rasol. Ond am y doniau, os na bydd eu Hawdwr yn trigo yn y galon fel Ysbryd y gras, maent yn gyffredin yn gwywo o honi, trwy segurddod a chwantau drwg, fel planigyn mewn daear anghyfaddas; ac ni bydd yn fuan yn y pulpud ond yr eilun-bugail â'i lygad dehau wedi tywyllu, a'i fraich wedi gwywo, heb nerth na goleuni yn ei weinidogaeth. Y galon ostyngedig, bur, a llednais ydyw yr hinsawdd yn yr hwn mae doniau yr Ysbryd yn parhâu i flaguro. Mae gras yn meithrin doniau, a'r doniau hwythau yn cyfroi ac yn cadw gras mewn ymarferiad. Fe w'yr y cristion yn dda beth yw fod ei ddoniau ei hunan yn tynu ei enaid allan mewn gweithrediadau grasol wrth ymarfer â dyledswydd, a bod yr ansawdd rasol hono drachefn yn ychwanegu ystwythder a medrusrwydd yr enaid i'w chyflawni. Mae ei waith yn son am y Gwrthddrych gogoneddus yn cynnyrchu ymhyfyrdiad ynddo, a'r hyfrydwch eilwaith yn helaethu ei galon, ac yn agoryd ei enau i lefaru am dano gyda mwy o hyfdra a hyawdledd. Dyma y gweinyddiad sydd yn gogoneddu Duw, ac yn adeiladu yr eglwysi.



Ond i'r dyben i fod yn wastad yn ngwaith y pulpud yn yr ansawdd yma, mae yn rhaid i ni ymarfer ein hunain i dduwioldeb; llafurio i gynyddu mewn gras a gwybodaeth am Dduw. Na foddlonwch, frodyr, ar enaid cyfyng, a syniadau isel. Mae eich gweinidogaeth yn urddasol, ac yn gofyn teml äng i drigo ynddi a dangos ei hun. Ymdrechwch, gan hyny, i grythâu eich talentau naturiol, ac i helaethu galluoedd eich meddwl, trwy ddyfal astudiaeth, modd y gallo yr efengyl breswyllo ynoch gyda mwy o helaethrwydd, ac ymddangos i'ch gwrandawyr trwy eich iaith a'ch syniadau, i ryw fesur, yn ei gogoniant cynhenid. Mae ambell un ag sydd yn adnabod yr efengyl ynddi ei hunan, bron yn methu ei hadnabod mewn llawer pregeth, ac yn barod i ofyn fel y Bethlehemiaid, "Ai hon yw Naomi?" Ai dyma efengyl gogoniant y bendigedig Dduw? Mor llygredig yw ei gwedd hi erbyn ymgysylltu â theimladau ac iaith isel y gweinidog arwynebol! ac eto mor gyfoethog a gogoneddus yr ymddengys yr un un yn ysbryd a geiriau yr apostolion! O frodyr, pe buasai ein galluoedd yn angylaidd, gallasem eu dymuno yn fwy drachefn i'r dyben o arddangos gogoniant yr efengyl. Beth ynte, gyda'n rhai bach ni? Cofiwch, pa fodd bynag, mai bywyd ac eneniad yr holl dalentau naturiol yw gras a doniau yr Ysbryd. Deisyfych hwy mewn gweddïau; a thrwy farweiddio'r cnawd, ac ymroddi i fyfyrdodau ysgrythyrol, meithrinwch hwy yn ofalus yn eich meddyliau. Byddwch helaethion yn y dyledswyddau ag sydd yn rhoddi ymarferiad iddynt, oblegid wrth eu hymarfer y maent yn cynnyddu. Nid oes dim gwaith iddynt wrth drin y byd, nac wrth draethu ar *bolitics*, a materion cyffredin; ac ond odid na bydd i'r dyn a gafodd fesur o honynt, os bydd i'w athrylith redeg ymhell ffordd yma, brofi rywbyrd neu gilydd eu bod wedi gwywo o'i feddwl, a gadael ei ysbryd yn ddiawch a nychlyd ymhob cyflawniad ysbrydol. Ië, mae yn syndod, fel y mae chwaeth at rywbeth arall dros enyd fechan yn difa y blas at y gwaith hwn. O am ymgadw yn agos at Grist! Ynddo ef mae pechadur tlawd a llwm yn cael ei gyfoethogi ymhob peth, mewn pob ymadrodd a phob gwybodaeth. Wedi eich dwyn, fel eich Meistr mawr, i garu cyfiawnder a chasâu anwiredd, gellwch obeithio y bydd i'r Duw a'i heneiniodd ef, eich eneinio chwithau ynddo ef â'r Ysbryd a'i gynnrychion gogoneddus. Yna fe fydd

treiddgarwch eich meddyliau, ac ansawdd nefol eich ysbryd, yn sicr o roddi i chwi fantais annhraethol wrth gyfarch eich gwrandäwyr; fe ffynya bywyd a thynernwch drwy eich gweinidogaeth, nas gall celfyddyd mo'u dynwared, na doniau penaf natur eu cyrhaeddyd, na dangos y cyffelyb. O Dduw, cadw y weinidogaeth hon yn Nghymru! "Na fwrw ni ymaith oddi ger dy fron, ac na chymer dy Ysbryd sanctaidd oddiwrthym;" oblegid yna, er y gallwn ni bryuro i ordeinio ein gweinidogion, a pharhâu i liosogi ein cyflawniadau crefyddol, fe fydd gogoniant y cwbl wedi ymadael, yr eglwys o ran ei hanfod a'i threfn wedi diflanu, a thyrau Sion yn ein plith wedi troi yn binaclau Babel!

Am WAITH EICH SWYDD, mae tri pheth i ofalu am danynt: y *mater*, y *dyben*, a'r *dull*.

"Pregetha y gair; bydd daer mewn amser ac allan o amser." Nid oes yma ddim anghen am eich galluoedd i ddyfeisio pethau newyddion. Mae gair y ffydd wedi ei roddi, a dyna y gair yr ydych chwithau i'w bregethu i eraill; a marciwch chwi, po mwyaf a fedrwch chwi eglurhâu o feddwl Duw yn hwn, mwyaf oll a wneuch chwi o argraff ar feddyliau eich gwrandäwyr. Chwi a wyddoch mor ardderchog yw ymadroddion yr Ysgrhythyrau mewn pregeth, pan eu hadroddir yn gywir ac i ddyben. Os bydd yn briodol i'r mater, a hwnw wedi ei drin yn oleu o'r blaen, mae crybwyll gair o'r Bibl, yn aml mewn amgylchiad felly, yn ddigon i beri gosteg ac astudrwydd trwy yr holl gynulleidfa. Y peth mawr i'w bregethu yw y gair, a'r peth mwyaf yn hwnw yw Crist.

Cymerwch Paul, frodyr, yn esiampl o bregethu yr efengyl. "Yr hwn," medd efe, "yr ydym ni yn ei bregethu, gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn ymhob doethineb, fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu. Am yr hyn yr ydwyf hefyd yn llafurio, gan ymdrechu yn ol ei weithrediad ef, yr hwn sydd yn gweithio ynof fi yn nerthol." Nid oedd ond yr Hwn a wnaeth y byd a allasai wneuthur dyn yn bregethwr fel hyn. "Yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu." Mae yr hen Newton yn dyweyd fod ysbryd Paul mor llawn o Grist a'i gariad fel y mae yn ymddangos fod hyd yn nôd sain ei enw yn hyfryd iddo; ac felly, yn ddiystyr o reolau oerion cyfansoddiad dysgedig, mae yn dyferu i'w ysgrif-

eniadau drachefn a thrachefn o fewn cwmpas ychydig adnodau. Yn herwydd ei gydnabyddiaeth âg ysbryd a philosophi y Cenedl-oedd, fe wyddai yn dda gyda pha ddiystyrwch yr edrychent ar ei genadwri; ac er fod gwawd, o bosibl, yn fwy annyoddefol i'w feddwl boneddigaidd na dim arall, eto yn Rhufain foethus, yn gystal ag yn Athen ddysgedig, nid oedd arno ddim cywilydd o efengyl Crist. Ni chymerai arno ei fod yn gwybod dim yn eu plith hwy ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Os äi ef i son am enwogion yr Hen Destament, neu i gymharu y ddwy oruchwyliaeth â'u gilydd, ei amcan yn wastad a fyddai arddangos yn well drwy y cyferbyniad, ei ogoniant EF, yr hwn sydd yn decach na meibion dynion. Yr oedd y byd yn edrych arno fel creadur o dan effeithiau gwallgofrwydd, neu ddyn â'i feddwl wedi syrthio yn ysglyfaeth i ryw un peth; ac, yn wir, yr oedd Paul felly hefyd. "Yr un peth hwn yr wyf yn ei wneuthur," medd efe; ond nid peth ffugiol a siomedig oedd hwnw. Gwrthddrych ymgyrnöad ei holl galon ef ydoedd Person a gwaith gogoneddus ei Waredwr; ei *fixed idea* oedd y groes. Y tabernacl uwch a pherffeithiach—yr aberthau gwell—Archoffeiriad mawr trwyddynt hwy yn myned i mewn i'r cysegr, gan gael i ni dragywyddol ryddhâd,—dyma ydoedd sylwedd ei bregethau; Crist yn achos pob bendith, yn ganolbwynt pob gwirionedd, ac yn gymhelliad i bob dyledswydd. A beth oedd ganddo mewn golwg trwy y cŵbl? "Cyflwyno pob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu." Ni fedrai ef, o leiaf, ddim boddloni ar bysgota heb ddal, nac ar lafurio heb ennil. Gwneyd y gwaith oedd ei amcan ef o hyd; cenedlu yr annycheledig yn Nghrist, gwreiddio a chadarnhâu credinwyr ynddo, ac yn wyneb yr arwyddion lleiaf o adfeiliad yn neb o'r eglwysi, "eu hesgor drachefn, hyd oni ffurfid Crist ynddynt hwy." "Am hyn," medd efe, "yr ydwyf yn llafurio gan ymdrechu." Dywedir fod egni mawr ymhob gair, ag sydd ymhell uwchlaw cyrhaeddiad y cyfieithiadau: llafurio hyd dreulio ei hunan allan, ymdrechu fel gŵr am gamp, ymdrechu gyda Duw dros ddynion, a chyda dynion dros Dduw, yn gystal ag yn erbyn yr ysbrydion maleisus ag oedd am ei luddias i gyrhaeddyd ei amcanion; a hyn oll, nid yn ol gallu creadur, neu wresogrwydd ei ardymer ei hunan, "ond yn ol ei weithrediad ef," a'r gweithrediad hwnw drachefn yn rhywbeth anghyffredin—"yr hwn sydd

yn gweithio ynof fi yn nerthol." Pwy na fuasai yn dynuno gweled Paul yn y pulpud? O frodyr, a ydym ni ddim yn chwarae ar hyd Cymru yn y dyddiau hyn? A ydyw ysbryd ac amcan pregethu ddim wedi myned yn bethau eraill i fesur mawr yn ein mysgrif? Mae ein hysgrifenwyr a'n pregethwyr yn lliosogi, fe ddichon; ond pwy sydd yn ysgrifenu dan wylo, ac yn rhybuddio â dagrau? Pa le mae y dyn sydd yn gweddïo fwy na mwy, yn treulio ac ymdreulio, a hyny yn ewyllysgar iawn dros eneidiau dynion? Fe gwynir llawer fod pregethu yn aflwyddiannus y dyddiau hyn. Yn aflwyddiannus i ba beth, gyfeillion? Yr ydym yn cyrhaedd, ysgatfydd, gystal â Phaul ei hunan, yr amcanion sydd genym mewn golwg; ac os ychydig sydd yn cael eu hachub, ychydig hefyd, o bosibl, sydd o geisio difrifol at hyny.

Pa fodd bynag, er cymhell i fwy o ddifrifoldeb yn ngwaith y weinidogaeth, ni a drown eich sylw at ychydig bethau, pa rai, tybygem, sydd yn arwyddion o hono, ac yn foddion i'w feithrin yn y meddwl.

1. *Cofwch fod eich gwaith yn fawr ac anhawdd.* Os ydym heb ei brofi felly, heb amcanu yn ddifrifol am ei wneyd yr ydym eto. Mae cynnwysiad eich gweinidogaeth, ac ansawdd meddyliau eich gwrandaŵyr, yn hollol wahanol a gwrthwyneb i'w gilydd. Mae yr efengyl yn eu golygu hwy yn golledig ac euog, yn cymeryd yn ganiatâol eu cwmp a'u llygredigaeth, ac o herwydd hyny yn eu cyfarch fel creaduriaid dan farn Duw. Ei hamcan yw, nid eu diwygio yn unig, ond eu creu o newydd yn Nghrist Iesu. Mae yn llunio codi y creadur sydd yn gaethwas i'w flysiau corfforol, i rodio wrth ffydd—i farweiddio y tueddiadau mwyafrystyfnig, ac i ymwrthod â'r pleserau a gâr, er mwyn hapusrwydd nad oes ganddo ddim blâs arno. Chwi gewch lawer o'ch gwrandaŵyr ar y cyntaf yn rhy swrth neu wammal i dalu un sylw difrifol i'ch cenadwri; ond y fynydd y cyffyrddoch chwi a'u cydwybodau, ac yr ennilloch hwy i graffu ar amcanion yr efengyl, mae eu gelyniaeth yn cynhyrfu i'w chasâu. Ac wedi llwyddo i sefydlu tystiolaeth o bwys eu mater tragwyddol yn eu calonau, gellwch yn hawdd ofyn, mewn pryder wed'yn, Beth fydd y diwedd? Mae lliaws yn erthylu yn y cyfwng rhwng argyhoeddiad a dychweliad; rhai yn dihoeni yn eu hargyhoeddiadau,

a'r lleill yn lle dychwelyd at Grist, yn ymorphwys arnynt, gan olygu y pryder sydd wedi pasio yn wystl o heddwch rhagllaw, tra mae eraill, wrth ymdeimlo yn hollol ddiarchwaeth at yr efengyl, yn oedi ac yn ymgyndynu o dan eu hargraffiadau crefyddol, nes y maent yn treulio ymaith yn hollol o'u meddyliau. O ni a allwn yn rhesymol ofyn, Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn? Pa le y mae y dyn sydd yn meddu ar y ddoethineb anghenrheidiol i adnabod dichellion y diafol, ac i arwain y creadur hurt a gwrthnysig yma heiblio i bob trofa ddinystriol, a thrwy holl diriogaethau y gelyn, yn ddiogel at y Gwardwr?

Fel y deloch chwi i ymdeimlo â phwys y gwaith, chwi a ddeuwch yn daer am eich anfon a'ch cymhwyso iddo gan yr Arglwydd. Duw yn unig a all achub pechaduriaid; ac nid oes dim a fynoch chwi â'r gwaith, fel hyn yn swyddol, oddieithr ei fod ef yn eich galw chwi iddo fel ei offerynau. Yr ydym yn cael, pan y byddai gweision Duw gynt yn cael eu gosod ar waith mawr, y mynent bob sicrwydd ynghylch eu hanfoniad. "Gwna erof fi arwydd mai tydi sydd yn llefaru wrthyf," medd Gideon. "Oni anfonais i dydi?" meddai yr Arglwydd! Do, do; ond y mae y gwaith yn fawr, a minnau yn eiddil; mae arnaf eisieu sicrwydd nad yw y neb sydd yn fy anfon i'w gyflawni neb llai na Duw. Dyma fel yr oedd yr Arglwydd yn gwroli meddwl Moses i ymgymeryd â'r gwaith o ddwyn Israel o'u caethiwed: "Yr ydwyf fi yn dy ddanfon di," medd efe, "ac y mae y weledigaeth fawr hon yn arwydd i ti mai myfi a'th anfonodd." Mae yr Arglwydd yn barod eto i gysuro ei weision yn yr un modd. Ond mae llawer, mae lle i ofni, yn cymeryd eu neillduo i'r weinidogaeth, ac yn pregethu, hwyrach, dros eu hoes, yn ddigon diotal ynghylch y mater. Onid yw hyn i'w briodoli i ysgafnder y meddwl? Marciwch chwi, fel y deloch i ymdeimlo â chyfrifoldeb a phwys y gorchwyl, ac i geisio yn egniol ei gyflawni, heb fod dim yn eich boddloni ond cyrhaeddyd amcan eich gweinidogaeth yn nychweliad pechaduriaid at Grist, a chynnydd ei bobl mewn sancteiddrwydd, na bydd eich meddyliau yn sobri yn union i ofyn, A ydwyf fi wedi fy ngalw i'r gwaith yma? A allaf fi ddysgwyl y bydd Duw gyda mi ynddo o herwydd ei fod yn ceisio hyn oddiar fy llaw? Ac megys ag y daw pwysau y gwaith â chwi yn daer am anfoniad iddo, felly y



daw profi eich anfoniad â chwi yn fwy pwysig yn y gwaith. Mae yn anmhosibl i'r dyn hwnw gellwair â'r weinidogaeth ag sydd yn teimlo bod anghenrhaid wedi ei osod arno, ac mai gwae a fydd iddo oni phregetha yr efengyl. Y dyn ag sydd yn profi fod Duw wedi ymddiried iddo am y gorchwyl, wedi rhoi eneidiau anfarwol i'w ofal, a gwneyd eu gwaredigaeth o drueni, sydd yn dragywyddol fel eu hanfod, yn amcan ei weinidogaeth, gan sicrhâu y bydd iddo wobrwyo ffyddlondeb â llwyddiant, a gofyn gwaed ei wrandäwyr oddiar ddwyllaw yr esgeulus,—nis gall dyn fel hyn, pa fodd bynag, ddim arfer ysgafnder. Mae dan dentasiwn weithiau o bosibl i gyfarch Iesu Grist o barth yr eglwys yn gyffelyb i Martha yn achos ei chwaer, Dywed wrthi am fy helpio. Ond os bydd raid iddo, gyda Paul, fyw trwy lafur ei ddwyllaw, fe ymrodda yn hytrach i fywyd syml ac isel er mwyn gochel ymrwystro gyda negeseuon y byd hwn, a chael y fantais o ymroddi yn llwyrach i weddi a gweinidogaeth y gair. Dyma orchwyl ei fywyd. Mae wedi ymgysegru iddo, ac ymrwymo yn wirfoddol i'w gyflawni ar ddydd ei neillduad, ac fe arswydai ei gymeryd yn ail beth. Gwas ydyw, ac nid gŵr at ei ryddid, i weithio neu beidio fel y gwelo yn dda. Na, mae yr anfoniad yn rhwymedigaeth ar ei gydwybod, ac yn ysfa yn ei ysbryd; ac yn wyneb pob temtasiwn i ysgafnder a segurddod, mae yn dyweyd yn debyg i'w Arglwydd, "Rhaid i mi bregethu teyrnas Dduw i ddinasoedd eraill hefyd, canys i hyn y'm danfonwyd."

2. Er meithrin difrifoldeb yn ngwaith y pulpud, *ymdrechwch i amgyffred gogoniant a phwys eich cenadwri*; pregethu o'r galon yn gystal ag o'r pen; eich enaid, cyn ac wrth draddodi y gwirionedd, o dan yr effeithiau ag y mae dirnadaeth o'i ystyr yn sicr o gynnrychu.

Mae mater eich gweinidogaeth yn bwysig iawn. Yr oedd amgyffred ystyr y gweledigaethau am y byd bychan hwn yn taro meddyliau Daniel â dychryn a syndra. Ond beth yw hyny, frodyr, wrth gynnwysiad y breuddwyd sydd genych chwi i'w ddeongli i'ch gwrandäwyr? Yma y mae eich amgyffred yn ymagor ar fyd yn gorwedd mewn drygioni, ac ar drefn ryfedd i'w adferu yn ol at Dduw. Chwi ellwch weled ynddo eich gwrandäwyr annuwiol yn meirw, ac yn ymddangos yn euog o flaen brawdle Crist; yn myned gyda y ddedfryd, "Ewch ymaith

oddiwrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barotöwyd i ddiabol ac i'w angylion." Mae y drychfeddwl yn ddifrifol: yno ni a ddychymygn, tra buoch chwi yn rhifo y tywod mân, neu yn cario y ddaear mesur y llwchyn i ddiddymdra, a dim ond dechre dyoddef pan oeddych chwi yn darfod! O mor gyffredin y soniwn ni am dragywyddoldeb! Eto dyma y byd y mae ein gwrandäwyr a'n plant â'u hwynebaw arno, ie, a'n hachos penaf ni ein hunain yn ymestyn iddo i hydroedd diderfynau. Cofiwch, frodyr, yr effaith sydd gan eiriau wrth eu hir arfer i guddio eu hystyr oddiwrth y meddwl; ac yn lle difyru eich hunain wrth sain yr ymadroddion, ewch i mewn at eu hysbryd hwy; mynwch deimlo y tân sydd ynddynt, a gweddïwch gyda'r Salmydd, "Dadguddia fy llygaid fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di." Pregethwr da, ond odid, fydd hwnw ag y mae ei fyfyrdodau yn arfer llonyddu uwch ben y Bibl; y gwirionedd, fel breuddwyd Nebuchodonosor i Daniel, yn ymagor yn ei bwys a'i ryfeddodau ger bron ei feddwl, ac yntau wrth syllu ar ei gynnwysiad yn cyffroi i lefaru wrth ei wrandäwyr. Os na bydd y meddwl fel hyn wedi meddiannu ysbryd cyffelybiaethau y gair, ni wna chware ar eiriau y gymhariaeth ateb ond ychydig o ddyben. O eisieu mwy o'r amgyffred yma i wneyd y meddwl yn ddifrifol, yr ydym weithiau, wrth son am gosb pechod yn y byd a ddaw, a thrin y cymhariaethau trwy ba rai mae yn cael ei dangos, yn syrthio i fwgwth y tân a'r brwmstan ar yr annuwiol mewn dull rhy gyffredin, ac weithiau rhy haerllug, ac yn sicr o fethu yn ein hamcan o wneyd argraff ar feddyliau ein gwrandäwyr. Pan y byddom ni yn ymddangos fel yn gyffröus, maent hwy yn cysgu; yn fwy diddychryn eu meddyliau nag y bu yr ofergoelus lawer tro wrth glywed cruglais yr aderyn. Nid oes neb yn teimlo oddieithr y myfyrgar difrifddwys yn y gornel draw, yr hwn sydd yn dirgel arswydo wrth graffu mor gyffredin y gall dynion, trwy ymgynnefindra â geiriau a dammegion y Bibl, ddyweyd a gwrandaw am eu trueni tragywyddol eu hunain. Ah! nid ein hegni corfforol a gyrhaedd y gydwybod. Os byth y disgyn y rhan hon o'n cenadwri o'n genau gyda phwys dyladwy ar ein gwrandäwyr, fe fydd, pan y gwelont hwy ein hysbryd, fel cwmwl yn hollti tanî, a'n tafod yn ei hadrodd gyda llef ddrylliog, ac â gwefus grynedig.

Dwysder yn codi oddiar amgyffred ydyw dirgelwch, bywyd, ac effeithiolrwydd y pulpud. Os bydd yr ansawdd hon ar eich calonau, chwi a wylwch rhag pob ysgafnder mewn ysbryd a dull. Fe fydd y meddwl yn marweiddio yn raddol i'r ffraeth ddywed-iadau gweigion, ystumiau y chwareufwrdd, a'r araeth chwyddedig ac amleiriog. Fe fydd amcan difrifol i bob pregeth, a'r meddwl yn ddifrifol yn cyrchu ato. Er cynnyddu yn hyn, meithrinwch ysbryd defosiynol, rhodiwch gyda Duw, a chofiwch yn aml am y dydd y byddwch chwi a'ch gwrandawyr yn cydgyfarfod ger bron brawdle Crist.

3. *Amaethwch ymddibyniad ar yr Ysbryd Glân.* Ac os byddwch chwi yn ceisio yn onest at ddyben eich swydd, yr ydych yn ddigon sicr o wneuthur hyny hefyd. Chwi ellwch bregethu i ddybenion hunanol, cadw y cylch, a bwrw yr amser heibio, yn gwbl ddiar am ei gymhorth; ond y fynydd y ceisiwch chwi yn ddifrifol at wneyd lles i bechaduriad, pa un bynag ai yn y pulpud, ai drwy ymddyddanion personol, chwi a deimlwch eich anghen am ei help ef. Ni fedrwy chwi wneuthur dim yn effeithiol gyda'r cystuddiedig yn yr ystafell, dim yn y teulu gartref, dim gyda'r plant bychain yn yr Ysgolion Sabbothol, mwy nag yn y cylchoedd mwyaf cyhoeddus, heb fod yn yr Ysbryd Glân. Mae y llwyddiant i gyd yn cael ei briodoli iddo ef yn y Bibl. Os darfu y dysgyblion lwyddo i gael lliaws i gredu a throi at yr Arglwydd yn Antiochia, llaw yr Arglwydd gyda hwy a barodd hyny. Os oedd Paul yn planu, ac Apolos yn dyfrhâu i ryw bwrpas, yr oedd hyny hefyd am fod Duw yn rhoddi y cynnydd. Fe fyddai ein tadau, chwi a wyddoch, yn britho eu pregethau âg eirchion byrion am yr Ysbryd Glân. Ac er fod perygl fod hyny bellach, fel yr Amen sydd yn adsain iddo oddiwrth y gwrandawyr, yn dechre myned yn acen ffurfiol, yn rhywbeth a wneir fel defod, neu i gyflawni gwall ymadrodd, yn fwy nag oddiar wresogrwydd y galon, eto ni a allwn ddywedyd, "O'r dechreuad nid felly yr oedd." Pa un bynag ai priodol ai peidio ydyw hyny mewn pregeth, llawer ochenaid ddwys, yr ydym yn cwbl gredu, a arllwyswyd allan yn y ffordd yma rhwng mynyddoedd a bryniau Cymru.

Cofiwch chwithau, frodyr, nad ydych ond offerynau, ac na ddichon yr offeryn ddim heb i'r llaw Hollalluog ei ddefnyddio,

Gwylwch, yn herwydd fod y Gweithydd mawr yn anweledig, a chwithau yn cael eich galw i ymagnïo gyda moddion gweledig ac allanol, rhag anghofio ymddibynu arno yn wastadol. Cofiwch hyny yn ddwys, cofiwch ef yn ymarferol, cofiwch ef yn y llyfrgell, cofiwch ef yn y pulpud. Gorchymynwch eich hunain i ddwyllaw yr Ysbryd wrth ddechre y ddyledswydd. Ymddiriedwch iddo am ddal eich amcan at yr iawn nôd, a chadw eich ysbryd mewn iawn ansawdd, nerthu eich cof yn ei air, a llewyrchu ar ei gynnwysiad i'ch meddyliau, nes drwy hyny y byddo eich serchiadau o dan effeithiau grymus y gwirionedd wrth ei draddodi. Chwi ellwch fod yn sicr, fel y sylwa un gŵr, y rhydd y dymher hon yn yr areithfa i'r iaith floesg, a'r gwirioneddau mwyaf cynnefn, fwy o awdurdod ac effaith ar y galon nag a ddichon y syniadau mwyaf gwreiddiol a bywiog gael heb fod ynddi. Chwi fyddwch yn llefaru "yn yr Ysbryd Glân," a'ch gwrandawr yn gorfod cydnabod fod Duw yn wir ynoch.

Fel hiliogaeth diwygiad, yr ydym ni, chwi a wyddoch, heb anghofio dulliau y rhai oedd yn llefaru gydag awdurdod o'r pulpud; ond y perygl yw cadw y dull a cholli y peth; oblegid yna, nid yn unig fe fydd hyny yn hollol ofer, ond y mae ffugio hwyliu uchel gyda chalon oer a theinladau digynhwrf, yn sicr o fyned yn fwyfwy anghymeradwy fel y bo ein gwrandawr yn cynnyddu mewn craffder a gwybodaeth. I ddwysder ysbryd yr hen ddiwygwyr Cymreig, yr oedd grym ac effeithiolrwydd eu gweinidogaeth i'w briodoli, a hyny drachefn, i'w gwaith yn gweled pethau fel y maent.

Pe baem ni ddim ond cofio ein teimladau ein hunain wrth wely ambell ddyn duwiol yn marw, ni a allem weled mai llefaru mewn goleuni a chariad am bethau Duw sydd yn roddi awdurdod iddynt ar y gwrandawr. Nid oes yno, chwi a wyddoch, ddim addurniadau areithyddol, cywreinrwydd cyfansoddiad, na grym llais. Ond y mae yno fydd, a hono weithian ar droi yn olwg, ac yn cynnyrchu llawenydd annhraethadwy a gogoneddus yn y galon. Ac y mae llefaru yn yr ansawdd yma, er yn floesg ac isel, yn eich dwyn mor hollol dan awdurdod eu lleferydd, ac yn creu y fath effeithiau tyner yn eich mynwes, na fedr holl ymdrech dynol a chelfyddgar y pulpud byth ei gyrhaeddyd. Dyna y pryd, frodyr, y cariwn ninnau fwy o oruchafiaeth ar ein gwrandä-



wyr : pan y byddom, wedi ein llenwi â'r Ysbryd Glân, yn gweled ac yn teimlo yn fwy cyffelyb i ddyinion ar hiniog y byd mawr, ac yn llefaru fel creaduriaid marwol wrth farwolion.

Ymhellach, mae ymgais difrifol at amcan eich gweinidogaeth yn sicr o'ch dysgu, i ryw fesur, i *bregethu yr holl* air, a *phegethu hefyd yn ymarferol a chymhwysiadol*. Nid anhawdd, dybygem, ydyw roddi rheswm am hyny. Fe'ch arweinir yn naturiol, gan yr awydd am wneyd lles i bechaduriaid, i astudio ansawdd eu meddyliau, ac i fwrw golwg dros eu hamgylchiadau penodol; a chwi a ganfyddwch yn ebrwydd fod yr amrywiaeth sy'n hanfodi yn eu mysg yn galw am bob gwirionedd, ac am bob dull gwahanol o ymdrin â'r gwirionedd, er ei ddwyn yn effeithiol at eu calonau. Mae rhai o'ch gwrandawyr yn ieuainc, a'r lleill yn hen mewn dyddiau. Maent yn wahanol o ran tymher, grym eu cynneddfau, a'u hamgylchiadau bydol. A thrwy y pethau hyn, a'r temtasiynau neillduol sy'n eu canlyn, mae llygredigaeth cyffredin ein natur yn ymddangos o dan y fath amrywiaeth arwyddion, ac yn tori allan megys yn gynnifer o glefydau gwahanol, fel ag y mae pob cyfarwyddyd a gynnwys meddyglyfr y nef yn anghenrheidiol i wrthweithio yr afiechyd, a phob doethineb gyfatebol i amrywiaeth yr anhwylderau yn ofynol i'w cymhwyso. Mae y pregethwr doeth, gan hyny, â'i lygad yn ei ben; a thrwy graffu ar ansawdd ei wrandawyr, mae yn dwyn y peth sydd yn eisieu at eu meddyliau. Mae ei ddifrifwch ef yn ei ddysgu i ymwrthod â'r dull anmhenodol hwnw o ymdrin â'r gwirionedd, pa un, tra mae yn dangos y pregethwr heb un amcan neillduol o flaen ei feddwl, sy'n gadael y gwrandawr yntau, heb ddim i'w gymhwyso ato ei hun. I'r gwrthwyneb, mae efe, drwy graffu ar y gwahanol ddosbarthiadau ymysg ei wrandawyr, yn ymdrechu i iawn gyfranu gair y gwirionedd; mae yn dwyn allan o hono, nid yn unig yr hyn sydd dda a sylweddol, ond hefyd yr hyn sydd gymhwys ac anghenrheidiol i'r rhai y mae yn pregethu iddynt.

Heb fanylu yn y pulpud cân belled ag i wneyd eich cyfarchiadau yn bersonol, ni a'ch cymhellem i ymgais yn ddifrifol at ddwyn y cyflwr a'r cymeriad ger bron llygad y gydwybod, i ddadguddio i ddyinion ddirgelion eu calonau, modd y byddo eich gweinidogaeth, fel hyn, drwy eglurhâd y gwirionedd, yn foddion i argyhoeddi eich gwrandawyr, ac i wneyd barn arnynt am eu



pechodau yn eu mynwes eu hunain. Ar yr un pryd, pregethwch yn obeithiol. Cofiwch droi wyneb y pechadur argyhoeddedig yn wastad at Grist. Cymhellwch ef, yn lle diystyru dydd y pethau bychain, i wrando llais Duw yn ei gydwybod, ac i ddychwelyd ato yn y Gwardwr, heb betruso ar yr un amser i'w rybuddio yn ffyddlawn am yr anghenrheidrwydd o ddyfal wyliaeth yn erbyn pechod, ac ymroddiad i fywyd o ufudd-dod.

Chwi a gofiwch fod yn yr eglwysi ddyinion o bob math: rhai wedi credu, a rhai a dim ond argyhoeddiadau, neu fagwriaeth grefyddol, yn wreiddyn eu proffes; rhai mewn ansawdd obeithiol, a rhai mewn ystâd ammhëus a gwrthgiledig; pob un â'i achos tragwyddol ar y chware, a hwnw yn awr, o bosibl, ar droi ryw ffordd neu gilydd. O Fugail Israel, dysg yr îs-fugeiliaid pa fodd i drin y praidd! Mae perygl ar bob llaw. Nid yw yn anmhosibl i ni yn ein gweinidogaeth, neu yn ein hymddyddanion eglwysig, lônî y drygionus a thristâu calon y cyfawn; cryfhâu breichiau y diorchwyliaeth, tra mae yr enaid sy'n dechre ymofyn am Dduw yn cael ei ddiagonaloni a'i droi allan o'r ffordd. Mae eisieu cydnabyddiaeth mawr âg ansawdd yr eglwysi, a doethineb mawr i lefaru gair yn ei amser wrth eu heneidiau, i rybuddio yr afreolus, ac i ddyddanu y gwan eu meddwl, i ddwyn ar gof i'r cristion temtiedig seiliau diymmod ei iachawdwriaeth, ac i'w gryfhâu yn ei ymdrech yn erbyn pechod, trwy ei alw i ymnerthu yn y gras sydd yn Nghrist Iesu, a thrwy ddangos iddo fod ei fywyd yn ddiogel, a'i fuddugoliaeth yn sicr. Ac o'r ochr arall, nid llai o ffyddlondeb a thynwch sydd yn anghenrheidiol i gymhwyso bygythion yr efengyl at gydwybod y swrth a'r adfeiledig, i rybuddio proffeswyr ymollyngar rhag ymddiried i'w cychwyniad gobeithiol gyda chrefydd, a'u hannog, pa beth bynag a gyrhaeddasant eisoes, i fod yn ddiwyd i wneyd eu galwedigaeth a'u hetholedigaeth yn sicr, ac i wylîo rhag drwy ddiolfalwch a segurddod syrthio yn fyr o ras Duw, a thynu yn ol i golledigaeth yr enaid. Pwy yn fwy sicr na Paul o ddiogelwch credinwyr? ac eto pwy yn fwy egnîol i gadw proffeswyr rhag dinystrîo eu hunain? Wele efe yn eu hesgor drachefn, eu rhybuddio â dagrau, a'u galw, nid yn unig y rhai na wyddid pa un oeddynt yn credu ai peidio, ond i gyd gyda'u gilydd, i ofni rhag bod neb o honynt yn debyg o fod yn

ol! Esgeuluso y mater hwn yn y weinidogaeth, frodyr, fyddai esgeuluso un o wirioneddau amlwg y Bibl, ac attal oddiwrth eneidiau eich gwrandawyr un o'r moddion mwyaf priodol i ddwyn yr argyhoeddedig drosodd i ystâd o ras, yn gystal a chadw y cristion yn yr ymdrech appwyntiedig ac angheurheidol i'w arosiad yn Nghrist, a'i barhâd hyd y diwedd.

Ni a allwn fod yn sicr hefyd, fel y byddo eich duwiol ddifrifwch yn cynnyddu, ac achos eneidiau yn dyfod yn fwyfwy gorphwysedig ar eich meddyliau, y byddwch chwi o ryw wasanaeth i'r eglwys, heblaw yn y cylchoedd cyhoeddus. Mae gwir ysbryd y weinidogaeth yn tori allan i ryw fesur i'w holl ddyledswyddau hi. Fe ddichon fod rhai o honynt yn fwy croes i dymher naturiol ac arferion y dyn na'u gilydd; er hyny nid yw y gweinidog ffyddlawn yn esgeuluso yr un o honynt yn hollol. Zel hunanol, ond odid, yw hono ag sydd yn diffodd, fel lampau yr addoldŷ, gydag y byddo yr ymarferiad cyhoeddus drosodd, a'r pregethwr i lawr o'r areithfa. Mae gan hwnw achos mawr i ofni nad yw y gras yn yr hwn y mae yn dysgleirio, serch ei fod yn ei wneyd yn boblogaidd yn y pulpud, ddim amgen na ffrwyth goleuni cyffredinol yr Ysbryd, os rhywbeth wrtho ei hun ac yn llewyrchu yn unig mewn rhyw un ffordd ydyw, ac yn gadael y dyn yn ddiffrwyth mewn grasau, dyledswyddau, a chylchoedd eraill. Na, mae dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio "i bob gweithred dda." Mae ysbryd y gwir fugail yn gweithio mewn cariad, gofal a chydymdeimlad â'r praidd. Mae yn meddwl am danynt ar ei ben ei hunan, ac yn dwyn eu henwau ar ei galon yn ei weddïau dirgel a theuluaidd at orseddfainc y gras. Ymdrecha i adnabod eu dyddiau, a'r amseroedd sydd yn myned trostynt. A thrwy dyner gydymdeimlad, mae yn dyddanu y trallodedig, ac yn ymweled â'r cystuddiol, ac yn rhybuddio yn ffyddlawn a charedig y neb sydd yn cyfeiliorni oddiwrth y gwirionedd. Os bydd rhyw un o'i gyfeillion mewn amgylchiadau mwy neillduol na'u gilydd, mae hwnw yn cael lle neillduol ar ei feddwl yntau. Pwy sydd wan nad yw yntau wan? pwy sydd yn tramgwyddo nad yw yntau yn llosgi?

Os nad dyma y peth ydym, frodyr, dyma y peth a ddylem fod. Dyma yr ysbryd yr ydych chwi heddyw yn ymrwymo i'w feithrin—y gwaith yr ydych yn ymroddi i'w gyflawni.

Goddefwch i ni, wrth ddiweddu, eich annog i beidio ymorphwys ar yr alwad eglwysig hon yn unig i'r weinidogaeth; ond mynwch brofi yn aml fod Duw yn eich awdurdodi i bregethu trwy ei bresenoldeb gyda chwi yn y gwaith. Ar yr un pryd, cofiwch nad cellwair yr oeddid yma heddyw. Nid oes un ffordd i'r mwyaf ei dalentau ddyfod yn rheolaidd i'r weinidogaeth ond trwy alwad yr eglwys. Mae Paul yn galw gwaith yr esgob yn *swydd*; gwaith swydd ydyw; ac os felly, nid oes gan neb, pa mor gymhwys bynag, awdurdod i ymaflyd ynddo ond sydd ynddi; a chan nad oes neb yn hon, mwy na rhyw swydd arall, wrth naturiaeth, mae yn rhaid fod gosodiad ynddi yn anghenrheidiol. Mae Crist, yr hwn a sefydlodd y swydd, ac sydd yn cymhwyso dynion i'w gweinyddu, wedi ordeinio hefyd i'w eglwys alw a neillduo y cyfryw yn ei enw i'r swydd hono. Dyma ordin-hâd y Goruchaf, a dymunem fod llewyrch ei wyneb gyda'r cyflawniad o honi yn selio i'ch eneidiau y dydd hwn eich galwad i'r weinidogaeth ganddo ef ei hun. Yr un modd yr ydym yn dymuno ar fod i deimlad o'r rhwymedigaethau pwysig, pa rai a gymerasoch yn wirfoddol arnoch eich hunain heddyw, ger bron Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist, a'r etholedig angylion, gael ei gadw yn fyw yn eich mynwesau tra byddoch ar y ddaear. Amen.

## CREFYDD BERSONOL YN SAIL DEFNYDDIOLDEB GWEINIDOGAETHOL.

CYNGHOR A DRADDODWYD AR ORDEINIAD NIFER O  
WEINIDOGION.\*

PSALM li. 13: "Yna y dysgaf dy ffyrdd i rai anwir, a phechaduriaid a droir atat."

**R**HYWBETH lled chwith i'm teimladau i ydyw ceisio pregethu fel hyn i ychydig o bersonau yn nghanol lliaws o'u cydbechaduriaid, ac mi a ddymunwn yn hytrach allu dyweyd gair a dueddai i fuddioldeb cyffredinol. Mewn rhyw ystyr yr ydych oll yn bregethwyr; o leiaf, chwi a ddylech fod felly. Mae troi pechadur oddiwrth gyfeiliorni ei ffordd, er nad oes canlyniad llai iddo na chadw enaid rhag angeu, a chuddio lliaws o bechodau, yn cael ei adael yn y Bibl, chwi a wyddoch, i ryw un a'i gwnelo. Y gorchymyn Dwyfol i'r saint yn ddiwahaniaeth ydyw, "Cynghorwch eich gilydd bob dydd tra y gelwir hi heddyw, fel na chaleder neb o honoch trwy dwyll pechod." Mae yn wir, gan fod y weinidogaeth yn swydd eglwysig, nas gall fod yn agored i bawb yn yr eglwys fel eu gilydd. Mae yn gofyn galwedigaeth a neillduad iddi, mewn trefn i gyflawni ei dyledswyddau yn rheolaidd; ac, fel y sylwa Calvin, nid yw afreolaeth mewn dim yn fwy peryglus nag yn y mater yma. Ar yr un pryd, mae

\* Traddodwyd y Cynghor hwn yn Nghymdeithasfa Treffynnon, Mehefin 9, 1863, ar ordeiniad y brodyr parchedig William Jones, Llanberis; William Rowlands, Cefn y waen; a John Jones, Aberkin y pryd hwnw, ond Pwllheli yn awr,—y tri o Sir Gaernarfon; John Hughes Symond, y pryd hwnw o Wrecsam, ond yn awr o Dowyn Meirionydd; John Foulkes, o Saron gerllaw Treffynnon y pryd hwnw, ond yn awr o Liverpool; a Lewis Ellis, y pryd hwnw o Runcorn, ond yn awr o Ruddlan.

gwaith i bob dosbarth yn yr eglwys. Ac mewn trefn i'w gyflawni yn effeithiol, mae yn rhaid i bawb o honom gael yr un grefydd, a graddau o'r un ysbrydolrwydd meddwl, ag a wna ddyn yn effeithiol fel gweinidog yr efengyl. Tra y byddom ni gan hyny yn cyfeirio gair yn bresennol at un dosbarth neillduol, sef gweinidogion yr efengyl, ni a obeithiwn y bydd i'r Arglwydd ei fendithio, nid iddynt hwy yn unig, ond i bawb hefyd ag sydd yn cydymdrech â hwy o blaid ffydd yr efengyl, ac yn enwedig i benau teuluoedd, blaenoriaid ein heglwysi, ac athrawon ein Hysgolion Sabbothol.

Oddiw'rth y salm hon, ynghyd a'r geiriau a ddarllenasom o honi, ni a seiliwn hyn o gynghor ar y sylw canlynol :—

FOD RHYW GYSYLLTIAD SICR A NEILLDUOL RHWNG EIN CREFYDD, AC ANSAWDD EIN HENEIDIAU MEWN CREFYDD, A'N DEFNYDDIOLDEB YMHOE SEFYLLFA, AC YN NEILLDUOL A'N HEFFEITHIOLRWYDD A'N LLWYDDIANT FEL GWEINIDOGION YR EFENGYL. “Yna,” medd y Salmydd—hyny yw, wedi cael yr adferiad a'r ymgeledd ag y mae yn gweddio am danynt yn y salm hon,—“*yna*,” ac nid heb hyny, “y dysgaf dy ffyrdd i rai anwir, a phechaduriaid a droir atat.”

Mae wedi cael ei ddyweyd ganwaith yn ein Cymanfäoedd, ac y mae mwy o anghen, ond odid, ei ddyweyd ef heddyw nag erioed o'r blaen, fod duwioldeb yn un elfen anheborol i weinidogaeth yr efengyl. Yn wir, y mae rheswm ei hunan yn dysgu hyny. A ddichon gelyn Duw, fy mrodyr, fod yn offeryn i ddwyn eraill i gymmod âg ef? A ddichon y marw genedlu plant i'r Arglwydd? Ni chais y dyn anianol byth yn ddfrifol at y fath amcan, o leiaf gyda dim parhâd; a pha beth bynag a wna Duw drwyddo ef yn achlysurol, ni a allwn fod yn sicr na bydd dim gweinidogaeth yn hir, na dim o ddybenion y weinidogaeth yn cael eu cyrhaeddyd, lle na byddo gwir dduwioldeb. “Wrth yr annuwiol y dywedodd Duw,” bydded ef byth mor ddysgedig a dawnus, a byth mor reolaidd ei urddiad i'w swydd,—“wrth yr annuwiol y dywedodd Duw, Beth sydd i ti a fynegech ar fy neddfau, neu a gymerech ar fy nghyfammmod yn dy enau, gan dy fod yn casâu addysg, ac yn taflu fy ngeiriau i'th ol? Nid oes i ti na rhan na chyfran yn y gorchwyl hwn; canys nid yw dy galon di yn uniawn ger bron Duw.” Ac nid dyna'r



cwbl, fy mrodyr, ond y mae rhyw gysylltiad, dybygid, rhwng effeithiolrwydd a llwyddiant ein gweinidogaeth â *graddau neu ansawdd ein henaid mewn crefydd a duwioldeb*. Chwi a gewch y bydd eich gweinidogaeth yn myned i lawr neu i fyny yn ol fel y byddo crefydd yn eich hysbryd. Os adfeilia hon, hithau hefyd a adfeilia. Cyhyd ag y byddo eich myfyrdodau yn ysbrydol, a'ch eneidiau yn agos at yr Arglwydd, chwi a ellwch obeithio gwneyd rhyw ddaioni; ond os aiff eich calonau yn amharus—os caiff eich crefydd bersonol glwyf, pa un bynag ai drwy adfeiliad dirgel a graddol, ai ynte drwy gwympiadau mwy amlwg—bydd yn sicr o ddyweyd arnoch chwi yn y pulpud. Os bydd dim o'r ysbrydol yn ngweinidogaeth dyn, mae pechod yn sicr o beri amhariaeth i hwnw. Gall y pregethwr ymwenieithio iddo ei hun, a dywedyd yn debyg i Samson, “ Af allan y waith hon fel cynt, ac ymysgydwaf,” ond fe gaiff brofi bod yr Arglwydd wedi cilio oddiwrtho: ni bydd yno ddim mewn ymarferiad ond y galluoedd naturiol a chorfforol. Mae y gŵr ag oedd unwaith yn nerthol yn y pulpud wedi gwanychu a dyfod fel gŵr arall. O fy mrodyr, rhaid adnewyddu eich comisiwn yn aml trwy adnewyddiad eich eneidiau mewn crefydd, ac onidê, chwi a ewch mor amddifad o weinidogaeth â neb o'ch gwrandawyr. Nid hyny o ras ag a ddiogela eich cadwedigaeth a ddiogela eich defnyddioldeb. Fe all y dyn fod yn fyw, ac eto yn rhy nychlyd i weithio; mae eisieu iechyd a nerth i fod yn ddefnyddiol.

Yr oedd y dysgyblion yn dduwiol, ni a allem feddwl, pan yn ymddadleu â'u gilydd pwy a fyddai fwyaf, ond nid yn ddigon duwiol ac ysbrydol i waith dydd y Pentecost, ac i lenwi gwledydd y byd â'r efengyl. Yr oedd yn rhaid eu troi hwy o'r gwyniau hunanol hyny, a'u gwneyd yn ddyinion o egwyddorion ac ysbryd cwbl wahanol, cyn y gallasant, er bod yn dduwiol, fyned i mewn i deyrnas nefoedd yn ei gwaith na'i gwobr. Yr oedd Pedr yn dduwiol; ond ar ol ei gwmp, er nad oedd ei ffydd wedi ei chwbl ddinystrio ynddo, yr oedd yn rhaid ei droi ef drachefn, trwsio ac adnewyddu ei ysbryd, er ei gymhwyso i gadarnhâu a chysuro ei frodyr mewn profedigaethau. A'r un modd Dafydd yma: mae yr holl salm yn dangos ei fod yn teimlo nas gallasai fod yn offeryn effeithiol i droi eraill at Dduw, heb ryw dro mawr ar ei ysbryd ei hunan yn gyntaf. Nid oedd

bod yr Arglwydd yn Dduw iddo o groth ei fam, ac wedi ei ddysgu ef o'i ieuencyd, a'i nerthu am flynyddoedd i fynegu ei ryfeddodau, ddim yn ddigon erbyn heddyw. Yr oedd eisieu adferiad trwyadl at Dduw, trwy faddeuant ac adnewyddiad ysbryd, mewn trefn i fod yn ddefnyddiol. Peth anhawdd, ond anhebgorol i'n llwyddiant yn y weinidogaeth, yw cadw ein calonau mewn iawn ansawdd. "Paham nad allem ni ei fwrw ef allan?" meddai y dysgyblion gynt. Ac hwyrach y gallai rhai o honom ninnau ofyn yn gyffelyb—Paham nad allem ni bregethu mor nerthol, a bod mor lwyddiannus ac effeithiol i ddarostwng annuwioldeb ein gwlad, ag y bu ein tadau yn eu dyddiau hwy? Ah! nid graddau cyffredin, hyd yn nôd o wir grefydd, sydd yn ddigonol i hyn. Mae yn gofyn ympryd a gweddi—hyny yw, cymundeb cyson ac arbenig â Duw, ynghyd a'r bywyd a'r nerth sydd yn deilliaw o hyny, i'n galluogi i geryddu annuwioldeb ein hoes yn effeithiol, ac i'w fwrw ef allan o ysbrydoedd dynion yn ei holl rywogaethau ystyfnig.

Ond caniatewch i ni ymhellach sylwi ychydig ar *ansawdd ysbryd* Dafydd yn y salm hon—y bendithion y mae yn dyheu am danynt, ac yn y mwynhâd o ba rai y mae yn lyderu bod o fendith i eraill. A chofiwn mai dynion o'r un ysbryd sydd yn eisieu eto.

Y peth cyntaf i'w nodi yn ysbryd y Salmydd ydyw ei *edifeirwch am ei bechodau*: "Yr ydwyf yn cydnabod fy nghamweddau, a'm pechod sydd yn wastad ger fy mron. Yn dy erbyn di, dydi dy hunan, y pechais, ac y gwnaethum y drwg hwn yn dy olwg, fel y'th gyfiawnhâer pan leferych, ac y byddit bur pan farnech." Dyma beth na fedrodd llawer *pregethwr* wedi syrthio mo'i ddyweyd yn galonog, "Yr ydwyf yn cydnabod fy nghamweddau." Ond yn wir lle nad yw hyn yn yr ysbryd, mae adferiad dynion o bechodau mawrion yn beth pur amheus o ran ei wirionedd. Ac o eisieu yr ansawdd yma, yr ydym yn cyfarfod, medd Dr. Owen, â chynifer o feddyginiaethau arwynebol oddiwrth bechodau mawrion, a'r rhai hyny yn cael eu dilyn gan adgwympiadau dychrynlyd a pheryglus. O lygredigaeth gwreiddiol ei natur, a chamweddau cyffredin ei fywyd, i lawr hyd at ei gwymp mwyaf erchyll, mae Dafydd yma yn eu cydnabod hwy oll yn rhydd, a hyny, fel y mae yn amlwg, gyda dwfn

argyhoeddiad o'u drwg, a galar duwiol o'u herwydd. Ië, yr unig aberth a allasai ddangos i Dduw, wrth gyfaddef ei bechodau, ydoedd calon ddrylliog ac ysbryd cystuddiedig. Nid edrych ar ei bechod yn unig fel anffawd iddo ei hun y mae pechadur edifeiriol; nid wylo yn unig o herwydd y canlyniadau sydd iddo —cydymdeimlo â'i ofid, a thosturio wrtho ei hunan. Na, ond ei bechod yw achos ei ofid ef, a rhyw elfen neillduol yn hwnw hefyd, sef ei bechadurusrwydd a'i fawr ddrwg fel y mae yn bechod yn erbyn Duw. Nid oes yma ddim ymesgusodi, chwi a wyddoch; dim achwyn ar yr achlysuron, a'r temtasiynau oddi-allan; i'r gwrthwyneb, "Myfi a bechais" yw dwfn deimlad y galon. Efe ei hun, ac efe yn unig, oedd cydwybod y Salmydd yn ddal yn gyfrifol am ei bechodau. Glynent wrtho fel ei hanfod; ac megys baich trwm, yr oeddynt yn rhy drwm iddo ef. Arllwysiad o honynt, mewn cyfaddefiad hunan-gondemniol ac wylofus, i fynwes rasol y Maddeuwr, yn unig oedd yn dwyn esmwythâd i'w gydwybod. Fel hyn yr adferwyd Dafydd i gysur a defnyddioldeb. Ac yn wir, fy mrodyr, goreu po amlaf y byddo genych chwithau eich salm edifeiriol. Mae edifeirwch, yr ydych yn gwybod, i fod yn bwnc mawr yn eich gweinidogaeth; ac oddieithr i chwi gael eich gwneyd a'ch cadw yn ddynion edifeiriol eich hunain, bydd yn anhosibl i chwi bregethu edifeirwch yn effeithiol i ddynion eraill. Cofiwch nad yw meddu yr egwyddor o hono ddim yn ddigon; ond yn y fuchedd druenus ac amherffaith hon, fe ddylai fod yn wastad mewn ymarferiad, fel dyfroedd bywiol, bob amser yn ffrydio trwy eich hysbryd, ac yn nawseiddio eich dyledswyddau; ac, ond odid, na chyfarfyddwch âg amgylchiadau pryd y dylai fod fel yr afon pan yn llifo dros ei glânau. Meddyliwch am amseroedd o gyfnewidiadau pwysig yn eich bywyd, tymmorau diffrywth ar eich hysbryd neu ar eich gweinidogaeth; ië, fy mrodyr, nid anhosibl ydyw i chwi gael eich hunain eto, cyn myned o'r byd, wedi eich bradychu i ryw amryfusedd neillduol, neu yn cael eich bliro gan ryw dueddiad llygredig, ag a fydd beunydd yn llithio eich serchiadau, ac yn barod i'ch dwyn yn gaeth. Ac yn ddiammheu, pan y mae pethau o'r fath yn dygwydd i ddyn yn ei yrfa grefyddol, mae galwad neillduol ar yr enaid hwnw i edifeirwch; ac nid oes dim arall a ddaw â meddyginiaeth iddo. Ffydd yn unig sydd

yn puro y galon; ac ar achlysuron fel hyn, mae ffydd yn gwneuthur hyny trwy adferu a chadw yr enaid mewn ystâd arbenig o edifeirwch, o leiaf mae yn ei gadw i ymgais at hyny. Mi a ddarllenais am un hen weinidog, pan ar ei glaf wely, yr hwn a ddymunai, medd yr hanes, gael llon'd ei fol o edifeirwch cyn marw, gan na byddai edifarhâu yn y nefoedd. Cadwed Duw ninnau yn yr ansawdd fendigedig hon! "Ar hwn yr edrychaf, medd yr Arglwydd, sef ar y truan a'r cystuddiedig o ysbryd, ac sydd yn crynu wrth fy ngair." Mae yn sicr i chwi, fy mrodyr, mai arogl esmwyth i Dduw a dynion ar eich gweinidogaeth, fydd arogl dyfroedd edifeirwch; fe gyfyd rhywbeth gwell na brwynen allan o'r gwlybaniaeth yma.

Ond y peth nesaf y mae y Salmydd yn ei ddymuno, yn gystal er bod yn ddefnyddiol â bod yn gadwedig, ydyw *maddeuant o'i bechodau*. "Cuddia dy wyneb oddiwrth fy mhechodau, a dilêa fy holl anwireddau. Glanhâ fi âg isop, a mi a lanhëir; golch fi, a byddaf wynach na'r eira. Yna y dysgaf dy ffyrdd i rai anwir." Maddeuant, a threfn y maddeuant, ydyw unig sail pob gwasanaeth o eiddo pechadur i Dduw—dirgelwch ei ysbryd a'i rym yn y cyflawniad o hono. Wedi i chwi gael eich gweithio yn gyntaf fel pechaduriaid edifeiriol i dderbyn y cymmod, a chael eich dwyn felly o ddyfnderoedd euogrwydd a chondemniad i heidwch a chymundeb â Duw trwy haeddiant y Gwardwr, byddwch mewn cyflwr ac ansawdd gymhwys—os yr Arglwydd a'i myn—i dderbyn gweinidogaeth y cymmod, ac yn rymus i'w chyhoeddi; ac un o'r arwyddion goreu, o bosibl, a ddichon fod o'n galwad i'r weinidogaeth, ydyw awydd i'r gwaith, pan y byddo yn cael ei gynnyrchu a'i gryfhâu yn ein calonau yn a thrwy y profiad o ddaioni Duw yn Nghrist. A'r un modd, nid oes dim mwy effeithiol i adnewyddu yr alwedigaeth hono, ac i gadw ysbryd pregethu yn fyw yn ein calonau, na phrofiad adnewyddol a mynych o faddeuant o'n pechodau. Cawn esiampl hynod o hyn yn Dafydd, ac yn Esaiah y prophwyd,—profiad o faddeuant a glanhâd oddiwrth eu hanwireddau oedd yn codi pob un o honynt hwy o ddyfnder trallod, ac yn eu llenwi âg ysbryd gwasanaethu Duw. "Wele fi; anfon fi," medd y prophwyd; ac am y Salmydd, yr ydoedd megys yn methu aros i dderbyn ei gomisiwn, ond yn y fan, wedi

canfod fod maddeuant gyda Duw, mae yn troi, nid yn unig i weddio am dano iddo ei hun, ond i'w bregethu i eraill hefyd. "Dysgwylid Israel am yr Arglwydd; o herwydd y mae trugaredd gyda'r Arglwydd, ac aml ymwared gydag ef." O y tynerwch y mae maddeuant yn ei ddwyn i ysbryd pechadur edifeiriol! Mae yn dymher dda i bregethu ynddi, fy mrodyr. Daw hyn â chwi i garu yn fawr, i edrych yn wyneb Duw mewn gorfoledd, ac i deimlo yn ewyllysgar iawn i dreulio ac ymdreulio yn ei wasanaeth. Ond nid dyma y cwbl. Mae y Salmydd yn gweddio am adnewyddiad trwy nerth Ysbryd Crist yn gystal ag am faddeuant trwy ei waed ef. Teimlai fod ei gwmp, nid yn unig wedi ei adael yn euog, ond yn aflan hefyd. Yr oedd ei serchiadau, mae yn debyg, byth ar ol hyny, yn parhâu yn afreolaidd ac yn anmhur; yn gymaint felly, fel ag yr oedd y truan erbyn hyn yn profi nad oedd dim llai na gallu creadol a allasai ei adgyweirio a dwyn ei ysbryd i'w le. A llawer sydd wedi cael chwerw brofiad o'r un peth.

Mae chwant yn ystyfnig iawn. Er dyfod i mewn fel ymdeithydd, fe gais fod yn frenin. Unwaith y caffo le a chroesaw yn yr enaid, mae yn tueddu i wreiddio ac ymsefydlu yno; a thrwy barhâu i ysu ac ymweithio yn y dychymyg a'r myfyrdodau, mae yn cadw y galon yn wahanglwyfus trwyddi. Yn awr, mae yn anmhosibl i ddyn yn yr ansawdd yma wasanaethu yr Arglwydd yn ddyladwy. Ni faidd ef ddim nesâu at Dduw, am ei fod yn euog; ac ni fyn ef ddim chwaith, oblegid fod ei galon yn ymhyfrydu mewn llygredigaeth. Chwi a ellwch, mae yn wir, lïosogi dyledswyddau crefyddol yn yr agwedd hon—pregethu a chymuno llawer. Ond os na byddwch wedi colli pob difrifwch mewn ymarferiadau felly, mae yn rhaid y bydd y cyflawniad o honynt yn faich trwm arnoch, tra, gyda golwg ar dderbyn- iad gyda Duw, a llesâd i chwi eich hunain ac i eraill, mae lle i ofni y bydd y cyfan yn ofer; oblegid cyhyd ag y byddo llygredigaeth yn ffynu yn ein calonau, nis gall fod dim ysbrydol a sanctaidd yn ein dyledswyddau. Ac felly y mae y Salmydd yma yn dyheu am lanhâd, i.e, dwfn reddfol lanhâd; nid symud ymaith y brynti yn unig oddiar yr enaid, ond



crëu glendid yn y galon. “Golch fi yn llwyr-ddwys oddiwrth fy anwiredd, a glanhâ fi oddiwrth fy mhechod. Crëa galon lân ynof, O Dduw, ac adnewydd ysbryd uniawn o’r mewn. Na fwrw fi ymaith oddi ger dy fron, ac na chymer dy Ysbryd sanctaidd oddiwrthyf.” Ac nid yw yn gorphwys ar hyn ychwaith. Dymuna ei eneinio âg olew gorfoledd yn gystal âg olew gras: cael, nid yn unig uno ei galon i wasanaeth yr Arglwydd, trwy sancteiddiad yr Ysbryd, ond ei hëangu hi hefyd yn y gwasanaeth hwnw, trwy fwynhâd o lawenydd yr Ysbryd. Dyma’r iawn dymher, fy mrodyr, i gyflawni dyledswyddau crefyddol. “Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd: deuwch o’i flaen ef â chân” (Psalm c. 2—4). Felly yr ydym yn cael y Salmidd yn gweddïo yma, “Par i mi glywed gorfoledd a llawenydd, fel y llawenycho yr esgyrn a ddrylliaist. Dyro drachefn i mi orfoledd dy iachawdwriaeth, ac â’t hael Ysbryd cynnal fi.” Dos ymlaen, Dafydd, i ddysgu eraill, fel pe na buasai dim wedi dygwydd. Ah! nid äwn i yn fy myw: mae fy ysbryd wedi gwywo, a’r genau wedi ei gau. Wel, gwada ynte na chëst ti ddim erioed gan yr Arglwydd, ac na chei di ddim byth. Ni wadwn i yn fy myw. Er ised yw fy mhrofiad heddyw, yr ydwyf yn cofio fy nghân y nos, a blynyddoedd deheulaw y Goruchaf. Do, mi brofais ei ddaioni ef cyn hyn lawer gwaith; ac, yn wir, nis gallaf lai na gobeithio cael ei brofi eto, a chael eto fynegu ei ryfeddodau ef. Yr wyf yn gweled yr isop yn y gwaed; trugarogrwydd Duwdod ar gyfer fy math. “Dyro drachefn i mi orfoledd dy iachawdwriaeth, ac â’t hael Ysbryd cynnal fi. Yna y dysgaf dy ffyrdd i rai anwir, a phechaduriaid a droir atat.” Yr oedd Dafydd, mae yn wir, mewn amgylchiadau neillduol pan yn dymuno y pethau hyn iddo ei hun, a phan yn profi fod ei wasanaethgarwch i’r eglwys yn dibynu ar eu cael hwynt; ar yr un pryd, fy mrodyr, cofiwch hyny, mae yn rhaid i bob dyn gael yr un pethau mewn trefn i fod yn ddefnyddiol: duwioldeb, a dofn dduwioldeb, y fath ag sydd yn ffrydio allan mor helaeth o ysbryd y Salmidd yma, nes y mae yn peri fod y salm hon, fel enaint tywalltedig, yn perarogli yn yr eglwys trwy yr oesoedd. Y grefydd hon, fy mrodyr, a’r ansawdd yma ar eich hysbryd mewn crefydd,

a fydd eich nerth a'ch llwyddiant chwithau gyda gweinidogaeth yr efengyl. Caniatêwch i mi am ychydig yn bresennol geisio dangos hyny ymhellach, fel y canlyn :—

1. Fe rydd hyn i chwi amgyffred a chydymdeimlad bywiol â thrueni eich gwrandawyr. Wedi ei gael a'i brofi ef yn och eich hunain, byddwch yn fwy medrus i'w ddangos i eraill. Yr oedd Duw am i ddynion bregethu yr efengyl i'w cyddynion, oblegid y gallent hwy ddyweyd wrthynt oddiar brofiad am eu trueni, ac am yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist, ac felly dyweyd gyda'r holl dynerwch a'r cydymdeimlad hwnw, yr hwn y mae profiad yn unig yn gyfranu. Nid oes un creadur ond dyn a ddichon hyn, nac un dyn ond y dyn duwiol. Mae y testun yn cynnwys darluniad o ddeiliaid eich gweinidogaeth; dyma y gwirionedd am danynt, a dyma yr olwg a ddylech chwithau gymeryd arnynt, ac amcanu rhoddi i'w meddyliau arnynt eu hunain, wrth bregethu iddynt: rhai anwir—pechaduriaid—ac yn a thrwy eu pechodau wedi troi oddiwrth Dduw. Yn ei gyflwr crëuedig yr oedd dyn yn agos at Dduw; fel plentyn gyda thad, yn ymlawenhâu ger ei fron ef bob amser, ac yn hyfrydwch iddo beunydd; yr Anfeidrol yn amlygu ei hunan iddo ef, ac yntau mewn ansawdd gymhwys i dderbyn yr amlygiad hwnw; yn creadur sanctaidd, ac felly yn alluog i sylu ar ogoniant ei Wneuthurwr yn ei weithredoedd, ac i ymhyfrydu ynddo a'i fwynhâu. Ond yn y cwmp fe ddarfu y cymundeb yma. Mae dyn wedi gadael Duw; nid o ran lle, mae yn wir, oblegid yr oedd hyny yn anhosibl. Ond golygwch ef o ran ei gyflwr ger bron Duw, ac o ran ansawdd ei feddwl tuag ato,—mae pechadur wedi ymadael â Duw, ac ymhell oddiwrtho. Yn lle bod yn ei heddwch, mae dan ei ddigofaint; a'r galon ag oedd unwaith yn glynu wrtho mewn cariad, yn awr, o dan lywodraeth cnawdolrwydd a chwantau drwg, wedi darfod âg ef yn ei holl dueddiadau, i.e., yn llawn gelyniaeth yn ei erbyn. Dyma y gwrthddrych yr ydych i bregethu iddo. Dyma y cyflwr annaturiol, a'r tloidi diamgyffred, y mae ynddo. Y creadur a wnaeth Duw, ac nad oes ond Daw a leinw ei ddymuniadau,—hwnw yn awr wedi troi yn erbyn Ffynnon ei fôd, ac unig Wrthddrych ei ddedwyddwch. O fy mrodyr, mynwch amgyffred dwfn am drueni pechadur i'ch

cadw yn dlifrifol yn y pulpud. Os llithra efe oddirhwng eich dwylaw i dragywyddoldeb yn y cyflwr a ddarluniwyd, mae yn rhaid y bydd ei drueni yn fawr iawn. Yno bydd pob pleser arall wedi darfod, a gagendor mawr wedi ei sicrhau rhwng ysbryd y creadur a Duw dros byth; ei dynghed yn ddigyfnewid, ei gynddaredd a'i elyniaeth yn anfarwol. A phe na byddai dim arall yn y byd a ddaw i'w gadw yn ymwybodol o'i hanfodiad, fe'i cedwid felly trwy y bythol deimlad o'i drueni. Os rhaid yw, fy mrodyr, i'r pethau ofnadwy yma ddygwydd i neb o'ch gwrandäwyr, ac yn wir mae yn beryglus, ië, hwyrach, yn debyg y gwna—wel, os rhaid yw felly, O na ddygwydded i'r un o honoch chwi, yr hyn sydd yn canlyn hyn y weithiau i athrawon—"Efe a fydd inarw yn ei anwiredd; ond ei waed ef a ofynaf ar dy law di!" Cymhwysder nas gellir ei hebgor i bregethu ydyw gallu i sylweddoli sefyllfa ein gwrandäwyr: llefaru wrthynt am eu colledigaeth yn ngolwg eu colledigaeth. Nid tyb, nid traddodiad, am dani, ond sicrwydd argyhoeddiad, a dwfn ganfyddiad i feddwl y gwirionedd. Yn gyffelyb i Daniel gynt o flaen y brenin—ystyr y weledigaeth yn ymagor ger bron ein dirnadaeth, nes ein taraw â syndod a braw. Yr oedd efe, dybygid, bron yn methu a llefaru gan ddychryn. Ac y mae yn ddigon tebyg y byddai ein geiriau ninnau yn fwy anaml pe byddem yn sylweddoli y gwirionedd yn fwy. Ond y mae ymgynefino âg ymadroddion y Bibl yn peri fod ein meddyliau yn colli eu hystyr hwy, ac yna maent yn llithro dros ein gwefusau yn ddisylw. A ydych chi yn meddwl ein bod ni yn deall ac yn ystyried yn wastad pa beth yr ydym yn ei ddywedyd, pan yn dyweyd fod ein cymydogion wedi eu damnio eisoes, a phan yn eu bygwth hwy i'r tywyllwch eithaf, ac i'r tân anniffoddadwy? Ah! un o effeithiau cyntaf credu y pethau hyn fyddai tewi mewn arswyd yn yr olwg arnynt. Pa fath ysbryd sydd yn eisieu i'w pregethu! "Mae pob rhan o ddyledswydd gweinidog yr efengyl," medd Isaac Taylor, "yn haws iddo na chadw yn ei rym yr ysbryd sydd arno eisieu i argyhoeddi dynion o'u pechodau." Ac wedi darlunio y dull mwyaf doniol o bregethu, ac addef hefyd y gall y pregethwr fod yn gywir yn ei ymgais, ac eto y cyfan yn aneffeithiol, mae yn ychwanegu ac yn dyweyd, "Ah! ond y mae llefaru yn effeithiol am sancteiddrwydd a chyfiawnder yr Hollalluog Dduw, ac am ei

ganlyniadau dyfodol—lefaru gyda gwylder, tynerwch, a nerth, am agos dynghed yr anedifeiriol, yn fater cwbl wahanol, ac yn beth ag y mae yn rhaid ei adael i'r dynion hyny, ysbrydoedd pa rai sydd wedi mwynhâu llawer o gymundeb â'r Mawrhydi Dwyfol ac ofnadwy."

Pan oedd Duw yn anfon y prophwyd Ezeziel i bregethu, y peth cyntaf oedd rhoi golwg iddo ar drueni ei wrandawyr. Os dyffryn yn llawn o esgyrn, yr oedd yn cael ei arwain o amgylch ogyrch iddo, a'i alw i edrych ac i ystyried eu cyflwr diobaith hwy, cyn cyhoeddi iddynt iachawdwriaeth Duw. Os llyfr oedd yn cynnwys eu trueni, mawr oedd yr ymdrech i gael ei gynnwysiad ef i ysbryd y pregethwr. "Efe a'i dadblygodd ef o'm blaen i," medd y prophwyd. Ac nid oedd hyny ddim yn ddigon chwaith; mae'r Arglwydd yn gorchymyn iddo fwyta y llyfr hwnw, a'r hyn a gaffai ynddo. Mewn geiriau eraill, yr oedd yn rhaid dwyn ei feddwl ef i ganfod ystyr ei genadwri, ac i'r gwirionedd am y trueni a gynnwysai gael ei ddwyn drwy y canfyddiad hwnw i'w deimlad ef ei hun, a chydymgymysgu â holl serchiadau ei galon, mewn trefn i'w alluogi i'w traddodi yn effeithiol i eraill. "Ewch," medd Iesu Grist, "a phregethewch yr efengyl ! bob creadur." Ond i bwy a pha fath ddynion y rhoddes efe y gorchymyn hwnw? Dynion oeddynt wedi eu hargyhoeddi o golledigaeth dynolryw. Yn eu golwg hwy, yr oedd yr holl fyd yn gorwedd mewn drygioni, a than farn Duw. A meddu yr olygfa yma ar drueni eu cyd-ddynion, ynghyd a gobaith yr efengyl, oedd y rheswm am eu zel a'u heffeithiolrwydd fel gweinidogion y gair. O fy mrodyr, gwyliwch rhag edrych yn ormodol ar drueni pechadur fel pwnc i'w athrawiaethu yn unig, a chynefino â gwneuthur hyny yn oerllyd a chywreinddoeth; a byddwch yr un mor ofalus, o'r ochr arall, rhag arfer crochlefain uwch ei ben, mewn nwydau arwynebol a geiriau anghymeradwy. Dymunwch ei sylweddoli ef yn eich meddyliau eich hunain yn gyntaf, a chael eich llenwi âg ofn ac â thosturi at y rhai sydd ynddo, fel y galloch chwi lefaru wrthynt am dano gyda thynerwch. Os collwn ni hyn, ni a gynefinwn â rhoi y bobl yn uffern, a hwythau a gynefinant â chlywed eu bod yn myned yno; ac fe aiff yr athrawiaeth am gondemniad a llygredigaeth dyn yn hollol ddieffraith i'n meddyliau; ac o'r diwedd, fe aiff y son am dani yn

ddiflas; a thewi, colli, a gwadu y gwirionedd fydd y diwedd. Ac o'm rhan i, nis gwn am ddim gwell arwydd o ddyn wedi ei anfon gan Dduw i bregethu yr efengyl na bod hen wirioneddau cynefin ond pwysig y Bibl yn cael eu toddi i'w ysbryd, ac yn dyfod allan oddiwrtho gyda newydd-deb ac effeithiolrwydd. Cynnyddu mewn crefydd yw y ffordd i gynnyddu mewn adnabyddiaeth o drueni pechadur, a chynnyddu hefyd mewn ysbryd priodol i'w bregethu. Myfyriwch lawer ar y pethau hyn yn eu cysylltiad â chwi eich hunain; bydd hyn yn foddion i feithrin duwioledeb yn eich calonau; a rhydd duwioledeb drachefn newydd-deb ac eneiniad ar eich gwaith yn eu cyhoeddi i eraill. Un o gynneddfau gweinidog yr efengyl, chwi a wyddoch, ydyw sobrwydd: dyn trwmfrydig; ac yn wir y mae ystyr ei genadwri ef yn drwm iawn. Un o fil ydyw ef. Mae yn sefyll megys o'r neilldu, ac yn syllu mewn difrifwch ar y byd colledig a gwallgof yn chwareu ar fwrdd teneu einioes uwch ben y pydew diwaelod. Do, bu rhai o honom yn rhy siaradus uwch ben y pethau hyn yn ein hoes; ac yn awr, wrth nesâu at y diwedd, yr ydym yn teimlo yn hytrach duedd i gilio oddiwrthynt mewn arswyd. Ah fy mrodyr, mae marw, y farn, a'r byd tragwyddol, yn bethau trymion iawn. Heb son am uffern, wrth feddwl yn ddifrifol am fyned i'r nefoedd, hyny yw, myned o ganol amherffeithrwydd yn uniongyrchol i wydd Duw a'i luoedd gogoneddus, yr ydym yn teimlo cryndod, ac y mae yn dda genym syrthio i ddwylaw y Gwaredwr.

2. Bydd y grefydd a ddarluniwyd yn sicr o fywhâu eich meddyliau, a'ch cadw i geisio yn ddifrifol iachawdwriaeth eich gwrandaŵyr. Os anfonodd Iesu Grist chwi allan i bregethu fe'ch anfonodd chwi ar yr un neges ag yr anfonodd y Tad yntau,—“i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid.” Mae yn dyweyd wrth bob un o honoch heddyw, yn debyg ag y dywedai wrth yr Apostol Paul gynt, “At y rhai yr wyf yn dy anfon yr awr hon, i agoryd eu llygaid, ac i'w troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw, fel y derbyniont faddeuant pechodau, a chyfran ymysg y rhai a sancteiddiwyd, trwy y ffydd sydd ynof fi.” Troi at Grist, ac adeiladu yn Nghrist, ydyw amcan gweinidogaeth yr efengyl. Ac y mae'r Arglwydd Iesu yn rhoi yr amcan yma yn ysbryd pob dyn y mae yn anfon



iddi. “Y mae yr hwn sydd yn lefaru o hono ei hun yn ceisio ei ogoniant ei hun:” o hono ei hun mae yn myned at y gwaith, hunan sydd yn ei gymhell i lefaru, a’i ddybenion cnawdol a hunanol sydd ganddo mewn golwg yn y cwbl. “Ond y mae yr hwn a anfonwyd yn ceisio gogoniant yr hwn a’i danfonodd; hwnw sydd eirwir,” medd Iesu Grist, “ac anghyfiawnder nid oes ynddo.” Mae yn ceisio yn onest, trwy bregethu y gwirionedd, at ogoniant Duw. A pha fodd y gallwn ni geisio ei ogoniant ef yn fwy na thrwy ymdrechu i ddangos gogoniant ei Fab ef i’n gwrandawyr? bod yn offerynau i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw iddynt, yn wyneb Iesu Grist, ac felly eu troi hwy ato ef, yn y drefn lle y cânt hwy eu hachub, ac yntau yn y canlyniad ei ogoneddu ynddynt a chanddynt hwy i dragywyddoldeb. Dyma fel yr oedd Paul yn cyflawni ei weinidogaeth. Byth wedi i Iesu Grist ymddangos iddo, a’i anfon ef i droi pechaduriad, hyny oedd ar ei galon ef. “Am ba achos,” meddai, “O frenin Agrippa, ni bum anufudd i’r weledigaeth nefol; eithr mi a bregethais i’r rhai yn Damascus yn gyntaf, ac yn Jerusalem, a thros holl wlad Judea, ac i’r Cenedloedd: ar iddynt edifarhâu, a dychwelyd at Dduw, a gwneuthur gweithredoedd addas i edifeirwch.” Yr oedd enaid yr Apostol wedi ei lynu i fyny i hynyma. Nid pregethu yn unig oedd ei amcan ef, ond yr oedd ei galon ef yn llosgi am gyrhaeddyd amcan pregethu. Gallasech ddarllen hyny yn ei ddagrau ac yn ei weddïau, ac yn mater a thuedd ei bregethau. Dros ei holl fywyd ceisiai, nid ei lesâd ei hun, ond llesâd llaweroedd, fel y byddent gadwedig. Yn hyn yr ydoedd yn treulio ac yn ymdreulio, gan ddyoddef pob peth oddiwrth bawb, ac ymwneyd yn bob peth i bawb, fel y gallai yn hollol gadw rhai. “Yr wyf fi yn cael digon o fy edmygu,” meddai Dr. M’All; “ond y mae arnaf fi eisieu gweled dynion yn cael eu troi a’u hadeiladu. Duw a wŷr nad oes arnaf eisieu eu clod hwy, ond eisieu eu hiachawdwriaeth sydd arnaf fi.” O fy mrodyr, chwi a gewch yn y fynwes yna lawer o gymysgedd; ond bydded hyn dan y cwbl—dyheu am eneidiau dynion. Dyma a ddwg y cysur mwyaf i chwi yn y diwedd: nid cofio eich dawn a’ch hywadledd yn pregethu, ond yn hytrach cofio am eich cyfeiriadau dirgel at Dduw yn y gwaith, ac am yr

awydd dŵfn, dwys, a dystaw ag oedd ynoch yn nghanol pob cymysgedd am iachawdwriaeth eich gwrandäwyr. Mi a obeithiaf y gellwch chwi appelio at yr eglwysi heddyw, a dywedyd wrthynt, "Gweddiwch drosom ni; canys yr ydym yn credu fod genym gydwybod dda, gan ewyllysio byw yn onest ymhob peth." Pwy bynag sydd yn amnheu am ein dybenion yn perswadio dynion, "i Dduw y'n gwnaed yn hysbys, ac yr ydym yn gobeithio ddarfod ein gwneuthur yn hysbys yn eich cydwybodau chwithau hefyd." Ac O mor hawdd fydd i chwi ddyoddef enllib y byd, i'e marw o dan ei enllibiau, os byddwch chwi yn profi ac yn gallu dywedyd, "Ein gorfoledd ni yw hyn, sef tystiolaeth ein cydwybod, mai mewn symlrwydd a phurdeb duwiol, nid mewn doethineb cnawdol, ond trwy ras Duw, yr ymddygasom yn y byd." Nid oes dim gwell prawf o'n galwad i bregethu na'n bod ni yn llwyddo i gyrhaeddyd gwir amcan pregethu—o leiaf yn parhâu i ysu am hyny. Gwir yw fod llwyddiant gweision Iesu Grist yn amrywio. Nid yr un fath a'u gilydd, ac nid i'r un graddau, y mae pawb o honynt yn llwyddo. Eto nid oes yr un o honynt yn gwbl ddieppil. Yn rhywfodd, ryw amser neu gilydd, fe gaiff pob un o weision ffyddlawn y Gwaredwr wybod nad yw eu llafur hwy yn ofer yn yr Arglwydd. Ac ni waeth pwy a wado eich urddiad, a dilysrwydd eich gweinidogaeth, os bydd Duw yn eich arddel. Ni waeth pwy a'ch cymharo i Corah, Dathan, ac Abiram, os bydd yr arwyddion hyn yn eich canlyn: pechaduriaid yn cael eu hachub a'r saint yn cael eu hadeiladu trwy eich gweinidogaeth. Bydd cydwybodau y cyfryw yn dwyn tystiolaeth i'ch anfoniad, a'u personau yn gadarnhâd i'ch meddyliau chwithau, o'r un peth. Dyma fel yr oedd Paul yn amddiffyn ei Apostoliaeth wrth y Corinthiaid. Pwy sydd yn dyweyd, fel pe dywedasai, nad wyf fi yn Apostol? D'wedan' nhw; yr ydych chwi yn dyweyd i'r gwrthwyneb. "Onid fy ngwaith i ydych chwi yn yr Arglwydd?" a chan hyny, sêl fy apostoliaeth i ydych chwi yn yr Arglwydd. Mi a'ch cefais chwi yn Corinth yn byw mewn pechodau o bob math; ond trwy fy ngweinidogaeth i, "chwi a olchwyd, chwi a sancteiddwyd;" ac onid wyf yn apostol i eraill, eto yr wyf i chwi, ac yr ydych chwi eich hunain yn brofion o hyny. Edrychwch, frodyr, nid yn unig a ydych yn caru y weinidogaeth,

oblegid y mae llawer o bethau ynglŷn â hi a all dyn anianol garu, ond, A ydych yn ei charu hi yn gysylltiol â'i dyben? A ydyw eich awydd am y weinidogaeth yn cydgordio âg amcan y weinidogaeth ei hun, sef achub dynion? Holwch eich hunain, a ydych yn caru eich cyd-ddynion, ac a ydych yn eu caru hwy yn yr efengyl. Oblegid os felly, yr ydych yn eu caru hwy fel creaduriaid anfarwol, ac fel pechaduriaid colledig, gan geisio, nid eu llesâd tymmorol yn unig, ond iachawdwriaeth dragywyddol eu heneidiau. Crefydd yn unig yw gwreiddyn a maeth yr ysbryd yma, hyny yw, cariad at Dduw yn Nghrist. "Mae yr hwn sydd yn aros mewn cariad," medd yr apostol, "yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau." Yn yr awyr fendigedig yma, fy mrodyr, fe ddwyseiddir eich ysbryd, ac fe burir eich dybenion fwyfwy. Yr un peth hwn a geisiwch chwi, sef iachawdwriaeth eich gwrandawyr, a chwi a'i ceisiwch hyd eithaf eich gallu, oblegid nid ŵyr cariad am un terfyn arall.

3. Mae crefydd a chynnyddu mewn crefydd yn sicr o'ch harwain i roddi arbenigrwydd i wirioneddau neillduol yr efengyl yn eich gweinidogaeth. Y dyn duwiol yn unig sydd yn adnabod trefn yr efengyl; ac heb ei hadnabod, mae yn anmhosibl ei phregethu hi. "A nynti," medd Paul, "a dderbyniasom, nid ysbryd y byd, ond yr ysbryd sydd o Dduw, fel y gwypom y pethau a rad roddwyd i ni gan Dduw." Ac mewn canlyniad i gael eu dwyn i wybod a derbyn y pethau hyny, mae yn gallu ychwanegu, a dyweyd, "Y rhai yr ydym yn eu llefaru hefyd." Y wybodaeth ysbrydol, trwy yr hon y mae pechadur yn cael ei adnewyddu i garu yr efengyl, ydyw yr elfen gyntaf yn yr alwad i'w phregethu. "Simon, mab Jona, a wyt ti yn fy ngharu i?" medd Iesu Grist,— "Portha fy nefaid." Nid oes neb arall a wna, ac yn wir, nid oes neb arall a ŵyr pa fodd i wneuthur hyny yn iawn. Er i ddyn fod yn deall athrawiaeth y Dadguddiad Dwyfol, a bod o ran ei farn yn efengylaidd, eto os na bydd yr efengyl wedi myned yn ddyfnach na'r farn—wedi meddiannu yr arenau a'r galon, ni bydd yno ond ychydig o fedr ac o ysbryd i'w phregethu. Nid oes dim bywyd yn nghrêd y dyn, ac felly nis gall fod dim bywyd ac eglurder yn ei weinidogaeth ef. Chwi a gewch ganddo, hwyrach, lawer o bregethau heb fawr o le i Grist ynddynt, ac heb fawr o amcan na thuedd i ddwyn pechad-

uriaid ato; ac os byddant yn cynnwys addysgiadau da, ond odid na bydd y cyfryw heb eu trwytho yn ddyladwy yn egwyddorion ac ysbryd yr efengyl. “Mae yn beth nas gellir ei wadu,” medd un awdwr, “bod eglurhâd grymus a bywiol o’r efengyl, a llawer mwy drachefn, y cymhwysiad o’r efengyl yma at anghenrheidiau ac amgylchiadau eneidiau neillduol—yr hyn yn briodol yw y peth a elwir gofal (*cure*) eneidiau—i’w ymddiried yn unig gyda hyder i’r dyn yr hwn sydd ei hunan wedi profi nerth yr efengyl, a’r hwn sydd yn parhâu i brofi ei nerth hi.” Mae y profiad yma, gan hyny, yn ammod anhebgorol i ofyn am dano ymhob gwir bregethwr yr efengyl. Nis gall ddangos i eraill ffordd iachawdwriaeth ond yn unig pan y gallo ef ei hun, a hyny gyda phob gwirionedd, ddywedyd, “Credais, am hyny y lleferais.” Digon gwir. Ac o’r ochr arall, os bydd y pregethwr wedi cael ei fywyd ei hunan yn yr efengyl—os bydd ei goleuni hi yn llewyrchu i’w galon ef—a’i daioni, trwy y goleuni hwnw, yn cael ei dros-glywddo i’w brofiad, a’i enaid felly yn cael ei adferu fwyfwy i gymdeithas a delw Duw trwyddi, mae yn sicr am y dyn hwnw y caiff yr efengyl ei lle ei hunan—hyny yw, y lle i gyd, yn ei weinidogaeth ef. Am y pethau a brofodd y llefara efe; ac y mae yn alluog i lefaru am danynt gyda sicrwydd. “Bendigedig fyddo Duw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist,” meddai yr apostol, “yr hwn sydd yn ein dyddanu yn ein holl orthrymder, fel y gallom ninnau ddyddanu y rhai sydd mewn dim gorthrymder.” Ond pa fodd yr oeddynt yn gwneyd hyn? “Trwy y dyddanwch,” nedd yr apostol, “â’r hwn y dyddenir ni ein hunain gan Dduw.” Pa fodd yr oedd yr apostol yn rhoi y fath arbenigrwydd i drueni pechadur, ac i gyfryngdod Crist, yn ei weinidogaeth? Ond wedi profi y pethau hyn ynddo ei hun yr ydoedd. Yr oedd pechod drwy y gorchymyn wedi ei ladd ef; a’r un modd yr oedd deddf ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu wedi ei ryddhâu ef oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth. Darfu i hyn nodweddu ei weinidogaeth ef. Pechadur wedi ei ddinystrio, ac iachawdwriaeth o ras, yn a thrwy Berson a haeddiant y Gwarddwr, oedd sylwedd ei holl bregethau. Os äi Paul i Galatia, fe elai yno i bortreadu Iesu Grist wedi ei groeshoelio. Os i Corinth, ni farnodd iddo wybod dim yn eu plith hwy yno ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio.

“Felly,” meddai, “hyd y mae ynof fi, parod ydwyf i bregethu yr efengyl i chwithau hefyd y rhai ydych yn Rhufain. Canys nid oes arnaf gwilydd o efengyl Crist. oblegid gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth i bob un a'r sydd yn credu.” Cyfoded Duw eto lawer o ddynion fel hyn i'r weinidogaeth! gwir grefydd—hyny yw, cariad at Grist, yn eu cadw yn ffyddlawn iddo yn yr efengyl. Nis gwn am ddim, fy mrodyr, a geidw Grist yn fwy yn eich gweinidogaeth na bod Crist yn byw ynoch chwi eich hunain: cynnyddu yn y teimlad o'r anghen am dano, ac yn yr adnabyddiaeth o'i ogoniant fel Gwardedr. “Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonau chwi.” “Fel y galloch, wedi eich gwreiddio a'ch seilio mewn cariad, amgyffred gyda'r holl saint, beth yw y lled, a'r hÿd, a'r dyfnder, a'r uchder; a gwybod cariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth, fel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw.” O os bydd eich meddwl yn byw yn nghanol y rhyfeddodau hyn, mae yn rhaid y byddant yn ffyrdio i'ch gweinidogaeth; “oblegid o helaethrwydd y galon y llefara y genau.” Wrth eich hannog i roddi arbenigrwydd i wirioneddau yr efengyl yn eich gweinidogaeth, pell ydym oddiwrth feddwl am eich harwain i esgeuluso pregethu ei dyledswyddau moesol hi. Mewn gwlad fel Cymru, lle mae cynifer yn proffesu yr efengyl, mae eisieu gweinidogaeth, nid yn unig i gyffroi y difraw, ac i gysuro yr argyhoeddedig, ond gweinidogaeth hefyd i adeiladu; yn cynnwys cyfarwyddyd a chymbelliadau i sancteiddrwydd ymarferol, ac yn gwneyd ei ffordd at fanylion bywyd, gan arddangos Cristionogaeth, fel y dywed Robert Hall, “nid yn unig fel trefn o ymwarded i'r euog, ond fel dysgyblaeth wastadol ar y gydwybod a'r galon.” Y gwirionedd, o bosibl, y fynydd hon ydyw, fod mwy o anghen am eangu a chywiro meddyliau ein cenedl yn rhinweddau moesol yr efengyl nag yn ei phynciau athrawiaethol hi, tra o'r ochr arall, fod amcan a medrusrwydd y pulpud i wneuthur hyny o bosibl yn llai. Pa fodd bynag, fy mrodyr, wrth adael hyn yn bresennol, y cwbl sydd genyf i'w gymhell arnoch chwi ydyw,—cofiwch yn wastad mai Iesu Grist yw gwreiddyn sancteiddrwydd, a gochelwch bregethu moesau yr efengyl ar wahân oddiwrth ei hathrawiaeth hi, o'r hon y maent i dderbyn eu holl awdurdod a'u heffeithiolrwydd. Ffydd yn yr athrawiaeth fawr yma, i gadw eich calonau a'ch meddyliau yn



Nghrist Iesu, a geidw hefyd eich gweinidogaeth yn efengylaidd ac yn ymarferol.

4. Mae crefydd a chynnyddu mewn crefydd yn anheborol i faeth a chynnalïaeth ysbryd y weinidogaeth. Gweinidogaeth yr Ysbryd, chwi a wyddoch, y mae gweinidogaeth yr efengyl yn cael ei galw. Mae yn gwreiddio yn y doniau pa rai y mae yr Ysbryd yn gyfranu; cynnyrch ei oleuni a'i nerth ef ydyw yn nghalonau ei weision. Ac yn awr chwi graffwch, fy mrodyr, am y doniau ysbrydol hyn, yn rhinwedd pa rai mae gweinidogaeth yr Ysbryd i'w chyflawni,—calon sanctaidd yn unig ydyw eu maethle briodol hwynt. Ebrwydd y gwywant ymhob tir arall Rhaid byw ar bethau yr efengyl; rhaid eu myfyrio a'u gweddïo lawer, ac felly eu troi yn ymborth i grefydd a sancteiddrwydd y galon, mewn trefn i'n cadw mewn ansawdd gŷmhwys i'w llefaru. Felly chwi a welwch mor anheborol yw duwioldeb i bregethwr. Nis gall y dyn anianol ddim ymhyfrydu fel hyn yn mhethau y gair. Mae ei galon ef yn llygredig, a'i fryd, yn enwedig fel y byddo ei argyhoeddiadau yn gwisgo ymaith, yn rhedeg ar bethau cwbl wahanol; o ganlyniad, os bydd gan ddyn felly rywbeth tebyg i weinidogaeth ysbrydol weithiau, nid oes dim parhâd ynddi. Mae y cwbl ond odid, gyda chynnydd llygredigaeth, yn gwywo yn raddol, nes o'r diwedd y mae gwaith y fath un yn ceisio pregethu yn troi yn faich iddo ei hun ac i'w wrandawyr. Duwioldeb yw dirgelwch y cwbl yn y gorchwyl hwn. Ymhob man lle mae ysbryd y weinidogaeth yn rhagori, mae yn hawdd canfod, dybygid, fod crefydd wrth ei wraidd ef. Dyma y rheswm am ysbryd rhyfedd y Salmydd (Psalm xlv.): "Traetha fy nghalon beth da," Dechreuai yn iawn, chwi welwch. Yr oedd ei galon ef yn y gwaith. Hyn yw, yr oedd ffydd a chariad at Iesu Grist yn gweithredu ynddi; tegwch ei Berson, a gogoniant ei freniniaeth rasol, yn bethau ag yr oedd ei enaid yn ymhyfrydu ynddynt. Yn awr meddyliwch fel ag yr oedd hyn yn effeithio ar waith y gŵr duwiol yn llefaru am danynt. "Dywedyd yr ydwyf," meddai, "y pethau a wnaethum i'r Brenin"—y Brenin a sylfaenodd ei deyrnas yn ei waed ei hun, bendithion yr hon sydd yn disgyn i galon pechadur, fel cawodydd yn dyfrhâu y ddaear,—mae y pethau am dano yn fy nghalon, ac ar fy nhafod; ac nid mewn rhyw ddull oeraidd a chyffredin chwaith; mae fy nghalon yn

berwi allan beth da, a'm tafod fel pin yr ysgrifenydd buan. Ah! nid oedd yma ddim diffyg blas ar bregethu: dim tloedi mewn ysbryd, mater, nac ymadrodd. Yr oedd yn hawdd i'r Salmydd lefaru y pethau am Grist; yr oedd ei serchiadau yn llawn o honynt. O na byddai yn gyffelyb gyda ninnau! Ac onid yw Iesu Grist yn addaw yr ysbryd yma eto i'w bobl? "Y dwfr a roddwyf fi iddo a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragwyddol;" i.e., "afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth ef."

Yr un rheswm sydd am nerth yr Apostolion gyda'r gwaith. "A chan fod genym yr un ysbryd ffydd," meddai Paul, "yn ol yr hyn a ysgrifenydd, Credais, am hyn y lleferais; yr ydym ninnau hefyd yn credu, ac am hyn y llefaru." Yr oedd ffydd, ni a welwn, wedi troi yn ysbryd llefaru o'u mewn hwy. Er bod eu dyn oddiallan yn llygru yn mhrofedigaethau y weinidogaeth, eto nid oeddynt yn pallu. Yr oedd ffydd yn ei gwirioneddau gogoneddus hi yn adnewyddu y dyn oddimewn o ddydd i ddydd, ac yn ennynu hefyd y fath dân sanctaidd yn eu calonau am ei phregethu i eraill, fel y blinent yn ymattal, ac nid allent beidio. Meddylwch am Paul yn troi allan i bregethu. Yr oedd "y trysor hwn," sef yr efengyl yn ei galon ef, fel cristion ac fel gweinidog—iddo ei hunan ac i eraill. Profai fod Duw wedi ei gymmodi ef âg Ef ei hun, Crist wedi ei garu, a rhoddi ei hunan drosto ef, a'i enaid yn y profiad hwnw yn gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw. Yn yr ysbryd yma, ni a'i cawn ef yn treulio ac yn ymdreulio dros eneidiau dynion, gan gyfranu iddynt, nid efengyl Crist yn unig, ond ei enaid ei hun hefyd; fel mam dyner, â'i bronau yn llenwi gan rym ei serch i'w hun bychan, yn arllwys ei bywyd iddo. "Ein genau a agorwyd wrthych chwi, O Gorinthiad, ein calon ni a ängwyd." Yn awr, yr holl reswm am yr ysbryd yma oedd eu crefydd hwy: cariad at Grist ac at eneidiau dynion, a hwnw yn nerthol weithio yn eu calonau. Dyma a fydd eich grym chwithau, fy mrodyr, gyda'r weinidogaeth. A chan eich bod yn ymgymeryd â'r swydd hon yn bresennol, caniatewch i mi wasgu at eich ystyriaethau pa ryw fath ddynion a ddylech chwi fod mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb.

Ac nis gallaf roi gwell cynghor i'r un o honoch yn awr, ar eich neillduad iddi, a thuag at fod yn ddefnyddiol ynddi, na chynghor

yr Apostol i Timotheus: "Gad heibio," gad heibio o heddyw allan, nid pethau drwg yn unig, ond pob peth isel a "gwrachï-aidd" hefyd, mewn athrawiaeth a bywyd, "ac ymarfer dy hun i dduwioldeb." Dyma a geidw eneniad ar eich gweinidogaeth. Pa beth yw hwnw, yr wyf yn addef nas gallaf ddywedyd. Ond lle bynag y byddo gyda phregethu, fe'i teimlir yn ebrwydd; ac fe deimlir hefyd, lle na byddo, fod rhywbeth yn eisieu: y peth rhyfedd hwnw ag sydd yn toddi ac yn nawseiddio ysbryd pregethwr, ac yn peri fod pob rhinwedd efengylaidd yn adfywio o dan ei weinidogaeth, fel eginyn a dyf o'r ddaear gan lewyrchiad yn ol gwlaw. Ond beth bynag am ei natur ef, mae yr awdwyr hyny, mi dybiwn, yn gywir, ag sydd yn dywedyd mai ysbryd sancteiddiad a gras yn unig yw ei ffynnon. Yn ol barn y cyfryw, dawn ydyw a dreulir ac a gollir oddieithr fod y tân sanctaidd yn cael ei adnewyddu beunydd, yr hwn y mae yn rhaid ei gadw i losgi yn wastadol; a'r peth a'i ceidw felly, meddant hwy, ydyw y gras yn yr enaid, hunanymwadiad, gweddi, ac edifeirwch. Nis gallaf ddymuno dim gwell i chwi, fy mrodyr, na bod hwn, fel olew sanctaidd, yn ffrydio drwy eich gweinidogaeth yn wastadol. Chwi a "wasanaethwch yr Arglwyd mewn llawenydd" o dan ei ddylanwad; "deuwch o'i flaen ef â chân." "Canaf hymnau i ti," meddai Iesu Grist, pan yn cyfeirio at ei weinidogaeth. Ac felly chwithau, canu i Dduw fydd y gwasanaeth i gyd; a'ch gwefusau a fyddant hyfryd pan y cenwch iddo. "Mae fy nyddiau," medd Doddridge (ar un tymmor o'i oes), "yn dechre, yn pasio ac yn darfod, mewn hapusrwydd; ac yn ymddangos yn fyrion, oblegid eu bod mor hyfryd. A'r rheswm am hyny—y mawr a'r digonol reswm yw, fod mwy o bresennoldeb Duw gyda mi yn bresennol nag wyf yn gofio ddarfod i mi fwynhâu erioed o'r blaen mewn un mis yn fy mywyd. Mae yn hyfryd darllen, yn hyfryd cyfansoddi, yn hyfryd ymddyddan â chyfeillion gartref, yn hyfryd ymweled â'r rhai sydd allan—y tlodion a'r cleifion; yn hyfryd ysgrifenu llythyrau ar faterion anghenrheidiol, trwy yr hyn y gall dim daioni gael ei wneuthur; yn hyfryd myned allan i bregethu yr efengyl i eneidiau truain, yr hon y mae rhai yn sychedu am dani, ac eraill yn marw o'i heisieu; hyfryd ar ddyddiau yr wythnos yw meddwl fod Sabboth arall mor agos; ond O, mwy, llawer mwy hyfryd, i feddwl mor agos yw tragywyddoldeb, ac mor

fêr yw taith yr anialwch, ac nad oes ond cam o'r ddaear i'r nefoedd!"

Drachefn, duwioldeb, fy mrodyr, neu ansawdd iachusol ar eich hysbryd mewn crefydd, a gynnal i fyny awdurdod eich gweinidogaeth; hyny yw, y teimlad a'r amlygiad o hono yn nghyflawniad eich swydd. Fe'ch gwna yn ddynion gwrol yn yr Arglwydd. Mae Iesu Grist yn gwneyd ei weision yn hyn yn debyg iddo ei hun. Maent i ddsygu fel rhai âg awdurdod ganddynt, ac nid fel y ffurfiol a'r difywyd—y dyn yr hwn sydd yn sefyll ar ei urdd allanol yn unig. Nid am fod pregethwr i fod yn ymhongar; i'r gwrthwyneb, mae gwir was Crist, fel ei Athraw, yn addfwyn a gostyngedig o galon; ond ar yr un pryd, mae ganddo genadwri ag sydd yn haeddu pob derbyniad, ac y mae yntau yn ymwybodol o hyny, ac fel genau ei Feistr, ac yn ei enw, mae yn ei thraddodi gyda hyfder a nerth. Fe'i gorchymynir, chwi a wyddoch, i gynghori a cheryddu gyda phob awdurdod. Rhy brin, ond odid, ydyw y weinidogaeth yn ein dyddiau ni o'r ysbryd yma; ofawn ei fod yn brinach ynnddi nag yn nyddiau ein tadau; ac nid oes dim ond mwy o dduwioldeb a'i hadferu yn ôl iddi. Crefydd, fy mrodyr! fe sicrhâ hon eich calonau yn ngwironedd eich cenadwri. Byddwch yn credu gair Duw, trwy fwydd gweithrediad Duw ei hunan, a hono yn ffydd a ddaw â'r Dadguddiad Dwyfol yn brofiad i'ch heneidiau; ac yn eich grymusdra yma, chwi a'i traddodwch ef gyda phob awdurdod i'ch gwrandaŵyr. "Yr ydym ni yn credu ac yn gwybod mai tydi yw y Crist, Mab y Duw byw."

Ac os ydyw bod yn gaeth i ddynion, eu clod a'u hanghlod, yn fagl i bregethwr, ac felly yn tueddu i wanychu ei awdurdod ef yn y pulpud,—wel, fy mrodyr, mae yn dda genyf ddyweyd wrthyhch, mae duwioldeb yn brynedigaeth oddiwrth ddynion; daw hon â chwi i farw i chwi eich hunain, ac yn hyny i farw i bawb a phob peth arall. Ni bydd genych neb i'w ofni na neb i'w foddhâu ond Duw. Heblaw hyny, gwna crefydd chwi yn ddynion sanctaidd, yn gystal ag yn ddynion rhyddion. Ac elfen hanfodol, ciwi a addefwch, i awdurdod eich gweinidogaeth, yw sancteiddrwydd, ac yn enwedig i gyflawni y rhan hono o honi—sef i argyhoeddi a cheryddu gyda phob awdurdod. Pa nerth sydd yn y dyn hwnw i geryddu eraill am eu pechodau ag sydd yn byw yn

y pechodau hyny ei hunan? Wrth farnu arall, mae yn ei gondemnio ei hun. Na, fy mrodyr, mewn trefn i fod yn halen y ddaear, mae yn rhaid fod genych halen ynoch eich hunain. Mewn geiriau eraill, mae yn rhaid i chwi fod yn ddynion ac yn rhyw fath ddynion mewn sanctaidd ynarwedd-iad a duwioldeb. Yr ydych yn cofio y dyn rhyfedd hwnw a ddaeth allan i bregethu gynt o ddiffeithwch Judea yn ysbryd a nerth Elias. Yr oedd rhywbeth arno ei hun, mae yn debyg, yn ei weinidogaeth ef; ond y mae yn ddigon cyfreithlawn i ni er hyny ddymuno am fesur o'r un peth: gweinidogaeth yn cynnwys Gronyn o'r un awdurdod a halltrwydd yn erbyn pechodau yr oes a'r wlad yr ydym yn byw ynddi. Ond cofwch fod yn ofer i ni ddysgwyl am hyny heb fod yn ddynion o'r un ysbryd ag yntau: yr un marweiddiad wedi ei weithio ynom i'n blysiâu corfforol; yr un ymneillduad i gymundeb â Duw; yr un gwroldeb anhyblyg yn erbyn pechod, a hwnw yn gysylltiedig â sancteiddrwydd ysbryd ac ymddygiad, y fath ag a gynnyrcha dystiolaeth i ni, hyd yn nôd yn nghydw-ybodau ein gelynyon; yr un teimlad o'n hanghen am gael ein bedyddio gan Iesu Grist, a'r un gostyngeddwrwydd calon, a boddlonrwydd i fod yn ddim ynom ein hunain, gan rym ein hawyddfryd am i Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd, fod yn bob peth i'n gwrandawyr. Na ddyweded neb wrthyf fi fod Cymru a'i heglwysi lliosog yn cynnyddu mewn llygredigaeth; canys fe fyddai hyny yr un peth a dywedyd wrthyf fod symlwrwydd a phurdeb duwiol yn colli o'i phulpudau; ei gweinidogion yn gnawd ac nid yn ysbryd. Pa fodd bynag, fy mrodyr, os byddwch chwi byw i weled yr amser ag y bydd egwyddorion pwdr, segurddod, ac ysgafnder, wedi lladd nerth a dylanwad y pulpud yn ein gwlad, eich braint chwi yn yr amser annedwydd hwnw a fyddo gallu dywedyd, "Nid ydym ni megys llawer, yn gwneuthur masnach o air Duw; eithr megys o burdeb, eithr megys o Dduw, yn ngwydd Duw yr ydym yn llefaru yn Nghrist;" yn ngwydd Duw i fod yn ddisfrifol, yn Nghrist i fod yn nerthol.

Wrth ddarfod, mi ddymunwn eich hannog i wyllo yn erbyn pob peth ag sydd â thuedd ynddo i anmharu ysbryd y wein-  
CYF. III.



idogaeth. Ac y mae yn syndod meddwl, medd rhai dynion duwiol, càn lleied peth a wna hyny. Gwyliwch *rhag cynnefindra* â dyledswyddau eich gweinidogaeth. "Mae tuedd," medd un awdwr, "mewn hir bregethu i ddrygu ysbryd pregethu, os na fydd rhywbeth oddifewn i weinyddu cynnalïaeth iddo." Mae yr hyn sydd fywiol a theimladol yn colli yn y swyddol. "Ar y cyntaf," meddai, "yr oedd gogoniant ofnadwy y tabernacl yn llenwi yr offeiriad â braw. Ond wrth hir weini ynndo, yr oedd cynnefindra yn cynnyddu—hyfder ac anwyliadwriaeth yn cymeryd lle gwylder ac ofn, nes o'r diwedd yr aeth yr offeiriaid yn ddigon rhyfygus i offrymu â than dyeithr, ac yn ddigon moethus, anllad, a drygionus, fel ag y parasant i ddynion ffeiddio offrwm yr Arglwydd." Mae magl i ninnau yn hyn, fy nghyfeillion. Nid wyf yn ammheu dim, fy mrodyr, yr amser cyntaf y byddwch chwi yn nesâu at sacramentau yr efengyl, y bydd teimlad o wylder a thynnerwch yn eich meddiannu, ac y bydd awydd arnoch am ddyosg eich hesgidiau oddiam eich traed. Ond O, a fydd yr un ysbryd yn och ugain mlynedd i heddyw! Nid oes dim a ddiogela hyny, fy mrodyr, ond i chwi gael adnewyddu eich galwedigaeth yn aml trwy adnewyddiad eich hysbryd mewn crefydd; ymarfer gras, a chael eich cario trwy yr ymarferiad hwnw i gymundeb â Duw yn fynych, yn y cyflawniad o ddyledswyddau eich gweinidogaeth.

Gwyliwch hefyd rhag i ysbryd y weinidogaeth gael ei ddrygu yn och drwy gynnydd unrhyw lygredigaeth yn eich calonau. "Mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro." Ac am hyny, oddieithr i ni gael ein cadw yn wastadol o dan farweiddiad, ac ymgeledd maddeuol ras, nis gall na fydd ein calonau yn aml yn llygredig ac yn anmharus. Ni a gollwn bob cydymdeimlad â, a chwaeth at, ein dyledswyddau. Ac yn wir, peth truenus iawn a fydd ceisio ymlusgo trwyddynt hwy yn y cyflwr hwnw, pan y byddo y teimlad o euogrwydd cydwybod, ac o annhymher ysbryd, yn lladd ein nerth i'w cyflawni; ac eto mae hyny yn well, i'm tyb i, na phe baem yn *colli pob teimlad* o'n hanmhariaeth, ac yn ymgynnefino â gweddïo, ac â phegethu, heb un rhwystr, megys pe na byddai dim o'i le rhwng ein hysbryd ni â Duw. I mi y mae yn

arwydd pervglus pan y byddo pregethwr yn gallu gwneuthur hyny. Ond, os nad wyf yn camgymeryd yn fawr, fe welwyd esiamplau o'r cyfryw bethau yn Nghymru cyn hyn: dynion o ran ymddangosiad, pan yn y pulpud, yn llawn o hwyliau nefol, ac felly yn wastad, ac hwyrach am flynyddoedd, ac eto yr un dynion ar yr un amser yn byw ar gyffiniau rhyw lygredigaeth neu gilydd, ac yn brin, i'e yn rhy brin, yn dianc heb lychwino eu cymeriad moesol. Fe ddywedai yr hen John Newton na roddai efe ddim gwelty'n am y sicrwydd hwnw nad oedd yn cael ei leithio gan bechod. Ac, yn wir, mae yn beth amheus a yw teimladau o'r fath yn y pulpud yn werth llawer mwy. A ddichon fod gwir orfoledd mewn dyledswydd heb gymundeb rhwng yr ysbryd â Duw ynddi? Ac a ydyw cymundeb â Duw yn beth posibl, yn enwedig i'r graddau ag a fyddo yn peri gorfoledd, ac eto pechod yn cael ei arbed, a'r galon yn aros heb ei sancteiddio? Gwyliwn dwyllo ein hunain, fy mrodyr. Gallwn arfer llais a geiriau gorfoleddus, a chynhesu yn ngwrês ein gwrandawr; ond nis gall fod ein hysbryd yn gorfoleddu yn Nuw heb fod pechod yn cael ei ddarostwng ynom. Mae yn amlwg wrth y salm hon nad felly yr oedd Dafydd tra yn aros dan euogrwydd ei bechod. Ni a'i cawn ef yn cwyno fod ei nerth wedi ei adael, a'i wefusau wedi eu cau; ac yn lle ymddangos fel un yn clywed gorfoledd a llawenydd, mae yn cydnabod ei amddifadrwydd o honynt, ac yn gweddio am gael ei adferu i'w mwynhâu; yr arwydd goreu, dybygid, o ddy'n grasol pan yn y cyflwr hwnw. Ond am danoch chwi, fy mrodyr, os ydych yn ymdrech yn erhyn pechod, na ddigalonwch. "Ymgedwch rhag pob rhith drygioni," mewn meddwl, gair, ac ymddygiad. Cofiwch fod temtasiynau yn perthyn i'ch swydd, a byddwch ddyfal i gadw eich hunain yn bur. Gwyliwch rhag pob cydbartiaeth yn eich gweithrediadau eglwysig—pob cynllwyn ac ystryw i ennill eich hamcanion. Gwyliwch ymysg eich dyledswyddau rhag fod un o honynt yn gu a'r llall yn gâs genych, a chael eich temtio felly i aberthu y naill i'r llall yn ormodol, yn hytrach i aberthu i hunan, a cholli drwy hyny yr hyn sydd o werth yn y ddwy, sef ufudd-dod a hunanymwadiad. Gwyliwch rhag arfer gosod allan eich gwrthwynebwr yn beth nad yw—cam-

ddeugli ei eiriau, a phriodoli amcanion iddo pan nad yw yr amcanion hyny yn eglur, a than rith o zel dros yr hyn sydd dda, tywallt arno eich digofaint a'ch drwgdeimlad. Cofiwch fod y cnawd yn agos atom yn y pulpud ac yn y lletty; a chan fod i chwi demtasiynau ymhob man, ymhob man y byddoch chwithau ar eich gwyliadwriaeth. Gwyliwch ar ol pechu rhag pasio y peth yn ysgafn, heb edifarhâu am dano a cheisio maddeuant yn ngwaed Crist, ond boddloni yn unig ar y feddyginiaeth y mae amser ac anghof yn ei dwyn. Gau feddyginiaeth yw hono, fy mrodyr. Nid oes dim cysur a newydd-deb ysbryd yn ei dilyn, ond yn hytrach diffwythdra, ac yn y diwedd gofid. Ond trwy yr ymgeledd y mae y Salm-ydd yn gweddio am dani yn y salm hon, mae gwir iechyd—hyny yw, heddwch, cariad, a rhinwedd—yn cael eu hadferu i ysbryd pechadur euog; ei galon yn cael ei hëangu trwy lawenydd, a'i wefusau cauedig eu hagoryd i fynegu moliant Duw. Pwy a fuasai yn meddwl, wedi ei gwmp dychrynlyd, y gwelsid Dafydd yn brophwyd i Dduw mwyach? Ac eto Dafydd a gawn ni, yn niwedd y salm hon, ar ol cael ei waredu o ddystryw ac anobaith, yn dadgan ei benderfyniad i ddysgu eraill, ac yn agoryd ei enau fel eiriolwr dros holl eglwys Dduw. Pwy, a chofio llys yr archoffeiriad, na fuasai yn teimlo bron mor anobeithiol am Pedr ag am Judas? Anrhydeddasid ef uwchlaw ei frodyr. Fe grybwyllir yn nodadwy am Judas, a hyny drachefn a thrachefn, ei *fod yn un o'r deuddeg*; ond yr oedd Pedr y *penaf* o'r deuddeg: un o'r tri cyntaf o'r tri. Ac wrth ystyried pwy oedd efe, ynghyd a natur ei bechod, yr amser a'r dull y cyflawnwyd ef, yr oedd ei gwmp yn fawr iawn. Ac ni a allwn feddwl, ar ol iddo syrthio, ei fod mewn perygl, yn yr olwg ar ei anfad angharedigrwydd, o gael ei lynu i ormod tristwch, a syrthio drachefn o ddwyllaw ei gau hyder a'i ryfyg i grafangau anobaith. Pa fodd bynag, fore y trydydd dydd, os oedd Judas ar goll, yr oedd Pedr wedi ei gadw. A mwy na hyny, ni a gawn i'r Gwardwr bendigedig ddileu pob cof am ei wrthgiliad, adgyweirio ei ysbryd, ac adnewyddu ei gomisiwn. Ac erbyn dyfod dydd y Pentecost, pwy a welwn ni yn blaenori yn sylfaeniad yr eglwys Gristionogol, ac yn tori y dystaw-

rwydd gyntaf am adgyfodiad y Gwardwr, ond efe? “A Phedr,” medd y gair—Pedr yr hwn y galleid dysgwyl fod gwarthrudd wedi ei doi, a'i wesusau yn seliedig—“a Phedr, yn sefyll gyda'r un ar ddeg, *a gyfododd ei leferydd.*” O ein Meistr da ni! Mae gobaith i'r tlawd, ac anwiredd yn cau ei safn. Cyfiawnder, fy mrodyr ieuainc a hoff, cyfiawnder fyddo gwregys eich lwynau chwi, a ffyddlondeb yn wregys eich harenau. Ac yn nghanol gwendidau heb rifedi, ymgryfhewch ac ymgysurwch. Maddeuwr, ie, Duw y maddeuau yr ydych yn ei wasanaethu.

## EGLWYS CRIST.\*

**M**AE y mater hwn wedi bod, ac yn parhâu, yn destun dadl rhwng y naill ddosbarth a'r llall o gristionigion er ys oesoedd bellach. Ac y mae yn ddiammheu y dylai yr ystyriaeth o hyny gynnyrchu arafwch yn ein meddyliau ninnau wrth ymdrin âg ef, a'n dysgu i beidio siarad yn rhy bendant a hyf ynghylch pethau ag y mae'r doeth a'r duwiol, fe ddichon, yn teimlo yn ddyledswydd arnynt fod yn wylaidd a gostyngedig.

Os edrychwn i'r Testament Newydd, ni a gawn fod y gair *eglwys*, o ran ei ystyr grefyddol, yn golygu weithiau holl deulu Duw. Maent hwy yn un corff yn Nghrist, ac i'w golygu yn un eglwys ar y ddaear o ddechre hyd ddiwedd amser. Er fod marwolaeth yn lluddias i'w haelodau barhâu, eto gan fod y naill yn cyfodi yn lle y llall, a hyny trwy eu bod yn offerynol i genedlu eu gilydd yn Nghrist drwy yr efengyl, ac yn gyffelyb y naill i'r llall, yn gystal ag yn wahaniaethol oddiwrth bawb eraill, y maent oll yn cael eu hystyried fel un corff neu genedl sanctaidd o ddynion yn rhedeg drwy holl genedlaethau y ddaear. Ond y mae yn amlwg hefyd fod y gair *eglwys* yn cael ei arferyd yn y Bibl am gynnulleidfa o gristionogion arni ei hun, oblegid y mae pob cymdeithas neillduol felly o'r un natur â'r eglwys gyffredinol; a'r unig wahaniaeth rhyngddynt a'u gilydd ydyw y gwahaniaeth sydd rhwng rhan o beth â'r oll o hono; ac

\* Traddodwyd llawer o'r sylwadau hyn ar *Eglwys Crist* gan Mr. Rees fel araeth ar "Natur Eglwys" yn ngwasanaeth yr ordeiniad yn Nghymdeithasfa'r Bala, Mehefin 14, 1843, pryd y neillduwyd y Parch. Robert Hughes, Gaerwen, a'r diweddar Robert Williams o Ynys Enlli. Wedi hyny efe a'u darparodd, gyda chwanegiadau atynt, yn draethawd i'r *Traethodydd* yn y ffurf eu ceir yma.



felly fe briodolir iddynt yr un rhagorfreintiau, ac fe'i gelwir wrth yr un enw, yn yr Ysgrhythrau sanctaidd.

Edrychwn yn gyntaf ar ddefnyddiau yr eglwys hon, neu gymeriad y dynion a addef yr Arglwydd Iesu fel deiliaid ei deyrnas yn y byd.

Mae yn gofyn i ddynion fod o nodweddiad moesol cymeradwy cyn y cydnabyddir hwy yn ddeiliaid da o gymdeithas wladol, ac felly mae yn rhaid fod rhywbeth mwy na hyny yn anghenrheidiol i'w gwneyd yn ddeiliaid i Grist, ac onidê y mae'r gwahaniaeth rhwng ei deyrnas ysbrydol ef â theyrnas-oedd y byd hwn yn colli ac yn darfod. Eto y cyfryw ydyw anwybodaeth dynion am natur teyrnas yr Arglwydd Iesu, fel y gofynir yn gyffredin fwy oddiwrth ddyn i'w gyfansoddi yn ddinesydd nag i'w gyfansoddi yn gristion, ac y cydnabyddir ef yn aelod o'i gorff cysegredig a sanctaidd ef pan yn cael ei fwrw allan o'r gymdeithas wladol am ei ddrygioni! Ond mae yr olwg a rydd y Bibl ar y mater hwn yn dra gwahanol. Yma dangosir fod cynneddfau gwir aelodau eglwys Crist y fath nas gofynir mo'u cyffelyb mewn un gymdeithas arall ar y ddaear, megys ffydd, edifeirwch, a sancteiddrwydd. Meibion Duw, a phobl sanctaidd, y gelwid aelodau yr eglwys o dan yr hen destament; ac nid oedd bod yn hâd naturiol Abraham, perthynas wladol â'r eglwys, na dim arall, yn rhoi hawl i'w rhagorfreintiau yn ngolwg Duw os byddai y dyn yn amddifad o wir sancteiddrwydd (Psalm l. 16, 17). Ac y mae yn ddiddadl fod y sancteiddrwydd hwn i ddynodi aelodau eglwys y testament newydd mewn modd mwy amlwg a neillduol. Am hyny y mae Ioan Fedyddiwr yn gwneyd neshâd teyrnas nefoedd yn gymhelliad i edifeirwch; ac y mae yr Arglwydd Iesu ei hunan, er addef y posiblwrwydd i bublicanod a phuteiniaid fyned i mewn iddi trwy gyfnewidiad grasol, eto yn tyngu mai "oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw."

Darlunir aelodau yr eglwys fel rhai "diargyhoedd a diniwed, yn blant difeius i Dduw yn nghanol cenedlaeth ddrygionus a throfâus, ymhlith y rhai y maent yn dysgleirio megys goleuadau yn y byd." Ac nid yw eu rhagoriaeth ar eraill ddim yn fwy hynod nag ydyw eu rhagoriaeth arnynt eu hunain, â'u cymharu yn awr â'r peth oeddynt yn amseroedd eu hanwybodaeth,

Yr oeddynt gynt “ yn dywyllwch, ond yr awr hon goleuni ydynt yn yr Arglwydd—gynt yn annoethion, yn anufudd, yn cyfeiliorni, yn gwasanaethu chwantau ac amryw feluswedd, gan fyw mewn drygioni a chenfigen, yn ddygasog, ac yn casâu eu gilydd ;” ond yn awr maent “wedi rhoddi heibio, o ran yr ymarweddiad cyntaf, yr hen ddynt, yr hwn sydd lygredig yn ol y chwantau twyllodrus, ac yn gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grëwyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd.” Darlunir hwy fel rhai “anwyl gan Dduw, wedi eu galw i fod yn saint,” yn “ffyddloniaid yn Nghrist Iesu,” yn demlau i’r Ysbryd Glân, yn llawn daioni, wedi eu cyfiawni o bob gwybodaeth, ac yn abl i rybuddio eu gilydd hefyd. Dyma ydoedd nodweddiad aelodau yr eglwysi apostolaidd ; a bod Crist am i’w eglwysi ymhob oes gael eu hadeiladu yn unig o’r cyffelyb ddefnyddiau, sydd yn hollol eglur, ni a dybygem, oddiwrth ei waith yn eu harfogi âg awdurdod i fwrw allan o’u mysg ddyntion o nodweddiad gwahanol, fel rhai nad oes iddynt etifeddiaeth yn nheyrnas Crist a Duw.

Mae yn bur eglur, gan hyny, nad yw eglwysi sydd wedi eu cyfansoddi o bechaduriaid cyhoeddus ac ymarferol, i.e, yr eglwysi hyny ag sydd heb awdurdod o’u mewn eu hunain i fwrw y cyfryw allan o’u cymundeb, ddim, o leiaf yn y peth hwn, yn eglwysi apostolaidd. Megys na chaiff y dyn a fyddo byw a marw mewn pechod ei dderbyn i’r nef, felly ni ddylai y dyn ag y mae yn wybyddus ei fod yn byw mewn pechod gael ei dderbyn i’r eglwys ar y ddaear, na neb gael y rhagorfreintiau hyny a berthyn yn unig i gredinwyr, ond y cyfryw ag y byddo yn iawn synied am danynt fod y gwaith da hwnw wedi ei ddechre ynddynt a orphenir hyd ddydd Iesu Grist. Duw yn unig, mae yn wir, sydd i farnu’r galon, ac i benderfynu cyflwr tragywyddol plant dnyion ; ond pan ddelo egwyddorion y galon i’r golwg drwy yr ymddygiadau allanol, mae yr eglwys hithau i farnu y pren wrth ei ffrwyth—i gymeryd y dyn y peth y mae yn ymddangos ei fod, ac i ymddwyn ato yn gyfatebol.

Wedi sylwi cymaint â hyna ar ddefnyddiau yr adeiladaeth ysbrydol, awn rhagom i ddangos pa fodd y mae’r defnyddiau yma yn cael eu cyfansoddi yn eglwys weledig i Grist yn y byd.

Dymunem i'r darlennydd ystyried nad yw bywhâu pechaduriaid trwy ras yn ddigon i'w gwneyd yn eglwys, mwy nag y mae parotoi defnyddiau yn ddigon i wneuthur adeilad. Mae yn rhaid dwyn y meini bywiol hyn i berthynas neillduol â'u gilydd, a'u cymhwys gydgysylltu yn ol trefn yr efengyl, i'r dyben o fod yn eglwys, neu yn dŷ ysbrydol a theml sanctaidd yn yr Arglwydd. Mae yn wir fod y saint yn eu hundeb â Christ yn cael eu gwneyd yn aelodau o'i gorff dirgeledig ef; ond y mae mwy na hyny yn anghenrheidiol i'w gwneuthur yn eglwys weledig iddo ar y ddaear. Mae yn rhaid fod rhyw berthynas weledig rhyngddynt â'u gilydd i'r dyben o gyrhaeddyd hyn. Ac yn awr, yr unig ffordd i gyfansoddi y berthynas hono ydyw, fod cynifer o'r saint, mewn darostyngiad i Grist, yn ymgorffori ynghyd, ac yn myned i gyfammod difrifol â'r Arglwydd, ac â'u gilydd, i'w wasanaethu ef yn efengyl ei Fab. Os ydyw yr eglwys yn fath o gymdeithas ag sydd yn dwyn dynion i berthynas newydd â'u gilydd, oddiar ba un y cyfyd dyledswyddau a chydygyfranogiad o ragorfreintiau nad oeddynt yn perthynu i'r dynion hyny o'r blaen, yna mae yn rhaid fod y saint yn dyfod iddi yn gyffelyb ag y mae dynion yn dyfod i'r ystâd briodasol, sef trwy ymgyfammodi yn ddifrifol â'u gilydd yn yr Arglwydd i'r dybenion hyny. Dyma yr unig ffordd ag y mae eglwys yn dyfod i fôd yn y byd hwn; ac y mae yr eglwys hon yn parhâu trwy fod eraill yn cael eu hychwanegu ati gan yr Arglwydd o bryd i bryd.

Yr oedd crefydd ar y cyntaf yn unig mewn teuluoedd; ond pan grynhôdd yr Arglwydd y teuluoedd hyny i'w dwyn i un ystâd eglwysig dan Sinai, yr ydym yn cael fod yr holl oruchwyliaeth yn sylfaenedig mewn cyfammod difrifol rhyngddo ef a'r bobl. Pan ddiddymwyd y cyfammod hwnw, yr oedd yr ystâd eglwysig seiliedig arno yn terfynu, y gwasanaeth a'r addoliad yn peidio, a chenedl Israel fel y cyfryw yn darfod a bod yn eglwys weledig i Dduw. A pha bryd bynag y gwna yr Arglwydd hwy eto yn eglwys iddo ei hun, efe a'u gwna felly trwy wneuthur â hwynt y cyfammod newydd yn ol ei addewid. Yr un modd y dangosir am y Cenedloedd, hwythau, eu bod yn cael eu dwyn i fynydd sancteiddrwydd Duw, sef i ystâd eglwysig, trwy ymaflud yn y cyfammod hwn, ac ymbriodi, nid yn unig â'r Arglwydd, ond â'i bobl ef hefyd (*Esa.* lvi. 4, 7, a lxii. 5). Dywedir fod y gair a

ddarllenwn ni *cyffesu*, ac a arferir yn aml gan yr Apostol Paul am broffes o'r efengyl, yn arwyddo cydbroffesu, hyny yw, dynion wedi ymgysiammodi a chyttuno â'u gilydd i ddal allan neu broffesu Crist. Yn gyson â hynyma yr ydym yn darllen, yn hanes yr eglwysi apostolaidd, fod y saint yn gyntaf dim, mewn trefn i gyflawni eu gorchwylion eglwysig yn rheolaidd, yn rhoddi eu hunain i'r Arglwydd, ac i'w gilydd trwy ewylllys Duw, yr hyn a gynnwys yn ddiammheu eu bod yn ymrwymo yn wirfoddol i ymostwng i bob trefn, ac i ymarfer â phob braint a dyledswydd orphwysedig arnynt, yn eu hystâd eglwysig tuag at Grist, a thuag at eu swyddogion, yn gystal â thuag at eu gilydd fel cydaelodau.

Os nad ydym i edrych ar y cyfammod hwn yr un peth yn hollol â'r cyfammod gras, eto y mae yn un o'r dyledswyddau sydd yn cael eu gofyn yn hwnw; ac hebdo, o ran sylwedd y peth o leiaf, mae yn anmhosibl i gredadyn ddyfod yn rheolaidd yn aelod o eglwys weledig Crist yn y byd. Ië, y mae gwaith dynion yn cyflwyno eu hunain i'r eglwys, a gwaith yr eglwys yn eu derbyn, yn cynnwys ynddo yn rhinweddol y cyfammod hwn. Ac oni ddylai proffeswyr ystyried hyny? Pa fodd y dichon creadur sefyll mewn amgylchiad mwy difrifol, a myned dan rwymau mwy pwysig, na phan y byddo ger bron yr Arglwydd a'i bobl yn ymrwymo i fod o hyny allan yn eiddo Duw, i gadw ei holl orchymynion ef, a'i wasanaethu yn holl ordinhadau ei dŷ? Ac eto mae yr ysgafnder gyda yr hwn y mae lliaws o broffeswyr yn medru gadael yr eglwys, ac esgeuluso y dyledswyddau ag yr oeddynt unwaith wedi tyngu i'w cyflawni, yn profi fod eu cydwybodau yn fwy dideimlad o'r rhwymedigaethau hyn nag ydyw llawer o ddynion y byd o'u haddunedau cyffredin i'w cyd-ddynion gyda gorchwylion y bywyd hwn. Onid yw hyn yn cyfodi i fesur mawr oddiar nad yw dynion yn deall nac yn ystyried beth y maent yn ei wneuthur, na pha rwymau neillduol y maent yn eu cymeryd arnynt eu hunain, wrth ymuno âg eglwys Dduw? Pa fodd bynag, mae yn ddigon diammheuol mai po manylaf y byddo proffeswyr wedi eu haddysgu yn nyledswyddau eu hystâd eglwysig, a pho mwyaf sicr a phendant y byddont yn ymgysiammodi i'w cyflawni, mai mwyaf oll o deimlad o'u rhwymedigaethau i fod yn ffyddlawn a fydd yn

aros ar eu cydwybodau. Mor ddifrifol yr oedd Moses a Josua ar ddiwedd eu hoes yn gwneyd i Israel adnewyddu eu cyfammod â'r Arglwydd! A phob amser y gwnaent hyny, fe'i dilynid dros ryw hyd ac i ryw raddau â mwy o ddyfalwch yn nyledswyddau ac addoliad y cyfammod hwnw.

Mae genym yma air i'w ddywedyd ar y mater hwn wrth hâd credinwyr. Nid oes un ffordd i chwithau, cofiwch, i gyflawn aelodaeth yn eglwys Dduw ond drwy roddi eich hunain i'r Arglwydd ac i'w bobl. Yr oeddych chi, mae yn wir, yn cael eich cyfrif gyda saint y Goruchaf yn eich rhieni duwiol o'ch mebyd; ond nid ydys i'ch golygu mwyach ynddynt hwy wedi i chi ddyfod i oedran i weithredu drosoch eich hunain. Ac yn awr mae yn perthyn i chi ystyried pa beth a wnewch: ai gwerthu y fraint oedd genych o'ch genedigaeth, ai ynte llwyr ymroddi i wasanaethu Duw. Na feddylwch fod gwaith eich rhieni yn eich cyflwyno i'r Arglwydd yn eich mabandod yn gwneyd yn anfuddiol i chi gyflwyno eich hunain iddo ef. Nac ydyw, mwy nag yw eu gwaith yn galaru o herwydd eich pechodau, ac yn gweddïo drosoch ar Dduw, yn gwneuthur yn afreidiol i chi gyflawni y dyledswyddau hyny drosoch eich hunain. Chi a wyddoch eich bod o'ch mebyd ynddynt hwy yn ddeiliaid yr un llywodraeth wladol â hwythau; ond er bod felly, yr ydych ar ol dyfod i oedran, os bydd galwad arnoch, yn rhwym i dyngu ffyddlondeb bob un drosto ei hun i'r awdurdodau hyny. Onid yw eich braint a'ch dyledswydd o fyned dan gyfammod yr Arglwydd, a than ei gynghrair ef, yn anfeidrol fwy? Mae efe wedi addaw bod yn Dduw i chi, a'ch rhieni duwiol wedi eich cyflwyno iddo mewn ffydd yn yr addewid hono; ac y mae yn anmhosibl i chi syrthio yn fyr o fwynhâu ei chynnwysiad ond trwy ddiystyru eu hact ddifrifol hwy, a gwrthod Duw eu tadau. Os cyfrifwch chi yn weithred ysgeler yspeilio Duw o ryw gyfran o'r meddiannau bydol a allasai eich rhieni fod wedi ei gysegru i'w wasanaeth ef, pa faint mwy ysgeler ydyw ei yspeilio ef o'r enaid anfarwol ag y darfu iddynt hwy, càn belled ag yr oedd hyny yn bosibl iddynt, ei gysegru i'r Arglwydd, cyn ei fod yn abl i weithredu drosto ei hun? O na ellid dyweyd am lawer o honoch yn fuan, "Cymeraist yr Arglwydd heddyw i fod yn Dduw i ti, ac i rodio yn ei ffyrdd, ac



i gadw ei ddeddfau a'i orchymynion a'i farnedigaethau, ac i wrando ar ei lais ef. Cymerodd yr Arglwydd dithau heddyw i fod yn bobl briodol iddo ef, megys y llefarodd wrthyt!"

Wedi dangos fel hyn mai trwy ymgorffori, neu ymuno â'u gilydd, y mae unrhyw nifer o gredinwyr yn dyfod i fod yn eglwys weledig i Grist, ni a geisiwn sylwi ychydig ar y gallu neu y rhagorfreintiau â pha rai y mae efe wedi anrhegu ei bobl yn yr ystâd gorfforedig hono.

Ffynnon naturiol pob awdurdod a braint yw y Duw mawr; a'r trosglwyddiad cyntaf a wnaed o'r pethau hyn gyda golwg ar bechaduriaid ydoedd i Grist Iesu fel Cyfryngwr a Phen ei eglwys, yn yr hwn y rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder, yn awdurdod yn gystal a gras. Mae credinwyr, drachefn, yn dyfod i hawl o'r cwbl trwy rinwedd eu hundeb â Christ. Yma y maent yn derbyn i ddechre y gallu neu y fraint o fod yn feibion i Dduw, ac yn hyny yn dyfod i hawl wreiddiol o'r holl etifeddiaeth a ddarparwyd iddynt; oblegid "os plant, etifeddion hefyd." Os nad ydyw awdurdod a rhagorfreintiau eglwysig ddim amgen na rhan o etifeddiaeth y saint, yna mae yn rhaid eu bod wrth gael eu gwneyd yn feibion yn cael eu dwyn hefyd i feddiant o'r holl ragorfreintiau hyny. "Pa un bynag ai Paul, ai Apolos, ai Cephas," y mae pob peth yn eiddo y rhai sydd yn eiddo Crist. Ond er eu bod fel hyn yn dyfod i hawl wreiddiol o'r cwbl yn eu hundeb âg ef, eto nid ydynt i ymarfer âg un ragorfraint ond yn unig yn ol y drefn y mae efe wedi ei sefydlu. Mae pob peth i'w wneuthur yn ol y portread a ddangosir yn y gair sanctaidd.

Ac o'u holl ragorfreintiau, y cyntaf i'w defnyddio, a hyny mewn trefn i ddyfod yn rheolaidd i fwynhâd o'r lleill, ydyw yr awdurdod a roddes Crist i unrhyw nifer o gredinwyr ymgynnull at eu gilydd yn ei enw ef, i ymarfer â moddion er adeiladaeth ysbrydol eu heneidiau. Heb hawl oddiwrtho ef, nis gallasant wneuthur felly; ond gan iddo ef ganiatáu y rhagorfraint hon i'w bobl, nis gallant hwy eu hunain ei hesgeuluso, ac nid oes gan un awdurdod ar y ddaear hawl gyfiawn i'w hamddifadu o honi. "Os cydsynia dau o honoch am ddim oll," medd Iesu Grist, "beth bynag a'r a ofynant, efe a wneir iddynt gan fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd. Canys lle mae dau neu dri wedi

ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt." Mae'r saint, fel dynion eraill, o duedd gymdeithasgar; a chan fod y duedd hon yn cael ei sancteiddio trwy yr efengyl, mae yn naturiol meddwl fod yn felus ganddynt gydgyfrinach, a rhodio i dŷ Dduw ynghyd. Ond y mae mwy yn y peth na'u bod hwy yn hoffi hyny; mae Mab Duw wedi ordeinio iddynt wneuthur felly; canys buasai yn anmhosibl i'r saint ymgynnull yn enw Crist heb awdurdod neillduol i hyny oddiwrtho ef ei hunan. Ac nid yw yn debyg ychwaith y buasai efe yn addaw bod yn eu canol, nac yn sicrhau iddynt y byddai eu gwasanaeth yn y cyfryw gynnulliadau yn gymeradwy gan ei Dad yr hwn sydd yn y nefoedd, oni buasai fod y cwbl o'i ordeiniad ef ei hunan.

Drachefn, wedi i gynifer o gredinwyr ymgorffori yn eglwys, neu yn gorff o eglwysi, yn y drefn a nodwyd, mae gan yr eglwysi hyn hawl ac awdurdod oddiwrth Grist i ddewis dynion o'i anfoniad ef, a'u gosod yn ei enw, a thrwy y moddion a drefnodd, yn y swyddau hyny a sefydlodd efe yn ei dŷ (*Fer.* iii. 14, 15). Ac wedi ei chyflunio a'i threfnu yn y modd yma, mae yr eglwys mewn ystâd ag y mae ganddi hawl uniongyrchol oddiwrth yr Arglwydd Iesu i ymarfer â'r holl ragorfreintiau a berthyn i eglwys y testament newydd, megys i bregethu'r gair, i weinyddu yr ordinhadau, i dderbyn i'w chymundeb bawb ag y byddo arwyddion eu bod yn credu yn Nghrist, i rybuddio yr afreolus, i adgyweirio y tentiedig, i faddeu a dyddanu a chadarnhau eu cariad at yr edifeiriol, ac hefyd yn enw eu Harglwydd Iesu Grist pan ymgynnullont ynghyd yn eu cyfarfodydd eglwysig i draddodi i Satan, a bwrw ymaith y dyn drygionus ac anedifeiriol o'u plith. Mae yr holl bethau hyn i gael eu dwyn ymlaen yn ol meddwl Crist. Nid oes gan yr eglwys ddim hawl i dderbyn i'w chymundeb neb ond y rhai ag y byddo rhyw le i obeithio eu bod wedi eu derbyn gan yr Arglwydd Iesu, nac i fwrw allan neb ond am bechodau mawrion a chyhoeddus, a hyny pan fyddo y gair yn hollol fod yr hwn a gyhuddir yn euog o honynt; ac yn gyffredin hefyd, ni ddylai hyn gael ei wneuthur cyn i bob moddion eraill a arferwyd tuag ato gael eu diystyru, a phrofi yn aneffeithiol i'w adferu i edifeirwch. Er mai swyddogion yr eglwys yn benaf sydd i weithredu yn yr orchwyliaeth hon, eto mae rhyw gydweithrediad calonog i fod yn y corff i gyd; ac

felly dywedir fod y cerydd a weinyddir trwyddi "yn dyfod oddiwrth laweroedd." Wrth bob rheswm, nid yw yr eglwys i esgymuno neb o'i chymundeb ond ei haelodau ei hunan; canys beth sydd iddi hi a farno ar y rhai sydd oddiallan? Ac nid ylyw yr esgymundod hwn chwaith i amddifadu dyn o unrhyw ragorfaint ond yn unig y rhagorfreintiau ysbrydol hyny ag y daethai i fwynhâd o honynt yn rhinwedd ei berthynas âg eglwys Dduw. Ac yn gymaint a bod y rhagorfreintiau hyn yn rhoddion yr Arglwydd Iesu i ddynion, mae yn amlwg nas gall un gymdeithas amddifadu dyn o honynt heb awdurdod i hyny oddiwrtho ef ei hun. Ac, yn wir, y mae'r effeithiau a briodolir i'r orchwyliaeth ddifrifol hon mewn rhwymo cydwybodau dynion, attal eu pechodau, dinystrio y cnawd, a hyny fel y byddo yr ysbryd yn gadwedig, yn profi y rhaid ei bod o ddwyfol sefydliad, ac y dylai gael ei gweinyddu gyda galar dwys a gweddïau taerion.

Ymhellach, os oes gan yr eglwysi hawl i fwrw aelodau llygredig allan o'u mysg, mae yn hawdd casglu, dybygem, os bydd unrhyw eglwys wedi myned ei hunan mor llygredig fel y mae yn anmhosibl i gredinwyr barhâu yn ei chymundeb heb golli adeiladaeth, ac heb gydymffurfio â hi mewn pethau pechadurus, fod gan y credinwyr hyny hawl oddiwrth Grist i ymwrthod â chymundeb yr eglwys hono, a darparu yn amgenach i'w hadeiladaeth eu hunain. Yr ydym yn addef fod hwn yn gam pwysig i'w gymeryd. Os ydyw eglwysi gwladol wedi cyfeiliorni wrth geisio gorfodi dynion i aros yn eu cymundeb, mae lle i ofni fod Ymneillduwyr, hwythau, wrth hir ddadleu rhyddid cydwybod, ac ymdrech yn erbyn gornes eglwysig, wedi myned i edrych yn rhy ysgafn ar ymraniadau. Y mae ein meddyliau wedi ymgynefino â hwy. Pa beth bynag yn y byd crefyddol sydd yn achos galar i bobl dduwiol, ychydig yn yr oes, fe dybygid, sydd yn galaru o herwydd ansawdd bleidiol a rhanedig eglwys Dduw. Ewyllys a gweddi Crist, yn ddïau, ydyw i'w bobl oll fod yn un; ac y mae anghyfyddiaethau ac ymbleidïo yn cael eu gwahardd mor bendant yn y Bibl â dim pechodau eraill. Ond, o'r ochr arall, pan fyddo eglwys wedi ymylgru oddiwrth athrawiaeth, addoliad, a buchedd yr efengyl, heb weinidogaeth i'w hadeiladu, na dysgyblaeth i'w phuro ei hun, ac yn enwedig pan

fyddo yn gosod pethau croes i ewyllys Crist yn delerau cymundeb, ac yn gwarafun rhyddid cydwybod, mae yn ddiddadl fod gan gredinwyr y pryd hwnw hawl oddiwrth yr Arglwydd Iesu i gilio yn heddychol o gymundeb yr eglwys hono; i.e., y mae yn ddyledswydd arnynt yn y ffordd hon i ddwyn eu tystiolaeth yn erbyn ei hadfeiliad a'i llygredigaeth. Mae yn ddigon tebyg y bydd y cyfryw eglwysi â'u hanathema yn uchel yn erbyn sism; ond mewn gwirionedd hwynt-hwy eu hunain sydd yn euog o sism, gan mai ynddynt hwy, ac nid yn y rhai sy'n cilio o'u cymundeb, y mae gwir achos o'r ymranïad. Mae yn ddyledswydd ar gredinwyr graffu ar eglwysi, yn gystal ag ar bersonau, sydd yn peri anghydfod a rhwystrau yn erbyn yr efengyl, a chilio oddiwrthynt. "Deuwch allan o honi, fy mhobl i, fel na byddoch gydgyfranogion o'i phechodau hi, ac na dderbynioch o'i phlâau." Fel hyn y mae yr Arglwydd yn symud canwyllbren eglwys lygredig: myned â'r rhai sydd yn oleuni'r byd o'i mysg, a gadael y gweddill yn dywysogion deillion i'r deillion. Cyn bwrw ymaith yr eglwys Iuddewig, yr oedd y credinwyr wedi eu cynnull o honi, a'u hadblanu yn yr eglwys gristionogol. A phan, drachefn, y llygrwyd Cristionogaeth yn yr Eglwys Babaidd, y diwedd a fu i Grist alw ei bobl allan o'r cymundeb hwnw. Ac nid oes dim ammheuaeth nad oedd yr Anghydfurfwyr gynt, a'n brodyr yn Scotland yn ddiweddar, yn gystal a'n hen dadau ein hunain yn Nghymru er ys can' mlynedd yn ol, yn ysgogi ymlaen yn yr un ffordd, ac o dan arweiniad yr un Tywysog iachawdwriaeth. Nid gwaith dynion heb yr Ysbryd ganddynt yn didcli eu hunain yn anianol o gymundeb y wir eglwys ydyw hyn, ond yn hytrach yr eglwys ei hunan o dan arweiniad yr Ysbryd yn dyfod allan o Babilon. Mae hi wedi cychwyn er ys amser bellach, ac ambell fyntai o honi wedi dyfod ronyn pellach na'r llall; ac er eu bod oll yn rhy hwyrfydig, fel yr oedd Lot i ddyfod o Sodoma, eto gellir gobeithio y bydd i Angel ei gydrychioldeb Ef ymaflyd yn nwyllaw ei bobl, ac yn ei gariad a'i drugaredd eu harwain, er eu gwendid a'u rhagfarn, i ymwrthod â holl lygredigaethau anghrist cyn dyfetha yr anwir hwnw.

Cyn rhoddi ein hysgrifell heibio, dysgwylir i ni, fe allaj, ddywedyd rhywfaint am y ffordd y mae Iesu Grist yn rhoddi

gweinidogion i'w eglwys, a hawl credinwyr o berthynas i'r mater hwnw,—pwnc ag y mae llawer o drwst yn ei gylch y dyddiau hyn.

Wrth ddarllen y Testament Newydd, yr ydym yn cael fod Crist ei hun wedi anfon yr apostolion yn ddigyfrwng, megys ag yr anfonodd y Tad yntau, a bod yr efengylwyr hwythau yn cael eu hanfon a'u galw i'r swydd drwy gyfrwng yr apostolion, o dan gyfarwyddyd yr Ysbryd prophwydoliaeth a dadguddiad Dwyfol (1 *Tim.* i. 18, a iv. 14). Ac y mae yn ddiddadl hefyd fod yr apostolion a'r efengylwyr yn ordeinio henuriaid, neu yn arfer gosod gweinidogion cyffredinol yr efengyl yn yr holl eglwysi. Hyd yma y mae'r pwnc yn amlwg. Ond pa fodd y mae Crist yn parhâu i roddi gweinidogion, a chan bwy y maent i gael eu hordeinio i'w swydd ar ol dyddiau yr apostolion, nid ydyw mor amlwg; o leiaf, y mae wedi bod yn fater dadl yn yr eglwys gristionogol er ys amser maith.

Rhai a haerant fod yr awdurdod hon wedi disgyn oddiwrth yr apostolion i ryw urdd arbenig o ddynion a ystyrir yn olynwyr iddynt, ac na ddichon neb fod yn wir weinidogion y gair ond a ordeinir gan y cyfryw rai. Nis gallwn lai na gwrthod y golygiad hwn, yn un peth, o herwydd ei fod yn seiliedig ar y dybiaeth fod y swydd apostolaidd yn parhâu; oblegid beth arall a olygir wrth "olynwyr i'r apostolion" ond rhai yn dyfod ar eu hôl hwy, i'w lle, eu hawdurdod, a'u swydd? Yn awr y mae hyn yn anmhosibl, oddieithr fod y Bibl yn dangos rhyw drefn i osod dynion yn y swydd hono heblaw yn y ffordd y gosodwyd yr apostolion cyntaf. Yr oedd galwad y rhai hyn, yn gystal a'u gwaith a'u doniau, yn anarferol, y fath nas gall neb arall gael trwy rinwedd unrhyw drefn na sefydliad pa bynag. Yr oedd pob un o honynt wedi gweled Crist, ac wedi derbyn ei gomisiwn o'i enau ef ei hun. Nid oedd un dyn ar y ddaear a allasai eu gosod hwy mewn un swydd yn enw Crist; oblegid gan mai hwy oedd y dynion cyntaf a dderbyniasant awdurdod ganddo ef i actio yn ei enw, yr oedd raid eu bod hwy eu hunain wedi cael y cwbl yn ddigyfrwng ganddo ef ei hun.

Heblaw hyny, nid oes air o sôn yn y Testament Newydd am olynwr i un o'r apostolion oddieithr i Judas Iscariot. Ond yr oedd olynwr hwnw, os gellir ei ystyried felly, yn meddu yr un



cynneddfau, ac wedi ei osod yn ei le, yn yr un ffordd â'r apostolion eraill ac y mae yr holl amgylchiad yn dangos fod hyny yn hanfodol i'r swydd. Nis gallasai yr holl apostolion ynghyd ddim galw yr un apostol arall; ac nid yw yn ymddangos y buasant byth yn meddwl am un arall oni buasai fod y brophwydoliaeth yn dangos fod hyny i fod. Yma y mae Pedr yn dyweyd fod yn rhaid ei ddewis ef o fysg y rhai oedd gyda hwy yn dilyn Crist o'i fedydd i'w esgyniad, a hyny hefyd yn ddigyfrwng gan Grist ei hunan. Ac felly wedi gosod dau o'r cyfryw ger bron, appellent at yr Hwn oedd wybyddus o galonau pawb am ddangos pa un o'r ddau hyny a etholasai efe. Yr un modd y mae Paul yn fynych yn hõni ei apostoliaeth trwy ddyweyd ei fod wedi gweled Crist, a derbyn ei gomisiwn ganddo ef ei hun, ac nid trwy gyfrwng yr un o'r apostolion eraill.

Hwyrach y dywedir nad oedd hyny yn anghenrheidiol i neb ond yr apostolion cyntaf, a bod ganddynt hwy, ar ol derbyn eu swydd gan Grist, hawl i'w throsglwyddo i'w holynwyr, ac felly i barhâu. Ond pa le y mae son am y fath drosglwyddiad yn y gair? I ba fath ddynion, wrth ba reol, drwy ba drefn, y mae'r cyfryw drosglwyddiad i gael ei wneuthur? Mae hyn oll yn ddirgelwch, heb son am y pethau hanfodol i'w swydd ag yr oedd yn anmhosibl, yn ol natur y pethau hyny eu hunain, i'r apostolion eu trosglwyddo i neb ar ol eu dydd. Mae y ffaith gan hyny nad yw Crist yn galw neb i'r swydd hon fel yn y dechreuad, ac nad oes un dangosiad yn y Bibl am ffordd arall i wneuthur hyny, nac un cyfarwyddyd wedi ei adael i'r eglwys ynghylch y peth, fel y mae gyda golwg ar swyddau eraill, ynghyd â'r ystyriaeth nad oes dim o'r doniau anghyffredin ag oedd ar yr apostolion eu hunain wedi disgyn oddiwrthynt i neb ar eu hôl, yn ddigon i brofi nad oedd Crist wedi bwriadu y swydd hon i barhâu. Yr apostolion eu hunain ydoedd gwrthddrychau cyntaf ac unig y gallu eglwysig â pha un yr oeddynt wedi eu cynnysgaeddu; nid oeddynt wedi ei dderbyn o ddwyllaw neb dynion, nac i'w drosglwyddo i neb ar eu hôl. Yr oedd eu swydd yn marw yn eu marwolaeth hwy.

Yn awr, os ydyw y doniau anarferol hyn wedi darfod, a'r apostolion heb adael ar eu hôl un swydd uwch yn yr eglwys na'r eiddo esgobion neu weinidogion cyson y gair, yna mae yn rhaid fod gan y dynion yma, mewn undeb â'r eglwysi, awdurdod oddiwrth Grist i ordeinio gweinidogion eraill o bryd i bryd. Yr ydym ni yn credu yn gadarn, ac eto yn ostyngedig, mai dyma yw y gwirionedd ar y mater hwn. Yr oedd yr apostol Paul, ni a wyddom, yn priodoli neillduad Timotheus i'r henuriaid eglwysig yn gystal ag iddo ei hun, yr hyn sydd yn dangos, o'r hyn lleiaf, fod gweinidogion cyffredinol yr efengyl yn cydweithredu hyd yn nôd â'r apostolion eu hunain yn y gorchwyl hwnw. Ac fe dybygid, wrth ei eiriau ef, mai i ddwyllaw y cyfryw yn gwbl yr oedd y gwaith i ddisgyn ar ol eu hymadawiad hwy: "A'r peth a glywaist genyf trwy lawer o dystion, traddoda y rhai hyny i ddynion ffyddlawn, y rhai a fyddant gymhwys i ddysgu eraill hefyd." Wrth y "dynion ffyddlawn" yma y meddylir yn ddiagramheu gweinidogion y gair, cynneddfau parai a ddarlunir yn 1 *Tim.* iii. 1—7. Megys ag yr oedd Timotheus i draddodi y pethau a glywsai gan Paul i'r dynion hyn wrth eu hordeinio, felly dangosir yma eu bod hwythau i'w traddodi i eraill hefyd. A gallem yn hawdd gasglu, fel y mae Dr. Chalmers yn sylwi, eu bod nid yn unig i bregethu eu hunain, ond hefyd yn eu tro i ordeinio'r gweinidogion ag oedd yn cyfodi ar eu hol.

Os olyniad gweinidogaethol fel hyn yn unig a olygir wrth olyniad apostolaidd, sef fod y naill o weinidogion y gair i gydnabod appwyntiad rhai eraill, a'u gosod yn gyhoeddus yn y swydd drwy ympryd a gweddi, mae yn sicr fel rheol gyffredin fod pwys a phriodoldeb yn y peth; a thebygol yw mai ganddynt hwy y byddai y gwasanaeth difrifol hwn yn cael ei gyflawni o ddechreuad Cristionogaeth. Ond y mae'r egwyddor hon yn cael ei chario i ynydrwydd pan eir i hõni fod y peth hwn mor hanfodol i'r swydd fel pe dygwyddai bwlch achlysurol yn nghadwen ordeiniad fod gweinidogaeth ddiledryw o anghenrheidrwydd yn colli, ac na ddichon un dyn fod yn wir weinidog yr efengyl ond a allo olrhain ei neillduad a'i achau swyddol, ddolen ar ol dolen, heb na phall na diffyg, i ddwyllaw Pedr neu Paul. Os felly, yna mae yn ddigon sicr fod Crist-

ionogaeth a'i hordinhadau wedi diflanu o'n byd ni er ys llawer oes, a hyny hwnt i adferiad hefyd, oddieithr cael comisiwn newydd o'r nef, wedi ei gadarnhâu â doniau gwyrthiol megys yn y dechreuad.

Yr ydym ni yn teimlo yn ddedwydd fod y Bibl yn dangos ffordd dra rhagorol, a llawer mwy sicr na'r un ddychymyngol yna, i ddiogelu gweinidogaeth yr efengyl i deulu Duw. Er esiampl, mae yn gwbl sicr genym, yn wyneb yr Ysgrythyrau, fod Crist wedi sefydlu swydd y weinidogaeth i barhâu yn ei eglwys, a'i fod yn parhâu hefyd i roddi ei Ysbryd sanctaidd o fewn dynion er eu cymhwysu i'w chyflawni, gan gynnyrchu ynddynt zel dros ogoniant Duw, a thosturi at eneidiau dynion, cariad at Grist, deall bywiog yn athrawiaeth yr efengyl, ynghyd a hyfder a doethineb ymadrodd i osod allan ei gwirioneddau er adeiladaeth pechaduriaid. Mae yn amlwg hefyd ei fod ef yn dysgu ei eglwys i ethol a galw y cyfryw rai i'r weinidogaeth, a thrwy ei swyddogion i'w gosod yn gyhoeddus a difrifol yn eu swydd trwy weddi ac ympryd. Yn wir, mae rheswm yn dangos, pan y byddo dyn yn cael ei godi i le o awdurdod ar eraill nad oedd yn perthyn iddo o'r blaen, mai iawn ydyw fod gan y cyfryw rai lais yn y dewisiad, yn enwedig gan mai â'u meddyliau y mae a wnelo efe yn nghyflawniad ei waith. Ond grym y peth ydyw ei fod o ordeiniad Dwyfol. Yr oedd yr Arglwydd yn gorchymyn i feibion Israel roddi eu dwylaw ar y Lefiaid oedd i'w gwasanaethu, fel arwydd o'u galwad. A phan aeth Moses i osod rhai i fod yn flaenoriaid iddynt, yr ydoedd yn eu cyfarwyddo hwy i'w dewis eu hunain: "Moeswch i chwi wŷr doethion a deallus, a rhai hynod trwy eich llwythau, fel y gosodwyf hwynt yn benau arnoch chwi." Yr un modd yr oedd yr apostolion hwythau yn talu sylw i lais y frawdoliaeth wrth sefydlu swyddogion eglwysig: "Frodyr, edrychwch yn eich plith am seithwyr da eu gair, yn llawn o'r Ysbryd Glân a doethineb, y rhai a osodom ar hyn o orchwyl." Yn gydunol â hyn, ni a ddarllenwn am Paul a Barnabas yn "ordeinio iddynt henuriaid ymhob eglwys." Darllena Dr. Morgan, "ordeinio trwy ethol-edigaeth;" hyny ydyw trwy ddewisiad yr eglwysi, yr hyn a wneid, fel y tybygid wrth ystyr y gair a ddarllenir yma *ordeinio*,

trwy godi llaw. Nid yw yr eglwys, cofier, wrth neillduo dyn i'r weinidogaeth, yn rhoi un awdurdod o'i heiddo ei hun iddo ef. Ni roddes Crist erioed y fath gyflawnder o allu eglwysig mewn un creadur fel y gallai wneyd dyn arall yn weinidog yr efengyl wrth ei fypwys ei hunan, ac yn rhinwedd un awdurdod sydd yn cartrefu ynddo ef. Y rhai sydd fel hyn yn derbyn eu hawdurdod gan ddynion, pa un bynag ai gan bab, ai gan esgob, ai gan eglwys, gweision y dynion hyny ydynt, ac nid gweision Crist. Y mae hyn yn cyfansoddi meistr-iaid newyddion rhyngddynt âg ef.

Y gwirionedd yw fod yr holl awdurdod eglwysig yn ffynnoni o hyd yn yr Arglwydd Iesu; ac y mae pob gwir weinidog yn awr yn derbyn ei gomisiwn oddiwrtho ef mor wirioneddol, er nad yn yr un ffordd, nac i'r un swydd, ag yr oedd yr apostolion gynt; a'r cwbl sydd gan yr eglwys a'i gweinidogion i'w wneyd yn y gorchwyl ydyw gweinyddu yn enw Crist, ac mewn ufudd-dod i'w orchymyn ef, trwy neillduo y rhai y mae efe wedi eu cymhwyso i'r gwaith. Afreidiol ac ofer gan hyny ydyw ymholi pwy oedd gwrthdrysychau cyntaf yr awdurdod eglwysig, ac a ddaeth hi yn deg i ni oddiwrthynt hwy trwy ddwyllaw eu holynwyr; oblegid y mae yr hawl oreu i gyflawni unrhyw ddyledswydd dros Grist gan yr rhai hyny ag y mae Crist ei hunan yn gorchymyn, heb edrych am dani o unlle arall. Tra byddo yr Arglwydd Iesu drwy ei Ysbryd yn goleuo dynion i fod yn saint, ac yn cymhwyso rhai o honynt i waith y weinidogaeth trwy ddodrefnu eu meddwl â doniau ysbrydol, gan awdurdodi y lleill yn eu hystâd eglwysig i'w dewis a'u gosod yn eu swydd, ni bydd y ddaear ddim heb eglwys ynddi, na'r eglwys heb weinidogion, serch i wrthgiliad y byd cristionogol fod wedi gwneuthur cadwen olyniaeth yn rhy fylchog i'w chyfanu.

Gyfeillion o bob enwad crefyddol, mae yr amser yn nesâu ag y mlyn y byd rywbeth yn ngweinidogion y gair heblaw uchel honiadau. Ai gweinidogion Crist mewn gwirionedd ydych chi? dangoswch hyny trwy eich defnyddioldeb. Bydded sancteiddrwydd eich bywyd, ac effeithiau iachusol eich gweinidogaeth ar bechaduriaid, yn sêl eich apostoliaeth—yn brawf o'ch Dwyfol anfoniad. Canmolwch eich hunain wrth bob cyd-

wybod dynion yn ngolwg Duw. Heb hyn, ni wna hõni y pwnc yn nghanol segurddod a diffrwythdra ddim ond gwneyd yr ymhonwr, pwy bynag fyddo, yn fwy anghymeradwy a dirmygus. Mae'r byd, medd un ysgrifenydd, yn gofyn i'r eglwys yn y dyddiau hyn, yn fwy angherddol nag y gofyna un cwestiwn i unrhyw sefydliad arall, "A fedri di ein dysgu a'n harwain ni ai peidio?" Atebiad yr offeiriadaeth yn Ffrainc pan y gofynodd y byd, "Pa beth a fedri di wneuthur i ni?" yn unig ydoedd, a hyny yn uchel, ac yn fwy uchel fyth, "Onid ydym ni o Dduw? onid ydym wedi ein gwisgo â phob awdurdod a nerth?" nes o'r diwedd y rhoes Ffrainc ben ar y ddadl, yn lled ddigwmpas hefyd; ond ymha ffordd ddychrynadwy, ni a wyddom!



## UNDEB CRISTIONOGOL.\*

**W**RTH undeb cristionogol yr ydym yn deall undeb cred-inwyr â Christ, a'u hundeb â'u gilydd yn a thrwy Grist, fel er eu bod yn lliaws mewn rhifedi, ac yn wahanol gynulleidfaoedd, eu bod oll yn un ynddo ef.

Rhwymyn yr undeb hwn o du Crist yw yr Ysbryd Glân, ac o du yr eglwys y ffydd a'r cariad y mae yr Ysbryd hwnw yn eu cynnyrchu yn nghalonau y saint. Mae ffydd yn eu hûno â Christ, a chariad yn eu hûno â'u gilydd. Ac am fod y ddau ras yma yn foddion holl undeb, cymundeb, a ffrwythlondeb corff dirgeledig yr Arglwydd Iesu, mae yr apostol Paul beunydd yn eu cysylltu ynghyd, ac yn crybwyll am eu cynnydd yn yr eglwysi gyda boddlonrwydd a llawenydd mawr. "O herwydd hyn, minnau hefyd, wedi clywed eich ffydd yn yr Arglwydd Iesu, a'ch cariad tuag yr holl saint, nid wyf yn peidio â diolch drosoch, gan wneuthur coffa am danoch yn fy ngweddïau." "Yr ydym yn diolch i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, gan weddio drosoch chwi yn wastadol, er pan glywsom am eich ffydd yn Nghrist Iesu, ac am y cariad sydd genych tuag at yr holl saint." Yn ei lythyr at Philemon, mae yr apostol, wrth fendithio Duw am y grasau hyn, yn eu gosod allan o'u trefn briodol, er mwyn dangos, dybygid, eu bod yn anwahanol oddiwrth eu gilydd: "Wrth glywed dy gariad," medd efe, "a'r ffydd sydd genyt tuag at yr Arglwydd Iesu,

\* Yn lle araeth ar "Natur Eglwys," yn ol y drefn arferol, penodwyd Mr. Rees i roddi araeth ar "Undeb yr Eglwys," yn y cyfarfod ordeinio yn Nghymdeithasfa Bangor, Medi, 1844, yr hyn a wnaeth efe gydag enciniad mawr. Wedi iddo ad-drefnu y sylwadau, ac ychwanegu atynt, cyhoeddwyd hwynt fel traethawd yn y rhifyn cyntaf oll o'r *Traethodydd*. Gwelir pregeth ragorol, gyda sylwadau chwangelol, ar yr un mater yn yr Ail Gyfrol o'r Pregethau, tu dal. 449.

a thuag at yr holl saint." Gellid meddwl yma fod gan Philemon gariad a ffydd tuag at y saint fel tuag at Grist ei hunain; ond, er fod Crist yn wrthddrych cariad yn gystal â ffydd, nid yw'r saint yn wrthddrychau ffydd yn gystal â chariad; ond y mae'r apostol yn eu gosod yn y drefn hon i'r dyben o ddangos fod ffydd yn Nghrist, pa le bynag y mae, yn gweithio trwy gariad, nid yn unig ato ef, ond at ei holl eiddo.

Wrth y cariad brawdol hwn, yr ydym yn golygu y cydymdeimlad, y serchogrwydd, a'r hoffder hwnw, ynghyd a'r holl amlygiadau o hono, ag sydd yn uno saint Duw â'u gilydd mewn canlyniad i'w hundeb â Christ, a'u cydgyfranogiad o'r un iachawdwriaeth. Dyma enaid cymundeb y saint. Oddiyma y tardd eu parodrwydd i gyflawni pob peth tuag at eu gilydd a duedda i leshâd tymmorol, ysbrydol, a thragywyddol y naill a'r llall. Pan gymhellir cristionogion yn y gair i synied yr un peth—i fod o'r un meddwl ac o'r un fryd, golygir, nid yn unig undeb barn yn y gwirionedd, ond fod eu heneidiau wedi toddi i'w gilydd yn nghariad y gwirionedd, a'r un teimlad sanctaidd yn rhedeg drwyddynt, nes eu dwyn i ofalu dros, ymhyfrydu yn, a chydweithredu â'u gilydd yn holl ddyledswyddau crefydd. Gall hyn fod er na byddant o'r un golygiad ar bob manylbwnc; ac heb hyn nid oes dim gwir undeb ysbrydol rhwng dynion a'u gilydd pe byddent yn cydweled ymhob dim. Cariad yw rhwymyn undeb y saint; ac am fod y cariad hwn yn ddarostyngedig i anmhariaeth, a bod hyny o'r canlyniadau mwyaf gofidus a dinystriol i eglwys Dduw, y mae yr annogaethau i'w feithrin yn dra llïosog yn yr Ysgrhythrau. Mae yn cael ei drin fel pwnc o athrawiaeth, ei ganmawl fel rhinwedd, ei addaw fel gras, a'i orchymyn fel dyledswydd. Ymhob modd mae yr Arglwydd yn dangos mai ei ewyllys ydyw i'w eglwys ar y ddaear fod yn un. Ac un o'r pethau sydd wedi peri i ddynion meddylgar synu ydyw fod cymaint o le i gariad a chymun y saint yn nghrefydd Crist, a chàn lleied o honynt i'w gweled yn ysbryd ac ymarferiad cristionogion tuag at eu gilydd.

Er ein bod yn ofni na bydd ein gwaith yn hyn o ysgrif yn ceisio meddygïniaethu gwyniau pleidiog proffeswyr crefydd newmawr gwell nag ymfydrwydd, eto ni a ymdrechwn i osod rheol

a chymhelliadau yr efengyl ger bron eu meddyliau, gan adael y canlyniadau yn llaw Duw.

I. Mae y saint yn cael eu cymhell i undeb a chariad â'u gilydd *o herwydd eu bod o ran hanfodion eu crefydd mewn gwirionedd yn un.*

"Deisyf gan hyny arnoch yr wyf fi, y carcharor yn yr Arglwydd, ar rodio o honoch yn addas i'r alwedigaeth y'ch galwyd iddi, gyda phob gostyngeddwrwydd ac addfwynder ynghyd a hirymaros, gan oddef eich gilydd mewn cariad, gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr Ysbryd yn nghwlm tangnefedd." Ond paham? Mae yr ystyriaeth fod y cyfryw un a Phaul yr hynafgwr yn deisyf hyny, ac yn deisyf hefyd o'r carchar, yn dangos fod pwys mawr yn y peth; oblegid gyda phethau pwysig y ceir dynion duwiol, yn enwedig mewn trallodion, ac yn agos i angeu. Ond y mae'r apostol yn crybwyll ystyriaethau uwch na hyny: "Un corff sydd, ac un Ysbryd, megys ag eich galwyd yn un gobaith eich galwedigaeth; un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw a Thad oll, yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac yn och oll." Yr ydym yn digaloni i allu dangos gogoniant y pethau hyn; ond y mae yn ddiammheu eu bod yn cyfansoddi rhyw undeb goruchel a thragywyddol rhwng teulu Duw â'u gilydd. Nis gall y pethau y maent yn gwahaniaethu ynddynt fod ond yn bethau bychain; oblegid y maent yn un yn yr holl bethau mawrion. Mae eu Duw a'u Tad, eu Harglwydd a'u Gwardwr, yr un. Yr un yw eu ffydd a'u haddoliad yr ochr yma i'r bedd, a'r un yw eu gobaith hwnt i angeu. Nid yw Duw yn gwneyd dim gwahaniaeth rhyngddynt â'u gilydd. Y mae yn Dad yr oll, wedi eu caru â'r un cariad tragywyddol, wedi traddodi ei Fab drostynt oll, yn puro eu calonau trwy ffydd, gan dywallt arnynt ei Ysbryd sanctaidd o'r uchelder. Maent yn gadwedig, ac yn credu y byddant yn gadwedig, trwy ras ein Harglwydd Iesu Grist, yr un modd a'u gilydd. Wedi eu cyduno â Christ, y maent yn un corff, a'r corff hwnw yn cael ei fywhâu gan yr un Ysbryd, yr hwn sydd yn cynnyrchu yr un ffydd, gobaith, cariad, a sancteiddrwydd, ymhob un o'i aelodau. Maent oll yn credu yr un athrawiaeth, yn caru yr un gwrthddrychau, yn ymladd yr un rhyfeloedd, yn cadw yr un gorchymynion, yn gyfranogion o'r un gras ysbrydol oddi mewn, ac o'r

un arwyddion gweledig oddi allan, yn gymaint a'u bod yn cael eu bedyddio yn yr un enw, ac yn eistedd wrth yr un bwrdd.

Dichon fod cymysgedd a gwahaniaeth yn eu golygiadau o berthynas i rai o'r pethau hyn o herwydd gwendid ac anwybod-aeth; ond tra byddo sylwedd y pethau mewn meddiant, y mae undeb yr eglwys yn parhâu. Mae llawer o ryw wahaniaethau bychain rhwng plant dynion a'u gilydd fel creaduriaid, ond y maent yn un yn y pethau sydd hanfodol i'w natur; ac felly y mae plant Duw yn hanfodion eu crefydd, ac am hyny yn un er pob gwahaniaeth bychan a ddichon fod rhwng y naill a'r llall. Ié, y mae duwiolion yn un o ddechre y byd i'w ddiwedd. Mae yn wir nad yw yr un dynion yn parhâu yn yr eglwys; ond y mae dynion o'r un grefydd yn parhâu, a hyny drwy eu bod yn offer-nau i genedlu eu gilydd yn Nghrist drwy yr efengyl; ac felly y maent yn un genedlaeth sanctaidd o ddynion yn rhedeg drwy holl genedlaethau y ddaear. Ond dangoswch i ni eglwys yn profesu efengyl arall, yn cyfattal rhyw ben heblaw Crist, yn gweddïo ar ryw wrthddrych heblaw Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, ac yn enw a thrwy gyfryngdod rhywun heblaw unig Gyfryngwr y Testament Newydd, gan wrthod cynnorthwy yr Ysbyrd Glân,—mae hono yn eglwys arall, yr hon nid yw arall,—nid yn eglwys i Grist, ond yn anghrist, oddiwrth yr hon y dylai credinwyr attal pob arwyddion o gymundeb. Pa fodd bynag, gan fod y fath undeb goruchel a gogoneddus rhwng saint Duw, mae yn ddyledswydd arnynt amaethu cariad ac anwylddeb at eu gilydd. Dylai brodyr garu fel brodyr. Gan eu bod yn un, y maent i deimlo felly. Wedi eu crynhoi yn Nghrist Iesu yn un corff, y mae cariad a chydymdeimlad fel bywyd a gwaed i redeg drwy yr holl aelodau, fel “pa un bynag ai dyoddef a wna un aelod, y mae yr holl aelodau yn cyd-ddyoddef; ai anrhydeddu a wneir un aelod, y mae yr holl aelodau yn cyd-lawenhâu.”

Yr ydym yn gweled yn aml fod hyd yn nôd creadur, pan y byddo mewn amgylchiadau i fod yn ganolbwynt undeb i'w gyd-ddynion, yn foddion effeithiol i'w cysylltu ynghyd. Pa un bynag ai milwyr dan yr un tywysog, ai deiliaid i'r un brenin, os byddant yn ei garu, y maent yn sicr o fod, i raddau mwy neu lai, yn un

â'u gilydd oddi dano fel pen. Pa faint mwy ynte y gellir dysgwyl i'r rhai sydd yn caru yr un Duw, wedi eu hûno ynghyd â'r fath un a Christ Iesu, a'u codi drwy hyny i gydgmniaeth oruchel yn mendithion tragywyddol yr efengyl, fod yn un â'u gilydd mewn hedd ac anwyldeb? O pe byddai ffydd y saint yn fwy clir, byddai eu cariad yn fwy gwresog. Ac, yn wir, nid ydyw y serchogrwydd nefol hwnw ddim wedi llwyr ddiffodd yn eu mynwesau er pob oerfelgarwch. Mae mynyd o gydymdeithasu â Duw yn ei ennynu, ac yn eu dwyn i gydymgysuro y naill yn y llall drwy ffydd eu gilydd. Mae yn felus ganddynt gygyfrinach a rhodio i dŷ Dduw ynghyd; ac yn y gyfeillach ysbrydol a hyfryd hon, mae pob dyeithrwrch yn diflanu, a mynwes y naill yn agored i'r llall, nes y mae pob un ymron mor adnabyddus o egwyddorion, gwendidau, a thrallodion ei frodyr ag ydyw o'i galon ei hun. Ac y mae hyn yn cynrychu ynddynt y fath anwyldeb, tosturi, a chydymdeimlad â'u gilydd, fel ag y maent yn myned drwy helyntion gwahanol bywyd dan gydwylo a chydlawenhâu. "Pwy sydd wan nad wyf finnau wan? pwy sydd yn tramgwyddo nad wyf finnau yn llosgi?"

Ac fel y mae y caredigrwydd brawdol hwn yn gweithio tuag at gristionogion neillduol yn eu gwahanol amgylchiadau, felly y mae yn tori allan hefyd yn gydymdeimlad tyner â holl eglwys Dduw. Mae'r saint yn dymuno heddwch Jerusalem, yn hoffi ei meini, ac yn tosturio wrth ei llwch hi. Ië, y mae dyn duwiol yn teimlo yn un, nid yn unig â duwiolion ei oes, ond â duwiolion yr holl oesoedd. Ystyria ei hun megys dolen (*link*) yn y gadwen fawr y mae yn ei gweled, yn hanesiaeth a phrophwydoliaethau y gair, yn rhedeg drwy holl ddyddiau y ddaear. Ar bob llaw iddo y mae yn canfod dynion y mae yn eu hadnabod, cyfeillion y mae yn eu hoffi, helyntion einioes pa rai, yn gystal a gorchwyliaethau Duw tuag atynt, sydd yn llenwi ei ysbryd â dychryn ar un llaw, ac â diolchgarwch a mawl ar y llaw arall. Ac fel hyn, drwy gyfrwng y Dystiolaeth Ddwylfol, mae yn edrych dros holl amser i dragwyddoldeb, ac yn dal cymundeb hefyd â'i holl frodyr. Mae rhai o'n darllenwyr wedi bod cyn hyn yn cerdded megys droed yn mhwill â'r hen Dafydd; yn ymgymeryd â'i deimladau cymysglyd ef ar hyd ochrau bryniau gwlad Judea;



yn gweddïo lle y gweddïai ef, ac yn wylo lle yr wylai yntau. Pe buasai Samson yn hen Gymro o'r un enwad crefyddol â hwynt, ni buasent yn galaru yn fwy dwys am ei gwmp a'i aflwydd, nac yn llawenhâu yn fwy calonog wrth weled gwallt ei ben yn tyfu drachefn, arwyddion ei Nazarëaeth yn ail ymddangos, a Duw heb ei adael. O fel y buont yn cnoi eu cîl weithiau ar hen waredigaethau Duw i'w bobl yn yr oesoedd gynt, a'u calonau yn ymëangu mewn llawenydd a boddlonrwydd yn ngolwg y pethau y mae efe yn addaw eu gwneuthur iddynt mewn amser a ddêl! Mae ffydd yn dwyn gras a daioni'r cwbl i'w profiad hwy eu hunain, ac y mae cariad yn eu dysgu i orfoleddu ynddynt fel pethau a gyflawnir i'w brodyr ar ol eu dydd. Oddiar yr egwyddorion hyn yr oedd y Salmydd yn edrych yn ôl ac ymlaen, i'r oesoedd a fu ac a ddeuai, ac yn teimlo yn un â holl deulu Duw. Efe "a ranodd y Môr Coch yn ddwy ran." Nid i ti, Dafydd? I rai agos at fy meddwl i; ac efe a wna hyny i minnau hefyd os bydd achos, "o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd." A phan yr oedd ei ddyddiau wedi darfod fel mwg, a'i esgyrn yn poethi fel aelwyd, efe a ymgysurai yn llwyddiant ysbrydol eglwys Dduw: "Ti a gyfodi, ac a drugarhei wrth Sion. Y genedlaeth a ddêl a'r bobl a grëir a foliannant yr Arglwydd." Er marw, mi fyddaf byw i wasanaethu Duw yn y rhai a ddeuant ar ol: "Plant dy weision a barhânt, a'u had a sicheir ger dy fron di." Ac megys y mae'r tadau fel hyn yn cydymdeimlo â'r plant, mae'r plant drachefn yn cydymdeimlo â hwythau, ac yn llawenychu wrth feddwl fod y Duw mawr, yn y pethau y mae yn ei wneuthur iddynt hwy, yn "cwbllhâu ei drugaredd â'u tadau, ac yn cofio ei sanctaidd gyfammod." Ië, y fath ydyw undeb teulu Duw fel y dengys y Bibl fod y cwbl yn cael ei addaw a'i wneuthur i'r un rhai: "Y druan helbulus gan y dymhestl" a welodd Ioan yn dyfod allan o drallodion yr oesoedd i wisgo gogoniant y dyddiau diweddaf. Mae rhan o honi yn y nefoedd, a rhan ar y ddaear; y naill yn eu gwahanol dymmorau wedi bod yn llafurio ac yn hau mewn dagrau, a'r lleill wedi myned i mewn i'w llafur hwynt, ond y fath gydymdeimlad rhyngddynt â'u gilydd fel ar ddechre cynauaf toreithiog y mil blynnyddoedd fod yr hwn sydd yn hau a'r hwn sydd yn medi yn llawenychu ynghyd.

II. *Casglu pechaduriaid o'r dycithrwech a'r wasgarfa yr aethant iddi trwy bechod i'r undeb gogoneddus âg ef ei hun, ac â'u gilydd ynddo ef, yw amcan Duw yn yr holl iach-awdwrïaeth.*

Dyma yr amcan cyffredin, eithaf, a osododd Duw iddo ei hun yn ei arfaeth dragywyddol: "crynhoi ynghyd yn Nghrist." Mae holl amcanion neillduol gras yn rhedeg i'r amcan gogoneddus hwn: ein bendithio ni â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd yn Nghrist—ein hethol ynddo ef cyn seiliad y byd—ein rhagluniaethu i fabwysiad drwy Grist Iesu—ein prynu drwy ei waed ef,—mae'r cwbl yn dybenu yn hyn: "fel yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd y gallai grynhoi ynghyd yn Nghrist yr holl bethau yn y nefoedd ac ar y ddaear ynddo ef." Dyma ydoedd eithafnod y cynghor tragywyddol, meddyliau calon Duw o genedlaeth i genedlaeth, y meddyliau o heddwch ac nid niwed: cael angylion o bob gradd, a dynion o bob cenedl, yn un teulu yn Nghrist Iesu. Pan y daeth y dirgelwch tragywyddol i'r golwg, dyma oedd efe: "y byddai y cenedloedd yn gydetifeddion, ac yn gydgorff, ac yn gydyfranogion o'i addewid ef yn Nghrist drwy'r efengyl." Dylem ystyried hefyd y ffordd ryfeddol drwy ba un y mae'r Duw mawr yn dwyn yr amcan goruchel hwn i ben, sef drwy gnawdoliaeth ac aneu Crist. "Oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef; ac wedi iddo wneuthur heddwch drwy waed ei groes ef, trwyddo ef gymmodi pob peth âg ef ei hun, trwyddo ef, meddaf, pa un bynag ai pethau yn y nefoedd, ai pethau ar y ddaear." Yr oedd pawb ar y cyntaf yn un â'u gilydd yn eu hundeb a'u hymddibyniad uniongyrchol ar y Creawdwr mawr ei hun; eithr wedi iddynt bechu yn erbyn Duw, a syrthio drwy hyny i annhrefn a gelyniaeth yn eu mysg eu hunain; yr oedd yn anmhosibl iddo ef yn ddigyfrwng fod yn ffynnon hapusrwydd, nac yn ganolbwynt iddynt mwy. Ond yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd, fe "ddanfonodd ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf," a hwnw yn y natur ddynol yn esgyn drwy aneu i le Duw fel Pen y greadigaeth, holl gyflawnder y Duw-dod yn preswylïo ynddo yn gorfforol, pob peth wedi eu darostwng dan ei draed, ac yn cydsefyll ynddo, fel nad oes na

gras na bywyd i un creadur mwyach ond drwyddo ef yn unig. Ond beth oedd amcan Duw yn yr orchwyliaeth ryfeddol hon o eiddo doethineb a gras? Dim uwch na gwneyd pechaduriaid truin yn un â'u gilydd, ac â Duw a'i angylion sanctaidd, ynddo a thrwyddo ef byth. Yr oedd hyn yn ddigon o ddyben i gnawdoliaeth ac angeu Mab Duw; ac yr oedd hyny o'r ochr arall yn ddigon i gyrhaeddyd y dyben hwn. Wedi ein cymmodi â Duw trwy ei waed ef, yr ydym yn un â phawb sydd yn ei garu hyd eithaf y greadigaeth.

Dyma oedd amcan Mab Duw ei hun hefyd yn y cwbl a wnaeth ac y mae yn ei wneuthur dros ei bobl. Efe a fu farw, "fel y casglai ef ynghyd yn un blant Duw y rhai a wasgaresid." Efe a ddirymodd ac a laddodd yr elyniaeth oedd rhyngddynt â'u gilydd trwy ei gnawd ei hun; ac fel un corff ynddo ei hun fel eu Pen a'u Cynnrychiolwr, efe a'u cymmododd â Duw trwy ei groes; ac yr oedd y cwbl fel y byddai iddo yn y canlyniad eu creu trwy ei Ysbryd ynddo ei hun yn un dyn newydd, gan wneuthur heddwch. Dyma y dyben oedd ganddo yn sefydlu gweinidogaeth yr efengyl ymysg ei bobl: "Efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon, i berffeithio'r saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist, hyd oni ymglyfarfyddom oll yn undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw yn ŵr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist." Eu hundeb oedd ei amcan ef yn yr oll a ofynai iddynt yn ei weddi ryfedd ychydig cyn eu gadael yn y byd drwg. "Y Tad sancteiddiol, cadw hwynt drwy dy enw, fel y byddont un—Myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi, fel y byddont wedi eu perffeithio yn un." Ac, fel pe y dywedasai, os ydyw y mesur o ras ac o'r Ysbryd yr ydwyf yn ei roddi iddynt ar y ddaear yn rhy fach i berffeithio eu hundeb, wele, ynte, fy Nhad, "y gogoniant a roddaist i mi a roddais iddynt hwy, fel y byddont un megys yr ydym ni yn un." Mi fynaf ladd eu hanghydfod, a pherffeithio eu hundeb, serch eu gwneyd yn gyfranogion o'r gogoniant oedd i mi gyda thi cyn bod y byd. Ië, bod yn un â'u gilydd, ac â Duw yn Nghrist, ydyw y gogoniant mwyaf a ddichon fod ar y saint i dragwyddoldeb. Ni fedrai Mab Duw ei hunan ddymuno iddynt ddim mwy na hyn, o herwydd nid oes dim mwy i'w ddymuno.

III. *Trwy eu cariad a'u hundeb â'u gilydd y mae plant Duw i ddwyn eu tystiolaeth i Grist, ac i argyhoeddi'r byd o ddwyfoldeb ac effeithiolrwydd ei grefydd.*

O leiaf, y mae pob moddion yn aneffeithiol os bydd hyn ar ol. "Fel y byddont oll yn un, megys yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti, fel y byddont hwythau un ynom ni, fel y credo'r byd mai tydi a'm hanfonaist i." Maent hwy wedi gwybod mai oddiwrthyt ti y daethum i allan, a chredu mai tydi a'm hanfonaist i; ond yr ydwyf fi am i'r byd wybod hyny trwyddynt hwy, ac nid yn unig drwy eu hymadrodd, ond drwy nerth fy nghrefydd yn cyfnewid ansawdd eu hysbrydoedd, ac yn eu gwneyd yn un â'u gilydd, peth na wnaeth ac na wna un grefydd arall byth.

Mae'r byd, drwy ymadael â Duw, wedi ymddattod oddiwrth ei gilydd; pob cariad ysbrydol wedi diflanu o'r galon, a'i gadael, nid yn unig i serchiadau cnawdol a daearol, y rhai sydd yn darfod fel y ddaear ei hun, ond yn drigfa malais a chenfigen a dygasedd a'r holl wyniau cythreulig ag sydd yn tori allan yn rhyfeloedd ac yn ymladdau yn y byd. Prif undeb plant dynion dan y cwmp ydyw eu gwaith yn ymuno i ymarfer gelyniaeth yn erbyn Duw, ac yn erbyn eu gilydd. Yn awr, nid oes dim dan y nefoedd a ddichon adferu dynion o'r cyflwr hwn i gariad a heddwch ond crefydd Crist. Rhyw unfuriaeth gwag mewn ymarferiadau allanol ydyw y cwbl y mae pob crefydd arall yn ei geisio; a phrin y maent yn medru effeithio hyny ymysg dynion er iddynt gael cymhorth yr awdurdodau gwladol. Ond y mae Mab Duw wedi dyfod i greu y rhai hyn o newydd, a thrwy eu hadferu yn ôl at Dduw, i'w hadferu i undeb a chydgoriad calonog â'u gilydd. Mae yn eu bwrw i ffwrnes ei gariad mawr ei hun nes y maent yn rhedeg allan wedi eu toddi i'w gilydd; yr un meddwl, yr un farn, yr un galon a dymuniadau—y naill yn ymhyfrydu yn y llall, a hyny ar gyfrifon pur ac ysbrydol yn eu natur, a thragywyddol eu parhâd. 'Beth yw hyn?' medd y byd; 'dynion ag oedd o'r un dymher a ninnau bron yn awr, ond ar eu gwaith yn cofleidio crefydd Crist, wele ryw rywogaeth newydd o gariad wedi ei gynnyrchu rhyngddynt â'u gilydd na wn i ddim am dano!' Mae yn gorfod cyfaddef mewn syndod, "Bys Duw yw hyn!"

“Gweled dynion,” medd un, “o’r cymeriad a’r arferion mwyaf gwrthwyneb: y doeth a’r dŵl, y mwyaf coethedig a’r mwyaf barbaraid, trigolion gwledydd gelymol i’w gilydd drwy y sefydliadau mwyaf croes, a’r ymrysoniadau mwyaf gwaedlyd, yn anghofio eu hen ddygasedd, ac yn toddi y naill i’r llall, a hyny ar orchymyn Gŵr na welsant erioed, a’r hwn sydd wedi darfod a bod yn breswlydd ein byd ni,—sydd yn olwg dra rhyfedd. Nis gellir priodoli y fath gyffelybrwydd disymwth rhwng defnyddiau mor annhebyg, y fath gariad yn dylifo o galonau sydd wrth naturiaeth mor hunanol, ac yn rhoi bôd i rywogaeth ac eppil newydd o ddynion, i ddim ond i gyfryngiad Dwyfol.” Ymhob man arall y mae trais, creulondeb, a dial, yn troi’r byd yn Armagedon ac yn Aceldama waedlyd. Ond deuwch i fynydd Sion, ac wele’r fuwch a’r arth yn pori ynghyd, a’r llydnod yn cydorwedd; y blaidd heb ei raib, a’r llew heb ei gynddaredd, a’r asp wedi colli ei gwenwyn; neb yn drygu nac yn dyfetha yn holl fynydd sancteiddrwydd Duw, ond i’r gwrthwyneb, pawb yn cydymdeimlo, yn dosturiol, yn maddeu i’w gilydd, ac yn dwyn beichiau eu gilydd, pan y mae’r byd oddiamgylch wedi ymlapio mewn hunanoldeb, ac yn trybaeddu ei ddillad mewn gwaed. O effeithiau crefydd Mab Duw ar bechadur! Pwy ond efe a allasai alw Paul yr apostol o Saul yr erlidiwr? dwyn y dyn oedd yn chwythu bygythion a chelanedd yn erbyn dysgyblion yr Arglwydd Iesu i anadlu y fath garedigrwydd ag sydd yn ei lythyr at Philemon, ac i fod yn ewyllysgar iawn i dreulio ac ymdreulio dros eneidiau’r saint, ac i gyfranu iddynt nid yn unig efengyl Duw, ond ei enaid ei hunan hefyd, am eu bod yn anwyl ganddo—yr un dyn yn dyweyd am yr un rhai ag y buasai yn eu herlid a’u hanrheithio, “Yr ydych yn fy nghalon i, i farw ac i fyw gyda chwi!”

Beth pe yr anfonid heddyw genadau at Fab Duw, fel y gwnaeth Ioan Fedyddiwr, i ofyn iddo, “Ai ti yw yr hwn sydd yn dyfod, ai un arall yr ydym yn ei ddysgwyl?” at ba faint o eglwysi Cymru y gallai efe droi a dywedyd, Ewch a mynegwch y pethau a welwch ac a glywch. Edrychwch ar effeithiau fy nghrefydd i ar filoedd yn Nghymru: dyma’r balch yn ostyngedig, a’r dialgar yn faddeugar; wele Nabal galed a drwg ei weithred-oedd wedi ymdrwsio oddifewn âg addfwynder, a Diotrefhes yn y



llwch ; fel cydetifeddion anfarwoldeb, dyma y brawd o radd isel yn llawenychu yn ei ddyrchafiad, a'r cyfoethog yn ei ddarostyngiad—pob gwahaniaeth ac amherffeithrwydd, sydd yn tueddu i wneyd y naill yn anhyfryd i'r llall, yn gwbl ddieffraith i'w gwahanu oddiwrth eu gilydd, o herwydd effeithiau mwy grymus y pethau sydd yn eu gwneyd yn un ! Hawdd y gall Cristionogaeth hebgor gwyrthiau ; hawdd y gallasai prophwydoliaeth ballu, a thafodau beidio, gan fod y gwyrthiau hyn y mae Mab Duw yn eu gwneuthur yn nghalon pechadur drwy yr efengyl yn ddigon i brofi fod Duw gyda ef. Ein prif orchwyl ni wrth fyned drwy'r byd a ddylai fod, ennill dynion i adnabod y Gwaredwr, eu dysgu nad oedd y Cyfiawn hwnw neb llai na Duw wedi ymddangos yn y cnawd, ac wedi ei ddanfôn i'r byd i gadw pechaduriaid ; ond pe llefarem y pwnc hwn â thafodau dynion ac angylion, ac heb fod genym gariad, ni byddai o ddim lleshâd. Yr ymarferiad yn ein gwahanol eglwysi o'r cariad, y cydymdeimlad, yr hoffder, a'r gofal sydd i fod genym am ein gilydd fel cydaelodau o gorff dirgeledig Crist,—dyma y dystiolaeth fawr sydd genym i'w dwyn ger bron y byd mai Duw a ddanfônodd y Messîah. Pan welo dynion y fath rai wedi eu codi i'r fath ysbryd, fe fydd argyhoeddiad yn eu cydwybodau fod crefydd Crist yn Ddwyfol, a bod y gwaith a wnaed ynom drwy'r efengyl yn deilwng o ddyfodiad Mab Duw i'w gyflawni. I'r rhai sydd yn proffesu Crist, ac yn byw mewn anghariad a chenfigen, fe'u profir ddydd a ddaw yn euog o wneyd yr oll a allasent hwy i gadarnhâu y byd yn ei anghrediniaeth.

IV. *Ystyriwn mor hanfodol anghenrheidiol ydyw yr undeb neu'r cariad hwn i gydymarferiad calonog y saint âg ordinhadau yr efengyl, ac i'w cymundeb ysbrydol â'u gilydd, drwy yr hwn y maent i fod o adeiladaeth y naill i'r llall.*

Mae dyn fel creadur, ni a wyddom, o natur gymdeithasgar ; ac yn yr adenedigaeth, y mae'r tueddiadau cymdeithasgar hyny yn cael eu hadnewyddu gan yr Ysbryd Glân, a'u cysegru i wasanaeth crefydd. I'r dyben o'u gosod mewn amgylchiadau mwy manteisiol i'w hymarfer i'r perwyl hwnw, mae yr Arglwydd Iesu wedi ordeinio i'w bobl fod yn eglwysi ; ac y mae'r cymundeb y maent i'w ddal i fyny yn yr ystâd hon yn gynnwysedig yn eu gwaith yn cydaddoli Duw yn Nghrist yn ordinhadau'r gair, ac

yn cydweithredu y naill tuag at y llall ymhob modd a duedda i gysur ac adeiladaeth eu heneidiau. Ni a dybygem, gan hyny, fod yn hawdd canfod mai'r cariad efengylaidd yr ydym yn sôn am dano yw bywyd ac enaid y cymundeb hwn, heb yr hwn y mae yn anmhosibl i gristionogion wneuthur dim a fydd yn gymeradwy gan yr Arglwydd, nac o wir leshâd ac adeiladaeth i'w gilydd.

Mae gwasanaethu yr Arglwydd o un galon ac un ysgwydd yn cael ei godi yn uchel, ni a wyddom, yn y Bibl. Addawa Jehofah wneuthur pethau mawrion i'w bobl er mwyn hynyma; ac y mae gwrthodiad eu gwasanaeth ymhob ysbryd arall, yn gystal â'r cymeradwyaeth o hono gyda Duw yn yr ysbryd hwn, yn cael eu defnyddio fel cymhelliadau cryfion arnynt hwythau i'w amaethu yn eu calonau. "Os cydsynia dau o honoch ar y ddaear am ddim oll," medd Iesu Grist, "beth bynag a'r a ofynant, efe a wneir iddynt gan fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd." Pa le bynag y bydd ond dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i—fy enw i wedi crynhoi nid yn unig eu personau i'r un lle, ond eu heneidiau i'r un dymher, ac i gyrchu at yr un amcanion, cyd-deimlo yr un anghen, a chyd-ddymuno yr un fendith,—mae'r fath weddiau yn beroriaeth yn nghlustiau Arglwydd y lluoedd, ac yn sicr o gael gwrandauiad. "Beth bynag a'r a cfnant, efe a wneir iddynt gan fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd."

Un o amcanion arbenig yr apostol Paul yn ei holl ymdrech i gadw cristionogion yn un mewn cariad a serchogrwydd ydoedd, fel na byddai i gymundeb a chydgoradiad eu heneidiau yn addoliad yr efengyl gael ei ddyrsu. Wedi rhybuddio y saint yn Rhufain i ochelyd gadael i'w gwahanol olygiadau mewn pethau bychain a dibwys anmharu undeb eu hysbrydoedd, mae efe yn troi i weddio drostynt ar i Dduw yr amynedd a'r dyddanwch roddi iddynt synied yr un peth tuag at eu gilydd yn ol Crist Iesu, sef yn ol ei esiempl ef, fel y gallent yn unfryd o un genau ogoneddu Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist—ei ogoneddu ef felly yn ordinhadau'r gair. Mae yn ddiammheu nad oes dim tu yma i'r nef ei hun mor ddymunol â chynnulleidfa o ddynion fel hyn: eu hysbrydoedd wedi eu cyd-dynheru i addoli, oll yn yr un cywair, a'r naill yn ennyn y llall, nes y

maent yn tori allan gyda'u gilydd mewn un oslef hyfryd o fawl i Dduw, yn debyg i'r dysgyblion gynt, "o un fryd yn cyfodi eu llef at Dduw;" eu gweddïau a'u mawl fel colofn o arogl-darth peraidd yn cydgymsgu yn eiriolaeth y Cyfryngwr, ac yn dyrchafu yn gymeradwy hyd at orsedd gras. Ond a ydyw hyn yn bosibl heb fod eneidiau'r saint wedi toddi i'w gilydd drwy gariad? A ydyw yn ddichonadwy i ddyinion o'r galon gyd-weddïo, cydganu, a chydgyffesu i Dduw, cynnal gair y bywyd, a chydymdrech gyda ffydd yr efengyl,—a ydyw yn bosibl iddynt annog, cynnal, a dyddanu'r naill y llall drwy ymddyddanion sanctaidd, "gan ddysgu a rhybuddio bawb eu gilydd mewn salmau a hymnau ac odlau ysbrydol, gan ganu trwy ras yn eu calonau i'r Arglwydd," yn ol cyfarwyddyd apostolaidd,—a ydyw hyn yn bosibl, meddwn, heb fod eneidiau dynion yn rhydd oddi-wrth ddigter a dadl ac anserchogrwydd, ac wedi eu cyd-dymheru â'u gilydd drwy gariad yr efengyl? Pan y mae yr apostol yn annog y Colossiaid i ddysgu a rhybuddio bawb eu gilydd yn y modd hwn, mae yn eu cymhell "am ben hyn oll," neu, uwchlaw pob dim, "i wisgo cariad," fel peth anhebgorol anghenrheidiol i iawn gyflawniad y cyfryw ddyledswyddau. Nid yw gwaith cristionogion yn cyfranogi o'r un ordinhadau ond proffes ac arddangosiad o'u cymundeb. Y mwynhâd hyfrydol ag y mae eneidiau y saint yn ei gael gyda eu gilydd yn yr Arglwydd drwy gariad, wrth ymarfer â'r pethau hyn, ydyw bywyd ac ysbryd y cymundeb hwnw. Ac y mae yn anhosibl iddynt fwynhâu eu gilydd felly pan yr ymgynnullont i gyd-addoli, oddeithr eu bod yn wastad yn ddyfal i gadw undeb yr Ysbryd, drwy feithrin meddyliau a theimladau caruaidd, a chyd-ddangos pob arwyddion o gyfeillgarwch tuag at eu gilydd bob amser ac ymhob modd.

Yn y darluniad mwyaf hynod sydd genym yn y Bibl o gymun y saint, yr ydym yn cael ei fod yn dechre ac yn diweddu mewn cariad: "Eithr gan fod yn gywir," neu gan lefaru y gwirionedd, "mewn cariad, cynnyddu o honom iddo ef ymhob peth, yr hwn yw y Pen, sef Crist; o'r hwn y mae yr holl gorff wedi ei gydymgynnull a'i gydgysylltu trwy bob cymmal cynnalïaeth, yn ol y nerthol weithrediad yn mesur pob rhan, yn gwneuthur cynnydd y corff, i'w adeiladu ei hun mewn cariad." Mae sail y cwbl, ni a

welwn, yn ein hundeb â Christ y Pen. Nid oes genym ni drueiniaid ddim i roddi i'n gilydd ond a dderbyniwn oddiwrtho ef. Ac i'r dybenion yma, mae yn rhaid i ni, nid yn unig fod mewn undeb â'r Pen, ond "cynnyddu iddo ef ymhob peth;" byw trwy ffydd arno, derbyn beunydd o'i gyflawnder, a gras am ras, ac felly dyfod yn fwy tebyg a chysegredig iddo o ddydd i ddydd. Mewn canlyniad i hyn, mae yr holl gorff yn cael "ei gydymgynnull a'i gydgysylltu," i.e. ei gymhwys gysylltu; oblegid trwy ras Crist mae yr holl aelodau yn cael eu cyfaddasu i'w gilydd, a phob un yn disgyn i'w le priodol ei hun yn y corff. Mewn eglwysi adfeiliedig yn aml, y mae'r *rhanau* wedi eu gosod yn y lle y dylai y *cymmalau* fod; dynion nad yw mesur eu gras a'u dawn wedi eu cymhwyso i ddim mwy nag aelodaeth yn unig yn yr eglwys, a rhai yn anghymhwys i hyny, wedi dringo i'r swyddau uchaf a berthyn iddi. Ond pan y byddo pawb yn "cynnyddu iddo ef ymhob peth, yr hwn yw y Pen, sef Crist," derbynir y fath amrywiaeth doniau a gras oddiwrtho ag a esyd bob aelod yn naturiol yn ei le priodol ei hun yn y corff. Mae rhai yn cael eu gwneuthur yn "gymmalau." Y cyfryw ydyw prif aelodau a swyddogion yr eglwys, tybygid, pa rai, yn yr ymarferiad o'r doniau helaethach y maent wedi eu derbyn, sydd yn offerynau i drosglwyddo llawer o gynnalïaeth oddiwrth y Pen mawr i'w holl deulu. Ond nid y cymmalau yn unig sydd yn gwneuthur hyn, ond y mae "mesur" o'r un "nerthol weithrediad ymhob rhan;" pob aelod byw yn cyflawni yr hyn a berthyn iddo ef yn y lle y mae wedi ei osod, er "gwneuthur cynnydd y corff, i'w adeiladu ei hun mewn cariad." Ni a welsom ambell rai na byddai ganddynt ond ychydig iawn o ddoniau a galluoedd naturiol, ac eto rhyw effeithiolrwydd yn cydfyned â'u gwaith yn gweddïo, neu yn adrodd gair o'r Bibl, neu bennill o hymn, ag a fyddai yn foddion i wasgar bywyd, gwrês, a chysur drwy'r corff i gyd. Ond pa fodd y maent yn gwneuthur hyn? pa fodd y mae'r cymundeb nefol hwn yn cael ei ddwyn ymlaen, drwy yr hyn y mae yr holl aelodau fel yma yn trosglwyddo cynnalïaeth oddiwrth y Pen mawr i'w gilydd? "Gan fod yn gywir," neu, gan lefaru y gwirionedd, mewn cariad," medd Paul; hyny yw, pregethu mewn cariad, addysgu mewn cariad, i.e. adgyweirio'r temtiedig, rhybuddio yr afreolus, dyddanu y gwan eu meddwl, cyd-ddwyn, maddeu,

cyngkori, annog bawb ein gilydd, neu pa beth bynag a ofyn y gwirionedd oddiwrthym,—mae ein holl weithredoedd fel hyn i gael eu gwneuthur mewn cariad. Dyma'r ffordd y mae bywyd a chynnaliaeth yn dyfod o'r Pen drwy y cymmalau a'r cysylltiadau i'r holl gorff.

Ni waeth pa faint fyddo ein doethineb na'n dawn, boed ein zel a'n dyledswyddau fyth mor danllyd a lliosog, os na bydd y cwbl yn cael eu bywhâu trwy gariad, ni bydd o ddim lleshâd. "Deisyfwch y doniau goreu," medd yr apostol; mae hyny yn ffordd ragorol i adeiladu yr eglwys; ond yn union y mae yn chwanegu, "Dilynwch gariad;" oblegid os heb hwn, nid yw dyn o'r doniau mwyaf godidog ddim mwy at adeiladaeth ysbrydol yr eglwys nag "efydd yn seinio, neu symbal yn tincian." "Cariad sydd yn adeiladu." Mae y cyngkor mwyaf trwsogl, a'r cerydd mwyaf llym, os bydd yn tarddu o galon dyner a charedig, yn debyg iawn o effeithio yn dda. O y mae lle i ofni fod llawer o honom wedi llafurio yn hir i ychydig ddyben, o herwydd nad yw cariad Crist yn ein cymhell yn y cwbl, ac yn ffrydio oddiwrthym trwy bob gair, ymddygiad, a gweinyddiad o'r eiddom tuag at yr eglwys! Yr ydym wedi ein ffurfio yn eglwysi o bwrpas fel y byddai i bob un weini rhywbeth i leshâd yr oll, a derbyn yn ol oddiwrth yr oll iddo ei hun drwy gydymgyngori, bwrw golwg dros, a gwasanaethu ein gilydd drwy gariad. Ond gellir gofyn i lawer un, Pwy a gynnorthwyaist di ar ol dyfod i'r cymundeb hwn? pwy a all ddyweyd ar ol bod yn dy gymdeithas di erioed mai gwell yw dau nag un? pa frawd a gyfodaist di wedi syrthio? ac wrth bwy y gorweddaist di yn nghyfeillach dyner yr efengyl nes eu cynhesu yn fwy at Grist a'i achos? Gwaith llawer drwy y blynyddoedd, dybygid, fel Peninah gynt, yw cythruddo ac annhymheru ysbrydoedd eu cyfeillion. Maent fel pe byddent wedi dyfod i'r eglwys o bwrpas i aflonyddu ar ei heddwch, ac i wanhâu ei hundeb. Yn lle bod eu perthynas â'u brodyr yn foddion i ddwyn eu cydymdeimlad a'u tynerwch i ymarferiad, mae yn wastad yn achlysur i gyffroi eu drwgdybiaeth, eu heiddigedd, a'u cenfigen. Os llelarant y gwirionedd, y maent yn ei lefaru megys â thafod y wiber; mae eu geiriau chwerwon fel brathladau gwenwynig yn archolli ac yn llidio'r corff, yn lle bod o faeth a chynnaliaeth iddo. Mae llawer yn nhŷ Dduw yn bwyta



o'r un bara ac yn yfed o'r un cwpan, âg na oddef eu hanghariad tuag at eu gilydd iddynt wneuthur felly wrth un bwrdd ond bwrdd yr Arglwydd. O fel y mae yr ordinhadau sanctaidd yn cael eu halogi! ac y mae yn ddiammheu fod y rhai sydd yn dyfod ynghyd i ymarfer â hwy yn y modd hwn yn dyfod ynghyd er gwaeth ac nid er gwell. Wedi'r cwbl, mae yn ofer i neb hõni ei fod yn caru saint Duw yn gyffredinol, os nad ydyw yn actio cariad yn wresog at y rhai sydd yn yr un gymdeithas âg ef ei hun. Gallwn fod yn sicr mai wrth ein hymddygiad at y rhai hyn y bydd Mab Duw yn profi ein cariad at ei holl deulu yn y farn a ddaw.

V. Ystyriwn yr alwad uchel sydd am undeb a chariad yn ngair Duw, yr hon sydd wedi ei seilio ar yr egwyddorion egluraf yn nghrefydd Crist, ac yn cael ei chefnogi trwy y cymhelliadau mwyaf toddedig a ddichon effeithio ar feddwl credadyn.

Mor fynych y cyfarfyddwn âg annogaethau tebyg i'r rhai canlynol: "Byddwch yn unfryd â'ch gilydd—dywedwch yr un peth—wedi eich cydgysylltu yn yr un meddwl ac yn yr un farn—yr un cariad genych, yn gyttûn, yn synied yr un peth—cerwch eich gilydd o galon bur yn helaeth—mewn cariad brawdol byddwch garedig i'ch gilydd—na fyddwch yn nyled neb o ddim ond o garu bawb eich gilydd." Ië, y mae rhyw arbenigrwydd yn yr alwad am gariad yn anad un rhinwedd arall yn y Bibl. Wedi nodi lliaws o ddyledswyddau eraill, mae yr Ysbryd Glân yn codi hon goruwch y cwbl: "Am ben hyn, byddwch oll yn unfryd, yn cydoddef â'ch gilydd, yn caru fel brodyr, yn drugarogion, yn fwynaid—am ben hyn oll, gwisgwch gariad—o flaen pob peth, bydded genych gariad helaeth tuag at eich gilydd."

Y mae'r gorchymyn hwn hefyd yn cael ei gymhell arnom drwy yr ystyriaethau mwyaf bywiog a thyner a ddichon fod. Megys yn gwybod nad oes dim mor effeithiol i gynnyrchu cariad â chariad ei hun, mae yr Arglwydd Iesu, wrth wasgu y ddyledswydd hon at ei ddysgyblion, yn crybwyll yr esiampl uchaf o hono a ymddangosodd hyd yn nôd ynddo ef ei hunan: "Cariad mwy na hwn nid oes gan neb, sef, bod i un roi ei einioes dros ei gyfeillion. Chwychwi yw fy nghyfeillion, os gwnewch pa bethau bynag yr wyf yn eu gorchymyn i chwi." Ac yn awr, "dyma fy ngorchymyn i"—myfi bïau hwn—hwn yn anad un yw fy

ngorchymyn i—"ar i chwi garu eich gilydd, fel y cerais i chwi." "Hyn," medd efe drachefn, "hyn yr wyf yn ei orchymyn i chwi, garu o honoch eich gilydd." Yr un modd y mae yr apostol Ioan, yntau, yn cyfeirio ei frodyr at y groes, ac yn gwaeddi, "Anwylyd, os felly y carodd Duw ni, ninnau hefyd a ddylem garu ein gilydd."

Mae holl ragorfreintiau digyffelyb credinwyr, y cwbl a fwynhëir ganddynt yn y byd hwn, a'u gobaith i dragywyddoldeb, yn cael eu defnyddio yn yr efengyl fel cymhelliadau i gariad brawdol. A oes genych chwi barch i hynafiaeth? Dyma'r "gorchymyn hen, yr hwn oedd genych o'r dechreuad;" nid yn unig o ddechreuad Cristionogaeth, ond o ddechre'r byd; "ar yr hwn y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll." A ydych chi yn ysu am newydd-deb? "Gorchymyn newydd," medd y Gwaredwr, "yr wyf yn ei roddi i chwi, ar garu o honoch eich gilydd," nid yn unig fel chwi eich hunain, ond "fel y cerais i chwi." Carodd ef, ni a wyddom, nes doddi ei einioes drosom, "a ninnau a ddylem ddodi ein heinioes dros y brodyr." Ac yn wir pan y gwelir dynion yn barod i wneuthur hyn, gellir dywedyd, "Edrych ar hwn, dyma beth newydd." Boed i'n ffydd weithredu ar ei gariad mawr ef, nes y byddo ein calonau yn cael eu hysu gan awydd cadw ei orchymynion a dilyn ei esiampl. A fynech chi wybod eich bod yn caru Duw, ac wedi eich geni o hono? "Pob un a'r sydd yn caru yr hwn a genedlodd sydd yn caru hefyd yr hwn a genedlwyd o hono. Yn hyn y mae yn amlwg plant Duw, a phlant diafol: pob un a'r sydd heb wneuthur cyfiawnder, nid yw yn caru Duw, na'r hwn nid yw yn caru ei frawd. Nyni a wyddom ddarfod ein symud ni o farwolaeth i fywyd, oblegid ein bod yn caru y brodyr. Yr hwn nid yw yn caru ei frawd, y mae yn aros yn marwolaeth. Yn y tywyllwch y mae, ac yn y tywyllwch y mae yn rhodio; ac ni wŷr i ba le y mae yn myned, oblegid y mae'r tywyllwch wedi dallu ei lygaid ef." A fynech chi wybod eich bod yn ddysgyblion i Grist? "Wrth hyn y gwybydd pawb mai dysgyblion i mi ydych," medd Crist, "os bydd genych gariad i'ch gilydd." Y gorchymyn mawr a roddais i chwi, yr esiampl nodedig a osodais i o'ch blaen, a'r amcan neillduol sydd genyf i'w gyflawni ynoch a thuag atoch, ydyw adferu cariad yn eich mys. "Wrth hyn," gan hyny, "y gwybydd pawb mai dysgybl-

ion i mi ydych, os bydd genych gariad i'ch gilydd." A fynech chwi weled eglwysi y saint yn fwy cysurus? "Fel y cysurid eu calonau hwy, wedi eu cydgysylltu mewn cariad," medd Paul. "Wele mor ddaionus ac mor hyfryd yw trigo o frodyr ynghyd! Y mae fel yr enaint gwerthfawr," yn gwneyd dynion yn ystwyth iawn tuag at eu gilydd, ac yn perarogli yn hyfryd yn eu mysg. A fynech chwi bresenoldeb Duw yn fwy amlwg gyda'i bobl? "Syniwch yr un peth, byddwch heddychol, a Duw y cariad a'r heddwch a fydd gyda chwi." Ië, a ddymunech chwi gymaint o ogoniant a heddwch ag a ddichon Duw osod ar eich natur chwi byth? "Perffeithier chwi mewn cariad."

Y fath degwch sydd ar y dyn ag sydd yn llawn o hwn! "Cariad, o Dduw y mae;" ië, cariad ydyw Duw ei hunan; a'i ddelfef, y peth drwy yr hwn y mae enaid y credadyn yn cael yr agoshâd penaf mewn tebygolrwydd at y Duwdod mawr ag a ddichon creadur fwynhâu byth, ydyw cariad. Dyna y ffordd drwy yr hon yr ydym yn aros yn Nuw, a Duw ynom ninnau. Cariad oedd ei ragoriaeth a'i ogoniant Ef, yr Hwn sydd decach na meibion dynion, ië, oll yn hawddgar. Cariad yw cyflawnder y gyfraith; egwyddor fawr ei holl orchymynion, ac ysbryd ei holl ddyledswyddau. Mae cariad yn tori allan ymhob rhinwedd arall sydd yn urddasu'r natur ddynol, yn fywyd ac effeithiolrwydd y cwbl. "Y mae cariad yn hirymaros, yn gymwynasgar; cariad nid yw yn cenfigenu; nid yw cariad yn ymffrostio, nid yw yn ymchwyddo, nid yw yn gwneuthur yn anweddaidd, nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun, ni chythrudir, ni feddwl ddrwg; nid yw lawen am anghyfiawnder, ond cydlawenhâu y mae â'r gwirionedd; y mae yn dyoddef pob dim, yn credu pob dim, yn gobeithio pob dim, yn ymaros â phob dim." Cymherwch gariad â doniau ysbrydol: mae yn ffordd dra rhagorol. Gosodwch hwn yn ymyl grasau eraill yr Ysbryd: "y mwyaf o'r rhai hyn yw cariad." Ac yn y fuchedd draw, pan y bydd lliaws o bethau sydd yn cylchynu crefydd yn y bywyd hwn wedi darfod eu gwasanaeth, ac hyd yn nôd ein grasau eraill yn derbyn rhyw gyfnewidiad, ffydd yn troi yr olwg, a gobaith yn fwynhâu, yno "cariad byth ni chwyp ymaith." Cariad fydd ysbryd y nef ei hun. Yno, o'r diwedd, bydd cenfigen, eiddigedd, a'r holl amcanion hunanol wedi darfod; anhunanoldeb yn teyrnasu mwy. Yno, bydd hapusrwydd pob

un yn hapusrwydd yr oll, oblegid bydd yr oll yn un i dragwyddoldeb.

VI. Annogwn ein darllenwyr i fyfyrion mwy ar yr undeb gogoneddus hwn *yn yr esiampl nodedig sydd genym o hono yn yr eglwys apostolaidd, cynllun yr eglwys gristionogol hyd ddiwedd y byd.*

Dan yr efengyl yr oedd y cariad hwn i'w ddwyn allan i berffeithrwydd. Dyma'r pryd yr oedd canolbwynt yr undeb i ymdangos, a seiliau yr undeb i gael eu gosod yn nghnawdoliaeth ac angeu Crist. Dyma'r pryd yr oedd yr athrawiaeth am gariad brawdol i gael ei dadguddio—yr hen orchymyn oedd genym o'r dechreuad i gael ei ddwyn allan yn orchymyn newydd yn esiampl Crist, yn nhymer ac ysbryd ei ganlynwyr, ac mewn lliaws o ddyledswyddau tyner cariad nas adnabyddwyd mo honynt o'r blaen. Ofn oedd crefydd dan yr hen destament; cariad yw hi o dan y newydd. Mewn oesoedd eraill yr ydoedd megys yn amser i ryfel, i rwygo ac i wasgaru; ond gwaith mawr goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd ydyw crynhoi ynghyd yn Nghrist; y mae yn amser i heddwch, i garu, ac i adeiladu. O dan yr oruchwyliaeth hon, mae'r hen brophwydoliaethau am yr undeb goruchel hwn i gael eu cyflawni yn llawn: crwydriaid Israel i gael eu cynnull, a gwasgaredigion Judah eu casglu o bedair congl y ddaear—y ddau bren a dorwyd oddiwrth eu gilydd yn nyddiau Rehoboam i gael eu cydio y naill wrth y llall, a'u gwneyd yn un pren yn llaw y Messiah, a'r olewydden wyllt i gael ei himpio i mewn yn eu plith hwy; eu cenfigen wedi ymadael, a'r hen gâs wedi darfod, a Duw wedi rhoddi iddynt un galon ac un ffordd i'w ofni byth.

Yr oedd rhyw duedd gwasgu at eu gilydd, mae yn wir, yn y saint drwy'r oesoedd. Yr oeddynt yn un yn nheulu Seth; a phan y lliosogodd hwnw, ni a'u cawn ynghyd mewn modd mwy cyhoeddus i alw ar enw yr Arglwydd. Wedi i had Abraham drachefn liosogi yn llawer o deuluoedd, gwnaeth yr Arglwydd hwythau yn un eglwys o dan Sinai. Ond er y cwbl, yr oedd y cariad yr ydym yn sôn am dano heb ddyfod i'r golwg yn iawn, ac yr oedd undeb mwy coeth yn aros eglwys Dduw. Yr oedd y rhai a unid yno yn blant i'r un Tad o'r blaen, a'r rhai hyny yn cael eu cysylltu â'u gilydd drwy gylch haiarnaidd cyfreithiau o

natur wladol; ac wedi'r cyfan yr ydoedd yn fwy o unffurfiaeth nag o undeb. Yr oedd yr oll yn fwy effeithiol i gynnyrchu casineb rhyngddynt âg eraill nag i gynnyrchu teimladau tyner cariad ysbrydol rhyngddynt â'u gilydd. Os deuai ambell rai o'r hen genedloedd i mewn fel proselytiaid, "dyfodiad," ac nid "cyddinasyddion" a fyddent, o leiaf rhyw ddsbarth o honynt; wedi hyny, mewn rhyw gyntedd ar eu penau eu hunain y byddent yn arferol o addoli, heb eu cydgorffori yn llawn â theulu Duw. Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn llawenychu wrth feddwl fod yr amser yn agoshâu pan y byddai pob gwahaniaeth fel hyn wedi darford. "Bydd un gorlan, ac un Bugail," medd efe. Felly, wedi iddo ddattod canolfur y gwahaniaeth, a gwneyd heddwch drwy waed y groes, efe a sefydlodd oruchwyliaeth yn yr hon nid oes na Groegwr nac Iuddew, caeth na rhydd, ond credinwyr yn un yn Nghrist.

Q'r diwedd, dyma'r gymdeithas newydd yn cael ei ffurfio áan dywalltiad rhyfeddol yr Ysbryd ar ddydd y pentecost. A chán gynted ag y daeth hi i'r golwg, yr oedd ei hundeb mor amlwg a rhagorol fel y denai lygaid yr ysgrifenydd sanctaidd oddiwrth bob peth arall a berthynai iddi. Mae yn crybwyll am dano drachefn a thrachefn, oblegid ei fod yn effaith ryfeddol o allu Dwyfol, ac yn gyflawniad o addewidion a phrophwydoliaethau y gair, ac oblegid y mynai yr Arglwydd hefyd godi yr eglwys apostolaidd yn y peth hwn yn esiampl i gristionogion yr oesoedd, a dangos iddynt pa mor gymeradwy ydyw undeb ganddo ef, a'i fod yn sicr yn brif hynodrwydd yr eglwys bob amser ag y byddo yr Ysbryd yn dywalltedig arni. Dywedir fod credinwyr yr amser hwnw yn gyttún, yn parhâu felly mewn gweddi ac ymbil, yn yr un man, ac o'r un grêd, o un galon ac un enaid, ac un pwr iddynt i gyd. Er eu bod yn wŷr a gwragedd, yn Iuddewon o bob cenedl dan y nef, ac yn lliaws mewn rhifedi, eto yr oeddynt oll yn un. Ni ddywedai neb fod dim a'r a feddai yn eiddo ef ei hun, eithr yr oedd ganddynt bob peth yn gyffredin. Ac nid oedd lliosogi eglwysi ar hyd y gwledydd yn ddim amgen nag ymëangiad y gymdeithas hon: y fam eglwys yn ol yr addewid yn tori allan ar y llaw ddehau ac ar y llaw aswy, a'i hâd yn etifeddu'r cenedloedd; ei meibion yn cael eu dwyn o bell, a'i merched eu magu wrth ei hystlys, yr hyn oedd yn llawenydd mawr i'r eglwys



yn Jerusalem. Yr oedd undeb cristionogol y pryd hwn, nid yn unig yn wir, ond yn amlwg ac yn dyner dros ben; nid yn unig yr oedd aelodau pob cymdeithas neillduol yn un â'u gilydd, ond yr oedd yr eglwysi trwy'r byd yn un, yn teimlo ac yn gweithredu felly tuag at eu gilydd—yr oll yn gweddio dros yr oll. Ni a'u cawn hwy yn helpio eu gilydd mewn cyfyngder, yn ymgynnull i drin achosion eu gilydd drwy gynnrychiolwyr mewn cymanfa-oedd, yn anfon ymwelwyr ac yn ysgrifenu llythyrau i gysuro a chyfnerthu y naill y llall, yn llawen wrth gydgyfarfod ac yn wylo wrth ymadael, i.e., yn ymgofleidio ac yn cusanu eu gilydd, gan mor rymus y gweithiai serchogrwydd cristionogol yn eu myn-wesau. Nid oedd yr holl enwau oedd ar gristionogion y pryd hwn yn dynodi dim ond eu perthynas â Christ, a'r undeb serchog ag oedd rhyngddynt yn eu mysg eu hunain: y corff—nid y corff hwn neu gorff arall, ond y corff—y deyrnas, yr eglwys, priodas-ferch gwraig yr Oen, a'r brodyr. Yr oedd yr holl enwau sect-aidd heb wneyd eu hymddangosiad; ac os byddai anghen am enw i wahaniaethu rhyw ddosbarth o'r eglwys oddiwrth ddosbarth arall, nid oedd yr un i'w gael ond enw'r wlad neu'r ddinas lle yr oedd yr aelodau yn byw, megys eglwysi Judea, neu eglwysi Macedonia. O hwn yr enwid yr holl deulu y pryd hwnw ar y ddaear yn gystal ag yn y nefoedd. Dywed dynion cynefin â gwaith yr hen dadau cristionogol, nad yw eu calonau byth yn ymëangu yn fwy nodedig, na'u geneuau yn agoryd gyda mwy o hyawdledd, na phan y byddant yn llefaru am yr eglwys yn llydanu trwy'r byd, ac eto yn para yn un. "Mae pob rhywogaeth yn cael ei olrhain i'w wreiddyn," medd un o honynt; "yr eglwysi lliosog sydd yn bod yn awr ydynt yr un eglwys hono a sylfaenwyd gan yr apostolion, o'r hon y maent oll wedi deillio." Gan ei chyffelybu i'r haul, aferent ymfrostio ei bod yn estyn ei phelydr drwy yr holl fyd, ac eto yn cyfansoddi ond un goleuni. Gogoniant y corff mawr yn eu golwg hwy, tybygid, ydoedd ei fod, er ymwasgaru dros y ddaear, yn cael ei fywhâu o hyd gan un enaid, yn teimlo âg un galon, yn gweled âg un llygad, ac yn llefaru âg un genau; y fath undeb mewn ffydd ac ymarferiadau, ac yn enwedig mewn cariad a serchogrwydd rhwng ei holl aelodau, fel nad oedd dim ond amgylchiadau yn eu lluddias i gyfarfod yn yr un lle.

O y mae'r gogoniant hwn wedi colli oddiar Gristionogaeth er ys llawer oes! Mae meluschwantau dynion wedi tori allan yn rhyfeloedd ac ymladdau yn yr eglwys yn gystal ag yn y byd; mae gwisg ddiwniad y Gwardedwr wedi ei rhwygo, a theyrnas yr Emanuel fel wedi ymranu yn ei herbyn ei hun. Prin y medr pleidiau crefyddol yn awr fyw yn heddychol er cael byw ar wahân; ond gwylio eu gilydd y maent fel teyrnasoedd eiddigus; ac yn aml y mae lle i ofni eu bod yn profi dirgel foddlonrwydd yn aflwydd y naill y llall, a phob plaid yn rhy awyddus i'w hadeiladu ei hun ar ddynstr y pleidiau eraill. Nid anfynych yn ein dyddiau ni y gwelir y naill eglwys yn bwrw aelod allan, ac eglwys arall yn awyddus yn ei dderbyn ef i mewn; ac yn lle cydymdrech i droi dynion o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw, ymdrechir yn rhy fynych i'w troi o sect i sect, a hyny gyda llawer o gynhen a gwag-ogoniant. Dywedyd ei bod yn gwbl fel hyn a fyddai yn gam â chenedlaeth plant Duw; ond fod llawer iawn o ymbleidio, ac o'r teimladau ansanctaidd hyn rhwng cristionogion â'u gilydd, sydd wirionedd rhy ddiammheul. A gwaeth na'r cwbl ydyw nad oes ond ychydig yn galaru o herwydd cyflwr rhanedig eglwys Dduw. Dichon y gofidiwn ni ronyn pan y delo ymraniadau i mewn i'n cyfundeb ni ein hunain; ond am ymraniadau yr eglwys fawr, y mae meddyliau y cristionogion wedi cynefino â hwy, oblegid eu bod wedi myned mor gyffredin, ac wedi para mor hir, fel nad oes neb yn dysgwyl dim yn amgenach, nac yn eu hystyried yn ddim o'u lle. Mae rhai crefyddwyr fel pe byddent wedi colli pob iawn syniad am natur cariad brawdol; nid ydynt yn ystyried mo hono yn ddim amgen na rhyw ewyllys da i ddynion yn gyffredin, neu deimlad caredig rhwng plwyfolion â'u gilydd. Ac y mae eraill âg elfenau anghydfod yn gweithio yn eu mynwesau tuag at eu brodyr, ac yn aml yn tori allan mewn oerfel-garwch, pellder, ammheuaeth o'u gilydd, surni tymher, y gair garw, y wynebpryd digofus, a phob ymddygiad ag sydd yn dangos diffyg y cariad nad yw "yn gwneuthur yn anweddaidd, nac yn ceisio yr eiddo ei hun."

Onid beth yw y feddyginiaeth? Crefydd; adnewyddiad mewn crefydd drwy nerth Ysbryd Duw. Os palla y bywyd hwn o'r corff, mae yr aelodau yn ddigon sicr o bydru, a syrthio oddiwrth

eu gilydd. Pa heddwch a ddysgwyliwn ni os bydd proffeswyr yn gyffredin yn “ddynion â'u serch arnynt eu hunain, yn ariangar, yn ymfrostwyr, yn feilchion, yn angharedig, yn enllibaidd, yn anfŵyn, ac yn ddiserch i'r rhai da?” Ië, a thra byddo pobl dduwiol yn parhâu yn gnawdol, ac yn rhai bach yn Nghrist a'i grefydd, mae cynhenau ac ymbleidio bron yn sicr o fod yn eu plith. Felly pan y mae yr apostolion yn ymgais am feithrin heddwch ac undeb yn yr eglwys, maent yn wastad yn argymhell ar gristionogion ymadnewyddiad yn ysbryd y meddwl, a gwisgo y dyn newydd, meithrin y ddoethineb sydd oddiuchod, y meddwl oedd yn Nghrist Iesu, a rhodio yn yr Ysbryd Glân, a'r cyffelyb. Mewn gair, duwioldeb—mwy o dduwioldeb—dyma sydd ganddynt i'w arganmawl fel tir a gwreiddyn a gobaith i gariad. Pan y mae crefydd yn nerthol weithio yn eneidiau'r saint, y mae yn eu galluogi i adnabod eu gilydd yn haws, ac i gydnabod eu gilydd yn fwy clir fel cydetifeddion anfarwoldeb a'r gobaith sydd yn nghadw iddynt yn y nefoedd; ac y mae hyn yn dyfod â hwy i deimlo eu bod yn un, ac yn un dros dragwyddoldeb. O ganlyniad, maent yn dyfod i gymdeithasu ychwaneg â'u gilydd; ac felly mae eu hadnabyddiaeth o gymeriad, ysbryd, a phrofedigaethau eu gilydd yn dyfod yn fwy cyfeillgar a thrwyadl, yr hyn sydd yn effeithiol iawn i gydgysylltu eu calonau mewn cariad. Fe ellid meddwl, mae yn wir, gan fod cymaint o ddrwg yn y galon, y byddai bod yn anwybodus o'u gilydd, yn hytrach na bod yn adnabyddus, yn fwy o help i gariad. Ond i'r gwrthwyneb y mae, oblegid fod anwybodaeth yn cynnyrchu ammheuaeth ac anymddiried, yr hyn sydd yn lluddias credinwyr i ymollwng yn rhydd a diofn i fynwes eu gilydd. Ond ni wna adnabod drwg a gwendidau eu gilydd, ar ol plymio eu dyfnder, a chael fod gwaelod caled egwyddorion crefydd odditanodd, ddim ond ennyn eu tosturi a'u cariad yn fwy, yn enwedig gan fod pob un yn deimladol o'r un pla yn ei galon ei hun.

Ac os ydyw undeb y saint yn cael ei anmharu trwy opiniynau croes a dadleugar, mae yn sicr y byddai adfywiad ar wir grefydd yn yr eglwysi yn feddyginiaeth fawr i hyny; oblegid, yn un peth, y mae ansawdd wir dduwiol ar y galon yn ddiogelwch mawr rhag gwyro mewn barn. Mae yn lladd ysbryd cyfeiliorni, ac felly yn

tueddu i wneyd cristionogion o'r un farn. "Y rhai llariaidd a hyfforddia efe mewn barn, a'i ffordd a ddysg efe i'r rhai gostyngedig." Ac megys y mae yn effeithiol i'w gwneuthur o'r un feddwl mewn pethau mawrion, y mae yn eu dysgu hefyd i oddef a chyd-ddwyn â'u gilydd yn wyneb gwahaniaeth golygiadau mewn pethau bychain a dibwys, gan ddysgwyl y bydd i'r Arglwydd grasol o'r diwedd feddyginiaethu holl gamsyniadau credinwyr. Dyma yr ysbyrd yr oedd yr apostol Paul yn ei amaethu yn yr eglwysi: "Er hyny," medd efe, sef, er methu cydweled ymhob peth, "y peth y daethom ato, cerddwn wrth yr un rheol, syniwn yr un peth;" hyny yw, ymroddwn i fyw yn dduwiol, gan gydweithredu yn serchog â'n gilydd ymhob peth ag yr ydym eisoes wedi ein hennill i gydweled yn ei gylch. "Ac os ydych yn synied dim yn amgenach," yn wahanol eich meddyliau am rywbeth, ni phery y gwahaniaeth ddim yn hir,—“hyn hefyd a ddadguddia Duw i chwi.” Mor brydferth yw tymher lednais yr efengyl! Y fath fyd o ymrysoniadau y buasai eglwys Dduw wedi eu gochelyd pe buasai yn wastad yn yr ysbyrd hwn! Os bydd dynion fel hyn yn cael eu galw i ymdrech yn mhlaid y ffydd, maent yn sicr o ddyfod allan “mewn addfwynder i ddysgu y rhai gwrthwynebus, i edrych a roddo Duw iddynt hwy ryw amser edifeirwch i gydnabod y gwirionedd.” Os teimlant ddrwg-anwydau yn cyffro, maent yn barod i ofyn, Beth sydd yn ennyn yn fy mynwes i? Onid rhywbeth ydyw o gyfathrach uffern? A all hwn fod o ryw wasanaeth i wirionedd Duw? Y mae yma dân, mae yn wir, ond tân heb oleuni ydyw, ac mi a ôdylwn gofio tân o ba wlad yw hwnw.

Byddai adfywiad crefydd yn ddiammheu yn feddyginiaeth fawr i'r eglwysi oddiwrth yr holl ddrygnawsedd hwnw o ba un y tardd cymaint o ymddygiadau anweddaidd sydd, nid yn unig yn dangos diffyg cariad yn y fynwes a'u cynnyrchant, ond hefyd mor niweidiol iddo ymhob mynwes arall. Beth, er esiampl, a ddichon fod o fwy o niwed i gariad brawdol na bod cristionogion yn barod ar bob achlysur i gamddëongli golygiadau eu gilydd, a'u gosod allan yn waeth nag ydynt—i briodoli amcanion drwg, pryd na byddo hyny yn amlwg—i gyhoeddi a mwyhâu colliadau eu gilydd—i arfer chwerwder, trahâusder, a haerllugrwydd yn yr wyneb, ac athrod, enllib, a phob ystryw gyfrwysddrwy

o'r tu cefn, er disodli a drygu y naill y llall; pob un yn bwrw ei wenwyn allan yn llysnafedd ar gymeriad ei frawd, yn actio y tarawydd yn aml hyd yn nôd wrth gyflawni dyledswyddau crefyddol, ac yn hoffi llettya meddyliau angharedig a dyfeisio ffyrdd i wneyd eu gilydd yn anghysurus, i.e., yn aml yn eistedd ar achos tragwyddol a chollfarnu y naill y llall fel dynion amddifaid o gydwbybod ac uniondeb calon gyda Duw! Ond pan dywallter yr Ysbryd ar yr eglwysi, bydd y drwg-anwydau hyn yn cael eu darostwng, ffydd yn dyfod yn fwy ddiffuant ar Grist, ac yn gweithio yn fwy nerthol trwy gariad tuag at ei holl eiddo ef. Mae yr ansawdd yma ar ysbryd cristion yn gwahardd pob ymddygiad sydd yn clwyfo ac yn tristâu cariad, ond i'r gwrthwyneb yn tori allan i'r holl weithrediadau tyner hyny ag sydd mor effeithiol i'w gynnyrchu a'i feithrin yn mhawb o'i amgylch. Fel hyn mae yr holl gorff drwy gariad yn ei adeiladu ei hunan mewn cariad. Yn y dymher hon mae pawb yn ofalus i beidio rhoi na chymeryd tramgwydd—pawb yn dilyn yr hyn a berthyna i heddwch, ac yn ceisio lleshâd a chysur eu gilydd—pob un yn barod i ymwadu âg ef ei hun, ac i foddhâu ei gymydog ymhob peth sydd dda er adeiladaeth iddo, gan fod yn dyner o'i deimladau, cyddwyn â'i wendid a'i ragfarn, a chuddio lliaws o'i bechodau—yr henuriaid yn dadol wrth yr ieuainc, a'r ieuainc yn ostyngedig i'r henuriaid, yn ofalus rhag eu briwo, ac yn ymdrechgar i'w hanfon i lawr yn dringar tua'r bedd. Mewn cymdeithas fel hyn, nid yw gwahaniaeth mewn graddau ac oedran, gras a doniau, ddim amgen nag achlysuron i weithredu cariad, a mantais i ddangos prydferthwch ei chydgoriad yn fwy amlwg, ac i wneuthur ei hundeb yn fwy cadarn.

Pan y gwelo Duw yn dda dywallt ei Ysbryd ar ei eglwys, ceir dywedyd unwaith yn rhagor am gristionogion, "Gwelwch fel y maent yn caru eu gilydd!"



## DYLEDSDWYDDAU YR EGLWYS TUAG AT EI GWEINIDOGION.\*

3 IOAN 8: "Ni a ddylem gan hyny dderbyn y cyfryw rai, fel y byddom gydgynnorthwywyr i'r gwirionedd."

PAN y mae yr Arglwydd yn dwyn dynion i berthynas á'u gilydd yn ei ras, neu yn ei ragluniaeth, mae gan y pleidiau yn wastad ryw ddyledswyddau neillduol i'w cyflawni y naill tuag at y llall. Felly y mae gan weinidogion y gair tuag at yr eglwysi, a chan yr eglwysi tuag atynt hwythau. Mae gan yr eglwys hefyd, yn gyfansoddedig o swyddogion ac aelodau, ddyledswyddau pwysig i'w cyflawni tuag at y byd. "Yr oedd Duw wedi addaw Canaan i Abraham," medd un duwinydd; "ond yr oedd yn rhaid i Israel ei chymeryd hi; ac felly addawwyd y byd i Grist, ond y mae yn rhaid i gristionogion ei orchfygu, a chymeryd meddiant o hono yn ei enw ef." Dyma amcan mawr yr eglwys a'i gweinidogion; er mwyn hyn y maent yn hanfodi; ond y mae gan bob un o'r ddwy ochr eu gwaith priodol eu hunain i'w gyflawni, er ei ddwyn ymlaen a'i gyrhaeddyd. Mae llawer o ddyledswyddau pwysicaf yr eglwys tuag at y byd i'w cyflawni trwy offerynoldeb ei gweinidogion. Pa bethau bynag gan hyny a wnelo hi, neu a ddylai wneuthur, er eu cynnorthwyo hwy yn nghyflawniad y cyfryw ddyledswyddau, y mae yn a thrwy hyny yn cyflawni ei dyledswyddau ei hunan tuag at y byd. Trwyddynt hwy yn arbenigol y mae'r saint i

\* Y sylwadau hyn a draddodwyd fel Anerchiad neu Araeth yn y Cyfarfod Ordeinio yn Nghymdeithasfa Caernarfon, Medi, 1851, pryd y neillduwyd i waith y weinidogaeth y Parchn. Hugh Jones, Llanerchymedd, John Charles, Ieuaf, a James Donne, o Fôn; David Davies, Caernarfon, a Samuel Roberts, Bangor. Gwelir mai Mr. Hugh Jones (hynaf), a Mr. Donne, sydd o'r pump yn fyw yn awr.

gadw athrawiaeth y ffydd, a dysgyblaeth ac iawn drefn yn yr eglwysi. Yn eu personau hwy y maent i fyned i'r holl fyd, a dysgu yr holl genedloedd, gan eglurhâu arogledd y wybodaeth am Grist drwyddwynt hwy ymhob lle, ac felly bod, yn gyson â thystiolaeth eu Gwardwr, yn oleuni'r byd ac yn halen y ddaear. Nid oes neb, dybygem, yn dysgu yr eglwysi yn eu dyledswyddau tuag ato ei hun fel gweinidog yr efengyl yn fwy dibetrus na'r apostol Paul. Ond marciwch ei ddull a'i ysbryd yn gwneuthur hyny. Nid yw efe byth yn dadleu ei hawl gyda chwerwder ysbryd, nac ychwaith yn galw am wasanaeth yr eglwysi mewn tôn hyf ac awdurdodol, yn debyg i feistr yn gorchymyn ei weision i weini arno ef; ond yn hytrach y mae fel dyn mewn llafur caled a than faich trwm, rhy drwm iddo ef, yn llefain ar ei frodyr am eu cydymdeimlad a'u cynnorthwy. Y gwaith, ac nid ei leshâd ei hunan, oedd ar ei galon ef. Geilw ar yr eglwysi i gydymdrech gydag ef ynddo, gan gydweithio mewn gweddïau drosto ef ar Dduw. Ac os anfonent iddo gynnorthwy arianol wrth ei anghenrhaid, mae yn ei dderbyn gyda llawenydd, ac yn cydnabod y rhai â'i cynnorthwyent felly, yn wŷr a gwragedd, fel ei gydweithwyr yn Nghrist. "Yr ydwyf yn dymuno arnat tithau, fy ngwir gymhar," medd efe wrth un o'i gyfeillion, "cymhorth y gwragedd hyny y rhai yn yr efengyl a gydlafuriasant â mi." Yr un flunud dyma yr apostol Ioan, wrth annog yr anwyl Gaius i barhâu yn ei garedigrwydd at genadon yr efengyl, yn dangos fod y cyfryw rai, nid yn unig yn eu cynnorthwyo hwy, ond yn "gydgynnorthwywyr i'r gwirionedd."

Goddefer i ni gan hyny ymofyn ychydig yn fanylach pa gynnorthwy a ddichon yr eglwysi roddi i'w gweinidogion, mewn trefn i gyflawni eu dyledswyddau tuag atynt, a bod yn gydgynnorthwywyr i'r gwirionedd.

I. Maent i gynnorthwyo eu gweinidogion *i gael y gwirionedd, ac i'w osod allan yn briodol ger bron y byd*. Chwi a ellwch fod yn sicr fod y gwirionedd yn gorwedd yn ddwfn, a'r "peth sydd bell a dwfn iawn, pwy a'i caiff?" Dylid ei "geisio fel ceisio arian, a chwilio am dano fel am drysorau cuddiedig." Ac wedi cael mesur o wybodaeth o hono, mae ei ddysgu i eraill drachefn yn orchwyl ag sydd yn gofyn pob doniau dynol ac ysbrydol i'w gyflawni. Mae gweinidog yr efengyl wrth ei swydd, chwi a

wyddoch, i ddysgu gwybodaeth i'r bobl; ac i'r dyben hwnw, rhaid iddo fod yn ddysgedig ei hunan. Am hyny y mae Crist yn ei ddarlunio fel "ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd, yn debyg i ddyd o berchen tŷ, yr hwn sydd yn dwyn allan o'i drysor bethau newydd a hen." Ac os darllenwch 2 Timotheus iii. 14—17, chwi a gewch weled beth yw y trysor hwn, a pha fodd y mae'r gweinidog ffyddlawn i ddwyn allan o hono er lleshâd pechaduriaid. Ei drysor ydyw gwybodaeth o'r Ysgrhythyr Lân; ac y mae i'w ddefnyddio "i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, ac i hyfforddi mewn cyfiawnder." Ac er mwyn dangos, dybygid, pa raddau a ddylai efe gyrhaeddyd yn y pethau hyn, mae'r apostol yn dywedyd, "Fel y byddo dyn Duw yn berffaith." Fel hyn, â llewyrch Dwyfol yn ei galon, ac ymadrodd doethineb a gwybodaeth ar ei wefusau, mae gweinidog yr efengyl i roddi ei eraill "oleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist."

Ond o ba le y mae'r dyn yma i gael yr holl ddoniau hyn? Nid yw gwybodaeth ddim ynddo ef yn gynhenid a gwreiddiol, fel y mae yn Nuw. Na, fe'i ganwyd megys eraill "fel llwdn asen wyllt;" ac y mae yn rhaid i bob gwybodaeth gael ei chasglu i mewn cyn y bydd ganddo ddim i'w rhoi allan er adeiladaeth rhai eraill. Duw yn unig, mae yn wir, a ddichon wneuthur gweinidog yr efengyl. Efe yn unig a all ei gynnysgaethu â galluoedd cryfion, ei alw trwy ei ras, a dadguddio ei Fab ynddo ef, mewn trefn i'w wneuthur yn bregethwr. Beth er hyny? mae gan yr eglwys hithau lawer i'w wneuthur er perffeithio dyn Duw. Nid yw gras, chwi a wyddoch, ddim yn cyflawni diffygion cyffredin y meddwl, nac yn dwyn dyn i feddiant o'r un o'r manteision amryfal hyny ag sydd yn anghenrheidiol i'w berffeithio, hyd yn nôd mewn gwybodaeth ysgrhythyrol. Pethau yw y rhai hyn i'w hennill trwy lafur; a chynnorthwyo pregethwr i'w cyrhaeddyd ydyw un o ddyledswyddau arbenig yr eglwys tuag ato. Yr oedd rhywbeth yn y deml gynt nad allasai neb ond Duw ei hun ei roddi; i.e., Duw ei hunan oedd y rhywbeth hwnw; ond nid oedd hyny yn taflu dodrefn a cherfiadau Solomon o'r naill du, eithr, i'r gwrthwyneb, gosodai neillduaeth a gogoniant ar y cyfan. Yr un modd, er fod Duw yn wir yn y gweinidog ffyddlawn, mae hyny mor bell o wneyd ymgeledd ac amaethiad dynol

yn afreidiol, fel os bydd dyn yn eu meddu, fod ysbryd y weinidogaeth yn sicr o'u cysegru i wasanaeth y Gwaredwr. Gan mai oddiuchod y mae pob rhoddiad daionus yn disgyn, y mae'r cyfan, yr ysbrydol a'r cyffredin, lle bynag y maent yn cydgyfarfod, yn sicr o fod yn gynnorthwy i'w gi'ydd yn ngwasanaeth eu Hawdwr. Y meddwl athrylithgar ac amaethedig ar y naill law, a lewyrcha megys gyda nefol ogoniant pan o dan eneniad Ysbryd y gwirionedd; a'r gwirionedd, yntau drachefn, a ymddengys i well mantais lle bynag y byddo athrylith ac amaethiad wedi eu sancteiddio a'u cysegru i'w wasanaeth.

Yr ysgolion cyntaf y darllenwn am danynt yn y Bibl oeddynt ysgolion meibion y prophwydi, lle y byddai dynion ieuainc yn cael eu meithrin o dan feistr cymhwys, prophwyd fynychaf, mewn gwybodaeth ac ymarferiadau crefyddol, megys darllen, myfyrio, gweddio, ac eglurhau yr Ysgrythyrau, ac fel hyn eu cymhwyso i fod yn athrawon cyhoeddus. Yr oedd yr apostolion eu hunain wedi bod dan addysg gan Grist cyn eu danfon allan i bregethu, ac is-swyddogion yr eglwysi drachefn yn cael eu dysgu ganddynt hwythau. Mae Paul, yr hwn ei hun oedd wedi meithrin Timotheus yn ngeiriau'r ffydd, yn gorchymyn iddo yntau draddodi y pethau a glywsai ganddo ef "i ddynion ffyddlawn, y rhai a fyddent gymhwys i ddysgu eraill hefyd." "Yr eglwysi fel hyn," medd Dr. Owen, "oedd athrofydd Crist y pryd hwnw." Yr oedd darpariaeth ynddynt, nid yn unig gogyfer â pherffeithio'r saint yn gyffredinol mewn gras a sancteiddrwydd, ond hefyd gogyfer â chymhwyso rhai o honynt i waith y weinidogaeth. Nid oedd y Brenin mawr, gellid meddwl, hyd yn nôd yn nhymmor y doniau anghyffredinol, yn diystyru manteision dynol. Paham, er esiampl, y gwneid yr eglwys yn Jerusalem y pryd hwnw yn athrofa pregethwyr i'r holl fyd? Onid am fod ei haelodau hi, gan mwyaf, wedi cael dygiad crefyddol i fyny o'u mebyd? Yr oedd yn eu mysg hwy lawer, dybygid, fel Paul, wedi eu meithrin wrth draed doctoriaid y gyfraith, ac wedi derbyn felly egwyddorion a hadau yr efengyl allan o'r Hen Destament yn eu hieuenctyd. Ac erbyn fod yr addysg gristionogol yn perffeithio hyny, a goleuni yr Ysbryd yn bywhau'r cyfan, yr oeddynt hwy ar unwaith yn gynhwys i ddysgu eraill. Ac felly ar wasgariad yr eglwys yn Jerusalem gan yr erlidigaeth, yr

ydym yn darllen fod y rhai a wasgarasid yn tramwyo y gwledydd gan bregethu'r gair.

Yr oedd y drefn uchod o feithrin dynion i'r weinidogaeth yn parhâu, dybygid, ymysg yr hen gristionogion ar ol dyddiau yr apostolion. Mae Calvin yn hysbysu i ni fod dynion sanctaidd yr oesoedd hyny, mewn trefn i adael ar eu hol ddarpariaeth gymhwys i'r eglwys, yn cymeryd o dan eu gofal, eu harweiniad, a'u dysgyblaeth, ddynion ieuainc, pa rai, trwy gydsyniad ac awdurdod eu rhieni, a ymroddent i'r filwriaeth ysbrydol; a byddent yn eu hyfforddi hwy o'u hieuenctyd, fel na ddelent yn newyddian ac anfedrus i'r gweinyddiad o'u swydd. Yr ydoedd yn sefydliad cysegredig a buddiol iawn, medd efe, bod iddynt hwy, y rhai a gysegrent eu hunain a'u gwasanaeth i'r eglwys, gael eu dwyn i fyny o dan ofal yr esgob, fel na byddai i neb gael gweinyddu yn yr eglwys ond efe yr hwn a fyddai yn meddu deall da yn flaenorol, ac wedi sugno athrawiaeth iachus o'i febyd, a chael ei sefydlu trwy ddysgyblaeth fanol mewn arferion sobr a buchedd sanctaidd a da, yn gystal â'i neillduo oddiwrth orchwylion cyffredin, a'i gynefino mewn efrydiaeth a llafur ysbrydol. Wedi nodi yr ymarfer y byddent yn cael eu dwyn trwyddo yn ystâd eu prawf, mae yn dyweyd y gwneid hwy yn gyntaf yn ddiaconiaid, ac wedi hyny, os byddent yn gymeradwy, yn weinidogion y gair. Yr oedd yr hen gristionogion yn synied yn uchel am y cynneddfau gweinidogaethol. Yn eu golwg hwy, milwriaeth ydoedd y weinidogaeth. Yr oedd y dyn a ymgymera i hi, i'w neillduo oddiwrth bob gorchwyl arall, ac o'i febyd i drin a chyfarwyddo ei hunan yn ei harfogaeth, ac felly, gan dderbyn ei hysbryd oddiuchod, i fod yn gysegredig i'w dyledswyddau dros ei fywyd.

Rhaid i ni sydd mewn oedran wneyd y goreu o'r gwaethaf. Gwyddom ryw faint am werth gwybodaeth mewn rhan drwy yr ychydig a ennillasom, ond yn benaf drwy ein heisieu o'r llawer ag yr ydym wedi methu ei gyrhaeddyd. Y cyfan a all ein cyfeillion wneyd i ni bellach yw gweddïo drosom. Ond y mae yn gwestiwn difrifol i'r eglwysi yn ein gwlad pa fodd i gael dynion duwiol i waith y weinidogaeth, a pha fodd, drachefn, i'w dwyn i fyny i weinidogaeth gyflawn a nerthol. Peidiwch a meddwl mai o un ochr y mae'r perygl i gyd. Ni a allwn golli y weinidog-



aeth, mae yn wir, drwy egwyddoriad iddi a fyddo yn anmhriodol a digrefydd; ond gallwn ei cholli hefyd drwy esgeulusdra. Os yw'r pulpud i barhâu yn ei effeithiolrwydd yn ein mysg, mae yn rhaid ei lenwi, nid yn unig â dynion duwiol, ond â dynion wedi mwynhâu manteision llawer uwch nag sydd yn dygwydd i ran eu brodyr yn gyffredinol; dynion o ymarferiadau meddyliol, a'u galluoedd wedi eu hëangu yn eu hieuenctyd; dynion yn glynu wrth ddarllen, ac wedi cael cyfleusderau ac amser i ymroddi i fyfyrnodau uchel, ac i gyraeddyd y doniau amrywiol, ag sydd oll yn anghenrheidiol, ac oll yn rhy fach, i arddangos gwirioneddau yr efengyl yn eu gogoniant. Dynion o'r fath yna oedd grym Methodistiaeth yn yr oes a aeth heibio. Yr oedd rhai o honynt, mae yn wir, heb gymaint o fanteision yn eu hieuenctyd, ac nid oedd neb yn fwy teimladol o'r diffyg hwnw na hwy eu hunain. Ond os ydych chi yn casglu oddiwrth hyny fod eu holl dalentau megys wedi ymddywallt arnynt yn uniongyrchol o'r nef, heb draul na llafur, yr ydych yn dirfawr gamgymeryd. Mae'r llyfrgelloedd cyfoethog a adawsant ar eu hol, a'r cyrff bregus a dreuliwyd i'r bedd wrth ymguro ynddynt am wybodaeth, yn ddigon i brofi i'r gwrthwyneb. Bendithio llafur a moddion er cyrhaeddyd dybenion uchel y mae yr Arglwydd. Mae aileni yn darvoud lle y mae'r moddion hyny yn colli; ac nid oes neb yn dysgwyl yn amgenach. Pa ryfedd gan hyny os bydd y weinidogaeth, hithau, â'i gogoniant yn meinhâu, ac o'r diwedd yn pallu, nid yn unig o feddyliau personau neillduol sydd yn ymollwng i segurdod a chnawdolrwydd, ac yn esgeuluso'r dawn sydd ynddynt, ond hefyd o'r eglwysi hyny sydd yr un modd yn esgeuluso eu hymgeleddu, heb weddio am dani, darparu dynion iddi, na meithrin ei hysbryd yn eu mysg? "Gwylwch chi, bobl," ebe Ebenezer Morris unwaith, "rhag y gwelwch chi'r Corff hwn eto heb ddoniau ynddo." Dr. Owen, pan yn cymhell i'r amcan o fod yr eglwysi yn cadw rhywrai yn eu mysg o dan addysg neillduol, mewn trefn i'w cymhwyso i'r weinidogaeth, a ddywed, "Mae yr Arglwydd Iesu yn sicr o ddarpar gweithwyr i'w gynauaf, ond yn gwneyd hyny yn ei drefn ei hun, ac nid mewn cydffurfiad â'n hesgeulusdra ni."

Hawdd y gellid gofyn, "Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?" Mae'r Duw yr ydym i'w bregethu ynddo ei hun yn anweledig;

yn y pethau a wnaeth yn unig y cawn ni ryw ddirnadaeth am dano. Mae o fantais fawr i bregethwyr gan hyny gael eu harwain yn eu hieuenctyd i ddirgelion natur, lle y mae ei ddoethineb, ei allu, a'i ddaioni, yn gorwedd yn guddiedig; mae hyny yn äangu eu meddyliau am dano ef, ac yn parotoi y galon i'w ryfeddu yn fwy yn nhrefn yr iachawdwriaeth. (Darllener *Psalm* viii). Mae dyn, y gwrthddrych yr ydym i bregethu iddo, yn greadur ofnadwy a rhyfedd. Mewn trefn i ymwneyd äg ef yn ddoeth, mae eisieu ei adnabod yn dda; ei adnabod fel creadur, fel pechadur, ac fel cristion, gan fod yn ddigon craffus i wahan-iaethu rhwng natur a'i llygredigaeth, ac i olrhain gweithrediadau gras Duw yn yr enaid, yn gystal ä medru canfod a dynoethi rhagrith a ffuantwch. Mae'r Bibl, drachefn, y llyfr ag yr ydym i'w bregethu, yn gofyn y manteision mwyaf i'w ddeall a'i eglurhäu. Chwi a glywsoch weithiau rai yn dywedyd yn hyderus fod y Bibl ei hun yn ddigonol. Wel, caniatäer fod gradd o wir yn hyny gyda golwg ar gristionogion cyffredin; ond, o'r ochr arall, pwy, ag sydd yn arfer darllen y Bibl gyda dim sylw, nad yw yn profi yn wastad fod lliaws o gwestiynau yn codi yn ei feddwl, y cyfryw ag y mae yn anmhosibl deall yr hyn a ddarllenir heb gael goleuni arnynt? Ac mor anmhosibl yw cael hyny heb gymhorth manteision a gwybodaeth oddiallan i'r Bibl ei hun. Mae'r Bibl yn hen lyfr, ac wedi ei ysgrifenu yn y parthau dwyreiniol o'r byd; a chyfeirir ynddo at wledydd, amgylchiadau, creaduriaid, ac arferion, pa rai sydd gwbl anghy-nefn i'n meddyliau ni; a chan hyny mae yn rhaid i ni, er ein galluogi i'w astudio a'i ddeall fel llyfr arall, droi am gynnorthwy i ffynnonau eraill o wybodaeth. Ac yn wir, er mwynhäu y cyfan, nid yw yn debyg y gall y mwyaf perffaith byth ddyfod mor gyfeillgar a chynefn yn ystyr a phriod-ddull ei ymadroddion äg oedd y bobl hyny oedd yn siarad yn yr un iaith, ac yn byw yn yr un gwledydd ac amgylchiadau, ä'i ysgrifenywyr. Mewn llyfrau yn ein hiaith ein hunain, os byddant wedi eu hysgrifenu ond ychydig ganrifoedd yn ol, yr ydym yn cyfarfod ä llawer o ddeythruch; a'r dyn a fyno eu meistrolï yn iawn, mae yn rhaid iddo, nid yn unig lafurio i ddeall iaith a dulliau priodol eu hawdwyr, ond hefyd, ond odid, wneyd ei hun yn gynefn ä llawer o bethau yn yr oes yr ysgrifenyd hwynt. Pa faint mwy

y mae eisieu yr holl fanteision hyn a'r cyffelyb i ddeall yr Ysgrythyrau?

Heblaw hyny, mae'r pregethwr yn ŵr cyhoeddus, ac yn sefyll ger bron y byd fel un o'i athrawon; ac os bydd efe, yr hwn sydd yn dysgu eraill, islaw i neb o'i wrandawyr mewn amaethiad a gwybodaeth, mae yn beryglus rhag y bydd iddo syrthio yn wrthddrych eu diystyrwch. Efe a all fod yn dduwiol, ac, o bosibl, yn meddu gradd o weinidogaeth, ac ar yr un pryd, os bydd ei anwybodaeth cyffredin yn cael ei fradychu yn aml, ei chwaeth yn ddrwg, ei iaith yn isel, ei gymhariaethau yn chwithig ac amhriodol, ei bregeth yn fynych heb gynnwys dim amcan, na'i eiriau yn trosglwyddo dim meddwl, ac yn enwedig os bydd efe yn nghanol yr holl amherfetheithrwydd yma yn ymddangos fel yn gwbl anwybodus o'i ddiffygion, mae efe yn rhwym, i'n tyb ni, o fyned i lawr yn ngolwg ei wrandawyr. Nid yw hyd yn nôd y cyfryw sydd yn analluog i ganfod ei waeleddau yn derbyn ond ychydig o adeiladaeth drwyddo; ac am y lleill, os na byddant yn wir dduwiol yn gystal a gwybodus, maent yn barod i'w ddirmygu. Os gofynir i ni gan hyny pa beth yw dyledswydd yr eglwys tuag at weinidog y gair, dyna hi: "Na ddiystyred neb ef." Ond mewn trefn i hyny, mae yn rhaid iddo fod yn gymeriad ag *na ddichon* neb ei ddiystyru. Ac yn nesaf at dduwioldeb a moesau dyrchafedig, nid oes dim a duedda yn fwy i'w wneyd ef felly na choethi ei feddyliau trwy addysg, a ffurfio ynddo yr arferiad o ddwfn a dyfal astudiaeth o'i ieuenctyd.

II. Dyledswydd arall sydd gan yr eglwys i'w chyflawni tuag at ei gweinidogion dros Iesu Grist ydyw, *eu gosod yn ddifrifol yn y weinidogaeth*. O bosibl nad yw y mater yma ddim yn perthynu cymaint i amcan y cyfarchiad hwn; ond gan nad ydyw ymhell oddiwrth hyny, a'i fod mor briodol i'r amgylchiad ag yr ydym ynddo yn bresennol, ni a ddywedwn air arno.

Nid oes gan un dyn hawl i weini yn y dyledswyddau hyny ag sydd yn perthyn yn neillduol i'r weinidogaeth, pa mor gymhwys bynag a fyddo i'r gwaith, oddieithr iddo yn gyntaf gael ei alw a'i osod yn y swydd gan eglwys Dduw. Ond nid ydyw hyn am fod gan yr eglwys, nac un swyddog o'i mewn, unrhyw awdurdod oruchel a hollol yn trigo ynddi ei hun i wneyd arall yn weinidog

yr efengyl. Gwyddom fod tyb felly yn y byd. Mae yr apostolion, pa rai ag oedd yn meddu trysor o allu eglwysig ynddynt eu hunain, fe dybir, wedi rhoddi yr awdurdod hon i'w hollynwyr; ac ar bwy bynag gan hyny y gosodo y cyfryw rai eu dwylaw, y maent yn y fan, a hyny yn gwbl annibynol ar yr ystriaeth o'u cymeriad personol a'u cymhwysderau, yn derbyn y fraint o fod yn weinidogion y gair. Ond ni roddes Crist erioed y fath awdurdod i ddynion. Na, gan y Pen mawr yn unig, yn yr hwn y mae holl lywodraeth yr eglwys yn cartrefu, y mae awdurdod i wneyd y neb y myno yn weinidog yr efengyl; ac nid yw yr eglwys wrth ordeinio y cyfryw yn gwneuthur dim ond cyflawni un o'i dyledswyddau tuag at yr Arglwydd Iesu. Yn *Act.* xiii. 2, yr ydym yn darllen fel y canlyn: "Ac fel yr oeddynt hwy," sef y rhai a nodir yn yr adnod flaenorol, "yn gwasanaethu yr Arglwydd, ac yn ymprydio, dywedodd yr Ysbryd Glân, Neillduwch i mi Barnabas a Saul, i'r gwaith y gelwais hwynt iddo." Efe, ni a welwn, oedd yn eu galw hwy; ac yr oedd wedi gwneyd hyny cyn i'r brodyr eu neillduo; i.e. rheswm y gorchymyn am eu neillduad ganddynt hwy ydoedd, eu happwyntiad i'r gwaith gan yr Ysbryd Glân. Felly eto, yr argoelion fod yr Ysbryd yn galw ydyw sail yr eglwys i weithredu. Ond goddefer i ni ofyn yn awr wrth fyned heibio, Ai dyma fel y mae pethau yma heddyw? Ai gweled yn y brodyr hyn, o leiaf i ryw fesur, yr holl gymhwysderau gweinidogaethol hyny ag y mae yr Ysbryd Glân yn ei gyfranu i weinidogion y gair, ydoedd y rheswm, yr unig reswm, o'u dwyn hwy ger bron i gael eu neillduo? Os felly, gallwn obeithio fod ganddynt alwad Ddwyfol i'r gwaith, ac nad ydym ninnau wrth eu gosod yn gyhoeddus ynddo yn gwneuthur dim ond cyflawni ei archiad ef, yr hwn, a defnyddio geiriau un ysgrifenydd, sydd trwy y cymhwysderau hyny megys yn ein cyfarch, gan ddywedyd, "Neillduwch i mi y gwŷr hyn, eich brodyr, i'r gwaith y gelwais hwynt iddo." Am danom ni, nid ydym yn proffesu eu bod hwy yn derbyn un awdurdod oddiwrthym; ac nid yw ein gwasanaeth heddyw, o hono ei hun, yn alluog i drosglwyddo iddynt unrhyw rinwedd, nac i effeithio ynddynt unrhyw gyfnewidiad, yn bersonol na swyddogol, fel ag i'w gwneuthur yn ddynion mwy sanctaidd, neu yn bregethwyr mwy doniol na llwyddiannus, nag o'r blaen. Ac y mae yn ddilys genym pe

buasent, yn lle bod yma, yn cael eu neillduo heddyw yn yr Eglwys Gadeiriol gyfagos atom, na buasai yr achos ond yn gwbl yr un fath. Na, frodyr, nid oes i chwi feistr ond Crist. Mae eich awdurdod yn deillio oddiwrtho ef, ac ato ef y mae i chwi fyned am bob help yn y gwaith.

Ar yr un pryd, y mae yr alwad eglwysig o fawr bwys. Un o ordinhadau Crist ydyw. Ac y mae ymholi ynghylch gwahanol elfenau yr alwedigaeth, megys, pa un yw y mwyaf anghenrheidiol i bregethwyr ai yr hyn y mae Crist yn ei roddi yn uniongyrchol, ai ynte yr hyn y mae efe yn ei roddi trwy yr eglwys, a pha beth yw effeithiolrwydd neillduol pob un o honynt er gwneyd dyn yn weinidog y gair, yn gwbl ofer ac afreidiol, gan mai'r cyfan ynghyd sydd yn cyfansoddi yr alwad i'r weinidogaeth. Mae'r dewisiad a'r neillduad gan yr eglwys yn hanfodol i'r alwad. Moddion yw hyn o osodiad Crist, yn yr hyn y mae efe trwy yr eglwys yn dwyn ei weision i'w swydd a'r holl awdurdod berthynol iddi yn ei dŷ. Wrth ddarllen y Testament Newydd, yr ydym yn cael lle i gasglu mai yr eglwys ynghyd a'r rhai sydd yn swyddogion ynddi eisoes sydd i gyflawni y ddyledswydd hon. Ar y naill law, mae'r cyfarwyddiadau y mae'r apostol yn eu rhoddi i Timotheus a Titus yn profi eu bod hwy i flaenori y bobl yn y mater hwn; ac o'r ochr arall, mae'r esiamplau sydd genym o'r gwaith yn cael ei wneyd yn dangos nad oedd hyd yn nôd yr apostolion eu hunain byth yn ei gyflawni ond mewn cydweithrediad â'r eglwysi. Wedi i'r doniau neillduol beidio, mae'r gwaith yn disgyn yn naturiol i ddwyllaw swyddogion cyffredinol yr eglwys. Mae yn ddyledswydd arnynt hwy gynnorthwyo yr eglwysi yn y gorchwyl pwysig hwn; bod yn llygaid iddynt, i ddewis dynion cymhwys i'r gwaith, ac wedi hyny gosod y cyfryw yn eu swydd trwy ympryd a gweddi.

Nid oes dim llawer o flynyddoedd, chwi a wyddoch, er pan y dechreuodd y Methodistiaid Calfinaidd neillduo gweinidogion yn eu mysg eu hunain. O herwydd hyn, bu llawer o ddynion talentog yn y Corff yn bregethwyr dros eu bywyd, ac eto heb fod yn yr holl waith. Ond gan fod yr achos o hyny wedi ei symud bellach, onid yw yn gwestiwn a ddylai y peth barhâu? Mae yn wir y gall dynion o doniau ysbrydol eu harferyd yn gyhoeddus i adeiladaeth rhai eraill yn achlysurol, ac fel y byddo yr achos yn



gofyn, heb fod yn y weinidogaeth, na meddwl am hyny; ond y mae parhâu i dderbyn dynion yn ffurfiol i'r swydd o bregethu heb olwg ar eu neillduad i'r holl waith, yn beth sydd, fel yr ydym ni yn gostyngedig dybied, yn teilyngu adolygiad ac ystyriaeth ein Cymdeithasïoedd.

Pa fodd bynag, gan mai i waith y weinidogaeth yr ydym yn neillduo dynion, cofiwch y dylid edrych am bersonau cymhwys i'w gyflawni; dynion o ysbryd a phenderfyniad sefydlog i wneyd y gwaith hwnw, hyd y byddo yn bosibl, yn brif orchwyl eu bywyd. Dylid hefyd eu neillduo iddo yn lled gynnar ar eu heinioes, ac ymdrechu i'w cael i ryw amgylchiadau manteisiol i ymroddi iddo yn llwyrach yn ol llaw. Heb hyn, fe fydd ysgafnder yn ymddangos yn ein gweithredoedd, megys pe yr ordeiniem ddynion i'r byd, neu i'r bedd.

III. Y peth nesaf sydd genym i'w grybwyll fel un o ddyledswyddau yr eglwys tuag at ei gweinidogion ydyw, *gweddio drostynt*. "O frodyr, gweddïwch drosom."

Yr oedd gweddïau y distadlaf o'r saint yn wasanaethgar i'r penaf o'r apostolion. Buom ni yn ofni fod adfeiliad o'r ddau tu yn y mater hwn; yr eglwysi ar y naill law wedi anghofio gweddïo dros eu gweinidogion, a'r gweinidogion, hwythau, wedi myned yn fwy diofal am weddïau yr eglwysi. Arwydd drom, os ydyw yn wirionedd! Mae yn profi fod y ddwyblaid wedi colli yn ormodol o serchiadau eu gilydd, ac wedi cydgolli yr amgyffred teilwng am bwysfawredd y weinidogaeth, a bod prif foddion cymundeb eu hysbrydoedd, a gwasanaethgarwch y naill i'r llall, wedi adfeilio. Yr oedd Paul yn attolwg ar ei frodyr, "er mwyn ein Harglwydd Iesu Grist, ac er cariad yr Ysbryd, ar gydymdrech o honynt gydag ef mewn gweddïau drosto ef at Dduw." Yn ngweddïau ei frodyr yr ydoedd yn wynebu i'w deithiau peryglus, ac yn cyflawni pob gweinidogaeth anhawdd. Os byddai ef yn hiraethlawn am eu gweled hwy, mynai gael ei roddi iddynt mewn atebiad i'w gweddïau, gan wybod y deuai atynt felly mewn llawenydd, a chyda chyflawnder bendith efengyl y tangnefedd. Yr oedd yn rhoddi bri uchel ar weddïau y saint, ac yn dysgwyl y pethau mwyaf drwyddynt. Gwyddai y byddai i holl amcanion maleisddrwg ei elynion gael eu goruwchlywodraethu, ac y dygwyddent iddo ef "er iachawdwriaeth," hyny

yw, er cynnydd sancteiddrwydd a llawenydd ei ysbryd, trwy weddïau ei frodyr, a chynnorthwy Ysbryd Iesu Grist. Ac fel hyn yr oedd ei waredigaethau yn fwy melus a gwerthfawr yn ei olwg, am eu bod yn "rhoddiad a roddid iddo o herwydd llawer," sef, o herwydd gweddïau llawer, ac am hyn y rhoddid diolch gan lawer drosto, yn gymaint a bod yr hyn a geir drwy weddi yn bur sicr o gael ei ddefnyddio gyda diolchgarwch a mawl. Nid rhyfedd gan hyn y fod dyn ag oedd yn gosod cymaint o werth ar weddïau ei gyfeillion mor daer am danynt yn ei lythyrau. "Gweddïwch drosom ni." "O frodyr, gweddïwch drosom ni." A chan ofni rhag y byddai i enllibiau celwyddog ei elynion i'w erbyn effeithio ar eu meddyliau i'w gwanychu yn nghyflawniad y ddyledswydd hon, y mae'r apostol weithiau yn gwneyd ardystiad difrifol o'i gywirdeb yn sail i'w ddymuniad: "Gweddïwch drosom ni, canys yr ydym yn credu fod genym gydwytbod dda, gan ewyllysio byw yn onest ymhob peth." Gweddïwch am i ni gael help i bregethu; yr ydym yn hyf i ofyn, a gellwch chwithau fod yn hyf i wneyd; canys y mae ein cydwytbod yn dyweyd "nad ydym yn ein pregethu ein hunain, ond Crist Iesu yr Arglwydd." Gweddïwch am i ni gael ein cadw rhag pob gweithred ddrwg; mae ein cydwytbod yn tystio ein bod yn casâu pechod, ac yn penderfynu byw yn onest ymhob peth. Pa bryd bynag y delom ninnau i ymdeimlo yn fwy â phwys ein dyledswyddau, ac i adnabod a charu ein gilydd yn fwy perffaith fel dynion duwiol, nid oes dim ammheuaeth na byddwn yn gwneyd ychwaneg o gyfrif o weddïau y naill a'r llall, ac yn daerach am danynt. Y prawf tyneraf a ddichon fod o uchel barch ein meddwl i un arall ydyw, medru gweddïo gyda llawenydd drosto, a dymuno ei weddïau yntau drosom ein hunain. Ac fel y cynnydda hyn rhwng yr eglwysi a'u gweinidogion, mae eu cysur, eu cariad, a'u defnyddioldeb i'w gilydd, yn sicr o gynnyddu hefyd.

✓ Creadur gweddïau yr eglwys o'r dechre i'r diwedd ydyw gweinidog yr efengyl. Mewn atebiad i'w gweddïau hi yr anfonir ef allan i'r cynauaf. Mae gweddïau, ynghyd ag ymprydïau, i fod yn ei achos wrth ei neillduo i'w swydd; ei orchymyn i ras Duw tuag at y gorchwyl y mae i'w gyflawni, yn ol esiampl y Gwaredwr bendigedig, yr hwn a barhâodd ar hyd y nos yn

gweddio Duw cyn ordeinio ei apostolion. A pheidwch a meddwl fod eich gweddïau drosodd ar ddydd urddiad eich gweinidogion. I waith mawr yr ydych yn eu galw; ac os mynech iddynt fod yn llwyddiannus ynddo, mae yn rhaid nid yn unig iddynt hwy lafurio, ond i chwithau hefyd barhâu i gydymdrech gyda hwynt mewn gweddïau drostynt at Dduw. Gweddïwch am gael gweinidogion duwiol, ac nid duwiol yn unig, ond digon duwiol i fod yn ddefnyddiol; gwŷr "llawn o ffydd, ac o'r Ysbryd Glân." Ac am y rhai sydd yn y gwaith eisoes, yn enwedig y rhai a godwyd yn uchel ynddo, ac sydd yn rhagori mewn defnyddioldeb, mae yn dyledswydd neillduol ar yr eglwys i feddwl am danynt, a'u cofio yn serchog wrth orsedd gras yn eu gweddïau. Gweddïwch am amddiffyniad Dwyfol dros eu cymeriad, ac am eu cadw yn ddigwmp hyd y diwedd.

Heb sôn am y profedigaethau sydd yn gyffredin iddynt hwy megys i ddynion eraill, mae i bregethwyr eu temtasiynau neillduol eu hunain. Y mae magl iddynt yn eu swydd a'u talentau. Dengys y Bibl, chwi a wyddoch, fod purdeb calon ac ymddygiad yn anheggorol i bregethwr; a hyn, mewn undeb âg ysbryd y weinidogaeth, yw ei nerth a'i ogoniant. Ond O mor llwyddiannus a diwyd ydyw llygredigaeth, i'w anafu yn y pethau hyn! mae, weithiau, wedi hir gancro ei ysbryd drwy adfeiliad dirgel, yn llwyddo o'r diwedd i'w fradychu i ryw ynfyrwydd cyhoeddus; a dyna'r dyn a godwyd ger gŵydd Cymru fel gwas i Grist yn awr megys wedi ei godi i'w waradwyddo, a'i gwmp ar unwaith yn llawenydd, ac yn dristwch, ac yn dramgwydd i laweroedd! Nid oes un oedran nac amgylchiad yn codi pregethwr uwchlaw peryglon. Yn ei ieuenctyd mae yn agored i gael ei lithio i benboethni, ymchwydd, a gormod ysgafnder. Wrth amaethu'r deall, fe all y galon gael ei hesgeuluso, a'i archwaeth gael ei llygru oddiwrth wirioneddau yr efengyl. Ac fel yr ä rhagddo mewn dyddiau, ac i ofalon bywyd, hawdd ydyw ymollwng i ddaearoldeb, segurddod, a diffwrwythdra. Mewn henaint, dra-  
chefn, mae'r cnawd drwg yn barod i gymeryd mantais ar y cnawd gwan, i'w wneyd yn fyr ei amynedd ac yn ddrwg ei ddyoddef. Cythrudda yn ormodol wrth gael ei groesi, a gall gael ei fradychu ar amserau, o bosibl heb yn wybod iddo ei hun, i arfer gormod o dra-arglwyddiaeth. Nid oes neb yn ddiogel cyn

marw. "A'r gŵr Moses," medd y gair, "ydoedd larieiddiaf o'r holl ddynion oedd ar wyneb y ddaear;" ac eto yn y flwyddyn olaf o'i fywyd y syrthiodd efe i'r cythruddiad ysbryd anghrediniol â'i cauodd ef allan o Ganaan. Mae gan Satan, yntau, lid mawr at weinidogion yr efengyl. Fe dybygid, a barnu wrth y Bibl, nad oes un dosbarth o blant dynion ag y mae yn fwy gwaedlyd i'w herbyn. Nid breuddwyd ond ffaith ydoedd, fod y creadur maleisus hwnw yn gwyllo ei adeg yn erbyn y prophwyd Dafydd, a Josua yr archoffeiriad, yn dyrysu cynlluniau Paul, i.e., yn ymosod yn haerllug ar Grist ei hun, ac yn ceisio ei apostolion ef i'w chwythu i ddystryw trwy ei demtasiynau. O frodyr, pe byddech ond yn medru ysbio i'r byd anweledig, chwi a gaech weled fod y diafol, â malais a ffyrnigrwydd yn ei wêdd, yn dilyn gweinidog yr efengyl yn ei holl ysgogiadau! Mae efe yn gwyllo arno yn y pulpud, wrtho ei hun, ac ymysg ei gyfeillion, gyda phenderfyniad uffernol i roi diwedd ar ei ddefnyddioldeb, os yw bosibl yn rhyw fodd, trwy ewyllysiau'r cnawd neu'r meddyliau. O yr achos sydd genym i fod yn sobr a gwyllyadwrus! Yr oedd Crist yn canfod cynllwynion yr un drwg, ac wrth eu canfod yn tosturio wrth ei ddysgyblion, ac yn achub ei flaen ef at orsedd gras. "Mi a weddiais drosot na ddiffygiai dy ffydd di; tithau pan y'th dröer, cadarnhâ dy frodyr." Ond heblaw ein gwaredu rhag y drwg, mae arnom anghen am gael ein cadw yn llawn daioni dros ein holl ddyddiau; ein hysbryd yn ddigon nerthol drwy Dduw, nid yn unig i wrthsefyll y diafol ynom ein hunain, ond i ymdrechu i'w erbyn, a'i orchfygu yn meddyliau ein gwrandäwyr.

Gweddïwch na byddo i ni golli ysbryd y weinidogaeth. Peth mawr, yn ddiau, yw cadw dyn cyhoeddus i losgi a goleuo trwy ei oes. Gall ar un pryd fod wedi ei wisgo â nerth o'r uchelder, ac wedi hyny wanychu a dyfod fel gŵr arall. Mae yno eto, o bosibl, yr arch a'r drugareddfa; ffurf yr ymadroddion iachus yn ei feddwl; ond y mae'r gogoniant wedi ymadael—eglhurhâd yr Ysbryd wedi colli oddiar y cyfan. Mae gweinidogaeth hynod yn wastad yn ffrwyth llawer o weddïau. Yr ysbryd ffydd hwnw sydd yn amgyffred gogoniant gwirioneddau yr efengyl, a thrwy hyny yn helaethu'r serchiadau ac yn dyrchafu'r meddwl goruwch gogoniant ac ofn dyn, fel y mae'r pregethwr yn llefaru gyda'r

fath awdurdod a nerth, nes y mae'r gydwibod galetaf yn gorfod addef, "Mae Duw yn wir ynoch!"—gweddiâu sydd yn peri hyn. Ac felly y mae'r apostol, yr hwn oedd yn meddu llawer o'r doniau hyn, yn dymuno gweddiâu yr eglwysi drosto, ar iddynt barhâu a chynnyddu yn ei ysbryd ef. "Trwy eich gweddiâu chwi, a chynnorthwy Ysbryd Iesu Grist," gallem ninnau yn ol ein mesur gael ein gwneuthur yn gyffelyb iddo. Pa fodd y gallwn fyned i'r farn heb hyn? Gweddiwch am i ni gael profi yr un teimlad o'n cyfrifoldeb ag oedd arno ef pan ddywedai, "Anghenrhaid a osodwyd arnaf, a gwae fydd i mi oni phregethaf yr efengyl." Gweddiwch am i ni gael profi yr un ymroddiad i'r gwaith ag oedd yn ei ysbryd ef pan ddywedai, "Nid wyf yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw." Ac wedi bod yn eich mysg yn llafurio mewn gwendid ac ofn, gweddiwch am ein bod fel yr oedd yntau wrth nesâu at ddiwedd y daith,—ein pryder yn newid am orfoledd: "Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd."

Ond nid dyma'r cyfan sydd yn eisieu. Pa le y mae cadw trwy bregethu? Onid oes ar yr eglwysi eisieu eu hadnewyddu, a'r byd eisieu ei achub? Ac onid yw ein hagwedd bresennol yn gyfryw ag sydd yn gofyn nerth mawr yn y weinidogaeth i wneuthur hyny? Ofer, mae yn wir, yw achwyn llawer ar yr amseroedd yr ydym yn byw ynddynt; ar yr un pryd, y tebyg ydyw fod gwir dduwioldeb yn isel, ac annuwioldeb yn casglu nerth; ac oni ddaw adfywiad yn fuan ar grefydd yn ein gwlad, peidiwch a rhyfeddu os gwelwch chwi yr ysbryd mud a chaled sydd yn ffynu yn ein mysg yn awr, yn tori allan eto yn ysbryd gwrthnysigrwydd a chyfeiliorni; eglwysi yn cael eu rhwygo ganddo, a dynion yn cael eu taflu i'r tân ac i'r dwfr o dan ei effeithiau. Dymunol, pa fodd bynag, fyddai gweled yr eglwys a'i gwainidogion yn casglu eu nerth; canys chwi a ellwch benderffynu, yn rhyw ffurf neu gilydd, fod ein hymdrechfa â galluoedd y tywyllwch i fyned yn fwy difrifol, a bod rhywogaeth o anghrefydd a drwg yn ymsefydlu yn rhymer bresennol yr oes ag nas gall er dim ddyfod allan ond drwy weddi ac ympryd. Ystyriwch eilwaith y canlyniadau sydd



i bregethu'r efengyl: cadw neu golli i dragwyddoldeb! Mae meddwl am y farn yn ddigon i arswydo y gweinidog mwyaf ffyddlawn. Am bob un o'i wrandawyr a'r na fydd yn llawenydd iddo ef yn nydd Crist, bydd efe yn ddychryn iddynt hwy—yn codi i fyny i'w condemnio wrth fainc Duw, ac yn aros yn eu cydwybodau yn bryf na bydd marw byth. Trugarhewch wrthym, gyfeillion; trugarhewch wrthym! a chofiwch am danom yn eich gweddïau.

IV. Y bedwaredd ddyledswydd o eiddo yr eglwys tuag at ei gweinidogion y cynnygiwn sylwi arno yn bresennol ydyw, *ufuddod ac ymostyngiad iddynt yn eu cyflawniadau swyddol.*

Maent hwy yn cael eu dysgu i lywodraethu yn yr Arglwydd, heb ymyryd na cheisio un llywodraeth arnoch ond yn unig a berthyn i'w swydd; ac yn hono nid ydynt ond gweision Un arall. Maent i'w gweini mewn cariad a gostyngeddwydd, er adeiladaeth ac nid er dinystr yr eglwysi, gan ochelyd yr ysbryd balch a rhwysgfawr hwnw ymha un y mae penaethiaid y byd hwn yn aml yn arfer eu hawdurdod. Felly y mae Crist yn eu dysgu: "Chwi a wyddoch fod penaethiaid y Cenedloedd yn tra-arglwyddiaethu arnynt, a'u gwŷr mawr hwynt yn tra-awdurdodi arnynt. Eithr nid felly y bydd yn eich plith chwi; ond pwy bynag a ewyllysio fod yn fawr yn eich plith, bydded weinidog i chwi; a phwy bynag o honoch a fyno fod yn benaf, bydded was i bawb. Canys ni ddaeth Mab y dyn i'w wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer." Gwaherddir i swyddogion eglwysig nid yn unig hõni awdurdod anghyfreithlawn, a gwneyd deddfau wrth eu mympwy eu hunain i ddysgyblion Crist, ond hefyd ymarfer pob awdurdod, pa un bynag ai cyfreithlawn ai anghyfreithlawn, gyda llaw uchel ac ysbryd gorthrymus. "Mae yr holl enwau sydd arnynt," medd Dr. Owen, "yn cau allan bob drychfeddwl am awdurdod feistrolgar, ac uwchafiaeth ddynol, ond yn gyflawn o syniadau am dynerwch, gofal, a dyledswydd." Ac, yn wir, y mae gweinidog yr efengyl yn profi, pan y mae ei ysbryd yn dymherus ac yn ei le, nad yw llywodraethu iddo ef ddim amgen na dyledswydd,—ffurf arall o ufudd-dod. Mae efe yn was i bawb wrth ei gweinyddu, ei fywyd yn ystâd o ymddarostyngiad a gwasanaeth i'r rhai y mae yn llywodraethu arnynt. Ië, y rhan drymaf o'i holl ufudd dod ydyw; y mae weithiau yn ei brofi yn

faich, ac, fel Moses neu Jeremiah, yn dyheu am ollyngdod. “O na bae i mi adenydd fel colomen! yna yr ehedwn ymaith ac y gorphwyswn.” Ond wedi hyny y mae yn teimlo anghenrhaid wedi ei osod arno, ac nad yw ei ysbryd anniddig a thuchanllyd yn ei le ddim amgen na gwrthryfel yn erbyn Brenin yr eglwys.

Ond yr ydym yn dychwelyd i sylwi, er fod Mab Duw yn gwahardd tra-arglwyddiaeth yn ei dŷ, eto fod yn amlwg iddo ef sefydlu llywodraeth ynddo. Ei drefn ydyw llywodraethu ei bobl yn eu hystâd eglwysig yn gyffelyb ag y mae yn eu llywodraethu yn eu cyflwr teuluaidd a gwladol, hyny yw, trwy ddynion o'i appwyntiad ei hunan. Ac am nad yw y llywodraeth hon yn gwreiddio yn neddf natur, mae yn cael ei chyfleu i'w pherchenog trwy alwad Ddwyfol. Y man y mae gwir weinidogion y gair yn cael eu dewis a'u gosod yn rheolaidd yn eu swydd, maent wedi eu gwisgo â'r holl awdurdod hwnw ag a ddichon mewn unrhyw ffordd weinyddu i adeiladaeth a daioni ysbrydol yr eglwys. Perthyna iddynt bregethu'r gair, a gweinyddu ordinhadau yr efengyl i'r eglwysi; eu hargyhoeddi, eu ceryddu, a'u hannog yn ffyrdd gwirionedd a sancteiddrwydd. Maent i fod, mewn undeb â'u cydswyddogion, yn arweinwyr i'r eglwysi wrth dderbyn i mewn a bwrw allan o'u cymundeb; a thybygid mai hawl fel hyn i lywodraethu yn nhŷ Dduw ar air a gweithred, oedd yn cael ei olygu pan ddywedir fod Crist wedi rhoddi i'w apostolion agoriadau teyrnas nefoedd. Os yw yr enwau sydd ar weinidog yr efengyl yn gwrthod rhoddi un achles i dra-arglwyddiaeth, fel y sylwyd uchod, maent o'r ochr arall, bob un o honynt, yn golygu llywodraeth o ryw fath. Mae'r esgob wrth ei swydd i arolygu, a'r bugail i arwain y praidd. Ac felly y maent yn cael eu gorchymyn yn y gwirionedd: “Porthwch braidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith, gan fwrw golwg arnynt, nid trwy gymhell, eithr yn ewyllysgar; nid er mwyn budr elw, eithr o barodrwydd meddwl; nid fel rhai yn tra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Duw, ond gan fod yn esiamplau i'r praidd.”

Yn awr gan hyny, od oes lywodraeth fel hyn wedi ei sefydlu yn eglwys Dduw, mae yn rhaid fod ymddarostyngiad iddi ac i'r rhai sydd yn ei gweinyddu yn yr Arglwydd yn un o ddyledswyddau deiliaid teyrnas Crist. Ac, yn wir, yn hyn, mewn

undeb â dyledswyddau ysbrydol a moesol yr efengyl, fel y sylwa Dr. Owen, y mae eu holl ufudd-dod yn gynnwysedig. “Ac yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr,” medd yr apostol, “adnabod y rhai sydd yn llafurio yn eich mysg, ac yn eich llywodraethu yn yr Arglwydd, ac yn eich rhybuddio, a gwneuthur cyfrif mawr o honynt mewn cariad er mwyn eu gwaith. Ufuddhewch i'ch blaenoriaid, ac ymddarostyngwch; oblegid y maent hwy yn gwylio dros eich eneidiau chwi, megys rhai a fydd raid iddynt roddi cyfrif;” ufuddhewch iddynt, “fel y gallont wneuthur hyny yn llawen, ac nid yn drist, canys difûdd i chwi yw hyny.” Ufuddhewch iddynt yn eu hathrawiaeth, ac ymddarostyngwch iddynt yn eu llywodraeth. Maent hwy o dan rwymau dros Dduw i'ch addysgu a'ch rhybuddio, ac yr ydych chwithau o dan yr un rhwymau i ufuddhâu. Mae tybiaeth yn yr annogaeth yma fod eich adeiladaeth ysbrydol yn eich gofal chwi eich hunain i fesur mawr, a'ch bod i arfer barn er mwyn gwybod pa un a ydyw eich athrawon yn eich dysgu ac yn eich llywodraethu yn ol gair yr Arglwydd ai peidio. Ond, a bwrw eu bod yn gwneuthur felly, yr ydych yn rhwym o ufuddhâu i'w haddysgiadau; nid yn unig am eu bod yn gywir a chyson â'r gwirionedd, ond am mai eu haddysgiadau hwy ydynt, a'u bod yn cael eu trosglwyddo oddiwrthynt i chwi trwy sefydliad Dwyfol. Mae cyngorion ac addysgiadau gweinidog yr efengyl i'w hystyried, nid fel yr eiddo brawd yn y ffydd yn unig, fel y sylwa Dr. Mc All, ond fel yr eiddo “*office-bearer in the church.*” Dylid cadw mewn golwg ei alwad gan Dduw i'r gwaith y mae yn ei gyflawni. Pe byddai cyfaill i chwi yn eich ceryddu yn garedig am eich canymddygiad tuag at dywysog neu benadur, ac yn eich dysgu pa beth i wneyd tuag at ennill ei ffafr a'i ewyllys da, byddai mewn amgylchiad felly yn ddyledswydd arnoch ystyried cyngorion eich cymydog. Ond pe byddai cenadwr o anfoniad y tywysog ei hunan yn dyfod atoch ar yr un neges, a chyda yr un cyfarwyddiadau, byddai eich rhwymedigaethau yn fwy. Dylech erbyn hyny ystyried, nid yn unig ystyr a theilyngdod y genadwri, ond y dull y bydd yn cael ei throsglwyddo i chwi. Felly yn y mater hwn: nid yn unig y mae'r Gair Dwyfol i'w barchu, ond y mae'r ordinhâd Ddwyfol o'i addysgu i'w pharchu hefyd. Gall y cristen ddywedyd, pan o dan addysgiadau cyhoeddus neu

gyfeillgar gwir was i Grist, pa un bynag ai er cerydd, cynghor, neu gysur, 'Dyma air Duw yn cael ei ddwyn at fy nghydwylbod; ac nid yn unig hyny, ond y mae'n dyfod drwy y sianel a sefydlodd efe, a chyda yr holl awdurdod sydd yn perthyn i ddyn ag sydd wedi ei anfon yn bwrpasol i hynyma ganddo ef ei hun. Yr ydwyf yn rhwym o wrando rhag fy nghael yn ymladd yn erbyn Duw.'

Dengys yr ystyriaethau hyn y mawr bwys o fod gweinidog yr efengyl yn ŵr cymeradwy o ran ei ysbryd a'i gymeriad; ac, yn wir, y pethau a'i gwna ef felly ydyw y profion mwyaf sicr a diymwad o'i alwad i'r weinidogaeth; ac y mae yn anmhosibl iddo ei chyflawni yn llwyddiannus heb fod ei sancteiddrwydd a'i dalentau yn gyfryw ag a fyddant yn ennill iddo barch a dylanwad ymysg lliaws ei frodyr. Ar yr un pryd, dylid cofio mai nid ei ddylanwad yn unig yw ei rym. Mae gan ddynion mewn lliaws o amgylchiadau ddylanwad ar eu gilydd, lle nad oes dim ymddarostyngiad ac ufudd-dod yn ddyledus oddiwrth y naill i'r llall. Ond am yr eglwys a'i swyddogion, y mae, megys am wŷr a gwragedd, nid yn unig gariad i fod rhyngddynt a'u gilydd, ond y naill wedi eu gosod i lywodraethu mewn cariad, a'r llall o dan rywmau i ufuddhâu mewn cariad, a'r cyfan "yn yr Arglwydd."

Mae pob aelod ffyddlawn yn rhwym o gynnorthwyo y swyddogion i gadw trefn a llywodraeth yn eglwys Dduw. Bydd rhywrai cyndyn ac afreolus ynddi o bryd i bryd; ac y mae'r swyddogion yn rhwym o ymaflyd yn y cyfryw, a'u dwyn dan geryddon a diarddeliad eglwysig. Ac am fod hyny yn aml yn orchwyl anhawdd ei gyflawni, mae yn ddyledswydd neillduol ar yr aelodau eu cefnogi a'u cynnorthwyo. Yn lle amddiffyn y beius am ei fod yn gyfaill neu berthynas, na'u taro hwythau pan fyddont ar yr iawn, dylent, i'r gwrthwyneb, ar bob achos dysgyblaethol fod yn barod i gynnal breichiau eu swyddogion, a'u galw, fel y galwai plant Israel gynt ar Ezra pan mewn amgylchiad cyffelyb, "Cyfod, canys arnat ti y mae'r peth, a ni a fyddwn gyda thi; ynwrola a gwna." 'Moes gyfarwyddyd, canys yr yd, yn yn barod i wrando arnat ac ystyried; cyhoedda y ddedfryd, a ni a'i cadarnhâwn.' Mae rhyw bethau o ran trefn allanol y gwaith, chwi a wyddoch, wedi eu gadael i ddoethineb yr eglwys a'i swyddogion, heb un

reol bendant arnynt yn y Bibl. Mewn materion felly, megys y mae rhwymau ar y swyddogion i fod yn gynnwl a doeth wrth drefnu, a gochelyd myned dros y terfynau i wneuthur rheolau caethion ac afreidiol wrth eu mympwy eu hunain i'r eglwys, felly o'r tu arall y mae yn gyfleusdra teg i'r aelodau ddangos eu parch i'r llywodraeth eglwysig, a'u tynerwch tuag at eu swyddogion, trwy ymddarostwng yn siriol i'w trefniadau, yn enwedig pan y byddont yn cael eu cynnyg mewn cariad, ac yn tueddu at wedd-eidd-dra ac adeiladaeth yr eglwysi.

Mae eu peryglon gan bob cymundeb eglwysig; ac y mae llawer o honynt yn cyfodi o herwydd fod rhyw ochr neu gilydd yn cario syniad am eu hiawnderau eu hunain yn rhy bell. Yn yr Eglwys Wladol, nid yw y bobl, dybygid, yn ymyryd bron ddim âg achosion eglwysig; mae'r cyfan yn llaw y gweinidog. Ond y mae yr achos yn wahanol ymysg Ymneillduwyr; yno yn gyffredin mae hawl yr aelodau yn cael ei gydnabod a'i ymarfer. Ond os yw y ddefod yn yr Eglwys Wladol yn codi y swyddogaeth yn rhy uchel, ac yn tueddu i feithrin y drwg hwnw ag y mae Mr. Bickersteth yn dywedyd fod un o'i gyfeillion yn sylwi arno, sef bod yr offeiriaid yn babau bychain ymysg eu cyfeillion, pa rai sydd bron yn ymddiried eu cydwybodau i'w cadwraeth,—y mae perygl drachefn rhag i'r arferiad ymysg yr Ymneillduwyr arwain i ddiystyru pob awdurdod, a pheri i'r aelodau, yn eu heiddgedd dros eu hiawnderau eu hunain, anghofio fod ufuddod i lywodraeth eglwysig yn un o ddyledswyddau neillduol yr efengyl.

Caniatâer i ni annog ieuencyd yr eglwysi i feithrin ysbryd gostyngedig. Cyfrifwch y swyddogion sydd yn gwir ofalu am eich eneidiau, a pha rai nad ydynt yn dymuno un dylanwad na llywodraeth arnoch ond yn unig er eich lleshâd, yn deilwng o barch dauddyblyg. A chofied pawb fod iawn deimlad rhwng aelodau eglwysig a'u swyddogion o fendith fawr. Ar hyn y mae harddwch a defnyddioldeb y saint yn eu cyflwr eglwysig yn ymddibynu; ac yn y canlyniad o'i golli, y maent mewn perygl o gael eu dyfetha gan eu gilydd. "Trefn yw ammod llwyddiant," medd un gŵr, "ac y mae yn anheborol i effeithiolrwydd." Nid yw crug o ddynion, blith draphlith, yn abl i gyrhaeddyd un amcan; y maent ar ffordd eu gilydd, ac yn hawdd eu gwasgaru.



Y llu hyfforddus a dysgyblaethol, ufudd i awdurdod, sydd yn tori trwy anhawsderau, ac yn ennill y fuddugoliaeth. Yr ydym yn darllen ddarfod i'r Arglwydd, wedi iddo ddwyn Israel allan o'r Aipht, ddysgu Moses yn fuan i'w rhestru a'u byddino hwynt yn drefnus. Yr oedd pob un o'r dryblith afluniaidd yn cael ei osod wrtho ei hunan, a than ofal ei gadben priodol ei hunan, i deithio trwy yr anialwch. Felly eto; nid awdwr anghydfod yw yr Arglwydd, ond tangnefedd, hyny yw, trefn a gweddeidd-dra yn holl eglwysi y saint.

V. Dyledswydd arall o eiddo yr eglwys tuag at ei gweinidogion, trwy gyflawniad pa un y maent yn gydgygnorthwywyr i'r gwirionedd, ydyw, *eu cynnal hwynt yn eu gwaith, fel y gallont ei wneuthur, hyd y byddo bosibl, yn brif orchwyl eu bywyd.*

Yr ydym yn cael fod y Bibl yn dysgu dau beth ar y mater hwn: yn gyntaf, fod yn ddyledswydd ar yr eglwysi gynnorthwyo eu gweinidogion; ac yn ail, fod yn rhydd i'r gweinidogion, pan fyddo yr amgylchiad yn gofyn hyny, ymwrthod â chynnaluaeth, a phregethu gair Duw yn rhad. Mae'r naill genym yn addysgiadau yr apostol Paul ar y mater, a'r llall yn ei esiampl ef. Ac y mae lle i ofni fod yr eglwysi a'u gweinidogion ar lawer pryd wedi bod yn rhy ddisylw o'r cyfarwyddiadau hyn, ac felly yn dra esgeulus o'u dyledswyddau tuag at eu gilydd.

Mae rhai gweinidogion, fe wyddys, na wnânt ddim ond am arian. Pe gosodid arnynt y cyflawniad lleiaf, hwnt i'w dyledswyddau gosodedig, byddai raid codi y cyflog yn gyfatebol, neu fe rwgnechid yn erbyn y gwaith, i.e, serch fod eu cynnaluaeth yn ddigonol eisoes! Nis gwyr dyn felly, druan, ddim am gariad at ei waith; gwas cyflog ydyw, ac nid bugail y defaid. Yr oedd yr apostol Paul, o leiaf ar brydiau, yn pregethu yr efengyl yn rhad; yn gweithio mewn llafur a lludded nos a dydd, er mwyn bod yn esiampl o ddiwydrwydd i'r dychweledigion ieuainc, ac er mwyn gochelyd pwyso arnynt mewn tlodi ac anghen, neu unrhyw amgylchiad ag y buasai hyny yn rhwystr i efengyl Crist. Yn hyn, medd efe, yr ydoedd yn gorfoleddu. Am bregethu ynddo ei hun, nid oedd iddo ddim gorfoledd, canys yr oedd anghenrhaid wedi ei osod arno; a gwae a fuasai iddo oni phregethai yr efengyl. Ar yr un pryd, os oedd anghenrhaid wedi ei osod arno

i bregethu yr efengyl, eto nid oedd dim anghenrhaid arno i'w phregethu yn rhad; ond i'r gwrthwyneb, yr oedd gorchymyn Crist yn ei awdurdodi ef i dderbyn cynnalïaeth. Ond y fath ydoedd zel a hunanymwadiad Paul, fel pan mewn amgylchiadau ag y buasai arfer yr awdurdod yma yn peryglu llywyddiant ei waith, efe a gyflawnai yn ewyllysgar a ffyddlawn ei ddyledswydd i Grist, ac a adawai ei hawl ei hun o'r naill du. Yn hyn yr oedd yn profi gorfoledd a boddlonrwydd i'w feddwl, a sicrwydd gwobr ychwanegol yn y byd a ddaw. Ac, yn wir, dyma yr ysbryd a wobrwyr. Po mwyaf a fyddo yr ymaberthiad i Grist, os gwneir ef yn ewyllysgar, mwyaf oll a fydd tangnefedd y meddwl. Mae profi hyn wedi bod yn fynych yn foddion i gadw ysbryd llawer gwas i Grist yn dymherus pan o dan demtasiynau i dristâu, neu hwyrach i chwerwi, yn wyneb galwad yr eglwysi am ei amser a'i lafur, pan ar yr un pryd yr ymddangosent iddo ef ymron yn gwbl ddifeddwl am ei helyntion tymmorol. Yr oedd y diweddar John Rees o Lundain yn dywedyd wrth farw yr edrychai efe ar y tymmor hwnw o'i einioes, pan yr oedd yn gweithio am ei damaid, ac yn pregethu am ddim bron, "*as the most disinterested part of his life.*" Rhaid i'r ochr yma i'r cwestiwn gael ei le. Beth yw amcan cynnalïaeth y weinidogaeth? Nid cysur dosbarth o ddynion yn unig, ond lleshâd y gwaith. Ac yn awr os bydd hyny yn troi yn rhwystr i'r gwaith, dyna yr amcan yn colli: ac y mae yn iawn i weision Crist, dybygid, mewn amgylchiadau felly, ymgadw rhag pwyso yn gwbl ar yr eglwysi; nid am nad oes ganddynt awdurdod i bwysu os bydd yr eglwysi yn galw am eu llafur, ond er hyny camarfer eu hawdurdod a fyddai ei harferyd pan y byddai yn fwy o rwystr i'r efengyl nag o les.

Peth tyner iawn i bregethwyr, ac yn enwedig i bregethwyr ieuainc, ydyw dadleu llawer am gynnalïaeth iddynt eu hunain. Os yr eglwysi sydd i gynnal, yr eglwysi hefyd, o dan ryw arweiniad doeth a difrifol, sydd i ddewis pwy a gynnaliant. Ac os lleshâd y gwaith a ddylai fod yr amcan, yna talentau, llafur, a defnyddioldeb, a ddylai fod eu rheol wrth wneyd eu dewisiad. Nid ydym yn cofio yn bresennol i'r apostol Paul erioed geisio cynnalïaeth iddo ei hun gan yr un o'r eglwysi. Yn ei ddadl fwyaf grymus dros y pwnc, yn ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid,

mæ yn gofalu dywedyd, "Eithr myfi nid arferais yr un o'r pethau hyn, ac nid ysgrifennaiis y pethau hyn fel y gwnelid felly i mi." Pan y cyffröwyd ef i ddadleu ei hawl i gyflog, yr oedd rhywbeth mwy na chyflog yn myned i golli. Yr oedd athrawiaeth bywyd tragywyddol yn y perygl. Yr oedd efe wedi pregethu hono iddynt hwy yn Corinth, a'i phregethu yn rhad hefyd; ond erbyn hyn yr oedd y gau-athrawon wedi dyfod i blith y Corinthiaid, ac yn ceisio dadymchwelyd eu heneidiau oddiwrthi hi; ac i'r dyben o lwyddo yn well yn eu hamcan, haerent nad oedd Paul ddim yn apostol, i.e., a'i fod ef ei hunan cystal a chydnabod hyny trwy ei fod yn gwrthod cynnaliaeth am ei lafur. Yr oedd yr holl apostolion yn byw wrth yr efengyl; a phaham yr oedd efe yn peidio ond am y gwyddai nad oedd yn apostol? Pan ddeallodd Paul y gwneid y camddefnydd hwn o'i ymddygiad, dyna efe yn y man yn codi i ddadleu ei hawl i'w gyflog. "Onid wyf fi yn apostol? onid wyf fi yn rhydd? onid oes awdurdod i ni fwyta ac yfed?" hyny yw, ar draul yr eglwysi. "Onid oes i ni awdurdod i arwain o amgylch wraig a fyddai chwaer?" fel pe dywedasai, Y mae genym hawl, nid yn unig i geisio cynnaliaeth i ni ein hunain, ond i'n teuluoedd hefyd, gan yr eglwysi yr ydym yn llafurio yn eu mysg. Mae yr apostolion eraill, a brodyr yr Arglwydd, a Cephas, yn cael hyny; ac nid oes ond myfi a Barnabas yn eithriadau i'r rheol. Felly nid er ei fwyn ei hun, chwi a welwch, ond er mwyn yr efengyl, a chadarnhâd eneidiau dynion yn yr efengyl, yr oedd yr apostol yn dadleu fel hyn. Ar yr un pryd mae yn rhaid cydnabod ei fod ef wedi gosod dyledswydd yr eglwys allan yn y mater hwn tu hwnt i bob ammheuaeth. Ac nid annhebyg ydyw iddo gael ei ddwyn yn bwrpasol, yn nhrefn rhagluniaeth fawr y nef, i amgylchiadau ymha rai yr oedd gorfod arno hõni ei hawl i gynnaliaeth eglwysig, yr hyn o'i ran ei hun a fuasai yn anhawdd ganddo ei wneyd, fel trwy hyny y byddai yn enau dros genadon Crist hyd ddiwedd amser, ac y gwneid ewyllys Duw yn yr amgylchiad hwn yn hysbys i'w meddyliau. Ac felly yr ydym yn cael mai efe, yr hwn oedd amlaf heb gynnaliaeth ei hun, bron yn unig o'r apostolion sydd yn dysgu y dyledswydd yn ei epistolau. Yr oedd hyfdra ei ymadrodd yn fawr wrth yr eglwysi

yn yr achos. "Ac yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, adnabod y rhai sydd yn llafurio yn eich mysg, ac yn eich llywodraethu chwi yn yr Arglwydd, ac yn eich rhybuddio, a gwneuthur cyfrif mawr o honynt mewn cariad er mwyn eu gwaith. A chyfraned yr hwn a ddysgwyd yn y gair, â'r hwn sydd yn ei ddysgu, ymhob peth da. Cyfrifer yr henuriaid sydd yn llywodraethu yn dda yn deilwng o barch dauddyblyg, yn enwedig y rhai sydd yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth. Canys y mae yr Ysgrythyr yn dywedyd, Na chau safn yr ŷch sydd yn dyrnu yr ŷd, ac, Y mae y mae y gweithiwr yn haeddu ei gyflog." Ac am yr eglwysi hyny nad oedd efe ei hun wedi cymeryd dim cynnaliaeth ganddynt, ni a'i cawn nid yn unig yn codi hyny i'w sylw drachefn a thrachefn fel ymddygiad nodedig, ond hefyd yn gofalu am ddangos iddynt mai oddiar achosion neillduol yr oedd efe yn ymddwyn felly, ac mai nid dyna oedd rheol yr efengyl.

Nid ydym yn credu fod un ddyledswydd eglwysig o fewn y Testament Newydd yn cael ei dysgu yn fwy pendant ac eglur na'r ddyledswydd hon. Nid oes yr un arall, ond odid, ag y mae cynifer o ystyriaethau, dynol ac ysgrythyrol, yn cael eu dwyn i brofi ei huniondeb a'i Dwyfol awdurdod. Mae Mab Duw ei hunan yn hōni cynnaliaeth i'w weision oddiar yr egwyddor o gyfiawnder: "Ewch, canys yr ydwyf fi yn eich anfon fel wŷn ymysg bleiddiaid. Ac i ba dŷ bynag yr eloch i mewn, yn gyntaf dywedwch, Tangnefedd i'r tŷ hwn; ac yn y tŷ hwnw aros wch, gan fwyta ac yfed y cyfryw bethau ag a gaffoch ganddynt; canys teilwng i'r gweithiwr ei gyflog." Mae Paul, yntau, yn dadleu'r pwnc oddiar yr un egwyddor: "Os nyni a hauasom i chwi bethau ysbrydol, ai mawr yw os nyni a fedwn eich pethau cnawdol?" Ac felly y mae yn myned rhagddo yn ei ymresymiadau, gan seilio ei ddadl dros y ddyledswydd ar uniondeb pethau, ac arferion cyffredin dynolryw mewn amgylchiadau cyffelyb: "Pwy sydd un amser yn rhyfela ar ei draul ei hun? pwy sydd yn planu gwinllan, ac nid yw yn bwyta o'i ffrwyth hi? neu, pwy sydd yn porthi praidd, ac nid yw yn bwyta o laeth y praidd? Ai yn ol dyn yr wyf yn dywedyd y pethau hyn?" hyny yw, Ai yn ol dyn yn unig? A oes genyf ddim i gadarnhâu y ddyledswydd hon ond tystiol-aeth rheswm ac arferion cyffredin y byd i'w huniondeb?

Hawdd y gallaswn adael yr achos i orphwys yno; ond y mae genyf ychwaneg i'w ddwyn o'i blaidd: "Onid yw y ddeddf hefyd yn dywedyd hyn? Canys ysgrifenedig yw yn neddf Moses, Na chau safn yr ŷch sydd yn dyrnu. Ai dros ychain y mae Duw yn gofalu? ynte er ein mwyn ni yn hollol y mae yn dywedyd? Canys er ein mwyn ni yr ysgrifenwyd mai mewn gobaith y dylai yr arddwr aredig, a'r dyrnwr mewn gobaith, i fod yn gyfranog o'i obaith." Ond yn lle sefyll yn hwy ar ystyr gyfriniol un rhan o'r ddeddf, fel pe dywedasai, ystyriwch reol eglur yr Arglwydd ar yr achos hwn dan yr Hen Destament: "Oni wyddoch chwi fod y rhai sydd yn gwneuthur pethau cysegredig yn bwyta o'r cysegr, a'r rhai sydd yn gwasanaethu yr allor yn gydgyfranogion o'r allor? Felly hefyd yr ordeiniodd yr Arglwydd i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl." Pa beth bynag, frodyr, a fyddo yn ein lluddias i actio yn ol y rheolau hyn, na fydded diffyg argyhoeddiad o'n rhwymedigaeth yn achos o hyny.

Onid yw yn gwestiwn a ddylid ordeinio dyn i'r weinidogaeth pan y mae ganddo lonaid ei freichiau o orchwylion eraill, neu a ddylai dyn gymeryd ei ordeinio mewn amgylchiadau felly? Nis gwyddom pa faint a ddylid roddi i fyny i amgylchiadau; ond sicr ydym mai o'r dechreuad nid felly yr oedd. Yr oedd ordeinio nid yn unig yn neillduad *i* waith y weinidogaeth, ond yn neillduad *oddiwrth* bob gorchwyl arall. Milwriaeth ydyw gweinidogaeth yr eglwys. Pan y byddai y Lefiaid gynt yn cael eu gosod yn eu swydd, dywedir eu bod yn "myned i'r llu," neu, "i filwrio milwriaeth yn ngwasanaeth pabell y cyfarfod" (*Num.* iv. 3, a viii. 24, 25). Ac yr oedd holl Israel yn rhoi i fyny eu hawl hwy o honynt, ac o bob gwasanaeth cyffredin oddiar eu dwylaw, ac yn eu hoffrymu i'r Arglwydd. Yr oeddynt i fyw ar yr eglwys, i'r dyben o fyw i'w gwasanaeth hi. Erbyn bod yr offeiriaid yn eu swydd, yr oedd eu gwobr, yn gystal a'u gwaith, wedi ei drefnu iddynt, ac felly yr ydym yn darllen am "ran eneniad Aaron a'i feibion, yr hwn a orchymynodd yr Arglwydd ei roddi iddynt y dydd yr eneniodd efe hwynt allan o feibion Israel, trwy ddeddf dragywyddol trwy eu cenedlaethau" (*Levit.* vii. 35, 36). Felly yr ordeiniodd yr Arglwydd i'r rhai sydd yn pregethu



yr efengyl fyw wrth yr efengyl. Milwriaeth ydyw'r weinidogaeth eto; ac y mae y rhai sydd wedi eu galw iddi dan waharddiad i ymrwystro â negeseuau'r bywyd hwn. Nid eu braint yn unig, ond eu dyledswydd, yw byw wrth yr efengyl. Os gallant ond byw yn gyffelyb i'r canolradd neu y cyffredin o'r rhai y maent yn llafurio yn eu mysg, dylent roi pob gorchwylion eraill heibio, serch eu bod yn fwy ennillgar, a threulio ac ymdreulio dros eneidiau yr eglwysi. Ac y mae yn ddiammheu, o'r ochr arall, nad oes dim ond anallu a esgusoda yr eglwysi ger bron Duw rhag estyn cymaint a hyny o gymhorth iddynt. Mae pregethwr i "lynu wrth ddarllen, myfyrio yn y pethau hyn, ac yn y pethau hyn aros, fel y byddo ei gynnydd yn eglur i bawb." Dyma yr unig ffordd y gall ei gynnydd fod felly. Pa fath bynag fyddo ei dalentau, ni phery efe ddim yn hir i ragori heb barnau i lafurio. Ië, y mae yn rhwymedig i lafurio: "yn y pethau hyn aros," neu, dyro dy hyn yn gwbl iddynt;—dyna yw y gorchymyn. Mae yn rhydd iddo, bid sicr, wneyd hyn ar ei draul ei hun os ydyw yn gallu; ond am gysegru ei amser a'i alluoedd i'r llafur gweinidogaethol, mae yn rhwym i wneyd hyny; ac y mae yr un rhwymedigaethau ar yr eglwys i'w gynnorthwyo. Mae gwylder, o bosibl, yn dysgu pregethwr i fod yn ddystaw am ei hawl ei hun; ond fe ddylai hyny ddysgu yr eglwysi a'u diaconiaid i fod yn fwy gofalus am dano, a gwneyd cyfrif mawr o hono mewn cariad er mwyn ei waith.

Wrth ddyweyd hyn, nid ydym yn anghofio tynerwch lliaws yn Nghymru at weinidogaeth y gair; ac os oes rhywbeth mwy i'w wneuthur, mae yr ewyllysio yn barod gan laweroedd. Meddylwch am eu caredigrwydd trwy Dde a Gogledd. Mae'r gynnalìaeth yn y ffordd y mae yn cael ei gweinyddu yn helaeth eisoes, yn enwedig ar ran y teuluoedd hyny sydd â'u tai yn agored i weinidogion y gair o ben bwygilydd i'r flwyddyn, pa rai, megys Israel gynt, nad ydynt ymron fyth yn llawenychu yn eu daioni teuluaidd heb fod y Lefiaid yn cyfranogi o hono gyda hwynt. Ac, yn wir, y mae yn felus cyfranogi o hono; mae yn dyfod o'r galon megys bendith, ac nid o gybydd-dra; ac y mae yn rhaid i'r dyn hwnw fod yn ddideimlad yn wir a fedro adael y cyfryw deuluoedd, a chanu yn iach iddynt, heb fod

ei lwynau yn eu bendithio, a'i galon yn dywedyd yn ewyllysgar, "Tangnefedd i'r tŷ hwn!"

Pa bryd bynag y daw yr eglwysi yn addfed i ddarpar cynaliaeth helaethach i'w gweinidogion, dylid, wrth drefnu hyny, gofio mai lleshâd y gwaith yw yr amcan i gyrchu ato. Rhaid cael gweithwyr difefl i'w cynnal, a mwy o'u hamser yn cael ei dreulio yn y llyfrgell, ac i fugeilio yr eglwysi, yn gystal ag i ddysgu ar gyhoedd, ac o dŷ i dŷ.

Wele ni yn terfynu ein cyfarchiad. Ond goddefer i ni ofyn cyn diweddu, A ydyw yn anmhosibl i ni gael mwy o weddeiddra allanol yn ein haddoliadau cyhoeddus? Os na chawn ni yr awelon a fwynheid gynt, onid ydyw astudrwydd a llonyddwch a dystawrwydd yn bethau a allem gael eto gydag ychydig o ymdrech i ddysgu ein cynulleidfaoedd? Rhwng sŵn y plant, y peswch diachos, a'r camrau trymion, mae tŷ Dduw mewn llawer ardal yn rhy debyg i dŷ marchnad. Ychydig o ystyriaeth a argyhoeddaï bob dyn rhesymol, dybygem, na ddylai y pethau hyn fod felly. Maent yn drosedd ar foesau da, yn aflonyddu'r meddwl, ac yn tarfu ysbryd defosiynol mewn pregethwr a gwrandawyr. Rhoddwch eich hunain mewn amgylchiad cyffelyb. Bwriech pe byddech yn adrodd rhyw newyddion dyddorol yn nhŷ un o'ch cymydogion, ac yn gweled yr ieuainc ar y pryd yn gwannalu, a'r fam yn chwarae â'i rhai bach, ac am y gweddill o'r teulu, cwsg a difaterwch wedi ymsefydlu ar bob wyneb: oni theimlech chwi eich meddwl yn trishâu ac yn ymollwng mewn amgylchiadau felly? Wel, yn gymhwys yr un modd y mae pregethwr yn teimlo. Cofiwch fod i'r llefarwr a'r gwrandawyr effaith fawr ar eu gilydd er da neu er drwg. Mae gweled ffydd, cariad, a thynnerwch, yn llewyrchu yn wyneb y gynulleidfa yn cynhyrfu y pregethwr i lefaru; cynnyrcha ynddo feddyliau a theimladau mwy grymus nag o'r blaen; ac y mae arllwys y rhai hyny drachefn yn bywhâu y gwrandawyr yn fwy, a hyny yn effeithio eilwaith arno yntau. Ac fel hyn gynt y byddai hen bregethwyr Cymru a'u cynulleidfaoedd yn llawenychu yn ffydd eu gilydd, ac yn myned rhagddynt yn eu defosiwn o nerth i nerth, nes yn aml y byddai yr effaith cyn diwedd y gwasanaeth yn angerddol, fel ymdoriad ffwrnes fawr. Pwy a wŷr na thywelltir yr Ysbryd arnom eto? Ond yn y cyfaniser carthwn o'n mysg bob

ymddygiad anwaraidd ; a dysgwn y genedl sydd yn codi i arfer gwylder a gweddeidd-dra yn nhŷ Dduw. Deuwch yn gyson a phrydlawn i'r addoliad, byddwch esgud i wrando ar ol dyfod yno, a gwnewch yn rhan o'ch crefydd beidio dyrysu defosiynau rhai eraill trwy unrhyw sŵn nac aflonyddwch. Ymdrechwch i harddu ymhob ymddygiad yr athrawiaeth y mae eich gweinidogion yn ei phregethu i chwi, ac felly i fod yn gydgynnorthwyr i'r gwirionedd.

Gwyddoch y gwedir yn uchel ein hawdurdod weinidogaethol yn y dyddiau hyn ; ond bydd yn hawdd i ni wenu ar hyny os gallwn droi at ein heglwysi, a dywedyd, "Ein llythyr ni ydych chi, yn ysgrifenedig yn ein calonau, yr hwn a ddeallir ac a ddarllenir gan bob dyn ; gan fod yn eglur mai llythyr Crist ydych chi, wedi ei weini genym ni, wedi ei ysgrifenu nid âg inc, ond âg Ysbryd y Duw byw ; nid mewn llechau cèryg, eithr mewn llechau cnawdol y galon."

## PWYSIGRWYDD YMARFERIADAU DA.

DARLITH.\*

**M**AE addysgiadau moesol, wedi eu seilio ar eu hiawn egwyddorion, yn rhan arbenig o weinidogaeth yr efengyl. Ac nid o herwydd eu bod yn anmhriodol i'r Sabbath, ac i'r pulpud, yr ydym ni yn sefyll i fyny i'w cymhell arnoch yn y wedd bresennol. Ar yr un pryd, hwyrach, wedi i ni ymgynnull ynghyd ar noswaith o'r wythnos, a chymeryd ein safle fel hyn o dan y pulpud, y caniateir i ni arwain meddyliau ein gilydd at ryw bethau mwy cyffredin, ac ymdrin â'r pethau hyny mewn dull ychydig mwy cyfeillgar a rhydd, nag a fuasai yn gweddu cystal, ysgatfydd, i amser a gwasanaeth mwy cysegredig. Un o'r deddfau cryfaf a sefydlodd y Creawdwr i blant dynion ydyw yr hon a elwir deddf ymarferiad, sef y gallu hwnw ag sydd yn perthyn i ddyn trwy ba un y mae pob egni o'r eiddo, corff neu feddwl, yn dyfod yn fwy cynefin a hawdd iddo wrth eu mynychu. Yr ydym oll wedi profi bod hyn yn wir. Mae y duedd at unrhyw weithred, a'r medrusrwydd i'w chyflawni, yn ymfurfio ac yn ymgryfhâu ynom trwy fynych gyflawniad y weithred ei hun. Ac felly, o'r diwedd, mae y peth yn dyfod megys yn ail natur i ni. Nis gall bywyd, dybygid, o un math hanfodi heb fod iddo ffurf ac ymarferiadau. Mae i bob creadur ei reddfau a'i arferion (*habits*). Hyd yn nôd ewyn (*foam*)

\* Traddodwyd sylwedd y ddarlith hon yn nghapel Rose Place, Liverpool, nos Fercher, Rhagfyr 24, 1856, yn benaf ar gyfer pobl ieuainc. Y mae eglwys a chynulleidfa capel Rose Place wedi symud er ys blynnyddoedd bellach i gapel äang a dymunol Fitzclarence Street.

ei hunan, mae hwnw, meddant hwy, mewn cysvliatiad â bywyd, yn ymfurfio ac yn ymgaledu nes dyfod i fod yn gragen i'r llymarch. Felly dyn yr un modd. Mae yn dyfod i'r byd, mae yn wir, heb ddim ymarferiadau sefydlog; ond y mae yn dyfod â rhyw allu gydag ef er hyny ag sydd yn sicr o'i arwain i ffurfio ymarferiadau felly. Sylwch, er esiampl, ar y plentyn bach; hyd yn nôd wrth friwo ei hunan, mae yn dysgu bod yn fwy gwagellog, ac ymreddfu yn yr hyn a'i diogela. Mae ynddo duedd i sylwi ar ac efelychu y riai sydd o amgylch iddo, ac i fynychu yr hyn a ddwg ddfyrwch i'w feddwl; ac felly, os caiff fyw, mae o anghenrheidrwydd yn ffurfio ymarferiadau iddo ei hun. Ar y cyntaf, mae yn eich dwylaw fel y priddgist yn llaw y crochenydd; gellwch ei lunio mewn ystyr bron i'r wedd a fynoch chwi. Ond unwaith y byddo ei garacter wedi ei ffurfio, a'i arferion wedi eu sefydlu, bydd yn anhawdd ei newid ef drachefn. Pwysig iawn, gan hyny, ydyw sefydlu dyn mewn ymarferiadau da o'i ieuencyd. Mae yn wir nad yw yr addysg oreu ddim, o'i rhan ei hunan, yn abl i'w wneyd ef yn ddoeth i iachawdwriaeth, eto trwy fod yn ddyfal i wrthweithio ei lygredigaeth, ac i ddysgu rhinwedd iddo oddiar egwyddorion efengylaidd o'i febyd, chwi a ellwch obeithio, trwy fendith yr Arglwydd, y bydd efe erbyn y byddo wedi tyfu i fyny, nid yn unig yn ddyn moesol a dichlynaidd, ond yn ddyn duwiol—yn greadur newydd yn Nghrist Iesu. Pa fodd bynag, dyma yw ein dyledswydd ni. Wrth nodi, gan hyny, ychydig o'r ymarferiadau hyny ag y dylem eu meithrin ynom ein hunain ac yn ein gilydd, ni a ddymunem yn neillduol gael sylw rhieni plant ac athrawon yr Ysgol Sabbothol.

Er mwyn hwylusdod, ni a'u dosbarthwn yn y drefn ganlynol:

#### I. YMARFERIADAU CORFFOROL.

Am lawer o'r gweithrediadau yma, maent yn gyfryw fel y gall dyn eu dysgu agos heb yn wybod iddo ei hun. Er hyny bydd eisieu gwylio drosto ynddynt oll. Os yw bwyta, sefyll, eistedd, cerdded, yn bethau hawdd iddo eu cyflawni, eto prin y gall dyn ymarfer ei hunan, hyd yn nôd mewn pethau felly, yn briodol, oddieithr i ryw un ei gyfarwyddo. O leiaf, mae yn barod i syrthio i ryw ymarferiadau gwrthun a drwg yn y cyfan. Mae yn pren, chwi a wyddoch, yn sicr o dyfu, yn rhywfodd, heb ddim help oddiwrthych chwi; ond os mynwch iddo dyfu yn rheolaidd,



mae yn rhaid i chwi ei ymgeleddu yn ddyfal—tori ymaith ei gangenau gwylltion, a'i hoelio wrth y mur pan y mae ei flagur yn ieuanc a thyner. Felly am eich plant yr un modd. Hwyl a gynnyddant mewn corffolaeth yn annibynol arnoch chwi; ond nid mewn doethineb a harddwch. Os mynech chwi weled eich meibion, yn ol iaith y Salmydd, "fel planwydd yn tyfu yn eu hieuenctyd, a'ch merched fel conglaen nadd wrth gyffelybrwydd palas," yn gysur i chwi, ac yn addurn i'w sefyllfäoedd, mae yn rhaid i chwi naddu eu naddiad hwyl yn fanlydd—tori ymaith yr hyn sydd ormodol, cywiro yr hyn sydd gam, a chyflawni yr hyn sydd ddiffygiol; mewn gair, bod yn ddiwyd gyda hwyl o'u mebyd i'w sefydlu mewn ymarferiadau da.

Ond i ddychwelyd yn fwy neillduol at ymarferiadau corfforol. Meddyliwch am y pen, er esiampl. Mae yn hwn liaws o aelodau bychain a thra phrydferth. Ond heb ei gadw dan ddysgyblaeth, yn enwedig pan yn ieuanc, mae dyn yn agored i'w hanurddo yn fawr. Fe syrth gyda rhai o honynt i ryw ddulliau annaturiol, a chyda'r lleill i arferion yslyfenlyd a bryntion; ac erbyn y tyfo i faintioli, bydd yr arferion hyny wedi greddfau mor ddwfn ynddo fel y bydd yn anhawdd ei feddyginiaethu oddiwrthynt. Y glust o bosibl, o'n holl aelodau, ydyw y fwyaf diogel rhag cael ei hanmharchu genym. Mae dynion, chwi a wyddoch, yn arfer rhoi mwg yn eu safnau, a llwch yn eu trwynau; ond am y glust, yr aelod brydferth yma o'r corff, nid ydym ni ddim yn dygwydd gwybod am un drwg-arferiad neillduol ag sydd yn peryglu cymaint ar ei harddwch a'i defnyddioldeb hi. Y mae wedi ei gwneyd o'r fath ddefnydd gwydn, fel y mae yn anhawdd ei hanffurfio. Heb roi llawer o drais arni, ni ellwch ei thynu i un camystum nodedig, a'r fan y gollyngoch chwi hi drachefn, mae yn *sprungio* yn ol i'w ffurf naturiol ei hunan. Ein prif ofal am hon, gan hyny, fel am y dannedd, ydyw y gofal a ddylem gymeryd i'w chadw hi a'i holl gelloedd yn lanwaith, a gofalu gwneuthur hyny yn ein hystafelloedd ein hunain, ac nid mewn cymdeithas neu yn ngwydd ein cyd-ddynion. Ond am y rhanau eraill a berthynant i'r pen, megys y tafod, a'r trwyn, a'r wynebpryd, &c., yr ydym yn fwy agored i syrthio i ymarferiadau gwrthun a drwg ynddynt. Ni a welsom esiamplau o hyny yn fynych. Gellir gweled dynion, ac weithiau ddynion

cyhoeddus hefyd, fel pe baent wedi ymroddi i wneyd eu hunain yn annymunol i ddynion eraill: un â rhyw acen chwith gyda thoriad ei eiriau, a'r llall â thôn annaturiol yn ei lais, neu rwnc annaturiol yn ei wddf—y wefus mewn camystum, a'r llygaid yn torwynu, tra mae y trydydd, drachefn, wedi ymarfer ei hunan i bigo ei drwyn neu ei ddannedd, a rhy brin, ar achlysuron, y gall ambell un gadw ei dafod yn ei babel.

Yr ydym yn cydnabod fod llawer o bethau isel, yn rhy isel i'w henwi, yn perthyn yn anocheladwy i'r corff yn y fuchedd hon. Ond dyma y peth sydd yn anffodus, ein bod ni, yn lle gwneyd y goreu o'r pethau isel hyny, yn rhy barod, i'r gwrthwyneb, i ymgynefino â hwy, ac i ychwanegu at eu hadgasrwydd, trwy ymollwng gyda hwynt i arferion swga ac ansyber. Os rhaid cyd-ddwyn â'r peswch a'r brynti mewn afiechyd—yr olwg a'r sŵn anhyfryd, pa rai sy'n dilyn ymweithiad yr anadl drwy firoenau llawn o anwyd—neu pan yn carthu y pen a'r gwddf oddiwrth ei effeithiau, eto ni a ddylem wyllo rhag i ymdrechion natur, fel hyn, i ymadael â'i hanhwylderau, droi yn *arferion gwneuthur* i ni; bod yn anweddeiddiach ynddynt nag y byddai raid i ni fod, a'u cyflawni pan y gellid eu gochelyd. Fe ellid meddwl ar ambell un fod poeri digon yn rhyw harddwch mawr yn ei olwg ef. Os bydd y dyn wedi dysgu cnoi y tobacco yn enwedigol, fe ddaw yslôm o sudd hwnw allan o'i safn ar bob achlysur. Ac er mor wrthun ac adgas, aflan ac annaturiol, yw yr arferiad hor, eto yr ydym yn sicr i ni weled bechgyn ieuainc cyn hyn, ymysg y dosbarth disynwyr ac anwybodus mae yn hawdd genym gyfaddef, yn ei chyflawni gyda rhyw orchest mawr, ac â golwg chwyddedig ac uchel, gan dybied eu bod drwy hyny yn profi eu hunain yn ddynion. Ow! y creadur rhesymol, mor isel y gall fyned yn ei syniadau! Gresynu y byddid gynt wrth edrych ar y cythreulig gorphwyllog yn clafoerian ac yn malu ewyn; ond y mae un o'r pethau tebycaf i hyny yn yr oes hon, sef cnoi ac yslômio sudd tobacco, wedi myned yn arferiad mor gyffredin, fel ag y mae yr esiampl, er mor farbaraidd ydyw, yn tentio ac yn llygru llawer-oedd o ieuencyd. A ydyw y pethau hyn yn taraw meddwl y darlennydd fel pethau rhy isel i son am danynt ar achlysuron fel yma?—hwyrach yn wir eu bod felly. Ond fe ellid meddwl, er hyny, os ydynt yn rhy fryntion i'w hadrodd, y dylent hefyd

fod yn rhy fryntion i'w harfer; eithr y mae yr aelwydydd a'r addoldai, mewn llawer cymydogaeth yn ein gwlad, yn profi nad yw hyny ddim yn bod. Nid oes genym, mae yn wir, ond cyd-ddwyn â'r penllwyd a'r oedranus; maent hwy wedi bod mor anffodus a ffurfio ymarferiadau o'r fath yma pan yn ieuainc, ac yn profi bellach, wedi hir ymreddfu ynddynt, fod yn anhawdd eu gadael o'r neilldu. Ond am danoch chwi, ieuenctyd, yr ydym yn eich rhybuddio yn ddifrifol, a hyny yn enw cannoedd o'ch tadau, pa rai sydd erbyn hyn yn gweled eu ffolineb, ac yn ffeiddio eu hen arferion mochynaid, i ochelyd, er dim, rhag ffurfio i chwi eich hunain ymarferiadau cyffelyb; gadewch iddynt farw gyda hwy.

Mae arferion yn rhy fynych yn cael eu priodoli i natur gan blant dynion. Natur a ganmolir, a natur a feiir, am y pethau a ennillodd y dyn iddo ei hunan drwy ymarferiad. Pe baech chwi ddim ond meddwl er enghraifft, beth yw yr achos fod y naill ddyn yn gallu llywodraethu ei lais mor rhagorol, pan nad oes gan y llall lywodraeth yn y byd arno. Mae yn ddiammheu, pa faint bynag o fantais oddiwrth natur a gafodd neb i hyny, neu rywbeth cyffelyb i hyny, fod i ymarferiad effaith gref yn y peth. Pahan mae y Sais yn medru swnio yr *sh* mor rhwydd pan mae y Cymro yn methu; a'r Cymro yntau yr *ch* a'r *ll* pan y mae y Sais yn methu? Ond am fod y naill a'r llall wedi eu hymarfer i hyny o'u mabandod. Byddwch yn arfer dywedyd weithiau os bydd dyn yn methu swnio rhyw lythyren yn eglur, bod deilen ar ei dafod ef. Wel, os yw hyny yn bod, nid oedd hi ond odid, ar y cyntaf, ond deilen ag y gallesid yn bur hawdd ei symud hi ymaith, pe cawsai y plentyn ond athraw gofalus. Ac y mae gan lawer un o'r math yma, yn ddiammheu, achos cyfiawn i gwyno ar lywodraethwyr eu hieuenctyd, oblegid oni buasai eu hesgeulusdra a'u hanfedrusrwydd hwy, buasai y llygad sydd heddyw yn groes yn edrych yn uniawn, a'r tafod sydd heddyw yn floesg yn medru llefaru yn groew. Drachefn: yn syth y gwnaeth y Crëawdwr y corff dynol, a'i wyneb yn agored tua'r nef. Mae yr ystum yma, dybygid, yn un o ragoriaethau dyn ar yr anifail, ac yn gymhwys i ddwyn ar gof i ni fod a wnelo efe â phethau uwch eu natur na phethau y byd hwn. Dylid, gan hyny, bod yn bur ofalus am sefydlu y dyn ieuanc ynddi, ac nid ei adael ef i wargrymu

ac i blygu tua'r llawr yn ddiachos; agwedd a barai i chwi ddychymygu bron fod ei freichiau a'i ddwyllaw wedi eu bwriadu i fod yn draed blaen iddo, eithr yn anffodus wedi eu gwneyd yn rhy fyrion i ateb y dyben hwnw. Llawer sydd i'w cael, naill ai o herwydd meddwl swrth, neu gamfagwraeth a diffyg addysg foreuol, wedi tyfu fel hyn o'u mebyd. Nid oes gan henaint a chystuddiau ddim i'w ddwyn arnynt hwy yn y ffordd hon; mae ystum naturiol y corff wedi ei cholli eisoes, a chamystumiau wedi eu ffurfio a'u sefydlu, pa rai ydynt yr un mor niweidiol i iechyd ac i harddwch corfforol. "Sâf ar dy draed yn uniawn," meddai Paul wrth y dyn cloff o Lystra. Purion gwerau i rieni i'w dysgu plant wrth eu magu. A chwithau, ddynion ieuainc, yr un wedd. Llawer o honoch chwi sydd yn cydgrymu yn swyddfâau caethion ein trefydd a'n dinasoedd mawrion. Ymarferwch eich hunain i hynyma. Yn eich oriau hamddenol yn enwedig, ymsythwch o'ch ystum fwâog, a sefwch yn uniawn; bydd yn iechyd i'ch *lungs* ac i'ch mynwesau dolurus. Ac heblaw hyny, mae iawn agweddiad y corff yn harddwch yn gystal ag yn iechyd. Ped edrychech ond ar fyntai o filwyr ar yr heol, gan eu cymharu hwy â'r segurwyr afluniaidd sydd yn sefyll yn eu hymyl ac yn syllu arnynt, nis gallech lai na channol dysgyblaeth. Yn ffafr y milwyr mae y gwahaniaeth i gyd. Mae glendid eu gwisg, trefn a gweddeiddra eu hystum, ynghyd a'u cydysgogiadau rheolaidd, yn hynod o'r dymunol i edrych arnynt. Ac ond i ni adael amcan y gelfyddyd filwraidd allan o'r ystyriaeth, pwy na ddymunai weled pob dyn ieuanc wedi ei hyfforddi yn gyffelyb?

Daw hyn â ni at y peth olaf sydd genym i'w goffiâu o dan y pen hwn, a hyny yw glanweithdra a gweddusrwydd mewn corff a dillad. Y dyn sydd yn hael ar y dwfr glân, ac yn wagelog gyda moethau; yn ymolchi yn aml, ac yn bwyta ac yn yfed yn gymedrol, er cryfder ac nid meddwdod; chwi a ellwch fod yn sicr y bydd y dyn hwnw yn rhagori mewn iechyd a harddwch corfforol, ac, ond odid, ymhob rhinwedd dda, ar y dyn glwth a mochynaid ei arferion. Mae addoli mewn ymolchi, medd un philosophydd, gan gyfeirio, mae yn debyg, at y golchiadau Iuddewig. Ond yn wir, mae rhywbeth mewn ymolchi eto ag sydd yn hytrach yn help i addoli. Wedi i chwi fod yn y llwch a'r parddu ar hyd y dydd, dim ond i chwi ymolchi a newid

eich dillad gyda y nos, yr ydych yn profi eich hunan yn ddyinion eraill : mae eich holl natur wedi ei hadnewyddu, a phob teimlad yn och yn fwy dyrchafedig. Pa ryfedd, ynte, mewn amgylchiad felly, os bydd y teimlad crefyddol yn deffro yn y fynwes, ac yn rhoddi ei naws ei hunan ar bob teimlad arall ag sydd ynddi? Gyda y dyn ag sydd yn agos at Dduw, fe dybygid fod yn anhosibl i bethau fod yn amgen i hyny. Ac yn wir, pe na bae y Sabboth a moddion gras yn gwneyd dim arall, ond yn unig sefydlu dynion mewn ymarferiadau syber o'r fath yma, pa rai sydd o duedd mor iachusol i'w cyrff ac i'w meddyliau, mae yn ddiddadl y byddent o werth annhraethol i'r byd. Mae yn hen ddywediad fod glanweithdra yn gares i dduwioldeb. Ac, wrth sylwi ar iaith y Bibl, a defodau crefydd o'r dechreuad, ynghyd a natur ei heffithiau hi ar blant dynion a'u hymarferiadau, mae yn hawdd penderfynu, dybygem, fod ei Hawdwr yn amcanu gosod gelyniaeth rhyngddynt â phob budreddi naturiol gystal a moesol, ac yn caru purdeb a glendid yn y dyn oddiallan fel yn y dyn oddi-mewn. Fe ddywed Mr. Moffat i ni, os gwelid yr Affrican anwaraid yn dechreu ymolchi, a bwrw ymaith ei hen wisgoedd bryntion oddiam dano, fod hyny yn ddigon i brofi fod yr efengyl yn cael rhyw effaith ar ei feddyliau. Edrychwn i addysg y Bibl o barth i wisgiadau, drachefn. Ymddengys i ni fod yr awgrymau a geir ynddo ar y pen hwn, yn gwahardd aflawenwch yn gystal ag ynyfdrwydd a balchder. Prif addurniadau y cristion, mae yn wir, ydyw rhinweddau yr efengyl mewn ysbryd ac ymddygiad. A'r pethau hyn y dylai gwragedd yn proffesu duwioldeb ym-drwsio, ac felly yr oeddynt yn gwneuthur o'r dechreuad. Ond beth am y dyn oddiallan? O barth i hwn, y cyfarwyddyd Dwyfol yw: "trefnu eu hunain mewn dillad gweddus gyda gwylder a sobrwydd." Ac yr oedd hyn ar unwaith, dybygid, yn dysgu y cristionogion Cenedlig gynt, i ymwrthod, nid â gorwychder ac addurniadau ofer eu paganiaeth yn unig, ond yn gystal a hyny â'u hen arferion mochynaid a bryntion. "*Trefnu eu hunain.*" nid bod yn yslyfenllyd: ond "*trefnu eu hunain mewn dillad gweddus,*" ac nid bod yn goegfalch a ffol. Nid oes dim mwy na hyn yn cael ei ganiatâu, na dim llai chwaith yn gymeradwy gan yr efengyl. Ni a ddymunem yn neillduol eich annog chwi sydd yn ieuainc i ochelyd ymarfer eich hunain i wastraff ac ofer wisg-



iad. Nid am y mynem i chwi, mewn un modd, fod yn swga ac ymollyngar, yn enwedig yn eich ieuencyd. Dyma yr adeg i chwi ymreddfu mewn glendid a threfnusrwydd diwyg. A'r dyn nad yw dipyn yn orfanylaidd o gwmpas ei berson, pan o'r deunaw i'r deg ar hugain oed, mae hwnw, fel y sylwai Dr. Chalmers, yn ddigon tebyg o fod yn yslebog cyn bod yn ddeugain, ac ond odid nad yslebog a fydd efe tra byddo byw. Ond ymhob sefyllfa, y gwisgo ynyd a drudfawr yw y camgymeriad: bod yn goegfalch a gwagdrwsiadus; ac y mae yn bur bosibl bod felly, cofwch, a bod yn yslyfenllyd yr un amser. Ond y gamp y mynem ni i bobl ieuainc gyrchu ati yn eu gwisgiadau ydyw, uno cynnilddeb â thaclusrwydd. Amcanwch na byddo dim yn eich diwyg a ddygo sylw neb—dim a bair gyfeiriad nac estyn bys ati, oddieithr yn unig yr hyn ag y bydd pawb yn rhwym o gymeradwyo—sef ei glendid a'i chymhwysder i'ch sefyllfa. Mae yn gofus genym gyfarfod â brodor o Poland yn y wlad hon unwaith. Yr oedd hi yn arferiad gan y gŵr hwnw, er nad oedd ond dyn cyffredin, ac yn byw wrth lafur ei ddwyllaw, wneyd i'w blant ymolchi bob dydd, a rhoi rhyw ddilledyn glân am danynt, cyn eistedd gydag ef wrth y bwrdd i giniawa. Ac fel rheswm dros hyny, dywedai, "Nid oes nemawr o drafferth na thraul yn y peth; ond y mae yn dysgu y plant o'u mabandod i fod yn fanylaidd a glanwaith yn eu harferion." Pe byddai mwy o rywbeth cyffelyb i hyn yn ein gwlad ninnau, mae yn ddiammeu y byddai ein hieuencyd yn fwy coeth a syber yn eu hymarferiadau. Ond wrth eu hyfforddi yn y cyfryw bethau, fe ddylid, o'r tu arall, fod yn ofalus iawn rhag rhoi gormod o le i goegwychder a gwisgiad dillad, ac felly porthi ynydrwydd y meddwl ieuanc.

Ond hwyrach fod y darlennydd erbyn hyn yn barod i feddwl ein bod yn ymdroi gormod gydag ymarferiadau corfforol. Wel, yr ydym bellach yn eu gadael. Ond fe ddylid cofio, pa fodd bynag, fod y corff yn offeryn trwy ba un y mae yr ysbryd yn dangos ei hunan. Pa ddrwg agweddau bynag sydd yn tori allan, ac yn ymsefydlu ar hwn, mae yr achos o honynt oddimewn yn nghyfeiliornad y galon: yr enaid yw y gwir droseddwr. "Oddimewn, allan o galon dyn," medd Iesu Grist, "mae y drwg bethau pa rai sydd yn halogi dyn yn dyfod." Agweddau y meddwl sydd yn dyfod i'r golwg yn y golygon uchel, a'r gweflau llaesion. Y

meddwl cuddfrydig a chastiog, a rhy ymddifad o gywirdeb a theimladau anrhydeddus, ydyw yr achos, lawer gwaith o leiaf, fod y dyn yn bendrymaidd, a'r golwg arno yn yswilgar ac euog, fel nad all ef byth, wrth ymddyddan â chwi, edrych yn eich llygaid gydag wyneb rhydd ac agored. Yn ymfydrwydd y meddwl, drachefn, y mae y gorwycheder a'r oferwisgiad yn gwreiddio; ac o'r tu arall, syrthni hwn yw y gwir achos o'r wisg front, yr afterwch, a'r ystumiau dioglyd ag y mae llawer o ddyinion yn rhy barod i ymollwng iddynt yn aml. Ac wrth geisio meddyginiaethu y meddwl oddiwrth y pethau hyn, yn enwedig meddwl plentyn ieuanc, fe ddylid yn ddiammheu ymdrechu i'w ddiwygio ef oddiwrth yr arferion eu hunain. Dylid ceisio dwyn ei sylw trwyddynt hwy at eu hanweledig a'u pechadurus achosion, yn y dyn oddimewn—a galw arno, nid yn unig i ymwrthod â'r pethau hyny, ond hefyd â phob ystum allanol ag sydd yn arwydd o honynt. A'r un modd, drachefn, wrth ddyngu *iawm* ymarferiadau corfforol iddo, gellir dwyn ei feddwl ef i ymarferiad hefyd, dysgyblu ei gydwybod a'i galon, ac felly, trwy fendith yr Arglwydd, meithrin ynddo y rhinweddau hyny, pa rai ag y mae yr ymarferiadau corfforol yn eu portreiadu.

## II. YMARFERIADAU CELFYDDGAR.

Mae dyn yn dechreu gyda yr ymarferiadau hyn pan yn blentyn yn yr ysgol. Oblegid *art* neu gelfyddyd yw darllen, sillebu, ac ysgrifenu; ac i'r dyn sydd yn hyddysg ynddynt, ac yn eu harferyd i ddybenion da, y maent o werth anmhrisiadwy. Ni a ddymunem rybuddio rhieni yn neillduol na adawont i'w plant dyfu i fyny heb eu perffeithio yn yr ymarferiadau hyn. Beth bynag ar a fyddo, mynwch, os yw bosibl yn y byd, eu gweled hwy yn alluog i ddarllen ac ysgrifenu yn gywir, a bod yn hyddysg, i ryw raddau, mewn rhifyddiaeth gyffredin—pethau na chyrhaeddir byth mo honynt oddieithr eu dysgu mewn ieuentyd, a phethau mor anhebgorol i ddyn yn y bywyd hwn fel nas gall un anffawd waeth ddygwydd iddo na bod yn ddiffygiol ynddynt. Gresyn yw gweled plentyn yn chwareu ymaith addeg ei ysgol, ac felly yn cael ei ddedfrydu dros ei oes i fwy o hurtwch ac aflwydd nag a fyddai raid. Mewn blynyddoedd a ddaw, bydd myrdd o ddrysau i anrhydedd a defnyddioldeb yn ymagor o'i flaen, ond iddo ef yn ymagor yn ofer—myrdd o ddrygau

yn ymosod arno, ac yn ymosod i fantais—oblegid iddo gael ei droi allan i'r byd heb ei gymhwyso yn ddyladwy ar gyfer ei ddyledswyddau, na'i arfogi i gyfarfod â'i dwyll. Ac os dygwydd iddo fod yn berchen mwy o synwyr ac o ymadferthoedd meddwl na'r cyffredin, a dyfod yn nhrefn rhagluniaeth Ddwyfol i well amgylchiadau nag eraill o'i gyffelyb, yn y cyflwr hwnw, drachefn, bydd diffyg addysg foreuol yn chwerwder ac anfantais iddo dros ei oes. Yr ydym yn llawenychu yn wir yn y gobaith fod yr alwad am addysg yn myned yn uwch yn Nghymru. Mae y genedl wedi bod, fe wyddys, yn ffyddlaw'n er ys llawer o flynyddau gyda achosion pellenig; ac y mae yn amser iddi weithian, dybygem ni, i edrych gartref yn fwy, a gofyn fel yr hen Jacob i Laban gynt, "Bellach, gan hyny, pa bryd y darparaf hefyd i'm tŷ fy hun?"

Ond yn fuan, fe fydd y plentyn yn gadael yr ysgol, ac yn cael ei osod i ddysgu rhyw gelfyddyd neu gilydd—ei obaith ef a'i deulu mewn amser a ddaw. Cyfnod pwysig iawn ar ei einioes ydyw hwn eto. Dyma lle y mae ei ymarferiadau gweithgar i gael eu greddf'u ynddo: lle y dylai ei fysedd gael eu cynefino â diwydrwydd, a'u gwneyd yn yscilgar a dysgedig yn ngwaith yr alwedigaeth pa un a ddewisa iddo ei hun. Gallwn alw hon yn bresennol yn gelfyddyd y llaw. Yr ydym wedi cyfeirio eisoes at amryw o'n haelodau corfforol, ond ni chrybwyllasom yn benodol am y llaw, yr hon sydd un o'n haelodau mwyaf cywrain a defnyddiol. Y llaw yn arbenig yw yr offeryn trwy ba un y mae cynlluniau y meddwl yn cael eu gweithio allan. Ac wrth ei hymarfer, mae yn dyfod mor fedrus a chelfyddgar, nes y byddwch chwi yn teimlo ac yn siarad weithiau, megys pe byddai doethineb a chywreinrwydd y dychymyg wedi rhedeg i flaenau eich bysedd. Felly y sonia y Cymry am wneyd rhywbeth wrth synwyr y fawd, a Dafydd yntau yr un modd, am i'w ddeheulaw anghofio canu—*forget her cunning*—ei hyfedredd i ganu y delyn. Mae medrusrwydd ei law, fel hyn, o werth mawr i ddyn. Rhaid i'r meddyg, chwi a wyddoch, nid yn unig fod yn ddeallus mewn *anatomy*, ond yn fedrus hefyd i drin ei arfau, ac onidê ni bydd ei wybodaeth ddim o gymaint gwerth iddo. Ac felly yr un modd am bobpeth arall. Ni waeth pa mor hyddysg a yddlo meddwl y dyn yn ngwaith ei gelfyddyd, os

na bydd y wybodaeth yn ymarferol; os na bydd hi yn y llaw gystal ag yn y pen, mae hi yn gwbl ddiiffrwyth; nid oes dim gwaith yn cael ei wneyd. Ond mewn trefn i'r llaw ddyfod yn y modd yma yn gelfyddgar a medrus, mae yn rhaid i'r dyn ymarfer o'i ieuencyd: ymarfer i fod yn weithiwr da, yn gystal ag yn ddyn o feddwl athrylithgar. Iē, os myn ef wneyd lles iddo ei hun, mae yn rhaid iddo hefyd ymarfer ei athrylith mewn ffordd fuddiol; nid treulio ei oes fel y gwna ambell un i ryw segur-gywreinio—yn dipyn o bob peth, ac yn y diwedd heb fod yn ddim yn y byd. Ni a gynghorem ddynion ieuainc yn neillduol i berffeithio eu hunain yn eu galwedigaeth. Mynwch ragori yn hono, pa fodd bynag. Mae eich llwyddiant dros eich einioes, eich cysur chwi eich hunain a chysur eich teuluoedd, yn ymddibynu ar hyny. Mae yn gofus genym glywed am ei gydgrefwtwyr yn gofyn i un dyn rywbryd: "Pwy a ddywedodd wrthyt ti, hwn a hwn, dy fod yn saer?" Os gofyn neb felly i'r un o honoch chwi, bobl ieuainc, yr ydym yn gobeithio y byddwch chwi yn abl i ateb drwy ofyn yn ol, a hyny gyda dewrder hefyd, "Pwy a ddywedodd! 'Dyn a adwaenir wrth ei waith.' Mae y dodrefnyn a wnaethum i yn dyweyd fy mod i yn saer, neu mae yr esgid a wneis i yn dyweyd fy mod yn grydd. Pwy a ddywedodd! Edrychwch ar y wisg a gywreiniais i, yr hon sydd megys wedi tyfu am gefn fy nghwsmer; onid yw honacw yn dangos fy mod i yn grefftwr a fedr *ffitio* y dilledyn a wnelwyf i'r edefyn?" Mae bod fel hyn yn feistr ar ei waith yn werth mawr i ddyn. Er iddo fod yn was i bawb, eto fe deimla dyn felly na bydd gofal arno rhag neb, waith mae yn gwybod mai digon iddo ef ydyw ei ddoethineb a'i ddiwydrwydd ei hunan, a'i fod, yn ei le, o gymaint o werth i gymdeithas ag ydyw cymdeithas iddo yntau.

Ond nid i'r crefftwr yn unig, ni a garem i chwi sylwi, y mae y llaw gywrain yn fuddiol. Beth bynag a fyddo sefyllfa neb o honoch yn y byd hwn, chwi a gyfarfyddwch âg amgylchiadau yn fynych ymha rai y profwch y bydd bod i ryw fesur yn gelfyddgar o werth mawr i chwi. Mae gwybod pa fodd i drîn ei ardd, ac i goledd ei anifeiliaid,—bod yn fedrus, pan bo achos, i drîn y morthwyl, y fwyall, a'r nodwydd, &c., yn bethau gwerth i ddyn eu cyrhaeddyd, er na byddo achos iddo byth eu hymarfer

wrth ei gelfyddyd. Oblegid pa un bynag ai gartref ai oddi-cartref y byddoch, mae rhywbeth yn dygwydd beunydd, rhyw daclau neu gilydd yn syrthio i anmhariaeth, a hyny lawer tro pan ymbell oddiwrth bob help a chyfleusdra; ac felly y mae ymarferiadau o'r fath yma i bob dyn mor wasanaethgar ag ydynt o ddifyrus. Y cenadwr Moffat, dybygem, a glywsom ni yn adrodd y byddai ei fam yn gwneyd iddo ef, pan yn fachgen, ymarfer ei hunan i drwsio ambell rwyg yn ei wisg, neu dwll yn ei hosan, ac yn dyweyd wrtho yr un amser, "Ni wyddost ti yn y byd, Robert, pa beth a ddygwydd eto, na pha mor dda fydd i ti dy fod yn medru trin y nodwydd ddur, a rhoi pwyth mewn rhyw ddilledyn yn awr ac yn y man." A llawer gwaith, yn mherfeddion Affrica, y cafodd Mr. Moffat achos i gofio am eiriau ei fam.

Eithr i fyned ymlaen. Meddyliwch am waith y tŷ drachefn, a dyledswyddau y rhyw fenywaidd. Onid yw yn amlwg i bawb fod medrusrwydd ac ymarferiadau da yn anheborol yma? Ac eto, mae yn rhaid cyfaddef fod dygiad i fyny manylaidd i'r dosbarth hwn o ddyledswyddau yn cael ei esgeuluso yn ddirfawr yn ein mys. Mae llawer o rieni yn ddigon difedr ynddynt eu hunain, a'r lleill yn ddiofal yn eu cylch. Gellid meddwl bron eu bod yn credu fod naturiaeth ei hun yn ddigonol i ddysgu eu plant yn y cyfryw bethau, a bod eu merched yn dyfod i'r byd yn debyg i'r morgrug neu yr afanc—eu medr a'u hymarferiadau teuluaidd yn reddfol ynddynt o'u genedigaeth, heb eisieu dim ond amser i'w dwyn i weithrediad. Ac erbyn y gwelont hwynt wedi tyfu i fyny yn anghelydd, byddant yn teimlo eu meddyliau yn siomedig a digofus; hwyrach yn barotach na neb i edliw iddynt eu hanwybodaeth, os nad i'w ddynoethi ger bron dyeithriad, heb ystyried, unwaith, mai eu cywilydd hwy eu hunain ydyw anfedrusrwydd eu plant. Mae hyn yn hollol ddiffyg i'r graddau y mae yn ffynu. Fe gydnebydd pob dyn ystyriol fod yn gwbl mor ofer dysgwyl i ddynes ieuanc fod yn forwyn dda, heb ei dwyn i fyny i hyny, ag iddi fcd yn wniadwraig dda heb erioed gael ei dysgu i'r gorchwyl hwnw. Meddyliwch am holl waith y tŷ. Onid oes *art* yn y cyfan? Ni fedrwch gymaint a gwneyd y gwely yn yr hwn y gorphwyswch, na chynneu y tân wrth yr hwn yr ymdwynwch, heb addysg ac ymarferiad. Mae rhywbeth celfyddgar yn y



gwaith o bobî y bara, ac o drîn yr enllyn—golchi, ac ysmwddio, a phlygu pob dilledyn yn gymhwys. Ac y mae rhyw *art* fechan drachefn ar eu gosod gyda'u gilydd yn daclus, a chyflêu llawer i le bychan; nid pawb sydd yn medru ar hyny; ond y mae yn hynod o'r dymunol a gwasanaethgar, yn enwedig i'r rhai sydd yn teithio llawer. Cofied rhieni a phlant mai trwy ymarferiad yn unig y mae y pethau hyn yn gyrhaeddadwy. Ni a glywsom am rai mamau wedi cymeryd ffordd hynod o'r manteisiol i ddwyn eu merched i fyny yn fedrus yn y dyledswyddau teuluaid, sef gosod y naill yn niffyg y lall i'w cyflawni; pob un yn ei thro i fyned drwy y gwasanaeth, megys glanhâu a threfnu ystafelloedd y tŷ—prynu a darpar at anghenrheidiau y teulu—gosod y bwrdd—a thori yr ymborth; pethau nas gall neb byth eu gwneyd hwy yn ddiwastraff, glanwaith, a deheuig, heb lawer o ymarferiad. Felly yr ydym yn canfod gwahaniaeth mawr rhwng y naill a'r lall yn y pethau hyn. Am ambell un, er darpar yn gostus, nid oes dim a wnelo yn dda, tra y mae un arall yn medru gwneyd llawer o ychydig ddefnydd, a hwnw yn hynod lanwaith a blasus; chwi a gewch ar ei bwrdd hi damaid a allai tywysog fwyta am swm a allai tlawd fforddio. “Mae rhai mamau,” meddai un wraig, “yn bryderus am wŷr da i'w merched; ond fy amcan i ydyw gwneyd fy merched yn wragedd da i wŷr, a gadael i'r Arglwydd ddarparu ar eu cyfer hwy.”

Ni a gynghorem bobl ieuainc yn neillduol i gymeryd y rheol hon iddynt eu hunain. Na feddylwch fod eich sefyllfa yn y byd, beth bynag yw, yn caniatâu i chwi fod yn anghyfarwydd yn nyledswyddau bywyd. Mae ymarferiad ynddynt mor anhebgorol i'r neb sydd i'w harolygu ag i'r neb sydd i'w cyflawni. Os bydd y forwyn yn fwy medrus na'i meistres mewn dîm, nid y hi mewn gwirionedd a fydd y feistres yn y peth hwnw. Bydd yn anmhosibl iddi ei orchymyn yn ddeallus, na gwybod pa bryd y mae yn cael ei gyflawni yn ddyladwy. Heblaw hyny, mae y byd yn gyfnewidiol; a gelyn arfog, yn enwedig i'r segurddyn balch, nas gall na chloddio na chardota, yw tloidi ac anghen. Ond am y diwyd, o'r ochr arall, ni phetrusa efe ddim cymaint; mae “bywyd ei law” ganddo ef beith bynag a ddygwydda, ac y mae hwnw wedi gwasanaethu i anghenrheidiau miloedd cyn hyn, a'u galluogi, o dan amgylchiadau anffodus a chyfyng, i gadw eu

hanrhydedd a'u hannibyniaeth. "Edrych yn ddyfal ar dy anifeiliaid," medd y gŵr doeth, "a gofala am dy braidd; canys cyfoeth ni phery byth; ac a bery y goron o genedlaeth i genedlaeth?" Mae y gair fod Louis Philippe unwaith, mewn ymddyddan âg un o bendefigion y wlad hon, yn dyweyd wrtho, "Nid oes un pen coronog yn Ewrop mor gymhwys i fod yn frenin â myfi." Ac ar waith y pendefig yn dyweyd rhyw air o ganmoliaeth i'w dalentau, "Ah," ebe yntau, dan chwerthin, "nid am hyny yr oeddwn i yn meddwl; ond y mae breninoedd yn awr yn fwy digyfrif na chynt; nid oes neb a wŷr beth a ddygwydd; myfi ydyw yr unig frenin yn Ewrop a fu yn sychu ei esgidiau ei hunan, ac mi a fedraf eu sychu eto os bydd raid." Sylw teilwng o frenin oedd hwn, a sylw yn cynnwys amlygiad o ddewrder ac annibyniaeth meddwl ag a fyddai o ryw gymhorth i ddyn pan wedi colli ei freniniaeth. "Gwell yw yr hwn a'i cydnabyddo ei hun yn wael, ac sydd was iddo ei hun, na'r hwn a'i hanrhydeddo ei hun ac sydd arno eisieu bara."

III. Y trydydd, a'r dosbarth olaf o ymarferiadau ag y dymunem alw eich sylw atynt yn bresennol ydyw—**YMARFERIADAU MOESOL.**

Nid nad oes rhywbeth o'r elfen yma ynglŷn â'r pethau y buom yn ymdrin â hwy eisoes; mae y gydwybod oleuedig a thyner yn tystio fod. Ar yr un pryd, mae yr ymarferiadau y cawn ni gyfeirio eich sylw atynt rhagllaw, o natur uwch a gwahanol—eu da neu eu drwg yn fwy eglur ynddynt eu hunain,—ac am hyny yr ydym yn eu galw yn ymarferiadau moesol. Fel ychydig o lawer o honynt, ni a grybwyllwn y pethau canlynol. Sylwed y bobl ieuaine arnynt yn neillduol, a chwithau, rieni plant, yr un modd; mae o bwys i chwi geisio meithrin eich rhai bychain ynddynt wrth eu magu.

1. Yr ymarferiad o fod yn feddylgar. Mae cyfranu y ddawn o feddwl i greadur sydd yn alluog i hyny—ymgeleddu a dwyn allan y pethau a roddes ei Greawdwr ynddo ef, yn sicr yn ddyledswydd bwysig, ac y mae ei hesgeuluso yn dra phechadurus ac o ganlyniadau difrifol. Nid ellwch chwi ddysgu pob peth i blentyn ar unwaith. Ac yn wir, fe ddywedir wrthym nad doethineb ydyw ceisio dysgu llawer iddo chwaith. Fe ddylai y deall gael ei amaethu yn ddiammheu. Ond yr amcan mawr,

er hyny, i rieni ac athrawon i gyrchu ato ydyw, gwneyd y plentyn yn feddylgar: dysgu y llygad i ganfod, a ffurfio yn y meddwl y reddf, neu yr *habit* o chwilfrydedd, craffder, a threiddgarwch. Dyma y gwerth mawr sydd mewn addysg fanylaidd yn more yr oes; nid hyny o wybodaeth yn unig ag mae y dyn yn ennill ar y pryd, ond yr ymarferiad mae yn ei gael, y ddysgyblaeth ag y mae y meddwl yn cael ei ddwyn trwyddi, a'r astudrwydd yr hwn y câ ei reddfu ynddo yn ystod ei lafur. Bydd hyn yn fantais i'r dyn dros ei fywyd. Mae yn cael ei osod ar ben y ffordd i gynnyddu mewn gwybodaeth, ac yn sicr o fod yn fwy galluog i fywâu a defnyddio pob gwybodaeth a gyrhaedda. Fe ganfyddir y gwahaniaeth rhwng y meddylgar a'r anfeddylgar o dan y pregethau yn fynych. Mae y naill, yn enwedig os bydd ynddo chwaeth at bethau crefyddol, a rhywbeth o werth yn dyfod i'r golwg yn y pulpud, i'w weled yn clustfeinio ac yn craffu; chwi a ellwch ddarllen, hyd yn nôd yn ei lygaid ef, dreiddgarwch ac egni meddwl i ddeall, ac fel y mae hwnw drachefn, yn diweddu mewn argyhoeddiad a boddhâd, tra mae yr anfeddylgar, o'r ochr arall, yr holl amser hyn, âg anwybodaeth a dylni, fel cwmwl pygddu, wedi sefydlu ar ei wynebpryd. Ac er y gall dull neu sŵn yr areithydd ei gynhyrfu anbell dro, ni bydd dim meddwl na goleuni yn y cynhwrf hwnw; ac felly mae y cyfan yn diflanu yn fuan, a'r creadur yn syrthio yn ol i'w hen ddifrawder. Edrychwch arno mewn cwmni drachefn: os bydd ymddyddan o natur ddeallus yn dygwydd yno, neu lyfr felly yn cael ei ddarllen weithiau, nid yw dyn o'r fath yma yn teimlo chwilfrydedd na dyddordeb mewn dim. Pan y mae eraill oddiamgylch iddo yn barod i ddal eu hanadl rhag ofn colli yr hyn a ddarllenir, cewch ei weled ef, hwyrach, yn gymhwys ar y fynydd hono yn codi i brocio y tân, neu i danio ei bibell, neu ynte yn gwneuthur rhyw sylw neu gilydd ag sydd yn dangos fod ei feddwl ef, yr holl amser hwnw, yn berffaith segur a dyeithr i'r mater. Oni bae y segurddod yma sydd yn meddyliau llawer o'n gwrandaŵyr, byddai y trwst ag sydd i'w glywed yn aml yn addoldai ein gwlad yn fwy annyoddefol i'r cynulleidfaoedd; ac mae yn sicr genym hefyd y byddai yn well gan famau, pe baent yn fwy meddylgar, gael mwynhâu un gwasanaeth y Sabboth mewn perffaith lonyddwch, na dyfod i'r

addoliad dair gwaith yn unig i chwarae hefo eu plant. Yr ydym yn addef y gall dyn fod yn feddylgar, ac heb fod yn grefyddol; ond nid allwn ni feddwl er hyny fod yn bosibl iddo fod yn grefyddol heb fod i ryw fesur yn feddylgar. Mae crefydd yn gwneyd ei pherchen yn feddylgar; neu, os bydd efe felly eisoes, mae yn sicr, ar ei dyfodiad i'r galon, o feddiannu a sancteiddio yr ymarferiad yma, a'i droi ef yn wasanaethgar iddi ei hun. Ymarferiad gwerthfawr yw hwn, drachefn, gyda negeseuau y bywyd yma. Mae y dyn meddylgar yn barnu drosto ei hun; yn ystyried ac yn deall beth y mae yn ei wneuthur. Sylwa wrth roi pob offeryn o'i law pa le mae yn ei adael, a chofia ar y fynydd pa le i'w gael ef drachefn. Anaml y daw y gofalus meddylgar o'r farchnad wedi anghofio yr un o'i negeseuau, ac anaml y mae yn colli dim ag sydd yn perthyn iddo wrth deithio y ffordd. Ni bydd dim achos iddo ef golli amser i ail wneyd yr hyn a wnaeth eisoes, nac i edrych i'r un fan am yr un peth fwy nag unwaith. Mae yn ddyn hollol i'r peth a fydd ganddo mewn llaw; ei feddwl gartref yn wastad, a hwnw yn feddwl pwylllog ac effro. Mewn trefn i ddysgu ein plant i fod fel hyn yn ofalus a meddylgar, dylem arfer eu holi yn aml, dwyn eu sylw at bob peth a allant ddeall, eu hymarfer i fod yn wagelog—i gadw eu dillad, a'u pethau bychain eu hunain, yn drefnus, a hyny o'u mabandod; ymresymu â hwy, yn gystal a'u ceryddu, am bob camymddygiad; mewn gair, achub pob adeg i wneyd argraff ar y gydwybod a'r galon, ac wedi llwyddo i ddeffro ynddynt chwilfrydedd ac ymofyniad, bod yn ddiwyd i'w porthi â gwybodaeth ac â deall. Agos o'r un natur yw y peth nesaf sydd genym i'w gymhell arnoch; sef yn

2. Yr ymarferiad o fod yn fanylaidd a chywir yn yr oll a wnelom. Mae yn haws i chwi gael dyn i weithredu, er nad peth bychan yw hyny, nag i weithredu yn iawn. Os gorfodir ef i wneyd rhywbeth hefyd, mae yn tueddu yn hytrach i'w wneyd ef yn rhywfodd nag fel y dylai gael ei wneuthur; oblegid y mae gwneyd peth yn iawn yn galw am fwy o lafur a gofal oddiwrtho; ac y mae hyny yn flin i greadur ag sydd yn hoffi segurddod mewn corff a meddwl. Wel, rhaid gwrthweithio y teimlad hwn ynddo eto. Nid yn unig galw ar y plentyn i ymegnio, ond i edrych am egnio yn ddyladwy ymhob peth:

rhoi ei sain briodol i bob gair a llythyren wrth lefaru; os sillebu, sillebu yn iawn—os darllen, darllen yn gywir a deallus—os cofio, cofio yn berffaith—ac os deall, deall yn drwyadl. Pa un bynag ai pen ai llaw y dysgybl a fyddo mewn ymarferiad, dylid bod yn bur ofalus na byddo dim yn cael ei basio heibio yn yslyfenllyd, na dim yn cael ei gymeradwyo a'i dderbyn oddiwrtho ef yn amherffaith. Bydd hyn yn boenus i'r plentyn ar y cyntaf, mae yn wir, ond ni phery efe felly o hyd. Wrth fod yn ddiwyd i'w hyfforddi mewn amynedd, fe orchfyga y meddwl yn raddol ei hen arferion dioglyd ac ysmala; ac fe reddfir ynddo yr ymarferiad o fanylder a gofal, ac felly, o'r diwedd, fe fydd gwneyd a deall pob peth yn berffaith wedi myned megys yn ail natur i'r dyn, a'r hyn oedd unwaith yn boenus wedi troi yn bleser iddo. Nid all ef wneyd dim ond felly. Mae ei reddfu fel hyn mewn cywirdeb gyda phethau cyffredin yn ben y ffordd tuag at ei gael yn ddyn cywir a ffyddlawn gyda phethau uwch eu natur na hwy. O leiaf, bydd yn rhyw fantais i hyny fod yr ymarferiad neu yr *habit* o fanylwch wedi ei ffurfio ynddo. Ac o'r ochr arall, chwi a ellwch beri niwed, hwyrach, anfeddyginiaethol i'w feddwl, yn yr ystyr hwn, os caniatewch chwi iddo fod yn ddiotal ac anghryno gydag ymarferiadau ei febyd. "Y plentyn yr hwn a oddefir o ddydd i ddydd i fyned ymlaen yn arwynebol ac anghywir gydag un ran o'i addysg, a duedda," medd un gŵr, "i ymddwyn yn gyffelyb gyda golwg ar gangenau eraill o honi, ac fe gyrhaedda ei ddiotalwch hyd yn nod i'w chwareyddiaeth. Ond nid yw hyny ond y rhanau lleiaf o'r niwed. Unwaith yr ymffurfio yr arfer ddrwg o anfanylder ynddo, hi a lygra ei ddull ef o ymddyddan, a'i gwna yn fwy diystyr o'r gwirionedd, ac a'i gwanycha yn ei ddyledswyddau moesol; i.e, fe'i dilyna ef i'r addoliad cyhoeddus, ac a ddifwyna ffrwythau boreuol ei grefydd a'i dduwioldeb."

Yn ychwanegol at hyn, ni a allwn sylwi y dylem roi arbenigrwydd i fanlydod mewn crefydd ac ymddygiadau da yn ein haddysgiadau. I'r graddau ag y byddo oedran y plentyn yn caniatâu, mae yn ddyledswydd arnom, nid amaethu ei feddwl yn unig, ond dysgyblu ei galon a'i gydwybod hefyd; bod yn fanylaidd yn hyn fel mewn pethau eraill; dangos drwg iddo yn y pethau hyny pa rai, mae lle i ofni, a ystyrir gan laweroedd yn



fychain a diniwed, megys mân gelwyddau, chwiwladradau, pob anghywirdeb, creulondeb, a chastiau twyllodrus; ac ymdrechu i'w gynefino o'i febyd âg ymddygiadau syml a didwyll. Gwir yw fod effeithiolrwydd yr addysg oreu yn ammheus wedi y cwbl; ond, beth er hyny? y mae y canlyniadau o'i hesgeuluso hi yn sicr. "Y wialen a cherydd a rydd ddoethineb," medd Solomon; "ond mab a gaffo ei rwysg ei hun a gywilyddia ei fam. Hyfforddia blentyn ymhen ei ffordd, a phan heneiddio nid ymedy â hi." Onid oes lle i ofni, pan y byddo plant yn troi allan yn anfoesol a drwg eu harferion, fod hyny yn dygwydd yn aml, nid er, ond yn hytrach o *herwydd*, eu magwriaeth? Mewn llawer o esiamplau, effaith naturiol ydyw o'r dull y cawsant eu dwyn i fyny. Mae y rhieni eu hunain yn rhy ddiffygiol o'r manyldra ag y buom yn son am dano. Meddylwch, er esiampl, gymaint o ryw anghywired mewn pethau bychain a disylw sydd yn rhedeg drwy ymddygiadau llawer yn eu teuluoedd. Chwi a gewch rieni, weithiau, a dwyllant eu plant yn bwrsasol er mwyn ymddigrifo yn eu hygoeidd. Wrth gwyno iddynt pan yn flin, gwneir hyny mewn ffordd o achwyn ar eraill am wneyd cam â hwy, a dielir drostynt weithiau ar yr offeryn marw a'u doluriodd. Mynych, yr ydym yn ofni, y gweithir ar eu hofnau drwy fygythion gau, ac y porthir eu dysgwyliaid âg addewidion celwyddog. Hyd yn nôd wrth gymhell ei physygywriaeth ar y plentyn bach, fe sicrhëir iddo, lawer tro, ei fod yn felus a hawdd ei gymeryd, pan y mae ei archwaeth ef, y fynydd nesaf, yn ei argyhoeddi fod ei fam ei hunan yn dyweyd celwydd wrtho. Mae swm anferth o ddrygfoesau o'r fath yma yn ein gwlad; ac er fod y gydwybod galed a thywyll wedi cynefino â hwy, ac yn edrych arnynt yn fychain a diniwed, eto, y gwirionedd yw fod eu pechadurusrwydd yn fawr yn ngolwg yr Arglwydd, a'u heffeithiau ar ein plant a'r rhai sydd o'n cwmpas yn dra niweidiol. Dywedir fod Robert Hall mewn cwmni unwaith, pan, ymysg eraill o'r ymwelwyr, yr oedd boneddiges yr hon oedd yn fam yn bresennol; yn y man ymneillduai hon dros ychydig amser i'r dyben o roi ei lodes fach, bedair oed, yn ei gwely. Wedi dychwelyd ymhen oddentu hanner awr, dywedai wrth un o'i chyfeillion, "Mae hi wedi myned i gysgu; mi a roddais fy nghap nos am fy mhen, ac a orweddais yn ei hymyl, a hi a syrthiodd yn ebrwydd i gwsg."

“Esgusodwch fi, *madam*,” ebe Mr. Hall, yr hwn oedd yn gwranddo yr ymddyddan, “a fynech chwi i’ch plentyn dyfu i fyny yn gelwyddog?” “Och fi, syr, na fynwn; mi a arswydwn feddwl y fath beth.” “Wel, goddefwch i mi ddyweyd wrthyhch,” ebe yntau; “mae yn rhaid i chwi beidio byth ag *actio* celwydd o’i blaen hi; mae plant yn bur gyflym eu sylw, a buan y dônt i wybod fod y peth ag sydd yn cymeryd arno fod yr hyn nid yw yn gelwydd, pa un bynag ai mewn gair ai mewn gweithred y byddo.” Dywedai hyn gyda thynnerwch ag oedd yn attal tramgwydd, ac eto gyda difrifwch nad anghofwyd byth.

3. Ymarferiad arall ag y dymunem gydag awyddfryd pryderus ei gymhell ar ein cydgenedl, ac yn enwedig ar ein hieuenctyd anwyl a hoff ydyw, yr ymarferiad o gymedroldeb ac iawn lywodraethiad y blysiâu anifeilaidd. Mae y sobrwydd, yr hwn a gymhellir arnom yn y Testament Newydd, yn cyrhaedd dros yr holl natur,—ysbryd, enaid, a chorff. Arwydda ddydd â chanddo ynddo ei hunan feddiant arno ei hunan: pob gallu, pob teimlad, tymher, a blys, yn ein natur â’r ffrwyn yn eu gweflau, ac awenau hono yn nwyllaw cydwybod a barn, tra y mae cydwybod a barn eu hunain o dan lywodraeth gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd. A chymeryd sobrwydd yn yr ystyr eang yma, mae argyhoeddiad dynion difrifol yn dyfnhâu o hyd fod lle mawr iddo gynnyddu hyd yn nôd ymysg proffeswyr crefydd. Mae cymdeithas fel pe byddai wedi rhedeg i ddau eithaf gwahanol: moethau ar y naill law, a thrueni ar y llall. Mae y dosbarth cyntaf, yn ein gwlad a’i threfydd poblogaidd, fel y llong odidog, i’w gweled yn nofio rhagddynt mewn llwyddiant, ond yn nofio uwch ben y fath ddyfnderoedd lleidiog o anwybodaeth a thrueni ag sydd tu hwnt i bob dychymyg. Tra mae y cybydd yn tyru golud, a’r moethus yn pesgi ei hun ar fwydydd a diodydd cryfion—ein benywod hwythau yn gaethion i ffasiynau yr oes, ac yn byw bron i orwychu eu personau, ac i addurno eu tai—mae lliaws yn y dosbarth isaf o gymdeithas, ar y llaw arall, wedi suddo islaw yr anifail ei hunan. Erbyn ond i ymylon y gorchudd gael eu codi oddiar eu hwyneb, y mae y fath anfadrwydd o drueni a barbareidd-dra yn d’od i’r golwg, fel ag y mae y llywodraethwr a’r dyngarwr, y cristion a’r athronydd ynghyd, yn troi oddiwrtho gyda dychryn ac arswyd. Eto mae gobaith i Brydain yn y peth

hwn. “Nis dylem byth,” medd un ysgrifenydd, “anghofio fod i'r oesoedd hyn, nid yn unig amddiffyniadau, ond ffynnonau o adnewyddiad yn agored, y fath nad oedd yr oesau cyn Cristionogaeth yn meddu arnynt. Yr un dynion ag sydd yn fwyaf gwastraffus yn eu gwaith yn addurno eu hanneddau eu hunain, ydynt yn aml y rhai blaenaf i ddarparu gwell tai, ac i ddysgu gwell ffordd o fywyd teuluaid, i'r tlodion. Mae yr oll o'r natur yma fel halen i gymdeithas, pa un hebddo a fuasai yn cyflymu i lygredigaeth; ond y mae y drwg er hyny (moethau a gwastraff) mor anferthol, a'r tueddiad iddo mor benderfynol, fel ag yr ydym yn credu nad oes dim ond fflangellau lawer o law rhagluniaeth yn ddigonol i'n hiachâu. Pa nifer o'r fflangellau hyny a raid i ni eu dyoddef, a pha mor drymion mae yn rhaid iddynt fod, a ddibyna ar y dull ymha un y cymerwn ni rybudd, ac ar nerth y rheolaeth ag y dichon crefydd ein galluogi i'w hymarfer ar dueddiadau i ba rai y darfu i hen drigolion y byd ar unwaith aberthu eu hunain a'u bywyd cymdeithasgar.”

Onid allwn ni obeithio, erbyn hyn, fod un o leiaf, o brif ddrygau yr oes, wedi derbyn ei ergyd marwol? Yr ydym yn meithrin yr hyder fod syniadau cymdeithas, yn araf deg, yn newid o barth i'r diodydd cryfion; a bod y dull cyson o'u defnyddio hwy, yr hyn yn ddiammheu a arweiniai filoedd i feddwod a phob gormodedd, bellach yn ddirmygus yn ngolwg dynion, ac yn syrthio yn brysur o ymarferiad. A gawn ni, ynte, attolwg arnoch chwi sydd yn rhieni am ddwyn eich plant i fyny yn ddirwestwyr da? “Cyhyd ag na byddom ni byth yn arfer y diodydd meddwol, yr ydym, wrth gwrs, yn ddiogel oddiwrth y perygl o'u camddefnyddio hwy; a phan yr ystyriom mor fawr, mor amrywiedig, ac mor swynol ydyw y perygl hwnw, ymddengys mai rhan doethineb ydyw dysgu ein pobl ieuainc i'w ochelyd yn hollol. Ac yn wir, nid yw y ddyledswydd gymhwys hon yn cael ei chyfyngu i'r ieuencyd yn unig. Gwyddom yn dda y bydd raid cyd-ddwyn llawer â hen arferion sefydlog dynion wedi myned ymhell ar eu dyddiau; eto pan ystyriom y fath dorfeydd anferth o'n cyd-ddynion sydd yn syrthio beunydd yn aberthau i'r diodydd meddwol; pan edrychom ar gynnulliad ofnadwy yr elusendŷ, y gwallgofdŷ, a'r carchar—yr hyn allan o bob dadl sydd yn effaith y diodydd hyn; pan gariom ein golygiadau

ymhellach, a meddwl am y miloedd, i.e., y miliynau, pa rai ag y bu y gwlybyroedd alcoholaidd yn foddion i'w suddo (fel mae genym le i gredu) i ddyfnderoedd diwaelod tragwyddol drueni—dilys ydyw fod genym ddigon o resymau i'w gadael heibio yn hollol." Wrth ystyried fod syniadau o'r fath yma yn cael eu cyhoeddi bellach yn gyffredinol yn Lloegr, a hyny gan bendefigion ac awdurdodau y wlad, a ydyw yn ormod i ni apelio atoch chwi, y dosbarth mwyaf crefyddol ac anrhydeddus yn Nghymru, am eich dylanwad a'ch cynnorthwy yn y diwygiad mawr hwn? Mae y werin yn ymdrybaeddu mewn meddwdod ac anghymedroldeb, ac eto er ys blynyddau bellach yn arwyddo yn flin o'u sefyllfa; ceir lliaws o honynt yn y dyddiau hyn, fel yr anifail mud yn y gors, yn dychlamu ac yn ysboncio mewn pryder, ac yn gwneuthur ymdrechïadau gorchestol yn wir i geisio ymlusgo o honi i dir sych. A wrthodwch chwi estyn llaw o gymhorth iddynt, hyd y goddefo iechyd ac amgylchiadau i chwi wneuthur hyny? Onid ceidwaid eich brodyr ydych chwi? "Don't blink that question now," medd *Professor Miller*. "You may put it aside; but you cannot put it away. It will, it must, come again; if not before, it will confront you on 'that day' when all power of settlement is for ever past." Digon tebyg ydyw fod anghymedroldeb yn dechre yn llawer cynt nag y mae dynion yn chwannog i feddwl. Mae yn ffaith anwadadwy, pa fodd bynag, fod yr ymyfwyr mwyaf cymedrol o'r diodydd alcoholaidd, os yn eu harferyd yn gyson, yn yfed llawer mwy na'r dirwestwyr; ac felly hefyd y gwnai y dirwestwyr eu hunain, cyn gadael y gwlybyroedd hyny. a chyfyngu eu hunain yn unig i'r dwfr glân fel eu diod gyffredin. Pa beth a feddylwch chwi o hyny? Onid yw yn alwad i wylïadwriaeth? Sicr yw fod yn y pethau hyn dentasiwn beryglus i laweroedd, a bod eu hudoliaeth a'u swyn yn alluog i ennill, i.e., ar y goreu o ddynion, a hyny yn ddiarwybod iddynt. A ydych chwi yn teimlo eich hunain yn myned hoffach, hoffach, o'r diodydd cryfion? A oes yna rywbeth fel yn dysgwyl am danynt yn eu hamser? A ydyw yr amddifadrwydd achlysurol o honynt yn myned yn fwyfwy blin i chwi? Ac yn enwedig, a oes yna ddirgel duedd yn cryfhâu o'ch mewn i'w hyfed yn fwy mynych, ac i ychwanegu y dogn arferol mewn trefn i gyrhaeddyd yr un effeithiau? Wel, croeswch eich hunain, fel y dywed y Pabyddion;

neu yn hytrach, ffowch at Grist croeshoeliedig; mae y diafol—y diafol o anghymedroldeb—gerllaw. Nid yw dyn ddim yn gweled ei berygl yn aml nes dyfod o hono. Ac y mae yn ddiammheu genym pe byddai dynion fel hyn, yn enwedig dynion crefyddol, ond yn llwrymattalwyr yn unig am ychydig o amser, y byddent wrth edrych yn ol, a chofio eu hymarferiadau presennol gyda y diodydd cryfion, yn teimlo, yn yr olwg ar eu perygl, a'u rhagluniaethol waredigaeth, gydnabyddaeth yn meddiannu eu calonau, a hono yn llawn o arswyd a braw, yn gyffelyb i'r dyn a elai drannoeth y bore i adolygu y clogwyn ofnadwy, dros yr hwn na bu ond y dim rhyngddo â syrthio y noswaith o'r blaen.

Mae eto rywogaeth o anghymeroldeb ag y gallem gyfeirio ato, oddiwrth ba un, os yw bosibl, y mae ein peryglon yn fwy dychrynlyd fyth, yn enwedig peryglon ein pobl ieuainc. Byddai dyweyd ei fod yn fwy ffynadwy ymysg y Cymry nag mewn parthau eraill o'r wlad yn hollol anwireddus a disail. Ac eto mae yn rhaid cyfaddef bod rhyw warthnod wrtho ei hunan arnom fel cenedl yn y peth hwn. Mae hen arferion wedi dwfn reddfu yn ein plith, pa rai sydd yn anafu llawer o'n hieuenctyd o bryd i bryd; ac y mae yn ddigon sicr i chwi, tra y byddo yr arferion hyny yn parhâu, na bydd purdeb hyd yn nôd y dosbarth mwyaf gobeithiol o honynt byth yn ddiogel. Mae yn ddiammheu y dylai rhieni, ac athrawon ieuencyd yr oes, fod yn ddyfal iawn i feithrin rhinwedd yn eu meddyliau wrth eu dwyn i fyny; amcanu at reoleiddio eu cymdeithas â'u gilydd, a'u cadw hyd y mae yn bosibl o'u mabandod oddiwrth bob ymddyddanion ac ymarferiadau llygredig, pa rai sydd yn tueddu i galedu y gydwybod, ac i ddinystrio gwylder a phob iawn deimlad o'u mynwesau, ac felly yn eu rhagbarotoi i syrthio yn ysglyfaeth i demtasiynau y cnawd. Gofynai lodes fach unwaith i'w nain, pan oedd y tŷ yn llawn o ddeithriaid, "Sut yr awn ni i gysgu heno, nain?" i'r hyn y prysurodd gŵr ieuanc ag oedd yn bresennol i ateb, yn rhy gellweirus, mae yn wir, ond mewn dull ag y buasai lliaws yn Nghymru yn ei ystyried yn berffaith ddiniwed. Ond nid felly y plentyn, pa fodd bynag. Yr oedd hi wedi ei chadw yn wastad gan ei mam ymhell o gyffiniau pobpeth croes i wylder a choeth-cidrwydd, a'i dysgu i edrych ar bob gair yn y cyfeiriad hwnw



yn hollol anweddaidd i glustiau benyw; ac am hyny hi a syllai yn wyneb yr atebwr gyda syndod a chwithdra. Pan gafodd gyfleusdra, adroddodd yr hanes i'w mam, yr hon, wedi clywed, a basiodd y peth heibio gyda sylw byr, ond o natur mor gyrhaeddgar, a chydag ysbryd mor hallt, fel y diflanodd y gŵr ieuanc o dan y cerydd, a dywedai nad anghofiodd byth mo'r amgylchiad. "Gellwch fel hyn," meddai Philip Henry, mewn llythyr at un o'i ferched, ar ei gwaith yn ffurfio cyfeillach â dyn ieuanc—"gellwch fel hyn (meddai) roddi eich cymdeithas i'r gŵr ieuanc yn achlysurol, ond gofalu am wneuthur felly mewn amser, dull, a than amgylchiadau priodol; yn amgen i hyny, megys nas gofynir o'i du ef, felly ni ddylai gael ei ganiatáu o'ch tu chwithau." Yr ydym yn crybwyll yr hanesion bychain yma fel esiampl i benau teuluoedd o'r hyn y cymhellem hwynt iddo yn y llinellau uchod. Ewch chwithau, rieni, a gwnewch yr un modd. Byddai hyny, yn ddiammheu, pe ceid ef yn gyffredinol drwy deuluoedd ein gwlad, yn llawer o wywdra i'w hen arferion llygredig hi, ac yn ddiogelwch mawr ar anrhydedd a moesau ein pobl ieuainc. Gadäwn hyn gyda dyweyd wrthynt hwy, "Chwantau ieuencyd, ffo oddiwrthynt." Mae eu swynion yn fawr, ond eu heffeithiau yn adgas a dinystriol i gorff ac enaid. Diar. v. 5—23. Cofiwch fod pob tro ag y gorchfygwch chwi y demtasiwn, yn gwanychu y tueddiadau llygredig, ac yn chwaneu nerth at eich rhinwedd. Wedi i chwi unwaith ymsefydlu mewn rhyw ymarferiad rhinweddol, bydd yr ymarferiad hwnw drachefn yn y canlyniad yn troi yn swcr i chwithau yn erbyn y drwg; fe ä y demtasiwn iddo yn wanach, wanach, yn ei hymosodiadau arnoch, a'r meddwl yn gryfach, gryfach, i'w gwrthwynebu. Yn y gydwybod a'r meddwl yn ddiau y mae llywodraethiad y blysiâu corfforol i ddechre; ac yn wir, hwynt-hwy, trwy ras Duw, fel y dywed un awdwr, sydd i'w cadw yn eu lle o hyd. Ond bydd yn hawdd, mewn cymhariaeth, iddynt wneuthur hyny wedi i chwi unwaith ymsefydlu mewn ymarferiadau cymedrol. Fe gyll yr archwaeth ei orchwant i ddanteithion, ac fe ddaw y cylla i ymwrthod yn naturiol â phob gormodedd, ac fel hyn yn fuan, ni chaiff dyn cymedrol ond ychydig o drafferth gyda'i flysiâu anifeilaidd.

4. Y rhinweddau nesaf a grybwyllwn ydyw yr ymarferiadau o ddiwydrwydd, cynnildeb, a rhagddarbodaeth. Mae y pethau

hyn goruwch y creaduriaid direswm, ni a wyddom. Ynghylch yr anghen presennol y maent hwy yn ymdeimlo yn gwbl. Neu os oes rhai o honynt yn ddiwyd i ragddarbod gogyfer â'u hanghenrheidiau mewn tymmor arall, eto ysfa y fynyd yn unig sydd yn eu cymhell i hyny, ac nid un amcan gyda golwg ar y dyfodol. I ddyn, a neb arall, y perthyn rhagddarbod yn ddeallus; mae efe yn alluog, nid yn unig i ymdeimlo â mwyniant y fynyd bresennol, ond hefyd i edrych ymlaen a chrynhöi ei egni a'i holl ymadferthoedd at y gorchwyl o sicrhâu iddo ei hunan ddiogelwch a mwyniant, mewn amgylchiadau ag y mae yn rhagweled ei hunan ynddynt. Ac eto mae pechod wedi anmharu dyn yn fawr yn y peth hwn. Os caiff ei adael yn gwbl iddo ei hunan, i bleser y fynyd yn unig yr ymrodda yntau. Ië, y mae mor ddiystyr o amgylchiadau dyfodol, a hyny yn aml gyda golwg ar y byd hwn, yn gystal a'r hwn a ddaw, fel y cawn ef yn y Bibl yn cael ei anfon at y creadur direswm ei hunan i ddysgu gwersi buddiol o ddiwydrwydd a rhagddarbodaeth. Mae yn syndod meddwl mor ddwfn y gall dyn suddo i'r syfrdandod hwn. Dim ond i chwi ei fagu ef yn anwybodus, a gwastraffus, a dioglyd ei arferion, ac iddo yn y canlyniad syrthio yn gaethwas i'w chwantau drygionus, ac fe fydd dyn bron yn gwbl mor ddiddarbod drosto ei hunan â'r anifail. "Godineb, a gwin, a gwin newydd, a ddwg y galon ymaith," medd y prophwyd. Meddyliwch, er esiampl, am gyflwr llaweroedd yn y wlad hon. Er eu bod yn wastad mewn tlodi, ac ar adegau yn syrthio i gyfyngderau dirfawr, eto maent o hyd yn glynu wrth eu hen arferion annhrefnus. Y fynyd y byddo y wasgfa drosodd, ac iddi wella gronyn ar eu hamgylchiadau, chwi a gewch eu gweled yn gymhwys fel cynt, yr un mor afradus a gwallgof gyda eu chwantau pechadurus—neb yn meddwl am ddarbod dim erbyn awr o gyfyngder. Mae y fath yma o bobl bob amser, naill ai yn gwastraffu ai yn llewygu; ac er i chwi eu pwyo mewn mortar â phestl ymhlith gwenith, eto nid ymedy eu ffolineb â hwy. Ddoe yr oedd y dyn heb damaid o ymenyn i'w roi ar ei fara; heddyw mae yn ei ddwbio arno fel mortar ar y briddfaen; tybiech na welodd efe anghen erioed. Yr wythnos ddiweddaf, nid oedd ganddo prin farworyn o dân ar ei aelwyd; yr wythnos hon, mae yno ddigon, fel y dywedir, i rostio eidion; a'r holl reswm am y gwahaniaeth ydyw, bod rhywun mwy hael-

frydig na'u gilydd wedi rhoi cant neu ddau o lo i'r dyn mewn ffordd o elusen ; a dyna fe, edrychwch arno, yn ei losgi ef fel pe byddai ganddo gan' tunnell o hono, neu fel pe mai ei afradu a fyddai y ffordd i'w wneyd ef yn fwy. Yr ydych yn son am fwy o ryddid a llywodraeth i'r bobl. O na chaem ieuencyd un oes o dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr i ddechre ! O na chaem un genedlaeth o rieni a phenau teuluoedd yn medru "llywodraethu eu tai eu hunain yn dda, yn dal eu plant mewn ufudd-dod, ynghyd a phob onestrwydd—heb gael y gair o fod yn afradlawn nac yn anufudd !" Wrth ddywedyd hyn, peidiwch a meddwl ein bod ni yn diystyru iawnderau neb mewn gwlad nac eglwys. Ond y mae yn rhydd i ni ddywedyd, er hyny, am y diog a'r diddarbodus, nad yw ei lwyddiant ef ddim yn dibynu ar y pethau hyn. Mae yn rhaid i chwi waredu hwnw a'i iawnderau o feddiant ei chwantau gorthrymus a'i ddrwg-arferion ei hunan, cyn y symudwch chwi wir achos ei drueni. Rhaid gwella y dyn mewn trefn i wella ei amgylchiadau.

Ond i fyned rhagom. Mae crefydd, ni a wyddom, yn dysgu dyn i fod yn rhagddarbodus. Y peth cyntaf a wna hi ydyw ei godi ef i ragddarbod erbyn tragywyddoldeb, ac y mae hyny yn ddo ei hunan yn tueddu i'w wneyd yn fwy meddylgar am bethau amser. Yr un difrifwch ag sydd yn ei ddysgu yn y byd hwn i barotoi at y byd a ddaw, a'i dysg ef hefyd yn y naill amgylchiad ar ei oes i ragddarbod gogyfer âg amgylchiadau eraill, megys mewn ieuencyd ar gyfer henaint, ac mewn iechyd a llywyddiant erbyn yr amser pan y byddo adfyd a chystudd wedi ei oddiweddyd. Ac nid hyny yn unig, ond y mae crefydd hefyd yn athrawiaethu y pethau hyn yn bendant. Yn y Bibl maent yn ddyledswyddau, heb ddim llai nag awdurdod Duw yn rhwymo y dyn i'w cyflawni. Yno chwi a gewch fod y llwyddiannus yn cael ei alw i achub ei gynauaf, ac i roddi tipyn heibio erbyn amserau gwahanol, a'r dyn ieuanc yntau yr un modd i ymbarotoi yn ei sefyllfa sengl erbyn dydd ei briodas. "Darpara dy orchwyl oddiallan," medd Solomon, "dosbartha ef i ti yn y maes ; ac wedi hyny adeilada dy dŷ ;" hyny yw, prioda dy wraig, ac ymsefydla yn y sefyllfa deuluaidd. "Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn ; edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth. Nid oes

ganddo neb i'w arwain, i'w lywodraethu, nac i'w feistrolï; ac er hyny mae efe yn parotoï ei fwyd yr haf, ac yn casglu ei luniaeth y cynauaf." Yn y Testament Newydd, drachefn, mae yr annogaethau i ofal a diwydrwydd gydag amgylchiadau bydol yn rhy liosog i'w crybwyll. Cymerwch yn unig eiriau hygof yr Arglwydd Iesu ar y mater. Ynddynt, mae yn dysgu ei ddysgyblion hyd ddiwedd amser, yn lle gwastraffu rhoddion rhagluniaeth, i edrych am eu defnyddio yn sobr, a gofalu am arfer cynnildeb, hyd yn nôd pan y byddont yn nghanol rhadlonrwydd a digonoldeb. "Cesglwch," ebe efe, newydd borthi miloedd âg ychydig fara—"cesglwch y briwfwyd gweddill, fel na choller dim." Dyma ei gyfraith ef i'w ganlynwyr. Aneirif yw yr achlysuron ag y gallem ei chymhwyso hi atynt gyda mantais i ni ein hunain a'n teuluoedd. Ni a obeithiwn nad diystyr genych, rieni, fydd dysgu eich plant yn yr ymarferiad hwn—cario allan gyfraith y Gwardedwr i'r manion lleiaf. "*Na choller dim.*" Bydded hyn megys arwyddair y teulu. Llosgwch bob canwyll hyd at y canwyllbren heb ei gwastraffu—fel na choller dim. Os yw y llinyn sydd yn rhwymo y sypyn nwyddau a ddaeth i'ch llaw heddyw yn werth yr amser i'w ddattod, peidiwch a'i dori—fel na choller dim. Ac yn lle dyfetha, hyd yn nôd y papyryn diwerth sydd ar y llawr, parot-öwch ef i gynneu y tân, neu i oleuo y ganwyll; ië, cedwch y gweddill o hono i'w goleuo hi drachefn—fel na choller dim! Ni a welsom rai cyn hyn mor annyoddefol eu teimlad i wastraffu, fel, os na byddai dim gwell i wneyd âg ef, y bywtäent y tamaid a fyddai yn ngweddill o'r ymborth, bron heb ei eisieu, yn hytrach na gadael iddo fyned yn ofer. Ac wedi gwneyd hyny, byddent yr un mor ofalus, drachefn, am gario y briwision i'r aderyn bach, fel na byddai i ddim gael ei golli. Mae yn beryglus, yr ydym yn addef, rhag i ymarferiadau cynnil fel yma lithro i gybydd-dod a chrintachrwydd. I'n cadw rhag hyny, dylem, nid yn unig ymofyn am bethau gwell i'n serchiadau na phethau y byd hwn, ond ymarfer ein hunain hefyd i elusengarwch a haelioni gyda hwy; ië, yn ol y cyfarwyddyd ysgrhythrol, gwneyd hyn yn gymhelliad i'n llafur,—“gweithio â'n dwylaw yr hyn sydd dda, fel y byddo genym beth i'w gyfranu i'r hwn y mae anghen arno.” Wel, ynte, penderfynwch yn eich

meddyliau y dylai pob dyn, beth bynag yw ei sefyllfa, fod yn gynnil; byw islaw ei ardreth, a pheidio gwario ceiniog yn ofer. “Mae yn rhaid i ni oll gofio,” medd un awdwr, “fod einioes yn llawn o gynnewidiadau, ac nad yw mewn un modd yn ddiogel rhag cyfyngderau. Er diogelwch, gan hyny, dylai pob dyn, o'r gwael i'r gwych, os yw bosibl, ddarparu tipyn wrth ei gefn. Mae yr arferiad o roi rhywfaint heibio o'n cyllidau, pa mor lleied bynag fyddo ei swm, yn un ag y dylai pobl ieuainc, ie, a phlant hefyd, gael eu hyfforddi ynddi yn ofalus.” Ac meddai drachefn, “Mae trefnidaeth yn ein dysgu i gynnulo y gyfran hono o'n cyllid ag y mae ein hamgylchiadau yn ei gyfiawn ofyn; geilw hefyd am y fath ofal a doethineb, y fath gywirdeb ac iawn reolaeth yn ein treuliadau personol a theuluol, yr hwn a edy i ni weddill teilwng, i ateb i alwadau haelioni er dygiad ymlaen leshâd tymmorol ac ysbrydol ein cyd-ddynion. Trefnyddwr (*economist*) da yw hwnw, mewn ystyr arianol, yr hwn a gasgla yn ddigonol, a waria yn ddoeth, ac a gyfrana gyda barn, parodrwydd, ac effaith.”

Wrth ddarfod â hynyma, ni a ddymunem annog pobl ieuainc yn neillduol i benderfynu, hyd ag y mae ynddynt, i gadw eu hannibyniaeth. Gweithiwch drwy lonyddwch, a bwyteuwch eich bara eich hunain. Chwi a ellwch fod yn sicr nad digysur i chwi mewn henaint fydd cofio, wrth adolygu eich heinioes, ddarfod i chwi fyned drwy y byd heb fentyca, na chardota, na phwyso ar neb; bod y dwylaw hyn, fel y dywedai yr Apostol, wedi gwasanaethu i'ch cyfreidiau chwi a'ch teuluoedd. Mae yn gofus genym ddarllen rywbyrd am yr hen Ddr. Johnson, pan yn efrydwr tlawd yn Rhydychain, y gwelid ef weithiau yn nyfnder y gauaf yn cerdded yn öfn ar hyd yr heolydd â'i draed drwy ei esgidiau. Gŵr bonedig, ar ryw dro, wedi sylwi arno felly, a osodai bâr newydd yn ddystaw wrth ddrws ei ystafell. Yn y man dyma yr efrydydd esgyrniog allan, ac wele efe yn codi yr esgidiau i fyny; yn ysbïo arnynt yn lled ddrwgdybus, a'r humanymddibyniad ystyfnig yn dechre llosgi yn ei fynwes. “Pa beth? pâr o esgidiau mewn ffordd o elusen! Na, nid felly ychwaith. Mi a fedraf wisgo esgidiau â'u safnau yn agored, yn yfed dwfr, ac yn bwyta llaca; ond dim begeriaeth i mi;” ac ymaith â hwy drwy y ffenestr. Balchder y cyfrifa y llwfrddyn



diegni ymddygiad fel hyn. A llawer gwaith y clywsom ef yn ei gyhoeddi felly. Wrth weled ei gymydog tlawd yn gwingo ac yn rhoi pob gwyn ar ei eithaf i gadw ei annibyniaeth, yn hytrach na thafflu ei hunan a'i deulu ar y plwyf, balchder yw y cyfan yn ei olwg ef: onid yw y plwyf, meddai, yn ddigon abl? Wel, pa faint o falchder sydd yn ymgymysgu â theimladau goreu dyn, nis gwyddom ni. Ond yr ydym yn sicr o hyn, fod y teimlad o annibyniaeth yn deimlad anrhydeddus; a hapus yw y gymdeithas hono ag y mae yn ffynu ymysg ei haelodau. Os gwelwch chwi ddyu ieuanc wedi colli y teimlad hwn, ac yn dechre ymgymmodi yn ei feddwl â bod mewn dyled, benthyca, a llygadrythu am elusen, chwi a ellwch ganu yn iach i'r dyn ieuanc hwnw; mae ei dynged ef wedi ei sicrhâu; un o gynblant segurddod a thlodï yw efe. Ac yn wir, nid oes dim mwy afresymol o dan y ffurfafen na gorfodi y diwyd i gynnal y fath un. Os nad ymdrecha yn ol ei allu, bydded farw yn ol ei anghen. Dyma ddeddf Cristionogaeth ei hunan, enw yr hon yw trugaredd a gras: "Y neb na fyno weithio, na chaed fwyta chwaith."

5. Nid llai gwerthfawr eto ydyw yr ymarferiad o ymddarostyngiad ac ufudd-dod. Yr oedd y rhinwedd yma mewn mwy o gyfrif yn y byd, dybygid, yn yr oesoedd a aethant heibio nag ydyw yn bresennol. Mae gorthrymder, o bosibl, wedi dinystrio y parch dyladwy i bob awdurdod. Os ydym yn iawn gofio ei sylw, mae y Dr. Vinet, y dwfnfeddyliwr hwnw, yn dyweyd yn rhyw ran o'i ysgrifeniadau—bod y gair ufudd-dod eto heb ei golli o ieithoedd y byd, ond bod y rhinwedd ei hunan, am ba un y mae yn sefyll, bron wedi diflanu o fysg ei drigolion. Awdurdod sydd yn ymddangos yn deg i blant dynion; ac o'u traserch i hwn, mae ufudd-dod wedi myned yn ddirmygus yn eu golwg. Ond, wedi y cyfan, i ufuddhâu, yn hytrach nag i lywodraethu, y crëwyd dyn. Iawn ymarferiad ei ewyllys yw ymddarostyngiad. Ac yn wir, ni ddylai dyn ymgymeryd â lle o lywodraeth hyd nes y delo hyny yn weithred o ufudd-dod ynddo, a'r ymwrthodiad âg ef yn anufudd-dod a gwrthryfel. A'r un ffunud wrth ymarfer ei awdurdod, drachefn, ufudd-dod a ddylai hyny fod mewn dyn. Hyny yw, cydwybod i'w ddyledsdydd, a theimlad o rwymedigaethau ei sefyllfa, a ddylai fod ei gymhelliadau i weithredu ac i ymarfer ei lywodraeth, ac

nid cariad at awdurdod er ei fwyn ei hun. Ysfa yw hwnw ag y dylem yn wastad ei farweiddio yn ein calonau. Mae yn wir nad ymddarostwng y cristion i neb ond yn ofn Duw. Ond y mae y Duw, yr hwn a'i gwnaeth ef fel hyn yn annibynol ar bawb, wedi ei wneuthur ef hefyd yr un amser yn was i bawb. Geilw am ymddarostyngiad oddiwrtho, nid yn unig i awdurdodau naturiol a gosodedig, megys rhieni, a llywodraethwyr mewn gwlad ac eglwys, ond hefyd i bob dyn. Mae ei ewyllys i fod yn aberthedig ynddo i ewyllys ei gydgreddur-iaid, a'i fywyd i fod yn un ystod o hunanymwadiad i'w lleshâd. Beth lai na hyn a gynnwys y gorchymyn—"Gan ymddarostwng i'ch gilydd yn ofn Duw?" Ond O mor bell yw ein hysbryd ni, ac ysbryd yr oes yr ydym yn byw ynddi, o'r tir hwn! Mae yn rhaid ein haileni mewn trefn i'n dwyn iddo. Cofiw, er hyny, fod y Duw, yr hwn sydd yn gweithio dynion i hynyma, yn eu gweithio iddo trwy foddion; a'n dyledswydd ni ydyw bod yn ddyfal i feithrin y tueddfryd hwn ynom ein hunain ac yn ein gilydd.

Dylai rhieni yn neillduol ofalu mewn pryd am berffaith fuddugoliaeth ar ewyllys eu plant. Dylent benderfynu y cwestiwn ar unwaith, Pwy sydd i fod yn ben? A dedwydd, yn wir, fydd y rhieni a ennilliant, a'r plant a gollant, y fuddugoliaeth yn y frwydr hono. Byddai Hall o Bristol, medd yr hanes, yr hwn a ystyriai yr awdurdod rienyddol yn batriarchaidd iawn, yn gofidio yn fynych o herwydd y cyfnewidiad ag sydd wedi cymeryd lle yn ystod y deugain mlynedd diweddaf yn attaliadau a rhwymau yr awdurdod deuluaidd: cwynai nad oedd dynion ieuainc yn awr ddim o dan yr un fath ddysgylaeth a meistrolaeth â chynt, ac os oedd ein hen dadau, y Puritaniaid, yn rhy anhyblyg, fod eu hiliogaeth, o'r ochr arall, yn rhy rydd. Hwyrach fod gormod o wir yn hyn, ac mai dyma ydyw yr achos fod ieuenctyd yr oes, yn gyffredin, yn hyfach eu hysbryd a'u harferion, ac yn fwy annyoddefol o bob iau. Pa fodd bynag, fe ellir gobeithio, os caiff plentyn ei ddal mewn ufudd-dod i'w rieni o'i febyd, y bydd efe, erbyn y tyfo i fyny, wedi ymreddfu yn y dymher hono, ac o ganlyniad y bydd yr ufudd-dod dyladwy i bob awdurdod arall yn fwy naturiol iddo dros weddill ei oes. Edrychwch arno ef yn yr ysgol, mae yn ufudd yno; a'r un modd, fel aelod o'r eglwys neu

y wladwriaeth, mae yn parchu trefn a llywodraeth ymhob man. Ié, ni a allwn ychwanegu, a dyweyd mai yr ymarferiad hwn o ufudd-dod o'r mebyd ydyw y rhagbarotôad goreu a all dyn gael i iau yr Arglwydd Iesu ei hunan, ac nid yn unig i'r iau esmwyth hono, ond hefyd i gyfarfod â holl amgylchiadau anhyblyg einioes, a meistrolaeth galed y byd hwn. "Da yw i ŵr ddwyn yr iau yn ei ieuencyd," medd y prophwyd; "efe a eistedd ei hunan, ac a daw â son, am iddo ei dwyn hi arno. Efe a ddyry ei enau yn y llwch, i edrych a oes obaith. Efe a ddyry ei gern i'r hwn a'i tarawo; efe a lenwir â gwaradwydd." Cyfeiliornad mawr, gan hyny, mewn pobl ieuainc, yw edrych ar ufudd-dod fel peth gwasaidd ac isel. Pa beth! ai peth isel ydyw ymdebygoli i Iesu Grist? Ai peth isel mewn dyn, ac yn enwedig dyn ieuanc, yw ymwadu âg ef ei hun mewn trefn i foddhâu eraill? Ai peth isel yw caru Duw a'n cydgreaduraid? Na, chwi a addefwch fod y teimlad yma, o leiaf, yn deimlad anrhydeddus a dyrchafedig. Wel, mae ymddarostyngiad ac ufudd-dod yn hanfodol i gariad ynom ni, a hyny, nid yn unig i Dduw, ond yn enw Duw i'n cyddynion hefyd. Byddwch sicr, ynte, mai un o'r blodau prydferthaf yn eich cymeriad yw ymddarostyngiad. Pe baech chwi ond yn sylwi ar y byd o'ch cwmpas, chwi allech weled fod hyd yn nôd y dynwarediad o hono, yn yr hyn a elwir yn foneddigeiddrwydd a moesgarwch, yn hoffus iawn i edrych arno, ac o werth mawr i gymdeithas yn gyffredinol. Ac os yw yr ymddangosiad, fel y sylwa Robert Hall, o'r fath bwysigrwydd, pa faint mwy defnyddiol a fyddai y peth ei hun? Os yw dim ond y wêdd o ostyngeddwrwydd o'r fath anheborol anghenrheidrwydd, fel pe hebddo nas gallai cymdeithas sefyli wrth ei giyydd, pa faint well eto y cai cydgoridiad y byd ei gadw pe byddai yr ymostyngiad, yr anrhydedd, a'r parch a amlygir mor chwannog, yn wir borthrêad o'r galon? Wel, i hyn yr ydym yn eich cymhell, bobl ieuainc. Meithrinwch y dymher yma ar eich calonau, ac ymarferwch eich hunain i'r holl ymddygiadau llednais hyny, pa rai a gymhellir arnoch yn yr Ysgrythyrau. "Cyfod o flaen penwyni, a pharcha wyneb henuriad. Mewn cariad brawdol, byddwch garedig i'ch gilydd; yn rhoddi parch, yn blaenori eich gilydd." Chwi a ellwch fod yn sicr y bydd agweddau fel hyn ar eich ysbryd yn fwy dymunol i chwi eich hunain, ac yn eich

gwneyd yn llawer mwy prydferth a hoffus yn ngolwg eraill, na'r ffraethineb a'r hyfdra hwnw ag sydd yn hynodi llawer o ieuencyd yn yr oes hon. "Rhaid i ti fyned yn wir, Edward," meddai hen fam grynedig unwaith wrth ŵr boneddig a adwaenem, pan yr ymwrthodai âg ymyryd mewn rhyw achos anhapus yn y gymydogath,—“Rhaid i ti fyned yn wir, Edward.” “*Wel, 'mam, os ydych chiwi yn dyweyd y rhaid i mi fyned, mi a âf; ac oudê, nid âf fi ddim.*” “Wel, yr ydwyf yn dyweyd y rhaid i ti fyned; a gwna dy oreu i gadw y cymydogion yn heddychol.” Mae llawer blwyddyn er pan y dygwyddodd hyn; ond ni ddarfu i ni byth anghofio yr amgylchiad, oblegid fe ymddangosai i ni mor dlws.

6. Y rhinwedd olaf a gymhellwn ni arnoch chwi yn bresennol ydyw—tymher ac ymddygiadau caruaidd ac ennillgar. Nid peth yn perthyn i uchafiaid yn unig ydyw boneddigeiddrwydd, cofiwch. Beth arall mae yr efengyl yn ei gymhell ar ei deiliaid, pan y geilw hwynt i barchu pawb? “Byddai yn dda i ni,” medd un awdwr, “holi ein hunain yn wyneb y gorchymyn hwn; oblegid yn wir yr ydwyf yn ammheu a oes un gwirionedd ag y meddylir llai am dano, na'r un ddyledswydd yn llai adnabyddus na hon, hyd yn nôd ymysg cristionogion; ië, ymysg y blaenaf o'r rhai yr wyf yn eu cyfarch yn bresennol, fe ddichon fod llawer nad ydynt erioed wedi ystyried y mater.” Diammheu fod llawer o wirionedd yn y sylw hwn. Ychydig, mewn cymhariaeth, ydyw nifer y cristionogion hyny, pa rai y mae eu cynnydd mewn amaethiad a chrefydd mor fawr fel ag i gyrhaeddyd y lledneisrwydd hwnw mewn tymher ac ymddygiad yr hwn a gymhellir arnom yn yr efengyl. Er bod yn grefyddol, y mae y lliaws, rywfodd, yn rhy bwl ac anghoethedig eu teimladau i ganfod dim prydferthwch yn y rhinwedd hwn, nac i ymdeimlo â hwy eu hunain fel creaduriaid anhawddgar ac euog o herwydd eu hymddifadrwydd o hono. “*PERCHWCH BAWB.*” Nid talu rhyw addoliad i fawredd y byd, ond parchu dyn fel y cyfryw—y creadur a fawrhäodd Duw mor rhyfedd—ac felly parchu pob dyn: dyma y *politeness* y mae yr efengyl yn ei ddysgu i blant dynion. Ychydig, mae lle i ofni, yw ei hysgoleigion hi. Ond pw y bynag wyt ti, ddarllenydd, a pha beth bynag yw dy amgylchiadau, cofia fod gan dy gydgreddur ymhob sefyllfa

—y tlawd yn gystal a'r cyfoethog—dy deulu cystal ag estroniaid—hawl i fwyneidd-dra tymher, ac ymddygiadau parchus, oddiar dy law.

Hwyrach y dywedir wrthym fod naws ei ysbryd a'i dymherau yn bethau annibynol ar ewyllys dyn, a bod yr un mor ofer dyweyd wrtho am fod yn llon, hoffus, a charuaidd, ag a fyddai dyweyd wrtho am fod yn iach neu yn llwyddiannus. Ond ni a wyddom fod y Bibl yn dysgu yn amgenach. Mae efe yn gorchymyn y pethau hyn i ni, ac yn gwahardd y gwrthwyneb; mae yn siarad â dyn fel creadur cyfrifol yn yr achos yma—yn un â meddiant ganddo ar ei ysbryd ei hunan, ac un a ddylai, trwy ras Duw, geisio ei adnewyddiad ef. “Tyner ymaith oddiwrthych bob chwerwedd, llid, a dig, a llefain, a chabledd, ynghyd a phob drygioni. A byddwch gymwynasgar i'ch gilydd, yn dosturiol, yn maddeu i'ch gilydd, megys y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau.” Yn y gair fe'n gorchymynir i fod “yn dymherus, yn drugarogion, yn fwynaid; y gwŷr i garu eu gwagedd, ac i beidio bod yn chwerwon wrthynt; a'r hynafwagedd yr un ffunud i roddi athrawiaeth o ddaioni mewn tymher ac ymddygiad, fel y gallont wneuthur y gwagedd ieuainc yn bwylllog, i garu eu gwŷr, ac i garu eu plant.” Yr ydym yn cydnabod yn rhwydd fod tymherau dynion, mewn rhan o leiaf, yn dibynu ar eu cyfansoddiad naturiol hwy; mae y gwahaniaeth sydd rhyngddynt a'u gilydd o'u mabandod yn ddigon i brofi hyny. Ar yr un pryd, er fod natur, fel hyn, wrth wraidd y gwahaniaeth, mae llawer o hono hefyd, nid oes dim dadl, i'w briodoli i amaethiad. Ein hamcan ni, gan hyny, yn bresennol, ydyw ymofyn pa fodd y mae i ni ymarfer ein hunain i dymherau da? Pa beth sydd genym i'w wneuthur tuag at hyny? Mewn atebiad i'r cwestiynau hyn, yr ydym yn dyweyd ar unwaith, y dylem, ymlaen pob dim, amcanu at gael llywodraeth ar ein hysbryd ein hunain. Pa mor gryf bynag y byddo ymweithiad ein nwydau drwg mewn temtasiwn, ni a ddylem, drwy ras Duw, ymdrechu i'w cadw mewn darostyngiad: gwyllo na chaffont dori allan yn ormodol ar achlysuron felly, a rhoi eu tôn ar ein llais, eu lliw ar ein hwyneb, a'u hawch gwenwynig ar ein hymadroddion. “Creulawn yw llid, fel llifddwfr yw digofaint,” medd y gair; mae yn barod i gario y cyfan o'i flaen; ac os gwir ydyw mai caniatâu



iddo redeg allan mewn dull doeth a chymedrol yw y ffordd oreu i dreulio ei nerth ef, ac i ddiogelu ein hunain oddiwrth ei ddrwg effeithiau,—eto, sicr yw nad oes dim yn galw am fwy o brysurdeb i'w darostwng, nag ydyw ymgynhyrfiadau digofaint yn ein myn-wesau. “Digiwch ac na phechwch,” medd y gair. Bydded yr amlygiad o'ch digofaint yn sanctaidd; yn tueddu, nid i'w ennynu, ond yn hytrach i symud yr achos o hono, ac felly i'w ddiffoddi yn ebrwydd yn y galon. Ymgedwch ynddo yn gydwobodol oddiwrth y gair caled, y ffroen wawdus, y llygad a'r wên watworllyd a digllawn; mewn gair, oddiwrth bob dull ac ymddygiad trwy ba rai y gall ein nwydau terfysglyd arllwys eu hunain allan yn afreolaidd a pechadurus.

Sylwch ymhellach: os bydd dyn ar unrhyw bryd, pan y teimla yn annhymherus ei ysbryd, yn ymegniö yn erbyn hyny, ac yn gorfodi ei hunan i ymddwyn fel pe byddai mewn tymher wahanol, dyweder, yn llon a charuaidd,—os nad ydym yn camgymeryd yn fawr, mae tuedd yn yr egni hwnw i ddeffro y teimlad priodol iddo ei hunan yn y fynwes, ac i ddwyn y dyn o'r naill dymher i'r llall. Bwriwch eich bod chwi ar yr aelwyd, ryw noswaith, yn afrywiog a drwg eich anian; wel, dirgymhellwch eich hunain, yr amser hwnw, i edrych yn llawen, i ganu hymn, neu i gydymddyddan yn serchog a mwynaidd gyda y teulu, ac yn ebrwydd iawn chwi a brofwch fod ysbryd y pethau hyn wedi disgyn arnoch;—bydd y Jonah anhydym, a'r Nabal surllyd a thaiogaidd, wedi cilio o'r dymher, a thynnerwch ac iawn deimlad wedi meddiannu eich mynwesau. Ac wedi gwneyd hyn unwaith, bydd yn haws ei wneyd drachefn; ac felly, yn raddol, fe ä y peth yn ymarferiad i chwi. Os yw hyn yn bod, i ryw fesur, O mor euog yw y dyn sydd yn ei esgeuluso; y dyn ag sydd beunydd yn gwenwyno ei hunan â meddyliau drwg, ac yn cadw gwrthddrych ei ddygasedd o flaen llygad ei ddychymyg, a hyny hefyd, mae lle i ofni, o dan yr holl ddrygliw hwnw ag y mae gelyniaeth a malais ei galon yn ei osod arno, ac felly yn lle marweiddio ei nwydau terfysglyd, i'r gwrthwyneb yn eu hennynu yn fwyfwy ynddo ei hun! O dan amgylchiadau o'r fath yma, nis gall lai na bydd holl droell naturiaeth, naill ai yn tori allan yn fflamau gorwyllt ar bob achlysur, neu ynte, yr hyn sydd yn llawn cân waethed, yn cael ei hysu a'i harteithio gan ryw fygedig fudlosgiad parhâus.

Mae y dyn weithiau yn ddywedwst, ac weithiau yn ddreng; weithiau fel y dymhestl aruthrol, ac weithiau fel y defni parhâus. Mae yn gwenwyno, cethru, llidio, cnoi, ïe, ysgatfydd, yn profi rhyw foddhâd bustlaidd i'w feddwl yn ei waith yn poenydio rhai eraill; ac fel hyn, o dipyn i beth, wrth eu hir feithrin, mae y gwyniau dieflig yma yn dwfnreddfu yn ei dueddiadau, ac yn troi yn dymher sefydlog ei ysbryd.

Mae lle i ofni fod rhywbeth yn arferion llawer o deuluoedd ag sydd yn anffafriol i barhâd y serchiadau naturiol. Rhwng rhieni a phlant, pan yn fychain, mae llawer o anwyldeb yn pasio; ond fel y cynnyddant, mae hyny yn darfod i fesur mawr: y rhieni, o'u tu hwy, yn myned yn fwy oer a diserch at y plentyn, ac yntau, o'r tu arall, yn fwy cywilyddgar ac yswil o'i serchiadau tuag atynt hwythau, gan edrych arnynt megys rhyw feddalwch plentynaidd ac anwesog; ac felly, yn raddol, mae y tynerwch hwnw, pa un a ymddangosai mor dlws ynddo pan yn ieuanc, yn gwywo ymaith o'i dymher fel blodeuyn teg mewn hinsawdd annhymherus, ac yn ei adael i ymsefydlu mewn oerfelgarwch ac anserchogrwydd. Dengys Dr. Arnold fod ysgolion y wlad yma yn effeithio yn gyffelyb ar ieuencyd. "Onid syndod," meddai, wrth apelio at wŷr ieuainc yn yr achos, "yw meddwl eich bod wedi dysgu teimlo cywilydd o foddhâu eich serchiadau naturiol, ac yn neillduol o fod yn ymlyngar wrth eich mamau a'ch chwïorydd, ac yn hoff o'u cymdeithas? Yr ydych yn dychymygu mai bod yn llai na dynion a fyddai gadael i neb feddwl eich bod o dan eu dylanwad hwy; ac y mae arnoch ofn cael eich tybied yn hiraethu gormod am eu tynerwch a'u serchog diriondeb tuag atoch. Ac felly yr ydych yn ffugio dibrisdod a chaledwch, yr hyn, ar y cyntaf, nis gellwch ei wisgo heb ymdrech; ond y mae yr ymdrech yn cael ei wneyd, a hyny i ochel y cywilydd ffol o gael chwerthin am eich penau o herwydd ymddangos yn rhy hoff o gartref. Mae yr ymdrech yn cael ei wneyd, ac yn cael ei barhâu, nes, weithiau, yr wyf yn ofni, ei fod yn darfod bod yn ymdrech, a'r oerfelgarwch, yr hwn, ar y cyntaf, nad oedd ond arwynebol yn unig, yn dyfod o'r diwedd yn dymher naturiol. Yna daw tymmor llafurus bywyd arnoch, a chwi a fyddwch yn myned i ranau eraill o'r byd, neu yn sefydlu ymhell o dŷ eich tad; y cyfleusderau i ddadwneyd argraffiadau drwg ac

anserchog bore yr oes nid ydynt mwyach yn gyrahaeddadwy; a'r oll ag sydd yn pasio rhwng tad a mab ydyw ychydig o lythrau, ac ychydig o ymweliadau byrion, hyd onid elwir ar y mab i gyflawni y weithred olaf o ddyledswydd, trwy ddilyn corff marwol ei dad i'r bedd."

Gresyn yn wir yw difwyno serchiadau natur fel hyn: meddwl am i ddrwganwydau, fel drain ac ysgall, dyfu i fyny, a chadeirio yn nymherau ein plant, a lladd blodau mor ddymunol! Pwy all edrych arnynt yn eu holl ddiniweidrwydd a'u tlyzni heb ddymuno eu bod yn fendigedig? Yn holl naturiaeth, nid yw y Creawdwr yn ymddangos yn decach nag ynddynt hwy. Onid allwn ni apelio atoch chwi, wŷr, ac atoch chwi wragedd—rhieni a phlant,—onid ydych yn rhoddi pris mawr ar serchiadau y naill y llall? Eu colli a fyddai colli cysur einioes; colli eich gilydd cyn marw, a hyny yn llwyrach a chwerwach na thrwy farwolaeth ei hun. Wel, ynte, meddyliwch am gynghor Solomon yn yr achos hwn: "Y neb y mae iddo gyfeillion, cadwed gariad." A sicr yw nad oes un ffordd well na mwy effeithiol i gadw cariad nag i bob un edrych yn ofalus am ymddwyn yn serchog a charuaid ei hunan. Ni a gymerwn yn ganiatäol y bydd eich cydwbybodau yn eich rhwymo i gyflawni dyledswyddau pwysicaf cariad y naill tuag at y llall; ond bod yn ddiotal ac esgeulus yn y rhai lleiaf ydyw y perygl. Byddwch yn gyfeillgar a siriol. Gofalwch am ragori yn y cymwynasau bychain, a'r mân-ymddygiadau hyny, ag sydd yn gynnwysedig yn yr ymadroddion—boneddigeiddrwydd a mwyn-eidd-dra; yn ol iaith y Saeson, bod yn *civil*, yn *courteous*, yn *polite*. Mae hyd yn nôd y dynwarediad o ymrafaelio yn beryglus. Ni a welsom gywion yr iâr weithiau, wrth gydymbigo a rhithym-ladd yn chwareus, yn briwo eu gilydd, ac yn y diwedd yn troi i ymladd o ddifrif. A'r un modd y mae wedi diweddu rhwng cyfeillion lawer gwaith wrth daflu at eu gilydd a choegymerio. Pa fodd bynag, ni a allwn fod yn bur sicr o hyny, er na byddom yn cyfeirio y naill at y llall ond o ddigrifwch yn unig, ac yn berffaith ddiniwed, mai mwy diogel yn wastad ydyw fod ymddyddanion chwareugar felly yn rhedeg yn hytrach mewn ffordd o ganmoliaeth a mawrhâd i'n gilydd—ond gochel gweniaeth—nag mewn ffordd o achwyn a beio. Oblegid fe all sylwadau o'r fath hyny, lawer tro, er eu gwneyd yn gwbl gyfeillgar, gael eu derbyn

yn ddifrifol gan un arall; ac fel “pentewynion tân, saethau, ac arfau marwolaeth,” glwyfo a llosgi yn y fynwes, er i chwi fod yn dyweyd, ac yn dyweyd y gwir hefyd, “Onid cellwair yr ydwyf?” I ba ddyben yr ymwrthodwn ni â dull o siarad ag sydd ar unwaith yn fwy hawddgar ynom ni, ac yn fwy diogel i’n cyfeillion, ac ymarfer ein hunain i ymddifyru mewn ffordd a ddichon beri blinder, ac oeri cariad? A phaham y cymerwn ni fwy o ryddid yn y dull hwn ar ein cyfeillion mynwesol nag ar estroniaid? “Camgymeriad mawr,” medd un awdwr, “yw tybied mai ein cyfeillion a’n cydnabod llai cyfrinachol, neu y cyfryw ag sydd ddyethriaid i ni yn unig, a allant ofyn oddiar ein llaw yr ymarferiad o fwyneidd-dra. Dylai y rhinwedd hwn, *canyis rhinwedd ydyw*, gael ei gario i’r agosaf a’r mwyaf cyffredin o’n perthynasau teuluaid. Heb rodres, dylai gwŷr fod yn foesgar a boneddigaid wrth eu gwragedd, a gwragedd wrth eu gwŷr—rhieni wrth eu plant, a phlant wrth eu rhieni—gweision wrth eu meistriaid, a meistriaid wrth eu gweision—a’r un modd, gweinidogion y naill wrth y llall. Mae cadw olwynion bywyd fel yma mewn olew, yr hyn sydd mor hawdd ei wneyd, ac mor hyfryd pan mewn ymarferiad, yn resynol o brin mewn llawer o anneddau; ac y mae ei absenoldeb agos yn sicr yn y diwedd o beri rhwygiadau gofidus yn y cariad a’r cydgordiad teuluaid.” Yr oedd darllen y sylwadau uchod yn peri i ni adgofio am rai o weinidogion yr efengyl o’n cydnabyddiaeth, y rhai yr oedd “eu clod trwy yr holl eglwysi.” Y waith gyntaf erioed ag y buom yn nhŷ y pregethwr öofn a nerthol hwnw, y Parch. Ebenezer Morris, tarewid ni gan ei ddull rhydd a serchog yn ei deulu. Yr oeddym yn wylaidd yn ei wŷydd, ac yr oedd yntau yn deall hyny; ac yn ol hen arferiad y Cymry o groesawu, dywedai, yn galonog,—“Gwnewch yn ewn, ’mechgyn i; bwytêwch eich goreu;” a’r un modd, gan droi at y wraig, yn awr ac yn y man, “Bwytêwch chwithau dipyn, *dear*.” “Ga i dê i’r wraig?” meddai, wedi dyfod i mewn i dŷ un o’r capelydd yn y gymydogeaeth; “gwell gyda fi gael tê iddi hi nag i mi fy hun.” A phan ddaeth Mrs. Morris i mewn, yr ydoedd yn barod i’w chyfarch, “Yr ydwyf fi wedi siarad am dê i chwi, *dear*; de’wch, i gael i ni fyned tua thre’ cyn y nos.” Fe ddywedai y cyfan, yn rhywfodd, mor rhydd a dirodres; y dôn, y dull, a’r

edrychiad, oeddynt yn berffaith naturiol a charuaid. "Ga i dy helpio di, calon?" gofynai gweinidog enwog a' dylanwadol arall gyda llais tyner unwaith lle y clywem; a chyda'r un cyffelyb fwneidd-dra atebai merch ieuanc, yr hon oedd yn eistedd wrth y bwrdd, "Os gwelwch chwi fod yn dda, 'nhad." "Gwnaf yn wir," ebe yntau; "mi a dy helpiaf di, gyda llawer iawn o bleser hefyd." Yr ydym yn addef y gall pethau bychain fel yma fod bron yn rhy ddiystyr i'w hadrodd; ond ni waeth i chwi beth a fo, er hyny, pa mor lleied bynag yr ymddangosant, y maent fel rhyw olew tyner ar olwynion y gymdeithas deuluaidd—yn llawer o feithriniaeth i gariad a chydgoriad o'i mewn. Ac os yw yn bosibl eu cario hwy yn rhy bell, cofied y darlennydd mai doethineb sydd i'w cymedroli, ac nid y diffyg o dnerwch a serchogrydd. Ond am y dyn ag sydd fel y crabosyn sur, ni a wyddom y bydd ef yn barod i gondemnio y cyfan fel ynfydrwydd. Wedi dwfnreddfu mewn anserchogrwydd ei hunan, mae y teimlad tyner a phob amlygiad o hono mewn gair ac ymddygiad, yn bethau nad yw efe yn deall dim o honynt. Nid oes genym, gan hyny, wrth adael y cyfryw un, ond estyn iddo y sylw a ddarllenasm mewn cyhoeddiad Saesoneg yn ddiweddar. Mae yr ysgrifenydd, wedi rhoi esiampl o ledneisrwydd ymddygiad mewn teulu, yn dyweyd fel y canlyn, "Though words may seem little things, and slight attentions almost valueless, yet, depend upon it, they keep the flame bright, especially if they are natural."

Gadäwn y pethau hyn i sylw ein darllenwyr. Cofiwch mor liosog a difrifol ydyw yr annogaethau i iawn lywodraethiad y tymherau yn ngair yr Arglwydd. "Paid â digofaint, a gâd ymaith gynddaredd; nac ymddigia er dim i wneuthur drwg." *Er dim* nac ymddigia. Cynnwys llid ydyw "rhoi lle i ddiadol;" mae y ddau yn gorphwys yn yr un fynwes; a "mynwes ffyliaid" ydyw hono. I ba raddau bynag y mae tymherau poethion i'w priodoli i'r cyfansoddiad naturiol, maent yn wastad y drws nesaf i lygredigaeth; a'r man yr ymollyngwch chwi gyda hwynt, trôant yn hollol bechadurus. Eu marweiddio, gan hyny, sydd ddyledswydd grefyddol; a thrwy waed ein Harglwydd Iesu Grist, a nerth ei Ysbryd Ef, mae goruchafiaeth i'w chael ar y ffurf hwn o lygredigaeth.



Fel cymhelliadau i feithrin yr ymarferiadau daionus sydd wedi bod dan ein sylw, nid oes genym ond dywedyd,—Os na byddwch chwi yn ddiwyd ac ymdrechgar i ffurfio ymarferiadau da, yr ydych yn sicr o ymollwng i ymarferiadau pechadurus. Mae llygredigaeth yn ddiorphwys yn ei weithrediadau ynom ni. Ac ond iddo gael unwaith, drwy ryw ffordd neu gilydd, le yn y meddwl, neu dori allan yn y fuchedd, fe edy y gorchfygedig yn fwy agored i gael ei orchfygu ganddo drachefn a thrachefn. Mae y gydwybod yn fuan yn dechre cynefino âg ef, a'r duedd ato yn crythâu; ac felly, bob yn ronyn, wrth fynychu y weithred, mae y peth yn dyfod yn ymarferiad i'r dyn, a llygredigaeth trwyddi yn argwyddiaethu ar ei galon. Dyma yr hyn a eilw Iago yn orpheniad pechod. Yn ei holl ymweithiad blaenorol yn y galon, amcana at hyn. “Canys yna y tentir pob un, pan y tyner ef, ac y llithier, gan ei chwant ei hun. Yna chwant wedi ymddwyn, a esgor ar bechod; pechod hefyd, pan orphener, a esgor ar farwolaeth.”

Drachefn, mae ymarferiadau yn bethau cryfion iawn. Edrychwch yn fanwl, bobl ieuainc, pa fath chwaeth, tymherau, ac arferion a ffurfiwch i chwi eich hunain; oblegid unwaith yr ymsefydloch chwi ynddynt, byddant fel ail natur i chwi: chwi a'u profwch hwynt yn gryfion iawn i'ch caethiwo, ac yn ystyfnig ac anhawdd eu gorchfygu. “A newidia yr Ethiopiad ei groen? meddai y prophwyd, “neu y llewpard ei frychni? felly chwithau a ellwch wneuthur da, y rhai a gynefinwyd â gwneuthur drwg.” Hyny yw, chwi a ellwch can gynted ag y gall yr Ethiopiad newid ei groen, neu y llewpard ei frychni. A beth oedd yr achos fod gwneuthur da inor anhawdd â hyny iddyni, ond eu bod “*wedi eu cynefino â gwneuthur drwg?*” Mae newid ei arferion i ddyn bron fel newid ei groen. Nid ydym, mewn un modd, yn dywedyd fod hyny yn anhosibl iddo, peidiwch a meddwl; ni a gofiwn ras yr efengyl. Ond er y cyfan, o dan bob amgylchiad, mae dyn yn sicr o brofi ei llygredigaeth, ac yn enwedig ei hen arferion llygredig, yn ystyfnig a chaled i'w darostwng. Maent wedi gwreiddio, mae yn ddigon tebyg, yn nghyfansoddiad ei natur, a chyda hyny wedi troi megys yn ail natur iddo trwy hir ymarferiad. Pe baech chwi ddim ond meddwl, fel prawf o hyn, am aiferion teuluaid. Os bydd plant, er esiampli, wedi eu dwyn i

fyny yn oerlyd neu yn ddiserch at eu gilydd, maent yn dueddol i barhâu felly tra byddont byw. A da fyddai, pe gellid gobeithio y cyfyngid y peth i'r berthynas hono yn unig. Ond y perygl ydyw, i'w hen arferion boreuol eu canlyn i'w perthynasau newyddion pa rai a ffurfiant yn ol llaw, ac y bydd dynion felly yn teimlo wedi myned i'w tai eu hunain yn gymhwys yr un modd ag y teimlent yn nhai eu rhieni; y byddant o'r un dymher ac ymddygiad at eu gwagedd a'u plant ag yr arferent fod at eu gilydd fel brodyr a chwïorydd. Heb eu hargyhoeddi o bechadurusrwydd y pethau hyn, a'u codi i ymdrechu yn eu herbyn, ac i'w gorchfygu trwy ras Duw, nid oes dim yn amgen i'w ddysgwyl. A mwy na hyny, y mae *habits* drwg yn hynod o'r heintus. Mae yn beryglus iddynt, nid yn unig ddilyn y dyn ei hunan dros ei fywyd, ond cael eu trosglwyddo ganddo i eraill ar ol ei ddydd, ac y byddant yn byw yn ei blant a'i hiliogaeth pan y byddo efe ei hunan yn y bedd. "Y Cretiaid," meddai Paul, "sydd bob amser yn gelywyddog, drwg fwystfilod, boliau gorddiog." Yr oedd y pethau hyn, mae yn debyg, yn dueddol i'r Cretiaid fel cenedl, a'r plant yn eu dysgu oddiwrth esiamplau eu rhieni; ac felly, mae yn ymddangos, fod celwydd, creulondeb, segurddod, yn hynodi y bobl hyny o genedlaeth i genedlaeth. "Eu ffordd yma yw eu hynfydrwydd," medd y Salmydd, "eto eu hiliogaeth ydynt foddllawn i'w hymadrodd."

Wrth ddiweddu, yr ydym yn dymuno galw y darlennydd i gofio fod holl ymarferiadau drygionus dynion yn cyfodi oddiwrth un gwreiddyn cyffredinol—llygredigaeth eu natur trwy bechod, ac i hwnw nid oes ond un feddyginiaeth, sef adnewyddiad y natur hono drwy ras Duw. Gwir yw y gall dyn ddiwygio llawer, a bod heb ei aileni. Ond tra yn aros yn ddiffygiol o'r cyfnewidiad hwnw, mae pechod yn sicr o gadw ei lywodraeth ar y galon. Er pob cyfnewidiad er gwell yn nymher ac ymddygiadau y dyn, ac o dan ei holl ymarferiadau gwneuthur, pa mor rhinweddol bynag y byddont ynddynt eu hunain, a pha mor gymeradwy bynag yn ngolwg ei gyd-ddynion, eto mae ansawdd yr enaid yn parhâu yr un tuag at Dduw, a'r dyn o hyd yn amddifad o'r sancteiddrwydd hwnw heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd. Ar yr un pryd, ni a ddylem gofio, pan gaffo dyn ei adnewyddu trwy yr Ysbryd Glân, y bydd ei ymarferiadau da yn flaenorol i hyny yn

llawer o gymhorth iddo yn y canlyniad. Ni ddinystria gras, pan y delo i'r galon, ddim ond ei llygredigaeth hi. Beth bynag o iawn deimlad a gaffo ynddi, pa ymarferiadau moesol bynag a fydd y dyn wedi ei ennill iddo ei hun trwy amaethiad a llafur, mae gras yn sicr o gadarnhâu y pethau hyny ynddo; a thrwy eu himpio i wreiddyn newydd, a chodi y dyn i'w hymarfer oddiar egwyddorion ac ysbryd efengylaidd, fe'u sancteiddia hwynt, ac a adfera iddynt eu gwir urddas.

Am hyny, "frodyr, pa bethau bynag sydd wir, pa bethau bynag sydd onest, pa bethau bynag sydd gyfiawn, pa bethau bynag sydd bur, pa bethau bynag sydd hawddgar, pa bethau bynag sydd ganmoladwy, od oes un rhinwedd, ac od oes dim clod, meddyliwch am y pethau hyn."

## GWELLIANT CYMDEITHASOL.

*Darnau wedi eu cyfieithu o Areithiau Iarll SHAFTESBURY, gyda  
Sylwadau Arweiniol.\**

**M**AE Iarll Shaftesbury, o ran ei enw, yn ddigon adnabyddus i'r Cymry bellach. Er nad yw, mewn cymhariaeth, ond gŵr lled ieuanc, mae wedi hynodi ei hunan er ys blynyddau gyda phob sefydliadau daionus, ac yn enwedig yn ei egni i geisio gwellâu cyflwr moesol a naturiol tlodion y wlad. Clywsant hefyd, ond odid, am gyfarfod y *Social Science Association*, yr hwn a gynnaliwyd yn Liverpool yn ddiweddar. Os yw enw y Gymdeithas hono yn ddyeithr i rai o'm darllenwyr, bydd yn dda gan bob un dyngarol ddeall mai ei hamcan ydyw dyrchafu y werin ymhob modd. Yr hyn a ganlyn yma sydd ddarnau o'r areithiau a draddododd Iarll Shaftesbury mewn rhai o'r chyfarfodydd hi.

Bydd llawer o'm cydwladwyr, ar ol eu darllen, yn ymfrostio, ond odid, ac yn barod i ddywedyd nad oes un dosbarth o gymdeithas yn Nghymru wedi suddo mor druenus â'r rhai yn Lloegr a nodir ganddo ef. Mae hyny yn wirionedd, a gobeithiwn hefyd ei fod, i ryw fesur, yn brawf o effeithiau crefydd ar y genedl. Ond dylid cofio, ar yr un pryd, fod llawer o'r gwahan-iaeth i'w briodoli i amgylchiadau allanol. Mae ein trefydd ni yn llai, a'r trigolion yn llawer anamlach, nag ydynt yn ngweithfaoedd a threfydd mawrion Lloegr. A gadael pob ystyriaeth o'r natur yma o'r neilldu, nid ydym yn gwybod pa faint a ennilleu trwy

\* Y sylwadau a'r cyfieithiadau ar *Welliant Cymdeithasol* a antonwyd gan Mr. Rees i'r DRYSORFA, ac a gyhoeddwyd yn y rhifyn am Ionawr, 1859; a gwelir eu bod yn attodiad cymhwys i'r anerchiad blaenorol.

gystadlu ein hunain â'n cymydogion y Saeson, o ran trefn a chysuron teuluaidd ein tlodion, ac ansawdd crefydd a moesau yn gyffredinol yn ein mysg. Hyn sydd sicr, os yw'r hanesion a geir yn wirionedd,—fod llawer o'r Cymry, ar ol myned i fyw i Loegr, wedi eu llwyr golli i grefydd a chymdeithas; wedi ymollwng i'r fath syrthni, anwybodaeth, a drygfoesau, fel ag y maent i'w gweled heddyw mor soddedig â neb yn y golygfeydd hyny o anfadrwydd a thrueni ag a ddarlunir gan Iarll Shaftesbury yn y sylwadau canlynol. Dyma a barodd sefydlu y Genadaeth Gymreig yn Llundain yn ddiweddar. Ac nid oes dim dadl nad da ydyw ceisio y rhai cyfrgolledig hyn ar hyd trefydd Lloegr; a da hefyd fyddai edrych rhag bod rhai cyffelyb iddynt mewn llawer tref a chymydogiaeth yn Nghymru, ac heb neb yn ymofyn am eu henaid. Ond i'm tyb i, gwell na'r ddau a fyddai bwrw yr halen i ffynnonell y dyfroedd; rhagflaenu yn hytrach na gwaredu; hyny yw, cael mwy o grefydd i deuluoedd y wlad, cael mwy a gwell addysg i'r oes sydd yn codi, cael chwaneig o rieni yn Nghymru yn dechreu deall bellach, a deall yn ymarferol ac i bwrpas, pa beth yw dwyn plant i fyny, fel y byddo eu hiliogaeth, pan yn troi allan o'u hanneddau, yn fwy cymhwys i orchwylion y byd, ac yn fwy arfog yn erbyn ei demtasiynau. Ein perygl ni ydyw i'n bord droi yn fagl ac yn rhwyd i ni; ymorphwys yn yr ystyriaeth fod y wlad yn gyflawn o bregethu, a bod ein heglwysi a'n Hysgolion Sabbothol yn lluosog; a thra y byddom yn twyllo ein hunain gyda'r wyneb teg yma, bod anwybodaeth ac anghrefydd yn cynnyddu o dan ein dwylaw, o herwydd diffyg ysbryd a medrusrwydd i wneyd y sefydliadau hyn yn effeithiol; fod yr eglwysi mewn llawer man yn aros heb eu gwir adeiladu, yr ieuencyd a'r plant heb ddim ond eu rhith egwyddori, ac felly y genedl, er tybied ei bod wedi ymgyfoethogi, ac nad oes arni eisieu dim, ar y ffordd i fyned yn resynol, yn dlawd, yn ddall, ac yn noeth.

Am y bobl y mae Iarll Shaftesbury yn sôn am danynt, fe wêl y darlennydd fod prinder dwfwr ac awyr iachusol, yn ol ei farn ef, o niwed mawr i'w hiechyd ac i'w moesau. Ond nid oes gan y Cymry, dybygid, ddim achos i gwyno o herwydd diffyg cyflawnder o'r cysuron hyn; ond fe ddichon fod mawr anghen arnom am gael ein dysgu i'w defnyddio yn well. Byddai



Dr. Franklin o'r America yn arfer ymdrochi, fel y dywedai, mewn awyr bob bore cyn gwisgo am dano. Ac mi a glywais am Mr. Charles o'r Bala, pan yr ymwelai â threfydd Lloegr, y byddai weithiau yn y cyfarfodydd crefyddol yn cymhell ei gydgenedl i gadw eu tai yn lân, ac i agoryd eu ffenestri, mewn trefn i'r awyr iach ddyfod i mewn i'w hystafelloedd. Gresyn yn wir a fyddai meddwl fod neb yn Nghymru yn gweithio nac yn cysgu mewn ystafelloedd trymaidd ac afiach—eu crwyn a'u dillad yn glynu wrth eu gilydd gan fudreddi, tra mae ei haberoedd grisialaidd hi yn rhedeg heibio eu drysau, ac yn cynnyg eu gwasanaeth iddynt yn rhad, a'i hawyr iachusol yr un modd yn eu hamgylchynu, megys yn gwylio ac yn achub pob cyfleusdra i ddyfod i mewn i'w tai. Croesawch hwynt, fy nghydwladwyr; byddant o wasanaeth i chwi mewn ystyr naturiol a moesol. Mae dynion yn rhy dueddol, mewn pethau o'r fath yma, i gymeryd eu teimladau yn rheol. Os bydd y tywydd tipyn yn oer yn enwedig, mae y dychymyg am ymddyosg yn noethlymyn i ymolchi yn annyoddefol i lawer; gwisgant yr un llienwisg nos a dydd, yn unig er mwyn gochelyd yr iâs o newid, gan neidio o'u dillad i'w gwelyau, ac o'u gwelyau i'w dillad drachefn, a hyny yn y modd mwyaf brysiog. Nid oes dim dadl, fel y cynnydda gwybodaeth yn ein mysg, na welir fod hyn yn gamgymeriad. I'r iach, pa fodd bynag, gwell, er diogelu rhag anwyd, a fyddai ymdrochi, fel yr hen Franklin, mewn awyr yn y bore, neu, yn iaith y *Professor* Millar o Edinburgh, gwisgo côb o ddwfr oer.

Drwg arall y mae y pendefig haelfrydig hwn yn cwyno o'i herwydd ydyw, bod lliaws o'r tlodion yn nhrefydd Lloegr yn ymwthio ar draws eu gilydd i'r un anneddau. Ac nid rhyfedd os yw y canlyniadau o'r fath annhrefn yn rhy fryntion i'w hadrodd. Gallwn obeithio, pa fodd bynag, fod ei hamgylchiadau yn diogelu ein cenedl ni i fesur mawr rhag y drwg yma. Ar yr un pryd, mae yn bur bosibl fod lliaws yn Nghymru eto, hyd yn nôd o dyddynwyr ein gwlad, â'u tai yn llawer rhy fychain ac anghyfleus i'w teuluoedd, ac o ganlyniad fod yn anhawdd, os nad yn anhosibl mewn rhai amgylchiadau, cynnal iawn drefn ynddynt, a chadw y neillduaeth hwnw rhwng y gwahanol rywiau ag sydd yn hollol anghenrheidiol er diogelu purdeb

a gweddeidd-dra. Mi a glywais cyn hyn fod rhai o fawrion ein tir yn arfer dywedyd, pe baem ni, yr Ymneillduwyr, ddim ond gweled achosion bryntion ag sydd yn dyfod yn fynych ger eu bron hwy yn y mân lysoedd lleol, a'r brawdlysoedd chwarterol, y byddai ein tyb am grefydd a moesau ein cyd-wladwyr yn llawer îs nag ydyw. Mae hyny yn ddigon tebyg. Ond ni a garem ofyn, A oes dim ag sydd yn cynnorthwyo y niwed yma yn gorwedd wrth ddrws y mawrion eu hunain? Hwyrach, ped ystyrient, y caent na buont hwy, mwy na ninnau, ddim yn ddigon gofalus am foesau y genedl, ac y gwelent fod pethau yn hanfodi yn ein mysg ag sydd yn achlysuron i ddrygioni, a'r pethau hyny, rai o honynt o leiaf, megys yn y pwnc dan sylw, yn bethau nas gall neb eu symud ond perchenogion y tiroedd. Yr ydym yn cydnabod, ar yr un pryd, fod pob arwyddion y dyddiau hyn fod mawrion y wlad yn deffro i ystyried cyflwr y werin. Yn Lloegr, pa fodd bynag, mae llawer o honynt fel yn dechre ymdeimlo yn fwy â'u dyledswyddau, ac yn ymddwyn yn debyg i ddynion fyddai wedi eu hargyhoeddi o bwysigrwydd eu sefyllfa, a bod i gyfoeth ac uchafiaeth eu cyfrifoldeb yn gystal a'u rhagorfreintiau.

Ymysg moddion eraill tuag at wellâu cyflwr moesol a naturiol y werin, mae Iarll Shaftesbury yn barnu y dylid darparu cyfleus-derau i fwyniant a difyrwch at eu gwasanaeth. Na fydded i'r darlennydd ei gamddeall ef yn hyn. Nid difyrwch llygredig y mae yn ei olygu, ond y seibiant a'r adferiad ysbryd hwnw ag sydd yn anghenrheidiol i ddynion mewn llafur, a pha un ag sydd o duedd yn hytrach i wellâu y meddwl yn gystal a'r iechyd corfforol. Gwir yw fod dynion yn y mater hwn yn tueddu i fyned i eithafion ar bob llaw. Mae rhai yn rhy barod i edrych ar bob math o ddifyrwch yn ddiniwed; ac am eraill drachefn, fe ellid meddwl eu bod yn barnu nad oes dim difyrwch diniwed yn bod. Ond gyda golwg ar y dosbarth olaf yma, llygredig-aeth mewn gwirionedd y maent hwy yn ei ofni; oblegid am ddifyrwch ynddo ei hun, maent yn ei brofi mewn rhyw ffordd neu gilydd yn anghenrheidiol iddynt eu hunain; o leiaf, maent yn syrthio iddo yn naturiol, ac yn aml yn ei fwynhâu megys heb feddwl mai difyrwch yw. Yn eu gwaith yn cydrodio y meusydd, yn cydganu, neu yn cydymddyddan â'u gilydd, nid

oes yn aml un elfen o natur uwch na difyrwch. Beth yw ysmocio ond difyrwch? Beth yw y *ter parties*, a'r cyffelyb, ond difyrwch? Ac yn wir, nid oes dim wedi cymmodi meddyliau rhyw fath o bobl â bod yn bresennol mewn cyfarfodydd felly, yn gymaint a'r ystyriaeth fod yn rhaid i'r natur ddynol—yn enwedig ieuenctyd, gwnewch a fynoch—gael rhyw ddifyrwch, ac am hyny mai rhan doethineb ydyw gwneyd yr oll a ellir i gadw y difyrwch hwnw yn ddiniwed, ac i gymysgu rhywbeth âg ef a fyddo o duedd adeiladol. Gellid meddwl weithiau bod teimlad yn ffynu ymysg mawrion y tir yn yr achos yma—tra chanmoladwy, mae yn wir, ynddo ei hunan, a'r hwn, pe gellid ond ei arwain i sianel briodol, a allai fod o les mawr. Fe ddywedir wrthym, pa fodd bynag, eu bod hwy yn awyddus am gadw bywyd a theimlad da mewn cymdeithas, ac am hyny yn ystyried ei bod yn ddyledswydd arnynt wario rhyw gymaint o'u meddiannau mewn trefn i ddarpar gogyfer â difyrwch y bobl. Ac y mae hyn yn cael ei ddwyn ymlaen ganddynt fel rheswm dros eu gwaith yn cynnal *racas* a chwaryddiaethau cyhoeddus eraill yma ac acw ar hyd y wlad. Wel, o barth i hyn nid oes genym ni ond dywedyd—os lles a difyrwch y cyffredin *mewn gwirionedd* ydyw amcan y cyfryw chwaryddiaethau, y mae mynyd o ystyriaeth, dybygem, yn ddigon i argyhoeddi pob meddwl diduedd, fod yn llawn bryd eu newid am ryw ffordd well a mwy effeithiol i gyrhaeddyd yr amcanion hyny. Heb son am y llygredigaeth sydd ynglŷn â'r pethau hyn, nid ydynt yn cael eu cynnal yn yr un man oddieithr unwaith yn y flwyddyn; a pha les a wna un diwrnod o ryw wylltineb felly i feibion a merched llafur? Tybygid, os ydyw difyrwch yn anghenrheidiol o gwbl i'r dosbarth yma o bobl, y dylai fod yn rhywbeth llai cynhyrfus a mwy parhâus na hyn; yn rhywbeth ag a fyddo yn eu cyrhaedd hwy bob amser, modd y gallont ei fwynhâu yn awr ac yn y man o hyd, yn ystod eu hadegau hamddenol. Ac uwchlaw y cwbl, dylai fod, fel y dywedai Arglwydd Brougham yn ddiweddar yn y dref hon, nid yn unig yn ddifyrwch diniwed ynddo ei hunan, ond ynddo ei hunan yn adeiladol, ac o duedd i wellâu y meddwl. O y fath ffynonau o ddifyrwch pur a ellid agor at wasanaeth y werin, ymhob parth or wlad, pe gwerid ond ychydig i'r dybenion hyny o'r

arian ag sydd yn cael eu gwastraffu yn awr ar gampau ofer a gwag! Meddylwch, er estiampl, pe byddai llyfrgell yn cael ei hagoryd ymhob cymydogoeth yn Nghymru, oni fyddai yn ddifyrwch i'r gweithiwr tlawd ymofyngar fod ganddo ystafell gysurus at ei wasanaeth i fyned iddi ar ol noswyllo, lle y cai eistedd i lawr, a gorphwys, a diwyllio ei feddwl trwy ddarllen? A'r celfyddydwr yntau, wedi bod yn cadw i mewn ar hyd y dydd, oni fyddai yn ddifyrwch ac yn iechyd mawr i ddyn mewn amgylchiadau felly fod ganddo gyfleusdra i roi tro yn mrig yr hwyr trwy y parc prydfarth, neu rywle cyhoeddus o'r fath, lle y byddai yr awel bur a phob peth a welai ei lygaid yn cydweithio i goethi ei archwaeth, ac i adnewyddu ei holl natur? Mae Iarll Shaftesbury yn coffâu am ŵr bonedig yn nhref Halifax, yr hwn a wnaeth barc y flwyddyn ddiweddar ar ei gôst ei hun, ac wedi ei drefnu yn gyflëus, a'i addurno ymhob modd, a gwario arno o leiaf ddeugain mil o bunnau, a'i cyflwynodd ef drwy *deed of gift* i faer a phobl Halifax am byth. Lle mae cyfleusderau o'r fath yma yn anghenrheidiol, diammheu eu bod o werth, ac yn fforddio plaser diniwed a dyrchafedig.

Meddylwch am addysg ddyddiol drachefn. Pe byddai yr Ysgol Frytanaidd wedi ei sefydlu ymhob parth o'r wlad, pa ddifyrwch mwy iachusol a allai rhieni gael na gwrando ar eu plant yn achlysurol yn myned drwy arholiad yr ysgol hono, gan graffu fel y mae y meddwl ieuainc yn ymagoryd, y llygaid yn gloewi, a'r wynebpryd yn cael ei brydfarthu, drwy gynnydd gwybodaeth a meddylgarwch? Byddai hefyd yr un mor fuddiol a difyrus pe gwneid arddangosfa fechan yn awr ac yn y man ymhob cymydogoeth trwy Gymru: rhoi gwobrwyon am y tŷ glanaf, yr ardd drefnusaf, a chynnyrchion goreu diwydrwydd; mewn gair, pob rhagoriaeth a gwellâd ymhob rhyw gelfyddyd neu orchwyl da. Mae rhywbeth o'r fath, yr ydym yn deall, wedi ei sefydlu eisoes yn y Bala, drwy gymhelliad cychwynol fy nghyfaill teilwng yr Athraw Edwards, ac o dan nawdd yr hen wladwr hybarch, Mr. Price o'r Rhiwlas. A'r un modd yn Llangernyw, Sir Ddinbych, mae Mr. Sandbach, o Hafodunos, wedi sefydlu yno yr un peth er ys blynyddau bellach. Nid ydwyf yn profesu gwybod i sicrwydd, ond mi a'i clywais yn

Ile gwir, fod egni diffino y gŵr boneddig hwnw, trwy ý moddion hyn a'r cyffelyb, wedi gwelláu wyneb y gymydogeaeth hono.

Ond y mae yn bryd i mi derfynu. Fe wêl y darlennydd fod Iarll Shaftesbury yn ymgais am ddwyn pob gwellâd cyffredin ymlaen oddiar egwyddorion efengylaidd. Mae y pethau yma yn rhy fynych, dybygid, yn nysgeidiaeth dynion wedi cael eu cadw yn ormodol ar wahân. Mae un dosbarth o athrawon yn dysgu pob peth ond y Bibl, a'r llall yn proffesu dysgu y Bibl a dim arall. Ewch i ysgol yr athronydd, a chwi a gewch wersi buddiol ar lanweithdra, diwydrwydd, a chynnildeb,—mewn gair, ar yr oll a duedda i sicrhâu i chwi iechyd a llwyddiant yn y byd hwn; ond ni chymhellir dim o hyn arnoch oddiar ystyriaethau crefyddol. Ac am y crefyddwr, drachefn, mae yntau o'r ochr arall yn rhy dueddol i anghofio y cyfryw wersi. Mae yn eich harwain, o bosibl, yn ddyladwy at Grist, ac at elfenau mawrion ei grefydd, ac yn dangos ffydd ynddynt yn anheggorol i iachawdwriaeth; ond fe ddichon nad yw mor fedrus i'ch cyfarwyddo o barth i ffrwythau y ffydd hono, neu yn yr holl ymddygiad hwnw ag sydd yn gweddu i sancteiddrwydd yr efengyl, a'r modd y dylai ei hegwyddorion uchel hi gael eu cymhwyso at a'u dwyn i ymarferiad yn ngwahanol amgylchiadau bywyd. Addefir yn rhwydd gan grefyddwyr y dylem ogoneddu Duw yn ein cyrff ac yn ein hysbryd, y rhai sydd eiddo Duw. Beth er hyny? mae genym lawer o bethau i'w gwneuthur er cadw ein cyrff a'n hysbrydoedd yn yr ansawdd oreu i ogoneddu Duw, nad ydynt hwy eto wedi meddwl ond ychydig am danynt, a llai na hyny am eu cyflawni, a dysgu eraill eu cyflawni, fel dyledswyddau crefyddol. "Nid oes neb," medd un awdwr, "mor ddifeddwl ag y gwada nas gallwn ni wneyd rhywbeth tuag at ddiogelu iechyd ac estyn einioes ein cyrff. Ond ni a ddylem ddeall y gallwn ni wneuthur llawer iawn, a bod gwneuthur yr hyn a allwn er ein llesâd ein hunain ac eraill yn yr ystyr hwn, yn fater ag y mae crefydd yn ein rhwymo iddo, yn gymaint a'i fod yn rhan o'r ddyledswydd hono sydd yn orphwysedig arnom tuag at Dduw, tuag at ein cymydog, a thuag atom ein hunain." Fe addefa pob dyn duwiol y dylem harddu athrawiaeth Duw ein Hachubwr ymhob peth; ond nid yn wastad y mae y duwiol yn ystyried fod rhagoriaeth gwlad lle y pro-



ffesir efengyl, mewn gwareiddiad, dysgeidiaeth, celfyddyd, a phob ymarferiadau da, yn un o'r pethau hyny ag sydd yn harddwch i'r efengyl. Ac felly, mae genym le i ofni yn y dyddiau hyn, er nad yw ein hieuenctyd yn cael eu hanghefnogi yn hollol i ddilyn y cyfryw bethau, nad ydynt chwaith yn cael eu hannog iddynt yn galonog, ac yn enwedig eu meithrin ynddynt fel pethau ag sydd yn gweddu i athrawiaeth iachus. Ac eto, oddiwrth yr hyn y mae ein cenadon i'r byd paganaidd yn ei ddywedyd wrthym, nyhi a allem yn hawdd gasglu bod rhagoriaeth yr Ewropëaid mewn gwareidd-dra a threfnusrwydd, yn fwy na dim arall, wedi eu codi hwy i anrhydedd yn ngolwg y paganiaid, a'i fod yn dirgel effeithio ar eu meddyliau, ac yn eu rhagbarotoi i dderbyn Cristionogaeth. Mae y Dr. Livingstone yn dyweyd ei fod ef yn credu yn sicr, fod y parch a'r darostyngiad yr hwn a ddangosid mor gyson tuag ato ef, a hyny gan y tylwythau mwyaf anwaraidd yn Affrica, i'w briodoli i fesur mawr i'r gwersi anhyblyg hyny mewn glanweithdra, pa rai y buasai ei fam mor ddiwyd i'w reddfu ef ynddynt wrth ei fagu.

Bellach rhaid i mi adael y darllenydd. Caiff ei arwain eto gan Iarll Shaftesbury trwy wterydd digon bryntion. Ni ddarfu i mi gyfieithu dim o'r hyn a gyhoeddwyd gan y cyfarfod crybwyll-edig am anniweirdeb ein dinasoedd mawrion. Wrth eu darllen, nis gallaswn llai na meddwl, yn wir, ein bod yn debyg i Sodoma a Gomorrah yn ein llygredigaeth; ac ofni y buaswn, oni byddai am yr ymdrechladau a wneir i achub ein gwlad, mai ein diwedd a fuasai bod yn gyffelyb iddynt hefyd yn eu dinystr. O Gymru! os wyt ti i fesur yn well dy gyflwr, na fydd uchelfryd, eithr ofna, "Onid oes gyda chwi, ië, gyda chwi, bechodau yn erbyn yr Arglwydd eich Duw?" Un corff gwladol ydym; a pha bryd bynag yr ymwela yr Arglwydd â'n cymydogion y Saeson am eu hanwireddau, nis gallwn ninnau yn Nghymru fod yn ddiangol. Byddai yr un mor ofer i ni ddysgwyl hyny âg a fyddai i'r ymdeithwyr yn y llong losgedig ymwneieithio iddynt eu hunain eu bod yn ddiogel, yn unig am eu bod hwy yn un pen i'r llestr, a'r tân wedi ennyn yn y pen arall.

Mae Iarll Shaftesbury, wedi dywedyd ychydig eiriau mewn ffordd o ragymadrodd, yn dechre fel y canlyn:—

“Ni wnâf fi ond rhedeg yn gyflym dros ychydig bethau, pa rai sydd o ddyddordeb mawr iawn, at ba rai y dylai eich sylw gael ei ddwyn, ac y caiff, mi a obeithiaf, ei ddwyn hefyd, ac i ba rai yr wyf yn hyderu y byddwch chwithau mewn rhyw gyfarfod dyfodol yn abl i roddi atebion cyflawn a boddlonol. Chwi a gewch fod y materion pwysig hyn, pa rai y mae yn rhaid eu dwyn o dan ryw reoleiddiad er gwellâd, i'w dosbarthu i ddau olygiad neillduol—y naturiol a'r moesol. Gellid wrth fanylu arnynt eu hystyried bob un ar wahân; ond nis gellir ymdrin â hwy ar wahân na byddant yn dyfod yn fynych, yn gyson, ac yn ddibaid, i gydgyfarfyddiad. Maent yn gweithredu ac yn adweithredu ar eu gilydd mewn ffordd hollol anysgaradwy. Er prawf, edrychwch pa fodd mae pethau yn gweithredu yn yr esiampl ganlynol. Mae cyflwr moesol isel yn cynnyrchu anghymedroldeb, a chydag anghymedroldeb y rhestr ofnadwy hono o glefydau a throsedd-iadau ag y mae meddwod yn wastad yn eu cario wrth ei ysgil. Ac onid oes drachefn ddrygau naturiol ag sydd yn meithrin drygau moesol? A oes rhyw un yma ag sydd yn y mesur lleiaf yn adnabyddus â'n heolydd, ein tai, ac amrywiol leoedd eraill, a wada y gwirionedd mawr ac anwadadwy hwn, yr hwn y mae pob profiad yn ei gadarnhâu? Oblegid os ewch chwi i'r lleoedd dychrynadwy yma, chwi a welwch yno achosion ysgelderder moesol—ac yr ydwyf yn gwir gredu fod saith ran o ddeg o hono i'w briodoli i'r drwg, yr hwn yw melldith fwyaf y wlad—y peth ag sydd yn dinystrio y bobl yn eu hanfod naturiol a moesol, yn tori trwy eu rhwymedigaethau teuluaid, ac yn eu darostwng trwy hyny i fegeriaeth ynghyd a phob diraddiad sydd yn ei ganlyn, sef yr ymarferiadau o ymyfed a meddwi. Ond y mae yr ymarferiadau hyny o ymyfed, a'r gyfundraeth hono o feddwod drachefn, yn cael eu cynnyrchu gan awyr ddrwg a dylanwad adgas a sarhâol y lleoedd ymha rai y mae y bobl yn byw, gan brinder dwfr, a chan natur wenwynig a niweidiol y dwfr hwnw, a'r oll yn cydweithio i yru y bobl i'r felldith foesol hono, pa un ag yr ydym ni yn ymdrechu ei symud drwy addysg, diwygloedd, a miloedd o ffyrdd eraill, yr oll o honynt yn anghenrheidiol ac yn dda, ac y mae yn rhaid eu dwyn i weithrediad effeithiol.

“Mi a ddywedais y rhedwn dros ychydig bethau pa rai y dylid eu hystyried oblegid eu bod yn dra phwysig. Hwy a barant ddirifrol a dwys ystyriaeth; ac er nad oes amser i aros arnynt yn fanylaidd, fel y dymunaswn wneyd, eto nis gallaf beidio eu tafu allan i'ch sylw mwyaf pwylllog, ac i'ch ymdrech-iadau llawn a chydunol. Yr wyf yn galw arnoch i ystyried yr effeithiau a gynnyrchir ar y werin, mewn ystyr foesol a naturiol, drwy y *cholera*, drwy haint (*fever*), a thrwy y darfodedigaeth yn ei holl ffurfiau. Cofiwch y miloedd a wanychir ac a ddifuddir ganddynt. Nid yw nifer y marwolaethau a ddygwydd drwy unrhyw afiechyd yn un mesur pa bynag o'i ddylanwad ar y boblogaeth, nac mewn un modd yn arddangos maint y drygau ag sydd yn disgyn oddiwrtho ar gymdeithas. Edrychwch i adroddiad y Cofrestrydd Cyffredinol bob wythnos. Yr ydym ni erbyn hyn wedi cynefino âg erchyllion o'r nodweddiad mwyaf dirifrol. Pan gyhoeddid yr adroddiadau hyny gyntaf, yr oedd y byd dros ychydig yn edrych yn fraw-

yclus, a phob dyn y cyfarfyddlech chwi âg ef yn barod i ofyn a oeddynt yn wirionedd. Ond mae yr adroddiadau, pa fodd bynag, yn myned ymlaen; maent yn cael eu darllen, a'u derbyn i mewn fel peth wrth gwrs. Deuant allan, a thefir hwynt i faged yr hen baprau. Ymddangosant yn y *Times* a newyddiaduron eraill, ac wedi hyny ni ofyn neb gwestiwn mwyach yn eu cylch. Ar y cyfrif hwn, mae yn fwy anghenrheidiol fod cymdeithas o'r natur yma yn cyfarfod o bryd i bryd i argraffu ar feddwl y wlad yn gyffredinol y drygau dyfion a pharhâus—y canlyniadau ofnadwy âg sydd o anghenrheidrwydd yn codi oddiwrth esgeulusdra a dirmyg ar uchel ac iachusol ddeddfau natur. Mae mater arall ag y dylai eich sylw gael ei ddwyn ato. Ni roddaf fi un farn arno, ond y mae yn fater nas gellir edrych drosto. Beth yw yr achos, yn awr, o'r ffaith argoelus nad oes dim llai na thriugain mil o blant meirwon yn cael eu geni yn y wlad hon bob blwyddyn ag sydd yn myned dros ein penau? Nid wyf fi yn rhoi un opiniwn ar y peth, ond yn unig dywedaf fod yn rhaid edrych i'r achos. Mae y ffaith yn eglur ac yn arswydol, ac y mae yn ffaith ag sydd yn galw am eich ymchwiliad mwyaf difrifol. Ymhellach dywedaf, os ydych yn teimlo dyddordeb yn y genedl ieuanc, dylech gymeryd i'ch sylw yr ysbyttai hyny a sefydlwyd yn ddiweddar pa rai a elwir *Orthopedic Hospitals*, a pha rai a sefydlwyd i'r amcan o symud anafau oddiar blant bychain, a thrwy driniaeth feddygol o'r medrusrwydd a'r dyngarwch mwyaf, eu hadferu pan yn nhynerwch mebyd, i'e, ac hyd yn nôd pan yn fwy oedranus, i berffaith unionder ystum a pherffaith ddefnyddioldeb yn eu cenedlaeth. Yn yr ysbyttai hyn gwelir y fath swm o ddiraddiad a thrueni corfforol, digon i beri i un dyn ystyriol grynu.

“Edrychwch drachefn i hanesion tai gorlawnion. Edrychwch ar effeithiau diffyg dyfrffosydd—ystrydoedd culion wedi eu draenio yn ddrwg—y lleoedd heintus hyny, pa rai sydd yn cynnwys yr heidiau mwyaf o'r oll ag sydd yn llenwi ein hysbyttai â chlefydau, ac yn llenwi ein helusendai â thlodion, ac yna cofiwch y ffaith fawr, i'r hon gobeithiaf yn awr yr edrychir i mewn, a chredwyf po mwyaf y chwilir iddi mai mwyaf eglur y ceir hi, sef, nad yw trosedd mwyach yn ddibynol ar na thlodi na chyfflog uchel, ond fod troseddau yn ddieithriad i'w cael yn fwyaf toreithiog, cyflawn, a chyson, mewn lleoedd bryntion, ymysg tai gorlwythog, ac ymhob man lle mae diofalwch a phentyriad o bob ffeidd-dra yn cydbydru yn barhâus. Edrychwch eto ar y diffyg dwfr, ac, mewn llawer o esiamplau, y llwyr ymddifadwydd o ddwfr iach yn ddigonol, sydd yn y lleoedd cynnwys a gorlawnion yma. Meddyliwch am y canlyniadau, a pheidiwch a beio ar y trueiniaid gresynus ag sydd yn ysglyfaeth i'r esgeulusdra hwn. Os ewch i'w mysg hwynt, a'u cael wedi eu gorchuddio â budreddi fel nas gellwch wahaniaethu eu noethni oddiwrth y carpiâu truenus sydd o'u cwmpas; os cewch hwynt wedi eu gorchuddio gan bryfed—ac y mae yn rhaid i mi ddyweyd fy mod i wedi bod yn eu mysg hwy gyda'm cyfeillion, a dychwelyd o'u mysg gyda thylwyth lled liosog o bryfed ar hyd fy nghefn; os ewch chwithau i weled pethau o'r fath yma, na thefwch y bai arnynt hwy, ond yn hytrach tefwch y bai arnoch eich hunain. Mae genych chwi wybodaeth, ac y mae genych chwi y moddion. Nid oes

ganddynt hwy y wybodaeth, ac nid oes ganddynt y moddion; ac yn enw pob peth sydd wir, ac yn enw pob peth sydd sanctaidd, dywedaf, i'e, wrthych chwi, ceidwad eich brawd ydych chwi. A ellwch chwi ryfeddu, ynte, pan fynegir i chwi yr holl ddyrgau naturiol yma, at y drygau moesol ag sydd yn deillio o honynt? Ewch i blith y bobl, gwrandewch â'ch clustiau eich hunain a gwelwch â'ch llygaid eich hunain y pethau yr wyf fi yn awr yn eu hadrodd i chwi: yr eithafion o lygredigaeth mewn iaith, mewn meddwl ac mewn ymarweddiad, sydd yn ffynu yn yr holl leoedd hyn.

“Ni feiddiaf son am lawer o bethau, oblegid eu bod yn gyfryw ag nas gellir eu crybyyll mewn cynnulleidfa gymysg. Ond chwi a ellwch botrëadu i chwi eich hunain beth a raid fod y canlyniadau o anneddau gorsangedig—nid gyda golwg ar iechyd yn unig, ond lle mae dau, tri, neu bedwar o deuluoedd yn byw ar draws eu gilydd mewn un tŷ, neu mewn un ystafell, lle mae y gwahanol rywiau blith draphlith—a ellwch chwi ryfeddu at unrhyw swm o bechod—a ellwch chwi ryfeddu at unrhyw swm o ddyrgioni—mewn gair, a ellwch chwi ryfeddu at *ddim* ag sydd yn dygwydd mewn lleoedd felly, serch eu bod yn rhy fryntion i'w hadrodd yn y gynnulleidfa gymysgedig hon? Nis gellwch ryfeddu, neu os ydych yn rhyfeddu, ewch ac ymofynwch drosoch eich hunain, canys yna chwi a gewch fod y peth yn bod mor eglur ac anwadadwy âg unrhyw osodiad yn Euclid. Chwi a ellwch fod yn sicr y bydd i'ch ymdrechion gydag addysg ddyddiol fethu—y goreu, yr oll, o gynlluniau yr athrawon hyfforddedig, neu y rhai a sefydlant yr ysgolion, pob egni neillduol a chyhoeddus, holl ddiwydrwydd arolygwyr yr ysgolion, a'r holl adroddiadau grymus a wnânt yn eu cylch—hwy a fethant yn hollol cyhyd ag y byddo y pla erchyll yma yn eich mysg, yn meithrin dim ond drygioni, a chynddaredd, a llygredigaeth, ac anwybodaeth, a phob peth sydd adgas gan Dduw a dyn. Mae hefyd yn gwisgo gwédd boliticaidd a chymdeithasol. Yn awr, yr ydwyf fi yn llwyr argyhoeddedig fy meddwl fod amser yn dyfod, a hwnw heb fod ymhell hefyd, pan y byddwn ni yn y wlad hon mewn gwir anghen am ddwyllaw i holl ddybenion gweithiol, a chymdeithasol, a milwraidd y wlad. Mi a wn y bydd llawer o bobl yn barod i ddyweyd, os edrychir dros dablau marwoldeb, y ceir gweled fod yr oes ar y cyfan yn estyn. Hwyrach hyny, os cymerir hi ar gylch éang (*great average*); ond yr wyf fi yn awyddus i wybod, A yw estyniad yr einioes hono yn estyniad einioes deilwng a defnyddiol? Ai nid estyn yn unig y mae yr einioes, gydag afiechyd, er nad mor angeuol â chynt, eto yn parhau o hyd yr un mor niweidiol i gloffi, i ddinystrio, a llesgâu ymadferthoedd y dosbarth gweithiol o'r bobl! Drachefn, mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod yn meddwl ei fod yn fater o ystyriaeth bwysig, fod can lleied o ddynion yn y wlad yn goroesi canol oedran. Pan y meddyliwch chwi am hyny, mae yn beth i'w arswydo bod yr holl allu etholiadol, a'r holl allu llywodraethol, yn syrthio i ddwyllaw dynion lled ieuainc. Oblegid mi dybiwn y caniatëwch chwi i gyd fod pwyll a phrofiad dynion mewn addfedrwydd oedran yn anghenrheidiol i gadw yr holl gyfundrefn weithgar mewn trefn. Mae yn anghenrheidiol o ran gweddeidd-dra a threfn, ac er mwyn humanlywodraeth-

iad cymdeithas, ac yn fwy neillduol felly gyda golwg ar rydd sefydliadau megys yr eiddom ni. Mae yn rhoddi iddynt sefydlogrwydd a grym, oblegid fe'u hachub hwynt rhag yr eithafion hyny, pa rai sydd yn adweithredu arnynt eu hunain, ac fe'n galluoga ni fel cenedl i fod yn ngolwg Duw a dynion yn bobl ddoeth a deallus. Yn lled ryfedd, dygwyddais ymhen oddentu dau ddiwrnod wedi i'r ystyriaeth yma ddyfod i fy meddwl, dderbyn llythyr oddiwrth gyfaill i mi, yr hwn oedd yn teithio yn yr America, gwlad ag y mae trefniadau er iechyd yn fwy anghenrheidiol nag yn y wlad hon; oblegid mae eu trefydd poblog mewn gradd mawr o berygl oddiwrth glefydau heintus, ac amgylchiadau drwg, a hyny ymhell tu hwnt hyd yn nôd i'r gwaethaf o'r eiddom ni. Fy nghyfaill, yn llawn o'r syniadau iachyddol yn ei sylwadau, a adroddai wrthyf y ffaith ganlynol,—‘Mi a deithiais dros ran fawr o'r Unol Daleithiau, ac nid wyf yn petruso dywedyd na chyfarfyddais yn ystod y ddau fis diweddfaf â chymaint âg un hen ŵr yr hwn a ymddangosai mewn ansawdd gref ac iachusol. Mae yn rhaid i mi ddywedyd fod hyn yn beth tra phwysig i gymeriad ac anrhydedd y wlad.’”

Wedi sylwi fel y mae cyflwr y tlodion yn y wlad hon yn destun syndod a siarad mewn gwledydd eraill, mae y llefarwr yn myned rhagddo, ac yn dywedyd,—

“Nid wyf yn gwadu eu cyflwr gresynol, oblegid ni a allwn roi atebion digon boddlonol am y cyflwr hwnw; ond y mae hyn yn rheswm cryf paham y dylem ddwyn i mewn yr holl drefniadau hyny er iechyd a llwyddiant, pa rai y gwyddom yn eithaf da a dueddant i leihâu tlodi, ac i'n harddangos ger bron Ewrop ac America yn boblogaeth bybyr, gynnyddol, ac iachus. Nid oes dim gwir reswm dros fod anghen a rheidusrwydd yn ein mysg. Mae amgylchiadau y wlad y fath, fel pe y byddai y boblogaeth oll yn y cyflwr hwnw i ba un yr ydym ni yn dymuno eu cael, gellwch fod yn sicr fod cyflog y gweithiwr, yr alwad am waith, a'r holl amgylchiadau i ba rai y mae y llafurwr yn ddarostyngedig, yn gyfryw, fel nad oes un math o reswm paham na byddent yn gydstad â'r uchaf oll, y goreu oll, a'r mwyaf diwall eu hamgylchiadau o boblogaeth y byd.”

Er profi mor bwysig i iechyd y bobl ydyw dwfr ac awyr iachus, ynghyd a thai cyfaddas i fyw ynddynt, dywed yr areithiwr urddasol,—

“Cymerwch, er esiampl, goffyfriad y llettŷau cyffredin. Ni bu un mesur yn fwy cynnyrchol o ganlyniadau daionus na hwnw. Yn Llundain a'i holl boblogaeth, lle y mae y fynyd hon o hanner cant i driugain mil yn cysgu o nos bwygilydd yn y llettŷau cyffredin hyn, ni bu am y ddwy flynedd ddiweddfaf gymaint ag un esiampl o glefyd wedi ei gynnyrchu yn y tai hyny. . . . Ymysg eich meddyginiaethau eraill, mae yn rhaid i chwi feddwl am barciau a chyrchleoedd eraill i'r bobl. Nid yn unig y maent yn



dra gwasanaethgar fel lleoedd agored, ond y maent hefyd yn meddu effaith foesol trwy eu bod yn gweinyddu iachusol ddifyrwrch, seibiant, a phleser. Chwi a ellwch fod yn sicr fod yn rhaid i'r meddwl gael ei ddifyru yn achlysurol, fel y mae yn rhaid gofalu am y corff; ac mi a feddyliais aml dro fod cryn lawer o wirionedd yn yr hyn a ddywedai Dr. Jackson, Christ Church, gŵr digon adnabyddus, yr hwn pan ofynwyd iddo ai ni ddymunai gael ei goleg yn gynnwysedig yn unig o'r efrydwyr dyfnaf a galluocaf, a atebai, 'Na, ni fynwn ddim o'r fath beth. Mae yn rhaid fod rhyw nifer o ddynton dwl yn wastad i ddifyru dynion darllengar.' Pa un a hoffech chwi fod hyna yn cael ei gario allan yn Ngholeg y Frenines a lleoedd eraill, nis gwn; ond o hyn yr wyf yn sicr, fod yr egwyddor yn gywir, y rhaid cael rhyw radd o ddifyrwrch i bawb ag sydd yn rhwym mewn gwaith cyson, pa un bynag ai gwaith pen ai gwaith llaw a fyddo.

'Gwaith i gyd heb unrhyw chwarau  
Wna Jack yn fachgen dwl ei ddoniau,'

medd yr hen ddiareb. Am hyny mae mantais fawr mewn lleihâu oriau llafur a rhoi hanner diwrnod o ŵyl bob dydd Sadwrn. Mi a hoffwn hefyd weled ymarferiadau corfforol (*gymnasiums*) ynglŷn â phob un o'n hysgolion, oblegid yr wyf yn credu y dylai y cyfryw ymarferiadau fod yn rhan hanfodol o addysg. Mi a hoffwn weled pob merch o'r dosbarth gweithiol yn cael rhyw gymaint o wybodaeth am gogyddiaeth. Yr wyf yn sicr, oddi ar y prawf a gefais am y dosbarth gweithiol, eu bod yn ddeg mwy diddarbod a gwastraffus na'r bobl gyfoethocaf yn y wlad. Mae hyn yn cyfodi oddiwrth amryw achosion; un o honynt yw anwybodaeth, ac er dangos y peth, mi a adroddaf i chwi hanesyn. Rai blynyddau yn ol, aethum i dref pan oedd y gwaith wedi sefyll yno, a phan nad oedd y bobl yn derbyn ond ychydig os dim cyflog, ac felly wedi eu dwyn i myl newyn, a hyny pan oedd cyflawnder dirfawr o bysgod yn y cyffiniau o gwmpas. Ac mi a ddywedais wrth un neu ddwy o'r merched y siaredais â hwy, Paham na cheisich chwi bysgod, a gwneyd ciniaw o'r rhai hyny? A'r ateb a gefais oedd, 'O, mae nhw mor ffaidd; nid oes dim blâs arnyn' nhw oll.' Ond yr ydwyf fi yn siwr pe buasai yno, yn lle gwraig o Sir Lancaster, wraig o Ffrainc, gyda chwpl o ddimeiau yn ei llogell, y buasai hi yn prynu rhyw lysiau blasus, ac yn gwneyd ciniaw o bysgodyn a fuasai yn ddigon cymhwys i fwrdd breninol.

\* \* \* \* \*

"Mae gweithrediad y *Public Health Act* yn Evesham wedi dangos y gallai tref fod mor iachus a'r wlad. Mae lleihâd dirfawr mewn marwoldeb yno; nid yw ond dau ar bymtheg yn y fil, tra mae marwoldeb yn y parthau gwledig yn cyrhaedd un ar hugain yn y fil. Mae yn gyffelyb yn Croydon; ac yn Liverpool, yr wyf yn 'deall er eich mawr anrhydedd, fod eich trefniadau er iechyd yn achub tair mil a phum' cant o fywydau yn flynyddol mewn cymhariaeth i'r anseroedd gynt. Dilys yw fod hwn yn fater o ystyriaeth ddofn a difrifol; a dywedir wrthym nad yw y marwoldeb a ragflaenir drwy y wlad

i gyd yn ddim llai na deg a phedwar ugain o filoedd yn y flwyddyn. Ond pe dywedem ddeugain mil, mae hyny yn bedwar bywyd yn yr awr. Hwyrach y dywedir wrthym nad yw y pethau hyn ond yn ol cwrw natur, ac na ddylem ni ymyryd. Ond oddiwrth y cyfryw ddyinion ni a drown ein cefnau; nid yw y cyfryw ddywediadau yn werth ein sylw. Hwyrach y dywedir wrthym fod y pethau hyn yn ddrudion, ac yn gofyn ymdrechïadau arianol, ac nad yw y bobl yn barod i ymgymeryd â'r costau; ond ni a allwn yn ddiogel ddywedyd mai afiechyd sydd yn gostus, a bod iechyd yn rhad. Nid oes dim yn gymaint o gynnildeb â chyfiawnder a thrugaredd, a hyny tuag at bob peth tymmorol ac ysbrydol ag sydd yn perthyn i ddynolryw. . . . Ond pan y dywedo rhywrai wrthym y dylem feddwl mwy am yr enaid, a llai am y corff, fy atebiad i i'r cyfryw rai ydyw, mai yr un Duw, yr hwn a wnaeth yr enaid, a wnaeth y corff hefyd. Mae yn waith is, o bosibl; ond er hyny ei waith ef ydyw, ac y mae yn rhaid ei ymgeleddu a gofalu am dano, er diogelu y dyben i ba un y crewyd ef—cymhwysder i wasanaethu Duw. Os oedd Paul, gan alw ein cyrff yn demlau i'r Ysbryd Glân, yn dyweyd na ddylem ymhalogi drwy bechod, dywedwn ninnau hefyd am ein cyrff, temlau yr Ysbryd Glân, na ddylent gael eu llygru gan ddim afiechyd attaladwy, ac na ddylent gael eu diraddio gan fudreddi pan y gellir ei ochelyd, ac na ddylent chwaith gael eu gwanychu drwy ddyoddefiadau afreidiol. Ymysg y pethau cyntaf gan hyny, y gofynwch am dano, gofynwch am dŷ glân ac iachusol. Ac os mynech chwi gael tŷ destlus i gilio iddo ar ol eich llafur, ynghyd a phob peth a ddichon ddwyn difyrwch ac anrhydedd i'r bywyd teuluaidd—os mynech fod eich cartref yn nyth i chwi, eich noddfa oreu a'ch llawenydd melusaf,—*yma* y mae yn rhaid i chwi, bob un o honoch, gael gwraig a fyddo nid yn unig yn gwybod ei gwaith, ond un ag a fyddo yn gwarchod gartref. Mae yn anhosibl i chwi gael cartrefi glanwaith a hapus os na bydd eich tai yn cael eu cyson wyllo trwy arolygiad pryderus, cynnil reolaeth, dwfn a serchog ddyddordeb gwragedd eich mynwesau a mamau eich rhai bychain. Y mae eich aelwydydd teuluaidd, yn wir, wedi gwella llawer rhagor yr oedd- ynt amser a basiodd. Yr wyf fi yn cofio fy mod yn myned unwaith drwy heolydd un o drefydd Sir Lancaster, ac allan o bump ar hugain o dai yn yr heol ag yr edrychais i mewn iddynt, ni chefais gymaint ag un wraig a fedrai drwsio crys na drônio hosan, na chogyddio yn gymhwys y ddysglaid leiaf o ymborth i'w gŵr ac i'w phlant. Chwi a wyddoch yn berffaith dda bod yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd yn hollol wirionedd. Ac un effaith foesol fawr, yr hon a gyfodai oddiwrth y gwelâd naturiol yn y peth hwn, a fyddai, y caech wraig yn gwarchod gartref, yr hon a sefydlai yn eich tŷ bob cynnildeb, yr hon drwy ei gofal am y plant a achubai i chwi swm mawr o flwyddyn i flwyddyn yn *mil* y meddyg, yr hon a fyddai yn gogyddes fedrus, ac yn wraig tŷ dda, a'r hon, uwchlaw y cwbl, a wnai yr hyn nas gall un *system* o addysg gwladol na meithriniaeth neillduol—dim ond arolygiad â llygad tyner mam ei wneuthur—sef rhoddi i'w phlant y peth hwnw, heb ba un y bydd pob addysg arall yn ddiffurwyth—braidd na ddywedwn bron yn ofer—sef, y teuluaidd, y tyner, a'r difrifddwys hyfforddiant crefyddol, yr hwn yw sail pob rhinwedd

ymarferol ar y ddaear, ac a fydd yn wasanaethgar, fei moddion, gyfarwyddo eu ffordd tua'r nef.

“Mi a obeithiaf, fy anwyl gyfeillion, na byddwch chwi yn eich holl ymgeisiadau a'ch ymgnion byth yn blino yn codi eich hunain yn *scale* cymdeithas. Gwnewch yr oll a ellwch i buro eich anneddau, i wellâu eich dysg, i helpio eich plant rhagddynt i well amgylchiadau, os medrwhch, na chwi eich hunain; gwnewch bob peth a ellwch i godi eich hunain yn ngraddau cymdeithas. Nid wyf fi yn gofalu pa mor uchel y byddo eich ymgais; bydded yn ymgais at reoli eich dinas enedigol, neu am gymeryd rhan yn llywodraeth eich gwlad. Mae yn sicr genyf am sefydliadau treftadol (*hereditary*) y wlad hon, nad ydynt byth mor ddiogel a phan yr adnewyddir ac y cryfheir hwynt drwy drosglwyddiadau helaeth o blith y dosbarthiadau canol a llafurus. Ac od oes dim ag sydd yn gwahaniaethu sefydliadau Lloegr, yn enwedig y rhan dreftadol o honynt, oddiwrth y gwledydd o amgylch, dyna yw—y gellwch weled yn awr yn Nhŷ yr Arglwyddi gymaint o eppil y dynion a fu yn gweithio wrth yr aradr neu wrth y gwŷdd, ag o'r rhai sydd yn cystrif eu disgyniad oddiwrth y *Plantagenets*, ac yn meddu ar eu paisarfau, nis gwn pa nifer o *griffins* na pha nifer o gŵn anghynffonog. Bydded eich ymgeisiadau, gan hyny, mor uchel ag y mynoch; ymgeisiwch at bob peth a all y byd ymroi. Na ato Duw i mi, trwy yr un gair o'r eiddof, gynnyg at ffrwyno eich amcanion uchel. Yr oll a ddymunwn yw hyn, fod i chwi, tra yn ymdrechu drwy bob egni yn eich gallu—trwy ymagoriad eich holl ymadferthoedd moesol, corfforol, a meddyliol, i godi eich hunain a'ch plant o'r gradd hwnw mewn cymdeithas ymha un y ganwyd chwi, yn y deyrnas o'r hon yr ydych oll yn ddeiliaid—fod i chwi, meddaf, gofio bob amser nad yw hwn i fod ond egni mewn darostyngiad i'r un llawer mwy, ac uwch, a thragywyddol, ag sydd o'ch blaen; a thra byddoch yn ymgais am fod yn uchel ac anrhydeddus ddina.yddion o'r ymherodraeth fawr hon, eich bod, uwchlaw pob peth, yn ymdrechu am gyrrhaeddyd i'r Jerusalem nefol, y ddinas ag y mae iddi sylfeini, Saer ac Adeiladydd yr hon yw Duw.”

## ARWYDDION YR AMSERAU.\*

“Yr amser hwn, pa fodd nad ydych yn ei ddeall?”

**P**AN y byddo y byd yn addfedu i gyfnewidiadau, mae rhyw nodau yn gyffredin i'w canfod yn ei gyflwr blaenorol, yn ysbryd a thymher ei drigolion, ac yn ngorchwylliaethau yr Arglwydd tuag atynt, ag sydd yn rhagargoelion fod y cyfryw gyfnewidiadau yn agosâu. Trwy hyn, gall y rhai a ddoethystyriant waith Duw wybod i ryw raddau pa beth a ddylai Israel ei wneuthur yn y cyfamser, a pha beth sydd yn debyg o ddygwydd eto ar y ddaear. Dyma y pethau, dybygid, a ystyrir yn arwyddion yr amseroedd. Mae rhai yn gwbl ddiystyr o honynt, ac eraill yn cael eu meddiannu mor llwyr ganddynt hwy a'u heffeithiau, sef y gobaith neu yr ofn a gynnyrchant yn eu meddyliau, nes y maent yn cael eu taflu i bob math o wallgofrwydd a dychymygion, ac, yn nghanol swm y pethau anhygoel, yn anghofio galwad rheswm a dyledswyddau bywyd. Mae y naill yn rhy ddiolfal, a'r lleill yn rhy orphwyllog; oblegid prin y gellir golygu y meddwl hwnw yn ei iawn bwyll ag sydd wedi ei lyncu yn hollol gan ryw un peth, ac yn enwedig gan bethau mor ansicr ag ydyw dygwyddiadau dyfodol ar y ddaear.

Ond am y crïstion sobr a gostyngedig, nid yw efe yn gwallgofi mewn dysgwyliad am bethau i ddyfod, nac ychwaith yn ddi-

\* Ysgrifenyd y traethawd hwn gan Mr. Rees cyn ddiwedd y fl. 1845. Achlysurwyd llawer o'i sylwadau, fe welir, gan ddarlleniad y *Saturday Evening* gan Isaac Taylor, ac hefyd, *The Signs of the Times in the East a Warning to the West* gan y Parch. Edward Bickersteth. Er fod yn agos i ddeugain mlynedd er pan yr ysgrifenyd ef, gwelir ei fod eto yn dra chymhwys i'w ddarllen a'i ddwys ystyried genym ni yn y blynyddoedd hyn.

lygad i ganfod y pethau sydd; ei ddymuniad ef yw dirgel ystyried gorchwyliaethau yr Arglwydd yn ei amser, a hyny er cyffroi ei feddwl i fwy o ddiwydrwydd gyda'i ddyledswyddau, ac i fwy o wyliaedwriaeth yn erbyn pechod. A thra y coleda amcanion fel hyn, efe a wŷr, er y dichon i'w syniadau o barth pethau i ddyfod fod yn ddigon cyfeiliornus, eto fod y casgliadau ymarferol y mae yn dynu oddiwrthynt yn sicr o fod yn ddiwyll a diogel iddo ei hun. Nid yw ef yn ceisio dim wrth ymbarotoi at amseroedd i ddyfod ond cael ei ysbryd i'r agwedd hono ag y mynai fod ynddi wrth farw; ac os yw dygwyddiadau eraill yn ansicr, mae y dygwyddiad hwn yn sicr o'i gyfarfod ef. Mae ansawdd bresennol y byd, yn wladol ac eglwysig, yn dwyn sylw llaweroedd yn y dyddiau hyn; a phe byddai ein darllenwyr yn deall ei wir gyflwr a'i dynged, ond odid na chynnyrchai deimladau cyffrous yn eu mynwesau. Hwya a dristâent, eto nid fel rhai heb obaith; hwya a lawenhaent, er hyny llawenhaent mewn dychryn. Mae y byd yn wag ac afluniaidd, a thywyllwch ar ei wyneb; ond ar yr un pryd mae Ysbryd yr Arglwydd yn amlwg yn ymsymud ar wyneb y dyfnder tywyll, dan esgyll maethlawn yr hwn, mae yn sicr o ddyfod allan ryw bryd, o gibau ei ofergoelion a'i arferion drwg, yn greadur newydd yn Nghrist Iesu.

Nis gall neb lai na chyfaddef fod tymp rhagluniaeth ddwyfol i esgor ar bethau hynod a chuddiedig, gyda golwg ar y byd cristionogol, i.e., o bosibl gyda golwg ar deulu dyn, yn awr wrth bob tebyg yn agosâu. Ac y mae y tebygolrwydd hwn yn myned yn fwy wrth ystyried fod pob dosbarth o'r eglwys gristionogol, a dynion o syniadau hollol wahanol am bethau eraill, yn cydgyfarfod yn y dysgwyliad yma. Bellach, heb ddim rhyw ohiriad mawr, gellir gobeithio y bydd i wir grefydd gynnyddu, a'r naill ddosbarth ar ol y llall o blant dynion gael eu darostwng trwy yr efengyl, nes y byddo gwybodaeth yr Arglwydd wedi llenwi y ddaear fel y mae y dyfroedd yn toi y môr.

O'r ochr arall, mae yn rhaid cydnabod fod y grêd yn myned yn fwy cyffredin a chref o hyd, nad yw gwir grefydd ddim yn debyg o ennill yr oruchafiaeth yn y byd ond drwy ymdrechfa galed â'i gelynon. Rhaid ymladd cyn ennill y fuddugoliaeth. Ac fe ddichon mai tywyllwch yr olygfa ar y mynyd presennol, y cymylau sydd yn ymgasglu yn awyr y gwledydd, a'r cyffro sydd



wedi meddiannu meddwl dyn, ydyw rhai o'r arwyddion mwyaf gobeithiol fod Sabboth y byd yn agosâu. Pa fodd bynag, amser o bryder mawr yn gyffredin ydyw yr amseroedd ag sydd yn rhagflaenu gwaredigaethau yr eglwys. O safn angeu, ni a wyddom, y dygwyd plant Israel i seinio buddugoliaeth ar Pharaoh a'i lu wrth y Môr Coch. Gorthrymder, a hwnw yn myned drymach drymach, oedd un o'r arwyddion cyntaf, a mwyaf sicr iddynt hwy, fod amser yr addewid wedi nesâu. Awr dywyll drachefn ar ddysgyblion yr Arglwydd Iesu ydoedd yr awr y gorweddai eu Pen a'u Gwaredwr yn y bedd; ond pan oedd rheswm wedi dyrysu, gobaith ac ofn yn uchder eu dadl yn eu meddyliau, fe drôdd y fuddugoliaeth dros byth o blaid y cyntaf yn ei adgyfodiad ef, ac fe ddilynwyd yr awr dywyll hono â goleuni ar anfarwoldeb ei hun. Yr un modd mae Crist yn dysgu ei ddysgyblion, pan y gwelent ryferthwy dychrynlyd eu gwlad a'u cenedl yn dygwydd yn ol ei air ef, i edrych i fyny a chodi eu penau, "cansys," medd efe, "y mae eich ymwared yn nesâu." "Os gallwn ni," medd Isaac Taylor, "gasglu rheol gyffredin gymhwys at achlysuron eraill oddiwrth yr ychydig esiamplau ag y mae hanes y byd crefyddol yn eu cyflwyno i'n sylw, y rheol hono a fyddai yn debyg i hyn—nad yw awr o ragbarotoad at amseroedd gwell ddim yn dymmor gobeithiol yr olwg arno, ond i'r gwrthwyneb; ac er hyny, fod amgylchiadau y byd ar brydiau felly yn dystaw dueddu at y cyfnewidiadau sydd yn agosâu." Mae holl hanes Cristionogaeth, meddant hwy, yn llawn o esiamplau ag sydd yn profi y mater yma. Llauer gwaith y bu erlidwyr, wrth bob ymddangosiad, ar ddifa gwir grefydd o fysg dynion; ond yn yr oriau tywyll hyny, pan y byddai y gelyn yn uchder ei ymfrost, a gobaith yr eglwys bron wedi llwyr golli, byddai ymadferthoedd yr efengyl yn tori allan drachefn, a hyny yn ddisymwth, nes gwisgo y naill â gwroldeb a nerth, a'r llall â dychryn ac â chywilydd. "Daeth y bore a'r nos hefyd," ebai y gwyliedydd. Mae y naill yn dilyn y llall, ac yn aml y mynyd mwyaf tywyli ydyw y mynyd nesaf i doriad y wawr. Fel hyn y mae wedi bod, ac yn debyg o fod eto, ar deulu Duw. Os nad yw dynion doethion yn camgymeryd, y mae prophwydoliaethau, y gair, a rhediad cyffredinol pethau ar chwareufwrdd y byd y dyddiau hyn, yn rhoi lle cryf i feddwl mai drwy orthrymderau

hwyrach o bob math, y bydd yr eglwys eto, megys bob amser, yn cael ei chymhwyso i dderbyn ei gwaredigaeth o law yr Arglwydd. Fe ddichon fod yn anghurheidiol i'r saint gael teimlo oddiwrth gynddaredd a nerth eu gelynion unwaith yn rhagor, i'w parotoi i'r ymdoriad gorfoleddus hwnw ag a'u meddianna ar gwmp Babilon, ac i fwynhâu gogoniant y dyddiau diweddaf. Yr Arglwydd yn unig a wŷr.

Ein tuedd naturiol ni, wrth chwilio beth yw gobaith yr eglwys gyda golwg ar amseroedd i ddyfod, ydyw edrych yn unig i ansawdd yr eglwys ei hunan, a barnu oddiwrth agwedd ei hysbryd a'i duwioldeb ar y pryd pa orchestion mae yn debyg o gyflawni rhagllaw. Ac os i effeithiolrwydd ei gweithrediadau o fewn rhyw gylch neillduol yn unig yr ymofynir, dyma y rheol i farnu hefyd. Er esiampl, a ydych chwi yn gofyn, A oes diwygiad yn debyg o dori allan yn Nghymru y dyddiau hyn, trwy yr hwn y bydd i liaws o'r genedl gael eu hadnewyddu a'u cyfnewid drwy nerth yr efengyl? Yr ydym ninnau yn ateb, drwy ofyn yn ol i chwithau, Dynion o ba ysbryd yw yr offerynau sydd i ymaflyd yn y gwaith? A oes rhyw newydd-deb mwy na chyffredin yn ysbryd yr eglwys ar hyn o bryd? A ydyw ei gweinidogion yn cael eu gwisgo â chwaneg o nerth o'r uchelder? A ydyw y gallu sydd yn achub pechaduriaid yn gweithio yn fwy amlwg gyda hwy yn awr nag yn y dyddiau o'r blaen? Heb ryw argoelion o'r fath yma, nid oes un reol, beth bynag a wna Penarglwyddiaeth, wrth yr hon y gall dyn farnu fod adfywiad crefyddol wrth y drws. Ond pan fyddo diwygiad ar gylch mwy eang ar gymeryd lle, a rhanau eang o'r ddaear i gael eu hadnewyddu, mae dynion craffus wedi sylwi nad yn yr eglwys yn gymaint, ond yn hytrach yn ansawdd y byd ei hunan, y mae y rhagbarotoadau iddo yn gyffredin i'w canfod egluraf. Mae rhyw addfedrwydd dirgel ynddo ar brydiau felly i gyfnewidiadau, rhyw gynhwrf ar wyneb y dyfroedd duon marwol, ag sydd yn rhagargoelion o doriad allan fywyd, goleuni, a threfn. Os ydyw y syniad hwn yn gywir, nis gallwn ni lai nag edrych ar un peth yn ansawdd grefyddol y byd y dyddiau hyn, fel un o arwyddion mwyaf nodedig yr amseroedd, ac yn llawn gobaith i eglwys Dduw, a hyny ydyw, *yr adfeiliad cyffredin ag sydd wedi ymaflyd ynhob ffurf o goelgrefydd.*

Ni a gymerwn y fantais i ddwyn awdwr y *Saturday Evening*, ac awdwr rhestr o lyfrau gorchestol, yn fwy i sylw y darlennydd, drwy gyfeithiad rhwydd o rai o'i syniadau ar y mater yma.

“Y prif amgylchiad (medd efe) ag sydd yn gwahaniaethu ystâd grefyddol dynolryw yn ein hamser ni, â'i gymharu âg unrhyw yspaid arall ynghylch yr hon y mae hanesyddiaeth yn ein galluogi i ffurfio barn, ydyw y wêdd wrach-iaidd a berthyna yn ddiwahaniaeth i bob un o brif goelgrefyddau y gwledydd. Fe fu amserau pan, os byddai y naill yn adfeilio, y byddai eraill yn eu cyflawn rym, neu megys newydd godi o'u cryd a dyfod allan gyda nerth y cawr. Os olrheiniwn ni gwrs amser dros yspaid pedair ar hugain o gan-rifoedd, ni a gawr mai fel hyn yr oedd pethau ymhob ystod. Ymhob un o honynt fe geid, yma neu acw o fewn cylch goleuni hanesyddiaeth, ryw ffurf neu gilydd o gyfeiliornad crefyddol ag a fyddai ar y pryd wedi ymasfyd yn gadarn yn meddyliau y gwledydd pa rai ag a fyddent wedi syrthio yn aberthau iddo.

“Ond er fod ein gwybodaeth am ddynolryw yn awr, tu hwnt i bob cymhariaeth, yn fwy helaeth a chywir na dim a feddiannwyd gan neb o'r blaen, ni chanfyddwn mewn un parth unrhyw dwyll crefyddol cryf a gweithgar, y fath ag sydd yn goresgyn y byd, neu yr hwn sydd yn dwyn sylw plant dynion trwy y profion mae yn ei roddi o'i awdurdod ar y dychymyg ac ar nwydau terfysglyd ein natur. Y gwrthwyneb yw y gwirionedd, a hyn ymhob cylch. Diau fod y cythreuliaid yn dal awenau eu llywodraeth gyda dwylaw crynedig. Mae ysbryd cynghor a chadernid wedi ymadael oddiwrth-ynt, ac ysbryd anturiaeth a thwyll eofn a digywilydd sydd hefyd wedi myned ymaith. Mae yn ymddangos megys pe na byddai na gwroldeb na chydgor-diad mwyach i'w cael yn llysoedd llywodraeth yr awyr. Ac nid yn unig mae pob ffurf arosol o gyfeiliornad yn hen—y rhan fwyaf o honynt hwnt i gof felly, ond y mae pob ffurf yn ddinerth yn gystal ag yn hen. Neu, os mynem gael gair a ddarlunia ar unwaith ansawdd bresennol gau-grefydd drwy y byd, nis gallwn gael yr un mwy cymhwys na'r gair a goffawyd eisoes; hyn yw, mae ofergoelion plant dynion yn awr yn 'hen ac yn oedranus.' Ac oni feiddiwn ni dreiddio can belled i'r amseroedd dyfodol ag i ychwanegu, 'maent yn agos i ddiflanu?'"

Wedi darlunio ansawdd grefyddol tylwythau llai enwog, dywed fel hyn am yr eiddo y Chinëaid :—

“Mewn gwirionedd prin y gellir dywedyd fod dim o un math o grefydd yn China, os tynwn ni allan, ar y naill law, yr hyn nad yw ddim angen na moddion llywyddiad gwladol a rhwysg llywodraeth, ac ar y llaw arall, yr hyn nad yw yn unig ond arferiad teuluaid, neu hen orwychder y drefn o fyw. Mae oesoedd wedi myned heibio er pan fu meddwl na theimlad na

nywdau yn bywhâu ofergoelion y bobl hyn. Mae crefydd China y mynyd hwn, nid yn unig mor ynfyd o wych, ond hefyd mor farw o galon, â *mummy* Aiphtaid, ac yn gymhwys yn unig i orphwys yn y lle y mae wedi bod yn gorwedd er ys dwy fil o flynyddoedd. Cyffyrddwch â hi, neu ysgydwch hi, a hi a faluria yn llwch. Pe byddai dim ond i sefydliadau gwladol China gael eu dadymchwel, yn ofer yr edrychem o'n cwmpas am ei duwiau. Ond a ddichon ofergoelion India ddim bostio am nerth diball yn gystal ag am oedran hybarchus? Yn henaidd fel y maent, onid allwn ni sicrhâu eu bod yn crynu? Yn llai felly, gellir addef, na dim ffurfiau eraill o gau-grefydd ar y ddaear. Fe'u ganwyd i fod yn hirhoedlog; maent yn wir gynnyrch yr hinsawdd, ac agos mor briodol iddo ag ydyw ei hymylusgiaid anferth a gwenwynig. Ond a ellir dywedyd am y ffoleddau hyn, er mor gadarn y maent eto yn ymddangos, na ddygwyd hwy i berygl yn ystod yr hanner can' mlynedd diweddaf, ac yn enwedig yn ddiweddar? Onid oes, i'e yn awr yn ngwallgofrwydd India, fwy o ddefod nag o fywyd? . . . . Onid yw coelgrefyddau y wlad hon a'r gwledydd cyfagos iddi yn cyfranogi (i'e, ag addef yr afael sydd ganddynt ar y bobl) o'r cymeriad goroeidiog hwnw ag sydd yn perthynu yn awr mor hynod i bob ffurf arall o annuwioldeb drwy y byd? Nid ydym yn petruso cadarnhâu y peth."

Wedi nodi y gwledydd lle y ffyna Mahometaniaeth a Phabyddiaeth, mae yr awdwr yn myned rhagddo i'w darlunio yn debyg i hyn :—

"Wrth adolygu y cyfan, hanesyddiaeth y ddwy gau-grefydd arberig yma, mae yn anhawdd (gyda golwg ar bob un o honynt fel eu gilydd) i gau allan o'r meddwl y cyffelybrwydd sydd rhwng eu codiad, eu cynnydd, a'u hadfeiliad, â gyrfa bywyd dyn yn y byd, o fywiogrwydd ieuencyd hyd wanychdod henaint. Onid yw megys pe byddai y gwledydd a nodwyd, yn awr mewn gwarcheidwadaeth, o dan law yr hen gwpl hybarch—gwryw a benyw, y ddau wedi cyddori mewn dyddiau, a'r ddau yr un mor anynad, eiddigus, manyldost, a gwywedig, ac yn bur debyg o fyned i'w beddau ynghyd? . . . . A ydyw yn anghenrheidiol (medd efe am Fahometaniaeth) profi fod pob arwydd ag sydd yn hynodi diwedd gyrfa bywyd yn awr ynglŷn â hi? Mae yr ymherodraeth Fahometanaidd yn nychlyd; mae y ffydd Fahometanaidd yn nychlyd hefyd; i'e, mae y ddwy felly yn ol addefiad y pleidiau eu hunain. Mewn pethau gwladol a chrefyddol, mae y dyddiau hyny wedi dal yr ofergoelledd hwn, yn y rhai y mae yr haul, a'r lleuad, a'r ser yn tywyllu; ac nid yw cymylau (adfywiad) yn dychwelyd ar ol y gwlaw. Mae ceidwaid y tŷ yn crynu, a'r gwŷr cryfion yn crymu, a'r rhai sydd yn malu (doniau celfyddyd a masnach) yn methu am eu bod yn ychydig. Y rhai sydd yn edrych drwy ffenestri (y dosbarth dysgedig) a dywyllwyd. Ac y mae y drysau wedi cau yn yr heolydd (drwy eiddigedd ac anghyfannedd-dra), ac anhunedd yr ymwybodolrwydd o berygl wedi ei meddiannu; a merched cerdd (cyfeddach a bloddest) ydynt wedi eu gostwng i lawr; ac y mae ofnau yn y ffordd, a chwant wedi pallu.

“Ond trwy ba ymadroddion yr ydym ni i ddarlunio yn gywir iechyd a nerth presennol coelgrefydd hagr y gorllewin? Os ydyw grym anfarwoldeb yn wir o'i mewn hi, i ba Barth y mae yr ymadferthoedd bywiol yn awr wedi cilio? A ydyw efe yn ennynu oddeutu y galon? Ai o fewn ac oddiamgylch i wastadoedd heintus y Tiber yr ydym i gael cydgyfarfyddiad y grym a'r gwresogrwydd hwnw ag a ddylai fod yn perthyn i ganolbwynt corff bywiol? Neu ynte, a edrychwn ni i fysg yr aelodau? A ydyw y grefydd Babaidd angen na nychlyd fel yr hanfoda yn nghanol dysgeidiaeth anffyddiog gogledd Italy, neu wrth ochr anghrediniaeth cyfriniol (*mystical*) yr Almaen? Neu ynte, a ddewiswn ni watworiaeth Ffrainc yn hytrach na thrythyllwch Spaen a llygredigaeth Portugal, wrth ymchwilio fel hyn am nerth a gobaith Pabyddiaeth? Ond hwyrach mai yr Iwerddon sydd i fod yn noddfa i'r ddiranc a'r wir grefydd. Ni bydd i ni aflonyddu breuddwydion pwy bynag a fedro ymgyuro yn y fath ddychymyg, ond ar yr un pryd ni phetruswn ddwyn ein barn i benderfyniad—fod Pabyddiaeth fel Mahometaniaeth, ac fel holl goelgrefyddau eraill y byd, yn awr yn ei methiantwech. Mae yn gwbl eglur fod yr holl glefydau ffaidd ag sydd yn gyffredin ynglŷn â diwedd bywyd o drythyllwch wedi goddiweddyd Eglwys Rhufain. Mae hi, yr hon unwaith ydoedd yn hyw yn foethus, ac yn gwahodd breninoedd i'r gwely, yn awr yn cael ei diystyru a'i chasâu yn ei henaint crychlyd. Ac y mae pob clust, i'r hon y mynai sibrwd ei dymuniad gostyngedig, yn troi ymaith oddiwrtw sawyr ei hanadl ddrewedig.”

Ond os gellir barnu fod adfeiliad gau-grefyddau yn un o'r arwyddion ag sydd yn hynodi ein hamseroedd ni, ni a fynem alw sylw y darllenydd at un arall llawn mor hynod a hithau—hyny yw, yr adfywiad nodedig sydd wedi bod ac yn parhâu ar wir Gristionogaeth. Mae crefydd Crist, nid yn unig wedi goresgyn y byd ar ei tharawiad cyntaf allan (gwnaeth gau-grefyddau hyny), ond mae hon ar ol bod oesoedd mewn ystâd o llygredigaeth, wedi adgyfodi drachefn ac ail ymaflyd yn y meddwl dynol, a hyny ar y foment ag yr oedd ei alluoedd wedi deffro ac ymagor yn y modd mwyaf rhyfeddol a fu erioed. Felly y bu yn amser y Diwygiad Protestanaidd. Y pryd hwnw yr oedd dysgeidiaeth, philosophi, a'r celfyddydau, wedi adfywio—rhyddid gwladol a marsiandiaeth yn ymeangu—dynion yn dechreu meddwl, a'r argraffwasg yn rhoi y meddwl hwnw ar bapyr i ehedeg megys gyda yr awel i bob parth—y byd ag oedd wedi bod yn hir yn meddwl ac yn siarad fel bachgen, o'r diwedd yn dechreu dyfod i fod yn ŵr, ac felly yn rhoi heibio ei bethau bachgenaidd; ond ar y mynyd profedig yma, meddwn, ni a gawn Gristionogaeth megys yn dyfod allan o'i hystafell, ac yn ymlawenhâu fel cawr i redeg gyrfa. Erbyn hyn



mae ei sŵn wedi myned i'r holl ddaear, a'i geiriau hyd eithafoedd y byd. Wedi dwfn a maith adfeiliad, mae ganddi afael gadarn eto yn nghydwbybodau a serchiadau lliaws o'n cyd-ddynion, ac y mae yn ail gynnyg at ddarostwng yr holl genedloedd.

Nid ydym ni yn proffesu gwybod beth all fod ansawdd crefydd ysbrydol yn y dyddiau yma. Fe ddichon mai isel ydyw. Ond ar yr un pryd, mae rhyw nodau arbenig i'w canfod yn nghymeriad yr eglwys, y cyffelyb na welwyd o'r blaen, ysgatfydd, er dyddiau yr apostolion, a pha rai, wrth eu hystyried mewn cysylltiad âg arwyddion eraill yr amseroedd, sydd yn sylfaen gref i farnu fod yr Arglwydd yn darpar ei bobl at amgylchiadau ac amseroedd gwell. Ymysg eraill o'r cyfryw arwyddion, nid y lleiaf ydyw yr awyddfryd mawr sydd wedi meddiannu plant yr Arglwydd drwy y byd am fwy o undeb â'u gilydd, a'r teimlad sydd yn cryfhâu yn feunyddiol yn achos yr Iuddewon, hâd Abraham, ac yn enwedig, y tro rhyfeddol sydd ar feddyliau cristionogion o barth eu rhwymedigaeth i ledaenu eu crefydd dros y byd. Mae yr ysbryd hwn wedi meddiannu yr eglwysi efengylaidd o bob enwad crefyddol yn Mhrydain, America, ac ar gyfandir Ewrop. Fe'i hamaethir yn ein Hysgolion Sabbothol; fe'i hanedlir i'n rhai bach. Mae gwael a gwych, cyfoethog a thlawd, hen ac ieuanc, i ryw fesur, pa fodd bynag, wedi eu diodi iddo. O dan ei effeithiau, mae yr hael yn dychymyg haelioni, a myrdd o ddyfeisiau newyddion wedi eu gosod ar droed tuag at chwyddo cyllidau y cymdeithasau daionus, amcan pa rai yw cyhoeddi yr efengyl dros y ddaear. Ymhellach, mae parhâd a chynnydd yr ymdrechadau hyn yn profi, dybygid, hwnt i bob ammheuaeth, nad cynhyrriad trancedig y mynyd yw eu gwreiddyn; nage, ond teimlad pwyllog o rwymedigaeth. Mae y peth, gellir gobeithio, wedi ennill ei le yn meddyliau dynion fel un o ddyledswyddau eraill bywyd. Mae yn wir fod ymdrechadau cenadol wedi bod cyn y rhai a sefydlwyd yn ddiweddar; ond yr oeddynt yn ymdrechadau nad oedd teimladau cristionogion yn gyffredin ddim yn cyd-daro â hwy; fe'i dygid ymlaen drwy frwdfrydedd anarferol ychydig o rifedi. Ond am ymdrechadau ein dyddiau ni, mae dynion deallus yn sylwi nad ffrwyth zel yr ychydig na'r lliaws yn gymaint ydynt, ond yn hytrach ffrwyth argyhoeddiad dwfn, a hwnw yn gweithio yn nghydwbybodau y

rhai mwyaf swrth yn gystal a'r rhai mwyaf gwresog—argyhoeddiad, meddwn, sef argyhoeddiad nad oes gan gristionogion ddim mwy o hawl i esgeuluso myned i'r holl fyd a phregethu yr efengyl i bob creadur, nag sydd ganddynt i esgeuluso rhyw ddyledswydd arall a orchymynodd Crist. Mae hwn yn gyfnewidiad tra hynod yn y byd cristionogol; ac y mae effeithiau y llafur ag sydd wedi deilliaw o hono ar y byd paganaidd yn llawn mor rhyfeddol a hyny. Mae ynysydd cyfain wedi eu hadnewyddu trwy yr efengyl, a'u trigolion wedi newid eu duwiau meirwon am y gwir a'r bywiol Dduw,—dynion ag oeddynt, o bosibl, ymhell ar ol dy eni di, ddarllenwydd, yn addoli pethau mor ddistadl â'r plufyn sydd genym yn awr yn ysgrifenu, wedi eu dwyn i amgyffred dirgeledigaethau yr efengyl ac i adnabod Crist, i.e., ac wedi marw yn ferthyron dros eu crefydd. Mae y pethau anhygoel yma wedi deffro sylw dynion o bob math. Ac er fod y casgliadau a dynir oddiwrthynt gan amrywiol ddynion yn wahanol i'w gilydd, eto y mae pawb yn cydgyfarfod yn y golygiad fod y byd yn addfedu i ryw gyfnewidiadau.

“Mae pob peth,” medd Mr. Bickersteth, “yn argoeli parotoad yr holl ddaear i ryw ddiwygiad mawr a effeithia ar holl ddynolryw. Mae y ffordd drwy yr hon y mae y parthau mwyaf pellenig yn cael eu hûno â'u gilydd yn awr yn rhyfeddol. Mae Prydain, y wlad fwyaf Protestanaidd, drwy ei meddiannau a'i chyson farsiaandiaeth yn cyrhaedd America â'r naill law, a China â'r llaw arall; yn gosod y naill droed ar Benrhyn Gobaith Affrica, a'r llall ar Ogledd-Orllewin America; ac y mae plant Duw yn anfon cenadau heddwch allan i'r dwyrain a'r gorllewin, y gogledd a'r deheu.”

Yn marn y gŵr duwiol hwn, y mae hyn yn rhedeg o flaen gorchwyliaethau barnol yr Hollalluog, oblegid mae yn cyttuno, medd efe, â gair y brophwydoliaeth: “Ac mi a welais angel arall yn ehedeg yn nghanol y nef, a'r efengyl dragywyddol ganddo, i efengylu i'r rhai sydd yn trigo ar y ddaear, ac i bob cenedl, a llwyth, ac iaith, a phobl; gan ddywedyd â llef uchel, Ofnwch Duw, a rhoddwch iddo ogoniant; *oblegid daeth awr ei farn ef.*” A fydd pethau fel y mae efe yn tybied, sydd ammhëus. Ond wrth ystyried ansawdd y byd, a'r elfenau gwrthwyneb sydd o'i fewn, gellid meddwl fod yn anmhosiibl lai na bydd cynnydd yr efengyl, yn awr fel bob amser, mewn cysylltiad â gwrthwyneb-

iadau a chwyldröadau dyeithr a mawrion. Ië, mae eu hysbryd yn ymddangos eisoes.

Hynodrwydd arall a ganfyddir yn nghymeriad yr eglwys y dyddiau hyn, ydyw y sylw arbenig a delir i brophwydoliaethau y Gair; arwydd sicr, tybygid, o amseroedd cyfnewidiol ac o ddeffröad yn meddyliau cristionogion. Pan y mae teyrnasoedd y byd hwn yn ymddangos yn ddisigl, a'r eglwys yn teimlo yn glÿd a diogel o dan aden amddiffynol yr awdurdodau gwladol, a heddwch a chydgoriad yn llywodraethu holl ysgogiadau cymdeithas, mae meddyliau dynion yn gyffredin yn rhy swrth i ofalu ynghylch y dyfodol; mae y dyddordeb ynddo yn colli yn y segur fwynhâd o bethau y mynyd presennol. Ond nid felly mewn amseroedd cyfnewidiol. Pan y mae yr hoil olygfa oddiamgylch yn ymddangos yn wgus ac ansicr, mae yr eglwys ar y prydiau hyny yn teimlo megys o dan anghenrheidrwydd i edrych ymlaen, ac i sugno defnyddiau ei chynnaliaeth a'i chysur o'i thynged dadguddiedig yn y Bibl. "Y gwyliedydd, beth am y nos? y gwyliedydd, beth am y nos?" yw yr ymofyniad yr amser hwnw; ac yna mae prophwydoliaethau y gair yn dyfod yn felus, a'u hastudio a'u manwl-chwilio yn orchwyl llawer mwy cyffredin nag ar dymmorau gwahanol. Parodd y dadymchweliad yn Ffrainc ddirgrynfa drwy holl Ewrop; ac yr ydys yn sylwi, fod o'r cyfnod nodedig hwnw hyd yn bresennol, ac yn enwedig yn ddiweddar, fwy o drafod wedi bod ar brophwydoliaethau nag a fu yn yr eglwys erioed o'r blaen. Mae llawer o'r esboniadau o bosibl yn ffol ac anmrwd ddigon; ond y mae y cyfan ynghyd, er hyny, yn dangos fod sylw cristionogion wedi troi yn fwy nag arferol at air sicrach y prophwydi, a'u bod yn profi mewn amseroedd sigledig mai da y gwnânt fod yn dal arno megys ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll. Hwn yn unig yw sail a rheol eu dysgwyliad o barth pethau i ddyfod; y seren ddydd, fel y dywed un ysgrifenydd, ag sydd i'w harwain trwy yr ystormydd sydd o'u blaen yn bresennol, i hafan eu tawel orphwysfa yn y mil blynnyddoedd.

I'r un achosion, mewn rhan, y gellir priodoli awyddfryd diweddar cristionogion am fwy o undeb â'u gilydd. Mae hyn hefyd, fel y crybwyllwyd eisoes, yn gwneyd y cyfnod presennol ar yr eglwys yn un tra nodedig. Ychydig flyneddau yn ol,

buasai y fath ysgogiad yn anmhosibl. Ond y mae chwyldröadau yr amseroedd hyn wedi dyosg llawer o gristionogion o'u hen gysylltiadau. Mae eu rhagfarn sectaidd wedi lleihâu, drwy yr anmherffeithrwydd a ganfyddant a'r anghysuron sydd wedi dygwydd yn eu cyfundebau neillduol hwy eu hunain; ac mae ofnau terfysgoedd ac ymosod oddiallan hefyd, ynghyd a blino o'r diwedd ar ryfeloedd a dadleuon crefyddol oddimewn, wedi cydweithio i addfedu meddyliau llawer o bobl dduwiol i gyd-nabod fel eu plaid eu hunain ddynion da yr holl fyd a'r holl bleidiau. Yn mynwes pwy y cynnyrchwyd y teimlad yma i gychwyn, nis gwyddom; ond yn fuan wedi i'r ymgais gael ei amlygu, a chalonau tyner wylofus yn achos ymrysonau yr eglwys ddechreu dolefain UNDEB! UNDEB! yr oedd adlais y gair i'w glywed o fynwesau miloedd drwy Ewrop ac America.

Mae yn ddiammheu y bydd y cyfarfod a gynnaliwyd yn Liverpool yn yr Hydref diweddfar ar gael yn hir yn nghroniclau yr eglwys. Nid peth bychan ydoedd gweled cynifer o Eglwyswyr ac o Ymneillduwyr—dynion o bob parth, ac o fysg pob enwad efengylaidd, o fewn y Deyrnas Gyfunol, wedi cydymgynnull i ddyben mor oruchel ac anghyffredin ag amcanu ffurfio undeb gweledig rhwng holl deulu Duw. Ac os llenwir yr holl eglwys â'r ysbryd ag oeddynt hwy wedi eu diodi iddo y dyddiau hyn, maent yn sicr o lwyddo hefyd. Yr oedd y fath gydgordiad yn ffynnu yn eu mysg, tòn eu hysbryd a'u gweddïau mor gyffelyb, fel y tybiem y buasai yn anmhosibl i'r mwyaf cyfarwydd yn Shibboleth y gwahanol bleidiau wahaniaethu y naill oddiwrth y llall. Gall- esid gofyn, Pwy yw yr Eglwyswr? a pha le mae yr Ymneillduwr? Yr oll oedd yn amlwg, yn enwedig yn y rhanau defosiynol o'r cyfarfod, oedd y *crisïon—dynion âg Ysbryd Duw ganddynt*. Hyderwn mai blaenffrwyth yr undeb efengylaidd, cynllun ac ernes o'r peth ag sydd i gymeryd lle drwy'r byd crefyddol, ydoedd y cyfarfod hwnw. Pa fodd bynag, mae yr ysgogiad yn tueddu i feithrin gwell teimlad rhwng cristionogion a'u gilydd, ac i ddwyn eu meddwl yn fwy at rai o egwyddorion neillduol eu crefydd ag sydd wedi bod yn wastad, fe ddichon, yn rhy ddisylw ganddynt, yn enwedig yr egwyddor fawr o oddef eu gilydd mewn cariad. Hyd yma, pan feddylid am undeb, tybid yn anghen- rheidiol i gristionogion aberthu rhywbeth o'u golygiadau per-

sonol—rhanu yr ymrafael trwy gymeryd a rhoi mewn gwahanol opiniynau. Ond nid oes gan y cristion ddim hawl i wneuthur hyny er mwyn undeb â neb. Ond y mae ganddo hawl, iē, y mae dan rwymau, i feithrin undeb ysbryd â christionogion eraill o wahanol olygiadau iddo ei hun—dynion, tra y maent yn cyttuno âg ef yn y pethau hanfodol i iachawdwriaeth, sydd yn gwahaniaethu oddiwrtho mewn pethau o lai o bwys; a'r egwyddor ar ba un mae y Bibl yn galw am yr undeb yma ydyw, i bob ochr oddef eu gilydd yn y pethau y maent yn gwahaniaethu, a phob un fod yn sicr yn ei feddwl ei hun. Dyma sail yr undeb yr amcana cristionogion ei gyfansoddi y dyddiau hyn. Nid oes neb yn cael ei alw i guddio ei olygiadau ei hun, nac i roi wyneb i olygiadau eraill, ond pawb yn rhydd yn eu cylch priodol, ac yn ysbryd yr efengyl, i gyhoeddi ac amddiffyn eu crêd neillduol eu hunain fel o'r blaen; ond ar yr egwyddor fawr o gydoddefiad yn y pethau yma eu bod yn ymgysylltu â'u gilydd i'r dyben o arddangos i'r byd undeb hanfodol eglwys Dduw, yn meithrin brawdgarwch a gwrthsefyll cyfeiliornadau, a chyd-ddwyn tystiolaeth i wirioneddau mawrion yr efengyl. Mae yn ddianmheu fod hyn yn argoel o ryw deimlad newydd yn yr eglwys. A ganiatâ Duw i gristionogion rhanedig yr oes yma i gyrhaeddyd y fath amcan dymunol, amser yn unig a ddengys; ond meddyliem, pa fodd bynag, mai da yw fod hyn yn eu calon.

Ond yr ydym ni yn awr yn gadael yr eglwys, ac yn troi i ystyried ychydig pa arwyddion a ganfyddwn wrth edrych i ansawdd y byd yn gyffredin, tymher ac ysbryd yr oes a'r amseroedd presennol, mater llawer mwy anghysurus, ond eto nid anffuddiol i'n darllenwyr wybod ychydig yn ei gylch.

Byddai casglu oddiwrth y sylwadau blaenorol fod pob peth yn dda yn gangymeriad mawr. Na! os yw coelgrefydd ar y cwbl yn adfeilio, a gwir grefydd yn bywiocâu, yn lle troi oddiwrth y naill at y llall, mae lle i ofni fod gogwydd llawer oddiwrth y ddwy i annuwiaeth hollol. Mae lliaws, pa fodd bynag, hyd yn nôd yn ngwledydd Crêd, wedi suddo i anwybodaeth ac anghof dirfawr o Dduw. Edrychwn i gyflwr presennol Prydain ei hunan. A ydyw ansawdd trigolion y wlad ddedwydd hon yn dymmorol a chrefyddol, tuag at Dduw a thuag at eu gilydd, yn gyfryw ag y mynai pob cristion a gwladgarwr iddo fod? Yr ydym yn rhwym



o ddyweyd, gwatwared a watwaro, fod pob peth yr ydym yn ei weled, yn ei glywed, ac yn ei ddarllen, yn ein gorfodogi i gredu yn hollol i'r gwrthwyneb. Fod llawer o seiliau i obeithio y goreu a gydnabyddwn yn ddiolchgar; ond o'r ochr arall, os nad yw ysgrifenydd yn camsynied yn gwbl, mae llawer iawn o bethau yn ansawdd bresennol ein gwlad o natur dra argoelus a phwysig. Meddyliwn, er esiampl, am gyflwr alaethus y werin gyffredin yn ein gwlad, ein gweithfaoedd, a'n trefydd poblogaidd. Yma ni a gawn gruglwyth anferth o blant dynion wedi soddi i dywyllwch ac anwybodaeth dybryd, ac yn yr anwybodaeth hwnw yn cyflawni pob drygioni bron ag y mae natur ddynol yn alluog i'w gweithredu. Mae y darluniad a rydd Mr. Bickersteth o Lundain ei hunan, gogoniant yr holl ddaear, tybygid, lle mae doethineb, a'r oll a gyrhaedda plant dynion, wedi eu dwyn i'r perfeithrwydd eithaf, yn ddigon i beri dychryn i bob meddwl ystyriol. Ceir yno filiwn o leiaf o halogwyr dydd yr Arglwydd bob Sabboth; dynion nad ydynt byth yn myned i un lle o addoliad, ac i liaws o ba rai y mae ystyr y gair Bibl, ac enw y Gwaredwr, yn anadnabyddus. Cyfrifir fod yno ynghylch tair miliwn o bunnau yn y flwyddyn yn cael eu gwario am *gin* yn unig: mae pob rhyw ac oed yn heidio i balasau hwnw, ac yn troi oddiyno yn aml at orchwylion chwith ac i anneddau llymlyd—cartref ffyrnigrwydd, a phob gweithred ddrwg. Yn y flwyddyn 1843, cymerwyd 62,477 o ddynion i'r carchar am ddrygau cyhoeddus; yr oedd llawer o honynt yn ddynion ieuainc hefyd, ac yn eu mysg 16,918 na fedrent ddarllen nac ysgrifenu. Nid llai blin drachefn yw meddwl am y benywod tyner sydd wrth y miloedd ar filoedd wedi ymwerthu i ddrygioni! Ac o herwydd nad yw bywyd o drythyllwch yn para yn hir, dywedir fod y *system* fwyaf perffaith wedi ei sefydlu tuag at gyflenwi y bylchau y mae afiechyd ac angyfath yn ei wneyd yn eu mysg. Mae dynion megys wrth eu galwedigaeth yn rhagddarbod dros y cnawd, drwy hudo a maglu genethod ieuainc ein gwlad, i'e a'u cyrchu o wledydd eraill hefyd. Mae yr argraffwasg hithau, gyda'i darluniau anniwair, ei thraethodau a'i newyddiaduron trythyll a chabledus, fel anadl uffernol yn ennynu pob drygioni ag sydd ar droed. O mor ychydig yr ydym ni yn ei ddeall nac yn ei feddwl am y trueni diamgyffred i ba un mae myrddiynau o'n cydwladyddwr wedi syrthio iddo rhwng dwylaw pawb! Tra mae eu huchafiaid

wedi eu anghofio, a christionogion yn troi rhwng cwsg ac effro yn eu hen gylchoedd arferedig, a'r pleidiau crefyddol yn ymrafaelio â'u gilydd, mae miloedd Prydain wedi anghofio Duw, ac yn debyg o gael eu dyfetha o eisieu gwybodaeth. "Disgynwch lle mynoch chwi," medd un ysgrifenydd, "i blith y tlodion mewn tref a gwlad, mae yn rhaid i chwi gyfaddef fod gweithwyr y deyrnas gyfoethog hon wedi suddo, neu ynte yn suddo, yn brysur i amgylchiadau, y fath, ag ystyried pob peth mewn perthynas iddynt, na bu mo'u cyffelyb erioed." Yn awr ac yn y man o hyd mae y gweithredoedd mwyaf annaturiol ac ysgeler yn cael eu cyflawni. Ni fedrai dychymyg yr hen Jeremiah ddirnad am ddim mwy alaethus yn ngwarchae a chwymp Jerusalem dan farn Duw, na dwylaw gwragedd tosturiol yn berwi eu plant eu hunain; ac eto mae pethau pur debyg wedi eu cyflawni yn Mhrydain, a hyny pan nad oedd ar y wlad na gwarchae na newyn. Onid yw yn gofus gan ein darllenwyr am dad a mam, er ys tro yn ol, yn gwenwyno tri o'u plant eu hunain, er mwyn ennill drwy hyny ychydig arian ag oedd yn dyfod yn ddyledus iddynt oddiwrth ryw gymdeithas i gynnorthwyo y tlodion i gladdu eu meirw? Ah, nid estroniad creulawn, nid dynion duon mewn gwlad baganaidd, a gyflawnodd hyn! Nage, ddarllenwyr hynaws, ond tad a mam dynion gwynion a gwâr yn ngwlad efengyl a gyflawnodd hyn. Pe na buasai ond tro arno ei hun, buasai yn well ei guddio na'i grybwyll. Ond y perygl yw, fod yn rhaid fod y trueni a'r drygnaws a'i hachosodd, yn gyffredin a chryf ymysg y lliaws cyn y torai allan mewn gwedd fel hyn yn mysg yr ychydig. Mae y fath esiamplau, mae lle i ofni, megys y dywed un gŵr, fel crib y mynydd uchaf yn ymgodi yn gyntaf i'r golwg, wrth droed yr hwn mae gwlad o fynyddau a thir eto heb ymddangos.

Onid gadawn y rhestr hon o drigolion ein gwlad, ac esgynwn radd yn uwch i blith dosbarth mwy dysgedig a meddylgar. Yma drachefn mae anffyddiaeth ac egwyddorion drwg wedi ffynnu yn fawr. Fe ddichon nad oes ond ychydig mewn cymhariaeth yn proffesu hyny yn gyhoeddus, ond y mae ysbryd y peth wedi lefeinio miloedd. Mae llaweroedd nad ydynt yn myned i drafferth i wadu crefydd mewn geiriau, eto yn ei gwadu yn hollol ar weithredoedd; i ba rai y mae yr ystyriaeth am Dduw, a byd tragwyddol, a holl athrawiaethau pwysig y Bibl, mor ddieffaith â

phe byddai eu meddyliau wedi ymwrthod â hwy yn gwbl fel gwirionedd. Dyma ansawdd lliaws yn Nghymru y dyddiau hyn, ac ni a ddylem gofio hefyd mai dyma y cam cyntaf i anffyddiaeth. O hir gellwair gyda y Bibl, eir o'r diwedd i'w ammheu, ac oddiyno i'w wadu; ac nid mor anhawdd chwaith. O gynifer sydd yn y byd yn synied, yn siarad, ac yn ysgrifenu, megys pe na byddai Duw yn bod! Os nad yw Cristionogaeth yn cael ei gwrthwynebu yn uniongyrchol, mae hi yn cael ei hesgeuluso yn gwbl. Mae bywyd ac angeu, a'r holl amgylchiadau pwysig a berthyn i ddyn, yn cael eu trin heb un cyfeiriad at grefydd. Nid y Bibl yw eu rheol i farnu gwirionedd; ond i'r gwrthwyneb, mae eu syniadau yn aml yn groes i'w athrawiaeth ef, a'u holl ymchwiliadau yn cael eu dwyn i'r fath benderfyniad ag sydd yn dirgel gynnwys nad yw crefydd ddim yn y byd. Yn marn y dynion hyn, mae pob crefydd fel eu gilydd; neu, os caniatêir rhagoriaeth yn addysgiadau moesol yr efengyl, mae ei hathrawiaeth fawr hi, bywyd a grym ei moesoldeb, yn cael ei difrio a'i chablu fel ffol-dybiau dynion rhagfamillyd ac opiniyngar. Nid oes i dduwioldeb, neu ansawdd yr enaid tuag at Dduw, ond lle bychan yn rhestr eu rhinweddau hwy; iawn ymddygiad rhwng dyn a dyn yw y cyfan; ac wrth ddysgu hyny, mae awdurdod Duw, ei ddaioni yn Nghrist, cosb a gwobr yn y byd a ddaw, a holl gymhelliadau goruchel yr efengyl, yn cael eu gadael allan yn hollol. Byddai eu crybwyll, dybygid, yn ormod o sarhâd, ac yn dangos amddifadrwydd o feddwl amaethedig ac o chwaeth goeth. O falchder a gelyniaeth calon dyn! y creadur fel hyn yn diystyru ei Greawdwr yn ngolud ei ddaioni; yn ceisio ymryddhau oddiwrth ei orseddfainc, a chau y Jehofah allan o'i fyd ei hun! Yn ddiweddar, yr oedd un o benaduriaid Ffrainc yn annog Pabyddiaeth, Protestaniaeth, a philosophi, i gydfyw yn heddychol â'u gilydd, ac mewn cydgordiad â chyfansoddiad y wlad. "A philosophi," medd efe, "yr ydwyf yn galw pob opin-iwn ag sydd yn gwrthod cydnabod fod meddwl dyn yn rhwymedig i grêd grefyddol dan unrhyw ffurf nac enw, ond mewn pethau crefyddol, fel mewn pethau eraill, yn ei adael ef yn rhydd i gredu neu i beidio credu, ac i ymlwybro ymlaen trwy ei egni a'i ymdrechadau ei hunan." Hyd y gallwn ni ddeall, mae y philosophi yma, hyny yw anffyddiaeth, wedi fynu

yn ddirfawr, nid yn Ffrainc yn unig, ond trwy wledydd Ewrop yn gyffredinol.

Ond ni a allwn sylwi ymhellach fod anffyddiaeth yn ddiweddar yn ymddangos megys wedi blino yn ceisio diddymu Cristionogaeth mewn ffordd ddirgel, fwyn ac anuniongyrch, ac wedi troi i'w difrio a'i chablu yn gyhoeddus. Mae ymdrechadau cryfion wedi cael eu gwneuthur i sefydlu egwyddorion atheistiaeth; capelydd wedi eu codi, cenadon yn cael eu cynnal, a thraethodau eu taenu, yn llawer o drefydd ein gwlad ni ein hunain, o bwrrpas i gyhoeddi ei hegwyddorion, ac i geisio difa o feddyliau dynion bob crêd am y Bôd mawr a'r byd anweledig. Ymfrostir ynddynt fod y byd wedi myned uwchlaw athrawiaeth Cristionogaeth—ie, yn tyfu yn brysur yn uwch na phob crefydd. Mae crefydd, medd y dynion safnrwth yma, wedi dar fod ei gweinidogaeth, a philosophi, hyny yw anffyddiaeth, yn dechre ar yr eiddo hithau; a thrwy ddinystrio pob sylfeini, a diystyru pob rhinwedd, addawa adnewyddu y byd! Gellir gobeithio na bydd rhuthr o'r fath yma, mwy na dyfroedd budron y llifogydd, ddim o hir barhâd; ond er hyny, mae lle i ofni ei fod wedi cario miloedd o ran eu teimladau ymhellach oddiwrth yr efengyl, ac yn eu mysg amryw o fechgyn Cymru hefyd, a rhai a fagwyd yn yr Ysgol Sabbothol, ac ar fronau eglwys Dduw.

“Mae y dynion hyny,” medd Isaac Taylor, “wedi goddef eu hunain i feddwl yn gymysglyd, neu prin heb feddwl oll, ag sydd heb wybod beth yw ystâd foesol a thuueddiad lliaws anferth o'u cydwladwyr, hwyrach y nifer mwyaf o honynt, a hyny o bob graddau, ar y mynydd presennol. Ac yn wir, od oes neb fel hyn yn anwybodus o'r peth y dylai pawb ei ddeall, mae yr ysgogiad nesaf yn y corff gwladol—ymagoriad naturiol, ac (oni attelir) anocheladwy, yr achosion sydd eisoes ar waith, yn sicr o'u synu fel y peth mwyaf aruthr a fu erioed. . . . Mae y gair am y ffaith gyffredin o gynydd y bobl mewn gwybodaeth yn awr yn hysbys, ac nis gellir yn hawdd ei hammheu. Ond pa effaith sydd i hyn ar grefydd? (Wedi gwneyd ychydig o sylwadau eraill, ateba)—Er nad yw lledaeniad gwybodaeth wedi pelláu oddiwrth grefydd neb o'r cyfryw ag oedd yn meddu profiad o honi o'r blaen (pell oddiwrth hyny), ac er fod lliaws o'r rhai na ddarfu i'r goleuni diweddar prin eu cyrhaeddyd, yn aros lle yr oeddynt gyda golwg ar grefydd, hyny ydyw, mor anwybodus o honi â'r Caffrariaid, eto y mae y gwirionedd athrist yn rhy amlwg, fod corff dirfawr o'r bobl, a hyny o bob graddau, ar ba rai y mae wedi effeithio i'w dycethro a'u pelláu, ac i'w parotoi i bob math ar annuwioldeb. Ac eto, nid yn bur ebrwydd y mae dynion yn ysgwyd ymaith hyd yn nôd y rhagfarnau a gynnaliant gydag unrhyw fri, ond y maent yn eu cadw fel

defodau, ac yn troi atynt yn awyddus ymhell wedi rhoddi i fyny y sylwedd. Ac felly y mae Cristionogaeth yn awr—ei ffurfiau o'r hyn lleiaf—yn sefyll ar riniogau miloedd a degau o filoedd o anneddau ein gwlad—alaethus olwg! fel llettŷwr diystyr a thramgwyddedig, yn barod i ymadael dros byth, ac eto megys heb gwbl benderfynu gwneyd.

“Yn ddiddysg a diarweiniad, ac mewn ammheuaeth am y pethau mwyaf eu pwys, mae myrddiynau o'r Prydeiniaid, pa rai sydd wedi dysgu meddwl, ond heb dderbyn addysg, neu ddim ag sydd effeithiol, yn sylly yn ddiserch ar Cristionogaeth gymysglyd a rhanedig ein hoes, yn ansicr pa ochr i'w ddewis, ac am hyny yn dewis yr ochr o ddifrawder dinystriol.”

Ond fe ddichon, wedi y cwbl, nad oes dim yn hynodi yr amseroedd yma yn fwy nag adfywiad disymwth ac annysgwyliadwy Pabyddiaeth. Er ein bod yn parhâu i obeithio fod y golygiadau o eiddo Mr. Taylor a ddyfynnodwyd, am ansawdd y grefydd hono, ar y cyfan yn gywir, eto mae yn rhaid cyfaddef, fod y cynnydd a'r adnewyddiad sydd wedi bod arni yn ddiweddar wedi siomi hyd yn nôd y gŵr hwnw ei hunan. Beth bynag fydd y canlyniadau, mae hyn, dybygid, yn awr yn sicr, fod Pabyddiaeth mewn undeb â'i chwïorydd, atheistiaeth ac anfoes, yn sicr o wneyd un ymdrech egnïol eto i ddyfetha rhyddid a chrefydd, ac i adennill ei goruchafiaeth ar y byd. Hyd yn ddiweddar, credid yn gyffredinol fod yn anmhosibl i Babyddiaeth ymadnewyddu drachefn. Ystyrid pob ofn am ei chynnydd yn ynfydrwydd, a phob ynganiad ei bod hi yr un o ran ei hysbryd fel arwydd o ragfarn a chulni meddwl. Bernid fod cynnydd gwybodaeth yr oes eisoes wedi llarieiddio a newid ei natur, ac y byddai iddi yn raddol gael ei goleuo a'i choethi fwyfwy drwy yr efengyl nes ei chyfnewid o'r diwedd yn Cristionogaeth bur. Yr oedd llawer, mae yn wir, ac yn eu mysg ambell un yn Nghymru, ag oedd yn dal o hyd fod y Bibl yn dangos i'r gwrthwyneb; mai gelyn Crist a'i deyrnas hyd y diwedd fyddai Pabyddiaeth, ac nad ydoedd hi i'w chyfnewid ond i'w dyfetha; a bod yn ddigon tebyg hefyd y goddefid iddi, cyn ei dinystr, wneyd ymdrech llwyddiannus dros ychydig i ail feddiannu y byd; ac am hyny y ceid hi yn uchder ei hymffrost yn awr ei barn yn gadarn ac yn frigog fel y lawryf gwyrdd, pan y byddai bwyall dinystr yn cael ei chodi ar ei gwreiddyn. Ond ein tadau, pa le y maent hwy? Yr oeddym ni yn eu hanghredu; prin yr ymgadwodd rhai o'u brodyr rhag gwawdio a diystyru eu hofnau; ond fe ddichon y bydd rhai o



honom byw yn ddigon o hyd i gael achos i gofio am danynt. Mae yn wir i'r dadymchweliad yn Ffrainc, a'r rhyfel a ganlynodd, roi ergyd marwol i Babyddiaeth; ac fe ddywedai llawer ar ddiwedd hwnw, ei marw hi, ond hi a gryfhaodd yn ddirfawr ar ol hyny. Darfu i'r galluoedd a roisant Bonaparte i lawr, helpio y Pab i godi; ac o'r awr hono allan, mae ei grefydd yn cynnyddu yn gyflym a chyson, ac wedi amlygu mwy o nerth a bywyd nag a ddangosasai er ys can' mlynedd o'r blaen.

Trwy gynnorthwy yr ysgrifenydd ag sydd yn gwylio ei chamrau, gallasem, pe buasai ein terfynau yn caniatâu, roi hanes maith am ei hysgogiadau a'i chyflwr presennol yn y byd. Yn Spaen, er esiampl, er pob anffawd a ddygwyddodd iddi yno, mae yn ddigon cref heddyw i wneyd heddwch â'r llywodraeth ar ei thelerau ei hunan, ac i orfodogi yr awdurdodau gwladol i brynu ei ffafr drwy adferu yn ol iddi y meddiannau eglwysig hyny ag oeddynt unwaith wedi myned yn fforffed i'r wladwriaeth. Yn Portugal, drachefn, mae yn meddu awdurdod mawr. Os bydd dyn o ffydd wahanol i'r un Babaid yno, rhaid ei bod hi gydag ef ei hun ger bron Duw. Pe meiddiai ddysgu ei grefydd i arall, mae hyd yn nôd cyfraith y wlad yn ei olygu yn euog o gabledd, am yr hwn y gall y barnwr ei ddedfrydu ef i ddirwy, carchar, neu unrhyw gosbedigaeth gorfforol i fyny hyd anghyngar ei hun. Yn Ffrainc, yr un ffunud, er ei philosophi a'i chynddaredd unwaith yn erbyn ei hen grefydd, mae Pabyddiaeth yn byw o hyd. Ië, ymddengys y wlad yn ddiweddar fel pe byddai am roi unwaith yn rhagor ei nerth a'i hawdurdod i'r bwystfil, a phrofi ei hunan drachefn o'r newydd y peth mae hi a'i breninoedd wedi bod drwy yr oesoedd mor hynod am dano, sef yn blaid gref a ffyddlawn i'r grefydd Babaid. Er ys tro yn ol, fel y gwyddom, bu yn defnyddio ei llongau rhyfel i gludo offeiriaid Jesuitaidd Rhufain i wledydd estronol, a'i harfau rhyfel i orfodogi y llywodraethwyr a'u deiliaid i'w derbyn. Gellid casglu fod Pabyddiaeth yn achos o anesmwythyd i'r awdurdodau gwladol eu hunain yn Ffrainc. Mae M. Guizot, wrth geisio gwneyd cynghrair rhyngddi hi â Phrotestaniaeth, yn dyweyd, "Yr unig ffordd i sicrhâu heddwch ydyw i'r ddwy grefydd, ac yn enwedig y Babaid, gyfyngu eu hunain i fywyd crefyddol, a llywodraethu pethau ysbrydol mewn perffaith annibyniaeth, ond peidio ag ymyryd â phethau gwlad, nac attal

dim ar weithrediad cyfraith y tir, a rhydd-ymchwiliad." Ond yn lle hyny, mae Eglwys Rhufain, fe ddywedir, wedi medru llwyddo i ddadymchwel yr addoliad Protestanaidd mewn amryw fanau yno, ac yn ddiweddar wedi llwyddo hefyd i roi un o'i hen offeiriad ei hunan yn y carchar, yn unig am gyhoeddi i'r byd ei resymau dros ymadael â'i chymundeb. Ië, y mae yn ddigon cref a digywilydd yn Ffrainc y dyddiau hyn i geisio, yn groes i'r siarter o dan ba un y mae y brenin presennol wedi esgyn i'w orsedd, holl addysg y deyrnas i'w dwylaw ei hun. Mae gwledydd eraill yr un modd, lle y bu eu breninoedd unwaith yn chwalu mynachdai a lleiandai, hen nythod Pabyddiaeth, ac yn tori y naill gadwen ar ol y llall ag oedd yn dal eu deiliaid mewn cysylltiad â Rhufain, wedi ail syrthio i raddau mawr i freichiau y dyn pechod. O'r braidd y mae enw o ryddid crefyddol yn lla wer o wledydd y Cyfandir. Yn rhai o honynt fe'n hysbysir fod dyn yn agored i alltudiaeth am newid ei grefydd; a phrin y caiff teithiwr gario Bibl at ei wasanaeth ei hunan drwy eu terfynau, heb fod yn ddarostyngedig i gosbedigaeth am hyny. Dywedai y cenadau o Scotland at yr Iuddewon, fod eu Biblau a'u traethodau yn cael eu cymeryd oddiarnynt hwy yn gyson pan yn croesi cyffiniau Awstria, ië, hyd yn nôd y rhai oedd wedi eu hysgrifenu yn yr iaith Hebraeg. Ac os gwrthwynebant i hyny, yr atebiad yn ddigwmpas ydoedd, "Nid yw y peth yn oddefol yn y wlad hon." Drachefn, edrychwch i America; os yw hanesion yn gywir, mae y grefydd Babaidd yn cynnyddu yn yr Unol Daleithiau mor gyflym, os nad yn fwy felly, nag un wlad arall. Mae yno wedi ymsefydlu ar wastadedd bras y Mississippi, lle mae yn debyg o gael pob peth wrth ei hewyllys ei hun. O fewn y deng mlynedd diweddaf yma, mae wedi mwy na dyblu ei hesgobion, ei hoffeiriad, ei heglwysydd, a'i haelodau yn y wlad hono. Medda hefyd ar sefydliad cenadol cryf, pa un sydd yn anfon allan negeseuwyr Rhufain, i gyhoeddi ei ffydd, ac i wrthsefyll cenadau Protestanaidd, a hyny yn India y Dwyrain a'r Gorllewin, Ynysoedd Môr y De, China, a phob parth o'r byd.

Ond gyda phryder y gofynir, Beth am Brydain?—y wlad ag y mae adfywiad ysbryd anghristaidd ar y Cyfandir wedi arwain i sefydlu cyfarfod i gydweddio am ei dychweliad yn ol i'r ffydd Babaidd—Archesgob Malines yn annog ei offeiriad a phawb yn

ei esgobaeth i neillduo dydd Iau i'r perwyl hwnw, gyda rhodd o gan' niwrnod o *indulgence* am bob dydd y cyflawnir y fath ddyledswydd bwysig yn ffyddlawn a chalonog.\* Beth am Brydain, meddwn! A ydyw y wlad hon yn para o hyd yn gaerau ac yn rhagfur y Diwygiad Protestanaidd? A! y mae bylchau lawer yn y muriau, a lle i ofni fod y gelyn yn dyfod i mewn fel afon hefyd. O na ddeuai Ysbryd yr Arglwydd i godi baner yn ei erbyn! Yn gyntaf oll, onid yw yn alaethus meddwl fod Pabyddiaeth yn tori allan megys yn mynwes Protestaniaeth ei hunan? Cynifer o weinidogion yr Eglwys Sefydledig, un rhan o bedair medd rhai, yr hanner medd eraill, o ran teimlad a barn, cystal a myned drosodd eisoes at Eglwys Rhufain! Mewn gwirionedd, offeriaid Pabaidd ydynt. Peth arall ydyw, dynion yn dal traws-sylweddïad, yn codi yr eglwys a'i sacramentau yn lle Crist a'i aberth ger bron dynion, yn dal cyfiawnhâd nid drwy ffydd ond drwy weithredoedd a phenydïau, ac yn amddiffyn gweddïo ar y saint a thros y meirw! Tra mae Eglwys Rhufain ei hunan yn gweithio oddifaes, mae y dynion yma drachefn oddifewn yn lefeinio y deyrnas drwyddi â Phabyddiaeth. O dan enw gweinidogion yr eglwys Brotestanaidd, maent yn ei chymundeb fel plaid anonest o fewn y ddinas, yn llygru meddyliau ei haelodau, ac yn gwylio am gyfleusdra i'w bradychu i ddwyllaw y gelyn ag sydd yn awr mor awyddus ac egniôl o'r tu allan i'r mur. Mae lle i ofni hefyd fod ysbryd yr amryfusedd cadarn yma yn ennynu yn y wlad. Darlennasom yn ddiweddar fod llawer o ieuenctyd yr

\* Wele yma gopi o weddi a gyfansoddodd yr Anrhydeddus a'r Parch. G. Spencer, offeriaid a aeth i'r Eglwys Babaid o Eglwys Lloegr, a brawd i Iarll Spencer, am ddychweliad Prydain i'r ffydd Babaid:—

“Hollalluog Dduw, Tad y trugareddau! ti a dŷfnaist i achub dynion drwy ffydd; edrych yn dosturiol ar deyrnas Lloegr. Chwâl ymaith y tywyllwch yr hwn y mae heresi wedi ei daenu drcsti, a phâr i lamp y gwirionedd lewyrchu i lygaid ei phlant, fel y byddo iddynt ddychwelyd yn ol i fynwes ein mam, yr Eglwys Sanctaidd, trwy Iesu Grist ein Harglwydd! boed felly.

“Forwyn fendigaid, mam Duw, gweddïa dros Lloegr!

“St. Pedr a St. Paul, gweddïwch drosti!

“St. Gregory y pab, a St. Awstin apostol Lloegr, gweddïwch drosti!

“St. Thomas o Gaergaint, ferthyrn sanctaidd, a holl gyffeswyr sanctaidd Lloegr, gweddïwch drosti!

“Gwrandewch, O Arglwydd, ar eich cyfeillion. Gwrandewch eich pobl: bendithiwch eich etifeddiaeth, ac achubwch yr encidiau a brynwyd ar draul gwerthfawr waed eich dwyfol Fab, yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyda chwi yn oes oesoedd. Poed felly.”

-Ymneillduwyr yn cilio i gymundeb yr Eglwys Wladol, ac heb fod yn foddolawn ar hyny, yn myned oddiyno eilwaith at Buseyaeth; ac fe wyddys fod rhywrai yn awr ac yn y man o hyd yn llithro o'r fan hono drachefn i gymundeb Eglwys Rhufain ei hunan. Mae yn gofus genym fod rhai o'r Puseyaidd yn dyweyd fod gwasanaeth yr Eglwys Sefydledig yn ei wedd bresennol yn fyr o ddiwallu rhyw ysfa ag sydd yn meddyliau llawer o'i deiliaid y dydd yma. Beth yw hyn, os ydyw yn wirionedd, ond adfywiad ysbryd cyfeiliorni? Mae athrawiaeth bur ac addoliad syml yr efengyl yn wastad yn gas gan y dyn anianol. Ac os bydd raid cael rhyw grefydd i dawelu y gydwybod, mae y grefydd hono, tra y goddefa fyw mewn pechod, a gynnyrcha gau ddefosiwn, trwy gyfrwng y dychymyg a'r synwyrâu corfforol, yn llawer mwy cymradwy na chrefydd Crist. Mae Rhufain yn deall hyny yn dda. Ac fe ddichon nad oes eisieu dim ychwaneg i brofi fod gradd o ysbryd godineb, a merwindod clustiau, wedi ymaflyd yn llawer o drigolion ein gwlad, na bod y buten fawr yma, fel ei gelwir, y dyddiau hyn yn gwneyd y fath ymdrech i ymwychu ger bron ein llygaid. Mae hi yn awr yn Lloegr yn darpar ei heglwysi cadeiriol mawrion; a thrwy ei gwisgoedd, ei cherddoriaeth, ei lluniau, a'r holl wag-rodres sydd ynglŷn â'i gwasanaeth, yn gwneyd pob egni i lygru meddyliau dynion oddiwrth y symlrwydd sydd yn Nghrist, ac i'w cael i ryfeddu unwaith yn rhagor ar ol y bwystfil. Hysbysir i ni fod ei chapelydd o fewn y deng mlynedd ar hugain diweddfaf wedi lliosogi o ddeg ar hugain i bum' cant pedwar ugain a dau. Mae ganddi un ar ddeg o athrofâau, ac ysgolion heb rifedi; un ar ddeg ar hugain o *gouvents*, a thair mynachlog, wedi eu sefydlu, ynghyd a chymdeithasau wedi eu sturfio yn bwrpasol i ledaennu Pabyddiaeth drwy y wlad. Yn ol hysbysiad y Pabyddion eu hunain am y flwyddyn 1845, y mae yn Lloegr chwe' chant triugain a chwech o offeiriaid cenadol, a phedwar ugain ac un ar ddeg yn Scotland; ac yn ddiweddar, ni a wyddom, maent wedi sefydlu eu cenadaeth yn Nghymru hefyd. Gallwn ni gau ein clustiau rhag clywed, a'n llygaid rhag edrych; ond mewn gwirionedd mae lle i ofni fod amseroedd enbyd wedi ein goddiweddyd. Buasai yn anghredadwy genym, ychydig flynyddau yn ol, feddwl am i Eglwys Rhufain ymadnewyddu byth i wneuthur y fath egni ag y mae yn ei wneyd yn awr. Edrychwn

na chaffom mo'n siomi eto yn ei llwyddiant. Gwylw'n ymddiried gormod i grefydd, synwyr, a doethineb yr oes, fel argeuon digon cedyrn i'w chadw hi allan. Oddiwrth yr Arglwydd yn unig y mae yn rhaid i'n hiachawdwriaeth ni ddyfod; nid oes dim a berthyn i ddyn yn gadarn ond ei anwadalwch. Mae rhai yn barod i feddwl fod rheswm a thymher ddifraw y dyddiau hyn yn ddigon i wrthsefyll Pabyddiaeth; mae yr oes, meddynt, yn rhy anffyddiog pe na b'ai dim arall. Bydded felly: ond nid yw hyny wedi y cwbl ddim gwell nag ymgysuro, gan ein bod yn glaf eisoes o'r naill glefyd, na chlafychwn ni ddim o'r llall, pan mae y ddau fel eu gilydd yn angeuol. Cysur bychan yn ddiâu! Ac yn wir nid yw ei seiliau yn gryfion, oblegid mae Pabyddiaeth ac anffyddiaeth yn alluog o fyned law yn llaw i ddinystrio eneidiau dynion. Os bydd y naill yn methu a llwyr ddileu o'r meddwl y greddfau dirgel hyny o ofn a gobaith gyda golwg ar y byd tragywyddol, gwasanaetha'r llall i'w syfrdanu a'u twyllo. Wedi deillio o'r un ffynnon, ac yn meithrin yr un llygredigaethau yn nghalon dyn, a'r naill fel y llall yr un mor elynol yn erbyn y gwirionedd, mae cyfathrach gref rhyngddynt a'u gilydd; a'r peth tebycaf yw, y bydd i'r diafol yn awr ar ddiwedd ei deyrnasiad, ac yn nghynddaredd ei anobaith, wneuthur un egni arswydol drwy y ddwy i geisio difa gwir grefydd allan o'r byd. Ond a lwydda efe? I'r graddau y goddefo Duw, a dim pellach na hyny. O pa fodd y mae pethau yn bod rhyngom ni ag ef? Onid ydym yn euog o'i flaen o'r pechod mwyaf sydd yn bod—gwrthod Crist a diystyru yr efengyl? Barn am hyn oedd Pabyddiaeth o'r dechreuad! Ac os ydyw yr ysbryd celwyddog yma wedi dyfod allan unwaith eto oddi ger bron yr Arglwydd, gyda chomisiwn newydd i dwyllo a gorchfygu, pwy a saif o'i flaen? Ni a allwn fyw i'w weled yn cyflawni gorchestion anhygoel—gwledydd yn ymostwng iddo, a'r philosophydd balch ac anffyddiog yntau o dan ei ddylanwad yn troi yn hen wrâch ynfyd ac ofergoelus. "Fy marn i, er ys talm bellach," medd Isaac Taylor, "ydyw fod rhyw wrthweithiad fel yma (ofergoeldd a gwyrthiau gau) i anghrediniaeth yr oes yn nghadw i ni eto mewn ffordd o'n profi." Ac yn wir, y mae yn anhawdd rhoi cyfrif am y pethau sydd yn bod eisoes heb feddwl fod rhyw law anweledig yn y mater. Mae Eglwys Rhufain, nid yn unig yn adfywio, ond yn adfywio yn holl anfadrwydd ei



heilunaddoliaeth; mae mor lliidiog ei hysbryd a gwrachiaidd ei choelion ag y bu hi erioed—mor ddefosiynol ag un amser—gyda gwallt ac ewinedd, gwaed ac esgyrn ei hen seintiau! Gallesid meddwl y buasai yr oes yn ei gwatwar; ond yn lle hyny, mae breninoedd eto yn ei phleidio, a'r werin, y rhai mwyaf anwybodus o honynt o leiaf, fel pe byddent yn myned i ail feddwi ar win ei godineb. Er esiampl, meddyliwch am Germany, cryd y Diwygiad Protestanaidd, gwlad *science* ac uchel ysgoleigddod. Ni a welsom yn ddiweddar fod hen ddilledyn wedi ei glytio â chelwydd yr archesgob Pabaidd, yn ddigonol i ynfydu ei thrigolion, a chodi miloedd a channoedd o filoedd o honynt o bob parth i'r wlad, i Treves i'w addoli. Ië, dyma yr eglwys ag y mae gwŷr dysgedig ac urddasol yn ein gwlad ni ein hunain yn ei galw yn fam ac yn chwaer, a'r hon y mae anffyddwyr ein hoes, tra y dangosant ddygasedd at wir grefydd, yn meiddio esgusodi ei thrais, ac yn siarad yn esmwyth am ei defosiynau ynfyd; a mwy na hyny, llywodraethwyr ein gwlad yn dadgan eu parodrwydd i'w swero a'i gwaddoli.

Ond nid ydym ni yn golygu fod dim yn hyn oll yn achos i gristionogion ddigaloni; eithr y mae ynddo alwad uchel i ddeffroi, ac i fod yn rhyw fath ddynion mewn gweddïau ac ymdrechïadau dros y gwirionedd. Nid oes neb a wŷr pa cân uchod y caiff Pabyddiaeth esgyn cyn syrthio! Ond ar yr un pryd, nid yw ei holl adfywiad a'i hegni presennol ddim amgen na dirgrynfa lesmeiriol y bwystfil wrth deimlo ei hunan yn gwanhâu, megys gwrid yn codi i wyneb y trancedig; bydd wedi cilio yn fuan, a'i gadael hi yn fwy daearaidd a gwelw yr olwg arni nag o'r blaen. Ymdrechwn gan hyny i wrthsefyll cyfeiliornadau, ac i daenu y Bibl a gwybodaeth ysgrythyrol, gan gadw ein hunain mewn tymher i ymuno â phob ysgogiad o eiddo eglwys Crist ag a fydd o duedd i amddiffyn a chodi gwir grefydd.

Wedi rhoddi cymaint a hyna o'n golygiadau, a golygiadau dynion doethach na ni hefyd, am ansawdd y byd crefyddol ger bron y darlennydd, ni a brysurwn i derfynu gyda chrybwyll gair am ansawdd yr unrhyw yn wladol eto. Mae hwn hefyd yn dra argoelus, ac yn dwyn sylw llawer o ddynion meddylgar yn y dyddïau hyn. Hynodrwydd mawr yr oes bresennol ar y pen hwn ydyw cynlhwrf ac anfodogrwydd y werin-bobl. Y mae dros

hanner can' mlynedd bellach er amser y dadymchweliad yn Ffrainc, ond y mae ysbryd yr ymrysonfa hono heb fyned drosodd eto yn ngwledydd Ewrop. Ac, yn wir, y mae llawer o hono yn Mhrydain ei hunan. Ofnir fod pob iawn deimlad rhwng isradd ac uwchradd wedi adfeilio yn fawr yn ein plith. Gwaith a chyflog ydyw y cwbl bron sydd yn cysylltu dynion ynghyd, a'r oll ag y mae y naill ddothar a'r llall yn ei ystyried yn ddyledus oddiwrthynt i'w gilydd. Wedi gwastadhâu y cyfrifon, yna ystyria pawb ei hunan yn rhydd, fel pe byddai holl ddyled dyn i ddyn yn daladwy mewn arian a llafur y dwylaw. Mae ysbryd y byd a daearoldeb yn ffynu yn fawr. Yn lle amaethu y werin fel brodyr a chydteffedion anfarwoldeb, edrychir arnynt yn aml yn ein gweithfeydd poblog yn rhy debyg i'r peiriannau nerthol—i'w defnyddio yn unig i ddybenion bydol, ac i gasglu cyfoeth; ac y maent hwythau o'r ochr arall, wrth gael eu hesgeuluso felly, o ran eu tymherau fel y pair agerdd cynddeiriog yn tori allan beunydd yn erbyn eu huchafiaid. "Mewn gair," medd un ysgrifenydd, "gwrthryfel sarug, dialgar—ysbryd gwrthryfel, lleihâd parch i'r hyn y mae llywodraethwyr gwladol yn ei orchymyn, a lleihâd fydd yn yr hyn y mae eu harweinwyr ysbrydol yn ei ddysgu, ydyw ysbryd y werin yn gyffredinol a chynnyddol. Gall rhai feio yr ysbryd hwn, ac eraill ei amddiffyn; ond y mae yn rhaid i bob dyn gydnabod ei fod yn hanfodi, ac fe allai pob dyn wybod ei fod yn ofidus hefyd; ac oni wellheir fe fydd yn ddinystriol. Nid oes dim gwledydd hapus yn cael eu gwneyd i fyny o israddolion yn teimlo fel hyn tuag at eu huchafiaid. Er ys yn agos i ddwy ganrif bellach o fywyd atheistaidd, tybiwyf (medd yr un gŵr) ein bod agos wedi treulio hyny o ddaear galed sydd genym i gerdded arni, ac yr ydym yn awr yn anffodus ddigon yn arswydo ac yn pendroni, ac ni a obeithiwn hefyd, yn ceisio cilio yn ol oddiar ddibyn y graig." Mr. Canning, y gweinidog gwladol enwog, a sylwai, "Ofnwyf y bydd y rhyfel nesaf a gynneuir yn Ewrop yn rhyfel opiniynau yn fwy na byddinoedd. Y canlyniad o ollwng yn rhydd y nwydau sydd yn cael eu cyfyngu a'u cadwyno yn bresennol, a fyddai cynnyrchu golygfa o alanasdra nas gall un dyn fyfyrto arni heb arswydo. Yr ydwyf yn dychrynu rhag ail anghydfod yn un rhan o Ewrop; ac mi a ddyoddefwn lawer, ac a gydymddygwn yn hir, yn hytrach na gollwng

allan gynddaredd rhyfel. Nis gwn pwy a gyrhaeddid ganddo, na pha mor bell y byddai i'w ddifrod ymestyn." Yr un modd y tystia y Parch. E. Bickersteth, wrth son am annuwioldeb ein gwlad ni:—

"Mae y perygl i gymdeithas yn llawer mwy a helaethach nag y gellir ei ganfod yn bresennol. Mae llaw attaliol Duw eto ar ysbrydoedd dynion; eithr gadewch ond i'r presennol, ac fel y mae genym achos i feddwl, y tymmorol, a bellach y byr Ddwyfol attaliad, unwaith gael ei dynu ymaith, ac yna, fel y gwelodd llawer o honom yn y dadymchweliad cyntaf yn Ffrainc, dinystr a difrod a dorai allan ar bob llaw. Mae y defnyddiau tanllyd wedi dwfn gerdded, nid o dan y ddaear elfenol, ond yn hytrach yn nghalonau dynion yr oes hon. Trwy ymwerthiad i chwantau drwg, cariad at bechod, a gwirfoddol anghrediniaeth ei phreswylwyr, llecha yn ansawdd bresennol meddyliau dynion yn Llundain holl ddefnyddiau dinystr mwy dychrynlyd nag a ddichon *lava* tanllyd Etna neu Vesuvius ei wneuthur, neu y daeargrynfâau hyny ag a fuont yn foddion i ddadymchwelyd dinasoedd cedyrn."

Pwy bynag a ddarllenir genym, ai y duwinydd sydd yn chwilio prophwydoliaethau y gair, ai y philosophydd sydd yn syllu ar arwyddion yr amserau, ac yn dyfalu beth a fydd oddiwrth y pethau sydd yn bod eisoes, ni a gawn fod y ddau yn aml yn dyfod i'r un penderfyniad. Mae y ddau o leiaf yn cyttuno fod y byd yn addfedu i gyfnewidiadau, ac nad oes i ni yma yn y wedd bresennol ar bethau un ddinas barhâus. Mae y cristion, pa fodd bynag, yn gallu ychwanegu a dywedyd, "Eithr un i ddyfod yr ym ni yn ei dysgwyl." Canfydda ef drwy ffydd y nefoedd newydd a'r ddaear newydd, yr ystâd ag y mae eglwys Dduw, i.e., a phob creadur yn dyheu ac yn cydocheneidio am dani, ac yn yr hon y byddant yn y mên, ar ol maith orthrymder, yn cydorphwys. Mae y sylw canlynol a gododd Mr. Bickersteth o ryw gyhoeddiad crefyddol yn Ffrainc yn dangos fod duwiolion y Cyfandir yn cyfranogi o'r un pryder, ac o'r un gobaith â lliaws o'u brodyr yn y wlad hon: "Wedi adolygu, medd yr ysgrifenydd, gyflwr tymhestlog y byd ar y mynyd hwn, onid oes genym hawl gyda theimladau difrifol i ofyn y cwestiwn pwysig yma, I ba le yr ydym ni yn myned?" Ar ol gwneyd ychydig o sylwadau eraill, dywed, "Yr ydym yn ateb—O ran pethau yn y manylrwydd, nid oes neb yn gwybod; ond yn gyffredinol, mae hyn yn ymddangos yn sicr i ni—ar y goreu yr ydym yn myned drwy ystormydd mawrion at ddadymchweliad anfeidrol, yr hwn a adnewydd y

byd gwladol a chrefyddol—at fynydyn o dywyllwch dudew â ddilynir gan oleuni dysglaer—at ostyngiad y balch i lawr, a dyrchafiad y trueiniaid; ond y cwbl yn bur wahanol i'r hyn y mae amrywiol bleidiau yn ei ddychymygu.” Pa mor gywir neu anghywir y golygiadau yma, nis gwyddom ni; ond ni a wyddom hyn, ddarllenydd, y gelli di wneyd gwell defnydd o honynt na'u diystyru.

. Wrth ddybenu, mor felus yw cofio, os yw Satan a'r byd yn gweithio, fod Iesu Grist yn gweithio hefyd; mae cenadon heddwch wedi myned allan, a'r Bibl yntau ar led y ddaear. Os yw anffyddiaeth yn cryfhâu, mae ffydd hithau yn eneidiau ei pherchenogion yn myned yn fwy ei hymadferth, ac eglwys Dduw yn codi o'i syrthni, ac yn ymwregysu i gyflawni gorchestion, yr ydym yn cwbl gredu, nad yw hi ei hunan eto ddim yn deall eu maint. Bydded fod llawer yn dychwelyd yn ol i Rufain, mae llaweroedd yr ochr arall, yn Ffrainc, a Germany, a gwledydd eraill, yn dyfod allan o honi hi, a hyny, ni a obeithiwn, mewn ufudd-dod i alwad yr Arglwydd Iesu, ac yn rhagbarotoawl i'w chwymp hi. Ac os yw y byd gwladol yn terfysgu ac yn dygyfor, mae yr efengyl hithau, hadau bywyd a threfn, yn cael eu bwrw i mewn i'r berw cymysglyd. A phe byddai y credadyn fyw i weled teyrnasoedd yn myned yn swtrws fel y llestr candryll, fe gai glywed hyfrydlais ei Anvylyd yn y rhyferthwy hwnw, “Ymddattoded y ddaear a'i holl drigolion; myfi sydd yn cynnal ei cholofnau.”

GWEINIDOGAETH YR EFENGYL A'R YSGOL  
SABBOTHOL.\*

**Y** MAE gwerth a buddioldeb yr Ysgol Sabbothol yn awr yn hysbys trwy Gymru. Pan edrychom ar ôl ei llaw ar bersonau, teuluoedd, ac ardaloedd, a phan ystyriom yr anwybodaeth a wasgarodd, y llygredigaethau a ddarostyngodd, ynghyd a'r rhinweddau a fagodd ac a ddygodd i ymarferiad, y mae ei buddioldeb yn beth rhy sicr i'w ammheu a rhy amlwg i'w wadu.

Clywsom lawer eisoes am ei buddioldeb yn gyffredinol, ac yn awr gelwir arnom i draethu ychydig am ei buddioldeb yn neillduol fel llawforwyn i weinidogaeth yr efengyl, a hyny i'r dyben o gadw y ddwy yn eu lleoedd priodol, fel na byddo y naill yn rhy uchel, na'r llall yn rhy isel, yn ein meddyliau. Bu amser yr edrychid ar yr Ysgol Sabbothol yn rhy isel. Prin y cydnabyddid hi yn addas i ddydd Crist, nac yn perthyn i'w deyrnas ef. Erbyn hyn y mae lluoedd yn y wlad yn brofiadol o'r bendithion a ddaeth drwyddi, a'r pleser sydd i'w gael ynddi, ac, fe allai, yn tueddu i edrych arni yn rhy uchel,—yn gydradd os nad yn uwch na gwainidogaeth y gair, yr hyn sydd yn eithafnod peryglus i fyned iddo. Tuag at ein cadw ar ganol y llwybr, gwnawn rai sylwadau gan amcanu codi y naill heb iselu y llall, ond cadw y ddwy yn eu lleoedd priodol. Felly ystyriwn fawredd a gogoniant gwein-

\* Y sylwadau hyn a draddodwyd gan Mr. Rees fel araeth yn nghyfarfod blynyddol Ysgolion Sabbothol Sir Drefaldwyn a gynnaliwyd yn Meifod, ddydd Gwener, Rhagfyr 11, 1829, ac a gyhoeddwyd mewn llyfryn bychan dan olygiad y Parch. John Hughes, Pont Robert. Gallem feddwl mai dyma un o'r pethau cyntaf a barotōwyd gan Mr. Rees i'r wasg; ac y mae'r traethawd yn werthfawr ar y cyfrif hwnw, yn annibynol ar ei gynnwysiad rhagorol.



idogaeth yr efengyl, a gwerth yr Ysgol Sabbothol fel llawforwyn iddi.

I. Wrth weinidogaeth yr efengyl y meddyliwn y sefydliad hwnw neu'r ordinhâd hono a osododd Crist yn ei eglwys, yn nghyflawniad pa un y mae holl gynghor Duw yn cael ei fynegu, seliau ei gyfammod yn cael eu gweinyddu, a holl ddyledswyddau yr addoliad efengylaidd yn cael eu cyflawni.

1. Ymddengys ei gogoniant a'i mawredd wrth ystyried Dwyfoldeb ei gwreiddyn a'i gosodiad. Gellir gofyn am weinidogaeth yr efengyl fel y gofynodd Crist am fedydd Ioan, "Ai o'r nef ai o ddynion" y mae? ac ateb yn ngeiriau yr Apostol, "Nid o ddynion, na thrwy ddyn, eithr trwy Iesu Grist, a Duw Dad, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw." Efe, pan ddyrchafodd i'r uchelder, a roddes roddion i ddynion; efe a sefydlodd y weinidogaeth yn yr eglwys trwy ddeddf dragywyddol; ac efe sydd o oes i oes yn galw, yn cymhwyso, ac yn gosod dynion yn y weinidogaeth; ac y mae efe wedi addaw bod gyda hwynt yn y cyflawniad o honi bob amser hyd ddiwedd y byd. Pe na buasai'r Brenin yn sefydlu y swydd hon yn ei deyrnas, nis gallasai neb arall wneyd; a phe na byddai efe yn parhâu i roddi bugeiliaid i borthi yr eglwys â gwybodaeth ac â deall yn y cyflawniad o honi, byddai holl Israel yn fuan fel defaid heb ganddynt fugail. Ac oni byddai fod yr Hwn sydd â saith Ysbryd Duw ganddo yn cymhwyso dynion i'r gwaith, ni chyfarfyddid â gweinidog cymhwys y testament newydd drwy yr holl ddaear. Yma gellir dywedyd, "A phob peth sydd o Dduw."

2. Ymddengys mawredd a gogoniant y weinidogaeth wrth ystyried y llwybr rhyfedd yr ennillwyd hi, sef trwy gnawdoliad, bywyd, ac angeu Crist. Felly y mae yr apostol, wedi dywedyd iddo ei rhoddi ar ei ddyrchafiad, yn dychwelyd i ddangos iddo ei hennill trwy ei ddarostyngiad. "Eithr efe a ddyrchafodd, beth yw ond darfod iddo hefyd ddisgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear? Yr hwn a ddisgynodd yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth;" ac yna meddir, "Ac efe a roddes rai yn apostolion," &c. Mae perthynas neillduol rhwng y weinidogaeth ac angeu Crist; oblegid trwy rinwedd yr awdurdod a sylfaenodd, ac er cyhoeddi y bendithion a ennillodd, yn ei fywyd a'i angeu, y rhoddes efe hi i'r eglwys.

Efe, yn ei Berson a'i gyfryngdod, yw canolbwynt a sylfaen y cynghor tragywyddol yn iachawdwriaeth yr eglwys; ac yn ol ei ymrwymiad bore, efe yn nghyflawnder yr amser a ymddangosodd yn y cnawd, ac a gwblhaodd y gwaith a roddwyd iddo i'w wneuthur. Yna wedi iddo ein cymmodi â Duw trwy y groes, lladd yr elyniaeth, a gwneuthur heddwch, wele, efe, yr hwn yw ein tangnefedd ni, "a ddaeth ac a bregethodd dangnefedd i'r rhai pell ac i'r rhai agos," sef yn sefydliad y weinidogaeth. Yn awr dyma yr hyfryd lais sydd yn ein gwlad: "Heddwch, heddwch i bell ac i agos—Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau." Mae ei genadon â'u gwefusau fel edau ysgarlad; ni fynant wybod dim, nac ymffrostio mewn dim, ond croes ein Harglwydd Iesu Grist; a thrwy eu pregethiad o hono, y mae yn cael ei groeshoelio o flaen llygaid eu gwrandawyr, a'i groeshoelio yn eu plith. Felly Crist a'i gyfryngdod yw sylwedd gweinidogaeth yr efengyl. Oddiwrtho ef y mae hi yn tarddu, am dano y mae yn traethu, ac ato y mae yn arwain. Dyma belydr yn deillio oddiwrth Haul mawr y cyfiawnder, ac yn trosglwyddo goleuni a meddyginiaeth oddiwrtho ef i ysbryd pechadur—dwfr a ddaeth allan trwy daro Craig yr Oesoedd—bara a ddaeth o'r hen ddaearen, drwy i'r gronyn gwenith syrthio iddi a marw. Cangen yw gweinidogaeth yr efengyl, medd Dr. Owen, a darddodd allan o fedd yr Arglwydd Iesu. Na feddylier byth, ynte, am ei hadblanu, canys ni flagura yn un man arall. Y mae moesoldeb, a rhinweddau dynol, yn ddaear rhy deneu i wreiddyn hon; yno hi a wywai ac a gollai o fod yn weinidogaeth y cymmod. Ond gadawer boncyff ei gwraidd yn mhriddellau y dyffryn y gorweddodd Crist, ac, fel gwialen Aaron, hi a flagura, a flodeua, ac a ddwg almonau,—cyfiawnder, heddwch, a bywyd, i bechadur colledig. Megys mai Crist yn ei Berson a'i gyfryngdod yw mawr ddirgelwch duwioldeb, felly yr athrawiaeth am dano ef yn unig yw yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb.

3. Mae mawredd a gogoniant y weinidogaeth yn ymddangos wrth ystyried yr amser nodedig y rhoddwyd hi i'r eglwys, sef, pan ddyrchafodd Crist i'r uchelder, ac yr eisteddodd ar ddeu-law Duw. Efe a aeth yn isel i'w hennill, ac yn uchel i'w

rhoddi; aeth i barthau isaf y ddaear i'w meddiannu, a goruwch yr holl nefoedd i'w chyfranu.

Pan fyddo gŵr mawr ar ddydd nodedig yn gwneuthur anrheg i'w gyfeillion, gellir ei dysgwyl yn addas i'r person a'r amgylchiad. Dysgwylodd Dafydd, er yn ofer, elusen gan Nabal o herwydd iddo ddyfod ar ddiwrnod da. Wele, diwrnod da ein Iesu oedd dydd ei ddyrchafiad i'r nef: diwrnod yr oedd miloedd o angylion yn gerbydau i'w ddwyn ger bron yr Hen Ddihenydd, ac y rhoddwyd awenau llywodraeth y bydoedd ar unwaith yn ei law—diwrnod y caethiwodd gaethiwed, yr yspeiliodd dywysogaethau ac awdurdodau, drwy eu cymeryd gydag ef mewn cadwynau, a'u harddangos ar gyhoedd i saint ac angylion y nef, gan orfoleddu yn ei fuddugoliaeth arnynt, a'u gorchymyn i gadwynau y tywyllwch—diwrnod ag yr oedd y nefoedd oddiuchod yn cynhyrfu o'i achos, i gyfarfod âg ef wrth ei ddyfodiad, a hyny mewn sain clodforedd a chân—y pyrth yn dyrchafu eu penau, a'r drysau tragywyddol yn ymagor, a Brenin y gogoniant yn esgyn â llawen floedd, gan agor y cysegr sancteiddiolaf, a dwyn rhyfeddodau yr arfaeth, y cynghor, a'r drefn dragywyddol, yn helaethach i olwg saint ac angylion, nes gorlenwi eu meddwl â syndod, ac ennynu eu cân i'r Oen a laddwyd, yr hwn oedd deilwng i gymeryd y llyfr, ac agoryd ei seliau ef. Beth gan hyny oedd dyben yr holl fawredd hyn? beth a ddaeth i'r eglwys oddiwrth ei Phriod yn y fath ystâd ogoneddus â hon? Dim llai na doniau a grasusau yr Ysbryd “i berffeithio y saint i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist.” Nid yw cymhwysu a gosod dynion mewn swyddau gwladol ond peth a all y naill greadur wneuthur i'r llall. Nid yw gosod pab yn ben i'r butain, er maint y gwychder, ond peth a all y gwaethaf o ddynion, trwy redeg dros ychydig o seremonïau gweigion, ei gyflawni. Ond y mae rhoi un gweinidog cymhwys i eglwys Dduw yn beth na fedr neb, trwy'r nef na'r ddaear, ei wneuthur ond Iesu Grist, a hyny ganddo ef wedi dyrchafu i'r uchelder. O Sion, derbyn y weinidogaeth yn ddiolchgar, a defnyddia hi yn deilwng; oblegid dyma y rhodd â pha un yr anrhegodd dy Briod di ar ddydd ei ddyweddi, a dydd llawenydd ei galon.

4. Mae mawredd y weinidogaeth yn ymddangos pan ystyriom y cymhwysderau goruchel sydd yn ofynol yn ei gweinidogion,

ynghyd a'r annogaethau difrifol y maent yn eu cael i gyflawni eu gwaith. Dynion Duw, goruchwylwyr ar ei ddirgeledigaethau, a gweision ei dŷ, yw y rhai hyn. Maent i fod o flaen y praidd mewn gwybodaeth a phrofiad, ac yn esiamplau iddynt mewn sancteiddrwydd a phob gweithred dda. "Rhaid i esgob fod yn ddiargyhoedd."

Mae'r doethineb, y goleuni, yr awdurdod, y medr i iawn gyfranu gair y gwirionedd, ynghyd a'r holl doniau gweinidogaethol, yn gwbl oddiwrth yr Ysbryd Glân. Trwy roddi yr Ysbryd, a'r doniau hyn, y mae Crist yn anfon dynion i'r gwaith; a'r rhai sydd yn eu meddu yw yr unig rai y mae yr eglwys i'w gosod yn y swydd. A phan y collo hi hyn, hi a gyll y weinidogaeth, a bydd yr holl wasanaeth a'r addoliad, er pob peth, yn myned yn gelain ddifywyd ar wastadedd ffurfioldeb, ac eryrod y cnawd yn ymgasglu o'i gwmpas er mwyn elw, parch, ac esmwythder, neu ryw ddybenion gau; a thrwy sawyr trwm eu cyflawniadau marwaidd, a'u bywydau halogedig, parant i ddynion ffeiddio offrwm yr Arglwydd. Mae hanfod yr eglwys, o ran ei ffurf dufewnol trwy ei hundeb â Christ, ac o ran ei threfn allanol yn yr iawn weinyddiad o'i holl ordinhadau, yn ymddibynu ar gael yr Ysbryd Glân. Wedi ei golli ef, cyll o fod yn eglwys. "Nid all neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu ond trwy yr Ysbryd Glân." Mae'r gwaith o roddi un gweinidog cymhwys i eglwys Dduw yn waith mawr a rhyfedd. Yma y gwelir Duw yn cofio ei gyfammod, ac yn cwblhâu ei addewid—Crist yn y nef, ar orsedd ei ogoniant, yn awdurdodi, yn cymhwyso, ac yn anfon ei genadwr—yr eglwys hithau, ar ei gliniau mewn ympryd a gweddi, yn ei dderbyn o law ei Phriod, ac, yn ei enw, yn ei osod yn ei le ofnadwy, ac yn ymddiried eneidiau dynion, praidd Crist, a gwirioneddau yr efengyl, i'w ofal o'r dydd hwnw allan—y cwbl yn cael ei ddwyn ymlaen ger bron Duw a'r Arglwydd Iesu Grist, a'r etholedig angylion—ac yntau, yn ngŵydd y gynnulleidfa fawreddig, yn cael ei dyngeddu i gadw y pethau a roddwyd i gadw ato, i ddarllen, myfyrio, ac aros ynddynt, eu pregethu mewn amser ac allan o amser; gwyllo, ymdrechu, a chyflawni ei weinidogaeth, ac yn y cwbl ei osod ei hun yn brofedig gan Dduw. Mae hwn i fod yn brif orchwyl ei fywyd, i.e. pe goddefai ei amgylchiadau, yn unig orchwyl ei fywyd. O ddiwrnod mawr! O orchwyl pwysig! Uwch ben

hwn, cawn Paul weithiau yn sefyll mewn syndod, ac yn gofyn, "Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?" A chawn ef bryd arall yn dangos yr ystyriaethau difrifol oedd yn ei gymhell i'r gwaith, megys, ofn yr Arglwydd, cariad Crist, a'r frawdle farnol. "Gwae fydd i mi oni phregethaf yr efengyl." Felly yr oedd yn myned rhagddo, a hyny mewn ofn a dychryn mawr a dagrau lawer, yn llafurio hyd dreulio ei hun allan, yn ymdrechu fel gŵr am y gamp, ac yn esgor ei wrandawyr drachefn. A phan y byddai blinderau ac angeu o'i flaen, gwaeddai, "Nid wyf yn gwneuthur cyfrif o ddim—os gallaf orphen fy ngyrfa—a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu."

Onid yw yr holl ystyriaethau hyn yn dangos mai peth ofnadwy yw ymyraeth â'r gwaith hwn yn ysgafn, heb ein galw iddo gan Dduw? Nid aeth Moses nac Aaron, y prophwydi na'r apostolion, i.e, na Christ ei hun, i'r gwaith heb eu galw, na thrwyddo yn ysgafn a dilafur. Y mae dinystr Corah, gwahanglwyf Uziah, a cherydd llymdost Simon Magus, yn dangos nad yw neb i gymeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun. Os yw gweinidogion ffyddlawn yn genadau yr eglwysi, ac yn ogoniant Crist, y mae yr anffyddloniaid yn felldith yr eglwysi ac yn warth Crist. Maent yn arwain dynion ar gyfeiliorn yn lle eu troi, yn tarfu y praidd yn lle eu coleddu, eu gwenwynu a'u newynu yn lle eu porthi. A pha wêdd fydd arnynt pan ymddangoso y Penbugail, efe yn unig a wŷr, a'r farn a ddengys.

Ond nid rhaid i'r rhai sydd heb eu galw i'r swydd hon fod heb waith. Mae yr adeiladaeth yn fawr, a'i gorchwylion yn amryw-iol, a lle i bawb weithio. Un Moses a dderbyniodd y portread, ac un Bezaleel a ddoniwyd i weithio cywreinwaith; ond yr holl Israel yn cael cynnorthwyo yn adeiladaeth y tabernacl. Nid allai Acwila a Phriscila bregethu yn y synagog, eto gallent ddysgu pregethwr gartref. Mae Iago wedi gadael y gwaith o droi pechadur o gyfeiliorni ei ffordd i rywun a'i gwnelo. "Cynghorwch eich gilydd bob dydd."

II. Yn awr y mae yr Ysgol Sabbothol yn lle manteisiol i bawb weithio. Bellach, dychwelwn i ddangos fel y mae hi yn llawforwyn wasanaethgar i weinidogaeth yr efengyl.

I. Ymddengys felly, pan ystyriom ei bod yn amaethu meddyliau sydd eto o ran oedran heb ddyfod i gyrhaedd y weinidog-



aeth. Mae yr annogaethau i addysg fore yn britho yr Ysgrythyr-  
 au, o ysgrifeniadau Moses hyd epistolau Paul, y rhai fu yn  
 ffyddlawn i'w rhoddi, a'u coffadwriaeth yn fendigedig yn y Bibl.  
 Aml un fel Samuel, Solomon, a Timotheus, sydd wedi eu gosod  
 i fyny yn gofarwyddion i ddangos ei gwerth. Mae gan ddyn  
 alluoedd addas i dderbyn addysg; ond y mae yn dyfod i'r byd  
 yn hollol amddifad o wir wybodaeth; ac efe a dreulia ei ddydd-  
 iau fel anifail, ac a ymedy o'r byd mewn tywyllwch, oni addysgir  
 ef. Mae galluoedd ei feddwl, ac aelodau ei gorff, i fod dan  
 lywodraeth ei ddeall; ac os bydd y llygad hwn yn ddrwg, bydd  
 y cwbl yn dywyll; ac O pa faint fydd y tywyllwch! Am hyny,  
 O chwi rieni ac athrawon, clywch yr unig ddoeth Dduw, a hyny  
 trwy y doethaf o ddynion, yn eich galw i hyfforddi plentyn  
 ymhen ei ffordd. Y pryd hwnw y mae'r meddwl yn yr agwedd  
 barotaf i dderbyn, a sicraf o gadw, yr addysg a roddir. Mae  
 effaith addysg fore yn hysbys drwy'r byd. Beth sydd yn  
 cadw Iuddewiaeth a Mahometaniaeth yn y byd oes ar ol  
 oes ond addysg fore? Parhâ y plant fel eu tadau hyd oni  
 ddysgir hwy yn amgenach. O mor ofalus yw llawer am  
 dynu pob castiau ystrywgar o'u hanifeiliaid, eu dofi, a'u hy-  
 weddu, trwy addysg brydlawn, fel er nad yw y ddysgyblaeth  
 yn cael ei harfer yn y tŷ yr arferir hi yn yr ystabl—er nad  
 oes ei hôl ar y plentyn, y mae ei hôl ar y ceffyl! O rieni,  
 edrychwch na byddo y côf am eich anifeiliaid hyfforddus yn  
 cydgyfodi â'ch plant anwybodus, i waradwyddo eich gwyneb-  
 au y diwrnod a ddaw! Nid y weinidogaeth gyhoeddus yw  
 y moddion cymhwysaf i ddysgu y rhai hyn; y mae hi yn  
 rhy uchel i'w gwybodaeth, a'i llwybr yn rhy gyffredin i ddwyn  
 eu sylw; ac felly y mae y rhieni a'r athrawon i gyfryngu  
 rhwng y rhai hyn â hi, a thrwyddynt hwy mae ei phethau i  
 gael eu cymhwyso at eu meddyliau. Maent hwy i wisgo'r  
 bregeth âg ymadroddion agos i'w deall; ei throi yn gwest-  
 iynau, a'i malu yn ddarnau, fel y briwsionau yr iâr yr ymborth  
 at wasanaeth ei chywion. O pa faint o fabanod sydd heddyw  
 yn y nef, a faethwyd fel hyn â llaeth gan rieni duwiol, ac ath-  
 rawon yr Ysgol Sabbothol, na wnaethent ond ychydig â gwin  
 cryf yr athrawiaeth, hyd nes aethant i'w yfed yn newydd yn  
 nheyrnas eu Tad!

2. Mae yr Ysgol Sabbothol yn cymhwysio meddyliau dynion i dderbyn adeiladaeth trwy y weinidogaeth pan y delont i oedran, oblegid ei bod yn dwyn y meddwl i gydnabyddiaeth â llyfr, ymadroddion, a phethau y weinidogaeth fawr. Mae hi yn sylfaenu'r meddwl yn yr egwyddorion ar ba rai y mae'r weinidogaeth yn adeiladu. Mae pob pregeth yn gyffredin yn draethawd ar rywbeth neillduol perthynol i drefn fawr yr efengyl. Yn awr, mae yn anhwsibl i ddyn gael ei adeiladu ond ychydig mewn duwinyddiaeth, mwy na rhyw *science* arall, trwy draethawd byr ar bwnc penodol ac anghysylltiedig, os na bydd wedi ei wreiddio yn yr egwyddorion sylfaenol, a chanddo grynodedb a chynllun o holl *system* yr efengyl yn ei feddwl. Wrth draethu ar un pwnc, crybwyllir am amryw eraill; ac os na bydd y meddwl yn gydnabyddus â hwy yn eu hegwyddorion cyntaf, y mae yn syrthio i ddyrswch, ac yn colli y budd a'r adeiladaeth, pan, pe buasai'r dyn wedi ei sylfaenu yn y rhai hyn, y buasai y traethawd ar y naill, a'r crybwylliad o'r lleill, yn foddion i ddwyn y cwbl i olwg ei feddwl yn eu cysondeb a'u gogoniant. Heblaw hyny, y mae tybiaeth yn y dull cyffredinol o bregethu fod meddyliau y gwrandawyr eisoes wedi eu gwreiddio a'u seilio yn yr egwyddorion hyn. Crybwylla y pregethwr am y Drindod, undeb y ddwy natur yn Mherson Crist, y ddau gyfammod, athrawiaeth y cyfrifiad, ac felly ymlaen, a'r cwbl mewn dull a arddengys ei fod yn cymeryd yn ganiatâol eu bod o'r blaen yn bethau hysbys i'r gynnulleidfa. Gan hyny, os bydd y tywyll a'r annysgedig wedi dyfod i mewn, oni bydd efe yn barod i ofyn, Beth a wna y siaradwr hwn? onid yw yn ynfydu? am nas gŵyr beth mae yn ei ddywedyd. Onid hyn yw yr achos fod lluoedd yn y wlad yn gwrandao bob amser, ac eto yn parhâu yn dywyll ac anwybodus, heb ddyfod un amser i wybodaeth y gwirionedd? Maent heb ddysgu yr egwyddorion sylfaenol, ac felly pob ymdrech i gynnyddu mewn gwybodaeth yn chwithig ac ofer. Fel dyn a fyddai yn crwydro mewn anialwch, y maent yn troi, yn trosi, ac yn ymfino, ac wedi y cwbl yn yr un man. Gall llais a dawn y pregethwr eu difyru, a rhyw belydr drwy y gwirionedd yn awr a phryd arall felltenu i'r fynwes, nes deffroi y gydwyl, a chyffroi y serchiadau; ond y mae yr argraffiadau yn darfod bron ar unwaith â'r pregethwr, fel y

derfydd sain tannau yr offeryn pan safo bysedd y cerddor, a'r meddwl o hyd yn dywyll ac anadeiladol.

Wele, gorchwyl arbenig yr Ysgol Sabbothol yw cyflawni y diffyg hwn, trwy blanu yr egwyddorion sylfaenol yn y meddwl. Mae hi yn meddu y moddion cymhwysaf at hyn, ac yn cael ei deiliaid yn yr oedran mwyaf manteisiol i ddysgu. Gwelaf hi wedi gosod yn nwyllaw ei hysgoleigion ei hamrywiol gatecismau, ac yn eu hyfforddi, o fach i fawr, am Dduw, ei Bersonau, a'i briodoliaethau—dyn yn ei greadigaeth, ei gwypm, a'i adferiad—Crist yn ei Berson a'i swyddau—ynghyd a holl egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw. Ac wedi gosod y sylfaen, gellir goruwchadeiladu. Wedi eu haddurno â'r egwyddorion hyn yn yr Ysgol Sabbothol, ânt rhagddynt gyda'r rhwyddineb mwyaf at herffeithrwydd dan y weinidogaeth gyhoeddus. Nid yw'r pregethwr yn sôn am ddim ond am bethau sydd mewn gradd yn hysbys i'r rhai hyn o'r blaen; ac am hyn pan ddelont i wrando, y maent yn sylwi, yn deall, yn cofio, ac yn derbyn adeiladaeth. Y mae hi hefyd yn helaethu galluoedd naturiol y meddwl trwy eu galw yn fore i weithrediad, a'u cadw yn barhâus mewn ymarferiad. Gesyd bethau newydd o flaen llygad y deall, trysora bethau buddiol yn llestr y cof, ac a wna yr enaid yn ystordŷ gwirioneddau Dwyfol. Dysg y meddwl o'i febyd i chwilio, sylwi, ac ystyried. Maga ynddo syched am wybodaeth, yr hon sydd agwedd dra dymunol i ddyfod i eistedd dan weinidogaeth yr efengyl, a thra manteisiol i gael adeiladaeth drwyddi.

3. Mae yn llawforwyn fuddiol i'r efengyl oblegid ei bod yn dwyn ei deiliaid i fyny i barchu ei gweinidogaeth, ac i ymarfer yn gyson â'r holl ordinhadau perthynol iddynt. Mae yn dywedyd beunydd am eu dwyfoldeb a'u gwerth, a'r perygl o'u hesgeuluso a'u dirmygu. Mae yn gofyn yn dirion am yr achos pan y gwelo rai o'i deiliaid yn absennol, yn cymhell yn ngwyneb difaterwch, ac yn barod i gynnorthwyo yn ngwyneb tlodi. Dad-seinia mynyddoedd a dyffrynoedd Cymru gan sŵn ei hannogaethau, "Deuwch, ac esgynwn i fynydd yr Arglwydd;" ac y mae ei defaid yn gwrando ar ei llais, ac yn ei chanlyn. Felly yn gyffredin iawn y rhai a welir yn yr ysgol y bore a welir yn y bregeth y prydawn; a'r rhai a welir â'r Bibl yn eu dwyllaw ar y Sabbothau gyda'u dosbarthiadau, sydd yn arfer ei ddarllen ar

hyd yr wythnos gyda'u teuluoedd. Pan y mae eraill fel bwyst-filod gwylltion ac anwaraidd ar ddydd yr Arglwydd, mae ei deiliaid hi fel y meirch yn ngherbydau Pharaoh, a harnais ei dysgeidiaeth a'i dysgyblaeth am danynt, yn cerdded prif-ffyrdd yr ordinhadau gyda chysondeb a harddwch. Hi a'u plana hwynt ar làn afonydd dyfroedd yr efengyl; a thrwy fendith y Goruchaf, hwy a roddant eu ffrwyth yn ei bryd, a'u dalen ni wywa.

Wele gan hyn y dymunwn na byddo i'r forwyn hon gael ei threisio na'i drygu yn Nghymru hyd y diwedd. Cadwer yr eglwysi a'u gweinidogion yn eiddigus drosti âg eiddigedd duwiol, rhag mewn modd yn y byd megys y twyllodd y sarp'h Efa trwy ei chyfrwysdra, felly bod meddyliau neb o'i hathrawon na'i hysgoleigion yn cael eu llygru oddiwrth y symlwydd sydd yn Nghrist. Cofiw'n mai plant yr oes bresennol yw gobaith yr oes a ddaw. Gweler sobrwydd a gwylder yn llywodraethu yr holl ysgolion uwch ben y gair sanctaidd. Gocheler pob ymgecu ynghylch cwestiynau ffol ac anorphen; ac os bydd raid i Timothy ieuanc ddysgu y gwragedd ieuainc, gwnaed hyn gyda phob purdeb. Ac O gweler cymedroldeb a sancteiddrwydd mewn bwyta ac yfed a gwisgo, ac ymhob cyfeillach, yn addurn ar ei deiliaid oll!

Os llawforwyn i'r weinidogaeth yw yr Ysgol Sabbothol, bydded iddi hi edrych llawer ar law ei meistres am addysg, cyfarwyddyd, a chynnorthwy; ymgynghored â'r gweinidogion, a galwed am eu help. Ac os llawforwyn i'r weinidogaeth ydyw, parched hi, ym-ostynged iddi, a glyned wrthi. Na weler hi yn un rhan o'r wlad yn anmharod i roddi ei hamser, ei gorchwylion, a'i chwbl, i fyny i roddi lle i'r weinidogaeth. Gofaled yr holl arolygwyr a'r athrawon am fagu y rhai sydd dan eu gofal i anrhydeddu y weinidogaeth fel y brif ordinhad a osododd Crist yn ei eglwys, ac i edrych ar ei holl weinidogion fel gweision penaf ei deyrnas; ac na weler yr Ysgol Sabbothol yn ei llwyddiant a'i ffrwythlondeb, fel Agar morwyn Sarah, yn diystyru ac yn edrych yn wael ar y rhai, trwy eu hymdrechiadau a'u gweddiâu, a'i rhoddasant yn mynwes y Priodfab nefol.

Treffynnon :

Argraffwyd gan P. M. EVANS & SON.











an 1789

**PLEASE DO NOT REMOVE  
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET**

---

**UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY**

---

BX  
9178  
R44P74  
1872  
CYF. 3  
C.1  
ROBA



